A'r rhai'n i'r Arglwydd drwy r holl dŷ
A ritir yn genedlaeth. E. P.

16. Salm xxiii. 1, 2, 3, 4, 5, 6.

M. S.—Morganwg. Persia.

YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni âd byth eisiau arnaf;
Mi gaf orwedd mewn porfa fras,
Ar lan dwfr gloywlas araf.

2 Fe goledd fʻenaid, ac a'm dwg
'R hyd llwybrau diddrwg, cyfion,
Er mwyn ei enw mawr dilys
Fe'm tywys ar yr union.

3 Pe rhodiwn, nid ofnwn am hyn,
Yn nyffryn cysgod angau;
Wrth gyrchu'r [illegible] a'i nerth a'i ffon;
Onʻd [illegible] ydyw'r arfau?

4 Gosodaist ti fy mwrdd yn fras,
Lle 'r oedd fy nghâs yn gweled;
Olew i'm pen, a chwpan llawn,
Daionus iawn fu 'r weithred.

5 O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd;
A minnau a breswyliaf byth,
A'm nŷth yn nhŷ yr Arglwydd. E. P.

17. Salm xxiv. 1, 2, 3, 4, 5, 9, 10.

M. S.—Trallwm. Bethania.

YR Arglwydd biau 'r ddaear lawr,
A'i llawnder mawr sy'n eiddo;
Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo.

2 Can's ef a roes ei sail a'i gwedd
Yn rhyfedd uwch y moroedd,
Ac a'i gosododd hi yn lân,
Yn drigfan uwch llif-ddyfroedd.

3 Er hyny, pwy a ddringa'n hŷ'
I gyssegr fry yr Arglwydd?
A phwy a saif â theilwng wedd,
Yn ngorsedd ei sanctеiddrwydd?

4 Dyn â llaw lân, a meddwl da,
Ac yn ddidraha 'i enaid,
Diorwag, ac ni roes un tro
Er twyllo 'i gyfneseifiaid.

5 Fe gaiff hwn gan yr Arglwydd wlith
Ei raslawn fendith helaeth,
A bydd cyfiawnder i'r cyfryw,
Gan Dduw yr iachawdwriaeth.

6 Dyrchefwch, byrth, eich penau 'n glau,
Ehengwch, ddorau bythol;
Can's Brenin mawr ddaw i'ch mewn
chwi—
Brenin o fri gogonol.

7 Pwy, meddwch, ydyw 'r Brenin hwn,
A gofiwn ei ogoniant?
Ior lluoedd ydyw, Brenin hedd,
Gogonedd, a phob ffyniant. E. P.

18. Salm xxv. 4, 8, 10, 11.

M. S.—Saxony. Weimar.

DANGOS im, Arglwydd, dy ffordd
A phâr i mi ei deall; [di,
Arwain a dysg fi yn un wedd
Yn dy wirionedd diball.

2 Yr Arglwydd sydd uniawn a da,
A'i flyrdd im noddfa ydynt;
Efe a arwain, fel mae 'n rhaid,
Y pechaduriaid synddynt.

3 I'r sawl a gadwo ddeddfau 'r Iôn,
A'i union dystiolaethau,
Gwirionedd a thrugaredd fydd
Ei lywydd yn ei lwybrau.

4 Er mwyn dy enw, Arglwydd mau,
O! maddeu fy anwiredd;
Can's fy nhroseddiad i mawr yw,
Mwy ydyw dy drugaredd. E. P.

19. Salm xxvi. 1, 2, 3, 6, 12.

M. S.—Dyfrdwy. Persia.

BARN fi, O Dduw! a chlyw fy llais
Mi rodiais mewn perffeithrwydd
Ni lithraf am im roi fy mhwys,
Yn llawnddwys ar yr Arglwydd.

2 Prawf di fy muchedd, Arglwydd da,
A hola ddull fy mywyd;
A manwl chwilia 'r galon fau,
A phrawf f' arenau hefyd.

3 O flaen fy llygaid, wyf ar led,
Yn gweled dy drugaredd;
Gwnaeth dal ar hyny ar bob tro,
Im rodio i'th wirionedd.

4 Mi olchaf fy nwy law yn lân,
Can's felly byddan', f' Arglwydd;
Ac a dueddaf tua'th gôr,
Ac allor dy santeiddrwydd.

5 Fe saif fy nhroed i ar yr iawn,
Ni syfl o'r uniawn droedfedd;
Mi a'th glodforaf, Arglwydd da,
Lle byddo mwya 'r orsedd. E. P.

20. Salm xxvii. 1, 4, 8, 10, 11, 14.

M. S.—Sabbath. Oldenburg.

YR Arglwydd yw fy nefolaidd i gyd,
A'm hiechyd; rhag pwy 'r ofnaf?
Yr Arglwydd yw nerth f' oes; am hyn,
Rhag pwy doi dychryn arnaf?

2 Un arch a erchais ar Dduw Naf,
A hyny a archaf etto:
Cael dyfod i dŷ f' Arglwydd glân,
A bod â'm trigfan ynddo.

3 Fel hyn mae 'nghalon o'm mewn i,
Yn holi ac yn atteb;
"Ceiswch fy wyneb ar bob tro:"
"Fy Nuw, 'rwy 'n ceisio 'th wyneb."

4 Os gwrthyd fi fy nhad a'm mam,
A m dinam gyfneseifiaid,
Ar Dduw gweddïaf: ef, er hyn,
O'i ras a dderbyn f' enaid.

5 Duw! dysg i mi dy ffordd yn rhwydd
O herwydd fy ngelynion;
Ac arwain fi o'th nawddol rad
Yn wastad ar yr union.

6 Disgwyl di wrth yr Arglwydd da,
Ac ymwrola'th galon;
Efe rydd nerth i'th galon di,
Os iddo credi 'n ffyddlon. E. P.

21 Salm xxviii. 1, 6, 7.

M. S.—Silesia. Dyfrdwy.

O ARGLWYDD! erglyw fy llais i,
A derbyn weddi bruddaidd,
Pan godwyf fy nwy law o bell,
Duw, tua 'th gafell sanctaidd.

2 Bendigaid fyddo 'r Arglwydd nef,
Fe glybu lef fy ngweddi;

Yr Arglwydd yw fy nerth a'm rhan,
A'm tarian, a'm daioni.

8 Mi ymddiriedais iddo am borth,
A chefais gymmhorth ganddo;
Minnau o'm calon, drwy fawr chwant,
A ganaf foliant iddo. E. P.

22. Salm xxx. 2, 3, 4, 6.

M. S.—Bethania. Elizabeth.

FY Nuw, pan lefais arnat ti,
Y rhoddaist imi iechyd;
Cedwaist fy enaid rhag y bedd,
A rhag diwedd anhyfryd.

2 Cenwch i'r Iôn, chwi ei holl saint,
A maint yw gwyrthiau'r Arglwydd:
Clodforwch hefyd ger ei fron,
Drwy gofion o'i sancteiddrwydd.

3 Am ennyd fechan saif ei ddig,
O gael ei fodd trig bywyd;
Heno brydnawn wylofain sydd,
Y boreu ddydd daw iechyd. E. P.

23. Salm xxxi. 1, 2, 3, 6, 8, 27.

M. S.—Morganwg. Mary.

MI ymddiriedais ynot, Ner,
Fel na'm gwr'adwydder byth-
oedd;
Duw, o'th gyfiawnder, gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.

2 Gogwydd dy glust ataf ar frys,
O'th nefol lys i waered,
A bydd i mi'n graig gadarn siwr,
'N dŷ a thŵr i'm gwared.

3 Dodaf fy ysbryd yn dy law,
Ac af ger llaw i orwedd:
Da y gwaredaist fi yn fyw,
O Arglwydd Dduw 'r gwirionedd!

4 Mi ymhyfrydaf ynot ti,
Canfuost fi mewn amser;
Ac adnabuost wrth fy rhaid,
Fy enaid mewn cyfyngder.

5 Cymmerwch gysur yn Nuw Iôn,
Ef a rydd galon ynoch;
Ac os gobeithiwch ynddo ef,
Ei law yn gref fydd drosoch. E. P.

24. Salm xxxii. 1, 2, 8.

M. 's.—Trallwm. Dyfroedd Siloah.

Y SAWL sydd deilwng, gwyn ei fyd,
Drwy fadde'i gyd ei drosedd,
Ac y cysgodwyd ei holl fai,
Ei bechod, a'i anwiredd.

2 A'r dyn â gwynfyd Duw a'i llwydd,
Ni chyfri'r Arglwydd iddo
Mo ei gamweddau; ac ni chaed
Dim twyll dichellfrad ynddo.

3 Rhyw loches gadarn wyt i mi,
Rhag ing y'm cedwi'n fyddlon;
Ac amgylchyni fi ar led
A cherdd ymwared gysson. E. P.

25. Salm xxxiii. 3—10, 12.

M. S.—Mary. Oldenburg.

CENWCH i'r Iôr fawl a mawrhâd,
Wiw gerdd o ganiad newydd;
Yn llafar cenwch iddo glod,
Bid parod eich lleferydd.

2 O herwydd uniawn yw ei air,
A ffyddlawn cair ei weithred;
Barn a chyfiawnder ef a'u câr,
A'r ddaear llawn o'i nodded.

3 Gair yr Arglwydd a wnaeth y nef,
A'i Ysbryd ef eu lluoedd;
Efe a gasglai 'nghyd y môr,
A'i drysor yw'r dyfnderoedd.

4 Y ddaear oll, ofned ein Duw,
A phob dyn byw a'i preswyl;
Ei arch a saif, a'i air a fydd,
A hyny sydd i'w ddisgwyl.

5 Ef a ddirymodd (fy Nuw Iôr)
Holl gynghor y cenhedloedd;
A gwna trwy lysiant yn ddi-rym
Amcanion llym y bobloedd.

6 A phob cenhedloedd dedwydd ynt
Os Duw sydd iddynt Arglwydd;
A'i ddewisolion ef a'u gwnaeth
Yn etifeddiaeth hylwydd.

26. Rhan ii. *Adn.* 13, 17, 19—21.

O'R nefoedd fry yr edrych Duw
Ar lwybrau pob rhyw ddynion,
Ac o'i breswylfa edrych ar
Y ddaear a'i thrigolion.

2 Wele lawn olwg Duw a'i wawl,
Maent ar y sawl a'i hofno;
Ac mae'i drugaredd ef ar led
I'r sawl a 'mddiried ynddo.

3 Ein henaid gan yr Arglwydd hael
Sy'n disgwyl cael ei bywyd;
Efe a byrth ein henaid gwan,
Efe yw'n tarian hefyd.

4 Yn unig yn yr Arglwydd Iôn
Mae'n calon yn llawenu;
Ac yn ei enw sanctaidd ef
Mae hon yn gref yn credu.

5 Duw, dy drugaredd dod i ni,
Sef ynot ti y credwn;
Dy nodded a'th drugaredd dod,
Can's ynod ymddiriedwn. E. P.

27. Salm xxxiv. 1, 5—8, 17.

M. S.—Trallwm. Cemmaes.

DIOLCHAF fi â chalon rwydd
I'r Arglwydd bob amserau;
Ei foliant ef, a'i wir fawrhâd,
Sy'n wastad yn fy ngenau.

2 Y sawl a edrych arno ef
A llewyrch nef eglurir:

Ni waradwyddir o hounynt neb,
A'u hwyneb ni ch'wilyddir.

3 Wele y truan a roes lef,
A Duw o'r nef yn gwrando,
Ac a'i gwaredodd o'i holl ddrwg,
A'i waedd oedd amlwg iddo.

4 Angel ein Duw a dry yn gylch
O amgylch pawb a'i hofnant:
Fe'u ceidw hwynt; a llawer gwell
Na chastell fydd eu gwarant.

5 O! profwch, gwelwch, ddaed yw
Yr Arglwydd byw i'w eiddo;
A gwyn ei fyd pob dyn a gred
Roi ei ymddiried ynddo.

6 Ein Duw sydd agos iawn at gur
Y galon bur ddrylliedig;
A da y ceidw ef bob pryd
Yr ysbryd cystuddiedig. E. P.

28. Salm xxxvi. 5, 6, 8, 10.

M. s.—Sabbath. Baden.

DY fawr drugaredd, f' Arglwydd Iôn,
Sydd hyd eithafion nefoedd;
A'th bur wirionedd sydd yn gwau
Hyd y cymmylau dyfroedd.

2 D' uniondeb sydd fel mynydd mawr,
Dy farn fel llawr yr eigion:
Dy nerth fyth felly a barhâ
I gadw dyn a dynion.

3 Cyflawn o frasder yw'r tŷ tau,
Lle llenwir hwythau hefyd,
Lle y cânt ddiod genyt, Iôn,
O flasus afon bywyd.

4 O! estyn etto i barhau,
Dy drugareddau tirion;
Ni a'th adwaenom di a'th ddawn
I'r rhai sydd uniawn galon. E. P.

29. Salm xxxvii. 4, 5, 6, 18, 19, 37.

M. s.—Morganwg. Elizabeth.

YDD di ymsurnu yn dy Dduw,
Ti gei bob gwiw ddymuniad;
Dy ffyrdd cred iddo, yn ddilys,
Fe rydd d'ewyllys atad.

2 Cred ynddo ef, fe'th ddwg i'r lan,
Myn allan dy gyfiawnder;
Mor olcu a'r haul ar hanner dydd,
Fel hyny bydd d' eglurder.

3 Fe edwyn Duw ddyddiau a gwaith
Pob rhai o berffaith helynt;
Ac yn dragywydd Duw a wnaeth
Deg etifeddiaeth iddynt.

4 Efe a'u ceidw hwynt i gyd,
Ni chant ar ddrygfyd wradwydd;
Yn amser newyn, hwy a gânt
O borthiant ddigonolrwydd.

5 Ystyria hefyd y gwir pur,
Ac edrych dŷ 'r cyflawnedd;
Ti a gei wedd cyferyw ddyn,
Mai 'i derfyn fydd tangnefedd. E. P.

30. Salm xxxix. 5, 6, 14, 15.

M. s.—Eidduned. Dymuniad.

O DANGOS im, fy Arglwydd Ner,
Pa amser y diweddaf
Rifedi 'nyddiau; a pha hyd
O fewn y byd y byddaf.

2 Rhoddaist fy nyddiau fel lled llaw
I'm heinioes daw byr ddiwedd;
Diau, yn d' olwg di, O Dduw!
Fod pob dyn byw yn wagedd.

3 O! paid â mi, gâd im gryfhau
Cyn darfod dyddiau 'mywyd;
A gwna â mi sy 'mron fy medd
Drugaredd a syberwyd. E. P.

31. Salm xlii. 1, 2.

M. s.—Saxony. Padarn.

Y R unwedd ag y bref yr hydd
Am yr afonydd dyfroedd,
Felly y mae fy hirneth i
Am danat ti, Dduw'r nefoedd.

2 Fy enaid i, sychedig yw
Am fy Nuw byw a'i gariad;
Pa bryd y dof fi ger dy fron,
Fy Nuw a'm cyflon ynad? E. P.

32. Salm xliii. 2, 3, 4.

M. s.—Dyfrdwy. Persia.

PYDI yw Duw fy nerth i gyd,
Pa ham y'm bwrid ymaith?
Pa ham yr af mor drwm a hŷn
Gan bwys y gelyn diflaith?

2 O! gyr dy oleu, moes dy wir,
Ac felly f'wysir finnau;
Arweiniant fi i'th breswylfeydd,
I'th fynydd, ac i'th demlau.

3 Yna yr af at allor Duw,
Y Duw gorucheâ hyfryd;
Ac ar y delyn canaf fawl
Duw, Duw, fy hawl a'm gwynfyd.
E. P.

33. Salm. xlv. 1, 2, 3, 6.

M. s.—Dyfroedd Siloah. Elizab.

DYRAF i, GODD fy nghalon bethau
I'r Brenin gwna fyfyrdod; [da,
Fy nhafod fel y pin y sydd
Yn llaw 'sgrifenydd parod.

2 Uwch meibion dynion tecaeh wyt,
Tywalltwyd rhâd i'th enau,
Herwydd i Dduw roi arnat wlith
Ei fendith byth a'i radau.

3 Gwregysa'th gleddyf ar dy glun,
O gadarn Gun gogoneddus;
A llyn sydd weddol a hardd iawn,
Mewn llwydd a llawn orfoledd.

6 Dy lân oreseddfainge, O Dduw fry,
A bery o dragywyddoldeb ;
Awdurdod dy deyrnwialen sydd
Mewn nerth, a rhydd uniondeb.

34. Rhan II. *Adn.* 10, 11, 13–17.

CLYW hyn, O ferch ! ac hefyd gwel,
Ac â chlust isel gwrandaw :
Mae'n rhaid it ollwng pawb o'th wlad
A thŷ dy dad yn angof.

2 Yna bydd gan y Brenin wych
Gael edrych ar dy degwch ;
Dy Arglwydd yw, gwna iddo foes,
I gael i'th oes ryfeddwch.

3 A merch y Brenin, glân o fewn,
Anrhydedd llawn sydd iddi ;
A gwisg o aur a gemau glân
Oddi allan sydd am dani.

4 Mewn gwnaith gwê nodwydd y daw hon
Yn wych ger bron ei Harglwydd,
Ac â'i gwyryfon gyda hi
Daw atat ti yn ebrwydd.

5 Ac mewn llawenydd mawr a hedd,
Ac mewn gorfoledd dibrin,
Hwynthwy a ddeuant, wrth eu gwys,
I gyd i lys y Brenin.

6 Dy feibion yn attegion tau
Yn lle dy dadau fyddant ;
Tywysogaethau drwy fawrhâd
Yn yr holl wlad a feddant.

7 Coffâf dy enw di 'nghob oes
Tra caffwyf einioes imi ;
Am hyn y gobleddi a rydd fawl
Byth yn dragwyddol iti. E. P.

35. Salm xlvi. 1, 7.

M. S.—Sabbath. Oldenburg.

GOBAITH a nerth in yw Duw hael,
Mae help i'w gael mewn cyfwng ;
Daear a mynydd, aent i'r môr,
Nid ofnaf f'angor deilwng.

2 Y mae yr Arglwydd gyda ni,
Ior anfeirif luoedd ;
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
Yn help wrth raid o'r nefoedd. E. P.

36. Salm xlviii. 1, 12, 13.

M. S.—Persia. Cemmaes.

MAWR ei enw'n ninas cin Duw,
A hynod yw yr Arglwydd ;
A'i drigfan ef yno y sydd
Yn mynydd ei sancteiddrwydd.

2 Ewch, ewch oddiamgylch Seion sail,
A'i thyrau adail rhifwch ;
Ei chadarn fur a'i ph'lasau draw
I'r oes a ddaw mynegwch.

3 Can's ein Duw ni byth yw'r Duw hwn,
Hyd angeu credwn yndda ;
Hyd angeu hefyd hwn a fydd
Yn dragywydd i'n t'wyso. H. P.

37. Salm xlix. 10, 15.

M. S.—Dymuniad. Eidduned.

GWELIR mai'r bedd yw lletty'r doeth,
Y ffol a'r annoeth hefyd ;
Marw yw'r naill a marw yw'r llall,
I arall gâd ei annedd.

2 Daw dydd i'r cyfiawn, tranoeth teg,
Daw im ychwaneg estyn,
Daw im o'r bedd godiad i fyw,
Deheulaw Duw a'm derbyn. E. P.

38. Salm l. 2, 5, 14.

M. S.—Sabbath. Oldenburg.

O SEION fryn y daeth Duw Naf,
Hon sydd berffeithrwydd ddoeth,
Mewn tegwch a goleuni mawr,
A llewyrch gwawr o'i gwmpas.

2 O ! cesglwch ataf fi fy saint,
Y rhai, drwy gyddrefniad hyd'rfyth,
A wnaethant ammod â myfi,
A'i rhwymo hi drwy aberth.

3 Do oglud dod ar Dduw yn drwm
A thâl yr offrwm penaf ;
Can ei fawl ef, a dod ar lâ
D' adduned i'r Goruchaf. E. P.

39. Salm ll. 1, 2, 7, 8.

M. B. C.—Wirksworth. Aberhonddu.

TRUGAREDD dod i mi,
Duw, o'th ddaioni tyner ;
Tŷn ymaith fy anwiredd mau
O'th drugareddau lawer.

2 A golch fi yn llwyr ddwys
Oddi wrth fawr bwys fy meiau ;
Fy Arglwydd ! gwna i bur lan fyfi
Rhag brynti fy nghamweddau.

3 Ag isop golch fi'n lân.
Ni byddaf aflan mwyach ;
Byddaf fi o'm golchi fel hyn
Fel eira gwyn, neu wynach.

4 Pâr imi weled hedd,
Gorfoledd a llawenydd,
I adnewyddu f'esgyrn i,
A ddrylliaist ti â cherydd.

40. Rhan II. *Adn.* 10, 11, 12, 15, 17, 18

DUW, crea galon bur,
Dod imi gysur beunydd ;
I fyw yn well tra fwy'n y byd,
Dod ynof ysbryd newydd.

2 O Dduw ! na ddyro chwaith
Fi ymaith o'th olygon ;

Ac na chymmer dy Ysbryd Glân
Oddi wrthyf, druan gwirion.

3 Gorfoledd dwg i mi
Drwy roddi im dy iechyd;
A chynnal â'th ysbrydol ddawn
Fi i fyw'n uniawn hefyd.

4 Duw! agor y min mau,
A'm genau mi a ganaf, [nerth,
O Arglwydd! gerdd o'th fawl a'th
Fel dyna'r aberth penaf.

5 Aberthau Duw i gyd
Yw ysbryd pur drylliedig;
Ac ni ddiystyri, O Dduw Iôn!
Y galon gystuddiedig.

6 Bydd dda wrth Scion fryn,
O Arglwydd! hyn a fyni;
Ac wrth Caersalem, dy dref tad,
A gwna adeilad arni. E. P.

41. Salm lvii. 1, 5.

M. S.—Dymuniad. Eidduned.

DY ras, dy nawdd, fy Nuw, im dod,
Sef ynod ymddiriedaf;
Nes myned heibio'r aflwydd hyn,
Dan d'edyn ymgysgodaf.

2 Ymddyrcha, Dduw, y nef uwch law,
Oddi yno daw d'arwyddion;
A bydded dy ogoniant ar
Y ddaear a'i thrigolion. E. P.

42. Salm lxi. 1, 2, 3, 4.

M. S.—Dymuniad. Caersalem.

ERGLYW, O Dduw! fy llefain i,
Ac ar fy ngweddi gwrando;
Rhof lef o eithia'r ddaear gron,
A'm calon yn llesmeirio.

2 Dwg fi i dalgraig uwch na mi,
Ac iddi bydd i'm derbyn:
Can s craig o obaith, twr di-fôst,
Im fuost rhag y gelyn.

3 O fewn dy babell y bydd byth
Fy nhrigfan dilyth, dedwydd,
A'm holl ymddiried a fyn fod
Yn nghysgod dy adenydd. E. P.

43. Salm lxii. 5, 6, 7, 8.

M. S.—Persia. Bethania.

FY enaid, dod, er hyn i gyd,
Ar Dduw dy fryd yn ddyfal;
Ynddo gobeithiaf fi er hyn,
Efe a'm tyn o'm gofal.

2 Yn Nuw yn unig mae i gyd
Fy iechyd a'm gogoniant;
Fy nghraig yw, a'm cadernid maith,
A'm gobaith yn ddilysiant.

3 Gobeithiwch ynddo; ger ei fron
Tywelltwch galon berffaith,
Ac ymddiriedwch tra foch byw,
A d'wedwch, Duw yw'n gobaith. E. P.

44. Salm lxiii. 3, 4, 5, 7.

M. S.—Morganwg. Cemmaes.

DY faith drugaredd, O Dduw byw,
Rhagoraeh yw na'r bywyd;
A'm genau rhoddaf i ti fawl,
A cherdd ogonawl hyfryd.

2 Felly tra fyddwyf byw y gwnaf,
Ac felly 'th folaf etto,
Ac yn dy enw di sydd gu
Y caf ddyrchafu 'nwylo.

3 Digonir f'enaid fel â mêr,
A chyflawn frasder hefyd,
A'm genau a gân y moliant tau,
A phur wefusau hefyd.

4 Ac am dy fod yn gymmhorth im,
Drwy fawr rym dy drugaredd,
Fy holl orfoledd a gais fod
Yn nghysgod dy adanedd. E. P.

45. Salm lxv. 1, 2, 4.

M. S.—Morganwg. Dyfrdwy.

I TI, O Dduw! y gweddai mawl
Yn y sancteiddiawl Seion;
I ti y telir, trwy holl gred,
Bob gwir addunedu calon.

2 Pawb sydd yn pwyso atat ti,
A wrendy weddi dostur;
Ac atat ti y daw pob cnawd
Er mwyn gollyngdawd llafur.

3 Dy etholedig, dedwydd yw,
Caiff nesnes fyw i'th babell;
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
A'th sanctaidd weddus ganghell.

46. Rhan ii. *Adn.* 6, 7, 9, 10, 11, 13.

DUW a sierhâ bob uchel fryn
A'i wregys yn gadernid;
Hwn a ostega'r môr a'i don,
A rhuad eigion enbyd.

2 Dyfrhau y ddaear seeh yr wyt,
Dy afon lanwyd drosti;
Darperaist lifddwr hyd ei llawr
I'w thramawr gyfoethogi.

3 Pob rhych yr wyt yn ei ddyfrhau,
A'i ch'wysau'r wyt i'w gostwng;
A'i rhoi yn mwyd mewn cawod wlith,
I'w chnwd rhoi fendith deilwng.

4 Coroni'r ydwyt ti fel hyn
Y flwyddyn â'th ddaioni,
Ac yn dy gariad, Duw fy Nêr,
Diferaist frasder arni.

5 Drwy'th fendith di, y gwastad-dir
A guddir oll â defaid;
Crechwenant, canant bawb ynghyd,
A'r wlad âg ŷd ei llonaid. E. P.

47. Salm lxvii. 1, 3, 4, 5, 6, 7.

M. B. C.—Wirksworth. Aberhonddu.

TRUGAREDD Duw i'n plith,
A rhoed ei fendith drosom,
Tywyned byth ei wyneb pryd,
Ei nawdd a'i iechyd arnom.

2 Duw, moled pobloedd di,
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd,
A'r holl genhedloedd is y nen
A fyddant lawen hyfryd.

3 Can's ti a ferni'n iawn
Y bobl trwy lawn wybodaeth,
Ac a roi'r holl genhedloedd ar
Y ddaear mewn llywodraeth.

4 Duw, moled pobloedd di,
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd,
Yna y tir rydd ffrwyth i'n plith,
A Duw ei fendith hefyd.

5 A Duw, sef Duw ein Tad,
A roddo'i rad a thyciant,
A holl derfynau'r ddaear gron,
A phawb ar hon a'i hofnant. E. P.

48. Salm lxviii. 19, 26, 28—30.

M. S.—Mary. Baden.

BENDIGAID fyth fo'r Arglwydd mau,
Am ddoniau ei ddaioni,
A'i iachawdwriaeth i ni'n llwyth,
O bèr ffrwyth ei haelioni.

3 Clodforwch Dduw: hyny sydd dda,
Yn mhob cyn'lleidfa ddiwael,
A chenwch fawl yr Arglwydd lôn,
Chwi sydd o ffynnon Israel.

3 Dy Dduw a drefnodd iti nerth,
A'i law sydd brydferth geidwad;
Duw, cadarnhâ etto yn faith
Arnom ni waith dy gariad.

4 Er mwyn Caersalem, adail deg,
Rhydd cedyrn anrheg i ti;
Dyfethi dyrfa'r gwaywffyn,
A'r rhai a fyn ryfelu.

5 Y pendefigion o'r Aipht draw
A ddaw, ac Ethiopia,
At Dduw yn brysur i roi rhodd,
Ac aberth gwirfodd yma.

6 Chwi holl deyrnasoedd daear lawr,
I Dduw mawr cenwch foliant;
Cydgenwch iddo glod yn rhwydd,
Sef Arglwydd y gogoniant. E. P.

7 Ofnadwy ydwyt ti a'th arch,
Teilwng o barch y bobloedd;
Duw Israel rydd nerth wrth raid,
Bendigaid yn oes oesoedd. P. W.

49. Salm lxxi. 1, 2, 3, 9.

M. S.—Caersalem. Padarn.

MI ymddiriedaist ynot, Nêr,
Na'm gwaradwydder bythoedd;
Duw, o'th gyfiawnder gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.

2 Duw, bydd yn graig o nerth i mi,
I gyrchu ati'n wastad;
A phâr fy nghadw i yn well,
Ti yw fy nghastell cacad.

3 Nac esgeulusa fi a'm braint
Yn amser henaint egwan;
Er pallu'r nerth, na wrthod fi,
Duw, edrych di ar f' oedran.

4 Fy ngobaith innau a saif byth,
Yn ddilyth a safadwy;
Ymddiried ynot, Dduw, a wnaf,
Ac a'th foliannaf fwyfwy. E. P.

50. Salm lxxii. 1—7, 12.

M. S.—Morganwg. Elizabeth.

DUW, dod i'r Brenin farn o'r nef,
Dod i'w Fab ef gyfiawndeb;
Yna y rhydd rhwng pobl iawn frawd
Ac i'r dyn tlawd uniondeb.

2 Hedd a chyfiawnder yn ol hyn,
Geir yn mhob bryn a mynydd;
Y gwan a'r llesg achub a wna,
Fe ddryllia y gorthrymydd.

3 Byth hwy a'th ofnant ar bob tro,
Tra treiglo haul a lleuad;
Fe ddisgyn fel gwlaw ar wellt glas,
Neu gawod fras ar wastad.

4 I'w ddyddiau ef cerir yr iawn,
A'r cyfiawn a flodeua;
Ac aml fydd hedd ar ddaear gron,
Tra fo lloer hon yn para.

5 Can's y dyn rheidus a'r gŵr gwan,
Fe'i gweryd pan weddio;
Bydd i bob dyn yn nerthol dŵr,
A'r ni bo pleidiwr ganddo.

51. Rhan ii. *Adn.* 16—19.

'RHYD pen y mynydd ŷd a gân,
Fel brig coed Liban siglant;
A'r plant, cyn amled a'r gwellt glas,
O'r ddinas a flagurant.

2 Os haul cylch wybren byth a dry
Byth pery enw iddo;
Pawb a'i bendithiant ef yn wir,
Pawb a fendithir ynddo.

3 Bendigaid fo yr Arglwydd Dduw,
Sef Duw yr Israel dirion;
Ef byth yn unig sy'n parhau,
I wneuthur gwyrthiau mawrion.

4 Bendigaid fyddo'i enw byth,
Gogonedd dilyth iddo;

A'i glod trwy 'r ddaear fyddo 'n ben,
Amen, Amen, hyn fyddo. E. P.

52. Salm lxxiii. 25, 26.

M. s.—Persia. Cemmaes.

PA'M? pwy, O Dduw! sydd genyf fi,
Ond tyd: yn y nefoedd?
Dim ni ddymunwn gyda thi,
Wrth weini daear leoedd.

2 Fy nghalon i, a'm nerth, a'm cnawd,
Y sydd mewn palldawd beunydd;
Ond tydi, Dduw, sydd ar fy rhan,
A'm tarian yn dragywydd. E. P.

53. Salm lxxvi. 1, 2.

M. s.—Trallwm. Oldenburg.

YN Iudah ac yn Israel dir,
Adweinir ein Duw cyfion;
Ei babell ef yn Salem sydd,
A'i breswyl fydd yn Seion.

2 Fe ddrylliodd yno'r bwa a'r saeth,
A'r frwydr a wnaeth yn ddiannau;
A thorodd ef yn chwilfriw mân.
Bob tarian a phob cleddau. E. P.

54. Salm lxxvii. 1, 2, 3, 7, 8, 10, 13, 19.

M. s.—Persia. Aberystwyth.

FY llais at Dduw, pan roddais lef,
Fy llais o'r nef fe'i clybu;
A'm llais gweddiodd ar Dduw Nêr,
Pan oedd blinder yn tarddu.

2 Y dydd y rhedai 'mriw, a'r nos
Ni pheidiai achos llafur;
Mewn blin gyfyngder gwn fy mod,
A'm hoes yn gwrthod cysur.

3 Yna y cofiwn Dduw a'i glod,
Pan syrthiai drallod enbyd;
Yna gweddiwn dros fy mai,
Pan y terfysgai f' ysbryd.

4 Ai yn dragywydd cilia'r Iôn?
A fydd ef boeddfoi anwyach?
A ddarfu byth ei nawdd a'i air?
A gair ei addaw bellach?

5 Marwolaeth im yw'r meddwl hwn?
A throis yn grwn i gofio
Ei fawr nerth gynt; ceiio a wnaf
Waith y Goruchaf etto.

6 O Dduw! pa Dduw sydd fel tydi,
Dy ffordd di sydd sanctaiddiol;
Dengys dy waith dy nerth i'r byd,
Pâr i ni i gyd dy ganmol.

7 Yn eigion môr mae y ffordd dau,
A'th lwybrau mewn deifr sugnedd;
Ac nid adweinir byth mo'th ôl,
Yn dy anfeidrol fawredd. E. P.

55. Salm lxxviii. 1, 5, 6, 7, 8.

M. s.—Dyfrdwy. Siosiis.

FY mhobl i gyd gwrandewch fy neddf,
A doed fy ngreddf i'ch calon;
Clust ymostyngwch a'm genau,
I ystyr geiriau ffyddlon.

2 Pelly gosod mynodd ef fod co:
Yn llaeth, ac i'r llynaf
Yn Israel ddysgu i'w plant
Ozonant y Goruchaf.

3 Gobeithio yn Nuw, cofio ei waith,
Y sydd fel rhaith eneidiol;
I gadw'i ddeddf o oes i oes,
Y wers hon roes Duw'n rheidiol.

4 Rhag ofn myn'd o'r genhedlaeth hyn
Yn gyndyn a rasaidd,
A chalon wan a ysbryd gwael,
Heb afael gyda'i Llywydd. E. P.

56. Salm lxxx. 3, 8, 14, 19.

M. s.—Padarn. Minden.

LLEWYRCHA 'th wyneb, dychwel Duw, ti a'n cadwai'n cyfion, Iôn. Duw'r lluoedd, cyn o'n gwaeddi ni, Pa hyd y sori wrthyn?

2 Dygaist o'r Aipht winwydden fr,
Rhoist iddi dir i dyfu:
A'i nefi gen'ssa'r wlad o'i hun man.
Troist allan cyn ei phlanu.

3 O Dduw y lluoedd! edrych, gwêl,
A dychwel i ymg'leddu
Y winllan hon, a blenaist di
A'th law, a'i rhoddi i dyfu.

4 A dychwel etto ni i fyw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd!
Tywyna arnom d'wyneb pryd.
Ni a gawn iechyd bythoedd. E. P.

57. Salm lxxxiv. 1—5, 7, 10, 11, 12.

M. s.—Morganwg. Mary

DY babell di mor hyfryd yw,
O Arglwydd byw y lluoedd;
Mynych chwennychais weled hon,
Rhag mor dra thirion ydoedd.

2 Mae f' enaid i, fy Iôn, mewn blys,
I'th gyssegr lys dieddu;
Fy nghalon i, a'm holl gnawd yw
Yn Nuw byw'n gorfoleddu.

3 Aderyn tŷ a gafodd dŷ,
A'r wennol fry i'w chywion,
Le wrth dy allor di i'w trin,
Fy Nuw a'm Brenin tirion.

4 Gwyn fyd yr hwn drig yn dy dŷ,
Caiff dy foliannu dragwyn:
Ac ynot ti sy'n cadarnhau,
A'th lwybrau yn eu calon.

5 Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth
Nes enel yn brydferth ddyfod
I gymdeithgas i Dduw ger os fron
Yn Seion ei breswylfod.

6 Gwell yw na mil un dydd i'th dŷ.
Am hyny mwy dewisol
Im fod ar funiog y drws tŷ,
Na phlassu yn annuwiol

7 Sef hanl a tharian yw Duw mád,
A rydd rad a gogoniant;
Ni lestair ef ddaioni maith
I'r rhai a berffaith rodiant.

8 O Arglwydd Ddaw y lluoedd mawr!
Anfon i lawr dy gymmorth:
Dedwydd yw'r dyn a roddo i gred,
A'i holl ymddiried ynod. E. P.

58. Salm lxxxv. 1—9.

M. s.—Saxony. Arenig.

DA wyt i'th dir, Iehofa Nêr,
Dychwelaist gaethder Iago;
Maddeuaist drawsedd dy bobl dlawd.
Mae'u camwedd wedi ei guddio.

2 Tynaist dy lid oddi wrthym ni,
Troist dy ddigllonl awchlym;
O Dduw ein nerthl tro ninnau'n well,
A'th lid bid bell oddi wrthym.

3 Ai byth y digi wrthym ni?
A seri di byd ddiwedd?
A saif dy lid o oes i oes?
Duw, gwrando, moes drugaredd.

4 Pam? oni throi di a'n bywhau,
A llawenhau yr eiddot?
O dangos in dy nawdd mewn pryd,
Felly cawn iechyd ynot.

5 I'r rhai a ofnant Arglwydd nef,
Mae'i iechyd ef yn agos;
Felly y caiff gogoniant hir,
O fewn ein tir ni aros. E. P.

59. Salm lxxxvii. 3, 5, 6.

M. s.—Cemmaes. Bethania.

O DDINAS Duw, preswylfa'r lôn,
Mawr ydyw'r son am danad!
A gogoneddus air it sydd,
Uwch law trigfeydd yr hollwlad.

2 Dywedir hyn am Seion bêr,
Fe anwyd llawer ynddi,
Nid ambell un; can's swcwr de
Yw Duw Goruchaf iddi.

3 Fe rydd yr Arglwydd yn ei rif
Y neb fo cytrif honо;
Efe a esyd hyn ar led,
Sef, Hwn a aned yno. E. P.

60. Salm lxxxix. 7, 8, 13, 14.

M. s.—Trallwm. Oldenburg.

TRWY gynnulleidfa ei saint ef,
Duw nef y sydd ofnadwy;
A thrwy'r holl fyd o'n hamgylch ni,
Ei ofni sydd ddyladwy.

2 Pwy sydd yn debyg it, Dduw byw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd?
Yn gadarn lôr, a'th wir i'th gylch,
O amgylch yr holl nefoedd.

3 I'th fraich mae grym, mae nerth i'th law,
A'th gref ddeheulaw codi;
Nawdd a barn yw dy orsedd hir,
A nawdd a gwir a geri.

4 Yn d'ymyl eiriol di y cânt
Fawl a gogoniant beunydd;
Yn dy gyntawnder codi wnant,
Ac felly byddant ddedwydd.

61. Ruan ii. *Adn.* 19, 20, 26—29.

I'TH Sanct dywedaist, hyn a ddaeth,
Drwy weledigaeth nefol:—
Gosodais gymmhorth ar gryf Gun,
Dyrchefais un dewisol.

2 Cefais, 'eneiniais ef yn ol
Fy ngwas dewisol, Dafydd,
Ag olew sant; breich a llaw gref
Rois gydag ef yn llywydd.

3 Ef a weddïa arnaf fi
I'w g'ledi, gan ddywedyd,
Tydyw fy Nhad, fy Naw, fy Nghraig,
Yn gadarn o'm hieuengctid.

4 Minnau gwnaf yntau im yn Fab,
Yn Gynfab ac Etifedd,
Ar holl frenhinoedd daear las
Yn uwch ei ras a'i fawredd.

5 A chadwaf i'r fath yr un wedd
Drugaredd yn dragwyddol,
A'm hammod gadwaf iddo'n llawn,
Yn ffyddlawn ac yn nerthol.

6 Gosodaf hefyd heth i'w hâd
Nerth a mawrhâd uwch bydoedd;
A'i orsedd gref fydd i barhau
Un wedd a dyddiau'r nefoedd. E. P.

62. Salm xc. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 12—14.

M. s.—Dymuniad. Saxony.

DUW, tuost ti yn Arglwydd da,
Ac yn breswylfa i drigo;
O bryd i bryd, felly yr aeth
I'ob rhyw genhedlaeth heibio.

2 Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
Cyn llunio llawr cwmpas-fyd,
Duw o dragwyddol wyt cyn neb,
Hyd dragwyddoldeb hefyd.

3 Weithiau i ddinystr y troi ni,
Ac wedi'n troi yn noddfa;
A d'wedi cyn ein myn'd i'r llwch,
Dychwelwch, feibion Adda.

4 Can's deg can mlynedd fel doe ynt,
Pan elo'i helynt heibio,
O'th flaen fi megys gwyliau nos.
Ni chaiff ymddangos etto.

5 Nid yw dyn ond fel hûn, neu sûl
I addail, neu lefeirjant,
Neu megys glas lysienyn gwan,
Mor fuan y newidiant.

6 Yr hwn y boreu gwyrddlas fydd,
A gwawr o newydd arno;
Ond pan y torer ef brydnawn,
Yn fuan iawn mae'n gwywo.

7 Dyag felly'n rifo'n dyddiau gwael,
I'n calon gael doethineb;
O Dduw! pa hyd? tyr'd, dod yn hawdd
I'th weision nawdd ac undeb.

8 Yn foreu iawn diwalla ni
A'th fawr ddaioni eisoes,
Fel caffo'n calon lawen fyd,
Yn hyfryd dros ein heiniocs. E. P.

63. Salm xci. 1, 2, 4, 14.

M. S.—Morganwg. Persia.

Y SAWL a drigo, doed yn nes,
Yn lloches y Goruchaf;
Ef a ymerys i gael bod
Yn nghysgod hwn sydd benaf.

2 Fy holl amddiffyn wyt, a'm llwydd,
Wrth f' Arglwydd y dywedaf,
A'm holl ymddiried, tra fwyf byw
Sydd yn fy Nuw Goruchaf.

3 Ei esgyll drosot ef a rydd,
Dan ei adenydd byddi
Yn ddiogel; a'i wirionedd glân
Fydd gylch a tharian iti.

4 Mi a'i gwaredaf ef rhag brad,
Am roi ei gariad arnaf;
Am iddo adwaen f'enw mau,
Yn ddiau y dyrchafaf.

5 Arnaf y geilw, a'i wrandaw wnaf,
Mewn ing y byddaf barod;
Gwaredaf hefyd rhag ei gas,
A chaiff trwy urddas fawrglod. E. P.

64. Salm xcii. 1, 12, 13.

M. S.—Morganwg. Bethania.

MOLIANNU 'r Arglwydd, da iawn yw,
A chyfarch Duw yn benaf,
A chanu i dy enw fawl,
A'th ganmawl, y Goruchaf.

2 Y cyflawn a flodeua i'r nen,
Fel y balmwyddcn union;
Yn iraidd yn cynnyddu y bydd,
Fel cedrwydd yn Libanon.

3 Y rhai a blanwyd yn nhŷ Dduw,
Yn goedwydd byw y tyfant;
Ac yn nghynteddau ein Duw ni,
Y rheini a flodeuant. E. P.

65. Salm xcv. 1, 2, 3.

M. S.—Sabbath. Dyfrdwy.

O DDOWCH a chanwn i'r Arglwydd,
Efe yw llwydd ein bywyd;
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
Ef yw ein prydferth iechyd.

2 O! down yn unfryd ger ei fron,
A chalon bur ddiolchgar;
Brysiwn at Dduw dan lawenhau,
A chanwn salmau'n llafar.

3 O herwydd Arglwydd nef a llawr
Y sy Dduw mawr yn ddiau;
Tywysog mawr yw ef mewn trin,
A Brenin yr holl dduwiau. E. P.

66. Salm c.

M. H.—Yr Hen 100fed.

I'R Arglwydd cenwch lafar glod,
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd;
Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Trigolion y ddaear i gyd.

2 Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw,
A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod
Nid ni'n hunain; ei bobl ŷm ni,
A defaid rhi' ei borfa a'i nôd.

3 O! ewch i'w byrth â diolch brau,
Yn ei gynteddau molwch ef;
Bendithiwch enw Duw hynod,
Rhowch iddo glod trwy lafar lef.

4 Can's da yw'r Arglwydd, Awdwr hedd;
Da ei drugaredd a di-lyth;
A'i wirionedd i ni a roes,
O oes i oes a bery byth. E. P.

67. Salm cii. 13, 14.

M. S.—Cemmaes. Llandilo.

O! CYFOD bellach, trugarhâ,
O Dduw! bydd dda wrth Seion:
Mae 'n amser wrthi drugarhau,
Fel dyma'r nodau'n union.

2 Can's hoff iawn gan dy weision di
Ei meini a'i magwyrau;
Maent yn tosturio wrth ei llwch,
Ei thristwch a'i thrallodau.

3 Pan adeilader Seion wych,
A hon yn ddrych i'r gwledydd;
Pan weler gwaith yr Arglwydd no',
Y molir e'n dragywydd.

4 Hyn fydd pan gasglo pawb ynghyd,
Yn unfryd i'w foliannu;
Yr holl deyrnasoedd, dônt yn ngŵydd
Yr Arglwydd, i'w was'naethu. E. P

68. Salm ciii. 1, 2, 11, 12, 13.

M. S.—Mary. Cemmaes.

I'M enaid, mawl Sanct Duw yr Iôn,
A chwbl o'm heigion ynof;
Fy enaid, n'âd fawl i' Arglwydd nef,
Na'i ddoniau ef, yn anghof.

2 Yr hwn sy'n maddeu dy holl ddrwg,
Yr hwn a'th ddwg o'th lesgedd;
Yr hwn a weryd d'oes yn llon,
Drwy goron o'i drugaredd.

3 Cyhyd ag yw'r ffurfafen fawr
Oddi ar y llawr o uchder,
Cymmaint, i'r rhai a'i hofnant ef,
Fydd nawdd Duw nef bob amser.

4 Os pell yw'r dwyrain oleu hin
Oddi wrth orllewin fachlud,

Cyn. helled ein holl bechod llym,
Oddi wrthym ef a'i symmud.

5 Ac fel bydd mawdd, a serch, a chwant,
Tad dà i'w blant naturiol,
Felly cawn serch ein Tad o'r nef,
Os edifeiriwn ei yn ddiwiol. E. P.

69. Salm civ. 1, 2, 5, 6, 9, 24.

M. s.—Persia. Morganwg.

FY enaid, molà'r Arglwydd hyw;
O'r Arglwydd, Dduw y mawredd!
Mawr wyt, gwisgiedig wyt a gei dà,
Ynawis ei ag urddedd.

2 Megys ei ddillad y gwisg fo
Am dano y goleuad;
Rhydd yn ei gylch yr wybr ar dân,
Yn llydan, fel llen wastad.

3 Cref y rhoes sail y ddaear gron,
Fel na syll hon oddi yno;
A'r hon a bery fel y rhoes
O oes i oes heb siglo.

4 Tydi, O Dduw! ddilleidaist hon
A'r eigion yn fantellau;
Ac oni bai dy ddeheu-law,
Ai'r deifr uwch law y bryniau.

5 Gosodaist derfyn lle'r arhônt,
Ac fel nad elont drosto,
Ac fel na ddelont byth dros lawr
Y ddaear fawr, i'w chuddio.

6 O Dduw! mor ryfedd yw dy waith,
O'th synwyr berffaith dradoeth!
Gwnaethost bob peth â doethder dawn,
A'r tir sydd lawn o'th gyfoeth. E. P.

70. Rhan ii. *Adn.* 28, 30, 31, 33.

DUW, pan agorech di dy law,
Oddi yno daw daioni;
Pob anifail, a phob rhyw beth,
A ddaw yn ddifeth ini.

2 A phan ollyngech di dy râd,
Fel rhoddi cread newydd;
Y modd hyn wyneb yr holl dir
A adnewyddir beunydd.

3 Yr Arglwydd gogoneddus fydd,
Trwy fawr lawenydd cyfnoedd;
Yr Arglwydd yn ddiau a fedd
Orfoledd yn y nefoedd.

4 Canaf i'r Arglwydd yn fy myw,
Canaf i'm Duw tra fyddwyf;
Ymlawenychaf yn fy Iôn,
Bydd ffyddlon hyn a wnelwyf. E. P.

71. Salm cvii. 1, 2, 4—9, 22.

M. s.—Baden. Dyfroedd Siloah.

MOLWCH yr Arglwydd,can's da yw,
Moliennwch Dduw ein llywydd;
O blegid ei drugaredd fry
A bery yn dragywydd.

2 Y gwaredigion canent fawl,
I Dduw gerdd nodawl gyssonn;
Y sawl achubwyd caned hyn,
O law y gelyn creulon.

3 Drwy yr anialwch wyrdraws hynt,
Y buasent gynt yn crwydro,
Allan o'r ffordd; heb dref na llan,
Lle caent hwy fan i drigo.

4 Drwy newyn, syched, bu'r daith hon
A'u calon ar lewygu;
Ar Dduw y galwent y pryd hyn,
Pan oeddyn' yn mron trengu.

5 Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
O'u holl ortrivnasaeth foddion;
'Rhyd yr iawn ffordd fe'u dwg mewn hedd,
I dref gyfannedd dirion.

6 Addefent hwythau ger ei fron
Ei fwynion drugareddau;
Ac er plant dynion fel y gwnaeth
Yn helaeth ryfeddodau;

7 Ddiwallu o hono einioes dyn,
Rhag newyn a rhag syched;
Ac o'i fawr ras eu cadw i gyd,
Pan oedd y byd yn galed.

8 Aberthant hefyd aberth mawl
I'w ogoneddawl fawredd;
Mynegu wnant ei waith a'i wyrth,
Yn ei byrth mewn gorfoledd. E. P

72. Rhan ii. *Adn.* 23—32.

Y RHAI a ant mewn llongau i'r don
A'u taith uwch mawrion ddyfroedd,
A welsant ryfeddodau'r Iôn,
A hyn mewn eigion moroedd.

2 A'i air cyffroi dymhestloedd gwynt,
Y rhai a godynt donau;
Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
Ac ofn bob awr rhag angau.

3 Gan ysgwyd a phendroi fel hyn,
Dull meddwyn, synai arnynt;
Ar Dduw mewn ing y rhoisant lef,
Daeth ef â chymmhorth iddynt.

4 Gwnaeth e'r ystorm yn dawel deg,
A'r tonau'n osteg wastad;
Yn llawen ddistaw doent i'r lan,
I'r man y bai'u dymuniad.

5 Addefent hwythau ger ei fron
Ei fwynion drugareddau,
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
Yn helaeth ryfeddodau.

6 Holl gynnulleidfa ei bobl ef,
Clod Duw hyd nef dyrchafant,
Holl eisteddfeydd penaethiaid hen
Yn llawen a'i moliannant. E. P.

73. Salm cx. 1, 3, 4, 5, 6, 7.

M. S.—Silesia. Oldenburg.

DYWEDAI Iôn wrth ŵ Arglwydd
Ar fy llaw ddehau eistedd, ⌈mau,
Nes rhoddi'r rhai a gais dy waed
Yn faingc i'th draed i orwedd.

2 Yn nydd dy nerth dy bobl a ddaw,
Ag aberth llaw'n 'wyllysgar;
Yn sanctaidd hardd daw'r cynnyrch
O wlith y borau hawddgar. ⌈mau,

3 Yr Arglwydd dyngodd, ac ni wâd,
Ti sy'n Offeiriad byth hol,
Wrth urdd Melchisedec o fry,
A bery yn dragwyddol.

4 Yr Arglwydd ar dy ddeheu law
Brenhinoedd draw a friwa;
Brenhinoedd cryfion, uchel frig,
Yn nydd ei ddig archolla.

5 Ar y cenedloedd rhydd farn mawr,
A'u gwlad gwna'n llawn celanedd;
A llawer pen dros wledydd mawr
A dŷr i lawr yn unwedd.

6 O wir frys i'r gyflafan hon,
Fe ŷf o'r afon nesa'
A gaffo ar ei ffordd yn rhwydd,
A'r Arglwydd a'i dyrchafa. E. P.

74. Salm cxi. 1, 4, 5.

M. S.—Trallwm. Oldenburg.

CLODFORAF ŵ fy Arglwydd Iôn,
O 'wyllys calon hollol;
Mewn cymmulleidfa ger eu bron,
Mewn tyrfa gyflon rasol.

2 Yr Arglwydd a wnaeth ei goffâu
Am ryfeddodau nerthol;
Can's Arglwydd noddfawr yw i ni,
Llawn o dosturi grasol.

3 Ef i bob rhai a'i hofnant ef,
Rydd gyfran gref at fywyd;
Ac yn dragywydd y mŷn fod
Cof o'i gyfammod hefyd. E. P.

75. Salm cxiii. 1—9.

8. 8. 8.—Nashville.

CHWI, weision Duw, molwch yr Iôn,
Molwch ei enw â llafar dôn,
Bendigaid fyddo ei enw ef;
O godiad haul hyd fachlud dydd,
Mawr enw'r Iôn moliannus fydd
Yn y byd hwn ac yn y nef.

2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,
A'i foliant aeth uwch nef i gyd:
Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni?
Yr hwn a breswyl yn y nef,
I'r ddaear hon darostwng ef;
Gwel ef ein cam, clyw ef ein cri.

3 Yr hwn sy'n codi'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i drueni trwch,
I'w gosod uwch penaethiaid hwd;
I'r ammhlantadwy mae'n rhoi plant,
Hil teg, a thrylwyth, a llwyddiant:
Am hyn moliennwch Dduw i gyd.
E. P.

76. Salm cxiv. 1—8.

8. 8. 8.—Nashville.

PAN ddaeth Israel o'r Aipht gynt,
A thŷ Iago o estron iaith,
Judah oedd ei sancteiddrwydd ef,
Israel oedd benaethiaeth Iôr;
Gwelodd hyn a chiliodd y môr,
A throes i'w hol Iorddonen gref.

2 Neidiai'r mynyddoedd megys hyrdd,
A'r bryniau fel ŵyn llament ffyrdd,
Cawsant wastadeddi fel llawr dol.
Cilsaist, O fôr! dywed pa ham?
Tithau, Iorddonen, latfraidd lam,
Pa'm y dadredaist dithau'n d'ol?

3 Chwychwi, fynyddoedd, pa'm y ffoech
Fel hyrddod? a pha'm nad arhoech?
A chwithau fryniau fel ŵyn mân?
Am mai rhaid ofni Duw Iago,
Yr hwn sy'n troi'r graig yn llyn tro,
A'r callestr yn ffynnon ddwfr glân
E. P.

77. Salm cxv. 1, 11, 14.

M. S.—Persia. Bethania.

NID i ni, Arglwydd—nid i ni,
Y deuir y gogoneddi;
Ond i'th enw dy hun yn hawdd,
Er mwyn dy nawdd a'th wiredd.

2 Y rhai sy'n ofni'r Arglwydd Iôn,
Rhowch arno'ch union hollfryd;
Efe yw'r neb a'ch dwg i'r lan,
Eich porth a'ch tarian hefyd.

3 Yr Arglwydd arnoch, arnoch chwi,
A wna ddaioni amlach;
Ac a chwanega ar eich plant
Ei fwyniant yn rymusach. S. P.

78. Salm cxvii. 1, 2.

M. S.—Silesia. Dyfrdwy.

O! CENWCH fawl i'r Arglwydd nef,
Molwch ei enw ef trwy'r byd,
Chwithau i gyd, y bobloedd.

2 Am ei fod ini yn dda inwn,
Yr Arglwydd llawn trugaredd;
A'i air ef sydd yn parhau byth,
Sef ei ddiffyth wirioneddi. E. P.

79. Salm cxix. 9, 11, 12, 13, 14, 17, 18, 29, 30, 33.

M. S.—Dyfrdwy. Silesia.

PA fodd, O Dduw! y ceidw llanco
Sydd ieuange ei holl lwybrau?
Wrth ymgadw yn ol dy air,
Pob llwybr a gair yn olau.

2 I'm calon cuddiais dy air di,
Rhag i mi bechu yn d'erbyn;
A [illegible]
O! dysg i mi d'orchymynion.

3 Dy gyflawn farn, a'r gwir air tau,
A mawl gwefusau traethais;
A'th dystiolaethau di i gyd,
Uwch holl dda'r byd a hoffais.

4 Bydd dda i'th was, a byw a wna,
A'th air a gadwa'n berffaith;
A'm llygaid agor di ar led
I weled rhin dy gyfraith.

5 O'th nawsni [illegible] ffordd
A dysg im ddeddfau crefydd; [gau,
Dewisais ffordd gwirionedd; hon
Sydd ger fy mron i beunydd.

6 Duw! ffordd dy ddeddfau dysg i mi,
Dros f'einioes hi a gadwaf;
O! par im ddeall y ddeddf hon,
O'm calon fe'i cyflawnaf.

80. Rhan II. *Adn.* 35, 44, 49, 50, 57, 58, 67, 68.

O'M genau na ddwg dy air gwir,
[illegible]
Minnau'n wastadol cadwaf byth
Dy lân wehelyth gyfraith.

2 Cofia i'th was dy air a'th raith,
Lle rhois fy ngobaith arno,
Yn d'air mae 'nghysur i i gyd,
Yr hwn mae 'mywyd ynddo.

3 Ti, Arglwydd, wyt i mi yn rhan,
Ar d'air mae f'amcan innau;
Gweddiais am nawdd ger dy fron,
O'm calon 'nol dy eiriau.

4 Cyn fy nghystuddio awn ar gam,
Yn awr [illegible]
Da iawn a graslawn ydwyt ti,
O! dysg i mi dy gyfraith!

81. Rhan III. *Adn.* 97, 102, 103, 105, 106, 111, 145, 146, 169, 170.

MOR gu, O Arglwydd! genyf fi,
Dy ddeddf di a'th gyfammod;
Ac ar y rhai'n, o ddydd i ddydd,
Y bydd fy holl fyfyrdod.

2 Ni chiliais rhag dy farnau di,
Can's ti a'm dysgaist yneddyn:
Mor beraidd genyf d'eiriau iach;
Na'r mêl melusach ydynt.

3 Dy air i'm traed i llusern yw,
A llewyrch gwiw i'm llwybrau;
Mi dyngais, a chyflawnaf waaf,
Y cadwaf dy lân ddeddfau.

4 Cym'rais yn etifeddiaeth lân
Byth weithian dy orch'mynion,
O herwydd mai hwynthwy y sydd
Lawenydd i fy nghalon.

5 Llewyrcha'th wyneb ar dy was,
Dysg i mi dâs dy ddeddfau;
Dagrau o'm llygaid lifo wnant,
Na's cadwant dy gyfreithiau.

6 Llefais á'm calon oll, O! clyw,
A'th ddeddfau, Duw, a gadwaf
Arnat y llefais, achub fi,
A'th lwybrau di a rodiaf.

7 O'th flaen di, Arglwydd, doed fy nghri,
Dysg i mi ddeall d'eiriau;
Gwared fi'n ol d'ymadrodd rhad,
Dèl atad fy ngweddiau. E. P.

82. Salm cxxi. 1—8.

M. s.—Morganwg. Persia.

DI SGWYLIAF o'r mynyddoedd draw
Lle daw im help 'wyllysgar;
Yr Arglwydd rydd im gymmhorth
Hwn a wnaeth nef a daear. [gref,

2 Dy droed i lithro, ef nis gâd,
A'th Geidwad sydd heb huno;
Wele, dy Geidwad, Israel lân,
Heb hûn na hepian arno.

3 Ar dy law ddeheu mae dy Dduw,
Yr Arglwydd yw dy Geidwad;
Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
A'r nos ni'th rydd i'r lleuad.

4 Yr Iôn a'th geidw rhag pob drwg,
A rhag pob niwed arall;
Cei fyn'd a dyfod byth yn rhwydd,
Yr Arglwydd yw dy Geidwad. E. P.

83. Salm cxxii. 1, 2, 3, 7.

M. s.—Cemmaes. Morganwg.

I DY'R Arglwydd pan dd'wedent,
Awn,
Im llawen iawn oedd gwrando;
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,
Yr un ni syrth oddi yno.

2 Caersalem lân, ein dinas ni,
Ei sail sydd ynddi ei hunan;
A'i phobl sydd ynddi yn gyttûn,
A Duw ei hun a'i drigfan.

3 O fewn dy gaerau heddwch boed,
I'th lysoedd doed yr hawddfyd;
Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
A'm cymmydogion hefyd. E. P.

84. Salm cxxv. 1, 2.

M. s.—Dyfrdwy. Bethania.

SAWL a 'nddiriedant yn Nuw Iôn,
Byddant fel Seion fynydd,
Yr hwn ni syfl; a'i sylwedd fry
A bery yn dragywydd.

2 Fel y saif sail Caersalem fry
A'i chylchu mae mynyddoedd;
Felly yr Arglwydd yn gaer sydd
Dragywydd o'i amgylch ei bobloedd. E. P.

85. Salm cxxvii. 1, 2, 3.

M. s.—Dyfroedd Siloah. Persia.

Y TY nid adeiladoʻr Nêr,
A'n ofer waith y seiri;
A'r ddinas hon nis ceidw fo,
Ni thycia gwylio ynddi.

2 Os boreu godi, os hûn hwyr,
Os byw trwy lwyr ofidio,
Ofer i gyd: Duw a rydd hûn
I bob rhyw un a'i caro.

3 Wele, y plant a roir i ddyn,
Hiliogaeth ynt i'r Arglwydd;
Ac o'i rodd ef daw ffrwyth y bru,
I'w magu mewn sancteiddrwydd.

E. P.

86. Salm cxxx. 1—8.

M. s.—Silesia. Dyfrdwy.

O'R dyfnder gelwais arnat, fôn;
O Arglwydd tirion! gostwng
Dy glust, ystyria y llais mau,
Clyw fy ngweddiau teilwng.

2 Duw, pwy a saif yn d' wyneb di,
Os creffi ar anwiredd?
Ond fol y'th ofner di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.

3 Disgwyliais f' Arglwydd, wrth fy rhaid,
Disgwyliodd f' enaid arno;
Rhois fy holl obaith yn ei air,
Fy enaid gair yn effro.

4 Ac am yr Arglwydd gwylio y bydd
Fwy na gwyliedydd difri'
A edrych blygain bob pen awr,
A welo'r wawr yn codi.

5 Un wedd disgwyliod Israël
Yn ddirgel am yr Arglwydd;
Can's mae nawdd gyda'r Arglwydd
Mae ynddo ef rywiogrwydd. [nef,

6 Ei drugareddau ant ar led,
Fe rydd ymwared ini;
Fe weryd Israël fel hyn,
Fo'i tŷn o'i holl ddrygioni. E. P.

87. Salm cxxxii. 8, 9, 13—15.

M. s.—Dyfrdwy. Silesia.

O ARGLWYDD! cyfod i dy lys,
A'th arch o rymus fawredd;
Gwisged d' offeiriaid gyfiawn fraint,
Gwisged dy saint wirionedd.

2 Can's fy Arglwydd, o serch a bodd,
A rag-ddewisodd Seion;
I drigo ynddi rhoes ei fryd,
Gan dd'wedyd geiriau tirion.

3 Hon fyth fydd fy ngorphwysfa i,
O hoffder ynddi trigaʻ;
Bendithiaf hi â bwyd diball,
A'i thlawd diwall o fara. E. P.

88. Salm cxxxiii. 1, 2, 3.

M. s.—Sabbath. Bethania.

WELE, fod brodyr yn byw ʻnghyd,
Mor dda, mor hyfryd ydoedd!
Tebyg i olew o fawr werth
Mor brydferth ar y gwisgoedd.

2 Fel pe disgynai draw o'r nen,
Hyd farf a phen offeiriad,
Sef barf Aaron, a'i wisg i gyd,
Yn hyfryd ei arogliad.

3 Fel pe disgynai gwlith Hermon
Yn dô dros Seion fynydd,
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwlith
Ei fendith yn dragywydd. E. P.

89. Salm cxxxiv. 1, 2, 3.

M. s.—Sabbath. Bethania.

WELE holl weision Arglwydd nef,
Bendithiwch ef lle'r ydych
Yn sefyll yn nhŷ Dduw y nos,
A'i gyntedd diddos trefnwych.

2 Dyrchefwch chwi eich dwylaw glân
Yn ei gyssegrlan annedd;
A bendithiwch â chalon rwydd
Yr Arglwydd yn gyfannedd.

3 Yr Arglwydd, â'i ddeheulaw gref,
Hwn a wnaeth nef a daear;
A roddo ei fendith a'i ras
I Seion, ddinas hawddgar. E. P.

90. Salm cxxxv. 1, 2, 5, 14.

M. s.—Sabbath. Bethania.

O! MOLWCH enw'r Arglwydd nef,
Ei weision ef moliennwch;
Y rhai a saif i'w dŷ a'i byrth
I'n Duw a'i fawrwyrth cenwch.

2 Can's mawr yw'r Arglwydd yn ei lys,
Mi wn yn bysbys hyny; [mân
Yn mhell uwch law'r holl dduwiau
Mae'r Arglwydd glân a'i allu.

3 Can's ar ei bobl rhydd ef farn,
Yr Arglwydd cadarn cyfion;
Ac yn ei holl lywodraeth bur,
Bydd dostur wrth ei weision. E. P.

91. Salm cxxxvi. 1, 2.

M. s.—Sabbath. Bethania.

MOLWCH yr Arglwydd, can's da yw
Moliennwch Duw y llywydd;
Can's ei drugaredd oddi fry
A bery yn dragywydd.

2 Molwch chwi Dduw y duwiau 'n rhwydd,
Ac Arglwydd yr arglwyddi;
Hwn unig a wnaeth wyrthiau mawr
Trwy ei ddirfawr ddaioni.

3 Yr hwn wnaeth oleuadau mawr
O'r nef hyd lawr â'i fawredd;
Yr haul y dydd, a'r lloer y nos,
I ddangos ei drugaredd.

4 Dug Israel i'r lan yn wych,
Mewn hyfryd ddrych gorfoledd:
Ysgytiodd y gelynol lu,
A hyn fu o'i drugaredd.

5 Hwn yn ein cystudd cofiodd ni,
O'i fawr ddaioni tirion,
Ac a'n bachubodd yn ddiswrth
Oddi wrth ein holl elynion. E. P.

92. Salm cxxxviii. 1, 2, 3.

M. S.—Dyfroedd Siloah. Dyfrdwy.

RHOF fawrgloddi fi, fy Nuw Ion,
O ddyfnder calon canaf;
Ac yn ngwydd holl angylion nef,
A'm hoslef y'th foliannaf.

2 Ymgrymaf tua'th sanctaidd dŷ,
Dan ganu o'th drugaredd,
A'th enw mawr uwch haw pob peth,
A'th air difeth wirionedd.

3 Y dydd y gelwais arnat ti,
Gwrandewaist fi yn fuan;
Yno y nerthaist â chref blaid,
Fy enaid i oedd egwan. E. P.

93. Salm cxxxix. 1—4, 12, 16, 23.

M. S.—Saxony. Môn.

ARGLWYDD, manwl y chwiliaist fi,
Da y'm hadwaeni hefyd;
Eisteddiad, codiad, gwyddost hyn,
A'm meddwl cyn ei ddwedyd.

2 Yr wyt ynghylch fy lloches i,
A'm ffyrdd i ti sy'n hysbys;
Does air nas gwyddost ti ei fod
Ar flaen fy nhafod ofnus.

3 Nid dim tywyllach nos i ti
Nac yw goleuni heddyddi:
A'r ddau i ti maent yr un dull,
Y tywyll a'r goleuddydd.

4 Dy lygaid gwelsant fy nhrefn wael
Cyn i mi gael perffeithlun;
'Roedd pobpeth yn dy lyfr yn llawn
Cyn bod yn iawn un gronyn.

5 Duw! prawf fy meddwl pa beth yw,
Oes ffordd annuwiol gen i,
Gwel fi, a thywys, dwg fi'n ol,
Dod ffordd dragwyddol imi. E. P.

94. Salm cxli. 1, 3, 8.

M. S.—Dymuniad. Minden.

O BRYSIA, Arglwydd! clyw fy llais
O brysur gelwais arnat;
O'r man lle bwyf, gwrando fy llef,
A doed i'r nef hyd atat.

2 O Arglwydd! gosod, rhag gair ffraeth,
Gadwraeth ar fy ngenau;
Rhag im gamdd'wedyd, gosod ddôr
Ar gyfor fy ngwefusau.

3 Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,
Duw, arnat ti dy hunan;
O! bydd di'n unig yn fy mhlaid!
Na fwrw f'enaid allan. E. P.

95. Salm cxliv. 3, 4, 12—15.

M. S.—Saxony. Arenig.

PA beth yw dyn, dywed, O Dduw!
Pan fyddit i'w gydnabod?
A mab dyn, pa beth ydyw fo
Pan fych am dano'n darbod?

2 Pa beth yw dyn? peth yr un wedi
A gwagedd, 'does o hono;
A'i ddyddiau'n cerdded ar y rhôd,
Fel cysgod yn myn'd heibio.

3 Ein meibion boed fel planwydd cu,
O'r bôn yn tyfu'n iraidd,
A'n merched megys ceryg nâdd
Mewn conglau neuadd sanctaidd.

4 A'n conglau'n llawnion o bob peth,
A'n defaid, difeth gynnydd,
Yn filoedd—mawr yw'r llwyddiant
A myrddiwn i'n heolydd. [hwn—

5 A'n hychen cryfion dan y wôdd
Yn hywedd, ac yn llonydd,
Heb dôr na soriant i'n mysg ni,
Na gwaeddi i'n heolydd.

6 Dedwydd yw'r bobl hyny sy
A phobpeth felly ganddynt;
Bendigaid bobl y rhai'n yw
Yr Arglwydd yn Dduwiddynt. E.P

96. Salm cxlv. 1, 8—10, 15, 16, 21.

M. S.—Sabbath. Bethania.

MI a'th fawrygaf di, fy Nuw,
Can's tydi yw fy llywydd;
Bendithio d' enw byth a wnaf,
A molaf e'n dragywydd.

2 Sef graslawn yw ein Harglwydd ni,
Ac o dosturi rhyfedd;
Hwyr ac anniben yw i ddig,
Llawnfrydig i drugaredd.

3 Da yw yr Arglwydd i bob dyn,
A'i nodded sy'n dycnnmol;
Ac ar ei holl weithredoedd ef
Daw nawdd o'r nef yn rasol.

4 Dy holl weithredoedd di i'th lwydd,
O Arglwydd! a'th gloddfanai;
Dy wyrth, pan welo dy saint di,
Y rheini a'th fendithiant.

5 Wele, mae llygaid yr holl fyd
Yn disgwyl wrthyt, Arglwydd;
Tithau a'u porthi hwynt i gyd,
Bawb yn ei bryd yn ebrwydd.

6 A phan agorech di dy law,
O honi daw diwallfaeth;
D' ewyllys da yw ymborth byw,
A hyny yw eu lluniaeth.

7 Fy enaid traethed fendith rwydd,
A mawl yr Arglwydd nefol;
A phob cnawd rhoed i'w enw, y Sant,
Ogoniant yn dragwyddol. E. P.

97. Salm cxlvi. 1, 2, 6, 10.

M. s.—Trallwm. Oldenburg.

1 Y enaid, mola'r Arglwydd nef,
Mi a'i molaf ef i'm bywyd;
Dangosaf glod i'm Harglwydd Dduw
Tra gallwyf fyw na symmud.

2 Hwn Dduw a wnaeth nef, daear, môr,
A'r holl ystôr sydd ynddynt;
Hwn a saif yn ei wir ei hun,
Pryd na bo un o honynt.

3 Yr Arglwydd yn teyrnasu a fydd,
Dy Dduw tragywydd, Seion;
O oes i oes pery dy lwydd;
Molwch yr Arglwydd tirion. E. P.

98. Salm cxlviii. 1—13.

M. s.—Sabbath. Mary.

1 O MOLWCH yr Arglwydd o'r nef!
Rhowch lef o'r uchel leoedd;
Molwch chwi, holl angylion uef,
Molwch ef ei holl lucedd.

2 Yr haul, a'r lleuad, a'r holl sêr,
Y gloewder, a'r goleuni,
Nef y nefoedd, a'r ffurfafen,
A'r deifr uwch ben y rheini.

3 Moliannant enw'r Arglwydd nef.
Hwynt â'i air ef a wnaethpwyd;
Dwedodd y gair, a bwy fel hyn
Ar ei orchymyn grewyd.

4 Rhoes reol iddynt i barhau
Fel deddfau byth i'w dilyn;
Rhoes bob peth yn ei le'n ddios,
Nad elo dros ei derfyn.

5 Molwch yr Arglwydd o'r ddaear,
Chwychwi ystrywgar ddreigiau;
Y tân, y cenllysg, ira, a tharth,
A'r gwynt o bob parth yntau.

6 Mynyddoedd, bryniau, ffrwythlawn
A'r tirion gedrwydd brigog, [wydd,
'Nifeiliaid a'r ymlusgiaid maes,
Ac adar llaes eseillog.

7 Brenhinoedd daear, barnwyr byd,
Swyddwyr, ynghyd â'r bobloedd,
Yr ieuaingc yn eu nerth, gwŷr heal,
Pob bachgen yn mhob oesoedd.

8 Molant ei enw ef ynghyd,
Uchel a hyfryd ydoedd;
Ei enw ef fydd uchel ar
Y ddaear oll, a'r nefoedd. E. P.

99. Salm cxlix. 1, 2.

M. s.—Sabbath. Mary.

1 CENWCH i'r Arglwydd, ac iawn fydd,
Ryw ganiad newydd ryfedd;
A chlywer yn nghyn'lleidfa'r saint,
Ei fawrfraint a'i orfoledd.

2 Boed Israel lawen a ffraeth
Yn Nuw a'i gwnaeth yn ddilbrin;
A byddant hyfryd, plant Seion,
Yn Nuw, eu tirion Frenin. E. P.

100. Salm cl. 1—6.

M. s.—Sabbath. Oldenburg.

1 MOLWCH Dduw yn ei gyssegr lan,
Sef ei ffurfafen nerthol;
Molwch ef am gadernid llyn,
Ac amlder grym rhagorol.

2 Rhowch ar lais adgarn y mawl hyn,
Ar nabl, telyn, tympan;
Molwch chwi ef â lawen-sŵn eleu,
A thannau, pibell, organ.

3 Ar y symbalau, molwch ef,
A'r rhai'n a'u llef yn seingar;
O! molwch ef â moliant clau
Ar y symbalau llafar!

4 Pob peth, meliumant un Duw byth,
Sydd ynddynt chwyth y bywyd;
Rhoent gydgerdd foliant i barhau,
Clodforwn ninnau hefyd. E. P.

HYMNAU.

AM DDUW.

101. *Cadernid cyfammod Duw.*

10au.—Clod. Navarre.

CYFAMMOD hedd, cyfammod cadarn Duw,
Ni syfl o'i le, nid ie a nage yw:
Cyfammod gwir, ni chyfnewidir
chwaith;
Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

2 Cyfammod rhad, o drefniad Un yn Dri,
Hen air y llw a droes yn olew i ni:
Mae'n ddigon cry'n rodi fyny'n fyw:
Ei rym a hyd yw holl ewfredd Duw.

3 Cyfammod cry'—mwy nis dirymir dim!
'Does byd na beidd mo'r un ni rydd
ryw':
Diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd;
Nid sigla mae, fel gwrthun luthau'r byd.

4 'Does bwlch yn hwn, fel medrwy'n
gwrn y mae;
A'i glwm mor glos, heb os ac oni bae:
Nid ail a ganir ddim gwerth u eu
meddiant mwy;
Mae gan Dduw gylch, a'u deil, o'u
hamgylch hwy.

5 Er lliffaro i'r llaid, a llygru defaid
Duw,
Cyfammod sy i'w rodi fyny'n fyw,
A goleu; gwir en holl gleddyd hwy,
A'u dwyn o'r bedd heb ddim anwiredd mwy. E. J.

102. *Arfaeth Duw.*

10au.—Navarre. Clod.

CYN llunio'r byd, cyn llediu'r nefoedd wen, [ben,
Cyn gosod haul, na lloer, na ser uwch
Fe drefnwyd gordd yn nghynghor Tri yn Un
I achub ewael, gollediq, euog ddyn.

2 Trysorwyd gras, ryw anherfynol stôr, [môr;
Yn Iesu Grist cyn rhoddi deddf i'r
A rhedeg waseth benditliion arfaeth ddrud,
Fel nfon gwir lifeiriel dros y byd.

3 Mae'r udgorn mawr yn seinio'n awr i ni [fari;
Ollyngiod llawn trwy'r lawn ar Gal-
Mawl yn mhob iaith trwy'r ddaear faith a fydd,
Am angeu'r groes, a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd. P. J.

103. *Duw yn Benarglwydd da.*

10au.—Coburg. Clod.

EIN deddfwr, Duw, nid dim ond da a hair,
Holl in y nef yn llon a wnant ei air:
Ardderchog le! ni thorant byth mo'i
gyrch; [parch.
Pel hyn trwy'r byd oi 'wyllys fo mewn

2 Arfaethau Duw ynt unlawn, doeth, a da;
Ei gynglior saif, a'i holl ewyllys wna:
O oes i oes, meddylian calon Iôr
Sydd lawer trech na chedyrn donau'r môr.

3 Fy enaid, cais arfaethau gras di drai,
Bwriliw Nef yres Iesu dros dy fai:
O'i fewnaid of mewn'r clwyf llo mae dy
A'th gwrieid di o gros yno byth. [nyth,

4 Os trefnodd sionii dy amcanion hoff,
Ac i ti fyn'd i'r bywyd mwy yn gloff,
Na chwyna ddim; yr un Penarglwydd
yw
A drefnodd i ti gwrdd âg ef, a byw.

5 "Dy fam ni fyraf," medd fy Nefol Dad: [rhad:
"Gweinyddaf i ti fwy na'r byd yn
Dan nob ofyw loes, gwrandawaf ar
dy gri,
Cyfranog fyddi o'm sancteiddrwydd i,

6 "Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?" [darn:
Y pryfyn dyn ni wêl o'm gwaith ond
Duw doeth nid all, Duw da ni wna,
un cam: [nam.
Fe ddengys ei holl fwybrau yn ddi

7 Ymgrymaf mwy, dan holl flinderau'r llawr, [mawr:
I'r hwn a eistedd byth yn Frenin

Ni flinodd neb o'i fodd e.· dechreu'r byd; [naan glyd.
Mae'n dwyn ei blant o'u poen i'r Ga-

8 Ewyllys Iôn a gaffo mwy fy nghlod;
I'an ddelo drwg, pan fyddo da heb ddod, [sydd Dduw;
Fy nghân gaiff fod, Yr Arglwydd, ef
Rhued y storm, fy Nhad sydd wrth y llyw. D. Cs.

104. *Y Drindod.*

M. H.—Yr Hen 100fed. Beza.

UN wyt, fy Nuw, ac etto Tri,
Dirgelwch yw rhy fawr i mi;
Gog'uwch tragwyddol, felly'th gair
Wedi'th ddadguddio yn dy Air.

2 Pan gilio ffwrdd gysgodau'r hwyr,
A'r llên i'r llawr ei rhwygo'n llwyr,
Fe allai ceir, trwy lewyrch gwell,
I ganfod mwy i'r dyfnder pell.

3 Fel d'wed dy Air, fy nyled yw
Credu dy hanfod di, fy Nuw;
Anghofio'm rheswm—mae'n rhy wan;
Ni fedd ef nerth i'm tynu i'r lan.

4 Pob priodoledd faith ddi ball
A geir yn un geir yn y llall;
Fy Nhad, fy Iesu, a'r Ysbryd cûn,
Sydd Dduw; ni feddaf etto ond Un.

5 A chan y Drindod yma mae
Yr unig allu i'm hiachau;
Tair swydd yn angeurheidiol sy
Cyn gallu'm dwyn i'r nefoedd fry:

6 Rhaid oedd fy newis gan y Tad,
A'r Iesu farw droswy'n rhad,
A'r Ysbryd i gymmhwyso i gyd [w.
Ei iachawdwriaeth werthfawr ddrud.

105. *Y Creawdwr a'r Llywiawdwr.*

M. H.—Yr Hen 100fed. Winchester.

CLODFORWCH Frenin nefoedd fry;
Fe'n Arglwydd yr arglwyddi sy;
Creawdwr bywyd pawb a'u bod,
Fe sydd, fe fydd, fe oedd erioed.

2 Creawdwr y ffurfafen fawr,
Sy'n hongian uwch y ddaear lawr,
Yr haul, y lloer, y sêr, y sy
Yn gwibio 'n entrych nefoedd fry.

3 Fe sy'n berchenog ar y stor,
Mewn awyr, daear, dŵr, a môr;
Yr holl gre'duriaid mân, a'u hil,
Sy'n eiddo ef ar fryniau fil.

4 Dal sylw craff mae ar bob un,
Gan chwilio dyfnder calon dyn;
'Does neb trwy'r greadigaeth fawr
Nas gwyr ei feddwl ef bob awr.

5 Myn barch, ac idd ei enw glod, [bod;
Oddi wrth bob gweithred sydd yn
Ei fawr ogoniant dd.·g i bon
O uffern ac o'r nefoedd wen.

6 Mae moroedd a mynyddoedd maith
Yn seinio maes mewn eglur iaith;
A'r holl greaduriaid o bob rhyw
Sy'n d'weyd mai rhyfedd iawn yw Duw. W.

106. *Digonolrwydd Duw.*

M. H.—Angels' Hymn. Lancasster.

'NAWR boddlawn wyf, can's digon yw
Dy fod yn eiddo i mi, fy Nuw;
Yn t'wynu yn dy wyneb pryd
Mae mwy na holl drysorau'r byd.

2 Dy gariad sy arnaf eisieu o hyd,
Dy gariad wy'n ddymuno i gyd;
Fy mwyd a'm diod oll yn wir,
A'm iechyd, yw dy gariad pur.

3 Y nef ei hun yw'r man bôst ti,
A lle na bôst yw uffern ddu;
Am hyn yn holl droadau'r llawr
Boed f'enaid gyda'm Iesu mawr.

4 Pan allwyf gredu, ond yn wan,
Dy fod dy hunan imi'n rhan,
Mae hyn yn troi fy mhoen o'r bron
Yn rhyw lawenydd tan fy mron;

5 Pan bwyf yn wan gwna hyn fi'n gryf,
A phan bwy'n ofni gwna fi'n hyf;
Pan byddwy'n rhwym fe'm gwna yn rhydd;
Fath rinwedd yn dy gariad sydd. W.

107. *Golwg ar Dduw.*

M. H.—Lancaster. Caernarfon.

O N'ALLWN godi 'm henaid gwan
I'r nefol baradwysaidd fan!
Lle cawn i wel'd mewn munyd awr
Fwy na thrysorau'r ddaear fawr.

2 Mae golwg arnat ti, fy Nuw,
Yn drysor ddigon tra fwyf byw;
Mae golwg arnat ti dy hun
Yn dweyd mor salw ydyw dyn.

3 Pan gafwyf wel'd dy wyneb pryd
Mae'n darfod freiniaethau'r byd;
Pob enw dan yr awyr las
Sy'n myn'd yn ddim yn ngoleu'th ras.

4 O! Frenin mawr, tragwyddol, cûn,
Wyt oll yn oll, wyt oll yn un;
Rho imi wel'd dy hyfryd wedd;
Ni cheisiaf fwy tu yma i'r bedd. W.

108. *Llawenychu yn Nuw.*

M. H.—Beza. Lancaster.

O ARGLWYDD! pa fath bleser sy
Yn awr gan y nefolaidd lu,
Pan mae dyferion bychain iawn
Yn rhoddi 'n henaid llesg yn llawn!

2 Pan byddom ni yn cael mwynhâd
O'r pethau brynwyd â dy waed,

Mae'r amser yn myn'd heibio 'n glau
Dan ganu a than lawenhau.

3 Ond os troi di dy wyneb pur,
A chuddio'r haul ddisgleirwen glir,
Mae galar, gruddfan trist, a gwae,
Yn cario'r dydd ar lawenhau.

4 O beth i'r llall cyrwydro wnawn,
Heb gael llonyddwch fore a nawn;
Rho, Iesu, 'th gariad i ni'n rhodd,
Ac yna byddwn wrth ein bodd. w.

109. *Duw yn cynnal.*

M. H.—Beza. Sebastian.

DUW yw fy Nhad, boed iddo'r clod
Am iddo 'ngharu cyn fy mod;
Cryf yw fy Nghyfaill i, a'm Pen,
A'm gwlad artrefol sy uwch y nen.

2 Fry mae fy nhrysor pur dilyth,
A'r goron gaf fi wisgo byth;
Fe sugnodd nefoedd Duw fy mryd,
Nes wyf yn ddyeithr yn y byd.

3 Myrdd o fy mrodyr anwyl sy
Yn gorphwys yn y nefoedd fry;
'Nghyfeillion goreu sydd mewn hedd,
Yn canu'r ochr draw i'r bedd.

4 Hyd yma 'm deliaist drwy dy ras;
Duw! dal fi etto o hyn i maes;
Cryfhâ fy ysbryd ar fy nhaith,
I lanio dros ddyfnderoedd maith.

5 Mi ddringais greigydd er yn wan;
Rhyfeddu'r wyf p'odd des i'r lan;
Tebygol fod fy mhwys i fry,
Yn ddirgel ar f' Anwylyd cu. w.

110. *Neb ond Duw.*

M. H.—Babilon. Melindwr.

RHO imi wel'd mai ti yw'm hedd,
A llwyr ddifyru ar dy wedd,
A chym'ryd d'eiriau gwerthfawr drud
Yn unig bleser yn y byd.

2 Gâd i mi gael dy Ysbryd pur
Yn gyfaill yn yr anial dir;
Fel byddo dy holl gyfraith lym
Yn felus ac yn hyfryd im.

3 Pan welych fi yn crymu 'mhen
At ryw wrthddrychau is y nen,
O! dangos im na thâl yr un
I'w garu byth ond ti dy hun!

4 O! cwyd fi o'r pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan;
A dangos i'r annuwiol ryw
Na feddaf gyfaill ond fy Nuw.

5 Na fydded i'r llifeiriant mawr
I soddi'm henaid gwan i lawr;
Ac na chaed cystudd byth fy nhrin
Heb ei gyfeillach ef ei hun. w.

111. *Disgwyliad wrth Dduw.*

M. H.—Leipsic. Brynteg.

O! NAC ymguddia, f' Arglwydd cun,
Oddi wrth fath bryfyn gwael ei lun,
Sy'n teithio trwy bob poen a gwae,
Yn methu beunydd dy fwynhau.

2 Dy bresennoldeb sy mor fawr
Yn llanw'n hollol nef a llawr;
Ond heb gael gwel'd dy wyneb cu,
Pa gysur ydyw hyn i mi?

3 Mi welais wedd dy wyneb gwyn
Mewn dirgel loesdd do, cyn hyn;
'R un syched heddyw, a'r un cais,
Sydd ynof am dy hyfryd lais.

4 A gaf ond hyny wel'd dy wedd?
Ond hyny broll o dy hedd?
Dy heddwch sydd mor fawr ei rym,
Mae'm nerth i hebddo'n myn'd yn ddim.

5 Pa bryd gwasgara'r t'wyllwch du,
Cymmylau o anobaith cry'?
A'r boreu wawr i d'wynu'n rhad
O bur gynteddau tŷ fy Nhad? w.

112. *Duw yn unig yn fwynhâd.*

M. H.—Winchester. Lledrod.

Y MAN bech di, fy Arglwydd mawr,
Yn rhoi dy nefol hedd i lawr,
Mae holl hapusrwydd maith y byd,
A'r nef ei hunan yno i gyd.

2 Nid oes na haul, na sêr, na lloer,
Na daear fawr, a'i holl ystôr,
Na brawd, na chyfaill, da na dyn,
A'm boddia hebot ti dy hun.

3 'Dyw'r gair 'maddeuant' imi ddim,
Nid oes mewn gweddi ronyn grym,
A llais heb sylwedd ynt i gyd,
Heb imi wel'd dy wyneb pryd.

4 Na soniwch am un pleser mawr,
Na dim gogoniant ar y llawr;
Nid oes gogoniant o un rhyw,
Na phleser arall ond fy Nuw.

5 Pan byddo'n cuddio ei wyneb cu,
Beth wna teganau'r byd i mi?
Rhith a breuddwydion, diau yw
Pob peth a welir ond fy Nuw.

6 Os collaf wedd ei wyneb pryd,
'Does dim wna iawn o fewn i'r byd;
'Does dim yn bod o'r ddae'r i'r nen
A ddwg y golled hon i ben. w.

113. *Duw yn ngoleuni y groes.*

M. H.—Winchester Yr Hen 100fed.

DUW! er mor eang yw dy waith,
Yn llanw'r holl greadigaeth faith,
'Does dim trwy waith dy ddwylaw oll
At gadw dyn fu gynt ar goll.

2 Dyma lle mae d'anfeidrol ras
Hyd eitha'n cael ei daenu i maes;
A holl lyth'renau d'enw gawn
Yn cael eu dangos yma'n llawn.

3 Ar Galfari, rhwng dae'r a nef,
Llewyrchodd ei ogoniant ef;
Un haul ymguddiodd y prydnawn,
A'r llall a wnaed yn eglur iawn.

4 Nid oedd ond gwaed 'sgrifennai i gyd
Ddyfnderoedd mawr anfeidrol lid:
Nid oedd ond gwaed osodai i maes
Derfynau'r gwaredigol ras.

5 Pa ddawn sydd yn y Duwdod mawr
Nad yw'n ysgrifen yma i lawr?
Beth all'sai ddangos pwy wyt ti
Yn well nag angeu Calfari?

6 O! fyrdd iwn ryfeddodau'r groes!
Dioddefodd f' Arglwydd angeu loes:
Caru hyd at ddiodde lid;
Caru a marw yr un pryd.

7 Fy ysbryd a fy mywyd drud
Sy'n cael ei faeth oddi yma i gyd;
Y dwr a'r gwaed ddaeth yma'n lli',
Yw nerth a gallu'm hysbryd cu.

8 Dymunwn roi dy glod i macs
Mewn iaith na's deall daear las,
O flaen y 'ngo, yn mhlith y llu
O seintiau ac angylion fry. W.

114. *Duw yn blaid i'w bobl.*

(SALM. XLVI.)

8. 8. 8.—Nashville. Llangoedmor,

DUW yw fy nerth a'm noddfa lawn:
Mewn[illegible]cyfyngderau creulon iawn,
Pan alwom arno mae ger llaw:
Pe na'r mynyddoedd mawr i'r môr,
Pe chwalai'r ddaear fawr a'i stôr,
Nid ofnai'm henaid i ddim braw.

2 A phe doi'r moroedd dros y byd
Yn genllif garw coch i gyd,
Nes toddi'r bryniau fel o'r blaen;
Mae afon bur i lawenhau
A'i ffrydiau ddinas Duw'n ddidrai,
Preswylfa ei saint, a'i babell lân.

3 A Duw sydd yno yn eu plith,
Ni ysgogir un o honynt byth:
Fe'u cynmhorth hwy yn foreu iawn:
Y boreu byddo mwy na mwy
O bob [illegible]
Ccir gwel'd ei addewid ef yn llawn.

4 Terfysgodd cenedlaethau'r byd,
A brenhiniaethau aeth yn llid,
Yn erbyn ei Eneiniog ef:
Ing, cyfyng-gyngbor, llewygfân,
Ac arswyd, [illegible]
Y ddaear doddodd gan ei lef.

5 Arglwydd y lluoedd sydd o'n plaid,
Duw Iago'n gynmhorth in wrth raid;
Gobeithiwn ynddo byth am hyn:
Dewch, sylwch ar ei rymuid waith,
Fath [illegible]
faith:
Mae'n siwr bydd yn amddiffyn in.

6 Fe wnaeth ryfeloedd mawr eu llid
I beidio hyd eithafoedd byd;
Y cedyrn mawr ddychryna o'i flaen:
Fe ddrylliia'r bwa dur yn glau,
Fe dyr y waewffon yn ddau,
Fe lysg eu holl gerbydau â thân. w

115. *Clodforedd i Dduw.*

M. S.—Trallwm. Oldenburg.

CLODFORWCH enw ein Harglwydd Dduw,
Doed dynolryw i'w ganmol;
Ei hedd, fel afon fawr ddidrai,
Gaiff ddyfrhau ei bobol.

2 Uwch nefol len mae tanllyd lu
'N ei fon yr [illegible]
Nef, daear, dwr, a phob peth byw,
All ddiweyd, Da yw yr Arglwydd.

3 Ei nir a'i ammod cadw wna;
Byth y [illegible]
Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,
I hyfryd dragwyddoldeb.

4 Ni newid ddim, er gweled bai
O fewn i'w rai anwyla';
Byth cofia waed Tywysog nen,
A'i boen ar ben Calfaria.

5 Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,
Duw, o'i drugaredd odiaeth,
Yn Dad, yn Frawr, [illegible]
Ar gyfyng ddydd marwolaeth. W.

116. *Ffyddlondeb Duw.*

M. C.—St. Ann. Bedford.

DOED uffern, angau, a holl rym
Fy mhechod yn gyttûn,
Cryfhach a thrymach lawer yw
Ffyddlondeb Duw ei hun.

2 Ac yn eu herbyn gwaeddi wnaf,
"Yr Arglwydd yw fy rhan;"
Ac yn ei glwyfau mi ga'r dydd
Yn hollol yn y man.

3 Ac mi ro' f'angor yma i lawr
Mewn moroedd dyfnion maith,
Nes [illegible]
I'r wlad o fêl a llaeth.

4 Pan aller briwio gallu'm Duw,
Tori ffyddlondeb nen,
[illegible]
Tymmhestloedd dros fy mhen. W.

117. *Cariad Duw.*

M. C.—[illegible] Bedford.

TYDI, fy Arglwydd, yw fy rhan,
A [illegible]
Ac er bygythion uffern fawr,
Dy gariad sydd dan sel.

2 Oddi wrthyt rhed, fel afon faith,
Fy nghysur yn ddidrai:
O hwyr i foreu, fyth yn gyfeh,
Dy gariad sy'n parhau.

3 Uwch pob rhyw gysur is y nef
Yw cariad pur fy Nuw;
Anfeidrol foreedd dyfnion maith,
Heb fesur arno yw.

4 Dechreuodd draw cyn creu y byd,
Fe bery byth yn mlaen,
Heb un cyfnewid, ac heb drai,
Pan elo'r byd yn dân.

5 O! deweh a gwelwch—chwiliwch ef,
Anfeidrol cariad mawr;
Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd
O feiau yn yr awr.

6 Mae'n para'n ffyddlawn byth heb drai,
Po'dd bynag treddo'r byd,
A phe cymmysgai tir a môr,
Yr un yw'm Duw o hyd. W.

118. *Mawredd Duw.*

8. 6.—Rotterdam.

MAE'N llon'd y nefoedd, llon'd y llawr,
Llon'd uffern hefyd yw; [byd,
Llon'd tragwyddoldeb maith ei hun,
Diderfyn ydyw Duw;
Mae'n llon'd y gwagle yn ddigoll,
Mae oll yn oll, a'i allu'n un,
Anfeidrol annherfynol Fod
A'i hanfod yuddo'i hun.

2 Un hunanfodol ydoedd ef
Cyn llunio nef na llawr;
Yn nhragwyddoldeb maith yn ol,
Yn Nduw anfeidrol fawr:
Heb ddechreu dyddiau iddo'n bod,
Na diwedd einioes chwaith i ddod,
Tragwyddol a rhyfeddol Fod
Yn Drindod uniawn drefn.

3 Clyw, f'enaid tlawd, mae genyt Dad
Sy'n gwel'd dy fwriad gwan,
A Brawd yn eiriol yn y nef
Cyn codi'th lef i'r lan:
Cred nad diystyr gan dy Dad
Yw gwrandaw gwaedd dymuniad
Pe byddai d'enau yn rhy fud [gwiw,
I'w dd'wedyd ger bron Duw. E. J.

119. *Ffordd Duw yn gyfiawn.*

7. 6. D.—Bremen. Ramah.

FFORDD Duw sydd yn y dyfroedd,
A'i lwybrau oll yn gudd;
Er hyny, dont yn amlwg
Pan ddelo'r hynod ddydd:
Holl droion maith rhagluniaeth—
Bydd pelyderau Duw
Yn danaos eu cyrnmhwysder
I bob creadur byw.

3 Gan hyny, ymddiriedwn
Mewn gostyngeiddrwydd gwiw,
A gwir fwyneidd-dra dwfn
Mewn 'storiwyrd o bob rhyw:
Pob awel lem anhyfryd
Sy'n ol yr arfaeth gynt;
Ac arni yn marchogaeth
Mae Arglwydd mawr y gwynt. D. C.

120. *Cariad Duw mewn ethol'd igaeth*

7. 6. D.—Meirionydd. Missionary.

RHYFEDDOL fyth, rhyfeddol
Yw cariad rhad fy Nuw,
A redodd yn yr arfaeth
At ddynion gwael eu rhyw,
A'u dewis mewn Cyfryngwr,
A'u rhoddi iddo'n rhad,
Ac yntau yn ymrwymo
I'w dwyn yn ol A'i Dad.

2 Etholiad, heb un ammod
Yn sefyll ar y dyn—
Yn tarddu o foddlonrwydd
Ewyllys Duw ei hun;
Tragwyddol, heb un dechreu,
Anghyfnewidiol yw;
Mae'r sylfaen a'r adeiladad
I gyd o gyngbor Duw.

3 Etholwyd i feddiannu'r
Holl nefolbreintiau drud—
Y moroedd o fendithion
Sy 'ngwaed Iachawdwr byd:
Cyfiawnder a sanctoldeb wydd,
A gogoneddiad llawn;
Rhad, rhad! fydd anthem Seion
Am fath annhraethol ddawn.

4 Mae'r moddion a'r dybenion
Mewn cwlwm sier lawn;
'Does modd fod gwell sefydliad—
Mae'n ddoeth, o rus yn llawn:
Prif ddyben ethol yduedd,
Dyrchafu gras fy Nuw,
Ac wrth wneyd hyny, achub
Myrddiynau o ddynolryw. ML. E.

121. *Cariad Duw.*

7. 6. D.—Meirionydd. Syria.

O FOREDD o ddoethineb!
Oedd yn y Duwdod mawr,
Pan yn cyfranu ei gariad
I bryfed gwael y llawr;
A gwneuthur i'w drugaredd,
A'i dostur maith ynghyd,
I redeg megys afon
Lifeiriol dros y byd.

2 Duw, cariad yw ei hunan;
B'le bynag rhedo'i fryd,
Mae anfeidroldeb cariad
Yn cerddad trwyddo i gyd;

Mewn gweithred o drugaredd
Mae ef yn llawenhau;
Ac yn faddeuwr pechod
Yn cael ei alw mae.

3 Rhyw ddyfnder mawr o gariad,
Lled, annherfynol hyd,
A redodd megys diluw
Diddiwedd dros y byd;
Yn atteb dyfnder cithaf
Trueni dynolryw;
Can's dyfnder eilw ddyfnder
Yn arfaeth hen fy Nuw.

4 O! gariad heb ei gymmhar!
A thyna'r testyn sy
Yn llanw holl ganiadau
'R angylaidd, sanctaidd lu;
Anfeidrol ras rhyfeddol!
Pe tawai am dano ddyn,
Fe seiniai'r fud greadigaeth
Yn ddiau bob yr un. W.—G. D. C.

122. *Doethineb a daioni Duw.*

7. 6. D.—Ramah. Bremen.

FY Nuw, uwch law fy neall
Yw gwaith dy ddwylaw i gyd;
Rhyfeddod annherfynol
Sydd ynddynt oll ynghyd;
Wrth weled dy ddoethineb,
Dy allu mawr, a'th fri,
Mi greda' am iachawdwriaeth
Yn hollol ynot ti.

2 O f'enaid! gwel fath noddfa,
Ddiysgog, gadarn, yw,
Yn mhob rhyw gyfyngderau
Tragwyddol ras Iy Nuw:
Ac yma boed fy nhrigfan,
A fy nhawelaf nyth,
Yn nyfnder cyfyngderau,
Sef dan dy aden byth.

3 Fe all i'r lan fy nghodi
O ddyfnder llwch y byd,
A gwneyd pob drwg a gwrddwyf
Droi er daioni i gyd;
Rhoi olew o lawenydd
Yn wastad ar fy mhen,
A'm dwyn trwy foroedd dyfnion
I ganol nefoedd wen. W.—G. D. C.

123. *Y Cyfammod Gras.*

7. 6. D.—Ramah. Syria.

CYFAMMOD hedd a luniwyd
Yn nhragwyddoldeb pell,
Rhwng Tad, a Mab, ac Ysbryd;
Nis gall'sai fod yn well:
Cyfammod er achubiaeth
I euog lwch y llawr;
Mae'n gadarn wedi ei selio
A gwaed Messiah mawr.

2 Cyfammod rhad tragwyddol
Yw dyfais gras y nef;
Nis gall na byd nac uffern
Byth ei ddirymu ef;
Pan ddiffydd haul a lleuad,
Pan losgo daear las,
Fe saif y ddyfais ddwyfol
Yn gryf gyfammod gras. AN.

124. *Duw'yn hoffi trugaredd.*

7. 6. D.—Manheim.

PA Dduw yn mhlith y duwiau
Sydd debyg i'n Duw ni?
Mae'n hoffi maddeu'n beiau,
Mae'n hoffi gwrandaw'n cri;
Nid byth y deil eiddigedd,
Gwell ganddo drugarhau;
Er maint ein hannheilyngdod,
Mae'i gariad e'n parhau. AN.

125. *Duw yn anghyfnewidiol.*

6. 8.—Gwladys. Normandy.

FFYDDLONDEB mawr y nef,
Sydd siwr o bara byth,
'Does dim a'i briwia ef
O'r ddae'r i uffern syth;
Mae'i arfaeth fawr a'i air yn un,
A gwaed y groes oll yn gyttûn.

2 Cyfnewid y mae dyn,
Tröedig yw erioed,
Ond digyfnewid Duw,
Fel haul neu ser y rhod;
Ac ar ei faith ffyddlondeb ef
Y try gogoniant nef y nef.

3 O! fendith heb ddim trai,
Cysuron heb ddim rhi',
Sy'n tarddu, Iesu, i macs,
Bob awr, o honot ti;
Nis gallaf byth ddymuno mwy
Trysorau nag sydd yn dy glwy. W

126. *Cariad Duw yn parhau byth.*

6. 8.—Alun. Bombay.

PA'M 'r ofna'm hennaid gwan
Wrth wel'd aneirif lu
Yn ceisio ammheu'm rhan
A'm hawl yn Iesu cu?
Gwn mai dilyth wirionedd yw,
Fod cariad Duw yn para byth.

2 P'odd gall y Bugail mawr
Anghofio 'i anwyl wyn,
Pan ddaeth o'r nef i lawr
I farw er eu mwyn?
Gwn mai dilyth, &c.

3 Os gâd fy anwyl Dad
Fi i farw ar fy nhaith,
Beth ddaw o'r arfaeth rad
Yn nhragwyddoldeb maith?
Gwn mai dilyth, &c.

4 A ddiffydd cariad rhad?
Ai ofer geiriau Duw?
A gollir rhinwedd gwaed
Ac angeu Iesu gwiw?
Gwn mai dilyth, &c.

5 A ro'i ffarwel i dyst
O gariad Crist a'i hedd,
Gynt gadd fy enaid trist
O fyn'd i'r nefol wledd?
Gwn mai dilyth, &c.

6 Mi gredaf etto'n hy'
Caf fyn'd i ben fy nhaith—
Fy nhawel gartref fry,
O'm poen a'm llafur waith:
Gwn mai dilyth, &c.

7 Er Satan, byd, a chnawd,
A'm holl elynion cás,
Fe ddygir f'enaid tlawd
O'i holl gadwynau i mas:
Gwn mai dilyth wirionedd yw,
Fod cariad Duw yn para byth. W.

127. "*Nesau at Dduw sydd dda i mi.*"

6. 8.—Ramoth. Alun.

MAE Duw yn llon'd pob lle,
Presennol yn mhob man;
Y nesaf yw efe
O bawb at enaid gwan:
Wrth law o hyd i wrando cri;
"Nesau at Dduw sy dda i mi.

2 Yr Arglwydd sydd yr un,
Er maint derfysga'r byd;
Er anwadalwch dyn,
Yr un yw ef o hyd:
Y graig na syfl yn merw'r lli;
"Nesau at Dduw sy dda i mi."

3 Yr hollgyfoethog Dduw,
Ei olud ni leiha;
Diwalla bob peth byw
O hyd á'i 'wyllys da:
Un dafn o'i fôr sy'n fôr i ni;
"Nesau at Dduw sy dda i mi."

128. RHAN II.

PA ham y trof yn ffol
At ail achosion mwy?
Mae'r Achos Mawr tu ol,
Effeithiau ydynt hwy:
Ar deg a gwlaw, mewn trai a lli,
"Nesau at Dduw sy dda i mi."

2 Mewn trallod, at bwy'r af,
Ar ddiwrnod tywyll, du?
Mewn dyfnder, beth a wnaf,
A'r tonau o'm dau tu?
O fyd! yn awr beth elli di?
"Nesau at Dduw sy dda i mi."

3 Anwadal hynod yw
Gwrthddrychau goreu'r byd;
Ei gysur o bob rhyw,
Siomedig yw i gyd;
Rhag twyll ei wên, a swyn ei fri,
"Nesau at Dduw sy dda i mi." D. JS.

129. *Trugaredd a gofal Duw.*

8. 7. D.—Llangan. Ledforth.

DEUED dyddiau o bob cymmysg
Ar fy nhherfynedig oes:
T'wyned haul cleudeg llwyddiant,
Yntau gwasged garw groes.
Clod fy Nuw gaiff ianw 'ngenau
Trwy bob tymmhestl, trwy bob hin
A phob enw gaiff ei lyngcu
Yn ei enw ef ei hun.

2 Ynddo'n unig 'rwy'n ymddiried,
Hollalluog yw fy Nuw;
A phob noddfa wy'n ffieiddio,
Arall—annigonol yw;
Yn ei iachawdwriaeth rasol
'N unig 'rwyf yn llawenhau;
Dyma'r fan y tardd cysuron
Sy'n dragwyddol yn parhau.

3 Mae'n gofalu am fy nghadw
Trwy bob cystudd mwya'r byd,
A chyflawni, pan bo'n gyfyng,
Fy anghenion oll i gyd:
Mae yn arwain fy ngherddediad,
Yn fy nhywys yn y blaen,
Ac yn gwylio ar fy nghamrau—
Bob ysgogiad, fawr a mân.

4 Mae ei glustiau yn agored
I bob rhyw ddrylliedig lef,
Ac mae'r drom ochenaid glwyfus
Yn cyrhaeddyd ato ef;
Pan bo t'wyllwch ac anobaith
Yn amgylchu'm llwybrau cudd,
Daw a thry yn gan' goleuach
D'wyllwch nos na hanner dydd.

5 Llwybrau bendith yw'i orchymynion
Llwybrau bywyd, llwybrau gwir;
Trwy bob cwmmwl mae yn gweithio
Mewn goleuni disglaer pur;
Mae'i ddyfodiad fel yr heulwen;
Byth ni allwn yma fyw
Heb gael profi presennoldeb
Llawn, hyfrydaf, pur fy Nuw.

6 Boed fy nhafod fyth, gan hyny,
'N seinio'i anghydmarol glod,
Rhyfeddodau maith y cariad
Penaf welodd dyn erioed;
Caiff angylion a seraphiaid
Blethu eu cân á mi yn un,
Gyda llu heb un rhifedi,
Am ogoniant Mab y Dyn. W.

130. *Ymostwng i benarglwydd iaeth Duw.*

8. 7. D.—Bohemia. Eifionydd.

TYRED, Arglwydd, tyr'd yn fuan.
Dim ni'm boddia dan y ne',
Dim ond ti a ddeil fy ysbryd
Gwan, lluddedig, yn ei le;

Neb ond ti a gwyd fy enaid
Llesg o'r pydew du i'r lan;
Os tydi sy'n gwneyd im ochain,
Ti'm gwna'n llawen yn y man.

2 Hwyl fy enaid sy wrth d'ewyllys,
Fel y mynot mae yn bod
Oll o mewn, ac oll oddi allan,
Ddigwydd imi is y rhôd:
'Nawr ti'm codi i'r lan i'r nefoedd,
Eilwaith ti'm gostyngi i lawr;
Mae dy gerydd a dy gariad
Im yr un rhyfeddod fawr.

3 Tyr'd, rho gerydd nu, neu gariad,
Yr un fynech ti dy hun;
Ond trwy'r cwbl cadw i'yshryd
Yn sefydlog wrth dy glun:
Dros y brynnau gwna i mi gerdded
Tuag adre'n ddi-nacâd,
Heb yn unlle i mi edrych
Ond ar degwch tŷ fy Nhad. W.

131. *Buriad grasol Duw.*

8. 7. D.—Edinburgh. Dismission.

DRAW mi weled pyrddiau
Dyfnion bethau Tri yn Un;
Cyn bod Eden ardd na chodwm,
Grasol fwriad Duw at ddyn:
Ethol Meichiau cyn bod dyled,
'Trefnu Meddyg cyn bod clwy';
Carn gelyn heb un haeddiant;
Caiff y clod tragwyddol mwy.

2 O! dragwyddol iachawdwriaeth,
Yn yr arfaeth gafodd le,
I gyfodi plant marwolaeth,
I etifeddiaeth bur y ne':
Cariad boreu, mor ddiddechreu
Ag yw hanfod Tri yn Un,
Yn cofleidio meibion Adda,
Yn yr Alpha mawr ei hun. AN.

132. *Ymofyn am Dduw.*

8. 7. 4.—Verona. Frankfort.

DUW anfeidrol yw dy enw,
Llanw'r nefoedd, llanw'r byd;
F'enaid innau sy'n dy olrhain:
Trwy'r greadigaeth faith i gyd;
Ffaelu'th ffeindio
I'r cyflawnder sy arnaf chwant.

2 D'wed a ellir nesu atat,
D'wed a ellir dy fwynhau,
Heb un gorchudd ar dy wyneb,
Nac un gwg i'm llwfrhau:
Dyma'r nefoedd
Wyf am gael tu yma i'r bedd.

3 Ffaelu'r wyf fi â'th ordduwes—
Dyfod atat ti yn lân,
Er fy mod yn gwel'd dy gamrau
Pertaith, hyfryd, draw o'm blaen:
Tywod amser
Nis bo awr heb dy fwynhau.

4 Yn y man bydd tŷ'n darfod
Y cywreiniaf ffurfiau'm nyth:
Gwedd dy wyneb fydd fy nefoedd
Yno ac yn mhob byth:
Nid oes bleser
Dan yr haul gyflawna'th le. W.

133. *Syched am Dduw.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

FY nymunniad, paid a gorphwys
Ar un tesan is y nef;
Etto eriped mi weledd llygad
Wrthddrych sydd iddo ei:
Credda rhagot,
'Rwyt ti bron a'i wir fwynhau.

2 Ffarwel, ffarwel oll wy'n weled,
Oll sydd ar y ddae'r yn byw;
Gadewch imi, ond munydyn,
Gael yn rhywle gwrdd â'm Duw;
Dyna leinw
'Nymuniadau oll yn un.

3 D'air a wnaeth y moroedd helaeth,
D'air a wnaeth y ddaear fawr,
D'air a greodd lu'r ffurfafen
Sydd yn hongian uwch y llawr:
'Mysg a greaist,
'Does gyffelyb it dy hun.

4 Tyr'd, yr hwn wyt yn hawddgarach
Na'th greaduriaid maith eu rhi;
Bwrd y deml, y gwneu'r angylion
Beb munydyn gyda mi?
Tyr'd yn fuan,
Arglwydd, ar y sawl a'th gâr. W.

134. *Duw ei hunan.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

FE gynnygiodd dyfroedd lawer—
Dyfroedd dyfnion mawr eu grym
Oeri'm cariad tuag atat;
Gras, mae'n debyg, ddiffodd ddim
Rhan o'th natur
Yw, wy'n deimlo ynwy' f' hun.

2 Eisieu'th wel'd, yr wyf mor llwfr,
Eisieu'th wel'd, yr wyf mor wan;
Golwg ar dy wyneb fyfyrd
Gwyd yr eiddil cloff i'r lân:
Dwfr bywiol
Ydwyt i'r lluddedig rai.

3 'Does gyffelybiaeth iti yn nefoedd
All yn gywir draethu maint
Ddistaw, ddirgel, bur brofiadau,
Ac och'neidiau'th nefol ras:
Mi wn fonyn
Wrth beth ydwyf beth a ddaw.

4 Y mae cyfoeth a gogoniant
A pherth'nasau yn gyttûn,
A phleserau o bob rhywiau'n
Colli eu henwau wrth dy glun:
I dy ganlyn
Fe'u gadawaf oll yn ol.

5 Rhof farwel i'r holl greadigaeth,
Ffarwel, fousydd gwych eu rhyw,
Ffarwel, deuai tog yr oiwg,
Ffarwel, ddynion goreu'n fyw:
Gwych gyfnewid,
Duw ei hunan yn lle'r byd.

6 Beth wyf gwaeth pe llyncai'r mor-
Ddaear eang yn eu croth? [oedd
Beth wyf gwaeth pe doi gwaelodion
Dyfnedd mawr yn berfaith noeth?
Beth yw colli
Mòr a daear, ond cael Duw? w.

135. *Duw a digon.*

8. 7. 4.—Verona. Tamworth.

NID oes eisieu un creadur
Yn bresennol lle bo'm Duw;
Mae e'n fwyd, y mae e'n dillad,
Nerth fy natur egwan yw:
Pob hapusrwydd
Sydd yn aros yndda'i hun.

2 Gyrwch fi i eithaf tìwyllwch,
Hwnt i derfyn oll sy'n bod,
I ryw wagle dudew anial,
Na fu creadur ynddo erioed:
Hapus, hapus,
Fyddaf yno gyda thi.

3 Nis gall dychryn nis gall temtio,
Nis gall pechod yn gyttun,
Gael un effaith ar fy enaid
Pan y bydawyf wrth dy gìlun:
Ofer, ofer
Ceisio'm cyffwrdd yn dy gòl.

4 Nid oes unman i mi'n cartref,
Nid oes drigfan o un rhyw,
Allaf alw yn hyfrydwch
I mi'n awr ond mynwes Duw:
Yn ei fynwes
Mae fy nacar i a'm nef. w.

136. *Gofal a chariad Duw.*

8. 7. 4.—Frankfort. Peniel.

ER dy fod yn uchder nefoedd,
Uwch cyrhaeddiad meddwl dyn,
Etto mae'th greaduriaid lleiaf
Yn dy olwg bob yr un;
Nid oes meddwl
Ond sy'n oleu o dy flaen.

2 Ti yw 'Nghad, a thi yw 'Mhriod,
Ti yw m Hoff gyfeydd, ti yw'n Duw,
F'unig Dŵr, a'm hunig Noddfa,
Neu i farw neu i fyw:
Cymmer f'enaid,
Dan dy aden tua'r nef.

3 Tro 'ngelynion yn eu gwrthol,
A phalmanta'r ffordd i'r wlad,
Tra fwy'n pyed addewidion
Pur yr iachawdwriaeth rad;
Fel y gallwyf
O fy nghyfeddu yma'n fuan.

4 Minnau ymddigrifaf ynot,
A chanu'n llon ar d'ras,
Tra fo'r anadl bur yn para,
Yntau wedi'r èl i maes:
Tragwyddoldeb
Ni chaiff ddiwedd ar fy nghân. w.

137. *Duw yn gwaredu rhag dryg.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

NID oes funyd fach o'm bywyd
Na fuest, Arglwydd, i mi'n dda.
Ti'm gwaredaist fil o weithiau
Yma ac acw rhag rhyw bla:
Fe'm hachubwyd
Am it sefyll o fy mhlaid.

2 Dengmil dewn o gyfeiliornfa,
Ac o rwydau cyfrwys fwy,
Fu gan Satan i fy maglu,
A chwynasawn id lynt hwy:
Ti dy hunan
Oedd a'm daliodd i i'r lan.

3 'Rwyt ti'n drech na'm calon galed,
'Rwyt ti'n drech na'm pechod cas;
Ti wnai'm hanwyl chwant a minnau
Pryd y mynnost gwympo i maes:
Croesa'r mhechod—
Croesa'r peth wyf am fwynhau.

4 Dy ddoethineb a dy allu
Sydd yn abl i dori lawr,
Dr'ysu, difa, a newynu,
'R enaf un o'm deau mawr:
Gwna i mi ganu;
Concrwyd gelyn mwy na'r byd. w.

138. *Gwaith Duw yn yr enaid.*

8. 7. 4.—Peniel. Tamworth.

'RWY'N dy garu, tì a'i gwyddost,
'Rwy'n dy garu, f' Arglwydd mawr;
'Rwy'n dy garu yn anwylach
Na'r gwrthddrychau ar y llawr:
Darllen yma
Ar fy ysbryd waith dy law.

2 Nid oedd dim o fewn y ddaear,
Nid oedd dim o fewn y nef,
Nid oedd bys wnai e fath adeilad
'N unig ond ei fysedd ef:
Dymuniadau
Ynt a ddaeth o fynwes Duw.

3 Fflam o dân o ganol nefoedd
Yw, ddisgynodd yma i'r byd;
Tân i losgi'm natur gyndyn,
Tân i lanw'm heang fryd:
Hwn nis diffydd
Tra parhao Duw mewn bod.

4 F'enaid gwâg oedd gynt yn crwydro,
Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r
de:
Nid oedd dì ... yn ... yn ... wyddfa
'N unig ond ei gariad e':
Anfeidroldeb
All'sai'm llanw oll yn llyn.

5 Ple'r ennynodd fy nymuniad?
P'le cadd fy serchiadau dân?
B'le daeth hiraeth im am bethau
Oeddwn yn gasau o'r blaen?
Iesu, Iesu,
'R cwbl ydyw gwaith dy law.

6 Dymuniadau pell eu hamcan
Wyf yn deimlo ynwy' 'nglŷn,
Dacw'r ffynnon bur tarddasant—
Anfeidroldeb mawr ei hun:
Dyma 'ngobaith
Bellach byth y cânt barhau. w.

139. *Cariad tragwyddol Duw.*

11au.—Joanna. Wareham.

YR Arglwydd a'm carodd i'n rhyfedd erioed; [mod:
Fe'm cywir adnabu yn mhell cyn fy Arfaethodd yn gymmar fy nghadw'n ddigêl, [sêl.
Pan wnaeth ei gyfammod yn sicr dan

2 A chariad tragwyddol fe'm carodd i—do; [odd mewn co':
Clod iddo trwy'r nefoedd! fe'm cadw-'Sgrifenodd fy enw i yno ryw bryd
Yn mhlith y rhai garwyd cyn seiliad y byd.

3 Er imi droseddu glân gyfraith fy Nuw,
Do, ganwaith ei demtio a'i ffino, gwir yw, [wnaed
Ni newid, ni thorir y weithred a Gynt yn nhragwyddoldeb—fe dd'weddodd fy Nhad.

4 Wel, dyma fel carodd fi'n rhodd ac yn rhad; [fawr a gaed?
Pa drysor dân nefoedd mwy gwerth-Oen anwyl ei fynwes a gefais heb gêl;
Mae ynddo'n guddiedig fy mywyd dan sêl.

5 Mi ges y Ffrynd goreu fyth, fyth, all'sai fod; [erioed:
Yr addewid a roddodd ni thorodd Er byw'n ei ogoniant yn nghanol y nef,
Mewn awr o gyfyngder fe wrendy fy llef. w.

140. *Rhad ras Duw.*

11au.—Joanna. Wareham.

YN rhad y mae'n dyfod bob bendith a dawn, [yn llawn,
Fy mwrdd yn gyfoethog, a'm cwpan A gwisg i'm cynnhesu, fy annedd, a'm tân, [yn lân.
Fy einiocs, a'm hiechyd, o'r Arglwydd

2 Yr awyr sy'n dyfod o artref fy Ner,
A'r dyfroedd i yfed yn mhell uwch y ser, [tir,
Y tân o'r wybrenau, y moroedd, a'r Sy'n d'od o rad gariad fy Arglwydd yn wir.

3 Ond mwy na'r bendithion tymmhorol ger llaw
Yw'r rhai sydd yn perthyn i'r amser a ddaw, [erioed,
Yn rhad a ddechreuwyd cyn amser A bery'n rhad etto tra nefoedd yn bod.

4 Yn rhad yr etholwyd—pa'm, Arglwydd, myfi?
Draw yn nhragwyddoldeb, yn nghynghor y Tri:
Yn rhad y'm dwysbigwyd; dadgudd-iwyd yn rhad [gwaed.
Mai dros fy anwiredd y collwyd y

5 Yn rhad 'rwy'n cael manna; a'r dyfroedd di-brin [cael hyn:
O ffynnon y bywyd, yn rhad 'rwy'n
Yn rhad y caf gerdded y siwrnai sydd faith;
Yn rhad y caf ganu ar ddiwedd fy nhaith. w.

141. *O ddyfnder!*

11au.—Joanna. Wareham.

O ddyfnder diwaeled cyfammod a threfn! [der drachefn
Yr arfaeth dragwyddol sydd ddyfn-Rhagoddef, rhagweled mai syrthio wnai dyn, [hun!
Ac ethol Gwaredwr tragwyddol ei

3 O ddyfnder! pwy fesur ddeetiineb y ne'?
Cyfammod tragwyddol, ni syflir o'i le:
Gosodwyd y sylfaen—mor gadarn yw'r graig!
Ti, Arglwydd y lluoedd, a dd'rysodd y ddraig. R. J.

142. *Duw yn amddiffynfa.*

8au. 8ll.—Salome.

A drigo 'nghymdeithas y Tad,
Ei aden yn gauad a'i cuudd:
Caiff weled, trwy'r aberth a'i ras,
Ddirgelwch ei deyrnas bob dydd.
Dywedaf, Fy Noddfa yw'm Nêr,
A'm tyner Waredwr yw'r lôn;
Ac ynddo gobeithiaf heb baid,
Am dano fy enaid a sôn.

2 Nid ofni rhag dychryn y nos,
A'r saeth ni ddaw'n agos liw dydd;
I'th gadw di, 'mlaen ac yn ol,
Ei aden anfeidrol a fydd:
Rhag haint a'r dinystrydd, dy Nêr
A'i aden fydd dyner i'th doi,
A'i enw, dy Gastell di-gêl,
A'th Noddfa ddiogel i lloi.

3 Cwymp mil wrth dy ystlys i'r llwch,
Syrth myrddiwn wrth d'ochr i'r llawr,
A thithau ni chyffwrdd un pla,
Can's Duw yw dy noddfa di'n awr;

Yn unig canfyddi fod tâl,
A dial, am bechod ryw ddydd;
Er uched yw'r anwir, a'i ffroen,
Amddiffyn i'r beilchion ni bydd.

4 O herwydd it wneuthur yr Iôn,
Yr Arglwydd goruchaf, dy Nyth,
Dy Noddfa, dy Gartref di-gêl,
A'th Breswyl diogel am byth;
Dim niwed ni ddigwydd i ti,
Na phla i dy boeni ni bydd,
Cysgoda dy babell yn llon
Dan fendith ei roddion a rydd.

5 Angylion y nefoedd, yn llu,
A warchod o ddeutu dy ffyrdd;
Gorchymyn a ddyry'n dy gylch,
Rhag llithro, na tharo dy droed,
Mor hynod eu gofal i gyd,
Hwy'th ddygant, yn dyner a doeth,
A'u dwylaw angylaidd y nghyd.

6 Ac arnaf y geilw mewn ing,
Gwrandawaf, gwaredaf, ynghyd,
A chydag ef bydd'af yn blaid
Digonol i'w enaid o hyd:
Gogoniant, anrhydedd, hir oes,
Digonaf ei einioes â hedd;
Trwy rym iachawdwriaeth ddi-drangc
Y diange o feddiant y bedd. R. J.

AM GRIST.

143. *Pryncdivaeth trwy waed Crist.*

10au.—Clod. Navarre.

MAE haeddiant mawr rhinweddol waed fy Nuw
Yn llawer mwy na'r pechod gwaetha'i ryw:
Ceir maddeu myrdd o'r beiau mwyaf gaed,
A'r euog brwnt a gênir yn y gwaed.

2 O'm pen i'm traed, annhraethol afian wyf;
Nid oes lanhâd ond yn ei farwol glwyf;
Y fynnon hon agorwyd ar y bryn,
Er dued wyf, a'm gylch yn hyfryd wyn.

3 Efe yw'r lawn dros ein pechodau ni;
Ei ddryllio wnaed ar fynydd Calfari:
Ein dyled fawr a dalwyd yno'n llawn,
A'r llyfrau oll a groeswyd un prydnawn.

4 Wrth daro'r graig, daeth allan ddyfroedd pur,
Ein dilyn mae trwy'r dyrys anial dir;
Cawn lawenhau wrth yfed dyfroedd byw,
A'n golchi'n lân, a'n dwyn i gwmni Duw.

5 Mi ganaf byth am haeddiant dwyfol waed;
Fy nihrynu wnaeth, a'm gosod ar fy nhraed:
Boddloni'r Tad a'r gyfraith yn fy lle,
Ac ennill hawl im byth yn nheyrnas ne'.

6 Och'neidiau'r groes a roes ryddhad i mi,
Mae'm cymmhorth llawn yn gyflawn Un yn Dri;
Duw dig sy'n Dad i bechaduriaid trist,
A'r cymmod rhad trwy haeddiant Iesu Grist. J. E.

144. *Y Bugail da.*

10au.—Clod. Coburg.

Y BUGAIL mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,
I geisio'i braidd trwy'r erchyll anial mawr:
Ei fywyd rhodd yn 'sglyfaeth yn eu lle,
A'u crwydriad hwy ddialwyd arno fe.

2 O grwydriad pell Paradwys daeth i'm hôl,
Yn dirion iawn fe'm dygodd yn ei gôl;
'Does neb a wyr ond ef, y Bugail mawr,
Pa grwydro ynes o hyny hyd yn awr.

3 A'i hyfryd lais fe'm harwain yn y blaen;
Cydymaith yw ef yn y dŵr a'r tân;
Rhag pob rhyw ddrwg, yn nyffryn angeu du,
Pwy arall fydd yn nodded i myfi?

4 Pan af i dref, i'r hyfryd gorlan fry,
Ni chrwydraf mwy oddi wrth fy Mugail cu;
Wrth gofio'r daith, a'i holl ffyddlondeb ef,
Mi seinia'i glod i entrych nef y nef.

5 Fy Mhriod yw, af ar ei bwys yn mlaen,
Nes dod i'r lan o'r anial fyd yn lân;
"Fy nghyfaill wyt," medd ef, wrth lwch y llawr,
"A'th Ddiw wyf fi i dragwyddoldeb mawr!" D. C.

145. *Iesu, fynnon cysur.*

10au.—Clod. Coburg.

WEL, f'enaid, cód, sefydla'th wammal fryd,
Mae heibio'n myn'd bleserau pena'r byd;
O! dring i fyny, ac anghofia'n awr
Bob peth a eilw'r ddacar yma'n fawr.

2 Draw, draw, yn mhell, tu hwnt i'r dwfn fedd,
Mae'th gysur oll, dy bleser, a dy hedd;
Mae'th Iesu yno, ef ei hunan yw
Y cwbl a feddi.byth, yn farw a byw.

3 Mae enw'm Iôr fel ysol nerthol dân,
Dim dan y nef ni safa fyth o'i flaen;
Yr iachawdwriaeth werthfawr sydd o hyd
Yn gwneyd i uffern gref i grynu i gyd.

4 O'r enwau oll a roddir ar fy Nuw,
Hwnw ei hun y gwerthfawrocaf yw:
Hwnw a gafodd ef ar Galfari,
Pan y dioddefodd dros fy enaid i.

5 Rho allu im, fy Nuw, o hyn i maes
I ddyweyd yn dda am dy anfeidrol ras;
Na byddo neges genyf yma mwy
Ond ymhyfrydu yn dy farwol gliwy'. w.

146. *Digon yn yr Iesu.*

10au.—Clod. Coburg.

'DOES eisiau'n bod, nac ofn, na chlais, na chlwy',
Ar f'enaid tlawd, heb' fod gan Iesu fwy;
Anfeidrol fwy o werth sydd yn ei waed;
Os trengu wnaf, mi drengaf wrth ei draed.

2 O Iesu gwiw! gwyn fyd a brofo'th ddawn.
A'th gariad pur, yn felus nerthol iawn;
Digonedd wyt i hwn tra ynddo chwyth; byth.
Nid oes i'w gael, na'i geisio'n rhagor

3 Hardd Iesu! wyt hyfrydwch nefol lu;
Mor fôr i'r glust yw sain dy enw cu;
I'r genau mae fel mêl yn felus bur,
Fel nefol win i'r galon dan ei chur.

4 Am danat, Iesu, yn fynych mae fy nghlwyn;
Pa bryd y caf dy lon ymwared mwyn?
Pa bryd y gwnai fi'n llawen â dy wedd?
Pa bryd y caf fy llenwi â dy hedd? T. J.

147. *Iesu ar y pren.*

M. H.—Leipsic. Meliudwr.

GWEL, draw, fy Mrenin ar y pren,
Yn niwedd dy ddydd yn crymu ei ben;
Poen angeu mwy na thuasai ynghyd
Ddioddefaint holl ferthyron byd.

2 Wel, angeu du, dy waethaf mwy,
I Ben y bobloedd rhaddaist glwy';
Cododd i'r lan; fe gwyd i'r nef
Fyrddiynau trwy ei godiad ef.

3 Os hoeliwyd ef un waith ar bren,
Os gorfu arno grymu ei ben,
Dros f'enaid i bu hyn i gyd;
Mi gofia'i boen tra bwy'n y byd.

4 'Does golwg haeddaeh ddydd na nos
Na'm Iesu 'n hongian ar y groes;
Y dwylaw hoeliwyd ar y pren
Ar fyr a egyr ddrws y nen.

5 Tybygwn 'mod i 'n gwel'd ei waed
Yn llifo'n goch o'i ben i'w draed:
Fy nghalon, pa'm nas tori 'n friw?
Fy Mhriod o dd efe a'm Duw. w.

148. *Edrych ar y groes.*

M. H.—Sebastian. Caernarfon.

WRTH edrych, Iesu, ar dy groes,
A medd[illegible]
Pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd,
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

2 Na 'd ŵ [illegible]
Ond yn dy angeu di, fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol [illegible]
Gaiff fod yn ymffrost i mi mwy.

3 Myfi aberthaf i dy glod
Bob eilun sydd o dan y rhôd;
Ac wrth fyfyrio ar dy waed
Fe gwymp pob delw dan fy nhraed.

4 Gwelwch yn nwylaw 'Mhrynwr pur,
Ac yn ei [illegible]
Edrychwch ar y waewffon
Yn tori'r archoll dan ei fron!

5 Dyma lle'r ydoedd ar brydnawn
Rasusau yn disgleirio'n llawn:
Mil o rinweddau yn gyttun
Yn prynu 'r gwrthgiliedig ddyn.

Poen a llawenydd dan y loes,
Tristwch a chariad ar y groes;
P'le bu rhinweddau o fath y rhai 'n
Erioed o'r blaen dan goron ddrain!
DR. W. (*ar.* w.)

149. *Cyfiawnder Crist.*

M. H.—Kent. Caernarfon.

NI fedd angylion, er eu bri,
Na neb o'r holl [illegible]
Na holl alluoedd maith y nef,
Un haeddiant fel ei haeddiant ef.

2 Os daw y gyfraith yn ei grym,
A gofyn am berfeithrwydd im,

'Does geny' ond dangos angeu loes,
A gwaed yn llifo ar y groes.

3 Fy haeddiant mawr yn nghanol ne,
Yw Iesu 'n feiciau yn fy lle;
A'i boenau ef yn unig sydd
Yn gwneyd yr orsedd wen yn rhydd.

4 Mae ynddo hefyd allu mawr
I gael fy meiau mwya'i lawr;
Ei holl ddoethineb ef, a'i ras,
O rwydau'r ddraig a'm tyn i maes. W.

150. *Haeddiant Iesu.*

M. H.—Beza. Melcombe.

WEL, weithian cod, fy enaid cu,
Dy lygaid tua 'r nefoedd fry,
Gwel yr anfeidrol berffaith Iawn
Sy'n maddeu 'th bechod oll yn llawn.

2 Y moroedd mawr a'r ddaear faith,
A llu 'r ffurfafen, yw ei waith;
Er hyny, rhodd ei fywyd cu
I angeu chwerw drosof fi.

3 Y dwylaw wnaeth yr wybren lâs
A llasent gadw angeu i maes;
Ond ufuddhaodd iddo'n rhydd,
I gariad perffaith gario'r dydd.

4 Mae haeddiant fy Iachawdwr mawr
Yn dioddef poen rhwng nef a llawr,
Filiynau maith yn fwy ei rin
Na haeddiant seintiau'r byd yn un.

5 Wel, dyma'r awr y talodd ef
Ofynion mwyaf, tryma'r nef;
Yn awr, mae'r carcharorion prudd
Yn llawen hyfryd ddod yn rhydd. W.

151. *Y ffordd yn rhydd.*

M. H.—Angels' Hymn. Sarum.

DAETH arfaeth fawr y nef i ben,
Bu'm Iesu farw ar y pren;
Agorodd ddrws, trwy'i boen a'i wae,
I'r Ganaan nefol sy'n parhau.

2 Pa rwystrau sy ar fy ffordd i mwy
Nad aeth fy Arglwydd trwyddynt hwy?
Yr hwn ddioddefodd angeu loes
A'm nertha innau i ddwyn ei groes.

3 Mi wela'n awr, yn oleu wiw,
Fy enw fry yn llyfyr Duw;
Pan losgo'r holl elfenau 'nghyd
Fe bery'm hedd mewn nefol fyd.

4 Wel, dacw'r man mae'm sylfaen gref,
Cyfiawnder bythol Brenin nef;
A dyma'r graig gadarnaf, syth,
Nad ofnaf elyn arni byth.

5 Doed pob rhyw dymmhestl yn gyttûn,
A rhuent arnaf oll yn un;
'Does achos braw na dychryn im,
Can's Iesu cadarn yw fy ngrym. W.

152. *Iesu wedi cario'r dydd.*

M. H.—Yr Hen 100fed. Mamre.

NEWYDDION braf a ddaeth i'n bro,
Hwy haeddent gael eu dwyn ar go':
Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae Iesu Grist o'n hochr ni,
Fe gollodd ef ei waed yn lli,
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
I'r oohr draw 'mhen gronyn bach.

3 Wel, f'enaid, weithian côd dy ben,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd
Mae'n holl elynion ni yn awr, [wen;
Mewn cadwyn gan y Brenin mawr. W.

153. *Cofio'r gwaed.*

M. H.—Leipsic. Moravia.

O ARGLWYDD! cofia'th angeu drud,
A'th boenau mawrion yn y byd;
A dadleu rhai'n ag uchel lef
Dros f'enaid tlawd yn nghanol nef.

2 O! cofia'th wae, a'th waed, a'th gur,
Ac ol yr hoelion llymion dur,
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,
A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed

3 'Rwy'n ceisio 'mdreiglo at dy waed,
Gan gwympo'n llaw trugaredd rad;
'Does gweithred dda yn eiddof fi
All hôni hawl i'r nefoedd fry. W.

154. *Y taliad llawn.*

M. H.—Rockingham. Angels' Hymn.

GOFYNIAD nefoedd faith ei hun
A dalwyd gan Iehofah ddyn;
Ac nid oedd ond trysorau'r nef
Yn ddigon fyth i'w dalu ef.

2 Trysorau na ddarfyddant byth
Pe telid oesoedd rif y gwlith; [sôn
Gwerth uwch pob gwerth a glywyd
Oedd gwaed y croeshoeliedig Oen.

3 Iawn mwy o bwys na buasai 'nghyd
Aneirif anwireddau'r byd;
A dim ond gwaed fy Iesu mawr
A droisai'r glorian hyd y llawr.

4 Anturia 'nghalon euog ddu,
At orsedd gras yn awr yn hy';
Mae'r fainc yn rhydd, a'r rhodd yn rhad,
Os gelli gredu yn ei waed. W.

155. *Rhwymedig i'r Oen.*

M. H.—Boston. Emyn Foreuol.

YR Oen a laddwyd ydyw rhan,
A holl hyfrydwch f'enaid gwan;

Fy Mrawd a 'Mhriod fydd ef mwy
Yn mhob cyfyngder elwyf trwy.

2 A doed hi arnaf fel y dêl,
Ymffrostiaf ynddo byth heb gêl;
Fu neb o feibion Adda erioed
A rhwymau mwy i ganu ei glod.

3 Pwy o honoch chwi, gerubiaid pur,
Seraphiaid ac angylion gwir,
A gafodd y fath fraint a mi
Trwy angeu'r Iesu ar Galfari? W.

156. *Angeu'r Groes.*

M. H.—Mamre. Kent.

Y MAE impusrwydd pawb o'r byd
Yn gorphwys yn dy angeu drud;
Hyfrydaf waith angylion fry
Yw canu am fynydd Calfari.

2 O holl weithredoedd nef yn un,
Y benaf oll oedd prynu dyn;
Rhyfeddod mwyaf o bob oes
Yw'm Iesu yn marw ar y groes!

3 Wel, dyma'r trysor mwyaf drud,
Gwaed Iesu'n llifo dros y byd!
Fyth na foed ond ei farwol glwy'
Yn sylfaen pob caniadau mwy.

4 Darfyddod canmawl neb rhyw un,
Darfydded sôn am haeddiant dyn;
Darfydded ymffrost o bob rhyw—
'Does ymffrost ond yn ngwaed fy Nuw. W.

157. *Rhinwedd y groes.*

M. H.—Brynteg. Spires.

O IESU mawr! y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell,
Dysg fi i seinio maes dy glod
Mai digyfnewid wyt erioed.

2 O! hoelia 'meddwl, ddydd a nos,
Crwydredig, wrth dy nefol groes;
A phlana'm hysbryd yn y tir
Sy'n llifo o lawenydd pur:

3 Fel bo fy nwydau drwg yn lân
Yn cael eu difa â'r nefol dân;
A chariad yn melysu'r groes,
Trwy olwg ar dy farwol loes.

4 Ti fuost farw, rhyfedd yw!
Er mwyn d'elynion i gael byw;
Derbyn i'th gôl, a rho ryddhâd
I'r sawl a brynaist â dy waed.

5 Fe gaiff dy enw anwyl glod
Pan ddarffo i'r ddae'r a'r nefoedd fod,
Am achub un mor wael ei lun
Nad all'sai ei achub ond dy hun. W.

158. *Crist, nerth y credadyn.*

M. H.—Melindwr. Spires.

AR dy enw di, Greawdwr byd,
'Rwy'n rhoi f'ymddiried oll i gyd;
Rhyfedd mor wan wyf ddydd a noa,
'Dwy'n gwel'd dim gallu ond ar y groes.

2 Deffro, fy ffydd! rho afael gref
A'th freichiau'n dyn am dano ef;
Er ofnau fyrdd, na âd e'n rhydd,
Tra yn dy freichiau cari'r dydd.

3 Dyma fi, Iesu, fel yr wyf,
Cuddia fi yn dy nefol glwyf;
Can's dyna'r graig y gwnaf fy nyth,
'Does neb yn ofni yno byth.

4 Gâd i mi, Iesu, ddydd a nos,
I dreulio'm hamser tan dy groes;
'Does gyflwr arall dan y nef
I'r ofnog rai yn addas le. W.

159. *Yr Iesu yn rhoddi ei hun.*

M. H.—Winchester. Lancaster.

O'R holl fendithion gadd y byd,
Wel dyma'r fwyaf un i gyd;
I'm Iesu ei hun
Dros aflan ddyn roi 'i fywyd pur.

2 Wel, f'enaid, bellach dos yn mlaen,
Nac ofna ddŵr, nac ofna dân;
Aeth dan y groes,
Ac angeu loes, ei hun o'm blaen.

3 Fe goncrodd angeu a'i farwol gledd,
Fe faeddodd uffern fawr a'r bedd;
Gwnaeth ffordd i mi,
Ar Galfari, o'r ddae'r i'r nef.

4 Boed iddo mwy ganiadau o glod,
Tra nefoedd fawr a dae'r mewn bod
Ac na foed sôn
Ond am yr Oen a'i farwol glwyf.

5 O! d'weded pawb am rin y gwaed,
Maddeuant llawn, maddeuant rhad;
Dim achwyn mwy,
Ond canu am glwy' Calfaria fryn. W

160. *Neb fel Iesu.*

M. H.—Melcombe. Sebastian.

TRA gallwyf byth anadlu a byw,
Moliannu wnaf fy Iesu gwiw;
O eithaf nef i uffern drist,
'Does neb i mi fel Iesu Grist.

2 Pan byddwy'n gorwedd dan fy maich
Heb neb i'm helpio i'r lan â'i fraich;
Wel, dyma'r pryd, f'Anwylyd mae
Yn arfer hoffi trugarhau.

3 Iaith i ddadguddio, ofer yw,
Beth yw melusdra hedd fy Nuw;
Pe d'wedwn tra fai ynof chwyth,
Melusach yw na dd'wedwn byth.

4 Rhagori ar ddengmil mae ei wedd,
'Rwy'n llawn foddloni ar ei hedd;
'Dwy'n 'mofyn pleser dan y nef
Ond digon o'i gyfeillach ef. W.

161. *Crist, drws a sylwedd y nefoedd.*

M. H.—Beza. Sebastian.

WRTH d'ystlys di, O Arglwydd cu!
Mae holl allweddau'r nefoedd
A myrdd i mewn, etto nid un [fry;
dy rai anwyl di dy hun.

2 'Rwyf finnau'n teithio i'r bythol fyd;
Nis gwn nad nesaf wyf i gyd
I ddadleu'n wyneb angeu du
Na feddaf enw ond tydi.

3 Beth byna'm swydd o fewn y ne',
Beth byna'm gradd, p'le byna'm lle,
Yr holl hapusrwydd geisiaf fry
Fydd cadw'm golwg arnat ti.

4 Pe gado'r nef wnai f'Arglwydd cu,
Tywyllai'r nef fel uffern ddu;
'Does angel, sant, na seraph un,
Yn ddisglaer yno o hono'i hun.

5 'Dyw deall cwmni'r nef ynghyd,
A'r saint goleuaf sy'n y byd,
Yn ddim mewn nerth i chwilio i maes
Ogoniant Iesu Grist a'i ras. w.

162. *Gwrthddrych cariad.*

M. H.—Melcombe. Sebastian.

WRTH droi fy ngolwg yma i lawr
I gymru'r holl greadigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan
Ond Iesu i bwyso arno'n rhan.

3 Dewisais ef, ac ef o hyd
Ddewisaf mwy tra yn y byd;
Can' gwynfyd ddaeth i'm henaid
tlawd—
Cael Brenin nefoedd imi'n Frawd.

Fy nghysur oll oddi wrtho dardd;
Mae'n Dad, mae'n Frawd, mae'n Briod
hardd;
F'Arweinydd llariaidd tua thref,
F'Eiriolwr cyfiawn yn y nef.

Fe garaf bellach tra fwyf byw,
Uwch creaduriaid o bob rhyw:
Er gwaethaf dae'r ac uffern drist,
F'anwylyd i fydd Iesu Grist.

O! pa'm yr wyt, fy enaid, clyw!
Am grwydro yn mhell oddi wrth fy
Ni chês fath bleser dan y nef [Nuw?
A gefais yn ei gariad ef.

Melus fel manna'r nefoedd fry
Yw hyfryd hedd f'Anwylyd cu;
Mwynhâd o'i gariad ef a'i ras,
Na'r diliau mêl sy'n well ei fias. w.

163. *Moli yr Oen.*

M. H.—Kent. Lancaster.

MOLIANNAF byth yr anwyl Oen—
Pa fodd y gallaf dewi a sôn?
Rhoes laeth a mêl o'r Ganaan fry,
A melus yw i'm henaid cu.

2 Fe'm rhoes i sefyll ar fy nhraed,
Lle'r own yn gorwedd yn fy ngwaed
Fe'm cododd fel o farw i fyw,
Rhoes win ac olew yn fy mriw.

3 Cês enw newydd oddi fry,
Ar gareg wen; pa'm 'r ofnaf fi?
Yr hwn nis edwyn neb yn iawn
Ond a'i derbyniodd ef yn llawn.

4 Pa fodd am hyn nas canaf glod
I'r hwn a'm carodd cyn fy mod?
O! seintiau ac angylion fry!
Clodforwch chwi ef drosof fi. w.

164. *Croeshoelio'r byd trwy groes Crist.*

M. H.—Kent. Lancaster.

MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy
Oes, Iesu, yn dy farwol glwy',
Nag y gall sant tra ynddo chwyth,
Na seraph pur, ei ddeall byth.

2 Ni cheisiaf loches ond dy glwy',
Dan donau mawrion fwy na mwy;
Mae'th waed, yn nyfnder cuhni a
Yn abl fy rhoi i lawenhau. [gwae,

3 Cyflawna'th air, doed im a ddêl,
Dy eiriau di sy i gyd dan sêl;
Ni raid ond gair, a dyna i gyd,
I godi'm henaid i o'r byd.

4 Mae hyfryd swn dy Ysbryd pur,
Sy'n cnwythu yr awelon gwir,
Yn peri im anghofio'r byd
Yn gyfan, a'i deganau i gyd.

5 'Rwyf wedi blino ar fyd o wae,
Lle nad oes bleser i'w fwynhau;
A'm blinder fyth yw'r un ag oedd,
Sef ffaelu'th garu wrth fy modd.

6 Os câf fi'th garu, dyro'r byd
I'r rhai sy'n rhoddi arno'u bryd;
Rho iddynt hawddfyd, parch, a bri:
Ni cheisiaf ond dy garu di. w.

165. *Eiriol ar sail y gwaed.*

M. H.—Melindwr. Leipsic.

PECHADUR wyf, da gwyr fy Nuw
Llawn o archollion o bob rhyw,
Yn byw mewn eisieu o waed y groes
Bob munyd awr o'r dydd a'r nos.

2 Yn nghanol cyfyngderau caeth,
A myrddiwn o ofidiau maith,
Gâd imi roddi pwys fy mhen
I orphwys ar dy fynwes wen.

3 O! cofia fi ger bron y Tad,
A dangos iddo werth dy waed;
O! dadleu'n awr yn nghanol ne'
I ti roi'th fywyd yn fy lle.

4 Gâd imi dreulio'm dyddiau i gyd
I edrych ar dy wyneb pryd;

Difyru'm hoes o awr i awr
I garu fy [illegible]

5 O! cofia fi pan bwy'n y bedd,
A chasgla'n llwch i'r lan o wn hedd:
O! arddel fi yn y farn a dawn,
A gosod fi ar dy ddeheu law. W.

166. *Y ffordd newydd.*

M. H.—Angels' Hymn. Lancaster.

FFORDD newydd wnaed gan Iesu Grist,
I basio heibio uffern drist,
Wedi ei phalmantio gantho ef,
O ganol byd i ganol nef.

2 Agorodd ef yn lled y pen
Holl esmaldo byrth y nefoedd wen,
'Roi rhyddid i'w gariadau ef
I mewn i holl drigfannau'r nef.

3 Os tonau gwyr y storm yn chwith,
Mae Duw o'n tu, ni fedrwn byth;
Credwn yn gryf, down adre o law
Yn iach i'r lan yr ochr draw.

4 Myrddiynau o [illegible]
O'u gollid oll yn gorphwys [illegible]
Cha'dd neb o'r rhai sy'n fyw'd yn rhydd
Heb brofi o bwys a gwerth y dydd.

5 Pa'm y disgwyliwn fyn'd i'r nef
Heb gario'r groes a gariodd ef?
Mwy melus fydd y nefoedd pan
Yr elom iddo yn y man. W.

167. *Dewis Iesu.*

M. H.—Boston. Sebastian.

'RWY'N dewis Iesu a'i fawl glwy'
Yn Frawd a Phriod imi nawy;
Ef yn Arweinydd, Ef yn Ben,
I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.

2 Wel, dyma un, O! d'wedwch p'le
Y gwelir arall fel efe,
A bery'n ffyddlawn im o hyd,
Yn mhob rhyw drallod yn y byd?

3 Pwy wreiddy ruddfan f'enaid gwan?
Pwy'm cwyd o'm holl ofidiau i'r lan?
Pwy garia'r maich fel Brenin ne'?
Pwy gydymdeimla fel efe?

4 Wel, ynddo ymfrostiaf mewn mwy;
Fy holl elymon, d'wedwch pwy,
O'ch cewri cedyrn, mawr en rhi,'
All glwyfo mwy f' Anwylyd i?' W.

168. *Angen Crist.*

M. H.—Lepsic. Melindwr.

CYFYNGDER mwya'n Prynwr rhodd
Oedd colli gwedd gwaedd y Tad,
Pan lefodd ar [illegible]
"Eloi, lamá, sabachthani."

2 O! feiau mawr, hetia ol'sseb iwy
Na rhoddai i Frenin nefoedd glwy'?
Lladdasoch ef; fe drodd y rhod,
Mae dydd eich dial chwithau'n dod.

3 Dirgelwch o anfeidrol ryw,
I'm Iesu farw ac yntau'n Dduw!
Mae'n bleser gan angylion nef
Fyfyrio ar e anian ef.

4 Dyma lle bydd fy nhrigfan i,
O fewn i [illegible]
Y man nas tyr cuogrwydd tewy,
Y man nas [illegible]

169. *"Fy Anwylyd sydd i mi a gwridog."*

M. H.—Mamre. Tegid.

O[illegible]
Pam cara'i'u llyn fy Iesu mawr;
Pe gwelai pawb ef fel y mae,
Doi'r byd i'w garu yn ddi lai.

2 'Does unrhyw harddwch yn y byd,
Nac ar [illegible] y nef i gyd,
Na gras dwyfoldeb, teilwng ia dawn,
Nad yw ef yn fy Iesu'n llawn.

3 Mae'n wyn, mae'n sanctaidd, mae'n [illegible]
Mae'n wridog—coeth ei wasi a wnai;
Mae'n lewn [illegible] — aberth mawr,
Yn gymmhwys i mi, lwch y llawr.

4 'Nawr Brenin y [illegible]
Uwch i'w gymmharu â dynolryw;
[illegible]
Sy'n awr yn ddisglaer ynddo ei hun. W.

170. *Y Brenin ar ei fordd. Can.* i. 12.

M. H.—Melcombe. Lancaster.

'NAWR ar ei fwrdd mae'r Brenin mawr,
Mewn gwisg o gariad hyd y llawr,
Yn rhoddi'n rhad o'i hyryd wledd
I mi faddeuant llawn a hedd.

2 Haul hyfryd yw i'm hennaid gwan,
Sy'n rhoddi i'r grasau i dardan i'r lan;
Mae'n hoeliedig eg[illegible]
Pan t'wyno'i lewyrch arna'i'n rhodd.

3 Ond os absennol fydd efe,
A chwmni wi dudew yn ei le,
Ni fedr ai ddim ond pwn a gwae,
A rhyw anghredu, a llwfrdra.

4 Yn fuan tyr'd, fy Anwylyd cun,
Ac eistedd wrth dy fwrdd i my hun;
A boed dy wleddoedd i barhau,
A minnau byth i lawenhau. W.

171. *Newyn Crist o [illegible]*

M. H.—[illegible]

G[illegible]
Yn curo f'enaid [illegible]
[illegible]
Cyn gadawy a holiol garia'r maes.

2 Cnof yw dy fawch, mawr yw dy rym,
Nid oes a saf i'w herbyn ddim;
Gair o dy enau di dy hun
Ladd fy ngelynion bob yr un.

3 Rho i mi lechu yna'n glyd,
Tu hwnt i swn fy nghelynion i gyd,
Uwch twrf a themtasiynau'r llawr,
Dan gysgod dy gyflawnder mawr. W.

172. *Haeddiant yr Oen.*

M. H.—Boston. Sarum.

'DOES arnaf eisieu yn y byd
Ond gwisg ar dy fwrdd i'm dysgu'n drud,
A chael rhyw brawf o'i nefol rin,
I 'mado'n llan â mi fy hun.

2 'Rwyf yn ei wel'd, ei wel'd o bell,
Na'r cwbl dan yr haul yn well;
Ond O! na allwn ddringo'n awr
I'r man lle mae'n dyferu i lawr.

3 Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud,
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd,
Yn rhyw anfeidrol berffaith lawn,
'Rwy'n methu gorphwys arno'n llawn.

4 'Rwy'n ymdrybaeddu yn yr ngwaed,
Yn nghanol dyrys afiaal wlad;
Yn ceisio dringo fyth i'r lan,
Heb ette dod i'r fyfryd lan.

5 O flaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwel y pechadur duaf gaed
Yn brefu am rinweddau'th waed. W.

173. *Cysgod Craig fawr.*

M. H.—Hen 100fed. Eisenach.

RHYW ŵr—rhyfeddol ŵr yw ef—
Sydd imi'n llioches gadarn gref;
Fel uchel graig fy nghysgod fydd,
Rhag marwol wres y poethlyd ddydd.

2 Yr hynod Graig, ein Iesu cu,
Sy'n llawer uwch na'r nefoedd fry;
O dano ef y llecha'i 'n glyd,
Yn mhob rhyw stormydd yn y byd.

3 Fe d'raw'd y Graig; mae ffrydiau hon
Yn oeri'r llosgfa dan fy mron;
Fe d'raw'd y Graig; a! dyfroedd pur
Yw'm cysur yn yr anial dir.

4 Yn holltau'r Graig fy nhrigfa fydd,
Drwy ryfedd faith dragwyddol ddydd;
Caf yma byfeyd wedd fy Nuw,
Disgleirdiad ei berffeithiau gwiw. D.C.

174. *"Byw i mi yw Crist."*

H. H.—Marina. Melcombe.

BYW i yw Crist, ar bod mewn oesau;
Byw im yn Feddyg i fy nghlwy';
Byw'n Frawd a Phriod i mi mwy.

2 Byw'n Archoffeiriad ar fy rhan,
Byw'n nerth a phlaid i f'enaid gwan
Byw'n Frenin ar ei orsedd fawr,
I'm hachub a'm gwaredu'n awr.

3 Byw imi'n Breplawyd mawr ei ddawn,
I'm dysgu yn rhyfeddol lawn;
I'm dwyn i ynwadu a mi fy hun,
Gan roi'r gogoniant iddo'n un.

4 Fy mywyd yw mewn cyflawnhâd;
Fy nghoiaeth ennyn am anwyl;
Fy lachawdwriaeth oll, a'm cân,
Fy Ngheidwad yn y dŵr a'r tân. B. J.

175. *Coronwch Ef.*

M. H.—Winchester. Lledrod.

HENFFYCH i enw Iesu gwiw,
Syrthied o'i flaen angylion Duw;
Rhowch iddo'r parch, holl deulu'r nef:
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

2 Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
Plygwch yn isel wrth ei draed;
Fe'ch tynodd â thrugaredd gref:
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

3 Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith,
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,
Gydganu'n llafar iawn eu llef:
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

4 Er bod eu beiau 'n aml iawn,
Mae ganddo iachawdwriaeth lawn;
Eu cânu'n wyn wna Brenin nef:
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.
P. (*cyf.* W. G.)

176. *Cymmunant Crist yn y nefoedd.*

M. H.—Leipsic. Melindwr.

TYRED, medel g'lomen, [illegible]
A chod ni ar [illegible]
Esgyn a dwg ni tuny n grwn
Uwch law holl bethau'r bywyd hwn.

2 Tu hwnt i'r wybren isaf hon,
Lle try tragwyddol oesau llon,
Y mae pleserau pur, dilyth,
A ffrwythau i wledda'r enaid byth.

3 O! am gael golwg hoff o'r wlad,
A gorsedd ein tragwyddol Dad,
Lle'r eiste'n Prynwr mawr ei fri
Mewn corph cyffelyb i'n cyrph ni.

4 Y saint o'i gylch addoli maent,
A holl lu'r nef yn plygu o'i flaen;
Duw sy'n llewyrchu fowy y dyn
Ei bur ogoniant ar bob un.

5 Pa bryd daw'r dydd, fy [illegible] Dduw,
Caf finau [illegible]
Seyll'o [illegible]
Gwel'd, [illegible]
byth? Dr. W.

177. *Dyfais y Prynedigaeth.*

8. 8. 8.—Nazareth. Nashville.

O! dyma'r ddyfais fwya'i macs,
Y fwya'i chariad, fwya'i gras,
Agorodd ffordd o'r ddae'r i'r nef;
Cariad heb gymmhar iddo'r un,
A nofiodd, yn ei waed ei hun,
Trwy angeu, oedd ei gariad ef.

2 Fe gongcrodd, trwy angeuol glwy',
O elynion creulawn, nerthol, fwy
Nag all'sai byd i gongcro'n un:
Fe faeddodd uffern cang, lawn,
Ar ben Calfaria un prydnawn,
Yn lân heb neb ond ef ei hun.

3 Doed bellach Indiaid pella'r byd,
Doed gogledd, dwyrain, de, ynghyd,
Canent ei iachawdwriaeth ef:
Dadseinied holl dafodau'r byd,
Ac aur delynau'r nef ynghyd,
Na pheidient tra fo nef y nef.

4 Boed ocsoedd meithion, fwy na mwy,
Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,
I ganu am dy ddirfawr boen:
Na thawed tafod o un rhyw,
Na dim o dan y nef sy'n byw,
Ond sôn am gongcwest addfwyn
Oen. w.

178. *Mawredd cariad Crist.*

8. 8. 8.—Nashville. Llangoedmor.

NIS gall angylion nef y nef
Fynegu maint ei gariad ef,
Mae angeu'r groes yn drech na'u
dawn:
Rydd canu uwch am Galfari
Na glywodd yr angylion fry,
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

2 Nis teimlodd neb ond ef ei hun
Anfeidrol werth fy enaid cun—[drud:
Uwch da, uwch aur, uwch perlau
Ni thalai dim ond gwaed fy Nuw—
Angeuol, farwol loes, a byw,
A'm prynai o dragwyddol lid.

3 Y penaf drysor heddyw yw,
O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw,
Holl sylwedd y caniadau i gyd;
A dyna'r gwaed a roddodd iawn
I ddwyfol ddigder, perffaith lawn;
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

4 Am iddo farw ar y bryn,
Cadd f'enaid bach ei brynu'n llyn,
A'i dynu o'i gadwynau'n rhydd:
Wel bellach, dan ei haeddiant of,
Fel cysgod cedrwydden gref,
Gorphwysaf mwy yn ngwres y
dydd. w.

179. *Gorsedd gras ar Galfaria.*

8. 8. 8.—Altorf. Nazareth.

BOED bryn y groes, boed Caltari, [bri,
Yn uwch na'r bryniau mwya 'u
Can's yma collwyd gwaed fy Nuw;
Ac yma rhedodd cariad pur,
Yn afon ddifrycheulyd, glir,
I'm golchi, 'r ffiaidd, dua'i liw.

2 Na foed im feddwl, ddydd na nos,
Ond cariad perffaith angeu'r groes;
Hwn alwaf mwy yn orsedd gras:
Ar Galfari mae maingc y nef,
Yn agos at ei groesbren ef;
Oddi yno rhoddir hedd i macs.

3 Beth bellach wnaf â'r anial fyd
Sydd yn dymhestloedd trwyddo i gyd,
Bwystfilod rheibus ynddo o'r bron?
Mae genyf fil hyfrydach lle,
Mae'm Iesu eisoes ynddo fe,
Ond rhoi ffarwel i'r ddaear hon.

4 'Dwy'n ofni ond yr afon ddu
Sydd rhyngwyf a fy nghartref fry—
Yr angeu glâs wnaeth fyrdd yn
Fy enaid, 'mafael yno yn llaw [wan:
Yr hwn ei hun aeth drwyddi draw,
Ac yn ei law mi ddof i'r lan. w.

180. *Hawddgarwch Crist.*

8.8.8.—Nashville. Llangoedmor.

NI welodd llygad dyn erioed,
Ni chlywodd clust o dan y rhod
Am neb cyffelyb iddo ef:
O! Rosyn Saron hardd ei liw!
Pwy ddod i maes rinweddau'm Duw?
Efe yw bywyd nef y nef.

2 Mae yn ei glwyfau drysor drud,
I faddeu beiau pena'r byd,
O flaen yr orsedd buraf sydd;
Ni all euogrwydd yno ddim,
Fe gyll holl ddeddfau Sinai'u grym;
Maddeuant perffaith garia'r dydd.

3 Fe ddaw diwrnod—doed pan ddêl,
A'r llygaid yma'u hun a'i gwel,
Pan ymddangoso'i fawredd ef, [bri,
Mewn rhwysg a harddwch, parch a
Yn mhlith cwmpeini aneirif lu,
Fydd yn rhyfeddod nef y nef.

4 O! f'enaid, edrych arno'n awr,
Yn llanw'r nef, yn llanw'r llawr,
Yn holl ogoniant dŵr a thir;
Nid oes, ni fu erioed, ni ddaw,
O'r dwyrain i'r gorllewin draw,
Gyffelyb i'm Hanwylyd pur.

5 Mi garaf fy Anwylyd mwy,
Dafoddefodd troswyf farwol glwy',
Agorodd ffynnon loyw, fyw,
I olchi heu archollion wnaed
Gan bechod cas, o'm pen i'm traed,
Y dyfroedd dardd dan groes fy
Nuw. w.

181. *Iawn a maddeuant.*

8. 8. 8.—Nashville. Llangoedmor.

GWNAED congcwest ar Galfaria fryn,
Am dani canodd myrdd cyn hyn:
Fe faeddwyd uffern faith i gyd;
Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
Fe wnaed y ddwyblaid ddig yn un,
A gwaed Iachawdwr mawr y byd.

2 Wel, dyma'r Cyfaill goreu gaed;
Mae'n ganmil gwell na mam na thad;
Yn mhob caledi ffyddlawn yw:
Mae'n medru maddeu a chuddio bai,
Ac o'i wir fodd yn trugarhau
Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw.

3 Yr afon fawr o waed y groes
Yw iechyd f'enaid ddydd a nos:
A thyma pam yr wyf yn fyw:
Mae'r ffynnon fywiol, fawr, ddi-drai,
Yn para byth i ddyfrhau—
Anfeidrol haeddiant gwaed fy Nuw.

4 Ei haeddiant mawr anfeidrol ef,
A lwyr foddlonodd nef y nef,
A geidw'm henaid yn ddigryn;
Yn ngwres y dydd a'r stormydd mawr.
Efe a'm daliodd hyd yn awr:—
Gogoniant byth i Geidwad dyn.

M. R.

182. *Cwymp Eden, a chodiad Calfaria.*

8. 8. 6.—Sharon. Henffordd.

YN Eden, cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith;
Syrthiodd fy nghoron wiw,:
Ond buddugoliaeth Calfari
Ddilliodd hon yn ol i mi;
Mi ganaf tra bwyf byw.

2 Ar Galfari, yn ngwres y dydd,
Y caed y gwystl mawr yn rhydd,
Trwy golli gwaed yn lli';
'Nawr dim heb dalu, rhoddwyd iawn
Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn,
Heb ofyn dim i mi.

3 Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren,
Yr hoeliwyd arno D'wysog nen,
Yn wirion yn fy lle:
Y ddraig ysigwyd gan Dduw-ddyn,
Can's clwyfwyd dau, gorchfygodd Un,
Ac Iesu oedd efe.

W.

183. *Bachgen a aned i ni.*

M. 8.—Morganwg. Bethania.

BACHGEN a aned, Mab row'd in;
Ei enw sy'n Rhyfeddol:
Ar ysgwydd hwn llywodraeth gaed,
Duw cadarn, Tad tragwyddol.

2 Chwilio ei berson hardd, a'i waith,
Sy'n orchwyl maith anfeidrol;
Fe elwir yma, a thrwy'r ne',
Ei enw e'n Rhyfeddol.

3 Deonglwch hyn, ddysgedig rai:
Rhyfeddu mae'r cenhedloedd—
P'odd gall'sai Mair ei gynnwys ef
Na chynnwys nef y nefoedd?

4 Mae holl ddoethineb Duw ynghyd
Yn ewrddyd yn ei berson;
Nid rhyfedd fod myrddiynau'r nef
'N ei foli ef yn gysson.

W.

184. *Cyflawnder Crist.*

M. 8.—Dyfrdwy. Silesia.

O'I ystlys bur yn cwympo i lawr
Yn afon fawr ilferiol,
Hedd a maddeuant sy'n ddidrai,
Fyth i barhau'n dragwyddol.

2 Rhaid i mi gael pob gras, pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan;
Ac oni châf, fy enaid prudd
A gyll y dydd yn fuan.

3 Dy wisg dy hun, cyflawnder hael,
Raid i mi gael yn mlaenaf;
Nid oes ond ofni dan fy mron
Nes caffwyf hon am danaf.

4 Dy nerth drachefn, rho i'm rhan;
Nid wyf ond gwan yn erbyn
Torf o elynion creulawn cry'
Yn wastad sy'n fy nghanlyn.

5 O! fy Iachawdwr gwerthfawr, rhad!
Nid oes ond gwaed dy galon,
Yn unig gysur dan y ne'
Ddyddana'r pererinion.

W.

185. *Gorphenwyd.*

M. 8.—Morganwg. Oldenburg.

PAN hoeliwyd Iesu ar y pren,
Yr haul uwch ben dywyllwyd;
Ond wele! yn y t'wyllwch mawr
Daeth gwawr o'r goir "Gorphenwyd!"

2 Pan y croeshoeliwyd Iesu cu,
Pyrth uffern ddu a lonwyd;
Ond trodd y pyrth i siomiant trist
Pan lefodd Crist, "Gorphenwyd!"

3 Pan y dechreuodd Crist dristau,
Telynau'r nef ostegwyd;
Ond dyblodd cân y drydedd nef
Pan lefodd ef, "Gorphenwyd!"

4 Holl lafur Crist trwy boenus daith
A'i galed waith ddibenwyd,
Pan roes, â'i olaf anadl gref,
Yr uchel lef, "Gorphenwyd!"

186. RHAN II.

M. 8.—Morganwg. Oldenburg.

MUR y gwahân dros amser maith,
Na ddo un waith, ni syflwyd;
Dattododdi hwu, er cryfed oedd,
O flaen y floedd, "Gorphenwyd!"

2 Holl allu Satan roed yn gaeth,
A'r fuddugoliaeth gafwyd,
Pan lefodd Crist, ar derfyn awr
Y rhyfel mawr, "Gorphenwyd f'

3 Cyfiawnder Duw mewn dwyfol lawn
Yn gyflawn a foddlonwyd.
Pan lefodd Crist y nawfed awr
Y gwerthfawr air, "Gorphenwyd!"

4 Yr ebyrth oll er dechre'r byd,
Yn Nghrist a gydsylweddiwyd;
Ei Jubili, trwy'i angeu ef,
Gyhoeddai'r llef, "Gorphenwyd!"

187. RHAN III.

M. S.—Silesia. Oldenburg.

MAE Duw yn madden a glanhau,
Yn angeu'r Oen a laddwyd;
A dyma waith efengyl gref
Ad seinio'r "Gorphenwyd!"

2 I'r gwan gan Satan lawer gwaith
Collasau 'i daith odliwiwyd;
Ond caed diangfa lawer tro
Wrth gofio'r gair, "Gorphenwyd!"

3 Troes cysgod angeu'n foreu ddydd,
Ei 'stormydd a ostegwyd,
Wrth gofio, yn yr oriau blin,
Am rin y gair, "Gorphenwyd!"

4 Daw gweininid Seion uwch law poen
I wydd yr Oen a laddwyd;
Ar ben eu taith cânt hwythau'n wir
Gydwaeddi'r gair, "Gorphenwyd!"

D. JS.

188. *Y gân newydd.*

M. S.—Silesia. Aberystwyth.

MAE'r gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddyweyd yn iawn am dano.

2 Prif destyn holl ganiadau'r nef
Yw, "Iddo ef," a'i haeddiant;
A dyna sain telynau glân
Ar uchaf gân gogoniant.

3 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,
A'i bwer wrth gofio cynnydd,
Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
Na hyfryd lef seraphiaid.

4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân
Ni bydd y gân ond dechreu;
Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud
A ddaw o hyd i'r goleu.

5 Ni thraethir maint anfeidrol werth
Ei aberth yn dragywydd:
Er treulio mynyddoedd oesoedd glân,
Ni bydd y gân ond newydd. BT. W.

189. *Digonolrwydd aberth Crist.*

M. S.—Dyfrdwy. Mary.

NA foed i'm hemmid unrhyw fai
Ond haeddiant Crist yn gyfran;
Ei aberth ef, llawn ddigon yw
I feddwl Duw ei hunan.

2 Os daw cydwybod lawn o dân,
Cyflawnder glân, a'r gyfraith,
I'm gefyn mwy, fy attteb llawn
Yw'r Iawn a dalwyd unwaith.

3 Melldithied Ebal uwch pob bai,
Taraned Sinai daniyd; [wledd,
Yn nghysgod Crist, a'i Iawn, caf
Heb ofni cledd na drygfyd.

4 Pwy draetha'n llawn ddyfnderoedd
Yr aberth a'i fendithion? [gwerth
I ddyn cael heddwch nef yn ol,
A Duw'n dragwyddol foddlon.

5 Rhyfeddir byth y geni'n dlawd,
Y byw dan wawd a chroesau,
Y dioddef cosb heb unrhyw fai,
A'r ufuddhau hefo rwymau.

6 Yr chel gân fydd, "Iddo ef!"
Trwy nef y nef yn seinio:
Yr ing, yr lawn, a'r gwaedlyd chwys
A felus gofir yno. R. O.

190. *Myfyrdod ar Grist.*

M. S.—Silesia. Dyfrdwy.

AR Grist a'i angeu boed o hyd
Fin bryd a'n myfyrdodau;
Mae'n ogoneddus, hawddgar iawn,
A llawn o rythddodiau. J. H.

191. *Enw grasol Iesu.*

M. S.—Morganwg. Persia.

MAE enw Crist i bawb o'r saint
Fel enaint tywalltedig,
Ac yn adfywiol iawn ei rin
I'r enaid blin lluddedig.

2 Pan fyddo f'enaid yn y llwch,
A th'wyllwch fel y fagddu,
Mae dawn a nerth f'm dwyn yn ol
Yn enw grasol Iesu.

3 Gobeithiwch ynddo, bawb o'r saint,
Er cymmaint yw eich gofid,
Gan wybod fod eich Priod gwiw
Yn flyddlawn i'w addewid. JS. H.

192. *Crist yn bob peth.*

M. S.—Sabbath. Oldenburg,

SANCTEIDDRWYDD im yw'r Oen
di-nam,
'Nghyfiawnder, a'm doethineb,
Fy mhrynedigaeth o bob pla,
Fy Nuw i dragwyddoldeb.

2 'Dall Satan, deddf, na gweddill bai,
Ddim damnio rhai crediniol:
Mae gwaed yr Oen âg uchel lef
O fewn i'r nef yn eiriol.

3 O! golch fi beunydd, golch fi'n lân,
Golch fi yn gyflan, Arglwydd:

Fy nwylaw, calon, pen, a'm traed,
Golch [illegible]

4 Bedyddia fi â'r Ysbryd Glân,
Fel [illegible]
Cauff ysbryd barn a llosgfa fod
Ar [illegible]

5 Gwasgara weddill pechod cas,
Sel [illegible]
Yn berffaith hardd, yn deml wiw,
Adeilad Duw ei hunan.

6 O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd
Caf weled gwedd ei wyneb,
Ac yn ei fywyd [illegible]
Hyd eithaf tragwyddoldeb.

7 Fe gasgla'm lwch o'r [illegible] i'r lan,
Yn [illegible]
Caf [illegible] fel fy Anwylyd gwiw,
O hyfryd liw'n [illegible] W.

193. *Tegwch a gras Crist.*

M. s.—Morganwg. Baden.

MAE'm Prynwr mawr yn Dduw, yn
Ac felly'n perthyn imi; [ddyn,
Tywysog cadarn, Brenin cry',
Yw'r Iesu fu'n fy mhrynu.

2 Mae'n wyn a gwridog yn ddi-lai,
Ar [illegible]
Nid oedd neb teilwng ond efe
Fod yn y ne'n teyrnasu.

3 Mae'n wridog, fe ddioddefodd fry
Ar Galfari farwolaeth;
Fe'n prynodd trwy ei waed di-nam
O ddygn ddamnedigaeth.

4 Pe chwilid fry yn mhlith y sêr,
Y byd, a'r dyfnder isod,
'Does neb a fu, na neb y sy,
Gyffelyb i fy Mhriod.

5 Mae ynddo ddwfn fôr di-drai
O gariad a thosturi;
Mae'n barod iawn i faddeu bai
Ei briod a'i ddyweddi.

6 Ni feddaf ffrynd, na mam, na thad,
A'r cyfryw gariad imi;
Mewn culni, gofid, poen, a gwae,
Yn wastad mae'n fy ngharu. W.

194. *Nod ufa yr enaid yn Nghrist.*

M. s.—Sabbath. Trallwm.

TI, yw fy ngrym, fy nghraig, a'm tŵr,
Fy noddfa sŵr o gynwared;
Fy nrygu mae yn ngallu pwy?
Ynot yr wy'n ymddiried.

2 Fy hedd a'm cysur oddi fry
Yn tarddu sy yn gyson;
Oni bae hyn, gan swn pob gwae,
Llewygu wnai fy nghalon.

3 Castell wyt ti, Tŵr cadarn cry',
Yn nyddiau du caethiwed;
Dy enw, Iesu, yn noddfa cawn,
Gysurus iawn i'r gweiniaid.

4 Pan ddelo drygau rif y gwlith
I [illegible] i blith dy bobol,
A'r ffwrn saith boethach, y pryd hyn
Ti fyddi yn y canol. W

195. *Archoffeiriad trugarog.*

M. s.—Morganwg. Dyfrdwy.

COFFAWN yn llawen gyda pharch
Am ras ein Harchoffeiriad;
Un yw o galon dyner iawn,
A mynwes lawn o gariad.

2 Ni ddiffydd lin fo'n mygu byth,
Yn [illegible]
Y gorsen ysig byth ni thŷr;
Y gwan, fe'i gyr yn gryfach.

3 Am hyny, yn ei nerth a'i nawdd
Rhown ninnau'n hawdd ein hyder:
Cawn dderbyn gwaredigaeth gu,
Mewn awr o ddu gyfyngder. Dr. W.

196. *Brawd yn Brynwr.*

M. s.—Sabbath. Morganwg.

DUW ymddangosodd yn y cnawd,
Fe gafwyd Brawd yn Brynwr;
Ni chollir neb, er gwaeled fo,
A gredo i'r Gwaredwr.

2 Yr aberth mawr fu ar y groes,
A r lawn a roes yr Iesu,
Yw'm hunig obaith yn mhob man
Daw f'enaid gwan i fyny. J. H.

197. *Pob peth yn Nghrist.*

M. c.—Martyrdom. Gloucester.

TI, Iesu, ydwyt oll dy hun
Fy meddiant ar y llawr;
A thi dy hunan fydd fy oll
O fewn i'r nefoedd fawr.

2 Mae 'nymuniadau maith eu hyd
Yn pwyntio oll yn un,
Dros bob gwrthddrychau is y sêr,
Ac atat ti dy hun.

3 O! ffynnon trugareddau maith!
Diderfyn yw dy ras,
I roi trysorau pena'r nef
I'r tlotaf un i maes.

4 Fy unig gysur dan bob gwae
Fy [illegible] di ini'n Dduw:
Ac yn dy gysgod mi af trwy
Gystuddiau o bob rhyw.

5 Anghyfnewidiol gair y nef,
Ond cyfnewidiol fi;
Am hyn mi safaf, doed a ddêl,
Mae'r afael sicraf fry. W.

198. *Golud Crist.*

M. c.—St. Stephen. Martyrdom.

Y MAE trysorau dwyfol ras
O lawer uwch eu rhyw
Na dim, o'r nefoedd faith i'r byd,
Ericed a grëodd Duw.

3 Tra caffwyf yfed ar fy nhaith
O'r ffynnon loyw glir,
Nid ofnaf ronyn, er eu grym,
O ddrygau'r anial dir.

3 Er fod picellau tanllyd iawn
Yn hedeg yn eu grym;
Yn erbyn cariad dwyfol pur
Nis gallant ddrygu dim.

4 Ac mi ymffrostia' yn nerth y nef—
Yn nerth y nef ei hun;
Fe bwysa haeddiant dwyfol pur
Fwy na phechodau dyn. W.

199. *Gobaith trwy'r groes.*

M. C.—St. Mary. Windsor

WEL, dyma'r eiddil, dyma'r gwan,
Yn gruddfan wrth dy draed,
Tu hwnt pob gobaith i gael byw
Ond trwy dy ddwyfol waed.

2 Rhifedi 'meiau sydd dros ben
Pob haeddiant oll o ddyn;
Ac nid oes genyf noddfa im
Ond haeddiant Duw ei hun.

3 Mor anobeithiol yw fy mriw,
'Da'i 'mofyn meddyg mwy
Ond ato ei hunan ar y pren
Ddioddefodd farwol glwy'.

4 Am iddo yno grymu ei ben,
A marw ar y groes,
Mwy na rhifedi beiau'r byd
Yn haeddiant dwyfol loes.

5 Wel, dyma'r unig fan y mae,
Os oes, im gael inchâd;
Ac yma credaf, os câf rym,
Mewn dynol ddwyfol waed.

6 Ac yna gwnaed y ddaear fawr
Ei gwaethaf, fore a nawn;
O fewn fy noddfa sanctaidd bur,
Y byddaf ddedwydd iawn. W.

200. *Fforddd at yr Orseddd.*

M. C.—Martyrdom. Ballerma.

MAE pyrth y nef o led y pen,
Mi welaf fôr o waed,
Y gallaf fi'r fleiddiaf ddyn,
Yn hollol gael inchâd.

2 Mae'r orseddd fawr yn awr yn rhyddd,
Gwrandewir llais y gwan;
Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,
Anadla tua'r lan.

3 Wel, anfon circhion aml rif,
I mewn i byrth y nef;
Gwrandewir pob anddifad gri
Yn union ganddo ef.

4 Myfi anturia'n awr yn mlaen,
Heb alwad is y ne',
Ond fod perffeithrwydd mawr y groes
Yn atteb yn fy lle.

5 Calfaria fryn yw'r unig sail
Adeilaf arno mwy;
A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
Mewn dwyfol farwol glwy'.

6 Ellyllon uffern nis gall ddim,
Er cymmaint yw eu rhi';
Myrddiynau o weithiau mwy yw pwys
Och'neidiau Calfari. W.

201. *Y Groes a'r Eiriolaeth.*

M. C.—Martyrdom. Ballerma.

MI dalia' maieh oddi ar fy ngwar,
Wrth deimlo dwyfol loes:
Euogrwydd fel mynyddau'r byd
Dry'n ganu wrth dy groes.

2 Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edrych wnaf i'r de,
Yn mhlith a fu, neu ynte ddaw,
'Does debyg iddo fe.

3 Fe rodd ei ddwylaw pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain,
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
Fel hyfryd han maim.

4 Esgyn a wnaeth i entrych nef
I eiriol dros y gwan;
Fe sugna f'enaid innau'n lân
I'w fynwes yn y man.

5 Ac yna câf fod gydag ef
Pan êl y byd ar dân,
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
Gan' harddach nag o'r blaen. W.

202. "*Anfeidrol ddwyfol glwyf.*"

M. C.—Martyrdom. St. Stephan.

NIS gall angylion pur y nef,
A'u doniau aml hwy,
Fyth osod allan werthfawr bris
Anfeidrol, ddwyfol glwy'.

2 Dioddefodd angeu, dygn boen,
A gofir tra bo'r nef;
Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,
A'm noddfa lawn yw ef.

3 Fe'm denodd i, yn ddirgel iawn,
A distaw, ar ei ol;
Ac mewn afonydd dyfnion, llawn,
Fe'm cym'rodd yn ei gôl.

4 Na foed fy mywyd bellach mwy
Yn eiddo i mi fy hun;
Ond treulier fy munydau i gyd
Yn glod i'm Harglwydd cun.

5 A gâd im brofi'th nefol hedd
Yn mhob anadliad pur;
Ac felly myn'd o'r byd i'r bedd
Mewn hûn nefolaidd wir. W.

203. *Iesu yn fwy na'r nef.*

M. C.—Martyrdom. Gloucester.

NI feddaf ar y ddaear fawr,
Ni feddaf yn y ne',
Neb ag a bery'n anwyl im
Yn unig ond efe.

3 Mae ynddo'i hunan drysor mwy
Na fedd yr India lawn;
Fe brynodd imi fwy na'r byd
Ar groesbren un prydnawn.

3 Fe brynodd imi euraidd wisg,
Trwy ddioddef marwol gliwy';
A'i angeu ef a guddia'm gwarth
I dragwyddoldeb mwy.

4 O! na allwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fyn'd i maes
I ganmol gras fy Nuw. W.

204. *Melusder a phurdeb cariad Crist.*

M. C.—Farrant. Tiverton.

O! DEFFRO'n foreu, f'enaid gwan,
Ar doriad cynta'r dydd,
A llwyr gysegra ddyddiau d'oes
I'r gwrthddrych goreu sydd.

2 Câf yfed yma gariad pur,
Na phrofodd cnawd mo'i ryw,
Ac ymddifyru uwch y byd,
Ar bur blesera'u'm Duw.

3 Uwch cyrhaedd pob serchiadau gwael
Yw'r cariad pur ei flas
Ag sydd yn llifo'n loyw ffrwd
O iachawdwriaeth gras.

4 Yma dymunwn dreulio'm hoes,
O foreu hyd brydnawn:
Lle cawn i wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn. W.

205. *Dyfnderoedd gras.*

M. C.—St. Ann. Christchurch.

HYD yma, ni ddych'mygodd dyn,
Dan entrych awyr las,
Y fath ddyfnderoedd hyfryd sydd
Mewn gwaredigol ras.

Ni fu trugaredd faith, na gras,
Na chariad is y nef,
Yn mhlith angylion ucha'u gradd,
Cyffelyb sy ynddo ef.

3 O! aunherfynol fôr didrai,
O haeddiant ac o ras,
'Dall trazwyddoldeb, er ei hyd,
Ei ffeindio fyth i maes.

4 Ac yn ei gariad dwfn a maith,
Mi nofiaf tua'r nef;
Ac nid oes dynunhestl fyth, na thon,
Yn rhuo ynddo ef.

5 A châf, ar ol blinderau maith,
Yn hyfryd lanio draw;
Ac yfed gwleddoedd sanctaidd, pur,
Ryw ddedwydd ddydd a ddaw. w.

206. *Ffyddlondeb Crist.*

M. C.—Ballerma. Martyrdom.

NI fethodd gweddi daer erioed
A chyrhaedd hyd y nef;
Ac mewn cyfyngder, f'enaid rhed
Yn union ato ef.

2 Ac nid oes cyfaill mewn un man,
Cyffelyb iddo'n bod,
Pe baem yn chwilio'r ddacar faith,
A holl derfynau'r rhod.

3 Yn mhob rhyw ddoniau mae yn fawr;
Anfeidrol yw ei rym,
Ac nid oes pwysau ar ei ras,
Na'i haeddiant dwyfol ddim.

4 Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
Heb fesur, ac heb drai;
A'i drugareddau hyfryd sy
'N dragywydd yn parhau. W.

207. Rhan II.

M. C.—Ballerma. Martyrdom.

ANTURIAF at ei orsedd fwyn
Dan eithaf tywyll nos;
Ac mi orphwysaf, doed a ddêl,
Ar haeddiant gwaed ei groes.

2 Mae ynddo drugareddau fil,
A chariad heb ddim trai,
A rhyw ffyddlondeb fel y môr
At ei gystuddiol rai.

3 Mi rof ffarwel i bob rhyw chwant—
Pob pleser is y nen;
Ac 'rwy'n cymmeryd Iesu o'm bodd
Yn Briod ac yn Ben.

4 Ni welaf wrthddrych mewn un man
O'r ddacar lâs i'r ne',
A dâl ei garu tra fwyf byw,
Yn unig ond efe. W.

208. *Ymddifyru yn yr Iesu.*

M. C.—French. Farrant.

IESU, difyrwch f'enaid drud
Yw edrych ar dy wedd;
Ac mae llyth'renau d'enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

2 A than dy aden dawel, bur,
'Rwyf yn dymuno byw,
Heb ymbleseru fyth mewn dim
Ond cariad at fy Nuw.

3 O! cau fy llygaid, rhag im wel'd
Pleserau gwâg y byd,
Ac i mi wyro byth oddi ar
Dy lwybrau gwerthfawr drud.

4 'Does genyf ond dy allu mawr
I'm nerthu i fyn'd yn mlaen;
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy nghongcwest, a fy nghân.

5 Melusach nag yw'r diliau mêl
Yw munyd o'th fwynhau;
Ac nid oes genyf bleser sydd
Ond hyny yn parhau.

6 A phan y syrthio ser y nen,
Fel ffigys ir i'r llawr,

Bydd fy nyddanwch, heb ddim trai,
Oll yn fy Arglwydd mawr. W.

209. *Pechod yn croeshoelio Crist.*

M. C.—Bangor. Worcester.

FY meiau trymion, luoedd maith,
A waeddodd tua'r nen;
A thyna pam 'roedd rhaid i'm Duw
Ddioddef ar y pren.

2 Hwy dy fradychodd, anwyl Oen,
Hwy oedd y goron ddrain,
Hwy oedd y ffiangell greulawn, gref,
Hwy oedd yr hoelion main.

3 Fy meiau oedd y waywffon
Drywanai 'i ystlys bur,
Fel rhedodd ffrwd o dan ei fron
O waed a dyfroedd clir.

4 O! gariad anorchfygol, maith,
Heb gymmhar iddo'n bod;
Cariad, i angel ac i saint,
O anghymmharol nôd.

5 O! maddeu mai, a chliria'n llwyr
F' euogrwydd oll i gyd;
Ac na'd fi gliwyfo'th fawredd mwy
Tra 'n aros yn y byd. w.

210. *Bendithion y pryndigwaeth.*

M. C.—French. Christchurch.

Y CWBL feddaf oll yn un,
O entrych nen i'r llawr,
A row'd yn nghadw i gyd dan sêl
Yn haeddiant Iesu mawr.

2 Mae yma ffynnon sy'n glanhau
Bodreddi'r hwsmon yn lân;
A hyfryd olcha r ffiaidd gas,
Yn loyw fel y gwlân.

3 'Does unrhyw gyllyw is y nef
A glyw'd am dano sôn,
Y pwysai anwireddau fwy
Na gwerthfawr waed yr Oen.

4 Maddeuant sy yma, perffaith, llawn,
I'r cystuddiedig rai;
Mae'r haeddiant fry yn clirio'n lân
Bob rhyw aneirif fai. w.

211. *Yr un testyn.*

M. C.—St. Stephen. Farrant.

YN mhlith holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un,
Gwel'd yr anfeidrol ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn.

2 Ni chaiff fod eisieu byth, na thrai,
Tra seren yn y nef,
Ar neb o'r rhai a roddo'u pwys
Ar ei gyfiawnder ef.

3 Doed y trueiniaid yma 'nghyd,
Finteiodd heb ddim rhi';
Cânt eu diwallu oll yn llawn
O ras y nefoedd fry.

4 Fe ylch ein beiau i ffwrdd â'i waed,
Fe'n câns oll yn wyn;
Fe'n dwg o'r anialwch i maes,
I ganu ar Seion fryn. w.

212. *Yr un testyn.*

M. C.—St. Ann. Christchurch.

WEL, dyma gyfoeth gwerthfawr, llawn,
Uwch holl drysorau'r llawr,
Wedi ei roi sadw oll ynghyd
Yn haeddiant Iesu mawr.

2 Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel meroedd mawr ar rhai;
Ac fe bwrcasodd yno hedd
Tragwyddol i barhau.

3 Ei gariad bery pan bo'r byd
A'r haulwen fawr yn ddim;
Ac nid oes gariad yn y byd
I Gyffelyb idd ei rym.

4 Pan syrthio'r sêr fel ffigys ir,
Fe bery gras fy Nuw:
A'i faith ffyddlondeb tra fo nef,
Anghyfnewidiol yw. w.

213. *Ymgymeriadau dynion Crist.*

M. C.—Tallis. St. Stephen.

FFARWEL, greaduriaid gwycha'u rhyw,
Pob enwau is y ne';
Ni welaf wrthddrych wrth fy modd
Yn unig ond efe.

2 Mae'i ddoniau yn rhagori 'mhell
Ar holl frenhinoedd byd;
A theimlo 'rwyf ei fod ei hun
Yn hollol lanw 'mryd.

3 Mae'i eiriau fel y diliau mêl,
A'i holl orch'mynion sy
I gyd yn dangos rhinwedd maith
Sancteiddrwydd nefoedd fry.

4 Mae'i addewidion fel yr haul,
Yn sicr gadw'u lle;
Ac nid â'r sillaf leia' ar goll
O'i hyfryd eiriau e'.

5 A minnau'n hollol rof fy mhwys
Ar allu 'Mreniu mawr,
Yr hwn a'm nertha i fyned trwy
Gystuddiau maith y llawr. w.

214. *Y cyfan dan awdurdod Crist.*

M. C.—St. Ann. St. James.

'DA'I meddyn haeddiant byth, na nerth,
Na ffafr neb, na'i hedd,
Ond hwnw'n unig gwyd fy llwch
Yn fyw i'r lan o'r bedd.

2 Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
Ar orsedd fawr y nef·

Ac y mae'r cyfan sydd toewn bod
Dan ei swdurdod ef.

3 Fe gryn y ddaear ac uffern fawr
Wrth sinnad Tywysog bri;
O! faint ogoniant hwnw fu
Yn dawelci ar y pren.

4 O Iesu! cyssonaf fi i gyd,
Fel mynost gad im fod,
Ond im gael treulio pob yr awr
Yn holiol i dy glod. W.

215. *Y cwbl yn Nghrist.*

M. C.—Martyrdom. Bedford.

MI af yn mlaen yn nerth y nef
Tua'r gwastadwyaeled dir;
Ac ni orphwysaf nes cael gwel'd
Fy etifeddiaeth bur.

2 Mae llais yn galw i maes o'r byd
A'i blesser o hob rhyw;
Minnau wrandawa'r hyfryd sŵn—
Llais fy Anwyliyd yw.

3 'Dwy'n gwel'd ar aswy mae ar ddo,
'Mhlith holl wrthddrychau'r byd,
Ddim dâl ymddiried yn ei nerth,
Na rhoddi arno 'mryd.

4 Iesu yw testwch pawb o'r lleill,
A thegwch pena'r nef;
Ac y mae'r cwbl sydd o werth
Yn trigo ynddo ef.

5 A hoed fy mhleser hellach byth
O dan ei adain wiw;
Na foed difyrwch genyf mwy
Mewn dim ond yn fy Nuw. W.

216. *Coroni Iesu yn ben.*

M. C.—St. Ann. St George.

DYRCHAFER enw Iesu cu
Gan seintiau is y nen;
A holl aneirif lucedd nef,
Coronwch ef yn ben.

2 Angylion glân, sy'n gwylio'n gylch
O ddeutu ei orsedd wen,
Gosgorddion ei lywodraeth ef,
Coronwch ef yn ben.

3 Hardd lu'r merthyri, sydd uwch law
Erlyniaeth, braw, na sen,
A llafar glod ac uchel lef,
Coronwch ef yn ben.

4 Yr holl brophwydi'n awr sy'n gwel'd
Y Meichiau mawr hob len,
A'i apostolion yn gyd lef,
Coronwch ef yn ben.

5 Pob perchen anadl, yn mhob man,
Dan gwmpas haul y nen,
Ar fôr a thir, mewn gwlad a thref,
Coronwch ef yn ben.

6 Na enwer enw neb ond hwn
Fu farw ar y pren,
Drwy'r ddaear faith, nac yn y nef:
Coronwch ef yn ben. E. E.

217. *Meliant i'r Oen.*

M. C.—Tiverton. Bedford.

CYDUNWN a'r angylion fry,
Bin tannau yn gyttûn;
"Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un."

2 Os ydyw'r Oen fu farw'n sail
Eu holl ganiadau hwy,
Mae'n haeddu, am farw drosom ni,
Ein mawl fil filoedd mwy.

3 Ac ef yn unig biau'r mawl,
Drwy ddwyfol hawl ddilyth,
A chled uwch law a allwn ni
Ei roddi iddo byth.

4 Cyduned pob creadur byw,
Uwch law ac is y nen,
I roddi ynghyd, can's teilwng yw,
Y goron ar ei ben.

5 Doed y greadigaeth eang oll,
Ag un soniarus lef,
I ogoneddu'r addfwyn Oen,
A thraethu ei foliant ef. E. E.

218. *Clod i Dduw mewn cnawd.*

M. C.—St. Stephen. St. George.

GOGONIANT fyddo i'th enw mawr
Am ddod i brynu dyn,
A disgyn o dy lys i lawr
I'th wneyd â ni yn un.

2 I anial pell y crwydrai'n traed
Oddi wrthyt ti, O Dduw!
Ond yn ein natur fe dy gaed
Mewn agwedd gwas yn byw.

3 Mewn cariad, Iesu, doist i lawr
I'r byd o entrych ne';
Mewn cariad cwrddaist, do, â'r awr
I farw yn fy lle.

4 Mewn cariad ewisgaist goron ddrain,
Y fantell goch, a'r cur;
Mewn cariad cym'raist bigau main
Y llymion hoelion dur.

5 Daeth prynedigaeth gyda'th waed
A lifodd ar y pren;
Gorphenaist iachawdwriaeth râd;
Agoraist ddrws y nen. D. M.

219. *Enw Crist.*

M. C.—Farrant. Tallis.

MOR beraidd i'r credadyn gwan
Yw hyfryd enw Crist: [glwy',
Mae'n llaesu ei boen, yn gwella'i
Yn lladd ei ofnau trist.

2 I'r ysbryd clwyfus rhydd iachâd,
Hedd i'r drallodus fron;
Mae'n fanna i'r newynog ddyn,
I'r blin, gorphwysfa lon.

3 Hoff enw i fy Ymguddfa mwy,
Fy Nghraig a'm Tarian yw;

Trysorfa ddiball yw o ras
I mi y gwaela'n fyw.

4 Iesu, fy Mhrophwyd, a fy Mhen,
F' Offeiriad mawr, a'm Brawd,
Fy mywyd i, fy ffordd, fy nod,
Derbyn fy moliant tlawd. N. C.D.CS.

220. *Iachawdwriaeth a'i chyflawnder*

M. C.—St. George. York.

MAE'r iachawdwriaeth rad mor fawr,
Mae'n achub, mae'n glanhau,
Troseddwyr duaf daear lawr;
Gwnawn ynddi lawenhau.

2 Cael derbyn o'i chyflawnder cûn
A wna y trist yn llon;
Gogoniant Duw, dedwyddwch dyn,
Sydd yn gyttûn yn hon.

3 Mae Iesu Grist yn drysor mwy
Na holl drysorau'r byd:
Daeth hedd a bywyd ini trwy
Ei ryfedd angeu drud. J. H.

221. *Y Prophwyd mawr.*

M. C.—French. St. Stephen.

MAE Iesu Grist yn Brophwyd mawr,
Y mwyaf yw i gyd;
Er maint ein t'wyllwch, wele wawr—
Crist yw goleuni'r byd.

2 O Brophwyd mawr! i'w enw boed
Anrhydedd a mawrhâd:
Daeth â'r newyddion goreu erioed
Am iachawdwriaeth rad.

3 Mae yn amlygu pethau'r nef
Yn eu prydferthwch coeth:
Pwy sydd yn dysgu fel efe?
Mae'n gwneyd y ffol yn ddoeth.

4 O! Brophwyd mawr yn Seion sydd,
Ti a oleuaist fyrdd:
A'th air a'th Ysbryd ettо bydd
I'm harwain yn dy ffyrdd.

5 Dwg fi, y ffolaf un a gaed,
O'r dwfn dywyllwch du:
Gâd i mi eistedd wrth dy draed,
I wrandaw d'eiriau cu. E. E.

222. *Golwg ar groes Crist.*

M. C.—St. James. St. Stephen.

'DOES neb ond ef, fy Iesu hardd,
A ddichon lanw 'mryd;
Fy holl gysuron byth a dardd
O'i ddirfawr angeu drud.

2 'Does dim yn gwir ddifyru f'oes
Helbulus yn y byd,
Ond golwg mynych ar y groes,
Lle talwyd iawn mewn pryd.

3 Mi welaf le mewn marwol glwy'
I'r euog guddio'i ben;
Ac yma llechaf nes myn'd trwy
Bob aflwydd is y nen. W. E.

4 Yr Iawn a dalwyd ar y groes
Yw sylfaen f'enaid gwan;
Wrth bwyso arno ddydd a nos
'Rwy'n disgwyl dod i'r lan. W. J.

223. *Coronau lawer.*

M. C.—St. Ann. St. James.

CLODFORWCH enw Mab Duw addfwyn
Angylion gwynion gwawr;
O! deuwch a choronwch ef
Yn Llywydd nef a llawr.

2 Seraphiaid nef, pob un â'i dant,
Dan ganu moliant mawr,
O! deuwch a choronwch ef
Yn Llywydd nef a llawr.

3 Ei chwerwaf angeu, byth na bo
I'w saint anghofio'r awr;
O! deuwch a choronwch ef
Yn Llywydd nef a llawr.

4 Pob llwyth ac iaith, hil Adda i gyd,
Trwy'r holl gwmpasfyd mawr,
O! deuwch a choronwch ef
Yn Llywydd nef a llawr. Js. H.

224. *Cadarn i iachau.*

M. C.—York. St. George.

OS ydwyf wael fy llun a'm lliw,
Os nad yw 'mriw'n gwellhau,
Af at y Meddyg mawr ei fri,
Sy'n gadarn i iachau.

2 O'm pen i'm traed, 'rwy'n glwyfus oll,
Pob archoll yn dyfnhau:
Neb ond y Meddyg da i mi,
Sy'n gadarn i iachau.

3 Os wyf heb rym i ddim sydd dda,
Dan bwys fy mhla'n llesgau,
Rhydd Iesu gryfder i'r di-rym;
Mae'n gadarn i iachau.

4 O d'lydd i ddydd, caf nerth i ddal;
Mae'i ras yn amlhau:
Am hyn, nid anobeithiaf ddim,
Mae'n gadarn i iachau. E. T.

225. *Crist, pen yr Eglwys.*

M. C.—French. Martyrdom.

PAN sycho'r moroedd dyfnion maith
Pan syrthio sêr y nen,
Yr hwn fu farw, ac sydd fyw,
Ar Seion fydd yn ben.

2 Ei enw bery tra bo haul,
Yn glodfawr byth y bydd;
Ac ni bydd diwedd ar ei glod
I dragwyddoldeb ddydd.

3 Bendithion rif y tywod mân,
A gwlith y ddaear lawr,
Yn nghadw i'r ffyddloniaid sydd
Byth yn eu Harglwydd mawr.

4 Aed enwau'r byd i gyd yn ddim,
Dyrchafer Brenin nef;
Mae pob cyflawnder, gras, a nerth,
Yn trigo ynddo ef. E. E.

226. *Mawl i'r Ceidwad.*

7. 8.—Hosannah.

HOSANNA, Haleluwiah,
I'r Oen fu ar Galfaria;
Gorphenwyd iachawdwriaeth dyn,
Efe ei hun yw'r noddfa:
Tragwyddol ddioleh iddo
Am faddeu a thosturio;
Anfeidrol fraint i lwch y llawr
Fod croeso'n awr ddod ato.

3 Mae'n achub hyd yr eithaf
Y pechaduriaid mwyaf;
Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn
Gan Dri yn un Iehofah;
Anturiwn ninnau arno,
Mae'r Iesu'n achub etto,
A chroeso i bechaduriaid mawr
Bob munyd awr ddod ato.

3 Mae'r ddyled wedi ei thalu,
Ac uffern wedi ei maeddu,
Gobeithiol garcharorion sy
Yn dod yn llu i fyny:
Mae'r pyrth yn llawn agored,
Doed Israel o'r caethiwed;
Pob llesg a gwan, fyth ger ei fron,
Ei wyneb llon gânt weled. D. C.

227. *Canmawl cariad Crist.*

2. 8.—Aberdeen. Potsdam.

CLOD, clod
I'r Oen a laddwyd cyn fy mod;
Y parch a'r mawl i'w enw boed,
Am iddo erioed, o'i gariad rhad,
Roi 'i serch ar wael syrthiedig ddyn;
Mawr iawn yw rhin ei werthfawr waed.

2 Daw dydd
I'r carcharorion fyn'd yn rhydd,
O'u holl gadwynau tynion sydd;
Mor felus fydd eu caniad hwy;
Am ddioddefaint addfwyn Oen,
Bydd hyfryd sôn, heb ddiwedd mwy.

3 Daw, daw
Yr hyfryd foreu, mae ger llaw,
Bydd pawb â'i delyn yn ei law, [Oen;
Heb ofn na braw, yn nghwmni'r
Ond canu i dragwyddoldeb maith,
Ar ben y daith, heb friw na phoen.
AN.

228. *Angeu ac adgyfodiad Crist.*

7. 6. D.—Manheim. Meirionydd.

O! ENW ardderchocaf
Yw enw marwol gŵy';
Caniadau archangylion
A fydd fath enw mwy:
Bydd yr anfeidrol ddyfais
O brynedigaeth dyn,
Gan raddau filoedd yno
Yn cael ei chanu'n un.

2 Fe ddaeth i wella'r archoll
Trwy gymm'ryd clwyf ei hun,
Etifeddi nef yn marw
I wella marwol ddyn:
Yn sugno i maes y gwenwyn
A rodd y sarph i ni,
Ac wrth y gwenwyn hwnw
Yn marw ar Galfari.

3 Deg dryll ar hugain arian,
Fy Iesu, oedd dy bris:
A all'sai ddim o'r arfaeth
Dy werthu'n uwch neu'n is?
Anfeidrol ddiystyrwch!
Fe dal'sai 'Mhrynwr mawr
Y nefoedd fil o weithiau,
A mil o weithiau'r llawr.

4 Bechadur! gwel e'n sefyll
Yn llonydd ar y groes;
Clyw'r gruddfan sy yn ei enaid
Dan ddyfnder angeu loes;
O! gwrando ar ei ruddfan!
Mae pob ochenaid ddrud
Yn ddigon mawr o haeddiant
Ei hun i brynu hyd.

5 Gwel ar y croesbren acw
Gyfiawnder mawr y ne',
Doethineb, a thrugaredd,
Yn gorwedd mewn un lle,
A chariad anfesurol,
Yn awr i gyd yn un,
Fel afon fawr lifeiriol
Yn rhedeg at y dyn.

6 Cynnefin iawn â dolur,
Gofidus iawn a fu,
Fel doi tangnefedd rhyfedd,
Ac iechyd llawn i ni;
Fe ddygodd ein doluriau,
A'n clwyfau bob yr un,
Trwy rym tragwyddol gariad,
O fewn ei gorph ei hun.

229. RHAN II.

AC yna adgyfododd
Yn ogoneddus iawn;
Daeth boreu teg a hyfryd,
'Nol stormus, ddu brydnawn:
Y gadwyn fawr a dorodd
Ar foreu'r trydydd dydd;
Fe goncrodd angeu'i hunan:
O'r carchar daeth yn rhydd.

2 I fyny daeth o Edom,
A'i wisg yn goch ei lliw;
Nis gall'sai un creadur
Mewn cadwyn gadw Duw:
Fe dorodd rym yr angeu,
Agorodd ddrysau'r bedd;
Palmantodd ffordd o'r ddaear
Yn awr i ganol hedd.

3 Mae'r ffynnon yn agored;
Dewch, edifeiriol rai;
Dewch chwithau, yr un ffunud,
Sy'n methu edifarhau:

Dewch, gafodd galon newydd,
Dewch chwithau, na chadd un;
I olchi pob budreddi
Yn haeddiant Mab y dyn.

6 O! Iachawdwriaeth gadarn,
O! Iachawdwriaeth glir,
Fu dyfais o'i chyffelyb
Erioed ar for na thir:
Fe rodd ei fywyd drosom:
Beth all ef ballu mwy?
Mae myrdd o drugareddau
Difesur yn ei glwy'.

5 O! ras didrai, diderfyn,
Tragwyddol oi barhad!!
Yn nghlwyfau'r Oen fu farw
Yn unig mae iachâd;
Iachâd oddi wrth ewgarwydd,
Iachâd o ofnau'r bedd;
A chariad wedi ei wreiddio
Ar sail tragwyddol hedd. W.—TH.

230. *Mawl am drefn iachawdwriaeth.*

7. 6. D.—Mount Street. Ramah.

FY Nuw, fy Nhad, fy Iesu,
Boed clod i'th enw byth;
Doed dynion i dy foli
Fel rhif y boreu wlith;
O! na bai gwellt y ddaear
Oll yn delynau aur,
I ganu i'r hwn a anwyd
Yn Methle'm gynt o Fair

2 O Iesu! pwy all beidio
Dy ganmol ddydd a nos
A phwy all beidio cofio
Dy farwol, ddwyfol loes?
A phwy all beidio canu
Am iachawdwriaeth mai,
Ag sydd yn toimlo gronyn
O rinwedd pur dy waed?

3 O Arglwydd! rho i mi dafod
Nas tawo ddydd na nos;
Ond dweyd wrth bob creadur
Am rinwedd gwaed y groes;
Na ddelo gair o'm genau,
Yn ddirgel nac ar g'ocdd,
Ond am fod Iesu anwyl
Yn wastad wrth fy modd. W.—TH.

231. *Dim yn Iawn ond aberth Crist.*

7.6.D.—Abertawe. Caerllyngoed.

PA fodd, fy enaid euog,
Y seli yn erbyn gwym
Cyfiawnder hyd yr eithaf,
Na ad heb dalu ddim,
Sy'n chwilio yr arenau,
A holl ddyfnderoedd dyn,
Yn eglur fel yr haulwen
I lygad Duw oi hun?

2 Pa aberth roddir, Arglwydd,
Am bechod aydd nas bwyr,
A'i bwysau fel y bryniau
Ei rif fel gwellt y llawr?
Ai miloedd o fyheryn
Wna f'enaid bach yn wen,
Neu fyrdd o dyrchau olew,
Neu lawer gyda hyn?

3 Nid oes dryeh lôr ar weddi,
Nid oes eiryeh lor ar waith,
Nac ofn na pharch, na gwasg'r
Mawl, nac elusen chwaith,
Na ffydd, na dagrydwydd,
Zel, nac ymprydiau trist,
Na dim, at faddeu pechod,
Ond angeu Iesu Grist.

4 Os Satan, neu gydwybod,
Neu lym gyfiawnder Duw,
A blediant echryslondeb
Y pechod drwg ei ryw;
Mai gwâg yw pob creadur
Am dano i wneuthur lawn;
Cyhoeddi mae'r efengyl
Fod Iesu Grist yn llawn. W.—G.D.C

232. *Golwad ar yr holl greadigaeth i foli Iesu Crist.*

7. 6. D.—Meirionydd. Ramah.

AM hyny pob creadur,
Wel rhoddwch allan gân,
O'r mwyaf eu maintioli,
Hyd at y lleiaf mân;
Cyhoeddwch gyda'ch gilydd,
Yn llawen, nid yn drist,
Am glod didrai, diderfyn,
A daioni Iesu Grist.

2 Chwi, bryfed, ef clodforwch,
Sy'n isel ar y llawr,
I lwch y ddaear atoch
Daeth y Messiah mawr;
Ymlusgiaid, O! dyrchefwch
Soniarus gân o'r trwch;
Bu Iesu dri diwrnod
Yn gorwedd yn y llwch.

3 Chwi, adar ar yr aden,
Sy'n chwareu ar y pren,
Rhowch eich telynau'n barod
I foli Brenin nen;
Holl goedydd yr anialwch,
O! curwch ddwylaw 'nghyd;
Rhyfeddod iddo farw
Ac e'n Greawdwr byd.

4 Anadled yr awelon,
Murmured pob rhyw nant,
Ryw swn soniarus hyfryd,
Fel bysedd byw ar dant,
I'r hwn ei hun sydd fymon
O ddwfn y bywyd pur,
Ac yn anadlu o'i ysbryd
Gysuron gloyw, clir.

5 Folit! thawiwch ei anrhydedd.
Darsnau! seiniwch chwi

Fi gla[illegible] t[illegible] f[illegible]do'r [illegible]eedd
Yn r[illegible]
Chwi, d[illegible]
Cwlwm[illegible]yr anti[illegible]yn,
Fel oen dan law y cneifiwr
Bu ar Galfaria fryn.

6 Ti, llywiaeth y goleuni,
Ymerydda i mewn dy ber[illegible],
I Ddaear drist yn y nos;
Dwedd y[illegible]
Am [illegible]
Sydd [illegible]
Yn g'leuo enaid dyn.

7 Angylion, archangylion,
Cy[illegible]
A dysgwch ei glodfori
Ef hefyd, nef y nef;
Chwi welsoch anfeidroldeb
Ei air a'i ryfedd rym,
Pan welsoch natur eang
Yn tarddu maes o ddim.

8 Mil mwy cedd eich rhyfeddod
Yn Gethsemane'n awr
Wel'd chwys a gwaed yn ddafnau
Yn syrthio ar y llawr;
Pwys bai [illegible]
Yn gwasgu i lawr, yn dyn,
Yr [illegible]
Ryw oesoedd maith cyn hyn.

9 Ond dyn yn enwedigol!
Ie, dyn, dyrchafed lef,
Mewn haleluwia dyblyg,
O'r ddaear gron i'r nef;
Can's dros y dyn yr hoeliwyd
Ef ar y croesbren mawr,
A thros y dyn y torwyd
Yn ngwaelod bedd i lawr.W.—G.D.C.

233. *Galwad ar bob gradd i foli y Gwaredwr.*

7. 6. D.—Ramah. Syria.

IETH bynag yw'r gwahaniaeth
Rhwng graddau yn y byd,
Yr lawn, heb ddierbyn wyneb,
Oedd drosom ni i gyd;
Am hyn, frenhinoedd, cwympwch
O'en gorseddfeydd i lawr,
Sy'n ifori o'r drutaf,
Ger bron y Brenin mawr.

Chwi dlodion, chwi gystuddiol,
Digysur, fyth na thewch,
On i bydawch bellach lawen
Drachefn llawenhewch;
Dewiswyd yntau dlodi,
A gwawd, ac angau du,
Fel byddech chwi'n frenhinoedd
Yn yr wybrenau fry.

Chwi [illegible]
[illegible]

Yn rhyfedd gyfaill [illegible]
Tan'r [illegible]
Crist [illegible]
[illegible]
A'r gan d[illegible]
Bl[illegible]

4 A'r cyntaf dd'wedoch chwithau,
Pr[illegible]
Pa[illegible]
A dec[illegible]
Pa[illegible]
Dew[illegible]
Er [illegible]
Daeth ef yn faban gwan.W.—G D.C

234. "*Haeddiant mawr yr aberth.*"

7. 6. D.—Mount St. Ramah.

PA le dechreuaf ganu
Am ddwyfol farwol loes,
A haeddiant mawr yr aberth
Fu'n hongian ar y groes?
Anfeidrol bwysau pechod
A wasgwyd arno ef,
A'r pris anfeidrol dalwyd
I groesi llyfrau'r nef.

2 Mi ganaf tra fo anadl
O fewn i'r ffroenau hyn,
Am gariad yn dioddef
Ar ben Calfaria fryn;
Am goron ddrain blethedig,
Am hoelion garwa'u rhyw—
I gânu'm henaid euog
Fel eira gwyna'i liw.

3 Fe rwygwyd muriau cedyrn,
Fe dorwyd dorau pres,
Oedd rhyngom ni a'r bywyd—
Mae'r bywyd heddyw'n nes;
Palmantwyd yr holl lwybrau,
Mae'r pyrth o led y pen,
O ddyfnder dinas distryw
I eitha'r nefoedd wen.

4 Fe bery trugareddau
'R cyfammod gwerthfawr drud,
Pan ddarfo'r greadigaeth
Ddiderfyn oll i gyd;
Ni bydd ond dechreu gweled
Daioni mawr y ne'
Pan gollo haul a lleuad
A'r holl blanedau'u lle. W.

235. *Yr arfaeth a'r prynedigaeth.*

7.6.D.—Mount Street. Manheim.

FYTH, fyth, [illegible]
Yn nhragwyddoldeb pell,
A dref[illegible]
[illegible]
Na'r ddaear a'i thrysorau,
[illegible]
Fy nghyfoeth mawr diderfyn
Yw Iesu, Brynwr byd.

2 Ar noswaith oer fe chwyssi
Y gwaed yn ddafnau i lawr,
Ac ef mewn ymdrech meddwl
Yn talu'n dyled fawr;
Fe yfai'r cwpan chwerw
Wrth farw ar y pren;
Palmantodd ffordd i'r bywyd
O'r ddaear hyd y nen.

3 Tragwyddol glod i'r cyfiawn
Fu farw dros fy mai;
Fe adgyfododd ellwaith
O'r bedd i'm cyfiawnhau;
Ar orsedd ei drugaredd
Mae'n dadleu yn y ne',
Ei fywyd a'i farwolaeth
Anfeidrol yn fy lle. M. R.

236. *Brawd a anedd erbyn caledi.*

7.6.D.—Meirionydd. Missionary.

HOSANNA, Haleluwia,
Fe anwyd brawd i ni;
Fe dalodd ein holl ddyled
Ar fynydd Calfari;
Hosanna, Haleluwia,
Brawd ffyddlawn, di-wahân;
Brawd erbyn dydd caledi,
Brawd yw mewn dŵr a thân,

2 Brawd anwyl sy'n ein cofio
Mewn oriau cyfyng, caeth;
Brawd llawn o gydymdeimlad—
Ni chlywyd am ei fath;
Brawd cadarn yn y frwydr,
Fe geidw'i frodyr gwan;
Yn dirion dan ei aden
Fe ddaw â'r llesg i'r lan. D. W.

237. *Craig yr Iachawdwriaeth.*

7.6.D.—Manheim. Heol y Bont.

AM Graig yr iachawdwriaeth
Fy enaid egwan cân;
Y Sylfaen fawr dragwyddol,
A'r hyfryd Gongl-faen;
Fy Noddfa rhag ystormydd,
A Chysgod rhag y gwres;
Mae'n ganmil mwy rhagorol
Na chedyrn furiau prcs. D. W.

238. *Addasrwydd anfeidrol y Gwaredwr.*

7. 6. D.—Ramah. Meirionydd.

O! am gael ffydd i edrych,
Gyda'r angylion fry'
I fôr yr iachawdwriaeth,
Dirgelwch ynddi sy;
Dwy natur mewn un person
Yn gysson yno gaed;
Anfeidrol a thragwyddol
Yw rhinwedd dwyfol waed.

2 O f'enaid! gwel addasrwydd
Y person dwyfol hwn;
Anturia iddo'th fywyd,
A bwrw arno'th bwn:
Mae'n ddyn i gydymdeimlo
A'th holl wendidau i gyd;
Mae'n Dduw i fynu'r orsedd
Ar ddiafol, cnawd, a byd. A. G.

239. *Rhyddid a maddeuant trwy Grist.*

7.6. D.—Heol y Bont. Manheim.

AGORODD ddrws i'r cnethion
I ddod o'r cystudd mawr;
A'i werthfawr waed fe dalodd
Eu dyled oll i lawr:
Nid oes dim damnedigaeth
I neb o'r duwiol hâd;
Y gwaredigion canant
Am rinwedd mawr ei waed.

2 Wel dyma'r un sy'n maddeu
Pechodau rif y gwlith;
'Does mesur ar ei gariad,
Na therfyn iddo byth;
Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
Mae'n hoffi trugarhau;
Trugaredd i'r amddifaid
Sydd ynddo i barhau.

3 Teilwng yw'r Oen a laddwyd
O'r holl ogoniant mawr,
Trwy ganol nef y nefoedd,
Ac yma ar y llawr;
Pan elo'r holl greadigaeth
Yn ulw gan y tân,
Teilyngdod Iesu drosof
Fydd fy nhragwyddol gân.

4 Fe genir, ac fe genir
Yn nhragwyddoldeb maith,
Os gwelir un pererin
Mor lesg ar ben ei daith;
A gurwyd mewn tymmhestloedd,
A olchwyd yn y gwaed,
A gadwyd, ac a gadwyd
Trwy'r iachawdwriaeth rad. M. R

240. *Iachawdwriaeth trwy Grist.*

7. 6. D.—Edna. Rhyddid.

DAETH i ni iachawdwriaeth
Trwy eithaf chwys a gwaed;
Mae'n codi pechaduriaid
O'r dyfnder ar eu traed;
'Da'i byth i 'mofyn haeddiant,
Trwy'r nef na'r ddaear lawr,
Ond haeddiant pen Calfaria—
Rhinweddau'r aberth mawr.

2 Pan oedd cuogrwydd creulawn
Yn llosgi fel y tân,
A Satan yntau'n rhifo
Fy meiau, fawr a mân;
Anfeidrol haeddiant Iesu
A wnaeth i'r glorian droi,
A'i nefol ymddangosiad
Wnaeth i'm gelynion ffoi. A.N.

241. *Y Mab mewn agwedd gwas.*

7. 6. D.—Meirionydd. Talyllyn.

TAD oesoedd tragwyddoldeb
A ddaeth mewn agwedd gwas;
Cymmerodd ein gwendidau;
Wel dyma fôr o ras:
Gan iddo ddod mor isel,
Fe gyfyd fyrdd i'r lan,
Yn dystion o'i drugaredd
I'r bywyd yn y man. AN.

242. *Crist fel pren afalau.*

7. 6. D.—Missionary. Mount Street.

PWY welaf fel f'Anwylyd,
Yn hyfryd ac yn hardd,
Fel ffrwythlawn bren afalau
'N rhagori ar brenau'r ardd?
Ces eistedd dan ei gysgod
Ar lawer cawod flin;
A'i ffrwyth oedd fil o weithiau
I mi yn well na'r gwin. J. T.

243. *Harddwch y Gwaredwr.*

7. 6. D.—Ramah. Syria.

MAE myrddiwn o rinweddau
Yn eistedd ar ei wedd,
A ennyn fythol gariad,
A ennyn fythol hedd;
A phan ddarfyddo'r gorchudd,
Fe'i gwel yr eglwys fawr,
A'r olwg arno a'i sugna
Yn llwyr oddi ar y llawr. AN.

244. *Diolch am Gyfryngwr.*

7.6.D.—St. Mark. Meirionydd.

PA le, pa fodd dechreuaf
Foliannu'r Iesu mawr?
Olrheinio'i ras ni fedraf;
Mae'n llenwi nef a llawr:
Anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
A'i holl drysorau'n llawn;
Diderfyn yw ei gariad,
Difesur yw ei ddawn.

2 Trugaredd a gwirionedd
Yn Nghrist sy'n awr yn un,
Cyfiawnder a thangnefedd
Ynghyd am gadw dyn:
Am Grist a'i ddioddefiadau—
Rhinweddau marwol glwy',
Y seinir pêr ganiadau
I dragwyddoldeb mwy.

3 O! diolch am Gyfryngwr—
Gwaredwr cryf i'r gwan;
O! am gael ei adnabod—
Fy Mhriod a fy Rhan;
Fy ngwisgo â'i gyfiawnder
Yn hardd ger bron y Tad;
A derbyn o'i gyfiawnder
Wrth deithio'r anial wlad. R. R.

E

245. *Un aberth.*

7. 6. D.—Meirionydd.

UN waith am byth oedd ddigon
I wisgo'r goron ddrain;
Un waith am byth oedd ddigon
I ddiodde'r bicell fain;
Un aberth mawr gwirfoddol
A ddofodd ddwyfol lid;
Un Iesu croeshoeliedig
Sy'n Feddyg trwy'r holl fyd. AN.

246. *Effeithiolrwydd angeu Crist.*

M. B.—Tytherton. Colchester.

AI am fy meiau i
Dioddefodd Iesu mawr,
Pan ddaeth yn ngrym ei gariad ef
O entrych nef i lawr?

2 Cyflawnai'r gyfraith bur,
Cyflawnder gafodd iawn;
A'r ddyled fawr, er cymmaint oedd,
A dalodd ef yn llawn.

3 Dioddefodd angeu loes,
Yn ufudd ar y bryn;
A'i waed a ylch yr Ethiop du
Yn lân fel eira gwyn.

4 Bu'n angeu i'n hangeu ni
Wrth farw ar y pren;
A thrwy ei waed y dygir llu,
Trwy angeu, i'r nefoedd wen.

5 Pan grymodd Iesu ei ben,
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
I bur drigfanau'r ne'.

6 Gorchfygodd uffern ddu,
Gwnaeth ben y sarph yn friw
O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras, i deulu Duw. J. B.

247. *Gogoniant Crist.*

M. B.—Tytherton. St. Michael.

MAE 'n decach yn ei wedd
O'u bron na dynol-ryw;
Nid oes greadur is y rhod
Sydd debyg i fy Nuw.

2 Dioddefodd ar y pren,
I hoelio'i ddwylo a'i draed;
Trywanwyd idd ei ystlys bur,
Daeth allan ddwr a gwaed;

3 Fel cai y dua'i liw
Ei gânu'n hyfryd wyn,
Mewn afon bur o waed a dwr
Ddylifodd ar y bryn. W.

248. *Trefn cadw.*

M. B.—St. Michael. Ipswich.

TOSTURI dwyfol fawr
At lwch y llawr sy'n bod,
Pan gymmerth Duw achubiaeth dyn,
A'i glymu'n un â'i glod.

3 Pan ddaeth y Mab o'i fodd
I farw yn ein lle,
Agorodd ffordd i'n dwyn at Dduw;
Ein Ceidwad yw efe.

3 Mae Iesu'n fawr ei fri,
A'i glod yn llenwi'r nef;
A holl hyfrydwch pur y plant
Yw ei ogoniant ef. S. LL.

249. *Cariad ac Iawn Crist.*

M. B.—Tytherton. Colchester.

CYDUNED Seion lân
Mewn cân bereiddia'i blâs,
O fawl am drugareddau'r lôn,
Ei roddion ef a'i ras.

2 P'le gwelir cariad fel
Ei ryfedd gariad ef?
P'le bu cyffelyb iddo erioed?
Rhyfeddod nef y nef!

3 Fe'n carodd cyn ein bod,
A'i briod Fab a roes,
Yn ol ammodau hen y llw,
I farw ar y groes.

4 Gwnaeth Iesu berffaith iawn
Brydnawn ar Galfari;
Yn ei gyfiawnder pur di-lyth
Mae noddfa byth i ni.

5 Anfeidrol ydyw gwerth,
A rhin ei aberth mawr,
I achub rhyw aneirif lu
O deulu gwael y llawr.

6 Y rhai, yn berffaith lân,
A beraidd gân i gyd,
I'r bendigedig unig Oen,
Yn iach o boen y byd. Js. H.

250. *Yr aberth digonol.*

M. B.—Colchester. Ipswich.

NIS gallai gwaed yr holl
Aberthau i gyd o'r bron
Roi heddwch i'r gydwybod ddu,
Na golchi bryntni hon.

2 Ond Crist, y nefol Oen,
A ddyg bechodau'r byd;
Ei aberth ef, a'i waed, sydd fwy
Na phwysau 'rhai'n i gyd.

3 Af ato fel yr wyf
I 'mofyn am iachâd;
A'm holl bechodau addef wnaf
Yn isel wrth ei draed.

4 Mae gobaith f'enaid gwan,
Fy hyder, a fy ffydd,
Yn gwir ymorphwys ar ei waed
Am lwyr lanhâd ryw ddydd.

5 Gwnaeth Iesu gymmod llawn,
Dioddefodd angeu loes;
Y clod di-drai, y mawl di-lyth,
Fo byth am waed y groes.

Cyf. D. Ts. [*Watts*].

251. *Iachawdwriaeth râd.*

M. B.—Tytherton. Colchester.

MAE'r iachawdwriaeth râd
Yn ddigon i bob rhai:
Agorwyd hymmon er glanhâd
Pob pechod cas a bai.

2 Daw tyrfa rif y gwlith
Yn iach trwy rin y gwaed:
Pwy wyr na byddaf yn eu plith,
Yn lân o'm pen i'm traed?

3 Er lleted yw fy mhla,
Er dyfned yw fy mriw,
Y balm o Gilead a'm hiachâ—
Mae Crist yn Feddyg gwiw.

4 Dan bwys euogrwydd du,
Edrychaf tua'r groes,
Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu;
Anfeidrol iawn a roes. P. J.

252. *Henffych i'r Messiah.*

M. B. D.—Aberdar. Percrin.

BLANT ffyddlon Seion, dewch,
A llawenhewch i gyd;
Yn mlaen â chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llid:
O! hyfryd ddedwydd awr,
Messiah mawr a gaed;
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

2 Er i ni golli'r hedd,
Yn mharadwysedd wiw,
A bod yn fyr o gadw'r fraint,
Myn'd dan ddigofaint Duw;
Ni gawsom flad y wraig
Yn gadarn graig i'n traed:
Henffych i'r dydd, &c.

3 Addewid gafwyd, do,
'Nol ini syrthio 'mhell;
Arfaethol ras, hawl ini a roed,
Gaed ar gyfammod gwell:
Mae'r sylfaen yn ddi-gryn,
Ni chollir un o'r hâd;
Henffych i'r dydd, &c.

4 Er gwaethaf Satan, sydd
Yn temtio ddydd a nos,
Mae genym hawl i'r trysor da
Sy'n para o oes i oes:
Ffordd newydd gafwyd, do,
I deithio at y Tad;
Henffych i'r dydd, &c.

5 Drachefn, llawenhewch,
Chwi etholedig lu,
Mae'r oruchafiaeth wedi dod
Trwy Grist ein Priod ni:
Er cyfeiliorni'n hir,
Cawn ddod i dir ein gwlad;
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iachawdwriaeth rad. W.

253. *Y cwbl troy'r gwaed.*

M.B.D.—Aberdar. Heidelberg.

DY glwyfau yw fy rhan,
Fy nhirion Iesu da;
Y rhai'n yw nerth fy enaid gwan,
Y rhai'n a'm llwyr iachâ:
Er saled yw fy nrych,
Er tloted wyf yn awr,
Fy llenwi gaf â llawnder Duw,
A'm gweled fel y wawr.

2 Mi brofais Dduw yn dda,
Fy nhirion raslawn Dad,
Yn maddeu im fy meiau mawr
Yn rhwydd o'i gariad rhad:
Fe'm seliodd i mewn heud;
On'd rhyfedd yw ei ras?
Fe'm bwydodd i â'r manna pur
Mewn gwledd o hyfryd flas.

3 Mi wn i Grist, mi wn,
Fy ngharu cyn bod byd;
Parhau i'm caru gwn y gwna,
Heb drai, yr un o hyd:
Efe yw'm Tywysog tirion,
Efe yw'm Meddyg mawr,
Efe yw'm Harchoffeiriad gwych,
Sydd droswy'n pledio'n awr. W.

254. *Gwaed yn puro y gyfraithbod.*

M. B. D.—Pererin.

MI gana' am waed yr Oen,
Er maint yw 'mhoen a 'mhla;
Does geny'n wyneb calon ddu
Ond Iesu'r Meddyg da;
Fy mlino gès gan hon,
Ei thrioin chwerwon chwith;
Fy unig sail i am y wlad
Yw'r cariad bery byth. AN.

255. *Adnabod Crist.*

M. B. D.—Aberdar. Pererin.

WEL dyma'r Ceidwad mawr
A ddaeth i lawr o'r nef,
I achub gwaeledd, llwch y llawr;
Gogoniant iddo ef:
Bu farw yn ein lle
Ni, bechaduriaid gwael;
Mae pob cyflawnder ynddo fe
Sydd arnom eisieu gael.

2 Ei 'nabod ef yn iawn
Yw'r bywyd llawn o hedd,
A gwel'd ei iachawdwriaeth lawn
Sydd yn dragwyddol wledd:
Cael teimlo gwaed y groes
Yn dofi'r loes a'r cur,
A wnaeth i filoedd o bob oes
I seinio'r anthem bur. J. T.

256. *Ffynnon i bechod ac aflendid.*

6.6.8.—St. Ambros. Amsterdam.

AM iachawdwriaeth lawn,
Foreuddydd a phrydnawn,
Moliannu gawn yr Iesu gwiw;
Dyddiedydd angau loes
Yn ddiddig ar y groes,
A'i ddoniau rhoes i ddynolryw.

2 Gorphenwyd talu'n llawn,
Ar groesbren un prydnawn;
O ddedwydd Iawn! ni gawn yn llu
Faddeuant yn ei waed,
A hollol wir iachâd;
A Duw yn Dad mewn cariad cu.

3 Y ffynnon loyw hon,
Yn ol y waywffon
Aeth dan ei fron—daeth i ni fraint!
A ylch y brwnt yn lân;
Hosanna, f'enaid cân:
Can's dyma sylfaen yr holl saint. G.

257. *Yr un testyn.*

6.6.8.—St. Ambros Amsterdam.

AGORWYD ar y bryn
Ryw ffynnon rad cyn hyn,
A'm gylch yn wyn o'm pen i'm traed
Mae'n golchi'r dua'i liw
Mor wyn a'r eira gwiw;
Rhinweddol yw y dwyfol waed.

2 Y ffynnon loyw hyn,
A darddodd ar y bryn,
Yn ffrydiau o anfeidrol hedd;
Rhyw fôr o gariad yw
Dy heddwch di, fy Nuw,
A nef y nef yw gwel'd dy wedd.

3 Mi wnaf fy nghartref nwy
Dan gysgod marwol glwy';
'Does noddfa arall dan y nef,
Na man i gael glanhâd,
Ond yn y ffynnon rad
O ddwfr a gwaed o'i ystlys ef. G.

258. *Bendithion iachawdwriaeth.*

6.6.8.—Amsterdam. St. Ambros.

O IACHAWDWRIAETH fawr!
A llifodd im i lawr,
Yn ffrydiau pur, grisialaidd, byw;
Maddeuant i mi gaed,
A heddwch yn y gwaed,
O gariad rhad ein Tad a'n Duw.

2 'Does unrhyw drysor drud
Fel ef o fewn y byd;
Mae'n gwneyd fy ysbryd llesg yn llon
Mwy'n llawen byddaf byw
Yn noddfa bur fy Nuw,
Dan holl gystuddiau'r ddaear hon.

3 Mi dreuliaf oriau f'oes
Yn dawel dan y groes,
Dim ond cael edrych ar dy wedd:
Perffeithrwydd pleser yw
Y wledd o gariad Duw,
Fy holl ddyddanwch a fy hedd. G.

259. *Rhinwedd yr eiriolaeth.*

6. 8.—Alun. Bombay.

O'R holl gadwediz lu
Sy'n teithio i Salem lân,
Myfi yw'r mwyaf du,
Ar bawb yn dwyn y blaen:
Tragwyddol ras na buasai'm nyth
Mewn cadwyn byth yn uffern dân.

2 Er hyn nid ofnaf mwy,
Er cynddrwg yw fy nŵwedd,
Ca'dd pechod farwol glwy'
Gan Iesu glân â'i gledd; [Nghrist,
Mae'r ddraig yn friw dan draed fy
Mae i'm henaid trist dragwyddol
hedd.

3 Efe yw'm Meichiau mawr
O flaen gorseddfainge lôn,
Sy'n eiriol bob yr awr,
Gan gofio'i ddirfawr boen:
Pam 'r ofnaf mwy? mae'n llifo i maes
I orsedd gras bur waed yr Oen.

4 Mae briw y bicell fain,
A thyllau'r hoelion dur,
Ac ol y goron ddrain,
A chwysau'r groes a'i chur,
Yn dadleu nerth cyfiawnder Naf
Dros f'enaid claf am heddwch pur. w.

260. *Rhosyn Saron.*

6. 8.—Alun. Bombay.

O! ROSYN Saron hardd!
O! 'r lili gwyn ei liw!
Nid oes o'r ddae'r a dardd
Fflaguryn fel fy Nŵw:
Yn mhlith y coed rhyw gangen lawn
O sypiau grawn f' Anwylyd yw.

2 Pan oeddwn i yn wan,
Yn mron llowygu'n wir,
Fe'm cododd i i'r lan
I mewn i'w windy pur:
Ces yfed gwin, hyd heddyw mae
Fyth yn parhau ei nefol rin. w.

261. *Goruchafiaeth Crist ar y gelynion.*

6. 8.—Alun. Bombay.

TURWY rinwedd nefol ras
Rhof glod i'r Iesu glân;
Gorchfygodd angeu glas,
Fe'm tynodd i o'r tân:
Archollwyd ef, cadd farwol friw;
Mae etto'n fyw, fy enaid cân.

2 Fy nghalon pam nas tŷr
Yn ddrylliau bob yr awr,
Wrth wel'd fy Mhrynwr pur
A'i waed yn llif i'r llawr,
Can wylo'n daer ar Dduw ei Dad
Am faddeu'n rhad fy meiau mawr?

3 Rhyfelodd Crist â'r ddraig,
Trw'r [illegible] dir awr oedd;
Gorchfygodd Had y wraig;
I'r orsedd 'raeth yr Oen:
Dros f'enaid i mae yno'n awr,
F' Eiriolwr mawr, a'm hauwyl Iôn.

4 Mae'r ffordd yn awr yn rhydd
I entrych nefoedd wen,
Gall pob pechadur prudd
Gael lle o fewn i'r llen:
Mae'r Iesu fry â'i freichiau ar led.
Fy enaid cred: Amen, Amen. w.

262. *Enw yr Iesu.*

6. 8.—Alun. Ramoth.

O! ENW anwyl iawn,
Anwylaf un yn bod;
Ni chlywodd engyl nef
Gyffelyb iddo erioed: [nos,
Rhof arno 'mhwys, doed dydd, doed
Fe'm deil i'r lan dan bob rhyw groes.

2 Cryf yw ei ddeheu law,
Anfeidrol yw ei rym,
Ac nid oes byth a saif
O flaen ei wyneb ddim:
Rhois iddo f'hun, f'amddiffyn gwna
Rhag dyfais uffern faith a'i phla. w.

263. *Dyledswydd trwy weled y groes.*

6. 8.—Waterstock. Alun.

BYDD di yn ymborth pur
I'm henaid ddydd a nos;
Fy holl ddyddanwch gwir
Fo'n tarddu o waed y groes;
Distewi wnaf; mae trysor mwy
Nag fedd y byd mewn marwol glwy'

2 Na flined f'enaid llaith,
Er lleied yw dy rym,
'Dall dyfais uffern faith,
Na phechod wneuthur dim;
Ar Galfari fe'u maeddwyd hwy;
Torwyd eu nerth â marwol glwy'.

3 Mae llwybr hyfryd iawn
O'r ddae'r i'r nefoedd fry,
Agorwyd un prydnawn
Ar fynydd Calfari;
Myrdd o fendithion maith ynghyd
A ddug y groes i anial fyd. w.

264. *Gwaed y groes yn erbyn ofn.*

6. 8.—Alun. Bombay.

MAE dafn bach o waed
Yn drymach yn y nef
Na'r pechod mwyaf gaed,
A'i holl euogrwydd ef;
Gwrandewir llais y dwyfol glwy'
O flaen eu damniol floeddiad hwy.

2 Ni chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr;
'Ddioddefwyd angeu loes
Heb ryw ddybenion mawr;

A dyma oedd ei amcan ef—
Fy nwyn o'r byd i deyrnas nef.

2 Na'd i mi garu mwy
Y pechod dewr ei ryw—
Y pechod roddi'r Iesu'n glwyf'
I 'Mherynwr, O fy Nuw!
Na'd i mi garu dim ond ti
O'r ddae'r i eitha'r nefoedd fry. W.

265. *Caru Crist yn drech na'r gelynion.*

6. 8.—Gwladys. Alun.

ENNYNAIST ynof dân—
Perffeithiaf dân y nef,
Nis gall y moroedd mawr
I ddiffodd mo'no ef; [dy waed,
Mae'th lais, mae'th wedd, mae gwaed
Yn troi 'ngelynion dan fy nhraed.

2 Mae caru 'Mherynwr mawr,
Mae edrych ar ei wedd,
Y pleser mwya'n awr
Sy i'w gael tu yma i'r bedd:
O cariad dwad! O wedd dwad!
Sydd fil o weithiau'n fwy na'r byd.

3 Wel dyma'r gwrthddrych cun,
A dyma'r awr a'r lle,
Cyssegraf fi fy hun
Yn gyfan iddo fe:
Ffarwel, ffarwel, bob eilun mwy,
Mae cariad Iesu'n drech na hwy. W.

266. *Hyder ffydd yn ei Brynwr.*

6. 8.—Gwladys. Normandy.

O'R Ganaan hyfryd, wiw,
Addawyd i mi fi,
Cartrefle pur fy Nuw,
Uwch y ffurfafen fry;
Mi ddof, mi ddof, i'r lan ryw awr,
Er maint sydd arn fy nghalonnau i lawr.

2 O! lueedd uffern fuith,
Er cymmaint yw eich grym,
Tra f' Arglwydd o fy mhlaid,
Ni thycia'ch gallu ddim:
Un olwg syn, un gair o'i lyfr
A dŷr i lawr eich rhwysg i gyd.

3 Yn ei ryfeloedd 'rwyf,
Ei ryfel ef ei hun,
Ac nis caf yno glwyf,
Tra fyddwyf wisgo'i glun:
Ei hyfryd air a'm ceidw'n fyw;
'Does dim orchfyga air fy Nuw.

4 'Does ofn o dan fy mron
Yn agos atat ti;
Ti goncraist ofnau o'r bron
Ar fynydd Calfari;
Ti faeddaist fyrdd â marwol glwy';
Nid oes ond canu imi mwy.

Llawn Haleluwia mwy
I Frenin dae'r a ne',
Deliodefodd farwol glwy'
Yn wirion yn fy lle;
O ddoethwydd awr! O ddoethwydd loes
Bu'm Duw yn hongian ar y groes. W.

267. *Buddugoliaeth y groes.*

6. 8.—Gwladys. Beverley.

FE gân 'tifeddion gras
Yn beraidd macs o law,
Wrth wisgo'r goron o Arglwt,
A hwythau'r ochr draw:
Fy nghân, hed i ben y byd,
I wel'd y goncwest ryfedd hyn.

2 Yn uchel fry ar fryn,
Rhwng dacar gron a nef,
Holl rwysg Gehenna fawr,
A'i grym, orchfygodd ef;
Dan hosion dur gad sathrodd glwy';
Pa sut ymffrostia uffern mwy?

3 Wel dacw'r fyddin yn rhydd;
Agorwyd o bob tu,
O ddyfnder dacar las
I uchder nefoedd fry:
O dewch! o dewch i'r wledd nawr,
Mae nerth i'w gael mewn dwyfol glwy'.

4 Wel dacw'n yn y llawen,
Fe gwympodd ofnau mawr
Ar y gelynion hyf
Oedd am ein cael i lawr:
Fe gaed y dydd, mi glywa'r nen
Yn canu concwest, ar y pren. W.

268. *Iesu, ffynnon dedwyddwch.*

6. 8.—Normandy. Gwladys.

FY Iesu yw fy Nuw,
Fy noddfa gadarn gref;
Ni fedd fy enaid gwan
Ddim arall dan y nef;
Mae'n ei waed a'i gwaith dawel,
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.

2 O! ffynnon fawr ei rhin
O ddwyfol win a llaeth!
Sydd yn ei haeddiant ef;
'Does yn y nef o'i bath: [fraint
Dewch, bawb ynghyd, gwelwch y
A gadd y lleiaf un o'r saint.

3 Anfeidrol wyt, fy Nuw,
Anfeidrol yw dy ras;
A hwnnw'n rhan y gwae
'M dedwyddwch mwya'i macs:
Anghyfnewidiol yw efe,
Am byn fe'm dwg i deyrnas ne'.

4 Fy nymuniadau i gyd
Sy'n cael attebiad llawn,
A'm holl serchiadau 'nghyd
Hyfrydwch nefol iawn,
Pan fyddwy'n gwel'd, wrth oleu'r
Mai eiddo im yw f' Arglwydd mawr. w

269. *"Iddo ef."*

6. 8.—Alun. Gwladys.

O NEFOL addfwyn Oen!
Sy'n llawer gwell na'r byd,
A lluoedd maith y nef
Yn rhedeg arno'u bryd; [drud,
Mae'th ddawn, a'th ras, a'th gariad
Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd.

2 Noddfa pechadur trist,
Dan bob drylliedig friw,
A phwys enogrwydd llym,
Yn unig yw fy Nuw;
'Does enw i'w gael o dan y nef
Yn unig ond ei enw ef.

3 Ymgrymed pawb i lawr
I enw'r addfwyn Oen;
Yr enw mwyaf mawr
Erioed a glywyd son:
Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,
Fo byth i enw'n Harglwydd ni. W.

270. *Neb yn gyffelyb i Grist.*

6. 8.—Normandy. Gwladys.

CYFFELYB i fy Nuw
Ni welodd dae'r na nef;
'Does un creadur byw
Gymmherir iddo ef;
Cyflawnder mawr o ras didrai
Sydd ynddo fythol yn parhau.

2 Yn nyfnder t'wyllwch nos
Mi bwysaf ar ei ras;
O'r t'wyllwch mwyaf du
Fe ddwg olcuni i maes:
Os gwg, os llid, mi af i'w gôl,
Mae'r wawr yn cerdded ar ei ol.

3 Ymffrostiaf ynddo ef
Pe ymderlysgai'r byd,
A dilaw eilwaith ddod
I guddio'r ddae'r i gyd';
Rhyw noddfa lawn a lloches sy
Uwch tymmhestl yn f'Anwylyd cu. W.

271. *Ymgnawdoliad Crist.*

6. 8.—Alun. Waterstock.

DAETH Llywydd nef a llawr
I wisgo dynol gnawd;
Wel, henffych, Arglwydd mawr,
A henffych, dirion Frawd;
Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael
A welwyd yn y preseb gwael.

2 Mewn cnawd, i'n tynu'n rhydd,
Daeth y Tragwyddol Air;
Wel, henffych fyth i'r dydd
Y ganwyd ef o Fair:
O'i ras fe ddaeth o uchder ne',
I brofi'r lladdfa yn ein lle.

3 I groth y wyryf wan,
I garchar ac i'r bedd,
Y daeth ef ar ein rhan,
I haeddu gras a hedd:
Mewn ing a loes ar Galfari,
Agoryd wnaeth y nef i ni.

4 Pa dafod, neu pa ddawn,
A fedd angylaidd lu,
A ddywed byth yn llawn
Am ras ein Ceidwad cu?
Ei waed fe rodd, o'i gariad gwiw,
I gànu'r lleiddiaid dua'u lliw.

5 Mae cariad yn ei wedd
At wael, golledig, fyd;
Cyflawnder llym a hedd
Yn ymgusanu 'ngwyd;
Trugaredd a gwirionedd pur
Yn ymddisgleirio yn ei gur. T. J.

272. *Adgyfodiad Crist.*

6. 8.—Alun. Bombay.

CYFODODD Brenin hedd,
Iachawdwr dynol ryw,
Mewn gogoneddus wedd,
O'r marwol fedd yn fyw:
Ein bywiol ben esgynodd fry,
Goruwch pob llu, tu draw i'r llen.

2 Daw'r saint o lwch y bedd
Ar wedd eu Priod cu,
I lawn dragwyddol wledd,
Mewn gwir [illegible] ry;
Dyrchafant draw o'r dyfnder cudd,
Cânt ddod yn rhydd, mae'r dydd ger llaw.

3 Pan losgo'r ddaear lawr,
A'i mawredd o bob rhyw,
Fe genir am yr awr
Daeth ef o'i fedd yn fyw:
Bydd cof am hon gan ddisglaer lu
Aneirif fry, byth ger ei fron. R. W.

273. *Yr un testyn.*

6. 8.—Beverley. Waterstock.

'NOL marw Brenin hedd,
A'i eiddo i gyd yn brudd,
A'i roi mewn newydd fedd,
Cyfodai'r trydydd dydd;
Boed hyn mewn cof gan Israel Duw,
Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw.

2 Y Meichiau aeth yn rhydd
'Nol rhoddi taliad llawn,
A Duw'n cyhoeddi sydd,
"Yn hwn mi gefais lawn:"
Gwnaeth fordd yn rhydd i fyn'd at Dduw;
Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw.

3 Galarwyr Seion, sydd
A'ch taith trwy ddŵr a thân,
Pa ham y byddwch brudd?
Eich galar droir yn gân:
O cenwch! etholedig ryw,
Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw. J. T.

274. *"Tangnefedd i bell ac i agos."*

6, 4. 8. 7.—Trefdeyrn.

TEG wawriodd arnom ddydd
A welwyd cynt trwy fyd,
Gras sy'n awr
O'u cystudd mawr yn rhydd!
Ac os oedd dyled arnynt hwy
Foliannu'r Oen a'i farwol glwy',
Mae'n dyled ni, genhedloedd,
Fil miloedd foli mwy.

2 Trwy Grist a'i werthfawr waed
Y daeth maddeuant rhad,
I ddynol ryw
Iachawdwr gwiw a gaed;
Ei fywyd pur a'i angeu loes,
A'i ddioddefaint ar y groes,
A ddygo fy serchiadau
Tra pery'r dyddiau f'oes.

3 Yn nyfnder pur ei gariad loes,
A gyda'r rhai a'i carant hwy,
Yw'r aberth fu ar y groes:
Rhoddwyd i lawr ei fywyd gwirfoddol glwy',
Yw'r cysur yn y byd i'r bobl hyn,
A'm hunig ddigonoldeb,
I dragwyddoldeb mwy. G.

275. *Ymddiriedi yn nghras Crist.*

6. 4. 8. 7.—Noddfa.

O DAN d' adenydd di
Mae llaeth a mêl yn lli,
Yn llenwi'r llawr,
Yn afon fawr i ni:
I'r lan i gyrraedd hedyn sy gu,
A maeddu o'u bron elynion lu,
Mae hyfryd Frenin Seion,
Oen tirion, byth o'n tu.

2 Fy unig noddfa'n awr,
I'm lloni ar y llawr,
A'm gwir iachau,
Yw clwyfau'r Meichiau mawr;
Caf ynddynt hwy yn dawel lân
Yn Iesu cu, a seinio cân,
Pan syrthio'r sêr yn gawod,
A dyddol ddiwedd dân.

3 Hwn ydyw'r un a ddaeth
I fyny o Edom gaeth,
O Bozra dir,
Gorchfygu'n wir a wnaeth;
Yr hwn fu farw ar y pren
Agorodd ffordd i'r nefoedd wen;
Yr hwn fu'n dioddef dirmyg,
Yw'r meddyg fyth, Amen. G.

276. *"O! ryfedd ras."*

6. 4. 6.—Siloah.

DAETH ffrydiau melus iawn
Yn llawn fel lli',
O ffrwyth yr arfaeth fawr,
Yn awr i ni;
Hen iachawdwriaeth glir
Aeth dros y crindir cras;
Bendithion anmhod hedd—
O! ryfedd ras.

2 Fe gymmerth Iesu pur
Ein natur ni;
Ennillodd ef i'w saint
Bob braint a bri.
Gadawai'r nef o'i fodd,
Fe gym'rodd agwedd gwas;
Ffrwyth y cyfammod hedd—
O! ryfedd ras.

3 Llonyddodd Iesu'r dig,
Do, ddig ei Dad;
I'r gyfraith ar y groes,
Y rhoes fawrhad;
Cyhoeddder drwy bob man
O'r lydan ddaear las,
Fod Duw yn awr mewn hedd—
O! ryfedd ras.

4 Fe gymmerth Iesu blaid
Trueiniaid trist;
Ysigodd ben y ddraig;
Ein craig yw Crist:
Cawn ninnau fod yn bur,
Uwch cur a phechod cas,
Yn berffaith ar ei wedd—
O! ryfedd ras.

277. AIL RAN.

BOED clod i'n Prynwr rhad—
Ein Ceidwad cu;
Fe dorodd rym yr hen
Iorddonen ddu:
Gorchfygodd angeu cryf,
Er awch ei gleddyf glas,
A drylliodd rwymau'r bedd—
O! ryfedd ras.

2 Wrth orphwys ar yr Iawn
Ni gawn i gyd
Felusion ffrwythau'r groes,
Drwy'n hoes o hyd:
Mae yma hyfryd win,
I flin, o beraidd flas,
Maddeuant pur a hedd—
O! ryfedd ras.

3 Yn rawnwin, ar y groes,
Fe droes y drain:
Caed hedyn o arwioll ddofn
Y bicell fain:
Dechreuwn fawl cyn hir
Na flinir ar ei flas,
Am Iesu'r aberth hedd—
O! ryfedd ras. P. J.

278. *Clodforedd am waredigaeth.*

8au, 4 llin.—Llantrisant.
Antwerp.

CANED peshaduriaid mawrion,
Fe gaed noddfa i lofruddion:

Noddfa glyd rhag llid dialydd,
Noddfa rad yn ngwlad y cystudd.

2 Canwn mwy am waredigaeth
Heb ei hail i blant marwolaeth;
Talodd Iesu ein dyledion,
A gorchfygodd ein gelynion.

3 Caned nef a daearolion
Sain Hosanna i Frenin Seion;
Llawn tosturi yw e'n wastad,
Nid oes diwedd ar ei gariad. G.

279. *Trysorau y groes.*

8. 7. D.—Dismission. Trefecca.

IESU ei hunan yw fy mywyd—
Iesu'n marw ar y groes,
Y trysorau mwyaf feddaf
Yw ei chwerw angeu loes;
Gwagder annherfynol ydyw
Meddu daear, da, na dyn;
Colled, ennill pob peth arall
Os na ennillir di dy hun.

2 Dyma ddyfnder o drysorau,
Dyma ryw anfeidrol rodd,
Dyma wrthddrych ges o'r diwedd
Ag sy'n hollol wrth fy modd;
Nid oes syched arnaf mwynach
Am drysorau gwag y byd;
Pob peth gwerthfawr a drysorwyd
Yn fy Mhrynwr mawr ynghyd.

3 Mi orphwysa' f'enaid bellach
Ar yr annherfynol stor,
Ac mi ganaf yn y dymmhestl
Ar y graig sydd yn y môr;
Dyma'r man na feiddia Satan,
Uffern ddofn, fawr, a'r bedd,
Er eu dyfais faith a'u rhuad,
I derfysgu dim o'm hedd.

4 Do, mi ddringais uwch y gwyntoedd,
Wedi bod mewn stormydd mawr;
Dinas noddfa ges o'r diwedd
Mewn ardaloedd uwch y llawr;
Gobaith cadarn patriarchiaid—
Craig yr oesoedd gynt a fu,
Wnaeth yr arfaeth faith ddiddechreu,
'Nawr sy'n fywyd i myfi. W.

280. *Meddyginiaeth y groes.*

8. 7. D.—Gaerwen. Ledforth.

DEUED pechaduriaid truain
Yn finteioedd mawr ynghyd,
Doed ynysoedd pell y moroedd
I gael gwel'd dy wyneb pryd;
Clotfion, deillion, gwywedigion,
O bob enwau, o bob gradd,
I Galfaria un prydnawn-gwaith
I wel'd yr Oen sydd wedi ei ladd.

2 Dacw'r nefoedd fawr ei hunan
'Nawr yn dioddef angeu loes;
Dacw obaith yr holl ddaear
Heddyw'n hongian ar y groes;
Dacw noddfa pechaduriaid.
Dacw'r meddyg, dacw'r fan
Caf fi wella'r holl archollion,
Dyfnion sy ar fy enaid gwan.

3 Dacw'r unig feddyginiaeth
Gadarn i druenus ddyn;
Mae pob gobaith wedi darfod
Maes o hono ef ei hun:
Trwm a llwythog yw fy meichiau,
Poen euogrwydd sydd yn fawr;
Nid oes fan ond pen Calfaria
Gallaf roi fy mhen i lawr.

4 Mi nis gallaf wneyd fy hunan,
Ddyddiau meithion, ronyn gwell,
Pob egwyddor yn fy enaid
Beunydd sydd am fyn'd yn mhell;
Nid oes dim ond i ti faddeu—
Gwneyd yr Ethiop du yn wyn,
Wna i'm henaid gofio'th angeu
Poenus ar Galfaria fryn. W.

281. *Hawddgarwch a gogoniant Crist.*

8. 7. D.—Edinburgh. Dismission.

NID yw'r haul a'i faith fendithion,
Bywyd hardd y ddaear las,
Sy'n llawenu pob creadur,
Yn enwedig llysiau'r maes;
'Dyw ei harddwch a'i oleuni,
A'i effeithiau ar y llawr,
Onid dim, wrth eu cymmharu
A rhinweddau Iesu mawr.

2 Bynag peth sydd mewn creadur,
Fry, neu yma is y rhôd,
Neu beth bynag a ddych'mygwyd
Mewn creaduriaid enwog fod;
Saint, merthyron, a phrophwydi,
Draw o ddechreu i ddiwedd byd;
Can' mil mwy o bethau'n rhagor
Sydd yn Iesu mawr ynghyd.

3 Holl angylion nef gwmpasog,
Sydd o nifer gwlith y wawr,
Pe bai'u tegwch a'u rhinweddau
Oll mewn un rhyw angel mawr;
T'wyllai'i harddwch mewn munydyn,
Toddai'i ddoniau maith yn un,
Wrth ymddangos i'w gymmharu
A'r hwn wisgodd natur dyn.

4 O distawa! 'nghalon ynfyd,
Na chais wrthddrych arall mwy;
Digon, mwy na digon ydyw,
A ddioddefodd farwol glwy';
Ffarwel, ddaear, a'i gwrthddrychau,
Nid wyt ond y twyll i gyd;
Uwch y wybren mae'r blaguryn
Dâl roi arno'm serch a'm bryd. W

282. "*Iesu, llawnder mawr y nefoedd.*"

8. 7. D.—Dusseldorf. Tyddewi.

IESU, llawnder mawr y nefoedd,
Gwrando lef un eiddil, gwan,

Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,
Ac yn codi ei lef i'r lan;
Mae 'ngelynion heb rifedi
Yn fy nghuro o bob tu,
Ac nid oes a all fy achub
Is y nefoedd ond tydi.

2 Yn dy hæddiant 'rwyf yn gyfiawn,
Yn d'oleuni gwela'n glir,
Yn dy wisgoedd dwyfol, disglær,
Bydda'n ogoneddus bar:
Yn dy iachawdwriaeth gyfiawn,
Er mor wanad wyf yn awr,
Ceir fy ngweled, ryw ddiwrnod,
Yn disgleirio fel y wawr.

3 Dywed y gair, fy addfwyn Iesu,
Y ma f'enaid lawenha—
Gair o addewid caf fy mhuro
O bob pechod, o bob pla:
Gwren ly f'enaid, mewn distawrwydd,
Ar dy a lais dystaw, mam,
Ac fe bedha o orfoledd
Pan y clywo'th nefol sain.

4 Mae dy lais yn rhoi distawrwydd
Ar holl ddrwndwr gwag y byd,
Yn gwastatu pob rhyw derfysg
Fa'ro nwydau croes yngwyd:
Y mae'r gwynt yn troi i'r deheu,
Ac mae'r hin yn dawel iawn,
Pan bo'm Duw'n cyhoeddi heddwch.
Er mor arw fu'r prydnawn. W.

283. *Iesu, ffynnon bywyd.*

8. 7. D.—Dismission. Trefnwca.

IESU, ti wyt ffynnon bywyd,
Bywyd dedwydd i barhau;
Pob cysuron is y nefoedd,
Ynot ti dy hun y mae:
Nis gall croes, na gwae, na chystudd,
Wneuthur niwed iddynt hwy
Gafodd nerth i wneyd eu noddfa
Yn dy ddwyfol farwol glwy.

2 Dyna'r man na ddaw euogrwydd,
Dyrais Satan fyth, na chwant;
Awel nef sydd yno'n cadw
Pob rhyw drygau oll i bant:
Nid oes rhuad mor, na'i donau,
Na thymhiestloedd o un rhyw,
Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd,
Yn archollion f'anwyl Dduw.

3 Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,
Uweh y gwynt tymmhiestlog, oer;
Maes o swn rhuadau'r llewod,
Maes o gyrhaedd tonau'r mor;
Ni gaf yno, dan bob blinder,
Hyfryd dreulio'm dyddiau i maes.
Heb gael briw, na chlais, nac archoll,
Gan ryw neb gelynion cas. W.

284. *Gras a dedwyddwch yn Nghrist.*

8. 7. D.—Moriah. Edinburgh.

NID fy nef yw ar y ddaear,
Pe goreu man dan gwmpas haul;
Fy nef yw tawel bresennoldeb
Wyneb siriol Adda'r ail:
Gwena arnaf, Arglwydd grasol,
Gwaeddaf allan, Digon yw;
Yna 'nghanol cyfyngderau
Byth yn llawen byddaf byw.

2 Mór sydd ynot o fendithion
Heb waelodion iddo'n bod:
Mae yn llanw 'mlaen bob munyd,
Nid oes diwedd ar dy glod;
D'enw beunydd sy'n heliaethu—
Beunydd yn ymdaenu i maes;
Bydd telynau'n canu iddo
Fel rhifedi gwellt y maes.

3 Yn dy glwyfau y mae bywyd,
Tywallt'r hoedlau yw fy nyth:
'Dofnaf fyd, na chnawd, na pliechod,
Nac ellogrwydd yno byth:
Gwaed fy Mhriod wedi ei golli,
Archoll fawr y waywffon,
Yw fy nghraig a'm dinas noddfa
Sicr ar y ddaear hon.

4 Yno boed fy mwyd am diod,
Dan ganghenau gwych y pren
Sydd a'i wreiddyn ar y ddaear,
Ei frigau yn y nefoedd wen;
Dyn a'r Duwdod yneddo'n trigo,
Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn:
Cysgod dano i'r ffyddlonaid
O forueddydd hyd brydnawn. W.

285. *Gofal Iesu am ei bobl.*

8. 7. D.—Dismission. Trefnwca.

PA gyfnewidiadau bynag
Welo'm bywyd ar y llawr,
Llwyddiant ynte, neu adfwyddiant,
T'wynnad haul,neu stormydd mawr:
Enw hyfryd fy Iachawdwr
Gaiff ddifyra'm dyddiau i maes;
Canu ei glod, a byth ryfeddu
Nerth ei nefol, ddwyfol ras.

2 Y mae meddwl am ei haeddiant,
Meddwl am ei gariad pur,
Fel rhyw ffynnon o lawenydd,
Lawn o ddwfr gloyw, clir;
Ef ei hunan yw'm gogoniant,
Ef yw'm hymffrost a fy nerym;
Enw pawb o dan yr wybren
Ond ei hunan elo'n ddim.

3 Fy holl obaith sy'n ei enw—
Enw godidoca'r ne',
'Rwyf yn gwadu ac yn gwrthod
Unrhyw noddfa ond efe:
Ef yw'm hiachawdwriaeth werthfawr
F'amddiffynfa, a fy Nuw,
Ef a'i ras gaiff fod yn sylwedd
Fy nghaniadau tra fwyf byw.

4 Mae'i angylion yn cwmpasu
Y rhai sy'n aros yn ei glwy',
Fe wna i fyny eu hangenion,
'Chaiff fod eisieu arnynt mwy;

Fe gyf'rwydda'u holl gerddediad,
Ac fe wylia ddydd a nos,
Fel na bo na gwae nac ochain
I etifeddion gwaed y groes.

5 Mae ei glustiau yn agored
I'w gweddiau bob yr un,
Ac yn addfwyn ef a gymmer
Eu gofalon arno'i hun;
Pan bo t'wyllwch ac anobaith
Yn amgylchu eu llwybrau o'r bron,
Ef ei hun fydd eu harweinydd,
Ef a'u cynnal dan bob ton. W.

286. "*Mae dy eiriau fel y gwin.*"

8. 7. D.—Chrysostom. Llangan.

O LLEFARA! addfwyn Iesu,
Mae dy eiriau fel y gwin,
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd
Ag sydd o anfeidrol rin;
Mae holl leisiau'r greadigaeth,
Holl ddeniadau cnawd a byd,
Wrth dy lais hyfrydaf tawel
Yn distewi a myn'd yn fud.

2 Nis gall holl hyfrydwch natur,
A'i melusdra pena'i maes,
Fyth gymmharu â lleferydd
Hyfryd pur maddeuol ras:
Gad im glywed swn dy eiriau—
Awdurdodol eiriau'r nef,
Oddi mewn yn creu hyfrydwch
Nad oes mo'i gyffelyb ef.

3 D'wêd dy fod yn eiddo imi,
Mewn llyth'renau eglur, clir;
Tòr ammheuaeth sydd ddigysur,
Tywyll, dyrys, cyn bo hir;
'Rwy'n hiraethu am gael clywed
Un o eiriau pur y ne,
Nes bo ofn du a thristwch
Yn tragwyddol golli eu lle. W.

287. *Dyfnderoedd a doethineb gras.*

8. 7. D.—Moriah. Dismission.

NID oes angel, nid oes seraph,
Yn y nefoedd fawr a gaed,
All'sai ffeindio allan foddion
I fy enaid gael iachâd;
Mae yma ddyfnder o ddirgelion,
Maith, goruchel iawn eu rhyw,
A ddyfeisiwyd cyn bod amser
Gan ddoethineb bur fy Nuw.

2 Mae priodoliaethau'r Duwdod
Yma'n cael eu cyflawn le—
Ei gyfiawnder, a'i sirioned,
A'i sancteiddrwydd perffaith e';
Y mae cariad, a thrugaredd,
A doethineb, yma ynghyd,
Yn cael hyfryd ymhyfrydu
Yn achubiaeth f'enaid drud.

3 Mae'm cydwybod, oedd mewn terfysg,
Ac yn ofni'n arw iawn,
Heddyw'n dechreu ymlenyddu,
Wel'd y Meichiau'n talu'n llawn;—
Taliad holl ofynion Duwdod
Ag sydd o anfeidrol fri;
Taliad holl ofynion cyfraith,
Taliad sicr iawn i mi.

4 O ddyfnderoedd! O ddoethineb!
O ddyfnderoedd maith o ras!
O ddirgelion anchwiliadwy,
Fythol uwch eu chwilio i maes!
Mae seraphiaid nef yn edrych,
Gyda syndod, bob yr un,
Ar ddyfnderoedd cariad dwyfol—
Duw yn marw dros y dyn!

5 Fyth i'r Tad y bo'r gogoniant,
Roi a derbyn y fath rodd;
Fyth i'r Mab y bo'r un moliant,
Ddisgyn yma i lawr o'i fodd;
Fyth i'r Ysbryd bo'r anrhydedd,
Am ddadguddio'r ddyfais rad,
Ac am selio, a rhoi ernes
Fod Etholwr gyda'r Tad. W.

288. *Mawl i Grist.*

8. 7. D.—Ledforth. Edinburgh.

HENFFYCH, Iesu, 'r Duw tragwyddol,
Gwir a sanctaidd berffaith ddyn!
Dwy ryw natur mewn un person—
Syndod nefoedd fawr ei hun!
A phob natur a phriodoledd
Ètto'n hollol gadw'i lle,
Dyndod heb gymmysgu â Duwdod;
Priod f'enaid byth yw e'.

2 Ti yn unig ydwy'n addef
Yn llawn deilwng o fy mryd;
Ti yn unig ydyw gwaith'dryche
Fy serchiadau oll i gyd;
Dan dy aden rasol, dyner,
Trwy dy ddioddefiadau maith,
'Rwyf yn disgwyl yn ddiangol
Hyfryd gyrhaedd pen fy nhaith. W.

289. *Rhyddhâd, a glanhâd, trwy y groes.*

8. 7. D.—Dismission. Esther.

DOED y cystuddiedig truan,
Sydd mewn ofn bob yr awr,
Ac edryched ar y croesbren—
Pwy sy'n hongian arno'n awr:
Pa'm dychryna'r euog allan?
Heibio'r aeth cymmylau'r nen;
Dyma le i gladdu euogrwydd,
Yn y beddrod dan y pren.

2 Yma rhed yr afon allan,
Ffrydiau ar ol ffrydiau o hyd,
Gloyw ddwr di-drai, digymmysg,
Sydd yn golchi beiau'r byd;
Daew'r ffynnon yn agored,
Dyma'r brwnt yn myn'd yn mlaen,
Dyma'r aflan, dyma'r euog,
Wedi ei ganu fel y gwlan.

3 Aed fy enaid mwy yn ddibris
Rhwng gwrthddrychau gwag y byd,
Heb ddal sylw ar un gwagedd,
Heb un pleser fyn'd â'm bryd:
Cerddaf yn fy ngwisgoedd gwynion
Trwy bob drysni'n ddinacâd,
Ond i'r golofn dân fy arwain,
I gynteddoedd tŷ fy Nhad. W.

290. *Gair Crist, ei bresennoldeb, a'i enw.*

8. 7. D.—Vienna. Moriah.

GOLEU a nerthol yw dy eiriau,
Melus fel y diliau mêl,
Cadarn fel y bryniau pwysig;
Angeu'm Iesu yw eu sel;
Rhai'n a nertha'm henaid gerdded
Dyrys, anial, ffordd yn mlaen;
Rhai'n a gynnal f'enaid egwan
Yn y dŵr ac yn y tân.

2 Holl bleseran maith y ddaear,
Rhai a gais brenhinoedd byd,
Cyfoeth, rhwysg, gogoniant, mawredd,
A rhyw fyrdd o bethau 'nghyd,
Fyth ni cheisiaf, tra fo bywyd,
Ddim ond edrych ar dy wedd—
Teimlo arwyddion hyfryd gariad
Nes disgynwyf lawr i'm bedd.

3 Gwedd dy wyneb sy'n rhagori
Ar drysorau'r India draw;
Mae awelon pur dy gariad
Yn dwyn gwobr yn eu llaw;
Perffaith bleser heb ddim diwedd,
Perffaith gysur heb ddim trai,
Yn y stormydd mawr, cynddeiriog,
Yw yn unig dy fwynhau.

4 Tyred gyda mi trwy'r fyddin,
Gyda mi yn erbyn llu;
Yn dy enw mi goncweraf
Bawb sy'n sathru d'enw cu;
D'enw di a faeddodd angeu,
Faeddodd uffern fawr ei grym,
Ni wyneba cnawd a phechod
Bellach mo dy enw ddim. W.

291. *Gallu ac awdurdod Crist.*

8. 7. D.—Trefecca. Vienna.

NI all rhaid, ac ni all natur,
Wrthwynebu dim o'th air;
Saif yr haul a'r holl blanedau,
Os fy Iesu iddynt bair:
Esmwyth it yw gwneyd a fynot;
Dwêd y gair, a dyna fi
'Mhell uwch law fy holl elynion
Ar y bryniau hyfryd fry.

2 Dwêd, "Goleuni boed," fe fydda,
Dwêd, "Disgleiried sêr y ne',"
Fe ddisgleiria haul a lleuad
Oll yn hyfryd yn eu lle;
Edrych arnaf, bydd tangnefedd,
Derfydd stwr y storom fawr;
Tawel hedd, fel boreu hyfryd,
A dywyna arna'i 'n awr.

3 Gwena arnaf, D'wysog bywyd,
Yna gwged arna'i 'r byd;
Ynot f'enaid sy'n ymddiried
Uwch law meibion Adda i gyd;
Rho addewid byddi gydaf,
Unrhyw rwystr is y nef,
Doed o'r ddae'r neu uffern gadarn,
'Dofnaf ddim o hono ef.

4 Ti yw gwrthddrych mawr fy ofnau,
Gwrthddrych fy llawenydd pur;
Atat mae fy nymuniadau,
Atat mae fy ngobaith pur;
Pob peth etto welodd llygad
A ddiflanodd arna'i 'n lân,
Aeth eu bod, ac aeth eu henwau,
Oll yn ddiddim o fy mlaen. W.

292. *Crist y trysor goreu.*

8. 7. D.—Dismission. Esther.

CLYWAF lais gan bob rhyw raddau
O'r creaduriaid mân i gyd,
'Mod i wedi aros gormod,
Hepian llawer yn y byd;
Gwisg dy aden, medd pob tafod
Glywaf dan yr awyr las;
Gormod hepian; mae'n ddiweddar
Cyn it ddechreu taro i maes.

2 Ffarwel bellach, bob creadur,
Chwi gewch weled hyn ryw bryd,
Meddaf drysor gwerthfawrocach
Fil o weithiau nag yw'r byd;
Tu hwnt i'r bedd 'does mesur arno;
Rhan o fewn fy nghalon mae;
Ffynnon fawr ydyw ei wreiddyn,
Fyth na welir arni drai.

3 A welodd haul erioed wrth redeg
Ei dro diderfyn yn y nef,
Yn y sêr, neu ar y ddaear,
Wrthddrych tebyg iddo ef?
A oes trysor, ond ei 'mofyn,
Yn nyfnderoedd dacar las,
I'r filfed ran, pan yn y glorian,
Bwysa Iesu Grist a'i ras?

4 Nerth, os caf, mi frysiaf mwyach
Fyny tua'm gwlad fy hun,
Lle mae'm Duw yn gwisgo'n gysson,
Mewn gogoniant, natur dyn;
Na enwer imi'n gartref bellach
Fan-gre arall ond y ne',
Neb yn Dad, na neb yn Briod,
Neb yn Arglwydd, ond efe. W.

293. *Dirgelwch duwioldeb.*

8. 7. D.—Dolwar. Moriah.

DYMA babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed;
Dyma nodafa i lofruddion,
Dyma i gleifion feddyg rhad;

Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneyd ei nyth,
A chyfiawnder pur y nefoedd
Yn siriol wenu arno byth.

2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser
I gael diangfa o ddrygau'r ddraig;
Mewn addewid gynt yn Eden,
Fe gyhoeddwyd Hâd y wraig;
Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,
Ffordd i godi'r marw'n fyw;
Ffordd gyfreithlawn i droseddwr
I hedd a ffafr gyda Duw.

3 O! ddyfnderoedd iachawdwriaeth!
Dirgelweh mawr duwioldeb yw,
Duw y duwiau wedi ymddangos
Yn nghnawd a natur dynolryw!
Dyma'r person a ddioddefodd
Yn ein lle ddigofaint llawn.
Nes i gyfiawnder waeddi "Gollwng
Ef yn rhydd, mi gefais lawn."

4 Dyma Frawd a anwyd ini
Erbyn c'ledi a'phob elwy;
Ffyddlawn ydyw, llawn tosturi,
Haeddai gael ei foli'n fwy:
Rhyddhawr caethion, Meddyg cleif-
Ffordd i Seion union yw; [ion,
Ffynnon loyw, Bywyd meirw,
Arch i gadw dyn yw Duw. A. G.

294. *Dyfnderoedd iachawdwriaeth.*

8. 7. D.—Dolwar. Esther.

BYDD melus gofio y cyfammod
Draw a wnaed gan Dri yn un;
Tragwyddol syllir ar y person
A gymm'rodd arno natur dyn:
Wrth gyllawni yr ammodau,
Trist hyd angau ei emaid oedd:
Dyma gân y saith ngeinmil
Tu draw i'r llen a llawen floeddd.

2 Fy enaid trist, wrth gofio'r taliad,
Yn llanw o lawenydd sydd;
Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
A'r pechadur brawd yn rhydd;
Rhoi awdwr bywyd i farwolaeth,
A chladdu'r adgyfodiad mawr;
A dwyn i mewn dragwyddol heddwch
Rhwng nef y nef a daear lawr.

3 Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
Dioddefodd yno angau loes;
Nerthodd freichiau ei ddienyddwyr,
I'w hoelio'n greulon ar y groes;
Wrth dalu dyled pechaduriaid,
Ac anrhydeddu deddf ei Dad,
Cyfiawnder oedd yn harddu ddisgleirio,
A mmmau'n rhydd trwy'r cymmod hiad.

4 Fy enaid, gwel y fan gorweddodd
Pen brenhinoedd, awdwr hedd;
Y greadigaeth ynddo'n symmud,
Ymtau'n farw yn y bedd;
Rhan a bywyd colledigion,
Rhyfe ldod holl angylion nef;
Gwel'd Duw mewn cnawd, a'i gyd-
addoli,
Mae'r côr yn gwaeddi, 'Iddo ef.' A. G.

295. *Haeddiant Crist yn ddigon i bechadur.*

8. 7. D.—Esther. Dolwar.

PECHADUR aflan yw fy enw,
O ba rai y pena'n fyw:
Rhyfeddaf 'nawr, fe dreñwyd pabell
Im gael yn dawel gwrdd â Duw:
Yno y mae yn llon'd ei gyfraith
I'r troseddwr i gael gwledd;
Duw a dyn yn gwaeddi, Digon,
Yn yr Iesu, yr aberth hedd.

2 Anturiaf ato yn hyderus,
Teyrnwalch aur sydd yn ei law;
Estyniad hon sydd at bechadur,
Ni wrthodir neb'a ddaw;
Af yn mlaen dan waeddi, Pechais;
Af, a chwympaf wrth ei draed,
Am faddeuant, am fy ngelchi,
Am fy nghanu yn y gwaed.

3 Nid all mercedd mawrion, lydain,
Guddio perched o un rhyw;
Ac nis gallodd diluw cadarn
Ei fodai'n wir, neu'n awr yn fyw:
Ond gwaed yr Oen fu ar Galfaria,
Haeddiant Iesu a'i farwol—wy',
Ydyw'r mor llo cnill ei guddio,
Byth ni welir mo'no mwy.

4 Ffrydiau tawel, lyw, rhedegog,
O dan rinieg tŷ fy Nuw,
Sydd yn llanw, ac yn llifo
O fendithion o bob rhyw:
Dyfroedd gloyw fel y grisial,
Tolchi'r enog, nerthu'r gwan.
Ac a gana'r Ethiop duaf
Fel yr eira yn y man. A. G.

296. *Duw yn y cnawd.*

8. 7. D.—Esther. Dismission.

RHYFEDD, rhyfedd gan angylion,
Syndod mawr yn ngolwg ffydd,
Rhoddiwr bod, cynnaliwr helaeth,
A rheolwr pob peth sydd,
Yn y preseb mewn ensiehlau,
Ac heb le i roi 'i ben i lawr,
Etto disgluer lu'r gogoniant
Yn ei addoli ef yn awr.

2 Dioleh byth, a chwmil dioleh,
Dioleh tra bo ynof chwyth,
Am fod gwrthddrych i'w addoli,
A thestyn cân, i bara byth,
Yn fy natur wedi ei dendio
Fel y gwaela' o ddynolryw,
Yn ddyn wedi ei amgyleiau agwendid
Ac anfeidrol fywiol Dduw.

3 Pan fo Sinai i gyd yn mygu,
Sain yr udgorn uchaf cadd,

Caf fyn'd i wledda dros y terfyn.
Yn ngrym yr aberth, lwyr ty lladd;
Mewn ymdrech [illegible]
[illegible]
Yn yr aduwy rhwng y ddwyfoed
Gwnaeth gymmod trwy ddrymu ei
hun. A. G.

297. *Cyflawnder Crist.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

IESU, nid oes terfyn arnat,
[illegible]
Yn tywyllu[illegible]
Gorchwyla[illegible]
Pyth yn anwyl
Meddwl, dyrion mwy a'th gâr.

2 Mae angylion yn cael bywyd
I'r pechadur gwaetha'i ryw;
Arglwydd, maddau etto i minnau—
Ar faddeuant 'rwyf yn byw:
Dy unig haeddiant
Yw [illegible]
Ond dy ddwyfol nefol waed.

3 Ti fu ddioddefaist fil o fenau
I'r pechadur gwaetha'i ryw;
Arglwydd, maddau etto i minnau—
Ar faddeuant 'rwyf yn byw:
Dy unig haeddiant
Yw [illegible]
Ond dy ddwyfol nefol waed.

4 Heddyw 'rwyf yn frwnt o newydd,
Rhaid fy ngolchi [illegible]
Yn yr afon a wna'r [illegible]
Fel yr elra ar y bryn;
Dim [illegible]
Ond dy ddwyfol nefol waed.

5 Nid oes ddofn fy nghy[illegible]
Ond cyflawnder mawr y nef,
Ac [illegible]
Is y nefoedd iddo ef:
Maddeu, f'Arglwydd;
Gwrando'r gweddiau ar y groes. W.

298. *Rhinweddau ei enw.*

8. 7. 4.—Frankfort. Alma.

NID oes pleser, nid oes tegan,
Nid oes enw mewn un man,
Er ei fri a'i holl ogoniant,
Fyth a lesia'm henaid gwan,
Ond fy Iesu:
Ef ei hunan yw fy Nuw.

2 Mae deng myrddiwn o rinweddau
Dwyfol yn ei enw pur:
Yn ei wedd mae tegwch mawr
Nag a welsed mor na thir.
Mo'i gyffelyb
Erioed ni welodd nef y nef.

3 Mae yn maddau bai'au mawrion,
Ac yn caru yn ddi-drai,
A lle caro, mae ei gariad
Yn dragwyddol yn parhau:
Nid oes terfyn
Ar ei amynedd, ar ei ras.

4 Yn ddi[illegible]
O [illegible]
Er fy mwyn dioddefodd angeu,
A gorweddodd yn y bedd,
Fel y gallwn
Fyn'd i mewn i'r ddinas bur. W.

299. *Iesu ei hunan yn ddigon.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

GWYN a gwridog yw fy Arglwydd
Gwyn a gwridog yw ei wedd;
[illegible]
Yna a thua dau'r bendd;
Mae dy degwch
Wedi'm hennill ar dy ol.

2 Cais' flaenael i bob peth arall,
Rwyt ti'n ddigon mawr dy hun;
Derfydd nefoedd, derfydd daear,
Derfydd tegwch wyneb dyn:
Sawl dy gaffo,
Gaiff y cwbl oll yn un.

3 Sawl dy gaffo gaiff bleserau,
Pleser yma is y rhod,
Ei ddyfnhau[illegible]
Cnawd na rheswm etto erioed;
O! gâd i mi,
I mi'n fuan dy fwynhau.

4 Paid a'm gado yn yr anial
Dyrys, mawr wrthyf fy hun;
'Rwyt ti'n adwaen amt ofnau,
A gwendidau natur dyn:
Dal dy afael;
Y mae'r golyn mawr ger llaw.

5 Mae dy wedd yn dre[illegible]
O [illegible]
Nid [illegible]
Saif o flaen dy wyneb ddim:
Gair o'th enau
A wna'r dywyll nos yn ddydd. W.

300. *Iesu yn ddigon.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

IESU, Iesu, 'rwyt ti'n ddigon,
'Rwyt ti'n llawer mwy na'r byd;
Mwy trysorau sy yn dy enw
Na thrysorau'r India i gyd:
Oll yn gyfan
Ddaeth i'n meddiant gyda'm Duw.

2 Y mae gwedd dy wyneb grasol
[illegible]
Ar bob peth a welodd llygad
Ar hyd wyneb daear lawn:
Rhosyn Saron,
Ti yw tegwch nef y nef.

3 Tarian gadarn yw dy enw;
Pan [illegible]
Angeu'i hunan sydd yn ofni—
Angeu sydd yn llwirhau;
Ti orchfygaist;
'Does ond canu'n awr i mi.

4 Nis gall f'enaid, er ei gyrhaedd,
Fyth i geisio cyrhaedd mwy
Nag sydd wedi ei roi yn nghadw,
Yn y dwyfol, farwol glwy';
Cariad, cariad,
Nad oes dyfnder iddo'n bod.

5 Dyma'r tlawd a gyfoethogwyd,
A'r carcharor wnaed yn rhydd,
Ddoe oedd yn y pydew obry,
Heddyw yma'n canu'n rhydd;
Nid oes genyf
Ddim ond diolch tra fwy' byw. w.

301. *Cydymdeimlad Crist.*

8.7.4.—Watford. Ardudwy.

IESU, gwyddost fy nghystuddiau,
'Rwyt yn rhifo pob yr un; [au,
Pob rhyw w'radwydd, pob rhyw groes-
Fe'u dioddefaist hwynt dy hun;
Dal fi i fyny,
Man bo 'meichiau'n fwyaf trwm.

2 Cofia'th boenau ar Galfaria,
Cofia i ti garlo'r groes,
Cofia gur yr hoelion llymion,
Cofia'th chwerw angeu loes;
Rho i mi heddwch,
Rho i mi nefoedd, er eu mwyn.

3 Er dy fod di heddyw'n eistedd
Yn ngogoniant nef y nef,
Mewn goleuni mor ddisgleiried
Na ellir nesu ato ef,
'Rwyt yn edrych
Ar dy anwylaf yn y byd.

4 Dyma'th gariad, dyma'th briod,
Heddyw'n griddfan o dy flaen;
Dros ein henaid y dioddefaist
Boenau megys uffern dân;
Ti yw'r cwbl
Heddyw feddwn yn y byd. w.

302. "*Fy Anwylyd sydd wyn a gwridog.*"

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

GWYN a gwridog yw f'Anwylyd,
Mae'n rhagori oll i gyd
Ar y cwbl etto grewyd,
Yn yr wybr faith a'r byd:
Boddlon fyddaf,
Ond i mi ei gael ei hun.

2 Mi af trwy'r cystuddiau trymaf,
Mi af trwy'r afonydd maith,
Ac mi dreiddiaf trwy'r anialwch
Garw, hir, i ben fy nhaith,
Ond i'm Harglwydd
Gadw beunydd wrth fy nghlun.

3 Nid oes elyn is y nefoedd
A ddaw yno i roi i mi glwy';
Yn dy gwmni, nid oes gallu
Gan un gelyn cadarn mwy:
Ar dy deyrnas
Nid oes diwedd, nid oes drangc.

4 Dae'r, a nef, ac uffern greulon,
Sydd yn hollol dan dy law;
Dy ddoethineb sydd yn trefnu
'R dwyrain, de, a'r gogledd draw:
Ti bia'r cwbl:
Cymmer f'enaid it dy hun. w.

303. *Rhinwedd y gwaed yn anchwiliadwy.*

8.7.4.—Llanilar. Ardudwy.

MAE fy meiau fel mynyddau,
Amlach hefyd yw eu rhi'
Nag yw gwaith y boreu wawr-ddydd,
Nag yw sêr y nefoedd fy:
Gwaed fy Arglwydd
Sydd yn abl golchi 'mai:—

2 Golchi'r ddu gydwybod afian
Lawer gwynach eira mân; [odd
Gwneyd y brwnt, gan waith anifwyn-
Yn y domen, fel y gwlân:
Pwy all fesur
Llcd a dyfnder maith dy ras?

3 Ei riddfanau ar y croesbren
Oedd yn pwyso beiau'r byd;
Poenau pechod oedd ofnadwy,
Poenau f'Arglwydd oedd fwy drud:
'Nawr mae cariad
Yn concwerio'r dwyfol lid. w.

304. *Gwerthfawrogrwydd gwaed y groes.*

8. 7. 4.—Peniel. Frankfort.

NIS gall dysgedigion doethaf,
Er cyrhaeddyd fry i'r ne',
Chwilio troion sêr y wybr,
Gwel'd eu maint, a gwel'd eu lle,
Fyth i bwyso [groes.
Gwerthfawrogrwydd gwaed dy

2 Nis gall dysg, ac nis gall doniau,
Wel'd y pechod drwg ei ryw,
Bwyso'i haeddiant maith, a'i fesur,
O flaen gorsedd bur fy Nuw;
Ar Galfaria
Gwelaf e'n ei liw a'i lun.

3 Pechod yma, cariad acw,
Fu yno yn y glorian fawr;
Ac er trymed oedd y pechod,
Cariad bwysodd lyd y llawr:
Gair "Gorphenwyd,"
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.

4 Haeddiant Duwdod, o'i gymmharu
'N erbyn uffern fawr o'r bron!
Dafn gwaed sy'n ganmil rhagor
Nag aflendid dudew hon:
Gw'radwyddiadau
Duw, rydd iawn am feiau'r byd.

5 Fe ddistewa myrdd o ellyllon,
Fe ddistewa'r ddeddf o'r bron
Fe ddistewa pur gyfiawnder
Sy'n ymddial cweryl hon,

Gyntaf enwir
Sillaf prin am waed y groes. W.

305. *Cariad yn cario'r dydd.*

8. 7. 4.—Caio. Verona.

DACW gariad, dacw bechod,
Heddyw'u dau â'r ben y bryn;
Hwn sy'n gryf, hwn acw'n gadarn,
Pwy ennilla'r ymgyrch hyn?
Cariad, cariad
Welai'n perffaith gario'r dydd.

2 Dringaf fyny i'r Olewydd,
I gael gweled maint fy mai;
Nid oes arall, is yr wybren,
Fan i'w weled fel y mae;
Anwyl f'enaid
Yno'n chwysu dafnau gwaed.

3 Gwel'd yr hwn fu'n prynu'n pardwn,
Prynu pardwn maith y byd,
Gwel'd ei wallt, a gwel'd ei wisgoedd,
Gwel'd ei ruddiau'n waed i gyd!
Fe, fy mhechod,
Yrodd allan ddwyfol waed.

4 Pechod a geodd ynddo'r poenau,
Pechod roddodd arno'r pwn,
Pechod barodd iddo ochain;
F'unig haeddiant i oedd hwn:
O! na welwn
Foreu fyth na phechwn mwy.

5 Profed hwnw nad yw'n medru
Caru Prynwr mawr y byd,
Beth o'r dwr a'r gwaed a lifodd
Gyda'r bicell fawr ei hyd;
Hwn sy'n magu
Fflamau o gariad heb ddim trai. W.

306. "*Cyfaill publicanod a phechaduriaid.*"

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

MI feddyliais cawn fy Arglwydd
Yn nghwmpeini mawrion byd;
Yn mhlith mwrddwyr, yn mhlith lladron,
Gwelais gynta'i wyneb-pryd;
Ar y croesbren,
Nid yn llys brenhinoedd byd.

2 Dacw lofrudd ar ei aswy,
Dacw leidr ar ei dde;
Draw fe'i hoeliwyd yn y canol,—
Frenin daear, Frenin ne';
Mi appeliaf
At yr orsedd ar y groes.

3 Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,
Y mae'r nefoedd ar y pren;
Fe ddaeth mynydd hen Galfaria
Er ys dyddiau'n un â'r nen:
Daeth Moriah
'Nawr yn ysgol gref i'r nef.

4 Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,
Y mae'r nefoedd wrth dy glun;
'Rhwn a greodd haul a llenad
'Nawr a wisgodd natur dyn:
Edrych arno;
Credu ydyw pen y daith. W.

307. *Gorfoleddu yn Nghrist.*

8. 7. 4.—Peniel. Alma.

IESU, ti yw'm hunig noddfa,
Ac mae ynot ti ddidrai
Ffrwd lifeiriol o gysuron,
Yn dragwyddol yn parhau;
Fyth ni dderfydd
Mo dy gariad a dy ras.

2 Dy hanfod berffaith yw'm hapus-
Mae 'nghysuron, bob yr un, [rwydd;
Yn terfynu ac yn casglu
'N gryno ynot ti dy hun;
Bywyd f'enaid,
Man bwyf finnau, yno bydd.

3 Mewn rhyw hyder nefol hyfryd,
'Rwy'n rhoi f'achos o dy flaen,
Ac yn credu caf fyn'd trwodd,
Neu lifeiriant, yntau dân;
A chaiff f'enaid
Tlawd i ganu'r ochr draw.

4 Pan edrychwyf ar dy fawredd,
Gwel'd d'ogoniant maith a'th ras,
Mae fy nghalon, gan lawenydd,
Hyfryd, pur, yn tori i maes,
Gan roi pleser
Fil uwch law pleserau'r byd. W.

308. *Trugwyddoldeb i ryfeddu Crist a'i ras.*

8. 7. 4.—Frankfort. Calfaria.

HYN yw 'mhleser, hyn yw'm hymffrost,
Hyn yw 'nghysur yn y byd—
'Mod i'n caru'r addfwyn Iesu;
Dyna'm meddiant oll i gyd;
Mwy yw nhrysor
Nag a fedd y byd o'i fron.

2 Ac ni allaf fyth fynegu
Pe anturiwn, tra fawn byw,
Pa mor hyfryd, pa mor felus,
Pa mor gryf ei gariad yw;
Fflam ddiderfyn
Ddaeth o ganol nef i lawr.

3 Yn y bywyd byth a bery,
Caf fi ddwfn chwilio i maes
Faith ddyfnderoedd cariad dwyfol,
A changhenau nefol ras;
Eangir f'enaid
I wel'd dadguddiadau'r nef.

4 Derfydd awyr, derfydd daear,
Derfydd grewyd is y ne',
Derfydd haul, a sêr, a lleuad,
Daw tywyllwch yn eu lle;

Fyth ni dderfydd
Canu inchawdwriaeth gras.

5 Bydd cerubiaid, a seraphiaid,
Ac angylion nef yn un,
Yn cymmysgu Haleluwia,
A Hosanna bur â dyn;
Anthem cariad
Fydd yr anthem tra fo nef. W.

309. *Lleferydd gras a chariad.*

8. 7. 4.—Alma. Calfaria.

CLYWCH leferydd gras a chariad,
O Galfaria'n seinio sydd;
Wele'r cedyrn greigiau'n holltí,
Haul yn tw'llu ganol dydd:
"Fe orphenwyd!"
Dwys ddolefa'r Meichiau mawr.

2 O! 'r trysorau anchwiliadwy
A gynnwysir yn y gair!
Môr diderfyn o fendithion,
I dylodion ynddo cair:
"Fe orphenwyd!"
Ni bydd eisieu aberth mwy.

3 Adgyweirier pob rhyw delyn
Drwy y ddaear faith a'r nef,
Er cyd-daro'r anthem newydd
Heddyw a gyhoeddodd ef:
"Fe orphenwyd!"
Dyma gân na dderfydd byth.
B. (*cyf.* B. B.)

310. *Y Graig.*

8. 7. 4.—Eli. Frankfort.

GWELAF graig a'm deil mewn stormydd
O gawodydd dŵr a thân;
Yn wyneb uffern a'i rhuthriadau,
Holl breswylwyr hon a gân:
Cadarn sylfaen
A osodwyd gan y Tad. J. H.

311. *Crist oll yn hawddgar.*

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

WELE'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthddrych teilwng o fy mryd:
Er o'r braidd yr wy'n adnabod
Ei fod uwch law gwrthddrychau'r
Henffych forcu [byd:
Caf ei weled heb un llen.

2 Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, hardd ei bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthddrychau pena'r byd:
Ffrynd pechadur,
Dyma'r llywydd ar y môr.

3 Beth sydd i mi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w gymmharu â'm Iesu mawr:
O! am aros
Yn ei gariad ddyddiau f'oes. A. G.

312. *Genedigaeth y Ceidwad.*

8. 7. 4.—Peniel. Alma.

PERAIDD ganodd ser y boreu
Pan y ganwyd Brenin nef:
Doethion a bugeiliaid hwythau
Ddaethant i'w addoli ef:
Gwerthfawr drysor!
Yn y preseb Iesu a gaed.

2 Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai:
Dyma un sy'n caru maddeu
I bechaduriaid mawr eu bai:
Diolch iddo
Byth am gofio llwch y llawr. M. B

313. *Crist yn sylfaen.*

8. 7. 3.—Wyddgrug. Moldavia.

NA'D fi adeiladu'n ysgafn
Ar un sylfaen is y ne',
Na chymmeryd craig i orphwys
Tu yma i angeu yn dy le:
Ti, fy Nuw, tra fwyf byw,
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

2 Dyma'r maen sydd yn y gongl,
Dyma'r gareg werthfawr, bur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau tragwyddoldeb dir:
Nid oes le, is y ne',
I adeiladu ond efe.

3 Byth ni dderfydd canu am dano,
Byth ni dderfydd am ei glod,
Tra fo caru pery canu,
Caru sydd heb ddechreu'n bod;
Nefoedd fry, 'n gysson sy
Oll yn canu i'm Harglwydd cu.

4 Minnau'r gwaela' o bechaduriaid,
Yn y diwedd rof fy nhroed
Ar y graig sydd yn y moroedd—
Craig gadarnaf fu erioed:
Ceidw hon, rhag pob ton,
Ofnau i ffwrdd o dan fy mron.

5 Nis gall hwnw sy'n d'adnabod
Lai na dilyn ol dy droed;
Ac ni chadd a welodd d'wyneb
Wel'd cyffelyb iddo erioed:
Tyr'd yn glau, Iesu, mae
F'enaid euog bron llesgau. W

314. *Ffynnon wedi ei hagoryd.*

8. 7. 3.—Priscilla. Moldavia.

DACW'r ffynnon wedi ei hagor
A ddisgwyliwyd amryw oes,
'Nawr yn llifo fel y grisial
Maes o'i ystlys ar y groes:
Dwr a gwaed, rydd iachâd
I'r pechadur mwyaf gaed.

2 Dacw'r hoelion geirwon, llymion,
Wedi eu curo 'nawr i dref;
Dacw'r bicell yn trywanu
Mewn o dan ei ystlys ef:

Duw boen ai ifwyn Oen
Yn rhoi'r nef i dewi son.

3 'Nawr pa glywa'r gair "Gorphenwyd!"
Gorphen iachawdwriaeth wir;
Ac mi wela'r gwaed yn bidlo
Dros ei ruddiau sanctaidd, pur;
Wele'r nef, gadarn, gref,
'Nawr yn t'wyllu wrth ei lef.

4 Dyma'r creigydd serth yn rhwygo,
[illegible]
Pa greadur a all ddioddef
Griddfan chwerw f'Arglwydd Dduw!
Ochain mae, fe gadd wae,
Fel cawn innau fy rhyddhau.

5 Minnau, bellach, a obeithiaf;
Gobaith a all estyn f'oes,
Gobaith wedi ei sylfaenu
Ar och'neidian pur y groes:
Dyma wlad caf iach el,
A chaf gyflawn wir ryddhâd. W.

315. *Haeddiant Crist yn anfeidrol.*

8. 7. 3.—Groeswen. Revel.

MAE cyflawnder maith o haeddiant
Annherfynol yn dy waed;
Sawl a'i teimlodd sy'n rhyfeddu,
Ac yn caru'r ddyfnais rad:
Cariad drud, dros y byd,
Ddaeth yn ge'nllif coch i gyd.

2 Bod Creawdwr nef yn dioddef
Rodd anfeidrol werth a rhin
Yn mhob gwŷn, yn mhob ochenaid,
O ddioddefaint Mab y dyn:
Nid yw llid euogrwydd byd
Ddim i bwyso'i haeddiant drud.

3 Yma tardd cyflawnder allan,
Fel rhyw ddiluw mawr, di frai;
Ac er golchi miloedd ynddo,
Nid yw'r dyfroedd ronyn llai:
Gwaed fy Nuw, haeddiant yw,
Trech na'r beiau dua'u lliw.

4 Pe bai dengmil lawn o ddynion
A'u hen grwydd'i oll yn lân,
Dengmil eilwaith maith o fydoedd,
Fliaidd, euog, yn gyttûn;
Yma cawn, un prydnawn,
Aberth berffaith dalai'r iawn. W.

316. *Nerth ei ddioddefiadau.*

8. 7. 3.—Moldavia. Groeswen.

MAE grasusau pen Calfaria,
Mae rhinweddau hael yn glwy',
Uwch eu prisio, uwch eu deall,
Gan angylion o honynt hwy:
Bywyd byd sy yma i gyd
Wedi ei gasglu'n gryno 'nghyd.

2 Pan oedd uffern fawr yn berwi
Fflamiau i maes i eitha'r byd,
Ac yn bygwth llosgi'n ulw
Ei drigolion oll i gyd.
F'Arglwydd glân ddaeth yn mlaen,
Ac a'm [illegible] o'r tân.

3 Rhaid oedd diodde'r chwerw boenau,
Rhaid oedd hefyd fyned trwy
Holl wasgfeuon caled angeu,
Er mor greulon oeddynt hwy:
Cariad Duw yn uniq yw
A trwy rwystrau gwaetha'u rhyw.

4 Rhaid oedd concro trwy ddioddef,
Nid congcwerio wrth ei rym;
Gallu'r nefoedd fawr ei hunan
Heb ddioddef, thalsai ddim:
Talu'n llawn, ar brydnawn
Ar y croesbren gwnaeth e'n Iawn.

5 Diddig, diddig, fe'i gw'radwyddwyd,
Tan ei boenau fel yr oen;
Ni bu neb cyffelyb iddo
Is yr wybr glywyd son:
"Maddeu'n rhad, dyma waed!"
Oedd ei weddi ar ei Dad. W.

317. *Mawredd Crist.*

8. 7. 3.—Wyddgrug. Revel.

MAWR oedd Crist yn nhragwydd
oldeb,
Mawr yn gwisgo natur dyn;
Mawr yn marw ar Galfaria,
Mawr yn maeddu angau'i hun:
Hynod fawr yw yn awr,
Brenin nef a daear lawr.

2 Mawr oedd Iesu yn yr arfaeth,
Mawr yn y cyfammod hedd;
Mawr yn Methle'm a Chalfaria,
Mawr yn dod i'r lan o'r bedd:
Mawr a fydd ef ryw ddydd
Pan ddadguddir pethau cudd.

3 Mawr yw Iesu yn ei Berson;
Mawr fel Duw, a mawr fel dyn;
Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,
Gwyn a gwridog, teg ei lun:
Mawr yw ef yn y nef,
Ar ei orsedd gadarn gref. T. L.

318. *Y Messiah addawedig.*

8.7.3.—Wyddgrug. Groeswen.

WELE, cawsom y Messiah,
Cyfaill gwerthfawroca' erioed:
Darfu Moses a'r prophwydi
Ddweyd am dano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrynd a Phrynwr dynolryw.

2 Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
Aeth i'r lladdfa yn ei lle;
Swm ein dyled fawr fe'i talodd,
Ac a groesodd filiau'r ne';
Trwy ei waed, i ni caed
Bythol heddwch a rhyddhâd.

3 Dyma Gyfaill hoeddai 'i garu,
A'i gladfori'n fwy nag un;
Prynai'o bywyd, talai n dyled,
A'n glanhai a'i waed ei hun:
Frodyr, dewch, llawenhewch!
Diolchwch iddo, byth na thewch! D.J.

319. *Y Cyfaill goreu.*

8. 7. 7.—Vesper.

Y MAE un, uwch law pawb ereill
Drwy'r greadigaeth faith i gyd,
Sydd yn haeddu ei alw'n gyfaill,
Ac a bery'r un o hyd:
Brawd a anwyd i ni yw
Erbyn c'ledi o bob rhyw.

2 Nis gall meithder ffordd, nac amser,
Oeri dim o'i gariad ef;
Mae ei fynwes byth yn dyner,
A'i gymdeithas byth yn gref:
Nis gall dyfroedd angau llym
Ddiffodd ei angerddol rym.

3 Yn mha le y ceir, er chwilio,
Neb yn caru fel efe?
P'le mae'r cyfaill, er ein hachub,
Roi ei fywyd yn ein lle!
Nid oes debyg iddo ef
Drwy y ddaear faith a'r nef.

4 Pan fo pawb yn cefnu arnom
Yn y dyffryn tywyll, du;
Pan fo pob daearol undeb
Yn ymddattod o bob tu;
Saif e'n ffyddlon y pryd hyn,
Ac a'n dwg yn iach trwy'r glyn.

5 A phan ymddangoso eilwaith,
Yn ngogoniant pur ei Dad,
Gyda'i holl angylion sanctaidd,
Mewn anrhyuedd a mawrhâd,
Fe geir gwel'd mai'r un fydd ef,
Er myn'd heibio'r byd a'r nef. E. E.

320. "*Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth.*"

7au. 4ll.—German Hymn.
Melton.

EI gyflawnder dwyfol ef
Ydyw'm cadarn noddfa gref;
'Cholla'i 'ngafael arno ddim
Pan bo 'mhechod yn ei rym.

2 Dan ei gysgod hyd laf byw;
Uwch nob trysor gwaed fy Nuw;
Nis gall pwer uffern faith
Ddim fy nrygu ar fy nhaith.

3 Ar Galfaria un prydnawn
Cawsom goncwest hyfryd iawn;
Uffern faith a'i hanferth rym
Ddarostyngwyd lawr i ddim. W.

321. *Mawl i'r hwn a fu farw.*

7au. 6ll.—Berlin. Newport.

'DOES gyffelyb iddo ef
Ar y ddaear, yn y nef;
Trech ei allu, trach ei ras,
Na dyfnderau calon gas:
A'i fyddlondeb sydd yn fwy
Nag angenol ddwyfol glwy'.

2 Caned cenedlaethau'r byd,
Am ei enw mawr ymgryd;
Aed i gyrau pella'r ne',
Aed i'r dwyrain, aed i'r de':
Bloeddied moroedd gyda thir
Ddyfnder iachawdwriaeth bur.

3 Na foed un dyn is y rhod
Heb ddadseinio i maes ei glod;
Na foed neb is awyr las
Heb gael prawf o'i nefol ras:
Doed y ddaear fawr yn gron,
Yfent ddwr y ffynnon hon.

4 Deffro, f'enaid! edrych draw,
Gwel Galfaria bell ger llaw;
Dacw'r hoel a'r bicell fain,
Dacw'r goron bigog, ddrain,
'Nawr yn gorwedd ar ei ben;
Cryned daear, dued nen!

5 O dy glwyfau rhed i maes
Afon ddwyfol loyw las,
Sydd yn achub, sy'n iachau
Myrddiwn o'r aflanaf rai,
Ac yn rhoddi cyflawn hedd
I rai tlota' erioed eu gwedd. W.

322. *Cariad yn disgleirio ar y groes.*

7au, 6ll.—Berlin. Newport

DACW gariad nefoedd wen
Yn disgleirio ar y pren;
Dacw daledigaeth lawn
I ofynion trymion iawn:
Iesu gollodd ddwyfol waed,
Minnau gafodd wir iachâd,

2 Wele'r llwybr heddyw'n glir
Tua Chanaan hyfryd dir;
Y mae'r faner fawr yn mlaen,
F' holl elynion cwympo wnan';
Rhed yr oriau'u rhif i maes,
Caf fyn'd trwy'r Iorddonen las.

3 Wele'r Ganaan hyfryd, wiw,
Dyma'r ardal caf fi fyw;
Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,
Gwleddoedd hyfryd i barhau:
Dwyfol gariad, dwyfol hedd,
Gaf fwynhau tu draw i'r bedd.

4 Na ddoed gwael wrthddrychau'r byd
I gartrefu yn fy mryd;
Digon, f'enaid, digon yw
Myfyrdodau dwyfol friw;
Mae mwy pleser yn dy glwy'
Na'u llawenydd penaf hwy.

5 Iesu gollodd ddwyfol waed,
Minnau gafodd wir iachâd;
Darfu ymffrost mawr y byd,
Iesu bia'r clod i gyd;

Wrth ei draed dymunwn fyw;
Holl hapusrwydd f'enaid yw. W.

323. "Y Bugail da."

7. 4.—Aberafon. Llanfair

BUGAIL yw, fe roes ei waed
Dros ei ddefaid;
Ac fe'n prynodd ni yn rhad
O'n caethiwed;
Dygodd ni i brofi blas
Dwyfol fanna;
Bellach canwn am ei ras,
Haleluwia.

2 Nid oes terfyn byth i'w gael
Ar ei gariad;
Mae'i drysorau mawrion, hael,
Llwyn eu dirnad;
Ynddo ei hunan mae yn llwyr
Oll ddymunaf;
Minnau ganaf foreu a hwyr,
Haleluwia. W.

324. "Fy anwyl'yd sydd wyn a gwridog."

7. 4.—Aberafon. Essex.

GWYN a gwridog, hawddgar iawn,
Yw f' Anwylyd;
Doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
Peraidd hyfryd:
Daear faith, ac uchder nef,
Byth ni ffeindia
Arall debyg iddo ef—
Haleluwia.

2 Dygodd f'enaid ar ei ol
Yn dra rhyfedd;
Mi orphwysaf yn ei gôl
Hyd y diwedd:
Ffowch, greaduriaid o bob rhyw,
Mwy ni charaf
Wrthddrych arall ond fy Nuw—
Haleluwia.

3 Ynddo'i hunan mae yn llawn
Bob trysorau,
Dwyfol, perffaith, gwerthfawr iawn
Am fy meau;
Gwir ddoethineb, hedd, a gras
Gwerthfawrocaf;
Nerth i hollol gario'r maes,
Haleluwia.

4 Dyma sylfaen gadarn, gref,
Trwy fy mywyd;
Credu ac edrych arno ef
Yw fy ngwynfyd:
Ynddo bellach, trwy bob pla,
Y gobeithiaf;
Ac mewn rhyfel canu wnaf,
Haleluwia. W.

325. *Tangnefedd trwy waed Iesu.*

7. 4.—Tiberias. Patmos.

GAD im' Arglwydd, tra fwyf byw,
I gael gwledda
Ar dy ddwyfol, farwol, friw,
Y gwir fanna;
Dy ddioddefaint yw fy nerth,
A fy iechyd,
Dros y bryniau mwyaf seith
I dir y bywyd.

2 Dedwydd yw sy'n profi'th hedd
A'th gymmundeb;
Dedwydd yw sy'n gweled gwedd
Dy lân wyneb:
Dy gyfeillach nefol, wiw,
Sy'n wir fywyd.
A dy heddwch dwyfol yw
'Mherffaith iechyd. W.

326. *Y cyfammod gras.*

7. 4.—Aberafon. Essex.

GWNAWD cyfammod gwerthfawr
I fy ngwared, [rhad,
Rhwng fy Iesu a'm hanwyl Dad,
O'm caethiwed;
Ar ammodau cedyrn, drud,
Na all, ond hyny,
Satan, uffern fawr, a'r byd
Eu diddymu.

2 'Roedd ei bleser cyn bod byd
Gyda dynion,
Ac yn caru yr oedd o hyd
Ei gaseion;
Ac fe dalodd drostynt iawn
Pan oent ettо
Mewn tywyllwch dudew, llawn,
Heb ddihuno.

3 Cyn rhoi bod i'r ddaear gron,
Na dim arni,
Gwnawd y ddwyfol dresn hon
I'm gwaredu:
Iesu addawodd golli ei waed,
Yn llawn foddlon,
Yn ol arch ei anwyl Dad,
Dros elynion.

4 Cafodd enw, cafodd glod,
O ddiodde';
Cafodd daliad pena' erioed
O'i gystuddiau;
Fe gyflawna'i anwyl Dad
Ei addewidion,
Roddodd iddo am golli ei waed
Yn dra ffyddlon. W

327. *Dim yn ddigonol ond aberth y groes.*

7. 4.—Aberafon. Essex.

NID oes aberth o un rhyw,
Yn mhlith miloedd,
Dâl am drosedd lleia'i ryw,
Yn oes oesoedd;
Dim ond aberth dwyfol ddyn
Foddia'r Duwdod;
Angen T'wysog nef ei hun
Bwysa'mhechod.

8 Dyma'r aberth mae erioed
Son am dano;
Ar y ddaear 'does yn bod
Debyg iddo;
Mae seraphiaid pena'r nen
Yn rhyfeddu,
Gwel'd eu Brenin ar y pren
'Nawr yn trengu. W.

328. *Hedd a chariad.*

7. 4.—Llanfair.

HEDD a chariad ar y groes
Darddodd allan;
Iesu yn nyfnder angeu loes
Faeddodd Satan;
Er ei glwyfo dan ei fron,
Ef orchfygodd;
Cenir am y frwydr hon
Yn oes oesoedd. AN.

329. *Iawn ac eiriolaeth Crist.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

ANGEU ac eiriolaeth Crist
Yw 'ngorfoledd;
Hyn a ddwg i'm henaid trist
Lawn dangnefedd;
Collai'r ddeddf ei damniol rym
Ar Galfaria;
Dofwyd llid cyfiawnder llym;
Haleluwia.

2 Iesu yw difyrwch f'oes,
Yn fy mlinfyd;
Ac ymffrostiaf yn ei groes
Dros fy mywyd;
Dan ei gysgod, nos a dydd,
Gwnaf fy nhrigfa;
Fy nhŵr cadarn byth a fydd,
Haleluwia.

3 Iesu, a'i gyfiawnder ef,
Yw fy mywyd;
Fe'm cynnhwysa i deyrnas nef
Trwy ei Ysbryd;
Gotchir fi o'm pen i'm traed
Fel yr eira,
Trwy rinweddau dwyfol waed:
Haleluwia.

4 Mae fy Mhrynwr heddyw'n fyw,
Ac yn eiriol;
Sail eiriolaeth drosof yw
Iawn digonol:
Ei waith ynof yn y man
A berffeithia;
Gorfoleddaf yn fy rhan:
Haleluwia. P. J.

330. *Ffynnon i bechod ac aflendid.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

CANED nef a daear lawr,
Fe gaed ffynnon,
I olchi pechaduriaid mawr
Yn glaer wynion:
Yn y ffynnon gyda hwy
Minnau ymolchaf,
Ac mi ganaf fyth tra bwy',
Haleluwia.

2 Dyma'r dwr, a dyma'r gwaed,
Rededd allan,
Ac o'i ystlys sanctaidd gaed
I olchi'r allan;
Hon yw'r ffynnon sy'n glanhau
Yr aflanaf;
Yn dragywydd mae'n parhau:
Haleluwia. E. PARRY.

331. *"Llais hyfryd rhad ras."*

12. 11.—Rhad ras.

LLAIS hyfryd rhad ras sy'n gwaeddi
Diangfa, [mae noddfa;
Yn nghlwyfau Mab Duw, bechadur,
I olchi aflendid a phechod yn hollol,
Fe redodd ei waed yn ffrydiau iachusol: [pardwn,
Haleluwia i'r Oen bwrcasodd ein
'Nol croesi'r Iorddonen drachefn ni a'i molwn.

2 Ar angeu ac uffern cadd lawn fuddugoliaeth, [unwaith;
Ysbeiliodd holl allu'r tywyllwch ar
Holl filwyr y groes gânt ynddo dangnefedd; [orfoledd:
Fe'u harwain hwy'n sicr i berffaith
Haleluwia, &c.

3 'Nol tirio yn iach i'r tawel anneddau,
Ni seiniwn ei glod ar euraidd delynau;
Trwy nefol ardaloedd ni a'i molwn byth bythol, [gwyddol:
Wrth rodio ar lenydd yr afon dra-
Haleluwia, &c. D. C.

332. *Cân y gwaredigion am angeu'r groes.*

11au.—Wareham. Joanna.

FE'M llyngcwyd i fyny mewn syndod i gyd [y byd;
Wrth feddwl am angeu Iachawdwr
Trysorau o gariad, trysorau o ras,
Na fedr angylion eu gosod i maes.

2 O! henffych, ddirgelion anfeidrol eu rhyw, [Nuw;
A ddaeth i'r golouni trwy glwyfau fy
Ni fydd tragwyddoldeb ddim gormod ei hun [yn ddyn,
I chwilio dyfnderoedd fy Arglwydd

3 Ysbrydoedd rhai cyfiawn ddiangodd o'r byd,
A hyn sy'n difyru eu hunain o hyd,
Gan edrych i'r orsedd ddisgleirwen o'u blaen, [cân,
A dyblu fyth eilwaith ac eilwaith eu

4 Eu cân sydd am gariad yn gwared y byd, [nghyd,
Am undeb angylion a seintiau yn

Am ddoniau'r Messiah, am feithder ei loes,
Ac am anfeidroldeb holl bwrcas y groes.
W.

333. *Canu am gariad Crist.*

11au.—Joanna. Wareham.

NI ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn, [han;
Ennynodd cyn oesoedd o fewn iddo'i
Ni chwilia na cherub, na seraph, na saint, [ei faint.
Ei ddyfnder, na'i uchder, nac eangder

2 Rhyfeddod angylion yn nghanol y nef,
Rhyfeddod galluoedd a thronau y wef;
Diffygia'r ffurfafen a'r ser o bob rhyw
Cyn blinwyf fi ganu am gariad fy Nuw.

3 P'le, Arglwydd, dechreuaf?—pa ochr, pa du, [fry?
Ai yn nhragwyddoldeb, neu Galfari
Diddechreu, diddiwedd, anfeidrol, a rhad, [gwaed.
Yw cariad a brynwyd â dim ond â

4 Fy enaid, gwel gariad yn fyw ar y pren,
Ac uffern yn methu darostwng ei ben;
Er marw fy Iesu, er hoelio fy Nuw,
Fe barodd ei gariad trwy angeu yn fyw.

5 O ryfedd ddoethineb!—rhyfeddod ei hun! [fath un;
A ffeindiai'r fath foddion i brynu'r
Fy Iesu yn marw—fy Iesu oedd Dduw,
Yn marw ar groesbren, i minnau gael byw.
W.

334. "*Afon bur o ddwfr y bywyd.*"

11au.—Joanna. Wareham.

YR afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr, [yn awr;
Yw gwnaidd fy ngorfoledd, a'm cysur
Calfaria roes haeddiant, Calfaria roes hedd,
Calfaria sy'n cadw agoriad y bedd.

2 Mae angeu ei hunan, ei ofnau a'i loes,
Mewn cadwyn gadarnaf yn rhwym wrth dy groes; [gyd
Allweddau hen uffern ddychrynllyd i
Sy'n hongian wrth wregys Iachawdwr y byd.

3 'Does dim at ostegu pob terfysg a loes,
Cydwybod a'i dychryn, ond angeu dy groes; [gyttûn
Can' miloedd o ofnau oedd ynwy'n
Nes clywed fod Crëwr y ddaear yn ddyn.

4 Wel, bellach, boed i mi roi ffarwel i'r byd, [ynghyd;
Ffarwel i'w drysorau a'i bleser
Un gorchwyl sydd genyf fyth mwyach i gyd,
Sef caru a chanu i Iachawdwr y byd.
W.

335. *Rhinwedd marwolaeth yr Oen.*

11au.—Joanna. Wareham.

O GARIAD! O gariad! anfeidrol ei faint,
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint; [trwy'r gwaed,
Cael heddwch cydwybod, a'i chlirio
A chorph y farwolaeth, sef pechod, dan draed.

2 Nis gallai'r holl foroedd byth olchi fy nriw, [rhyw;
Na gwaed y creaduriaid er amled eu
Ond gwaed y Messiah a'i gwella'n ddiboen; [yr Oen.
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth

3 Cydganed y ddaear a'r nefoedd ynghyd
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd;
Moliannet pob enaid fy Arglwydd ar gân,
Am achub anhydyn bentewyn o'r tân.

4 Mae'r jubil dragwyddol yn awr wrth y drws, [tlws;
Fe gododd yr haulwen, ni gawsom y
Daw gogledd a dwyrain, gorllewin a de,
Yn lluoedd i foli Tywysog y ne'. M.R.

336. *Gwaredigaeth trwy Grist.*

9. 8.—Bethel. Elliot.

O! AGOR fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a'th air;
Mae'n well i mi gyfraith dy enau
Na miloedd o arian ac aur:
Y ddaear â'n dân, a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

2 Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod
Yw'r ffordd a gymmerodd efe
I achub pechadur colledig,
Trwy farw ei hun yn ei le:
Fe safodd fy Mrenin ei hunan,
Gorchfygodd awdurdod y ddraig;
Ein Samson galluog ni ydyw:
O! caned preswylwyr y graig.

3 Daeth blwyddyn y caethion i ganu;
Doed meibion y gaethglud ynghyd;
Ni seiniwn trwy'r nefoedd a'r ddaear,
Ogoniant i Brynwr y byd:
Mae Brenin y nef yn y fyddin;
Gwae Satan a'i filwyr yn awr;
Trugaredd a hedd sy'n teyrnasu
Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr.

4 Y Llew o lwyth Judah orchfygodd;
Pa elyn all sefyll o'i flaen?
Mae Seion yn teithio tuag adref
Mewn cerbyd dychrynllyd o dân:

Bydd miloedd o saint ac angylion,
Yn dorf ogoneddus ynghyd,
Yn canu rhyw anthem dragwyddol
O foliant i Brynwr y byd. M. R.

337. *Trugaredd Duw yn Nghrist.*

9. 8.—Elliot. Bethel.

RHYFEDDOL weithredoedd trugaredd,
Sef prif briodoledd ein Duw;
Trugaredd a garodd dros fesur
Bechadur llwyr ammhur ei ryw;
Trugaredd o'i blaid sydd yn eiriol;
Trugaredd anfeidrol sydd fwyn;
Pan lefo yn ngolwg ei waeledd,
Fe wrendy trugaredd ei gwyn. D. T.

338. *Meddyliau trugaredd a gras.*

8au. 8llin.—Salome.

DADGUDDIWYD dirgelion i maes,
Dirgelion cuddiedig i'r byd,
Meddyliau trugaredd a gras
I'r penaf bechadur i gyd,
A glöed mewn addewid sydd gref,
Na welir fyth fythoedd ei hail,
O ddyfnder y ddaear i'r nef,
Mor gywir, mor sicr ei sail.

2 Fe'm boddwyd mewn syndod yn lân
Wrth chwilio eu natur i maes;
'Does angel na seraph a gân
Am ddyfnder anorphen ei ras:
Pwy bwysa'i ddioddefaint ar bren?
Pwy bwysa lawn haeddiant ei loes?
Tra tafod yn chwaren'n fy mhen
Mi ganaf am gongcwest ei grocs.

3 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
Y moliant a'r parch yn gyttûn,
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod
Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun;
Aed swn dy farwolaeth i maes,
O'r dwyrain liosog i'r de;
Helaethed terfynau dy ras
Mor bell ag y cyrhaedd y ne'.

4 Aed ein Haleluwia i'r lan,
Trwy'r awyr anfeidrol ei maint;
Cymmysged canadau rhai gwian
A thyrfa liosog o saint:
Ni gawsom gan cymmaint a'r byd,
Can cymmaint drachefn a hyn,
Can cymmaint a'r nefoedd i gyd—
Brydnawngwaith ar Galfari fryn. W.

339. *Prynwr byw.*

8au. 8llin.—Salome.

MI wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
A'm prynodd a thaliad mor ddrud;
Fe saif ar y ddaear, gwir yw,
Yn niwedd holl oesoedd y byd:
Er ised, er gwaeled fy ngwedd,
Teymnasu mae'r Mhrynwr a'Mrawd;
Ac er fy malurio'n y bedd,
Ca'i weled ef etto'n fy nghnawd.

2 Wel, arno bo'm golwg bob dydd,
A'i daliad anfeidrol o werth;
Gwir Awdwr, Perffeithydd ein ffydd,
Fe'm cynnal ar lwybrau blin, serth:
Fy enaid, ymestyn yn mlaen,
Na orphwys nes cyrhaedd y tir,
Y Ganaan dragwyddol ei chân,
Y Sabbath hyfrydol yn wir. T. J.

340. *Pwy yw hwn yn dyfod o Edom?*

8au. 8llin.—Salome.

PWY welaf o Edom yn dod,
Mil harddach na thoriad y wawr,
Yn sathru dan wadn ei droed
Elynion yn lluoedd i'r llawr;
Ei wisg wedi ei lliwio gan waed,
Ei saethau a'i gleddyf yn llym;
Ei harddwch yn llanw'r holl wlad,
Yn ymdaith yn amlder ei rym?

2 Myfi, 'r hwn wyf Alpha cyn byd,
Wyf gadarn i ladd ac iachau;
Fy nerthau a safant i gyd
Pan ballo ffyddlondeb pob rhai.
Ond pam mae dy wisgoedd yn waed
A'th gleddyf mor gochedi fin,
Fel un a fai'n sathru dan draed
Y gwinwryf yn ngwinllan y gwin?

3 Wrth weled y fyddin mor fawr,
Dan arfau yn llawnion o lid,
Yn llanw holl wyneb y llawr,
Y bobl giliasant i gyd;
Gadawyd fi'n unig, heb ail,
I sefyll yn ngwyneb fy nghas,
Gelynion mor amled a'r dail
Yn llanw holl gyrau y maes.

4 Mi goduis i fyny fy llaw,
Ymleddais, ennillais y dydd;
Fy holl waredigion a ddaw,
A'm caethion a roddir yn rhydd;
Ennillais fath goncwest trwy waed,
Mae gennyf lywodraeth mor fawr,
Hyd eithaf trigfannau fy Nhad, [llawr.
Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r

5 Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,
Pa dafod all osod i maes,
Mor felus, mor helaeth, mor llawn,
Mor gryfed ei gariad a'i ras?
Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,
Nas dichon i beichiad na bai
Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
A'u llanw ardderchog didrai.

6 Fel ffiamiau angherddol o dân
Yw cariad f' Anwylyd o hyd:
Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,
Fe yfodd o'r afon i gyd:

Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,
Fe'i dygodd a'r Duwdod yn un:
Y peilier oedd rhyngddynt oedd fawr,
Fe'i llanwodd a'i haeddiant ei hun.
J. W.

341. *Mawl i gariad Crist.*

5. 5. 6. 5.—Cysur.

YR lesu'n dilelai
A'm gwared o'm gwae;
Achubodd fy mywyd,
Maddeuodd fy mai:
Fe'm golchodd yn rhad,
Do'n wir, yn ei waed,
Gan selio fy mhardwn
Rhoes i mi ryddhad.

2 O! melus gw'r wledd,
Ce's weled ei wedd,
Fy Mhrynwr a'm Prophwyd
Mewn hyfryd fawredd;
Fy Mhriod a'm Pen
A rwygodd y llen;
Ffordd newydd a bywiol
Sy i fyn'd uwch y nen.

3 Fy enaid i sydd
Yn awr, nos a dydd,
Am ganmol fy Iesu
A'm rhoddodd yn rhydd:
Ffarwel fo i'r byd,
A'i bleser ynghyd;
Ar drysor y credadd
Fe redodd fy mryd.

4 'Rwy'n gwel'd bob dydd
Mai gwerthfawr yw'r byd:
Pan eiwy' i berth'nasau
Fy angor a fydd:
Mwy gwerthfawr im yw
Na chyfoeth Periw;
Mwy dengel i'm cynnal
Ddydd dial can Duw. W.

342. "*Trysorau uwch gwybod y byd.*"

5. 5. 6. 5.—Cysur.

Y CYSUR i gyd
Sy'n llanw fy mryd,
Fod genyf drysorau
Uwch gwybod y byd;
Ac er bod hwy 'nghuddi,
Nas gwel hwynt ond dydd,
Ceir eglur ddadguddiadau
O honynt ryw ddydd.

2 Anfeidrol oedd llid
Creawdwr y byd
Yn erbyn y pechod
Sy'n damnio o hyd;
Ond Tywysog a gaed
A gollodd ei waed,
Fe brynodd faddeuant
A heddwch y Tad.

3 Ffordd wnaethpwyd yn llyn
Ar Galfari fryn,
I sierach paradwys
Na goll'som cyn hyn:
Ac yno ni gawn
Oll yfed yn llawn
O wleddoedd y bywyd,
Heb foreu na nawn. W.

343. *Rhinweddau angeu'r groes.*

5. 5. 6. 5.—Cysur.

FY Iesu mwy fydd
Fy moddfa bob dydd,
O ddyfnder pydewau
Fe'm rhoddodd yn rhydd:
Ni feddaf nacbad,
Un dim ond ei waed—
Fy heddwch a'm haeddiant,
Fy nerth a'm parhad.

2 Rhyw afon a gaed,
O ddwr ac o waed;
O'r cysegr ddisgleirdeg
Mae'n rhedeg yn rhad,
I wella fy mriw,
Fy meiau o bob rhyw,
A chanu fy enaid,
Er dued ei liw.

3 Boed yma fy nyth,
A'm bywyd i byth,
Yn nghilwyfau'r Oen tyner,
A'i lawnder di-lyth;
Ac yn a cal fyw,
Er croesau o bob rhyw,
A'm henaid yn llawen,
Dan aden fy Nuw.

4 Wel bellach, mi a 'mlaen,
Trwy ddwr, a thrwy dan,
Er cynnmant fy nghed,
Fe'i talwyd yn lân;
Mohamnu mwy fydd
Fy mlldeser nob dydd,
'Nol agor y carchar,
Pwy all fod yn brudd? AN.

344. *Rhinwedd angeu Calfaria.*

5. 5. 6. 5.—Cysur.

IS [illegible] mi fu
'R fath fendith i mi
Ag angeu fy Iesu
Ar Galfari fry;
Rhyfeddodd y byd
Yw angeu mor ddrud,
A gwreiddyn cannadau
'R ffyddloniaid i gyd.

2 Af bellach yn hy'
Tua'r Ganaan sydd fry
Mi wela'r addewid
Yn gadarn o'm tu;
A geiriau fy Nuw
Sy'n gadarn o ryw,
Fe dd'wedodd cawn gonest
'Ngelynion bob rhyw. W.

345. *Ceidwad digonol.*

5. 5. 8.—Hungerford.

POB seraph, pob sant,
Henafgwyr a phlant,
Gogoniant a ddodant i Dduw,
Fel tyrfa gyttûn,
Yn beraidd bob un,
Am Geidwad o forwyn yn fyw.

2 Efe yw fy hedd,
Fy aberth a'm gwledd,
A'm sail am drugaredd i gyd,
Ein cysgod, a'n cân,
Mewn dwr, ac mewn tân,
Gwnaed uffern ei hamcan o hyd.

3 Yn babell y bydd
Rhag poethder y dydd,
A chedyrn lifogydd y fall;
Mewn cysgod mor dda,
Holl uffern a'i phla,
Er chwennych, ein difa nid all. E. J.

346. *Trysorau yr Iawn.*

5. 5. 8.—Hungerford. Edeyrn.

TRYSORAU mor glir
Ni welwn yn wir,
I randir yr India pe'r awn;
Pur aur o Peru
Cyffelyb nid yw
I heddwch fy Nuw yn yr Iawn.

2 Caed person mor lawn
O gyfoeth a dawn,
A dalodd yn gyflawn y gwerth;
Trwy'r ddyfais fawr hon
Gwneir Seion yn llon,
Fe wisg ei anwylion â nerth.

3 Dim trysor nis cair
Mewn perlau nac aur,
Er chwilio hyd derfyn ein dydd,
A bwysa dy hedd
Tu yma i'r bedd,
Heb goffa'r llawenydd a fydd. E. E

347. *Yr un testyn.*

5. 5. 8.—Hungerford.

MAE trysor sydd fwy
I'w gael yn ei glwy'
Na'r ddaear a'i gwychder i gyd;
A phroffad o'i hedd
Sydd fwy nag a fedd
Holl fawredd a bonedd y byd. AN.

AM YR YSBRYD GLAN.

348. *Yr Ysbryd Glân a'i ddoniau.*

M. 8.—Dymuniad. Saxony.

TYR'D, Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni,
A dod d'oleuni nefol;
Tydi wyt Ysbryd Crist; dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.

2 Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau;
Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
Ac enaint i'n gwynebau.

3 Gwasgara di'n gelynion trwch,
A heddwch dyro ini;
Os T'wysog i ni fydd Duw Nèr
Pob peth fydd er daioni.

4 Dysg in adnabod y Duw Dad,
Y gwir Fab rhad a thithau,
Yn un tragwyddol Dduw i fod
Yn hynod Dri Phersonau;
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân;
Da dadgan ei anrhydedd. E. P.

349. *Golcuni yr Ysbryd.*

M. 8.—Dymuniad. Saxony.

TYR'D, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw,
Yr unrhyw a'r Tad nefol,
Yr unrhyw hefyd a'r Mab rhad;
Duw cariad tangnefeddol.

2 Llewyrcha i'n c'lonau ni â'th ras,
Fel byddo gas in bechu,
Ac i ni, mewn sancteiddrwydd rhydd,
Bob dydd dy wasanaethu.

3 Tydi addewaist ddysgu, Iôn,
Dy weision i lefaru,
Fel yn mhob man y caffo'n rhwydd
Yr Arglwydd ei foliannu.

4 O! Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni,
Y gwir oleuni danfon;
A hofyd sêl, tra fom ni byw,
I garu Duw yn fyddlon.

5 Dod fesur mawr o'th ras yn rhwydd,
O Arglwydd Ddaw Gorucha f!
Diddanwch i ni felly bydd
Yn y brawd ddydd diweddaf. E. P.

350. *Doniau yr Ysbryd.*

M. 8.—Dyfrdwy. Persia.

YSBRYD y Tad a'r Mab wyt ti,
Un Duw yn Dri Phersonau;
Cyffeswn di o ddydd i ddydd,
A chysson ffydd yn ddiau.

2 Dy ddoniau ydynt aml a dwys,
Y rhai i'r eglwys rhoddi:
O fewn i'th saint, y ddeddf ddi-lys,
Tydi a'th fys 'sgrifeni.

3 Pur ffynnon pob llawenydd glân,
Y grymus dân cariadol,
Y gwir eneiniad, mawr ei les,
Sy'n rhoddi gwres ysbrydol.

4 Diddanydd ydwyt ti yn wir
Yn mhob rhyw hir orthrymder;
Dy holl ddaioni di, a'th glod,
A thafod ni adrodder.

5 Attolwg dyro i ni dy rad
I garu'r Tad a'i 'nabod,
A'n Harglwydd Iesu, ei Fab ef, [E. P.
Gwna'n ffydd yn gref i'w ganfod.

351. *Arweiniad yr Ysbryd.*

M. C.—Bangor. Gwrecsam.

O! TYRED, Ysbryd sanctaidd, pur,
Nertha'm blinedig draed;
A rho i mi olwg oleu, glir,
Ar hyfryd dir fy ngwlad.

2 Gâd i mi ado'r anial maith,
Gwlad galar, a gwlad gwae,
A myned rhagof tua'r tir
Sy â'i bleser yn parhau.

3 'Rwyf fel y gwyliwr ar y mur,
Yn disgwyl, bob yr awr,
Am wel'd yn gwawrio jubil fwyn
Fy mudduguhaeth fawr.

4 Pleserau'r ddaear wedi ffoi,
Pob chwantau i gyd yn un,
Heb un difyrwch is y rhod
Ond Iesu mawr ei hun.

5 A meddwl am gwmpeini'r nef,
A meddwl am y gwaith
Fydd genyf yno'n treulio i macs
Holl dragwyddoldeb maith.

6 Yn mhlith cwmpeini rif y sêr,
Llawn ddisglaer uwch y nen,
Yn cymmysg cariad ato ef
Fu farw ar y pren. W.

352. *Deisyfiad am yr Ysbryd Glân.*

M. C.—Bangor. St. Mary.

O! ANFON di yr Ysbryd Glân,
Yn enw Iesu mawr,
A'i weithrediadau megys tân;
O! deued ef i lawr. J. H.

353. *Calon bur yn deml i'r Ysbryd.*

6. 8.—Alexandria. Dolgellau.

NI thrig awelon nef
Mewn dyfnder pydew cas;
Ni thrig cysuron neb
Mewn ysbryd heb dy ras:
Pur yw dy swydd, pur fydd dy le,
Fy Nuw, o fewn i'r ddae'r a'r ne'.

2 O Arglwydd! tyr'd i lawr,
Gwna drigfan it dy hun,
Gwna deml sancteiddiol fawr
O galon aflan dyn;
A thrig yn hon, fel Seion gynt,
Er pob rhyw dywyll stormus wynt.

3 Tra, Arglwydd, yn y byd,
Rho'm golwg ar y wlad,
Yr etifeddiaeth fry,
Pleserau tŷ fy Nhad,
A'r gwleddoedd maith sydd yn parhau,
Lle nad oes gofid, poen, na gwae. W.

354. *Gweddi am sancteiddrwydd.*

8. 7. 4.—Hyder. St. Peter.

O! SANCTEIDDIA f'enaid, Arglwydd,
Yn mhob nwyd, ac yn mhob dawn;
Rho egwyddor bur y nefoedd
Yn fy ysbryd llesg yn llawn:
Na'd fi grwydro,
Draw nac yma o fy lle.

2 Ti dy hunan all fy nghadw,
Rhag im wyro ar y dde,
Rhedeg eilwaith ar yr aswy,
Methu cadw llwybrau'r ne':
O! tosturia;
Mewn anialwch 'rwyf yn byw.

3 Plana'r egwyddorion hyny
Yn fy enaid bob yr un,
Ag sydd megys peraroglau
Yn dy natur di dy hun:
Blodau hyfryd,
Fo'n disgleirio dae'r a nef.

4 Fel na chaffo pechod atgas,
Mwg a tharth y pydew mawr,
I fy nallu ar y llwybr,
Na fy nhaflu fyth i lawr;
Gwna i mi gerdded
Union ffordd wrth oleu dydd. W.

355. *Gwaith yr Ysbryd ar y galon.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

NERTHOEDD y tragwyddol Ysbryd,
Yn haeddianau'r dwyfol Iawn,
Wna i'r fynwes ddiffaith, galed,
I ffrwythloni'n hyfryd lawn
O rasusau,
Per blanhigion nefol wlad.

2 Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
Rhai fu'n bloeddio âg un llef,
Am Dywysog mawr y bywyd,
"Ymaith! O! croeshoelier ef!"
Gwnaeth i'r rhei'ny
Wylo edifeirwch pur.

3 Os disgyni, addfwyn Ysbryd,
I ryw fynwes fel rhai hyn,
A'i haddurno â phur ddelw
'R hwn fu farw ar y bryn,
Mawl a seinia [D. C.
Trwy'r holl nefoedd fawr am byn.

AM AIR DUW.

356. *Crist yn y gair.*

M. H.—Angels' Hymn. Sarum.

NID yw hyfrydwch cnawd a byd
Ond pethau gweigion oll i gyd;
Wrth chwilio gair yr Arglwydd cawn
Hyfrydwch gwell o lawer iawn.

2 Mae rhyfeddodau rif y dail
Yn mherson hynod Adda'r Ail;
Difyrwch penaf nef y nef
Yw edrych ar ei degwch ef. J. H.

357. *Cysuron y gair.*

M.S.—Dyfrdwy. Dyfroedd Siloah.

DY nerthol air, Iôn, oddi fry,
A bery yn oes oesoedd;
Tydi wyt wedi cadarnhau
Dy eiriau yn y nefoedd.

2 Mor werthfawr yw dy air a'i rin
Mewn cystudd blin a chroesau;
Fe droir wylofain trist yn gân
Ar lwybr glân dy ddeddfau.

3 Gobeithiaf yn y gair o hyd
Yn nghanol byd o ddychryn;
Mae'n gysgod rhag y gwynt a'r gwres,
Mae'n lloches rhag y gelyn.

4 Er teimlo'i fin, ei nerth, a'i rym,
Fel cleddyf llym yn rhwygo,
Er hyn, mae olew, gwin, a hedd,
Oes, ac ymgeledd ynddo.

5 Mae gwobrwy yn yr anial dir;
A garo'r gwir gaiff goron,
Bydd llafur ffydd, wrth air y llŷf,
Yn elw i'r duwiolion. E. J.

358. *Nerth trwy'r gair.*

M. C.—French. Martyrdom.

GOLEUNI ac anfeidrol rym
Yw hyfryd eiriau'r nen;
Pob sill erioed a dd'wedodd ef
Sydd siwr o ddod i ben.

2 Fe barodd i mi dori'r fraich,
A thynu'r llygad de;
Minnau gaf allu, mewn iawn bryd,
I wneyd a barodd ef.

3 'Rwy'n penderfynu myn'd yn gloff
I mewn i deyrnas nef,
Yn well na chadw'm melus chwant,
A cholli ei gwmni ef.

4 Mi ymddiriedaf yn ei air,
Er cymmaint yw fy mai;
Ac fe derfynwyd dydd ac awr
Pan gaffwy'm gwir ryddhau.

5 Mi orfoleddaf draw o bell,
Wrth feddwl am y dydd,
Pan ddêl addewid fawr ei grym
A'm henaid gwan yn rhydd. W.

359. *Chwilio y gair.*

7. 6. D.—Meirionydd.

O ARGLWYDD! dysg im chwilio
I wirioneddau'r Gair,
Nes dod o hyd i'r Ceidwad
Fu gynt ar liniau Mair;
Mae ef yn Dduw galluog,
Mae'n gadarn i iachau;
Er cymmaint yw fy llygredd,
Mae'n ffynnon i'm glanhau. AN.

360. *Y Beibl.*

M. B. D.—Aberdar. Pererin.

O FEWN i gloriau hwn
Mae dwfn feddwl Duw;
Pob iot o hono bery'n hwy
Na'r nef, gwirionedd yw:
Y llwon yw ei sail,
Gwaed Adda'r Ail yw'r sel;
Mwy gwerthfawr yw nag aur Ferfaw,
Llawn yw o laeth a mêl.

2 Rhyw drysor mawr ei werth
Yw holl wirionedd Duw;
Tystiolaeth eglur ynddo geir
Am gyflwr dynolryw;

Ei gwau mewn cyflwr da,
A syrthio o hono 'i hun;
O bleidd hyn, gelyn meth sydd
Ruwng Brenin nef a dyn.

3 Ac ynddo hefyd ceir
Rhyw mewydd braf ei sein,
Fod iachawdwriaeth berffaith rad,
I'r gwaelaf un o'r rhai'n;
Mae'r heddwch wedi ei wneyd
Yn nherson Mab y dyn,
Ac yn y babell ddiddos hon
Mae Duw mewn hedd â dyn.

4 Trysordy deddfau Duw,
Maith yw dy eiriau prid;
Pob sill o'i fewn sydd fwy ei werth
Na'r ddaear faith i gyd;
O fewn ei gloriau gwiw
Mae arfdy Duw, fy Iôr;
Mvfyriaf ynddo yn ddibaid,
Tra fyddo tir neu fôr. D. M.

361. *Y Beibl.*

8. 7. D.—Dismission. Trefecca.

DYMA Feibl anwyl Iesu,
Dyma rodd deheulaw Duw;
Dengys hwn y ffordd i farw,
Dengys hwn y ffordd i fyw;
Dengys hwn y golled erchyll
Gafwyd draw yn Eden drist;
Dengys hwn y ffordd i'r bywyd,
Trwy adnabod Iesu Grist. AN.

362. *Nerth gair Duw.*

8. 7. D.—Llangan. Gaerwen.

DYN nid wyt sy'n edifaru;
'R gair a dd'wedost ddaw i ben;
Seliwyd d'arfaeth, seliwyd d'eiriau,
Pan fuost farw ar y pren;
Nid oes sillaf o'th fygythion,
Nid oes sillaf bach o'th ras,
Pan y delo'r dydd i fyny,
Nas caiff hwnw 'i wneyd i maes.

2 Ar dy air, yn mhob tymmhestloedd,
Y gorphwysaf f'hun i lawr,
Ac mi gredaf fod dy eiriau
Lawer trech na'r storom fawr;
'R unig sylfaen 'nawr sydd geny'
I bwyso ar d'addewid ddrud
Yw, bod ynot ti gyfiawnder,
A 'mod innau'n eisieu i gyd.

3 O! gad i mi brofi a welaf;
'Rwyf yn gwel'd rhyw wleydd
Y dymunwn fil o weithiau [draw
Brofi eu ffrwythau maes o law;
Grym dy eiriau wyf am deimlo,
Mae dy eiriau'n drech na'r byd;
Cleddyf tanllyd o dy enau,
Gongcra uffern faith i gyd. W.

363. *Melusder y gair.*

8. 7. 3.—Wyddgrug. Holstein.

MI feddylia'th fod di yno
Pan na bech di yno ddim;
Mae dy eiriau mor felused,
Mae dy gariad o'r fath rym;
Diliau mêl, oll dan sêl;
Minnau gredaf, doed a ddêl.

2 Mae dy air yn abl fy arwain
Trwy'r anialwch mawr yn mlaen;
Mae yn golofn oleu, eglur,
Weithiau o niwl, ac weithiau o dân;
Mae'n ddi-ble ynddo fe,
Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.

3 'Rwyf yn meddwl am yr oriau
Caffwyf funyd o'th fwynhau;
Ac mae adsain pell dy eiriau
'N peri i ni lawenhau:
O! 'r fath wledd, draw i'r bedd,
Fydd cael edrych ar dy wedd.

4 Dyna'r pryd 'rwy'n dechreu 'mywyd,
Pan y caffwyf wel'd yn glir
Im gael prawf, ac y caf ragor,
O rawn sypiau'r Gaanan bur:
Dyma 'ngwledd, dyma f'hedd,
Dyma'm congcwest ar y bedd.

5 O! gâd i mi'n fuan, Arglwydd,
Glywed geiriau distaw'r ne',
Rhag im redeg, heb im wybod,
Ar ryw law i maes o'm lle;
Yn dy law, heb ddim braw,
Cerdda'i 'n union yma a thraw. W.

YR EGLWYS, A'I HORDINHADAU.

364. *Moliant yr eglwys.*

10au.—Clod. Coburg.

MAE eglwys Dduw trwy'r ddae'r
a'r nef yn un, [tûn;
Y mae'n nawr a'r byw a'u cydsain yn gyt-

"Teilwng yw'r Oen," medd seintiau
yn y nef; [a'n llef.
"Teilwng yw'r Oen," yw'n llafar ni

2 Ei fywyd glân, ei chwys, a'i riddfan
roes,
A'i angeu llawn, dâl cyflawn ar y groes;

Daw ffrwyth ei groes, a grym eiriolaeth gref,
A'r eiddil gwan yn gadarn gydag ef.

3 Brawd yw efe i'r llwythog ar y llawr;
Dof ar ei bwys i fyny o'r cystudd mawr:
Ni thrig yn ol un ewin, er mor wan,
O'r anial dir fe'u mynir yn y man. AN.

365. *Cwynfan Seion.*

10au.—Erfyniad. Bala.

MAE Seion wan yn griddfan dan y groes, [loes;
Yn disgwyl gwawr ar lawr dan lawer
Bywha dy waith, ni phery 'nhaith yn hir; [yn wir. AN.
Rwy'n ofni'r bedd cyn gwel'd dy wedd

366. *Newydd da i'r truan.*

M. H.—Boston. Sarum.

Y NOETH, y tlawd, a'r llwythog sy
'N och'neidio tua'r nefoedd fry,
A'r cystuddiedig gwael ei lun,
Wna Iesu'n briod iddo'i hun.

2 Newyddion da er seiliad byd
A roed yn nghadw i'r rhai'n i gyd:
A phan addfedo awr y Tad,
Dadguddir iddynt oll yn rhad.

3 I'r rhai'n mae rhagorfreintiau'i waed,
I'r rhai'n mae cyflawn wir iachâd,
I'r rhai'n mae heddwch llawn ryw bryd—
Rhyddhâd oddi wrth anfeidrol lid.

4 Galarwyr Seion sydd yn awr
Yn griddfan yn y cystudd mawr,
Na wylwch mwy—newyddion mae
A bair i'ch calon lawenhau.

5 Am hyn dyrchefwch fyny fry,
Cydseiniwch â'r angylaidd lu;
Tra byddoch byw na foed eich son
Ond am rinweddau gwaed yr Oen. W

367. *Undeb Cristionogol.*

M. H.—Boston. Caernarfon.

DUW, tyr'd a'th saint o dan y ne',
O eitha'r dwyrain bell i'r de,
I fod yn dlawd, i fod yn un,
Yn ddedwydd ynot ti dy hun.

2 Un llais, un swn, un enw pur,
O'r gogledd fo i'r dwyrain dir,
O fôr i fôr, o gylch y byd,
Sef enw Iesu oll i gyd.

3 Darfydded son yn mhob rhyw fan
Am ddoniau mawr a doniau gwan:
Darfydded enwau pob rhyw ddyn:
Aed oll yn ddim ond ti dy hun.

4 Na foed gan un pererin mwy
Ganiadau am ddim ond marwol glwy';
Pan y teyrnasa'i Ysbryd ef,
Y ddaear dywyll dry yn nef.

5 O! tyr'd ar frys, Iachawdwr mawr,
Disgyned d'Ysbryd yma i lawr,
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed
Gyd-gerdded tua'r hyfryd wlad:—

6 Cyd-fyn'd o hyd, dan ganu 'mlaen,
Cyd-ddioddef yn y dŵr a'r tân,
Cyd-gario'r groes, cyd-lawenhau,
A chyd-gystuddio dan bob gwae. W.

368. RHAN II.

Boston. Caernarfon.

Y RHAI bwreasedd gwaed y nef.
Sy heb enw ond ei enw ef,
Hwy yn mhob cystudd, hwy 'mhob
A gaiff yn unig lawenhau. [gwae,

2 Trech fydd y rhai'n na gwawd, na llid,
A'r holl elynion sy'n y byd,
Yn un mewn culni, un mewn poen,
Aelodau'r croeshoeliedig Oen.

3 O! na ddoi dydd yr India i ben
I wel'd yr hwn fu ar y pren;
A ninnau'n un, yn un â hwy,
Yn canu am ei farwol glwy'.

4 Boed Prydain Fawr yn fflam o dân
O gariad at ei Phrynwr glân;
A holl ynysoedd pella'r byd
Yn boddi mewn caniadau i gyd.

5 Amen, Amen—boed môr a thir [pur,
Mewn perffaith hedd, mewn caniad
Heb ganddynt bleser o un rhyw
Ond caru'r Iesu mawr a'n Duw. W.

369. *Crefydd mewn icuengctid.*

M. H.—Boston. Melcombe.

CYSSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes
I garu'r hwn fu ar y groes;
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a fedd y ddaear faith.

2 Cael bod yn foreu dan yr iau
Sydd ganmil gwell na phleser gau;
Mae ffyrdd docthineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

3 Y plant a wasanacthont Grist
Cânt ddiange byth rhag uffern drist.
Mae myrdd o ie'nctyd yn y nef
Yn berlau yn ei goron ef.

4 O! na threuliaswn yn ddi-goll
O dan iau Crist fy mebyd oll;
Mae'r hwn a'm prynodd ar y groes
Yn deilwng o bob awr o'm hoes. P.J

370. *Yr iachawdwriaeth yn Nghrist.*

M. H.—Kent. Lancaster.

YR iachawdwriaeth fawr yn Nghrist
Sŵn melus hyfryd yw i'm clust;
Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
A chordial im rhag ofnau yw.

2 Aed swn yr iachawdwriaeth fawr
O amgylch ogylch dacar lawr;
A boed i'r nef a'i lluoedd llon
Gyfodi eu llef i seinio hon. DR. W.

371. *Yr eglwys â'i phwys ar Grist.*

8. 8. 6.—Sharon. Llanelli.

O! PWY yw hon sy'n dod yn hy,'
Yn lew i'r lan, fel rhwng dau lu,
O'r dywyll Aiphtaidd wlad,
Gan roddi pwys ei henaid pur
Ar Iesu gwiw, 'r Messiah gwir,
Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhâd?

2 Fel colofnau mwg ei henaid mae,
Mewn nefol hwyl, yn llawenhau,
'Nawr yn meddiannu'n wir
Ras o bob rhyw, cysuron rhâd,
Fel peraroglau pell a gaed,
O hyfryd thus a myrr.

3 O'r dyfnder du i'r lan y daeth,
Tua'r wlad sy'n llifo o fel a llaeth,
I'r etifeddiaeth fras: [hwyl,
Yn llawn o hedd, mae'n awr mewn
A'i nefol gainge yn cadw gwyl,
Am ddod o'r Aipht i maes.

4 Duw sy iddi'n blaid, hi gadd o'i blaen
Y cwmmwl niwl a'r golofn dân,
Eneiniad yr holl saint;
Hi wyr y ffordd i'r Ganaan draw,
Ni chyfeiliorna ar un llaw,
Nes cael meddiannu'r fraint.

5 Fel boreu wawr fe welir hon,
Teg fel y lloer mae'i hwyneb llon,
Mewn cariad, gras, a hedd;
Fel haul, heb un brycheuyn du,
'N ofnadwy fel banerog lu;
On'd hyfryd yw ei gwedd? W.

372. *Cynnydd mewn gras.*

M. 8.—Dyfrdwy. Morganwg.

Y RHAI o dan dy gysgod, Iôn,
Yn gysson a arosant,
Dan lewyrchiadau'th wyneb pryd,
Y rhai'n fel ŷd adfywiant.

2 Blodeuant, tyfant tua'r nen,
Fel y winwydden ffrwythlon;
A bydd eu harogl wrth eu trin
Mor bêr a gwin Lebanon.

3 Lledant eu gwraidd mewn dacar fras
Wrth afon gras y bywyd;
Eu ceinciau gerdd, eu tegwch fydd,
Fel olewydd yn hyfryd. W. E.

373. *Doued fy Anwyl'd i'w ardd.*

M. 8.—Morganwg. Silesia.

PWY na fwytâi y ffrwyth o'r nen,
Sy'n tyfu ar bren y bywyd?
A phwy na roddai wrth ei fin
Rinweddol win mor hyfryd?

2 Hon yw dy ardd, braf yw ei bri,
Dy blaniad di dy hunan;
O! tyr'd i mewn, ac arni chwyth,
Gwna ynddi byth dy drigfan.

3 Casgla dy fyrr a'th aloes pur,
Grasusau gwir dy Ysbryd;
Bwyta dy ddil, ynghyd â'th fêl,
I ni gael sêl o fywyd.

4 Wel, yf dy win a'th laeth yn hael,
Boed hyn yn dâl o'th lafur,
Am i ti ddioddef ar y groes
Anfeidrol loes a dolur. W.

374. *Tegwch Seion.*

M. 8.—Mary. Baden.

MAE eglwys Dduw fel dmas wych,
Yn deg i edrych arni:
Ei sail sydd berl odidog werth,
A'i mur o brydferth feini.

2 Llawenydd yr holl ddaear hon
Yw mynydd Seion sanctaidd;
Preswylfa anwyl Brenin nef
Yw Salem efengylaidd.

3 Gwyn fyd y dinasyddion sydd
Yn rhodio'n rhydd ar hyd-ddi;
Y nefol fraint i minnau rho,
O Dduw! i drigo ynddi. B. F.

375. *O! deuwch i'r dyfroedd.*

M. 8.—Dyfrdwy. Bethania.

O! DEWCH i'r dyfroedd, dyma'i dydd,
Yr Arglwydd sydd yn galw;
Tragwyddol ras yr Arglwydd Iôr
Sydd fel y môr yn llanw.

2 Heb werth nac arian, dewch yn awr,
Mae golud mawr trugaredd
A'i wyneb ar yr euog rai,
Maddeuant a'i ymgeledd.

3 O! dewch a phrynwch win a llaeth,
Mae yma faeth rhagorol;
O! prynwch win, heb aur na gwerth,
Mae ynddo nerth tragwyddol.

4 Bwytewch, mae'r aberth wedi ei ladd,
Y ddeddf a gadd anrhydedd;
Ac i bechadur euog, gwael,
Mae modd i gael ymgeledd.

5 Mae'r wledd yn barod, O! bwytewch,
A llawenhewch yn Seion;
Tragwyddol hedd i blant y llwch;
O! yfwch ei melusion. E. J.

376. *Cynnaliaeth digonol o ras.*

M. C.—French. Bedford.

MAE'm golwg acw tua'r wlad
Lle mae fy heddwch llawn;
Ac 'rwyf am deimlo'i gwleddoedd pur
O foreu hyd brydnawn.

2 'Does dim difyrwch yma i'w gael
A leinw'm henaid cu;
Ond mi ymborthaf ar y wledd
Sydd gan angylion fry.

3 Mi yfaf ddwr y ffynnon glir
O dan y fainge sy'n dod;
Ac y mae rhinwedd ynddo'n llawn
I adfer nerth i'm troed.

4 'Ddiffygiaf ddim, er cyd fy nhaith,
Tra paro gras y nef;
Ac er mor lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo ef.

5 Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo fyth i'r lan;
Mae yma ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan. W.

377. *Yr un testyn.*

M. C.—Martyrdom. Gloucester.

AWN, brechaduriaid, at y dwr,
A darddodd ar y bryn:
Ac ni gawn yfed byth heb drai
O'r afon loyw hyn.

2 Mae yma drugareddau rhad,
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn stôr
Sydd fythol yn parhau.

3 'Does yma eisieu fyth yn bod—
Trysorau gras sy'n llawn,
Er mwnt yr yfed a'r glaniau
Sy o foreu hyd brydnawn.

4 Nis blinwn ganu tra fôm byw
Yr oruchafiaeth hyn,
Weithiodd ein Harglwydd un pryd-
Ar ben Calfaria fryn. [nawn

5 Fe welir myrdd, 'mhen gronyn bach,
O'r dwyrain ac o'r de,
Yn cyd-adseinio'n hyfryd am
Ei ryfedd gariad e'. W.

378. *Grym crefydd.*

M. C.—Bangor. Cologne.

NA'D fi foddloni ar ryw rith
O grefydd, heb ei grym;
Ond gwir adnabod Iesu Grist
Yn fywyd anwyl im.

2 Rho'th gariad cryf yn f'ysbryd gwan
I ganlyn ar dy ol;
Na chaffwyf drigfa mewn un man
Ond yn dy gynnes gol.

3 Goleuni'r nef fo'n gymmhorth im,
I'm tywys yn y blaen;
Rhag i mi droi oddi ar y ffordd.
Bydd i mi'n golofn dân. D. M.

379. *Etifeddiaeth y plant.*

M. C.—French. Glo'ster.

PLANT ydym etto dan ein noed,
Yn disgwyl am y stad;
Mae'r etifeddiaeth i ni'n dod
Wrth Destament ein Tad.

2 Na ddigalonwn, er ein bod
Yn awr mewn anial wlad;
Mae'r etifeddiaeth, &c.

3 Gorthrymder geir o dan y rhod.
Ond byr fydd ei bwbâd;
Mae'r etifeddiaeth, &c.

4 Ni gawn yn fuan ganu clod
O fewn y nefol wlad;
Mae'r etifeddiaeth, &c. AN.

380. *Gogoniant Seion.*

M. C. D.—Prydain. Aeron.

FE welir Seion fel y wawr,
Er saled yw ei gwedd,
Yn dod i'r lan o'r cystudd mawr,
'Nol agor pyrth y bedd;
Heb glaf na chlwyfus yn eu plith,
Yn ddisglaer fel yr haul,
Yn y cyfiawnder dwyfol byth
A wnaed gan Adda'r ail. AN.

381. *Cymdeithas y saint.*

2. 8.—Luther Braint.

BRAINT, braint,
Yw cael cymdeithas gyda'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint;
Ni ddaw un gamt byth nidyw hwy:
Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

2 Fe gân,
Y gwaredigion, fawr a mân,
Dragwyddol glod i'w Prynwr glân;
Pan ddelo'r tân i losgi'r tir,
Cânt godi eu penau a llawenhau,
Eu poenus wae a heibio'n wir.

3 Daeth trwy
Ein Iesu glân a'i farwol glwy,
Fendithion fyrdd, daw etto fwy;
Mae ynddo faith ddiderfyn stor;
Ni gawsom rai defnynau i lawr;
Beth am yr awr cawn fyn'd i'r môr?

4 Gwledd, gwledd
O fywyd a thragwyddol hedd,
Sydd yn y byd tu draw i'r bedd;
Ond hardd fydd gwedd y dyrfa i gyd
Sy'n byw ar haeddiant gwaed yr Oen,
O sŵn y boen sydd yn y byd. AN.

382. *Gwledd i'r tlodion.*

7. 6. D.—Talyllyn. Meirionydd.

DARPARWYD gwledd i'r tlodion,
I'r euog llawn o fai;
Mae'n gyflawn o ddanteithion
I'r gwael anghenus rai;
O! dewch ar frys i'w profi—
Bendithion pur y ne';
Mae galwad Duw'n cyhoeddi
Fod heddyw etto le. T. J.

383. *Gobaith yr efengyl.*

7. 6. D.—St. Mark. Meirionydd.

O'R nef mi glywais newydd,
Fe'm codood ar fy nhraed,

Fod ffynnon wedi ei hagor
I'r eleiffion gael golchi'i :
Fy enaid, rhed yn ebrwydd,
A phaid a llwfrhau;
O'th flaen mae drws agored
Na ddichon neb ei gau. D. W.

384. *Yr anian ddwiwiol.*

7. 6. D.—Bremen. Ramah.

MAE'n rhaid i'r anian newydd
A blanwyd gan y Tad
I gael ei meithrin a'i thyfu i fyd
O ffrwythau'r Ganaan wlad;
Nid oes dim ymborth iddi
Yn holl deganau'r llawr;
Mae'n tynu ar i fyny—
O'r nef y daeth i lawr. AN.

385. *Anrhydeddu y gyfraith.*

7. 6. D.—Ramah. Meirionydd.

YN ngwyneb deddf mor enwog
Rhai euog ydym ni,
Yn rhwym i'w holl felldithion,
A'i gwaeau chwerwon hi;
Rhoi iddi iawn nis gallwn,
A byth ni haeddwn hedd;
Yn ngafael deddf doredig
Gwywedig fydd ein gwedd.

2 Rhoes Crist anrhydedd perffaith
I'r gyfraith yn ddi-goll,
Ei aberth a'i mawrhaodd,
Fe'i cwblhaodd oll:
Yn awr mae ffordd ardderchog
I'r euog fyn'd yn rhydd;
Ar bawb a gred yn Iesu
Y ddeddf yn gwenu sydd.

3 O! Ysbryd pur, sanctaiddiol,
Ofn duwiol dyro di;
'Sgrifena'r gyfraith union
Ar lech fy nghalon i;
Boed i mi rodio'n rasol
Yn ol y ddwyfol ddeddf;
Ac ynddi boed f'ewyllys
Yn felus rymus reddf. R. E.

386. *Dychweliad y gaethglyd.*

6.8.6.—St. Ambros. Amsterdam.

PLANT caethion Babilon
Ddont adre' o don i don; Tlaw,
Cânt wledda'n llon, mae'r dyd i ger
Yn ngwydd eu Hargiwydd da,
O swn y byd a'i bla:
O! ddedwydd yw'r hwf, pa bryd y daw?

2 Diswyliwn ronyn bach,
Cawn ddod yn gwbl iach;
Can'rddon yna fydd heb ri';
A'u sylwedd fydd y gwaed
A ddyry in iachâd,
A'r gongcwest gaed ar Galfari. G.

387. *Yr ardd a'i pheraroglau.*

6. 8.—Alun. Bombay.

MI bellach goda'i maes,
Ar foreu glas y wawr,
I wel'd y blodau hardd
Sy 'ngardd fy Iesu mawr:
Amrywiol ryw rasusau pur,
A ffrwythau'r paradwysaidd dir.

2 O! ddigyffelyb flas,
O! amrywioldeb liw,
Hyfryda' erioed a gaed
Ar erddi gwlad fy Nuw:
Gilead, â'i haroglau pur
Bereiddiodd awel Canaan dir.

3 Mae'r pomgranadau pur,
Mae'r peraroglau rhad,
Yn magu hiraeth cryf
Am hyfryd dŷ fy Nhad:
O! Salem bur, O! Seion wiw,
Fy nghartref i a chartre'm Duw. W

388. *Byddin Brenin Nef.*

6. 8.—Gwladys. Normandy.

MAE'r Brenin yn y blaen,
'Rym ninnau oll yn hy';
Ni saif na dwr na thân
O flaen fath arfog lu;
Ni awn, ni awn, dan ganu i'r lan,
Cawn weled ein congcwest yn y man

2 Ni welir un yn llesg
Yn myddin Brenin nef,
Can's derbyn maent o hyd
O'i nerthoedd hyfryd ef:
Ni gawn, ni gawn y gloyw win,
O felus ryw, sancteiddiol rin.

3 Dechreued tafod mwy,
Os tafod fedr gân,
Na foed ond dwyfol glŵy'
Holl ddyddiau'i oes o'i flaen;
Fe gaed, fe gaed o'r diwedd fraint
Na phrofodd seraphim ei maint.

4 Gerubiaid, dewch yn mlaen,
Edrychwch yma i lawr,
Ar d'wynion uffern dán
Yn nghanol nef yn awr:
Pob un yn gwel'd ei hyfryd wlad
A phyrth sancteiddiol tŷ ei Dad.

5 Fe ddarfu'r ofn du,
'R euogrwygd cás a'r braw,
Wrth wel'd yr aiseth fu
Ar ben Calfaria draw;
Fe dalwyd iawn ar bren mor ddrud,
Oedd fwy na holl ffieidd-dra'r byd.

6 Un sillaf ar y groes,
O enau Crewr byd,
Yn nyfnder angeu loes
Sydd fwy na'm beisu i gyd:
"O! maddeu, 'Nhad, i'm heiddo i,
Lama, lama sabachthani." W.

389. *Hiraeth am dŷ Dduw.*

6. 8.—Ramoth. Alun.

ARGLWYDD y bydoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw
Trigfanau'th gariad cu,
Daearol demlau'm Duw:
Boed tynfa f'enaid tua'th dŷ,
Fy Nuw, i wel'd dy wyneb cu.

2 Hoff gan aderyn tô
Gael yno i'w gywion le;
A'r wenol, ar ei thro,
Hiraethu am ei thre';
Mae hiraeth f'enaid i 'r un faint
Am gael preswylio 'mhlith y saint.

3 Cael treulio sanctaidd ddydd
Lle byddo Duw a'i saint,
Llawenydd gwell a rydd
Na mil mewn bydol fraint:
Gwell yw cael cadw'r drws o hyd
Lle dêl fy Nuw na ph'lasau'r byd.
DR. W.

390. *Galwad yr efengyl.*

6 8.—Dolgellau. Tyndal.

DEWCH, hen ac ieuainge, dewch,
At Iesu, mae'n llawn bryd;
Rhyfedd amynedd Duw,
Ddisgwyliodd wrthym c'yd:
Acth yn brydnawn, mae yn hwyrhau;
Mae drws trugaredd heb ei gau.

2 Dewch, hen wrthgilwyr trist,
At Iesu Grist yn ol;
Mae'i freichiau'n awr ar led,
Fe'ch derbyn yn ei gol:
Mae Duw yn rhoddi etto'n hael
Trugaredd i droseddwyr gwael. M. R.

391. *Buddugoliaeth trwy Grist.*

6 4. 8. 7.—Noddfa. Trefdeyrn.

MAE udgorn Jubili
Am haeddiant Calfari,
Yn scinio'n llon,
Newyddion goreu i ni;
Gwir lawenha, fy enaid prudd,
Ennillodd Iesu mawr y dydd;
Daw carcharorion angeu
O'u rhwymau oll yn rhydd.

2 'Dall Pharoah, er ei frâd,
Niweidio'r un o'r hâd
Sy'n tynu fry,
At dawel dŷ eu Tad;
Nid all yr anial tywyll, du,
Byth ddrygu neb o'r dedwydd lu,
Yn dawel sydd dan aden
Eu cadben, Iesu cu.

3 Gorchfygodd Brenin hedd,
Fyd, uffern, angeu, a'r bedd;
Priodi wnaeth
Yr hon oedd gaeth ei gwedd:
Am hyn crechwena, Seion wan,
O'th ardal lesg, a thyr'd i'r lan;
Tywysog y tangnefedd,
Da'i rinwedd, yw dy ran.

4 Mae tyrfa fawr heb ri',
Fu ar ein daear ni,
Dan lawer loes,
A llid, a chroes, a chri,
Yn awr mewn bywyd, hyfryd hoen,
Ger bron gorseddfaingc Duw a'r Oen.
Heb deimlo mwy flinderau,
Effeithiau llid a phoen. G.

392. *Llais y durtur.*

6.4.8.7.—Noddfa. Trefdeyrn.

MAE llais y durtur fwyn;
Ei chân, ynghyd â'i chwyn,
Yn scinio'n bêr,
Nes ennill llawer llwyn:
Wele y gauaf heibio aeth,
Ac ar y ddaear blodau ddaeth,
Mae'r adar yn ymbyngcio
Eu mawl—nid cwyno caeth.

2 Fe dderfydd dwyn y groes
Yn lân, a phob rhyw loes,
Cawn adaw'r byd,
A'r adfyd—ber yw'r oes:
Bydd Seion wych, mewn siriol wawr
'Nol codi o'r llwch a gadaw'r llawr,
Ar ddisglaer wedd ei Phriod,
Yn moli'r Duwdod mawr. G.

393. *Tacrineb yr efengyl.*

6. 4. 8. 7.—Stamford.

DOWCH, dowch, o fawr i fân,
Cyn delo'r diluw tân,
I'r arch mewn pryd,
Fe lysg y byd yn lân;
O ddinas distryw brysiwch, ffowch,
Ar y gwastadedd nac ymdrowch;
I sanctaidd fynydd Seion,
O! ddynion, pam na ddowch? AN

394. *Y ffordd yn rhydd.*

6. 6. 4.—Malvern. Itali.

O'R diwedd daeth yr awr;
Yn nhragwyddoldeb mawr
Arfaethwyd ef;
Bu farw Brenin nen
O gariad ar y pren;
Agorwyd led y pen
Holl byrth y nef.

2 Wel, bellach awn yn mlaen,
Nac ofnwn ddŵr na thân;
Ni bia'r dydd:
Mae'n Brenin cadarn, cry',
Yn mlaenaf un o'r llu,
Yn tori rhwystrau sy;
Mae'r ffordd yn rhydd.

3 Mae heddyw, yn y nef,
Fyrddiynau gydag ef,
Yn canu ei glod:
Dowch, dringwn tua'r lan,
Cawn feddu yn y man
Yr ardal ddaeth i'n rhan
Hyfryda' erioed. W.

395. *Grym duwioldeb.*

6. 6. 4.—Malvern. Bethel.

DUWIOLDEB yn ei grym
Sydd werthfawrocach im
Nag aur Peru;
Hi geidw'm henaid gwan
Yn ddiogel yn mhob man;
O'r diwedd dwg fi i'r lan
I gôl fy Nuw. E. JS.

396. *Trefn i faddau pechod.*

7. 3.—Trefeglwys.

CAED trefn i faddeu pechod
Yn yr Iawn;
Mae iachawdwriaeth barod
Yn yr Iawn:
Mae'r diweddf o dan ei cheidwad,
Cyfiawnder yn dweyd, Dyoddef!
A'r Tad yn gwaeddi, Boddlon!
Yn yr Iawn;
A Diolch byth, medd Seion,
Am yr Iawn.

2 Yn awr, hen deulu'r gollfarn,
Llawenhawn;
Rhoed cymmhorth ar Un cadarn,
Llawenhawn:
Mae heddyw alwad ato,
Mae bythol fywyd ynddo;
Ni chollir neb a gredo,
Llawenhawn,
Gan lwyr ymroddi iddo;
Llawenhawn. W. ws.

397. *Dydd yr efengyl.*

7. 3.—Trefeglwys.

MAE efengyl gras yn t'wynu,
Mawr yw'r fraint,
I gasglu llafur Iesu,
Mawr yw'r fraint;
Mae lluoedd maith yn barod
Yn y Gaersalem uchod,
A thyrfa fawr yn dyfod,
Mawr yw'r fraint,
Dan faner Iesu isod,
Mawr yw'r fraint.

2 O! rhedwn bawb yr yrfa,
Dyma'r dydd,
I'r bywyd am y cynta',
Dyma'r dydd;
Aeth gwlaw a'r gauaf heibio,
Mae'r ddaear yn blodeuo,
A'r adar yn ymbyngeio,
Dyma'r dydd,
Mae'r durtur fwyn yn seinio,
Dyma'r dydd.

3 Mae'r bwrdd yn llawn danteithion,
Dowch yn mlaen,
Gan sanctaidd Frenin Seion,
Dowch yn mlaen:
Cawn wledda oll yn ddiddig,
Fry, ar y llo pasgedig,
Ac yfed gwin puredig,
Dowch yn mlaen,
Gwir haeddiant Iesu'n unig,
Dowch yn mlaen. G.

398. *Fyddlondeb Duw i'w eglwys*

8. 7. D.—Dusseldorf. Esther.

COFIA, Arglwydd, dy ddyweddi,
Llama ati fel yr hydd;
Ac na ad i'w holl elynion
Arni'n hollol gael y dydd:
O! dadguddia y colofnau
Wnaed i'w chynnal yn y nos—
Addewidion diammodol
Duw ar gyfrif gwaed y groes.

2 Mae bod yn fyw yn fawr ryfeddod
Mewn ffwrneisiau sydd mor boeth
Ond mwy rhyfeddod, wedi 'mhrofi,
Y dof o'r cystudd fel aur coeth:
Amser cànu, diwrnod nithio,
Etto'n dawel heb ddim braw;
Y gwr sydd i mi yn ymguddfa
Sydd â'r wyntyll yn ei law.

3 O! am dynu o'r anialwch
I fyny fel colofnau mwg,
Yn uniongyrchol at ei orsedd,
Nid oes yn ei wedd ef wg:
Alpha, Omega, Tyst ffyddlonaf,
Yw ein Iôr, a'i air yn un;
Disgleirio mae gogoniant Trindod
Yn achubiaeth marwol ddyn. A. G

399. *Dyfroedd iachawdwriaeth.*

8. 7. D.—Dismission. Llangan.

Y MAE dyfroedd iachawdwriaeth,
A'u rhinweddau mewn parhad;
Y mae ynddynt feddyginiaeth
Anffaeledig, oll yn rhad:
Deuwch, gleifion codwm Eden,
I ddefnyddio'r dyfroedd hyn,
Ni bydd diwedd byth ar rinwedd
Sylwedd mawr Bethesda lyn.

2 Cofiwch hyn mewn stad o wendid—
Dyfroedd at y fferau sy;
Dirifedi yw'r cufyddau
A fesurir i chwi fry;
Bod yn blant yr adgyfodiad,
Nofio yn y dyfroedd hyn,
Edrych ar ogoniant Iesu
A fu'n gwaedu ar y bryn. A. G

400. *Drws gobaith.*

8. 7. D.—Dismission. Esther.

A OES gobaith am achubiaeth?
Oes maddeuant am bob bai?

A oes hedd a meddyginiaeth,
A oes Ceidwad, i'r fath rai?
"Oes," medd Duw o'r nef yn eglur,
"Mi ddarpersais aberth llawn;
Y mae hedd, a gras, a chysur
Geny'n rhoddion parod iawn." T. J.

401. *Gras yn rhagor amlhau.*

8. 7. D.—Tyddewi. Moriah.

GOLCHWYD Magdalen yn ddisgluer,
A Manasseh'n hyfryd wyn,
Yn y dŵr a'r gwaed a lifodd
O ystlys Iesu ar y bryn:
Pwy a wyr na olchir finnau?
Pwy a wyr na byddaf byw?
Mae rhyw drysor anchwiliadwy
O ras yn nghudw gyda'n Duw. AN.

402. *Buddugoliaeth Calfaria.*

8. 7. D.—Vienna. Edinburgh.

WELE Iesu'r Pen rhyfelwr,
'N dod i'r lan o Edom wlad,'
A'i wisg yn goch, a'i fraich yn rymus,
A'r ddraig yn glwyfus dan ei draed:
Am yr hyfryd fuddugoliaeth
Cana'm telyn fach yn awr,
Hyd nes delo'r hyfryd foreu
Y caf finnau'r delyn fawr. D. W.

403. *Effeithiau yr oruchafiaeth.*

8.7.D.—Vienna. Mendelssohn.

CADBEN nawr ein hachawdwr-
Welaf yn y frwydr hou; [iaeth
Holl elynion ei ddyweddi
'N gorfod plygu ger ei fron;
Plant afradlon sy'n dod adref,
A fu 'mhell o dir eu gwlad;
Rhai fu'n fudion sy'n clodfori
Duw am iachawdwriaeth rad. M. R.

404. *Gwahoddiad at Grist.*

8. 7. 4.—Lewes. Sicily.

DEUWCH, [illegible]
Clwyfus, cleifion, o bob rhyw;
Crist sy'n barod i'ch gwaredu,
Llawn tosturi yw Mab Duw:
Nac ammheuwch,
Abl ac ewyllysgar yw.

2 Rai anghenus, dewch a chroesaw,
I gael rhoddion Duw yn rhad;
Cewch wir ffydd ac edifeirwch,
A phob gras yn ddiuncâd;
Dewch heb arian,
Prynwch gan yr Iesu'n rhad.

3 Dewch, flinderog, a thrwmlwythog,
Trwy y cwymp gadd farwol friw;
Os aroswch nes eich gwella,
Byth ni ddeuwch yn eich byw:
Pechaduriaid,
Nid rhai cyfiawn, eilw Duw. D. J.

405. *Cyflawnder yr iachawdwriaeth.*

7au, 6ll.—Ratisbon. Newport.

HYFRYD lais efengyl heddi
Sydd yn galw pawb i'r wledd:
Mae gwahoddiad llawn at Grist,
Oes, i'r tlawd, newynog trist:
Pob cyflawnder ynddo cewch;
Dewch a chroesaw, dlodion dewch.

2 Talodd Crist anfeidrol iawn
Ar y croesbren un prydnawn;
Llifodd ar Galfaria fryn
Ddŵr a gwaed i'n golchi'n wyn:
Iachawdwriaeth sydd heb drai:
Dewch i'r ffynnon, aflan rai. P. J.

406. *Deddf a Chyfrynyswr.*

7. 4.—Aberafon. Essex.

DACW'R deg gorchymyn pur
Ar Galfaria;
Dacw'r hwn wnaeth for a thir
Yn y ddalfa;
Dacw'r ddeddf yn gofyn iawn
Hyd yr eitha';
Dacw iddi daliad llawn:
Haleluwia. AN.

407. *Galwad ar yr afradlon.*

7. 4.—Aberafon. Tiberias.

BLANT afradlon, at eich Tad
Dowch, a chroeso;
Rhai fu 'mhell o dir eich gwlad
Yn hir grwydro;
Mae'r llo pasgedig wedi ei ladd,
Chwi gewch wledda;
Ac mae'r gweision etto'n gwadd:
Haleluwia. AN.

408. *Yr un testyn.*

7. 4.—Aberafon. Essex.

AFRADLONIAID, at eich Tad
Deuwch, deuwch;
Fe rydd i chwi bardwn rhad;
O dychwelwch!
Dowch, gofynwch am eich hedd,
Gan gyfuddef;
Cewch y fodrwy, cewch y wledd;
Deuwch adref. E. E.

409. *Aros yn y tŷ.*

7. 4.—Patmos. Tiberias.

OS rhaid goddef ar fy nhaith
Dywydd garw,
Cadw'm hysbryd yn dy waith
Hyd fy marw:
Yn y babell gyda'r aren
Boed fy nghartre';
Cadw yn fy cof'aint barch
I dy ddeddfau. J. Sl.

410. *Corvchafaeth Crist.*

Ilau.—Joanna. Wareham.

DARTH uffern, a'r ddaear, a'r nefoedd ymchwil,
Yn ertyn. Messian, Iachawdwr y byd;
Fe safodd i fyny, ennillodd iaith gŵd:
Bydd coffa am dano tra'r nefoedd yn bod.

2 Fe gurodd Gelanna, gorchfygodd y byd,
Agorodd y nefoedd oed i gaued o hyd;
Dilloddodd ar unwaith yn gyfen, a'i waed, [Tad.
Holl felidith y gyfraith, ac angerdd y

3 Mae'r Brenin ei hunan yn cerdded o'r blaen, [y tân;
Yn trech. grym dyfroedd a mynydder
Ni chaid ei Anwylyd fwyn, hyfryd, fyn'd gam [ffiam.
Nes tori grym dyfroedd a diffodd y

4 Wel, bellach, dechreuwch, mae'n ddigon o bryd,
I ganu caniadau i Iachawdwr y byd;
Ni sentiwn y ddaear a'r nefoedd uwch ben—
Hosanna, Hosanna, Haleluwia. Amen!
W.

411. Rhan II.

Joanna. Wareham.

PWY feidd hai gymmeryd fath arfau a'r rhai'n [ddrain,
Yn erbyn Ilu uffern; sef coron o
A manteill ysgarlad, a chrys o'r un lliw,
Y gorsen, a'r bustl, a hoelion o ddur?

2 Bu farw f'Anwylyd, fe grymodd ei ben,
Agorodd i'r beddau, fe ddrodd y nos,
Yr holl greadurieth ryfedd sydd yn fawr
Wel'd marw Creawdwr y nefoedd a'r llawr.

3 Fe'i rhod lwyd i'r ddaear, fe gododd yn fyw, [Nuw;
Y mae'n eymmwiwyd ar ys wydd fy
Fe laddodd yr angeu, fe ddinistriodd y bedd, [mawr bedd].
Gwnaeth ffordd i'w anwylyd i godi

4 Wel tyred, fy enaid, o'th bruan i maes,
Ymffrostia yn unig yn Iesu a'i ras;
Efe wnaeth y gwbl, efe bia'r clod.
Bydd moliant i'w enw tra'r nefoedd yn bod.
W.

412. Rhan III.

Joanna. Wareham.

NI redwn yn wrol, mae'r Brenin o'n blaen; [dân?
Pam'r ofnwn ni rwystrau o ddŵr ac o
Mae'r goron a'r penuwydd a'n gwobr [pertuyn i ni.
Yn nesa i'n llaw'r Barnwr—mae'n

2 Binderau a chroesau yn dduau a gawn;
Ca'dd yntau o'r rhei'ny rhedi mawr iawn; [i gyd,
Yn wirion a llariaidd dioddefodd hwy
Sancteiddiodd i'w bobl holl dralled y byd.

3 Wel, bellach, gystuddiau, O! sefwch boo ta,
Mi safa'n y canol yn eofn a hy';
A churwch eich gwaethaf ar f'enaid o hyd, [wyn i gyd.
Fe dynnodd fy Arglwydd eich gwen-

4 Diolchaf byth iddo, sanctaiddiodd y groes, [ei loes;
'Szafiwn id ei phawysau, fe laesodd
'Nawr nef yw ei chario, a gwyn fyd y sy
Yn canlyn yr Iesu i Galfari fry. W.

413. Rhan IV.

Joanna. Wareham.

WEL, gyda'r henuriaid yn nghanol y nef,
A'r pedwar anifail yn uchel eu llef,
I lawr ar ein gliniau, ni rown o'n bryd
Y fendith a'r gallu i Brynwr y byd.

2 'Doedd neb ar y ddaear, na neb yn y nef,
Oedd deilwng i ddatod y seliau ond ef;
Agorodd y llyfr, oedd gaiad, a'i waed,
Ni ddaethom i ddarllen holl gynghor ein Tad.

3 Angylion ga'dd wybod peth gyddiwyd o hyd, [byd;
Rhyw lien wirion iddau, cyn seilied y
Maent o'r dreiaredula yn edrych i mewn [awr.
I'r aseh i gael gweled dirgelion bob

4 A i mmnau ga'dd wybod dirgelion dilyth [byth;
Nad allai i ni glaid Adda eu deall hwy
Cawn nesho yn moroedd mawr oyfrinion ein Duw, [fyw
I'w caru, a'u credu, a'u canu, tra'n

5 'Blae mwy y gwahaniaeth? fe rwygwyd y llen, [ddaear i'r nen;
Oedd rhyngom a'n Harglwydd, o'r
Ni welwn yn amlwg, trwy rinwedd ei waed,
Y dirgelion Sinaiah—wynebpryd ein Tad. W.

414. Rhan V.

Joanna. Wareham.

NI welwn ein henwau yn llyfr ein Tad,
Yn ysgrifenedig â dwfr a gwaed;
A helyd ar ephod ein Harglwydd uwch ben, [y llen.
'R Oen ni addo dwodd trwy gaiad

2 Ni welwn ein caru—O! gariad mor ddrud! [y byd;
Yn nghynghor y Drindod cyn seiliad
Mi wela'r cyfammod yn gadarn a wnaed [Iesu a'n Tad.
Draw yn nhragwyddoldeb, rhwng

3 Ni welwn faddeuant ar fynwes ein Duw, [ryw!
A heddwch diddiwedd—O! ryfedd ei
Y nef yn agored, a groeso i ni fry:
Wel, dyma'r dirgelion ddadguddiwyd i ni.

4 Ni welwn yn amlwg daw pechod i lawr,
Trodd Iesu ei arfau i'w erbyn yn awr;
Holl drefn rhagluniaeth sy'n erbyn y ddraig; [wraig.
Mae'r nefoedd a'r ddaear o ochr y

5 Diolchwn i'r Iesu am weled y dydd
Y cododd golcuni i'n gollwng yn rhydd
O'r dwfn garchardy, i Galfari fry,
I wel'd y gogoniant yn Scion y sy. w.

415. Rhan vi.

Joanna. Wareham.

MAE'n bryd i ni ganu, m gawsom y fraint, [saint;
Mae'r rhyfel yn cerdded o ochr y
Mae'n Brenin yn dyfod, â'i gledd ar ei glun, [ei hun.
Fe sathrodd y gwinwryf bob gronyn

2 Mae'i ddillad yn gochion, llychwinwyd â gwaed, [ei draed;
Fe gwympodd gelynion yn fyrdd dan
Fe rwygodd wlad Edom—diolchwn i'n Duw,
Ni saif yr un gelyn yn Edom yn fyw.

3 Nid gallu angylion, na gallu un dyn,
Goncweriodd y gelyn, ond Gallu ei hun; [gref,
Ennillodd ogoniant, anrhydedd mor
Mae canu am dano mewn daear a nef.

4 Er amled y tywod, er amled y sêr,
Mwy aml y cwmni sy'n nheyrnas fy Nèr; [ar bob gwlad,
Er hardded yw'r heulwen sy'n t'wynu
Mil harddach y cwmni sy'n nheyrnas fy Nhad.

5 Fe ddarfu eu blinder a'u gofid i gyd,
Anghofiwyd ymdrechu'n rhyfeloedd y byd; [hin,
Aeth heibio eu gauaf, newidiwyd yr
Yn awr maent yn canu a charu bob un.

6 Ni chlywir dim ochain gan angel na saint, [braint?
Ond pur orfoleddu—on'd braf yw eu
Rhyfeddu'r Messiah, Iehofah yn ddyn,
A chraffu eu llygaid ar Iesu bob un. w.

SWPER YR ARGLWYDD.

416. *Teml yr Arglwydd yn y nef.*

10au.—Clod. Navarre.

AGORWYD teml yr Arglwydd yn y nef,
A gwelwyd arch ei lân gyfammod ef;
Holl ryfeddodau person Crist, a'i waith,
A welir yno i dragwyddoldeb maith.

2 Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddisglaer iawn, [llawn;
A'r gyfraith bur bob iot o honi'n
Ond i bechadur, melus yw y sain
Fod trugareddfa hefyd rhwng y rhai'n.

3 Y tanllyd gledd fu'n effro iawn cyn hyn,
Taranau a mellt ofnadwy Sinai fryn,
Sy'n awr yn dawel yn yr Arch ddilyth,
Y gair "Gorphenwyd" a'u taweloddbyth.

4 Mae'r Archoffeiriad yn taenellu'r gwaed, [hyd ei draed,
Mewn gwisgoedd sanctaidd, llaesion,
O fewn y llen, sancteiddiaf lys y nef,
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron ef.

5 Priodoliaethau'r nefoedd yn gyttûn
Sydd yno'n gwenu ar golledig ddyn;
Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn
A noddfa gref o fewn y nef i ni. [lli',

6 Crist ydyw'r Arch a'r Drugareddfa rad:
Yn enw hwn anturiwn at y Tad;
Fe wrendy gwŷn pechadur heb ei ladd
Fe gymmer blaid yr enaid isel radd.

JS. H.

417. *Bwrdd yr Arglwydd.*

M. H.—Beza. Sebastian.

'RYM wrth dy fwrdd, O! Arglwydd cun,
Yn ceisio'th weled ti dy hun;
Gwag ydyw'r bwrdd, trist ydyw'r wledd,
Heb weled dull dy hyfryd wedd.

2 D'ogoniant mawr a'th angeu drud,
Dywyno arnom ni i gyd;
A hyn wna'n gwleddoedd yn ddidrai,
A hyn wna i ni lawenhau.

3 Yfasom win, fel peraist in,
Bwytasom fara—beth dâl hyn,
Oni chawn fwyta'th gnawd yn rhad,
Ac yfed, yn lle gwin, dy waed?

4 Fel gallom fyth i lawenhau
Mewn gobaith perffaith o fwynhau
Cymdeithas o nefolaidd rin,
Mewn cysson wledd, â thi dy hun.

5 Treuliwn ein bywyd bellach byth
Mewn un llawenydd pur, dilyth;
Cofiwn ei enw, canwn glod,
Tra'r nefoedd wen hyd fyth yn bod.w.

418. "*A ddioddefodd y groes.*"

8. 8. 6.—Seion. Croeshoeliad.

A I Iesu mawr, Ffrynd dynolryw,
Wy'n weled fry â'i gnawd yn friw,
A'i waed yn lliwio'r lle;
Fel gŵr di-bris yn rhwym ar bren,
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben?
Iê, f'enaid, dyma fe.

2 Ai'm hanwyl Briod welaf draw,
A hoelion llymion trwy bob llaw,
A'u pwyo'n drwm i dre',
A bàr o ddur trwy'i dirion draed,
Ac yntau'n marw yn ei waed?
Iê, f'enaid, dyma fe.

3 Ai ef fu'n maddeu idd ei gâs,
A'i waed yn llif o'i glwyfau i maes,
Nes agor drws y ne', [llym,
Rhoi 'i ben tua'r llawr gan boenau
Yn wirion, deg, heb yngan dim?
Iê, f'enaid, dyma fe. w.

419. *Dioddefaint Crist.*

8. 8. 6.—Seion. Croeshoeliad.

O! DEFFRO, gwel, fy enaid trist,
Uffernol lu o ddeutu'th Grist,
Am ladd dy Bryhwr pur;
Yn 'mofyn torf o dystion gau
I Pilat i'w gondemnio'n glau:
O! f'enaid, cofia'i gur.

2 Gan bwys y gwaith, fe chwysai'r gwaed,
Yn llif di-drai, o'i ben i'w draed,
A hyn dros oriau hir;
Fe yfai'n rhwydd, o'i gariad rhad,
Y cwpan du o law ei Dad:
O! f'enaid, cofia'i gur.

3 Y Ceidwad cu, ei gondemnio ga's;
Llofruddion lu a ddaeth i maes
A geirwon hoelion dur;
O dan y pwys, er maint y poen,
Distewi wnaeth fel addfwyn Oen:
O! f'enaid, cofia'i gur.

4 Gelynion llym a goda'u llef,
"Croeshoelia, O! croeshoelia ef!
Ni haeddai fyw yn hir:"
Yn mhlith y llu, aed âg e'n llyn
I farw ar Galfaria fryn:
O! f'enaid, cofia'i gur.

5 Rhoi mantell goch wnaed am yr Oen,
Gan ddrain ei ben ddioddefai boen;
'Nawr wele'r Brenin pur!
Ffiangellwyd ef nes oedd yn waed,
A chwysau du, o'i ben i'w draed:
O! f'enaid, cofia'i gur.

6 Ca'dd gario'r groes i ben y bryn,
Nes llethu'n llwyr fy Iesu'n llyn,
Gan wawdio'm Prynwr pur,
A dyweyd, "Ai dyma Israel Sanct?
Ei waed boed arnom ni a'n plant!"
O! f'enaid, cofia'i gur.

420. Rhan II.

8. 8. 6.—Seion. Croeshoeliad.

Y DDAEAR fud ro'i meirw'n fyw,
A'r creigydd fry a holltai'n friw,
Wrth wel'd y Crëwr pur;
Yr haul ymguddiai wrth y loes,
Y lloer a'r sêr ai'n dywyll nos:
O! f'enaid, cofia'i gur.

2 Trywanwyd, do, fy Mhrynwr rhad,
Nes daeth o'i galon ddŵr a gwaed,
Yn ffrwd fel afon bur,
Oedd ar y llawr i'w wel'd yn llyn,
Yn frwd, ar ben Calfaria fryn:
O! f'enaid, cofia'i gur.

3 Mi glywa'i lef pan chwerwa'i loes,
A'i irad gri ef ar y groes,
Am faddeu i mi'n wir;
Ei weddi troswyf, äi uwch nen,
A mi'n ei hoelio ar y pren:
O! f'enaid, cofia'i gur.

4 Dros f'enaid i bu'r addfwyn Oen,
Fel hyn, yn dioddef dirfawr boen,
I'm gwneyd yn rhydd yn wir:
'Roedd yn ei fryd orphenu'r gwaith
O eithaf tragwyddoldeb maith:
O! f'enaid, cofia'i gur. w.

421. *Bwrdd yr Arglwydd.*

M. s.—Dyfrdwy. Baden.

WEL dyma wledd, gwledd ein Duw Iôn,
O basgedigion breision,
A gwin puredig, yn ddidrai,
I lawenhau y cleifion.

2 Gwledd ydyw hon, gyfoethog, hael,
Heb ddiwedd i gael arni;
O! pwy na ddeuai 'mlaen yn rhwydd.
I wledd yr Arglwydd Iesu!

3 Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,
O! dowch i'r wledd yn fuan;
Dowch â'ch hachwynion o bob rhyw,
Fe'u hatteb Duw ei hunan.

4 Yma cewch wel'd eich Harglwydd mawr
Yn rhoddi i lawr yn hollo!
Ei hun i angeu, angeu'r groes,
Yn ddiddig dros ei bobol.

5 Mi gofiaf eiriau'm Harglwydd hael,
Brydnawn cyn cael ei hoelio;
I fwyta'i swper, minnau ddof
Yn mlaen, er cof am dano, w.

2 Ni welwn dd*oaed y groes yn mireddu*
Yn n*a'r* *gelynion.*
Mjs.—Aberdeen. Potsdam.

NID oes, [oes,
Ni fu, ni ddaw, mewn unrhyw
O gymmaint gwerth a gwaed y groes,
Y ddwyfol loes ddioddefodd ef;
O! gariad mawr, diderfyn stor,
Sydd fel y môr mewn dwyfol lef.

2 Af trwy
Fy nhemtasiynau aml mwy
Dan aden cariad dwyfol glwy',
Fe'u maeddaf hwy'n ei goncwest ef;
A'i allu yw fy noddfa glyd
Nes myn'd o'r byd i ganol nef.

3 Erioed,
Mae'n dal y rhai sydd dan ei nod,
Na lithro mymryn byth o'u troed,
Heb iddynt ddod ar frys yn ol;
Ei Ysbryd sy'n eu cadw'n glyd,
Mewn dyrys fyd, o fewn ei gôl. W.

423. *Gwaed y groes yn nerth mewn gorthrymder.*

2. 8.—Bethesda. Braint.

NID oes,
Trwy gydol dyddiau byr fy oes,
Yn gyfan i mi ond y groes,
Rhyw chwerw loes o foreu i nawn;
Ond os dy allu a'm deil i'r lan,
Caf yn y man orchfygu'n llawn.

2 O! pwy
Ymguddiodd yn dy ddwyfol glwy',
Ac yno fethodd dori trwy
Gystuddiau fwy na gwellt y maes?
Mae'r fuddugoliaeth fawr yn dod,
Hyd heddyw erioed, oddi wrth dy ras.

3 Nid oes
A ddoil fy ysbryd dan bob croes
Ond dwyfol, nefol, farwol loes;
Estyniad f'oes yw ei fwynhau:
'Does arall gysur mewn un man;
Fe yw fy rhan byth i barhau.

4 'Does drai,
Nac eisieu dim, y man y mae,
Mae'n llenwi'r cyfan yn ddilai;
Pawb, O! na baent yn gwel'd ei wedd,
Sychedent am ei wir fwynhau
Mewn gwledd ddi-drai a bythol hedd. w.

424. *Gweddi am gymhwysiad o waed y groes.*

2. 8.—Bethesda. Dorcas.

O! TYN
Y gorchudd yn y mynydd hyn;
Llewyrched haul cyfiawnder gwyn,
O ben y bryn bu'r addfwyn Oen
Yn dioddef dan yr hoelion dur,
O gariad pur i mi mewn poen.

2 Pa le
Y gwnaf fy noddfa dan y nef,
Ond yn ei glwyfau anwyl ef?
Y bicell gref aeth dan ei fron
Agorodd ffynnon i'm glanhau;
'Rwy'n llawenhau fod lle yn hon.

3 Oes, oes,
Mae rhin a grym yn ngwaed y groes
I lwyr lanhau holl feiau f'oes;
Ei ddwyfol loes a'i ddyfal lef,
Mewn gweddi drosof at y Tad,
Yw fy rhyddhâd, a'm hawl i'r nef.

4 Golch fi
Oddi wrth fy meiau aml eu rhi',
Yn afon waedlyd Calfari, [llawn:
Sydd heddyw'n lli' o haeddiant
Dim trai ni welir arni mwy; [H. J.
Hi bery'n hwy na boreu a nawn.

425. *Rhinweddau gras Crist.*

2.8.—Bethesda. Braint.

GRAS, gras, [maes,
Yn gefnfllif grymus ddaeth i
Grisialaidd afon loyw, las,
Rhinweddol flas i'r euog rai;
Lle i bechaduriaid yma gaed,
I'w canu'n rhad oddi wrth bob bai.

2 I'r lan,
Os bydd in ddod o'r anial fan,
Bydd hyfryd seinio yn y man;
Pawb yn ei rau yn moli'r Oen,
Mewn melus anthem, newydd iaith,
Ar ben y daith, heb friw na phoen.

3 Gwych sain
Fydd etto am y goron ddrain,
Yr hoelion llym, a'r bicell fain;
Wrth gofio 'rhai'n cniff uffern glwy';
Cadwynau tynion aeth yn rhydd;
Fe gaed y dydd, Hosanna mwy. J.R.

426. *Effeithiau marwolaeth y groes.*

7.6.D.—Manheim. Mount Street.

PWY ddyry im falm o Gilead,
Maddeuant pur a hedd,
Nes gwneyd i'm hysbryd edrych
Yn eon ar y bedd;
A diange ar wasgfeuon
Euogrwydd creulon, cry?
'Does neb ond ef a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari.

2 Yr hoelion geirwon, celyd,
Gynt a'i trywanodd e',
Sy'n awr yn dal y nefoedd
Gwmpasog yn ei lle:
Mae gobaith meibion dynion
Yn llifo i maes ynghyd

Oddi wrth yr awr trywanwyd
Creawdwr mawr y byd.

3 Pe unwaith y darfyddai
Awdurdod Calfari,
Darfyddai pob cysuron
Ar unwaith genyf fi;
O bawb, yn sicr, byddwn
Y truenusaf ddyn;
Fe'm llyngcai'r bedd dychrynllyd
Yn fuan iddo'i hun.

4 Anfeidrol, fyth anfeidrol,
Drugaredd faith y nef,
Parhâd yr holl greadigaeth
Sy'n gorphwys arno ef:
Griddfanau pen Calfaria,
"Larma sabachthani,"
Yw'r perlau mwyaf gwerthfawr
A fedd ein daear ni.

5 Y baich oedd annoddefol
I'r cryfa' o ddynolryw,
Orweddodd yn ofnadwy
Ar ysgwydd gref fy Nuw;
Cyflawnder oedd yn gofyn
Am bechod, heb nacâd,
Y swm anfeidrol dalwyd
Trwy eithaf chwys a gwaed.

6 Y mynydd mawr anfeidrol
Gymmerodd ef i gyd
Oddi ar ysgwyddau gweinion
Yr euog, aflan fyd;
Pan welodd y greadigaeth
I fod y baich mor fawr,
Fe guddiodd nef ei hwyneb,
Fe grynodd yntau'r llawr. W.

427. Rhan II.

7. 6. D.—Manheim. Mount St.

PE buasai fil o fydoedd
Yn cael eu prynu 'nghyd,
A'r cyfryw bris, buasent
Yn llawer iawn rhy ddrud;
'Does angel byth, na seraph,
Na cherub o un rhyw,
I'r filfed ran all ddwedyd
Mor werthfawr gwaed fy Nuw.

2 Mae tân o fewn i fynwes
Myrddiynau pur y nef,
Rhyw newydd fflam wrth feddwl
Am werth ei angeu ef,
Yn attal eu caniadau
Wrth synu oll yn un,
I wel'd eu Duw yn dioddef
A marw yn natur dyn.

3 O! na allwn innau'r awrhon
Ehedeg fyny fry,
A dysgu rhyw ganiadau
Sydd gan y nefol lu;
Fel byddai cydsain hyfryd
Rhwng dae'r a nef yn un;
Caniadau anfeidroldeb
Marwolaeth Duw yn ddyn.

4 Am angeu'r groes bydd canu
I dragwyddoldeb maith;
Ond im gael teimlo'i rinwedd,
'Rwyf bron ar ben fy nhaith;
Fy nefoedd yw ei deimlo,
A'i deimlo'n union sydd
Yn troi pob rhyw dywyllwch
O'm mewn yn oleu ddydd. W.

428. Rhan III.

7. 6. D.—Manheim. Mount St.

GWELL ganddo na halogi
Cyflawnder pur y Tad,
Oedd lliwio'r croesbren garw
Fel sgarlad yn ei waed;
Y gwaith oedd yn fwy rhyfedd,
A'r gwaith oedd yn fwy drud,
Nag i gyflawnder ddial,
I faddeu beiau'r byd.

2 P'un mwy wnaf ai ffieiddio
Neu fostio f'euogrwydd cas,
A dynodd y fath ddial,
Ennynodd y fath ras?
Cyflawnder didrugaredd,
A chariad di-nacâd,
Sydd yn cofleidio'r euog
Yn llawen yn y gwaed.

3 Cyflawnder amddiffynwyd
A chariad yn ei gliwy';
A rhagor nag amddiffyn,
'Nawr fe'u dyrchafwyd hwy:
O! weithred o ryfeddod!
Dirgelwch mawr ei hun;
'Doedd arall neb allasai
Ei ffeindio ond Duw ei hun.

4 Mae'r fath feddyliau mawrion
Yn codi'm hysbryd gwan
Oddi ar bob peth creedig
Yn uchel iawn i'r lan;
Gan brisio aur ac arian,
Y perlau mwyaf drud,
Ger bron cyflawnder dwyfol
Yn sorod gwael i gyd.

5 'Nol edrych ar ol edrych,
Ogwmpas i mi mae
Rhyw fyrdd o ryfeddodau
Newyddion yn parhau;
Pan bwy'n rhyfeddu un peth,
Un arall ddaw i'm bryd;
O! iachawdwriaeth rasol,
Rhyfeddol wyt i gyd,

6 Bendithion ar fendithion,
Trysorau angeu loes—
Grawnsypiau mawrion addfed
Yn hongian ar y groes.
Sydd yn ewmpasu'm henaid,
Rhinweddau mawr eu gryn;
A minnau yn eu canol
Heb allu dwedyd dim.

7 Mi welaf yn ei fywyd
Y ffordd i'r nefoedd fry;

Ac yn ei angeu'r taliad
A roddwyd trosof fi;
Yn ei esgyniad gwelaf
Drigfanau pur y nef,
A'r wledd dragwyddol berffaith
Gaf yno gydag ef. W.

429. *Cof am Gethsemane.*

7. 6. D.—Talybont. Llydaw.

COF am y cyfiawn Iesu,
Y person mwyaf hardd,
A'r noswaith drom anesmwyth
Bu'n chwysu yn yr ardd;
A'i chwys yn ddafnau cochion
Yn syrthio ar y llawr;
Bydd canu am ei gariad
I dragwyddoldeb mawr.

2 Cof am y llu o filwyr
A'u gwaywffyn yn dod
I ddal yr Oen diniwed
Na wnaethai gam erioed:
Gwrandewch y geiriau ddwedodd,
(Pwy all'sai oud efe?)
"Gadewch i'r rhai'n fyn'd ymaith,
Cymmerwch fi'n eu lle."

3 Cof am y wyneb siriol,
Y poerwyd arno'n wir;
Cof am y cefn gwerthfawr,
Lle'r arddwyd cwysau hir;
O! anwyl Arglwydd Iesu!
Boed grym dy gariad pur
I dori'm calon galed
Wrth gofio am dy gur. W. LEWIS.

430. *Trysorau angeu'r groes.*

6. 8. 4.—Palestina. Dolyddelen.

O F'ENAID! hed i'r lan,
Dros fryniau ucha'r byd,
A gwel dy gyfoeth, gwel dy ran,
Anfeidrol ddrud;
Trysorau o ddwyfol rin
Bwrcaswyd i mi'n llawn,
Gan fy Ngwaredwr addfwyn, cun,
Ar un prydnawn.

2 Fe bellach fydd fy nghân,
A'm hamddiffynfa glyd,
Fy nhwr, fy nghraig, a'm noddfa lân,
Tra yn y byd;
Pan talodd ddwyfol waed,
Pwy ofyn i mi mwy?
Can's anfeidroldeb maith a gaed
Mewn dwyfol glwy',

3 Mae angeu'r groes yn fwy
Na haeddiant yr holl fyd;
Y mae griddfanau dwyfol glwy'
Yn gyfoeth drud:
Fe genir myrdd yn wyn,
Oll fel yr eira mân;
Ceir gwel'd rhai ffiaidd ar ol hyn
Yn berffaith lân.

4 Myfi anturiaf mwy,
Er cymmaint yw fy mai, [glwy',
Trwy'r haeddiant dwyfol sy'n ei
Heb lwfrhau,
O flaen yr orsedd wen,
Ffieiddiaf ddyn o'r blaen,
Gan gredu gall Tywysog nen
Fy ngwneyd yn lân. W.

431. *Rhyfeddodau'r nef yn angeu'r groes.*

6. 8. 4.—Palestina. Dolyddelen.

DEWCH yma, gwelwch un
O ryfeddodau'r ne'—
Fy Iesu'n rhoddi ei fywyd cun
Lawr yn fy lle,
Nes rhoi'r ffieiddia'i ryw
Yn ddisglaer berffaith wyn:
Ac nid oedd ond anfeidrol Dduw
A wnaethai hyn.

2 O! angeu pur y groes,
Ti bellach fydd fy nghân;
'Doedd dwr i'w gael ond ar y groes
A'm gwnai yn lân:
Y ffynnon loyw hyn,
Sydd ar y bryn o hyd
I olchi Ethiop du yn wyn,
Hyd eitha'r byd.

3 Fy enaid, cred yn awr,
Mae'r ffordd i'r nef yn rhydd;
Fe roed anfeidrol swm i lawr
Am jubil ddydd;
Ein cyfoeth ddaeth yn ol
Trwy bwrcas dwyfol waed;
Trwy Iesu cawsom ddod i gôl
Ein hanwyl Dad. W

432. *Marwolaeth Crist.*

6. 4. 6. 4.—Siloah. Liverpool.

RHYFEDDA hyd a lled,
Fy enaid trist,
Uchder a dyfnder maith
Marwolaeth Crist;
Pan gym'rodd agwedd gwas,
A phechod cas ei ryw,
Bu farw yn ddigwyn
I'w dwyn at Dduw.

2 Fe gymmerth ef ein cnawd,
O ein Brawd ni!
Fe safai ar ben y bryn,
Gwnai'n erbyn Ilu,
Gan sathru dan ein traed,
Trwy'i briod waed ei hun,
Ellyllon ar fyr dro,
Heb ado'r un.

3 Aeth dan y gyfraith faith,
Hedd ddaeth i ni;
Mwy t'raned Sinai gaeth,
Beth waeth i mi?

Mae'r llwybr idd ei gôl
Yn rhydd i'r nefol had;
Ni fedr Satan serth
Ddwyn gwerth ei waed,

4 Fe dalai i lawr ar led
Ein dyled ni,
Trwy ddioddef angeu ar
Ben Calfari;
A hyn o'i ewyllys rydd;
Caiff etto ddydd sy'n dod
Elynion cryf a gwan
'Lawr dan ei droed.

5 'Nol rhoddi'n Harglwydd hael,
Yn wael ei wedd—
Rhyfeddod fwya' erioed,
Yn ngwaelod bedd;
Ond ar y trydydd dydd
Yn rhydd yr aeth efe;
Palmantodd lwybr gwych
I entrych ne'.

6 'Nol gorphen ar ei waith,
I'r nef 'r aeth ef.
Lle mae ef yr awr hon
Yn gwrando'n llef,
Yn eiriol drosom draw;
Ar fyr daw i'n rhyddhau,
Mae'r amser, ddydd a nos,
Yn agoshau. W.

433. *Crist yn dwyn ein beichiau.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd. Eifionydd.

FE row'd arno bwys enogrwydd—
Pwys nas gall'sai ddal mo ddyn,
Cosp pechodau myrdd o ddynion,
Heb un pechod ynddo'i hun;
Do, fe'i gwisgwyd â chystuddiau—
Ffrwyth fy meiau, fawr a mân;
Fel cawn innau, wael bechadur,
Aflan, euog, fod yn lân.

2 Ac yn nyfnder grym ei boenau—
Dan ergydion angeu loes,
Fe weddiodd am faddeuant—
Maddeu i mi ar y groes;
Fe gofleidiodd f'enaid aflan
Rhwng y ddaear fawr a'r nen;
Do, fe 'ngharodd ac fe 'nghofiodd
Dan yr hoelion ar y pren.

3 O! anfeidrol berffaith gariad!
Cariad nas gall dawn na gras
Dynion, na'r angylion penaf
Fyth yn hollol ddodi 'maes;
Cariad fydd yn sylfaen gadarn
O bob anthem yn y nef;
Seintiau ac angylion draphlith
Ganant am ei gariad ef.

4 Ac ni fydd mo dragwyddoldeb
Ddim yn ormod er ei hyd,
I ddadguddio hen ddyfnderoedd
Cariad Iesu maes i gyd;
Holl rinweddau maith ei glwyfau,
Poenau'r hoelion meinion, llym,
A wna i oesoedd fyned heibio
Etto heb eu gweled ddim. W.

434. *Iesu dan yr hoelion.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd. Trefaldwyn.

O FY enaid! cod dy olwg,
Gwel yn amlwg ben y bryn,
Lle bu Iesu, 'r Cyfaill ffyddlon,
Dan yr hoelion dur cyn hyn:
Talodd yno swm dy ddyled
A gwerthfawr waed ei galon friw;
Yr Oen dieuog yno'n marw,
Finnau'r euog yn cael byw. D. W.

435. *Sinai a Chalfaria ynghyd.*

8, 7. D.—Dusseldorf. Ledforth.

WELE Sinai a Chalfaria
Heddyw wedi dod ynghyd,
Sylwedd mawr yr holl gysgodau
Yn wynebu'r dwyfol lid;
Dacw'r cleddyf wedi deffro,
Llyfrau'r ddeddf yn dod yn mlaen,
Dacw aur y gwaredigion
Wedi ei buro yn y tân. AN.

436. *Brwydr Golgotha.*

8. 7. D.—Carmel. Dusseldorf.

DRAW ar gopa bryn Golgotha
Bu'r ymladdfa fwya' erioed;
Yr Oen heb gleddau, na grym arfau,
'N sathru'r dreigiau dan ei droed;
Ef mewn lludded mawr a syched
Wrth orchfygu uffern lu;
Etto ffynnon yn ei galon
I olchi'n wyn yr Ethiop du. AN.

437. *Teimlad o gariad Crist.*

8. 7. D.—Dolwar. Tyddewi.

'RWY'N teimlo f'enaid 'n awr yn
caru
Yr Oen ogwyddodd droswy'i ben:
Dywedodd Iesu mawr "Gorphen."
Wrth dalu 'nyled ar y pren: [wyd"
'Rwy'n caru hardd lyth'renau enw
Yr hwn fu farw yn fy lle:
'Does gyfaill yn y byd 'rwyf ynddo,
A bery'n ffyddlon fel efe. M. R.

438. *Gwahoddiad i'r wledd.*

8. 7. 3.—Holstein. Moldavia.

DEUWCH, hil syrthiedig Adda,
Daeth y jubil fawr o hedd;
'Rys yn galw pawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd:
Bwrdd yn llawn, yma gawn,
O foreuddydd hyd brydnawn.

2 Dewch, y deillion; dewch, y cloffion;
Dewch, y gwywedigion rai:
Ymadewch â'r hyn yr oeddych
Yn cael pleser i'w fwynhau:
Chwi gewch win, nefol rin,
Yma f'w yfed yn ddibrin.

3 Ceisiwch wisgoedd y briodas,
Gwisgoedd hyfryd, hardd eu lliw;
Nid oes enw teilwng arnynt
Ond cyflawnder pur fy Nuw:
Llian main ydyw'r rhai'n
Sydd yn cuddio pob rhyw staen.

4 Dyma'r wledd y cewch ddanteithion,
Yma cewch faddeuant rhad;
Yma cewch chwi brofi'r carnad,
Hedd yn nofio yn y gwaed:
Dewch yn awr, dyrfa fawr,
Ac eisteddwch yma i lawr.

5 Yma cewch chwi wel'd y ffynnon;
D*r a gwaed, yn afon fawr,
O'r archollion wnaeth y bicell,
Ar Galfaria'n dod i lawr:
Cewch lanhad, ac inchad;
Cewch eich beiau dan eich traed.

6 Chwi gewch yfed yn ddiofn,
Chwi gewch fwyta yn ddidrai;
Pob rhyw beth ddymunwo'ch calon,
Chwi gewch yno ei twynhau,
Gydag ef, hyfryd fe,
Byth o fewn terfynau'r nef. W.

439. *Cofio y dioddefaint.*

8au. 8ll.—Rhyl.

WRTH gofio'i riddfannu'n yr ardd,
A'i chwys fel defnynau o waed—
A redig ar gefn oedd mor hardd,
A'i daro a chleddyf en Dad—
A'i arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd;
Pa dafod all dewi am hyn?
Pa galon mor galed na thodd? T. L.

440. *Cyflawnwyd y gyfraith.*

8au. 8ll.—Salome.

CYFLAWNWYD y gyfraith i gyd,
Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd;
Cyflawnder, wrth lir ofyn fawn,
Ei daliad yn gyflawn a gadd:
Cyflawnder a'r gyfraith sy'n awr
Yn edryeh i lawr yn ddi-lid:
Mae'r priodoliaethau mewn bedd
Yn gwaeddi "Trugaredd" i gyd. E.J.

441. *Golwg o ben Nebo.*

8au. 8ll.—Salome.

DWY aden colomen, pe cawn,
Mi grwydrwn, mi hedwn yn mhell;
I gopa bryn Nebo mi awn,
I weled ardaloedd sydd well:
A'm golwg tu arall i'r d*r.
Mi dreuliwn fy nyddiau i ben,
Dan ganu wrth gofio y G*r
Fu farw dan boeliou ar bren. A M

BEDYDD.

442. *Ffynnon wedi ei hagor.*

M. C.—Martyrdom. Tiverton.

MAE ffynnon hyfryd lawn o waed,
A redodd ar y bryn;
Y pechaduriaid dica' gaed
A olchir ynddi'n wyn.

2 Bu'r lleidr aflan un prydnawn
Yn edrych arni'n llon;
A minnau o'i chur, sydd yn llawn
Mor frwnt ag ef, yn lion. COWPER.
[*Cof.* D. C.]

443. *Crist yn dechreu plant.*

8. 7.—Bonn Easter.

BUGAIL hardd sydd ofalus
Am ei dyner anwyl *wyn;
Mae'n eu galw yn groesawus,
Ac yn eu coffeidio'n fwyn.

2 "Gadewch iddynt ddyfod ataf,
Ac na rwystrwch hwynt," medd ef,
"Eiddo'r deyrnas hyfrydlaf
I'r fath rai yw teyrnas nef."

3 Deuwn, Arglwydd, a'n rhai bychain,
A chyflwynwn hwynt i ti;
Eiddot mwyach ni e'n hunain,
A'n hiliogaeth gyna ni.

4 Derwch, blant bychain, derwch at Iesu,
Cusiwch wyneb Brenin nef;
Heddyw yn dywysog yn dynesu
I'ch bendithio ganddo ef. M. D.

444. *Ffynnon y dyfroedd byw.*

8. 7. 4.—Tamworth. Alma.

HEDDYW'r ffynnon a agorwyd,
Ddis-laer fel y grisial clir;
Y mae'n llawn ac yn llifo
Dros wastadedd Salem dir:
Bro a bryniau
A gaiff brofi rhin y d*r.

2 Y mae rhinweddi gras y ffynnon
O dragwyddol faith barhau;
Nid oes darfod ddim ar ei iechyd
Perffaith bieddhant dwyfol waed;
Ac er golchi,
Dwfr heb bwydo, dwfr heb drai.

3 Minnau ddof i'r ffynnon fywiol
Darddodd allan ar y bryn,
Ac mi olcha'm hunain euog
Ganwaith yn y dyfroedd hyn:
Mywaid o feiau
Dalia'i lawr i ryw y d*r.

6 Dyma'r fan y caiff fy nwydau
Gwyllt, cynddeiriog, hytryd friw;
Dyma'r fan caf gongero natur,
A'i gwrthddrychau o bob rhyw;
Caf dey rnasu
Ar bob eilun teg ei lun.

5 O! dirwynwch, oriau, i fyng,
A gadewch im wel'd y dydd
Pan y torir fy nghadwynau,
A chaf rodio'n berffaith rydd:
Ysbryd caethwas
Wedi troi yn ysbryd hedd. w.

445. *Yr un testyn.*

8. 7. 4.—Tamworth. Frankfort.

DACW'r ffynnon i'w dynnno
Fywiol sy'n yr anial dir;
Dacw'r unig ddŵr sy'n rhoddi
Hedd ac anfarwoldeb clir:
Ar Galfaria
Tardd yr afon loyw i maes.

2 Yno'r af i 'mofyn pleser—
Unig bleser i burhau;
Yno caf ti lawn faddeuant
Am bob trosedd, o bhob bai;
Yno'n unig
Caf g'wiryddio o honof f'hun.

3 Iachawdwriaeth rad ei hunan
Yw fy mhlé o flaen y nef;
A ffarwel am danaf fythol
Oni chaf ei haeddiant ef:
Iesu ei hunan,
Oll o flaen y fainge i mi. w.

446. *Dyfroedd yr iachawdwriaeth.*

9. 8.—Bethel. Elliot.

O! ARWAIN fy enaid i'r dyfroedd,
Y dyfroedd sy'n afon mor bur,
Y dyfroedd a dorant fy syched,
Er tryined fy nohur a'm cur;
Y dyfroedd tragwyddol eu tarddiad,
Y dyfroedd sy heb waclod na thrai;
Y dyfroedd a olchant fy enaid,
Er duted, er amled fy mai.

2 Da iawn i bechadur fod afon
A yno yr anafiad yn wyn;
Hi darddodd o'r nefoedd yn gysson,
Hi lifydnoid ar Galfari fryn;
Hi bfodd i'r aenial Gemeddig,
Hi olchodd fil miloedd yn lân;
Hi ylch ei miliynau'n liwyr ganaid
Cyn rhoddi llawr dacar ar dân. T.J

447. *Ffynnon i bechod ac aflendid.*

8au. 8llin.—Salome.

CAED ffynnon o dduwr ac o waed,
I olchi rhai duon eu liw;
Ei ffrydnau a redodd yn rhad
I r'ardal lle'r oeddawn yn byw:
Er cymmaint o rwystrau gadd hon,
Grym arfaeth a'i gyredn yn mlaen.
I olchi tŷ Dafydd o'r bron,
Jerusalem hefyd ddaw'n lân. AN.

448. *Ffynnon Calfaria.*

5. 5. 8.—Hungerford. Ecwyrn.

AR gyoesbren, bryd: awn,
Cy fawnder gwaed awn,
A'r gyfraith anrhydedd 'run dydd;
Trwy rinweedd y gwaed
Boddlonwyd y Tad;
Mae merch yr Amoriad yn rhydd.

2 Ar Galfari fryn
Agorwyd cyn hyn
Ryw ffynnon nyfeddol ei rhin;
Hi hollol lanhâ
Allenaid a phla,
Hi gâna yr Etnop yn wyn.

3 Y gwan mae'n gryfhau,
Er cymmaint ei fai,
I sefyll wrth Sinai'n ddi-gryn';
Mae'n symmud a'i hedd
Fraw angeu a'r bedd,
A'u hofnau, heb adael yr un. D. C.

EMYNAU CENHADOL.

Pennodau cyfaddas i'w darllen mewn Cyfarfodydd Cenhadol:—

Salm ii., xix., lxxii., c., cxv., cxxii. *Esaiah* ii., xi., xxxv., xl., xlii., xliv., xlix., li., liii., lv., lx., lxi., lxii., lxiii., lxv. *Jeremiah* x., xxxi. *Ezeciel* xxxvii. *Daniel* ii. *Micah* iv. *Matthew* xx. *Actau* ii., x. *Rhufeiniaid* x. *Dadguddiad* xx., xxi.

449. *Yr addewidion gwell.*

M. H.—Sebastrau. Boston.

FE dalodd swm y ddyled dduol [byd;
Dros fyrdd sydd etto heb ddod i'r
Pan welo rhai'n rinweddau'i glwy',
Fyth canu iddo byddant hwy.

2 Pan clywo'r Indiaid draw sain loes
Creawdwr nefoedd ar y groes,

Rhinweddau hyfryd marwol glwy'
Fydd sylwedd eu caniadau hwy.

5 O ! na foed ardal cyn bo hir,
O'r dwyrain draw i'r dehau dir,
Na byddo'r iachawdwriaeth ddrud
Yn llanw cyrau rhai'n i gyd.

4 Boed Iesu â'i annherfynol stôr
Yn llanw'r tir, yn llanw'r môr,
Ei ddoniau maith, a'i gariad drud,
Yn sylfaen cysur pawb o'r byd.

5 Dewch, addewidion, dewch yn awr,
Dyhidlweh eich trysorau i lawr;
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd
Yn disgwyl am eich boreu ddydd. W.

450. *Llwyddiant yr efengyl.*

M. H.—Rockingham. Angels' Hymn.

DAW amser braf, can's gwawrio bron
Mae hafddydd yr efengyl lon;
I'r 'nysoedd pell ä'r trysor drud,
A'i swn â hyd eithafoedd byd.

2 Gwybodaeth Iesu fydd yn stôr,
Fel dyfroedd mawr yn llenwi'r môr,
Daw'r do a'r gogledd at yr lôn—
Holl bwrcas gwaed yr anwyl Oen.

3 Llama fel hydd dros fryniau pell,
Cyflawna'r addewidion gwell;
O! galw d'etholedig hâd
I brofi rhagorfreintiau'th waed. W.

451. *Teyrnasiad yr Iesu.*

M. H.—Sebastian. Caernarfon.

YR Iesu a deyrnasa'n grwn
O godiad haul hyd fachlud hwn;
Ei deyrnas a o fôr i fôr,
Tra fyddo llewyrch haul a lloer.

2 Lle y teyrnaso, bendith fydd;
Y caeth a naid o'i rwymau'n rhydd,
Y blin gaill fythol esmwythâd,
A'r holl rai clwyfus iechyd rhad.

3 Rhoed pob creadur, yn ddi-lyth,
Neillduol barch i'r Brenin hyth:
Angylion, molwch ef uwch ben,
A'r ddaear, dweded byth, Amen.
D.R. W.

452. *Dymuniad am lwyddiant yr efengyl.*

M. H.—Yr hen 100fed. Beza.

LLWYDD, llwydd i bur efengyl gras;
O! profed pawb ei rhin n'i blas:
Cyhoedder llawn faddeuant rhad,
A modd i'r brwnt gael llwyr lanhâd.

2 Chwyth, udgorn, chwyth y newydd llon,
Ac aed y sain trwy'r ddaear gron;
Llanwed yr hyfryd lais bob lle,
Gorllewin, gogledd, dwyrain, de.

3 Ymdaened sôn o gylch y byd
Am angeu'r groes a'r aberth drud;
Cyfoded gwawr o Galfari,
A doed yr hyfryd jubili.

4 Bydd pèr Hosanna trwy bob gwlad
I Ddiuw am iachawdwriaeth rad;
Moliannu'r Oen fydd ton pob iaith;
Clodforir ef trwy'r ddaear faith. P. J

453. *Canolfur y gwahaniaeth wedi ei rwygo.*

M. H.—Yr Hen 100fed.

Y CANOL fur a ddaeth i lawr,
A rhwygwyd y wahanlen fawr
Does derfyn mwy i efengyl rad;
Mae'r drugareddfa yn mhob gwlad.
P.W.

454. *Dyrchafiad Calfaria.*

M. H.—Mamre. Melcombe.

DYRCHAFA 'r lôn fryn Calfari
Uwch law y bryniau mwya'u bri;
Fel gallo holl genhedloedd byd
Gael gwel'd y groes a'r Aberth drud

2 Calfaria fryn—dyrchefir ef
Yn ngolwg pawb o dan y nef;
Fe ddaw'r luddewon yn gyttûn
I wel'd gogoniant Mab y dyn. W. E.

455. *Gwawr y dydd.*

M. H.—Lancaster. Angels' Hymn.

WEL, daew wawr yr hapus ddydd
Daw meibion Adda oll yn rhydd;
Dydd taflu Babilon i lawr,
Fel pwysig faen i'r eigion mawr.

2 O! Haul Cyfiawnder! disgleer, llon,
Goleua'r byd yn llwyr o'r bron;
Gwna nefol ddydd 'n ol tywyll nos,
Dydd seimo luceddiant gwaed y groes.
D. C.

456. *Llwyddiant ar y gwaith.*

M. H.—Angels' Hymn. Lancaster.

O ARGLWYDD Dduw! bywhâ dy waith
Dros holl derfynau'r ddaear faith;
Dros dir a môr disgleiria i maes
Yn nerth dy anorchfygol ras.

2 Mae Babilon yn crynu'n wir,
Mae'n rhwym o syrthio cyn bo hir;
O Arglwydd! brysia, rhwyga'r llen,
Boed Seion bur drwy'r byd yn ben. AN

457. *Crist wedi ei ddyrchafu i'r groes.*

8. 8 8.—Nazareth. Rugby.

WEL, f'enaid, cerdd y ffordd yn hy
Yn union tua Seion fry,
A chadw'th lygad at y nôd:

Calfaria fryn, lle gweli'r groes,
A'r aberth arni dan ei loes;
Rhyfeddod mwya'r nef erioed.

2 Mae'r bryn yn uchel, uchel iawn,
A'r aberth drud yn eglur lawn,
Fel gallo'r dwyrain bell a'r de,
Y dynion lle mae'n dywyll nos,
Er t'wylled, edrych tua'r groes,
A gweled ei drywanu e'.

3 Fe all yr Indiaid pellaf gaed
I wel'd yr hoelion yn ei draed,
A gwel'd ei ben yn crymu i lawr:
Fe ylch y pelledigion hyn
Yn ganaid, fel yr eira gwyn,
Oddi wrtheu beiau, facha mawr. W.

458. *Y llef ddistaw fain.*

8. 8. 6.—Henffordd. Llanelli.

O'R nef fe ddaeth llef ddistaw fain,
Hyfrydaf a phereiddiaf sain,
Trwy barthau'r ddaear gron;
Ac er distawed yw y llef,
Caiff pawb ei chlywed is y nef;
Mae Duw ei hun yn hon.

2 Llef radlawn yw, a melus iawn;
Cyhoeddiad o faddeuant llawn
I'r euog gwael ei wedd;
Gwahoddiad i'r anghenus rai
At bob cyflawnder heb ddim trai;
Hon yw efengyl hedd.

3 Mae'n meddalhau'r afrywiog fron;
Ewyllys dyn ennilla hon,
Heb orthrech, cur, na thrais;
Hon yw'r newyddion goreu 'rioed;
I Dduw a'r Oen gogoniant boed
Byth am yr hyfryd lais.

4 Aed sain efengyl cyn bo hir
I'r dwyrain a'r gorllewin dir,
Y gogledd oer a'r de;
O! profed pawb effeithiau hon,
Y byd fo'n plygu ger ei bron,
A llwydded yn mhob lle. P. J.

459. *Mynydd tŷ yr Arglwydd yn ddyrchafedig.*

M. S.—Trallwm. Dyfroedd Siloah.

GORUWCH yr holl fynyddoedd sy
Bydd mynydd tŷ Iehofah,
Yn ddyrchafedig, yn ddiau,
Goruwch y bryniau ucha'.

2 Pob cenedl, a phob llwyth, ac iaith,
A brysur ymdaith ato,
Yn fyrdd, yn fyrdd, â llawen floedd,
Fel dyfroedd yn dylifo. J. H.

460. *Y genhadaeth.*

M. C.—Farrant. Tallis.

CENHADON hedd gant ddwyn ar
Efengyl gras ein Duw [frys
I bob rhyw fan yn mhellder byd,
Lle triga dynol ryw.

2 Mynegant am y cymmod gwiw
A ddaeth trwy bwrcas drud,
A'r ffynnon hyfryd sy'n glanhau
Aflendid mwya'r byd.

3 Fe lona'r gwyllt farbariad gwael,
Fe lama'r Ethiop du,
Wrth glywed am'r anfeidrol Iawn
A gawd ar Galfari.

4 Ein rhoddion mân a rown yn rhwydd
A'n gweddi dlawd i'r nef,
I gael paganiaid tywyll, pell,
Yn dorf i'w deyrnas ef. D. C.

461. *Dydd yr efengyl.*

M. C.—St. Stephan. Gloucester.

FY Iesu, Brenin dae'r a nef,
Ei hun yn unig yw, [waed,
Trwy bwrcas llawn ei werthfawr
Iachawdwr dynol ryw.

2 Mae clywed newydd am ei waed
Yn llifo ar Galfari,
Yn un o'r pethau mwya'u braint
A fedd ein daear ni.

3 Fe'i câr y Negro tywyll, du,
Yn hyfryd maes o law,
Pan t'wyno gwawr efengyl gras
I dir yr India draw.

4 Fe ddaw'r blynyddoedd pur i ben
Pan t'wyno efengyl gras,
Fel haul disglaerwyn yn y nef,
Yn gylch i'r ddaear las.

5 Ac mi ddisgwylia'r hyfryd awr,
Boreuddydd jubili,
Pan ddelo holl dylwythau'r byd
I deithio i Galfari. W.

462. *Codiad haul o'r uchelder.*

M. C.—Farrant. Exeter.

LLEWYRCHED pur oleuni'r nef
Dros wyneb daear faith;
Ac aed efengyl gadarn gref
Hyd at bob llwyth ac iaith.

2 Doed deau, gogledd, dwyrain faith,
Gorllewin o un fryd,
I edrych ar brydferthwch gwaith
Iachawdwr mawr y byd. AN.

463. *Llwyddiant yr efengyl.*

M. C. D.—Prydain. Tavistock.

AED swn efengyl bur ar led
Trwy barthau'r byd o'r bron;
Boed llwyddiant drwy deyrnasoedd
Lle mae pregethiad hon; [cred
Fel delo miloedd etto i maes
O'r t'wyllwch cas i fyw,
Trwy'r India draw ac Asia fras,
I ganmol gras ein Duw.

1 Aed sain yr udgorn arian, mawr,
Yn mlaen trwy'r anial dir;
A doed y werin gyda'r wawr
I 'mofyn am y gwir:
Helaetha'th babell'r ochr hyn,
Estyn gortynau i maes;
O oes i oes, tra paro'r byd,
Bydd canmol goiud gras.

3 Aed mawl a gweddi'r saint i'r lan
Fel pêr aberthau byw;
A boed serchiadau Seion wan
Ar dân yn moli Duw: [hir,
Mewn gemwaith aur bydd hon eto
Heb dristwch, cur, na phoen,
Yn canu am goncwest mawr a gaed,
Trwy werthfawr waed yr Oen. J. W.

464. *Llwyddiant teyrnas Crist.*

2. 8.—Braint. Dorcas.

1 EI glod,
Sydd heb un terfyn iddo'n bod,
O! aed yn mlaen fwy nag erioed,
O gwmpas rhod y ddaear fawr,
Nes elo swn efengyl bur
I dori'n glir fyrddiynau i lawr.

2 Mwy, mwy
Yw buddugoliaeth dwyfol glwy',
A'i goncwest helaeth gyrmaedd trwy
Galonau fwy na rhif y gwlith;
Yn nydd ei nerth, y gwanaf un
Wrtho a lŷn yn ffyddlon byth.

3 Mae, mae
Rhyw hiraeth ynwyf yn parhau
Am wel'd yr amser hyny'n glau—
Y pryd y mae fy Arglwydd rhad
I dderbyn ei ogoniant mawr,
Gan nef a llawr, am roddi ei waed.

4 Yn awr,
Addfwynaf Iesu, tyr'd i lawr,
Helaetha dy frenhiniaeth fawr;
Cod, ddedwydd wawr iachusol
I'r carcharorion fyn'd i maes [ddiydd,
O'r pydew cas heb ddwfr sydd. W.

465. *Llwyddiant yr efengyl.*

2. 8.—Luther. Aberdeen

1 AED, aed
Y newydd am y dwyfol waed,
Nes golchi myrdd o'r duaf gaed,
O'u pen i'w traed, yn hardd a gwyn;
Fel byddo nef a daear las
Yn dadgan gras Calfaria fryn.

2 Mawr, mawr
Yw grym llewyrchiad nefol wawr;
Try'r nos yn ddydd ar blant y llawr:
Mae'r goleu'n awr yn nerthol wir,
Ond rhagddo â hyd hanner dydd;
Pur oleu fydd mewn nefol dir. T. J.

466. *Galwad yr efengyl.*

7. 8.—Hosannah.

1 O LLANWED iachawdwriaeth!
Fel môr di-drai yn helaeth;
A doed ynysoedd pell y byd
I gyd gael meddyginiaeth;
Mae'r Brenin ar ei orsedd
Yn cynnyg o'i drugaredd.
I beebadwiaid tlodion, gwael,
Ddod ato i gael ymgeledd. G.

467. *Y llwythau yn esgyn i'r dyfl.*

7. 6. D.—Heol y Bont. Ramah.

1 NI welwn ben ein siwrnai;
Aeth miloedd yn y blaen,
Ar hyd prif ffordd y Brenin,
Trwy ganol dŵr a thân;
Mae adsain yn ein clustiau
O ryw aneirif lu
Yn chware'u haur delynau
O fewn i Seion fry.

2 Mae Salem heb ei llanw,
Mae'n rhaid cael llwythau 'nghyd,
Pob rhyw ac iaith o bobl
O bedwar gwynt y byd;
Daw tlodion, ac efryddion,
A gwywedigion gwan,
Finteloedd heb eu rhifo,
I Seion yn y man. W.

468. *Galwad effeithiol yr efengyl.*

7.6.D.—Caerllyngoed. Ardudwy.

1 O! ARGLWYDD, galw etto,
Fyrddiynau ar dy ol,
A dryllia'r holl gadwynau
Sy'n dal enaidiau'n ol;
A galw hwynt o'r dwyrain,
Gorllewin, gogledd, de,
I'th eglwys yn ddi-attal,
Mae digon etto o le. D. J.

469. *Estroniaid yn dychwelyd.*

7.6.D.—Mount Street. Bremen.

1 DAW miloedd o rai aflan
I 'mofyn am y gwaed
A lifodd ar Galfaria
I olchi'r duaf gaed;
Er cymmaint ag a olchwyd,
Sydd yn y nef yn awr,
Mae'r ffynnon fel y grisial
Yn ngwlad y cystudd mawr.

2 Daw caethion duon India,
Anwariaid gwledydd pell,
I blygu'n llu i Iesu,
Gan geisio gwlad sydd well:
A'r dagrau ar eu gruddiau
Wrth gofio angeu loes,
Gan ddechreu canu'n beraidd
Am riuwedd gwaed y groes. AM.

470. *Dydd gras.*

M. B. D.—Heidelberg. Eden.

A R ddydd'rwyth grindir eras,
Dasgymbl gras ein Duw,
Yn loyw ffrwd afonydd ddaeth
Mewn anial gwaetha'i ryw;
Maddeuant rhyfedd rhad
I'r gwaethaf gaed is nen,
Yr hwn a gredo yn yr Iawn
Fu un prydnawn ar bren.

2 A doed brenhinoedd byd
Yn unfryd ato ef,
A rhoddant eu coronau i lawr
O flaen ei orsedd gref;
Ei enw led-led sydd,
A'i glod a fydd uwch law
Y cwbl ag sydd yma i gyd,
Ac yn y byd a ddaw.

3 Wel dyna'r pryd y clywn
Y gair sydd arnom chwant:
Wel, dewch i mewn, a dewch ar frys,
Chwi fendigedig blant,
'Tifeddwch drysor rhad
Bar'tow'd cyn seiliad byd,
Y deyrnas lawn o bob rhyw faeth,
Trwy f'haeddiant ddaeth i gyd. w.

471. *Baner yr efengyl.*

6. 8.—Beverley. Normandy.

MAE'r faner fawr yn mlaen,
Efengyl nef yw hon;
Mae uffern lawn o dân
Yn crynu'n awr o'r bron:
Fi gwymp, fi gwymp, er maint ei
O flaen fy Iesu 'dyw hi ddim. [grym;

2 Fe bwysa hoelion dur,
Fe bwysa coron ddrain
Ar ben Tywysog nef,
Buasewyad newya' rhai'n:
Rhyfeddod yw, dewch gwelwch hyn,
Y mwyaf du yn fwyaf gwyn.

3 Caned a welodd wawr
Yn codi o'r t'wyllwch du;
Caned a brofodd flas
Grawnsypiau'r Ganaan fry;
Ni ddown, ni ddown, i Seion fryn,
Er maint yr holl anialwch hyn.

4 Na lwfrhaed ein ffydd;
Mae'n ffydd fel colofn dân
A blanodd Brenin nef
I'n harwain yn y blaen;
Mi wela'r wlad, mi ga'i mwynhau,
Lle pery'n hedd heb dranc na thrai.

5 O! ffynnon fawr o hedd,
O! anchwiliadwy fôr,
Sy'n cynnwys ynddo'i hun
Rywsgnuherfynol stôr:
Ti bia'r clod; wel cymmer ef,
Trwy'r ddaear, uffern fawr, a'r nef. w.

472. *Dychweliad yr Iuddewon.*

6. 4.—Dinbych. Gobaith.

O ARGLWYDD! cofia am
Hiliogaeth Abraham,
A dychwel hwy;
Y gorchudd ymaith tyn,
O'u hanghrediniaeth myn,
Tydi addewaist hyn;
Nac oeda'n hwy.

2 Duw, dywed, er dy glod,
Wrth dir y gogledd, Dod,
Nac attal, dde;
O! cyfod di dy law
Ar y cenhedloedd draw,
A myrdd ar fyrdd a ddaw;
Mae'th fraich yn gref. J. H.

473. *Gwawrddydd yr efengyl.*

8au. 4llin.—Antwerp. Dresden.

AED efengyl fel y wawrddydd,
Aed i gludo myrdd trwy'r gwled
Eled sain yr udgorn arian [ydd;
I ddymchwelyd teyrnas Satan.

2 T'wyned haul ar fyrdd o werin
Sy'n y dwyrain a'r gorllewin;
Sôn am Iesu lanwo'r 'nysoedd
Fel mae'r dwfr yn toi y moroedd. AN.

474. *Gwaredigaeth trwy Grist.*

8.7.D.—Edinburgh. Dismission.

MEWN amialwch 'rwyf yn trigo,
Temtasiynau ar bob llaw,
Heddyw, tanllyd saethau yma,
Fory, tanllyd saethau draw;
Minnau'n gorfod aros yno,
Yn y canol, rhwng y tân;
Tyr'd, fy Nuw, a gwel f'amgylchiad,
Yn dy allu tyr'd yn mlaen.

2 Marchog, Iesu, yn llwyddiannus,
Gwisg dy gleddyf ar dy glun;
Ni all daear dy wrthsefyll,
Chwaith nac uffern fawr ei hun:
Mae dy enw mor ardderchog,
Pob rhyw elyn gilia draw;
Mae dy arswyd trwy'r gwaredigaeth
Pan y byddost ti ger llaw.

3 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,
Gwawried bellach foreu ddydd;
Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,
Tyn y baniau heiyrn yn rhydd;
Gwthied caethion yn finteioedd
Allan, megys tonau llif,
Torf a thorf, dan orfoleddu,
Heb na diwedd fyth na rhif.

4 Mi debygaf clywaf heddyw
Swn caniadau draw o bell,
Torf yn moli am waredigaeth,
Ac am ryddid llawer gwell;

Gynau gwynion yw eu gwisgoedd,
Palmwydd hyfryd yn eu llaw,
A hwy ant gyda gogoniant
Mewn i'r bywyd maes o law.

5 Minnau bellach orfoleddaf
Fod y jubil fawr yn dod,
Y cyflawnir pob rhyw sillaf
A lefarodd Iesu erioed;
De a gogledd yn fyrddiynau
Ddaw o eithaf tywyll fyd,
Gyda dawns ac udgyrn arian,
Mewn i Salem bur ynghyd. W.

475. *Cwymp Babilon.*

8.7.D.—Vienna. Mendelssohn.

BABEL gwympa, er ei chryfed,
Dagon syrth, er maint ei barch;
Nid oes elyn ddichon sefyll
O flaen Iôr a'i gadarn arch:
Hollalluog yw Duw Israel,
Arglwydd lluoedd llawr a nen;
Caerau Iericho a syrthiant
Pan ddaw'r seithfed tro i ben.

2 Clywir swn yn mrig y morwydd,
Deulu Seion, ymgryfhewch;
Wele'r wawr yn dechreu codi;
Haleluwia, llawenhewch:
Fe udgenir trwy'r holl ddaear
Udgorn mawr efengyl hedd:
"Syrthiodd Babel, syrthiodd Babel,
Mwy nis gwelir ond ei bedd." AN.

476. *Dychweliad yr Iuddewon.*

8. 7. D.—Eiflonydd. Bohemia.

DOED Iuddewon cyndyn bellach
I hoffi llais efengyl hedd;
Boed i swn yr udgorn arian
'Nawr agoryd pyrth y bedd;
Acd eu dyddiau diffrwyth heibio,
A'u caethiwed doed i ben;
Hwythau'n credu'n llu ar unwaith
Yn yr hwn fu ar y pren.

2 Doed y pedwar gwynt, anadlant
Ar y lladdedigion hyn;
O eithafoedd pella'r gwledydd
Gwelant ben Calfaria fryn;
Ac wrth swn yr udgorn arian,
Pyrth a barau Babel fawr
Fyddo'n agor, nes bo'r caethion
O'u carcharau oll yn awr.

3 Impier hwynt i'w holewyddon,
Profent o'i rhinweddau per;
Doed yr Iuddew mud i ganu
Mwy am ras anfeidrol Nêr;
Cariad heb gyfnewid etto,
A ffyddlondeb mawr, di-drai,
Gras fel moroedd o Galfaria,
Digon byth i gladdu bai. R. J.

477. *Cyflawniad o'r addewidion.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

DROS y bryniau tywyll niwlog,
Yn dawel, f'enaid, edrych draw,
Ar addewidion sydd i esgor
Ar ryw ddyddiau braf ger llaw:
Nefol Jubil,
Gad im wel'd y boreu wawr.

2 Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,
Doed y Negro du yn llu,
I ryfeddu'r ddwyfol goncwest
Unwaith gaed ar Galfari;
Swn y frwydr
Dreiddio i eithaf conglau'r byd.

3 Ar ardaloedd maith o dywyllwch
T'wynu wnelo'r heulwen lân,
Ac ymlidied i'r gorllewin
Y nos o'r dwyrain draw o'i blaen:
Iachawdwriaeth,
Ti yn unig gario'r dydd.

4 Gwawria, gwawria, hyfryd foreu,
Ar ddiderfyn fagddu fawr,
Nes bo bloedd yr euraidd udgorn
Yn adseinio'r nen a'r llawr,
Holl derfynau
Tir Immanuel i gyd.

5 Hed fel mellten, bur efengyl,
A gorchfyga oll yn lân;
Bydded i'th gyffiniau eang
Ymhelaethu fyth yn mlaen;
A'th lywodraeth,
Dros y moroedd mawr i gyd. W. *Cyf* [J. W.

478. "*Deled dy deyrnas.*"

8. 7. 4.—Peniel. Alma.

DUW, teyrnasa ar y ddaear,
O'r gorllewin bell i'r de;
Cymmer feddiant ar ardaloedd
Pellaf, t'wyllaf, is y ne';
Haul cyfiawnder,
Llanw'r ddaear fawr â'th ras.

2 Doed yr India fawr, gyfoethog,
Heddyw dan dywyllwch sydd,
I gael gwel'd efengyl hyfryd
Yn dwyn drosodd oleu'r dydd;
Nes bo heddwch
Yn teyrnasu o fôr i fôr.

3 Taened gweinidogion bywyd
Iachawdwriaeth Iesu ar led;
Cluded moroedd addewidion
Drosodd draw i'r rhai digred;
Acd efengyl
Ar adenydd dwyfol wynt.

4 Doed preswylwyr yr anialwch,
Doed trigolion bro a bryn,
Doed y rhai sydd ar y cefnfor
I garu'r iachawdwriaeth hyn;
Nes bo adsain
Moliant yn amgylchu'r byd.

5 Pur ganiadau i Frenin Seion
Fyddo yn llawenydd llawn,
Draw o'r dwyrain, lle mae'n codi,
I fachludiad haul brydnawn;
Fyth na sonier
Ond am degwch Brenin nef. W.

479. *Llwyddiant i newyddion iachawdwriaeth.*

8. 7. 4.—St. Peter. Verona.

AED newyddion iachawdwriaeth
Ar adenydd dwyfol wawr,
I ororau eang, helaeth,
I eithafoedd daear lawr:
Brysied boreu
Jubil ddydd efengyl gras.

2 Llifed ffrwd y dyfroedd bywiol
Ddaeth dan riniog teml Iôn,
Afon bur o'r orsedd rasol,
Glân orseddfainc Duw a'r Oen;
Ei rhinweddau
Sy'n dwyn bywyd yn lle gwae.

3 Aed effeithiol addewidion
Dwyfol hyd eithafoedd byd;
Aent i gasglu prynedigion
Iesu ato ef i gyd;
Ffrwyth ei lafur,
I'w ddiwallu byth, Amen. T. J.

480. *Ffrwyth marwolaeth Crist.*

8. 7. 4.—Verona. Caio

AR y groes dyrchafwyd Iesu,
Fel y sarph ar drostan hir;
Ac fe dyn aneirif luoedd
Ato'i hun ar fôr a thir;
Byth ni chollir
Neb a gredo ynddo ef.

2 Marw wnaeth y gronyn gwenith,
A thoreithiog fydd ei ffrwyth;
Rhana'r ysbail gyda'r cedyrn,
I'w elynion tâl y pwyth;
Ni wêl Satan
Un o ddefaid Crist yn ol.

3 Fe gaiff Iesu fyrdd o ddeiliaid
O bob cenedl is y nef;
At ei draed yn ufudd deuant,
Had a'i gwasanaethant ef;
Bydd eu nifer
Fel y gwlith o groth y wawr. P. J.

481. *Brenhiniaeth Crist.*

8. 7. 4.—Lewes. Sicily.

HOLL deyrnasoedd byd yn gyfan
Sydd yn eiddo'n Harglwydd ni;
Ei lywodraeth sydd yn eang,
Mae ei enw uwch pob bri;
Boed yn amlwg
Ei ogoniant ef a'i ras.

2 Iesu, estyn dy deyrnwialen
Dros derfynau eitha'r byd;
Dyrcha'th faner at y bobloedd,
Atat tyn y rhai'n i gyd;
Gan bob llygaid
Gweler iachawdwriaeth Duw. P. J.

482. *Llwyddiant yr efengyl.*

8. 7. 3.—Rheidol. Iorddonèn.

TYRED, Iesu, i'r ardaloedd,
Lle teyrnasa tywyll nos;
Na foed rhan o'r byd heb wybod
Am dy chwerw angeu loes;
Pa'm bydd poen addfwyn Oen
Am dano'n eitha'r byd heb son!

2 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,
Aed i'r gogledd, aed i'r de,
Roddi hoelion dur cadarnaf,
Yn ei draed a'i ddwylaw e';
Doed ynghyd eitha'r byd
I wel'd tegwch d'wynebpryd.

3 Doed Paganiaid yn eu t'wyllwch,
Doed y Negro dua'u lliw,
Doed addolwyr yr eilunod
I wel'd tegwch Iesu'n Dduw:
Deued llu heb ddim rhi'
Fyth i ganu am Galfari. W.

483. *Baner gras.*

8. 7. 3.—Holstein. Moldavia.

DEWCH i'r frwydr, dewch yn union,
Filwyr Iesu,'n foreu iawn,
Chwi gewch weled buddugoliaeth,
Lân a helaeth, y prydnawn:
Ef ei hun, heb un dyn,
Dery'r gelyn yn ddi-gryn.

2 Mae'r efengyl wen yn curo,
Ac yn codi baner gras
Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,
Ar y mynydd, yn y maes;
Y mae llef bur y nef
Yn cyhoeddi ei haeddiant ef. W.

484. *Gogoniant y dyddiau diweddaf.*

7au, 4llin.—Durham. German Hymn.

WELE'r dydd yn gwawrio draw,
Amser hyfryd sydd ger llaw;
Daw'r cenhedloedd yn gyttun
I ddyrchafu Mab y Dyn.

2 Gwelir teyrnas Iesu mawr
Yn ben moliant ar y llawr;
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu
Goruwch y mynyddoedd fry.

3 Gwelir pobloedd lawer iawn
Yn dylifo ato'n llawn;
Cyfraith Iesu gadwant hwy,
Ac ni ddysgant ryfel mwy.

4 Fe geir gweled Babel fawr
Wedi syrthio oll i lawr,
A'r teyrnasoedd mawr eu bri
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni. T. J.

485. *Dyddiau hyfryd i ddyfod.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

Y MAE 'r dyddiau'n dod i ben—
Dyddiau hyfryd,
Y dyrchefir Brenin nen
Dros yr holl fyd;
Fe â dwyfol angeu drud
Pen Calfaria
Trwy ardaloedd pella'r byd:
Haleluwia.

2 Fe bregethir Iesu a'i ras,
Mewn awdurdod,
Yn yr India eang fras
Yn ddiddarfod;
Fe â swn yr udgorn clir
Hyd yr eitha',
I'r gorllewin anial dir:
Haleluwia.

3 Minnau gredaf yn fy Nuw,
'Mhriod rhyfedd,
A fu farw, 'nawr sy'n fyw
Yn ddiddiwedd;
Ac er mwyn ei chwys a'i waed,
Mi wir greda'
Ca'i 'ngelynion dan fy nhraed:
Haleluwia. W.

486. *"Y gauaf a aeth heibio."*

7. 4.—Aberafon. Essex.

TACHAWDWR IAETH sydd yn awr.
Duwel, hyfryd,
Yn dylifo'n braf i lawr
Ddŵr y bywyd:
Dyma ryfeddodau Duw—
Y fleiddiaf
O rai meirw'n dod yn fyw!
Haleluwia.

2 Darfu'r gauaf chwerw hir,
Amser sythdod,
Pan oedd cwsg yn llanw'r tir,
A phob nychdod:
Daeth y ddwyfol nefol hin,
Fwyn, bereiddiaf;
Minnau ddrachtia'r nefol win:
Haleluwia.

3 Tarddu i maes mae'r egin grawn,
Mewn cyssondeb,
Hauwyd gynt yn arfaeth lawn
Tragwyddoldeb;
Ac ni chollir un o'r hâd—
Y rhai lleiaf,
Blanwyd yno gan ein Tad:
Haleluwia. W.

487. *Y nos yn myned heibio.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

Y NOS WEITHIAU hirion sy,
'Mron myn'd heibio,
A'r cymmylau tywyll, du,
Sydd yn cilio;
Fe ddaw'r haf a'r egin gwan
I lawn fywyd,
A hwy ddygant yn y man
Ffrwythau hyfryd.

2 Dyddiau hyfryd dwyfol ras,
Ddaeth o'r diwedd,
Ac fe dŷr effeithiau i maes,
Nefol, rhyfedd;
Fe ddaw gwinllan f' Arglwydd mawr
I oresgyn
Anial fanau pella'r llawr,
Heb un terfyn. W.

488. *Llwydd i efengyl gras.*

7. 4.—Essex. Aberafon.

AED efengyl gras ar led
Trwy'r holl wledydd;
Plygu wnelo rhai digred
I Fab Dafydd:
Doed trigolion dae'r a nef
O un galon,
I wel'd mai teilwng ydyw ef
I gael y goron. DR. L.

489. *Llwyddiant yr efengyl yn ol arfaeth Duw.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

BETH yw'r cynnhwrf perthol iawn
Sy'n y goedwig?
A yw'r arfaeth fawr ei dawn
Ddim yn ddiddig?
Nis boddionir mo'ni'n llawn
Nes cael gweled
Oll a brynwyd un prydnawn
O'u caethiwed.

2 Y mae heddyw nefol wawr
Yn llewyrchu,
Ac yn chwalu'r t'wyllwch mawr
Fel y fagddu:
Ernes yw o foreu llawn
O'r uchelder;
Ymddisgleiria'n hyfryd iawn
Haul Cyfiawnder.

3 Rhaid i'r Iesu'n helaeth gael,
Y mae'n haeddu,
Gwel'd o ffrwyth ei lafur hael,
A'i ddiwallu;
Miloedd myrdd o estron lu
Ddont yn fuan
I gael profi ei gariad cu
I rai aflan. AN.

490. *Cynnull crwydriaid Israel.*

11au.—Wareham.

PALMENTWCH y brif-fordd, daw
Israel yn llu, [o'u tu;
O'r Aipht ac Assyria, a'u Harglwydd
A'u dagrau'n llifeirio yn gof am y pren
Lle'r hoeliodd eu tadau Dywysog y nen. A.N.

491. *Gwaredigaeth yr efengyl.*

9. 8.—Elliot.

DAW milenia ar ddarfod am danynt
O hen wlad Assyria cyn hir,
Pan welwlyr yr Aipht ac Ethiopia,
At Grist y Gwaredwr yn rhedeg;
Cyflawnir y prophwydoliaethau
Dan'r hedd a'r addewidion i gyd,
Fe dynir myrddiynau at Iesu
I lyr halwyd rhwng daear a nen.

2 Yr holl freiniaethau a dreulir,
A'r uddelw falurir i lawr;
Y gareg a leinw'r holl wledydd,
Ei chynnydd fel mynydd fydd mawr:
Ceir gweled cenhedloedd y ddaear
Yn dyfod o bedwar cwr byd,
Y [illegible] y [illegible]
Y bydd ei drigolion i gyd. P. J.

492. *Cwymp Babilon, a dychweliad y gaethglud.*

5.5.8.—Hungerford. Edeyrn.

MAE'r dydd yn nesau,
Cwymp gwaedd i yn glau
Daw Babilon gadarn i lawr;
Mae'r taliad mor ddrud,
Teyrnasoedd y byd
A'n eiddo Emmanuel mawr.

2 Hen anghrist sydd fawr,
Falurir i lawr;
Mae'r gareg a'i threigliad yn rhydd:
Er gorfod cael briw,
Daw'r tystion yn fyw;
Haleluwia! bron gwawrio mae'r dydd.

3 Er cymmaint yw'r llid,
Daw'r gaethglud i gyd
O ddyfnder caethiwed yn rhydd;
Fe ddaw'r jubili
I fyny'n llawn rhi';
Haleluwia! bron gwawrio mae'r dydd.

4 Mae'r dydd yn nesau
Pan ddrylliir yr iau
O herwydd eneiniad y Pen;
Mae'r amser ger llaw,
Iuddewon a ddaw
I garu'r hwn fu ar y pren.

5 Y Meichiau a wêl
Ei lafur dan sêl,
Fe'u myn hwy o afael y llid;
Hwy garwyd yn rhad,
Fe'u prynwyd â gwaed,
Fe'u gelwir, fe'u golchir i gyd.

6 Ar Galfari fryn,
Yn haeddiant Duw-ddyn,
Caed trysor, am dano bydd sôn;
Mae'n gyfoeth mor ddrud,
Fe leinw'r holl fyd:
Clodforedd am rinwedd yr Oen. w. J

493. *Efengyl yr Iôn.*

5.5.8.—Hungerford. Edeyrn.

EFENGYL yr Iôn,
Am dani bydd son
Trwy'r bröydd a'r bryniau o'r bron;
Hen Jericho fawr
Yn llwyr ddaw i'r llawr; [D. C.
Mae'r udgyrn yn bloeddio wrth hon.

PROFIADAU CREDADYN.

494. *Yr hen drugareddau.*

10au.—Erfyniad. Griddfaniad.

P'LE 'rwyt yn myn'd? Pa'm 'rwyt
yn aros draw?
Tyr'd, O fy Nuw! ymafla yn fy llaw:
Tegwch heb sylwedd sy yma'n gyttun;
Mae'r cwbl sy werthfawr ynot ti dy hun.

2 Fy Nuw, fy Nuw, fy Mhriod, a fy
Nhad, [rad,
Fy ngobaith oll, a'm ischawdwriaeth
Ti fuost noddfa gadarn i myfi,
Gad i mi etto wel'd dy wyneb cu.

3 Nac aed o'th gof dy ffyddlon ammod
drud, [byd;
Yn sier wnawd cyn rhoi sylfaen'r
Ti roist im yno drysor maith, di-drai;
Gâd i mi heddyw gael dy wir fwynhau

4 O! cofia'th hedd rai prydiau roist i lawr
I'm henaid trist mewn cyfyngderau mawr:
O! edrych etto, mae fy enaid gwan
Gan syched mawr ar drengu yn y fan.

5 Raid i ti ddim ond dweyd un gair o hedd,
Fy syched dry yn dawel nefol wledd;
Fe dderfydd gofid, derfydd pob rhyw wae,
Fy nhristwch lyngeir yn dy wir fwynhau. W.

495. *Llef y pechadur.*

10au.—Erfyniad. Griddfaniad.

PECHADUR wyf a aeth yn llwyr ar goll,
O'm pen i'm traed yn euog, aflan, oll;
Dan glwyfau dwys, tra dyfnion, trymion, trist; [Grist.
Ond Meddyg rhad i'm bath yw Iesu

2 Efe ei hun, i roddi im iachâd, [rhad;
Yw'r un a fedd bob gras a rhinwedd
Ac arno ef, sy'n ffynnon o bob dawn,
Mi goda'm llef, hwyr, boreu, a phrydnawn.

3 O Iesu gwiw! golch fi o'm pen i'm traed, [ddwyfol waed;
Trwy rinwedd pur dy werthfawr
Rho heddwch im rhag euog, ofnus gur,
A llanw fi â'th anian santaidd, bur.

4 Fy Iesu, mae dyferyn bach o'th hedd,
Mewn byd o boen yn beraidd hyfryd wledd; [hâd,
O'r nefoedd fydd i'w hyfed mewn mwyn-
Fel melys win, yn hyfryd dŷ ein Tad!
T. J.

496. *Dymuniad yr annheilwng.*

10au.—Erfyniad. Griddfaniad.

RHYFEDDU'r wyf, a mawr ryfeddod yw, [ryw;
Fy ngharu erioed, y gwaela' o ddynoi-
Cael yn dy dŷ, o fewn ei furiau, le,
Ac enw gwell nag enwir is y ne'.

2 Duw, attal di rwysg fy meddyliau ffol,
A dena'm serch a'm calon ar dy ol;
Yn holltau'r graig dod im ymgeledd glyd,
Mewn tawel hedd, nes myn'd o'r anial fyd. AN.

497. *Dymuniad am fod yn ffrwythlawn.*

10au.—Erfyniad.

GWNA fi fel pren planedig, O fy Nuw!
Yn tr ar lan afonydd dyfroedd byw:
Yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo nwy. [glwy'. A. G.
Yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol

498. *"Pobpeth er daioni."*

10au.—Griddfaniad.

TERFYSGU'r wyf dan flinder llawer loes,
Dych'mygion gau, a griddfan dan y groes; [ben,
A'm Iesu'n fwyn yn dwyn ei waith i A phob rhyw beth 'nol arfaeth nefoedd wen. AN.

499. *Gweddi am bresennoldeb Crist.*

10au.—Emyn Hwyrol.

TRIG gyda mi, fy Nuw, mae'r dydd yn llei; [crymhoi;
Cysgodau'r hwyr o'm hamgylch sy'n
Dillana nerth y deiseur hon a'i lori;
Cynnorthwy'r gwan, O! aros gyda mi.

2 Yn brysio at ei derfyn mae fy nydd,
Mwynhâd y byd a'i barch yn cilio sydd; [Tydi,
Yn wyw a gwael try pob peth; ond
Y Digyfnewid, aros gyda mi.

3 Nid digon gair, na brysiog wel'd dy wedd, [hedd,
Ond gwna dy drigfan gyda mi mewn
Yn ostyngedig, addfwyn, gyfaill cu,
Nid fel ymdeithydd, aros gyda mi.

4 Byddyma: nid fel Brenin i greu braw,
Ond mewn llawn hedd, a doniau yn dy law,
O ras yn llawn, a chalon at bob cri,
Tyr'd, Ffrynd troseddwyr, aros gyda mi.

5 Ti wennaist arnaf yn moreuddydd oes,
Tra'r oeddwn i'n wrthnysig iawn, a chroes,
Yn ffyddlon buost, er im d'adael di;
I'r diwedd, Arglwydd, aros gyda mi.

6 Rhaid im gael gwel'd dy wedd bob awr heb ball,
Beth ond dy ras a faedda rym y fall?
Pwy'm deil i'r lan, a'm harwain, fel Tydi?
Yn mhob rhyw dywydd aros gyda mi.

7 Nid ofnaf ing, na gelyn, nac un gwae,
Os caf, fy Nuw, yn unig dy fwynhau;
Pa le mae angeu? P'le mae'r erchyll fedd? [wedd.
Gorchfygaf hwynt trwy rin dy nefol

8 Rho wel'd dy groes yn yr Iorddonen gref, [nef;
Trwy'r niwl cyfeiria'm golwg tua'r
Tyr gwawr y nef, cysgodau'r hwyr a ffy,
Wrth fyw, wrth farw, aros gyda mi

500. *Crist yn fwy na'r byd.*

10au.—Clod. Coburg.

MI rown y byd, ac oll sydd ar y lawr,
Am dy fwynhau un fawr [awr:
Mae gloyw amrin lawer mwy na'r wyl
Na llawnder trysor yn yr India bell.

2 'Dyw coll'r ddae'r dirmyg oddiwrth i mi mwy, [glwy':
Pan gefais brawf o'i nefol farwol
Mae yma drysor nad oes dan yr haul,
O dde i ddwyrain bell i'w gael o'i ail.

3 Ffarwel, ffarwel i welaf is y ne',
Ond im gael Duw yn unig yn eu lle;
Mae fy nymuniadau yn [illegible]
Heb ddim yn eisieu, ynddo ef ei hun.

4 Ef wyf am gael, ef wy'n ei g[illegible] o hyd, [yd;
Trwy bob rhyw dwrf a dwndwr yn y
Mi [illegible]
Derfysgu f'enaid, yn ei farwol glwy'.

5 'Does dim foddha fy nymuniadau mawr,
O eitha'r nen i eitha'r ddaear lawr;
Maith annherfynol fy serchiadau yw,
Ni [illegible]
Duw.

6 Pa'm 'rwyt, fy Nuw, fy ngobaith i i gyd. [c'yd?
Yn sefyll draw amserau meithion
O! attro, [illegible]
Ag sydd yn beraidd i mi yn dy le. w.

501. *Ymffrostio yn Nghrist.*

10au.—Coburg. Clod.

DARFYDDED són am hael[illegible]
[illegible] yn;
Fe dawdd yn llwyr o flaen cyflawnder
Yn nghlwyfau'r Oen ymffrostia f'enaid tlawd, [Frawd.
Daeth trefn y nef â'r Iesu i mi'n

2 Ar dir na mór ei debyg, gwn, nid oes;
Seraphiaid pur ni thraethant byth mo'i oes; [gwae,
Dringo a wnaf, trwy nerth ei ras, o'm
Nes caffwy'n glir ei weled fel y mae.

AS.

502. *Hiraeth am y dydd.*

M. H.—Beza. Mamre.

O! DEUED iachawdwriaeth grasol
A'i hael drysorau mawr i maes;
Cymmer allweddau'r nefoedd faith,
A [illegible]r carchar tywyll, caeth.

2 'Rwy'n riwsian, 'rwy'n rhwym, a'r
Unig lwybr i mewn [dwy'r
Sydd yn fy nghalon'n llesg i lawr;
Y lleaf rudd o oreu'r dydd
A ddettyd f'enaid bach yn rhydd.

3 Pe cawn fy nhraed ar sanctaidd dir,
A gwel'd fy [illegible]
Gelynion fyrdd, [illegible]
Y cryfaf ún o honynt hwy.

4 Er llwfrhau, mi bïa'r dydd,
Marwolaeth Iesu'n fywyd sydd,
A phoenau'r groes—anfeidrol rin,
Sy'n ddigon trech nag angeu 'i hun.

5 Mae lleiaf loes Iachawdwr drud
Yn llawer mwy na beiau'r byd,
Un dafn gwaed, un dwyfol glwy',
Sy'n drymach na'u heuogrwydd hwy.

6 Wel f'enaid, bellach, tyr'd yn mlaen,
A dechreu'th baradwysaidd gân;
Aberthwyd pasc, tywalltwyd gwaed,
Fe gliriwyd ffordd i dŷ fy Nhad. w.

503. *"Na ŏd un eiddil gwan."*

M. H.—Leipsic. Brynteg.

ANWYLAF wrthddrych f'enaid drud,
Fy holl hyfrydwch yn y byd,
Na 'nad â mi, un eiddil gwan,
Sy'n teimlo'th eisieu yn mhob man.

2 O! aros yma 'ngwres y dydd;
Fy nghystudd yn chwanegu sydd;
Yn griddfan 'rwyf o dan y groes,
Aros nes ffoi cymmylau'r nos.

3 Aros nes codi'r seren sydd
Yn arwain hyfryd oleu'r dydd,
A chodi'r haul oleuwen glir
Sy'n dangos bryniau Salem dir. w.

504. *Ymbiliau y pererin.*

M. H.—Leipsic. Golgotha.

PERERIN wyf mewn anial dir
Sychedig am gysuron gwir;
Yn crwydro f'amser a llesgau
O hiraeth cywir dy fwynhau.

2 Haul y Cyfiawnder disglaer, cu,
Tywyna trwy bob cwmmwl du;
O dan dy esgyll dwyfol mae
Y Balm o Gilead sy'n iachau.

3 Mae gras yn rhyw anfeidrol stôr,
A doniau ynot fel y mór;
O! gad i druenusaf ddyn
Gael profi gronyn bach o'i rin.

4 Ac os bydd i ti faddeu 'mai,
Ac o f'archollion fy iachau,
Dy glod, dy ras, a'th enw gwiw
Gaiff fod fy mhleser tra fwyf byw. w.

505. *Ffordd y ffyddloniaid.*

M. H.—Lancaster. Caernarfon.

I'R nefoedd fry 'r aeth Iesu gwiw,
Ynddo gobeithiodd Israel Duw,
Palmantodd ffordd i'r enaid blin
O'r ddae'r i fyny ato'i hun.

3 Y ffordd yr aeth prophwydi 'mlaen,
A'r mil myrddiynau fu'n y tân;
Swn torf aneirif eilwaith cawn
Ni glywed arni'n beraidd iawn.

4 Ffordd sanctaidd, bur, heb och na
Nas teithia neb annuwiol rai; [gwae,
Gormesol ddyn 'rhyd hon ni ddaw,
A llew nis dring i'r nefoedd draw.

4 Y pererinion glewion, glân,
Nid ofnant byth na dwr na thân,
Dieithriaid ar y ddaear ddu
Sy'n teithio tua'r Ganaan fry.

5 A phe ynfydion fyddent hwy,
Ni chaent ddim cyfeiliorni mwy;
Hwy ánt yn mlaen, trwy rin y gwaed,
Nes dod dan wlith yr hyfryd wlad. W.

506. *Bywyd y pererinion.*

M. H.—Crocososwallt. Sebastian.

TRAFAELWYR ym i'r Ganaan glyd,
Llesg bererinion yn y byd;
Ni glywsom lais yn gwawdd i'r nef,
I gael teyrnasu gydag ef.

2 Pa beth all mwyach ddwyn ein bryd,
Na'n denu i aros yn y byd?
Ein hiraeth ni a'n syched yw
Cael myn'd i'r lan at deulu Duw.

3 Ymdrechu wnawn, trwy nerth ein
Nes cael y wisg a'r goron wiw, [Duw,
O law'n gelynion fyn'd yn rhydd,
A chael yr uchel gamp a'r dydd.

4 Rhedwn ar frys, mawr yw y fraint,
Y nef yw diwedd gyrfa'r saint;
Er maint yw'r llid, par'tow'd ein lle
Yn mynwes Naf o fewn i'r ne'. W.

507. *Hyder y pererin.*

M. H.—Leipsic. Melindwr.

PERERIN wyf tua Salem bur,
Ddiangodd maes o'r Aiphtaidd dir:
Rho nerth, fy Nuw, i deithio 'mlaen,
Nes dod i mewn i'r Ganaan lân.

2 Gelynion taer sydd o bob tu,
Fel câd, am rwystro'm henaid cu
I weled gwedd fy Iesu gwiw,
A'theimlo'th nefol hedd, fy Nuw.

3 O Iesu da! na ad mo'th waith
Nes myn'd yn llwyr a'm henaid llaith
O'r amal fyd at nefol lu
'R concewerwyr yn Nghaersalem fry.

4 Mewn hyder llydd im af yn mlaen,
Trwy rwystrau mawr o ddwr a thân;
O ddydd i ddydd, trwy rin y gwaed,
Caf sathru pechod dan fy nhraed.

5 Mi ddof yn hyf i ben fy nhaith,
Gorphena'n wir fy llafur waith;
Trwy goncro caf fyn'd at fy Nuw
I gael y wisg a'r goron wiw. W.

508. *Dydd ymddattodiad yn nesau.*

M. H.—Lancaster. Sebastian.

YN ddistaw disgwyl, f'enaid prudd,
O'r diwedd daw, nesau mae'r
Pan caf roi naid i'm nefol nyth, [dydd
Lle byddaf byw yn berffaith byth.

2 Mi flinais fod mewn anial fyd;
Am fyn'd 'rwy'n glau i'm cartref clyd,
Lle'r aeth o'm blaen i Frenin ne',
Ac yn ei lys gwnaeth i mi le;

3 Lle na bydd brad im mwy, na briw,
Nac wylo i neb yn nhŷ fy Nuw;
Ond gorphwys byth mewn gwledd
Gan edrych ar y nefol Oen. [ddiboen,

4 Taw, f'enaid! nid yw'r ffordd yn faith
I dŷ fy Nhad, i ben fy nhaith;
Bydd foddiawn! cai, fy enaid cu,
Nofio yn frau i'r nefoedd fry.

5 Ar fyr bydd lle im uwch y llen, [wen—
Caf ddedwydd wawdd i'r nefoedd
Angylaidd wledd mewn nefol wlad
O fanna tŷ fy Nuw a'm Tad;

6 Lle bydda'i 'mhlith y sanctaidd lu
Yn seinio cân i'm Harglwydd cu:
Yn berffaith lân, heb bechod mwy,
Oll yn gyffelyb iddynt hwy. W.

509. *"Chwyth ar fy ngardd."*

M. H.—Leipsic. Melindwr

O! TYRED, y gogleddwynt clir,
Anadla ar dy lysiau pur;
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
Fe wywa'r grasau oll i gyd.

2 Tyr'd â'r awelon hyny i lawr
Sy'n deffro'r arg'oeddiadau mawr;
Tyr'd dithau, y deheuwynt clyd,
Sy'n codi'n henaid uwch y byd.

3 Doed pob awelon yn eu lle
I godi'm hysbryd tua thre': [ddawn,
Gwnaed pob rhyw foddion, pob rhyw
I'th lysiau berarogli'n iawn.

4 Fel byddo pob rhyw nefol ras
Yn taenu arogl pur i maes;
A phob tymmerau yn eu rhyw
Oll yn groesaw i f'anwyl Dduw.

5 O! tyr'd i'th ardd, f'Anwylyd pur,
Mae'r amser hebot yma'n hir;
Bwyta dy ffrwyth o nefol rin,
Pereiddiaf blenaist ti dy hun. W.

510. *"Ei law aswy sydd dan fy mhen."*

M. H.—Boston. Lancaster.

FY Iesu, Pen tywysog nef,
Nid oes gyffelyb iddo ef;
Cael huno yn ei gariad drud
Sydd fil o weithiau'n well na'r byd.

3 Mae ei law aswy fawr ei grym
O dan fy mhen, nid ofnaf ddim;
Ei ddeheu law sy'n fy mawrhau
A phob cysuron pur didrai.

3 Ei bresennoldeb sydd yn dod
I mi â'r pleser mwya' erioed;
Ei allu mawr a'i gariad drud
Sydd yn gymdeithion i mi o hyd.

4 Wel, dyma f'enaid wedi dod
I'r man dymunais ganwaith fod,
I gael mwynhâd o'i gariad ef,
Arfaethwyd cyn sylfaenu'r nef.

5 O groesaw! groesaw, nefol rodd,
'Does arall bellach wrth fy modd,
Ond cael bod yn dy freichiau mwy,
A chanu am dy farwol gliwy'. W.

511. *Hiraeth am fwynhâd o Dduw.*

M. H.—Leipsic. Golgotha.

O ARGLWYDD! gad im dy fwynhau,
Ac onid ê 'rwy'n llwfrhau;
Pa le y caf fi dan y ne'
Un math o gysur yn dy le?

2 Rhy drwm yw'm hofnau i gyd o'r bron,
Rhy drwm yw'r cystudd dan fy mron;
Ni wna fy ofnau ond parhau
Nes cael dy wyneb i'w fwynhau.

3 Pe cawn gysuron o bob rhyw
O fewn dy holl greadigaeth wiw
Os cuddio wnai dy wyneb cu,
Mae'n uffern eilwaith arnaf fi.

4 Fel disgwyl y gwyliedydd prudd,
O awr i awr, am oleu'r dydd,
Ac felly finnau, o bryd i bryd,
Sy'n disgwyl am dy wyneb pryd. W.

512. "*Gosod fi megys sel ar dy galon.*"

M. H.—Boston. Lancaster.

O IESU'r Archoffeiriad mawr!
Rho'm henw ar dy fraich i lawr;
Rho eilwaith, mewn llyth'renau clir,
Ef ar dy ddwyfron sanctaidd, bur.

2 Fel, pan ddel arnaf bob rhyw dro,
Fyth gallwyf fod o fewn dy go';
Na byddo arnaf unrhyw faich
Ond fyddo'n pwyso ar dy fraich.

3 Na bo na phoen, na chystudd mwy,
Na phrofedigaeth fyth, na chlwy,
Na dim o'chneidiau, na dim cur,
Ond pwyso ar dy galon bur.

4 Fel gallwyf fyth yn sicr fod
Yn briod ffyddlon dan dy nod;
Ac na bo unrhyw ofn mwy
Yn ddirgel yn rhoi i mi glwy'.

5 A gwna i'm cariad innau'n rhydd
I redeg atat ti bob dydd;
A gwisgo'th enw sanctaidd, llon,
Fel seren ddisglaer ar fy mron.

6 A dod fy nghalon wâg yn llawn
O'th gariad peraidd, foreu a nawn;
Car dithau finnau yn ddidrai:
A'r undeb hwn byth fo'n parhau. W.

513. RHAN II.

Yr Hen 100fed. Croesoswallt.

'Tl'r Archoffeiriad mawr ei ddawn,
Sydd o bob rhyw rinweddau'n llawn,
Gwna fi fel perlau gwerthfawr drud,
Yn fawr, yn anwyl, yn dy fryd.

2 Dy briod wyf, ac 'rwyf yn wan,
Dy unig nerth a'm dêl i'r lan;
Dy nerth a'th gariad, dyna hwy,
Nid ofnaf ddim gelynion mwy.

3 Mi ddringa'r creigydd mawrion serth
Mi gongcraf Satan trwy dy nerth;
'Dyw eirth a llewod i mi'n ddim
Pan bo dy freichiau i mi'n rym.

4 Os bydd dy galon gynnhes, gu,
Unwaith yn caru'm hysbryd i,
'Does gofid bellach, nid oes gwae;
Fath nefoedd ydyw dy fwynhau! w.

514. "*Cariad sydd gryf fel angeu.*"

M. H.—Mamre. Lancaster.

ANFEIDROL felus yw dy hedd,
A chryf yw'th gariad fel y bedd:
Lle ceri di, 'does dwr na thân.
Nac unrhyw rwystr saif o'th flaen.

2 Rhyw fflam angerddol, gadarn, gref,
O fewn i'm hysbryd ydyw ef;
Gwreichionen yw, mawr iawn ei rhin,
O'r fflamau sy ynot ti dy hun.

3 Ac er nad ydwyf fi ond gwan,
Ar ei adenydd af i'r lan;
Neu huno mewn awelon pur,
A rhoi ffarwel i'r anial dir.

4 Anghofio'm cnawd, anghofio'r byd,
Anghofio'm holl deganau i gyd;
Ac wrth fyfyrio ar dy hedd,
Anghofio angeu glas a'r bedd.

5 Mae'th gariad, gwerthfawrocaf, drud.
Yn fwyd, yn ddiod, i mi o hyd;
Mae'n gwmni, mae'n llawenydd llawn,
Mae'n bob peth i mi, foreu a nawn. w.

515. *Iesu yn unig wrthddrych cariad.*

M. H.—Boston. Melcombe.

NID oes un gwrthddrych yn y byd
Sydd deilwng o fy serch a'm bryd.
Mae tynfa f'enaid canaidd, cu,
At drysor tragwyddoldeb fry.

2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn,
Ni fyddai hyn ond gofid blin
Heb gaffael heddwch Duw ei hun.

3 Wrth fyned trwy borth angeu du,
Dan ymladd â gelynion lu,
Ni thycia cyfoeth, bri, na gwaed,
Na brawd, na phriod, mam, na thad.

4 Wel, Iesu garaf, yn ddi-lai,
Efe a'm gwared i o'm gwae;
Fy Mhriod hynod yw o hyd,
A'm Cyfaill goreu yn y byd.

5 Duw yw efe i'm dwyn yn mlaen
Trwy ddyfroedd mawr a fflamau tân;
O'r nefoedd fry rhydd i mi nerth
I ddringo creigydd mawrion serth.

6 Pan syrthia'r sêr fel ffigys ir,
Pan berwo'r môr, pan losgo'r tir,
Pan dröer yr haul a'r lloer yn ddu,
Pryd hyn mi gara' Mhrynwr cu.

7 Doed fel y dêl, fe'i cara' o hyd
Dan bob rhyw drallod yn y byd;
Yn nydd y farn, yn angeu chwith,
Fe'i caraf yn y nefoedd byth.

8 Er temtasiynau filoedd myrdd,
Caf delyn aur a phalmwydd gwyrdd,
A gwisgo'n gysson goron gun
Rydd ar fy mhen â'i law ei hun. W.

516. *Hawddgarwch yr Iesu.*

M. H.—Kent. Rockingham.

'RWYF yn dy garu, f'anwyl Dduw,
Yn well na phleser o bob rhyw;
'Rwyf yn dy garu, dyna i gyd
Fy holl ddiddanwch yn y byd.

2 Nis gallaf ddwedyd yn mha fodd
Yr wyt ti'n ddigon wrth fy modd;
Dadguddir y dirgelwch pur
Yn hollol yn y nefol dir.

3 Pan ddysgwyf 'nabod iaith y wlad,
A phur ganiadau tŷ fy Nhad,
Dechreuaf gân am farwol gliwy',
Na chlywir diwedd arni mwy.

4 Can's mae dy harddwch, Iesu mawr,
Yn fwy na harddwch nef a llawr;
A harddach, harddach fyth o hyd
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.

5 Yn mhen rhyw oesoedd rif y gwlith,
Fe'th wêl y saint yn harddwch byth;
A blas o newydd iddynt hwy
Fydd canu am dy farwol gliwy'. W.

517. *Gweddi dan deimlad o wrthgiliad.*

M. H.—Leipsic. Golgotha.

DYMA fi, Arglwydd, wrth dy draed,
Yn teimlo eisieu rhin dy waed;
Yr wyf yn dlawd; a phwy a wyr,
Ond ti dy hun, fy eisieu'n llwyr?

2 Gwrthgilio wnes, gwrthgilio 'rwy',
Os heb dy nerth, gwrthgiliaf fwy;
'Rwy'n blino ar deganau'r byd,
A'u caru 'rwyf er hyny i gyd.

3 O Iesu! fy Eiriolwr mawr,
Nid felly caf fy meiau i lawr;
Pam 'rwyt ti cyd yn sefyll draw?
Bryd gwelwyd mwy o eisieu'th law?

4 Claf wyf am deimlo gwaed yr Oen,
Yn rhodio beunydd mewn rhyw boen;
'Does unrhyw eli rydd iachâd
Yn unig, Iesu, ond dy waed. W.

518. "*Yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder a nerth.*"

M. H.—Boston. Sarum.

FY unig gysur dan y ne',
Fod Iesu'n sefyll yn fy lle,
Yn dwyn fy meichiau bob yr un,
A'u rhoi ar ei ysgwyddau'i hun.

2 Anfeidrol gadarn yw dy fraich;
Dim pwys i ti, er maint fy maich:
Gynt ar y groes dioddefaist lid,
A phwysau holl bechodau'r byd.

3 Nid wyf ond gwan, O! na'd fi lawr,
Dan bob rhyw drallod, fach a mawr;
Mi bwysaf arnat tra ynwyf chwyth;
Yr wyt yn ddigon, digon byth.

4 Nerthaist dy blant—O! faint dy ras!
Er gwaned oent, i gario'r maes;
Pa faint yn llai a fydd dy rym
Trwy estyn braich o gymmhorth im?

5 Fy ngharu wnest, er maint fy mai,
A'm galw o blith annuwiol rai;
'B'le dof fi bellach am iachâd
A nerth i goncro ond at fy Nhad? w.

519. *Gweddi mewn llesgedd.*

M. H.—Boston. Sarum.

CREAWDWR doeth y ddaear lawr,
Ffurfafen las, a'r nefoedd fawr,
Edrych o rhwng y sêr i'r byd
Yr wyt ar feibion Adda i gyd.

2 Minnau a weli 'mhlith y llu
Sy â'u hwyneb ar y nefoedd fry,
Am deithio 'mlaen i'r nefol fyd,
Y llesga' o bonynt oll i gyd.

3 Y gwanaf wyf, y rheitin' i ddwyn,
O'r defaid gwirion, ac o'r wŷn;
A diau yw'r arosaf 'nol.
Oni chwyd y Bugail fi yn ei gôl.

4 'Does enw foddia'm henaid trist
Ond enw hyfryd Iesu Grist;
Wel dyma'r gwir, ni feddaf un
Rhyw ddinas noddfa ond dy hun. W.

520. "*Na ofelwch dros dranoeth.*"

M. H.—Leipsic. Melindwr.

O ARGLWYDD! dwêd i mi pa lun
Y gallaf gario 'meichiau f'hun;

Mawr ydynt hwy, a mi sydd wan;
Pa fodd y coda'i 'r lleia' i'r lân?

2 D'ysgwyddau di ddeil feichiau mawr,
Arnynt mae'n hongian nef a llawr;
Am hyn, fy holl ofidiau i
Gant bwyso'n gyfan arnat ti.

3 Pa ham gofala'm henaid mwy?
Na wna: edrychaf i fyny, pwy
Yw'r hwn sy'n awr yn entrych ne'
Yn trefnu'r cwbl yn fy lle?

4 Mae'r holl greadigaeth yn ei law;
Ef sy'n ei threfnu, yma a thraw;
I ddadgan ei anfeidrol glod
Mae pob rhyw drefn ag sydd yn bod.

5 O! nertha f'enaid gwan ei ffydd
'Roi' i ofal arnat ti bob dydd;
Heb flino ynghylch amseroedd draw
Y rhai fe allai byth ni ddaw.

6 Taw, f'ysbryd, paid a chrwydro'n hwy,
Oddi wrth yr hwn a'th gâr yn fwy
Na'r holl wrthddrychau gwael i gyd
Sy am lanw'm meddwl yn y byd. W.

521. *Pwyso yn gwbl ar Grist a'i ras.*

M. H.—Rockingham. Angels'Hymn.

O IESU, 'r Brenin mwya'i fraint!
Unig hyfrydwch yr holl saint,
Holl obaith, nerth, a noddfa glyd
Dy ddefaid gwirion yn y byd.

2 O! edrych rhwng y sêr i lawr
I eithaf dyfnder moroedd mawr,
Cai yno wel'd fy ysbryd gwan
Yn griddfan yn y dyfnaf fan.

3 Am nofio i fyny'n fawr fy mryd
Uwch law y ffrwd a'r tonau i gyd;
Ymdrechu'n lân, ond ffaelu'r wy',
Ac wrth ymdrechu'n soddi mwy.

4 'Rwy'n gwel'd mai nerth fy enaid
Yw bod yn llonydd yn y fan, [gwan
A gado i'm Iesu gario'n lân
Y gwaith ddechreuodd yn y blaen.

5 Rhaid i ti'n rhad roi'r cwbl im',
Ni feddaf werth, na nerth, na grym;
'Nol rhoddi, eilwaith trefnu'm gras
'Mhob brwydr cyn'r ennillwy'r maes.

6 Myrddiynau maith orchfygaist ti
O elynion hyll ar Galfari;
'Rwy'n pwyso ar dy allu mawr
'Roi'm holl elynion innau i lawr. W.

522. *Nerth mewn cymdeithas â Duw.*

M. H.—Babilon. Brynteg.

TRA yn dy gwmni, f' Arglwydd mawr,
'Rwyf wrth fy modd bob munyd awr:
A blino 'rwyf, fy Nuw, o hyd,
Yn nwndwr ac yn nhwrf y byd.

2 Iach wyf pan byddwyf yn dy ŵydd,
A'm henaid yn dy foli'n rhwydd;
Tra yma'n byw, Duw, gwna fy lle
Yn agos iawn at borth y ne'.

3 A dyro im dy gwmni o hyd
Tra rhaid im aros yn y byd;
Diddana fi mewn anial dir
A ffrydiau o ddiddanwch pur.

4 Gad i mi wel'd mai ti yw'm rhan,
Gad i mi'th ganfod yn mhob man,
Gad i mi'n wastad blygu i lawr
I'th lân ewyllys bob yr awr. W.

523. RHAN II.

DAL fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi lle 'rwy'n wan
Dal fi yn gryf nes myn'd i maes
O'r byd sy'n llawn o bechod cas.

2 Gwna fi'n gyfoethog yn mhob dawn;
Gwna fi fel halen peraidd iawn;
Gwna fi fel seren oleu, wiw,
'N disgleirio yn y byd 'rwy'n byw.

3 Dysg fi mewn gorthrymderau trist
I bwyso ar f'anwylaf Grist;
Dysg fi, wrth fyn'd o'r byd i maes,
I gario'r dydd ar angeu glas.

5 Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd
I ddweyd a gwneuthur wrth dy fodd;
Dysg fi ryfela â'r ddraig heb goll,
A dysg fi i goncro 'mhechod oll.

6 Tra caffwyf rodio'r ddaear hon,
Rho'th hedd fel afon dan fy mron;
Ac yn y diwedd, moes dy law [w.
I'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw.

524. *Rhyfeddod y credadyn.*

M. H.—Melcombe. Beza.

RHYFEDDU'r wyf, O Arglwydd cun!
I ti fy ngalw erioed yn un
O dorf yr annuwiolion sy
Yn lliwio'r ffordd tuag uffern ddu.

2 Dwed p'le mae'm bath a gafodd ras
Wedi ymdroi mewn pechod cas?
A welir un yn Salem fry
Wrthgiliodd ganwaith fel myfi?

3 Pan gwelwy' f'hun yn ngoleu gras,
A gwel'd pwy wyf, b'le des i maes,
Mae'm tafod hyf yn myn'd yn fud,
A minnau'n gwaeddi, Gras i gyd!

4 Hyd yma arweiniaist fi yn rhodd,
Nis gwn pa ham, nis gwn pa fodd;
Ni fedrai neb ond ti, yn wir,
Fy arwain trwy'r fath anial dir.

5 'Doedd neb ddaliasai'm henaid gwan
I ddringo creigydd mawr i'r lan,
A myn'd trwy lynoedd dyfnion, chwith,
Lle boddodd mil heb godi byth.

6 Wel, etto ! elpia f'enaid gwan,
Nes dod o'r moroedd oll i'r lan,
A chael fy nhraed ar sanctaidd dir
O fewn i gaerau'r ddinas bur.

7 Yn fynych, fynych, Iesu cu,
Dadguddia'th fod yn eiddo i mi:
Mewn stormydd mawr yn wastad gad
Im ddysgu llefain, Abba, Dad. W.

525. *Llawnder yn Nghrist.*

M. H.—Kent. Yr Hen 100fed.

DYMA gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
Myfi yn dlawd, heb feddu dim,
Ac yntau'n rhoddi pob peth im.

2 Y bywyd 'rwyf yn awr yn fyw
Sy'n llawn hapusrwydd o bob rhyw;
Hapusrwydd yw, O ! dwedwch pwy
A w ddiwedd arno mwy ? W.

526. *Hiraeth dan dywyllwch.*

M. H.—Leipsic. Menai.

O FUGAIL doeth yr Ismael hâd !
Awdwr fy inchawdwriaeth rad,
Rho i mi nerth i fyw o hyd
Yn ddiargyhoedd yn y byd.

2 Erglyw a gwel, mae f'enaid gwan
Mewn anial le am ddod i'r lan,
Fel un dyeithr draw o bell
Yn codi gwaedd am ddinas well.

3 Gofidiau helaeth o bob rhyw
Sydd yn y byd 'rwy'n awr yn byw;
Pa bryd caf ddod i lawenhau
Lle nad oes gofid mwy, na gwae ?

4 Hiraethus wyf am ddod i blith
Cyfeillion gâr fy nghalon byth;
Hiraethu wnaf dros ddyddiau mwy,
Nes cael mwynhau'u cymdeithas hwy

5 Er myn'd yn awr dan gwmmwl du,
Yn methu gwel'd fy nghartref fry,
Cof geny'r pryd, y man, a'r lle,
Ces oglur olwg draw i dre'.

6 Tro etto 'ngolwg at y gwaed,
A maddeu 'meiau oll yn rhad;
O ! tyred, Iesu, rhwyga'r llen [wen,
Sydd rhyngwy'n awr a'r nefoedd

7 Tyred, fy Nêr, na ad fi yn ol,
Cod f'enaid cu fel yn dy gol;
Rho i mi nerth i ddod i'r lan, [w,
A dweyd yn rhydd, "Ti yw fy rhan."

527. *Gobaith bod yn rhydd.*

M.H.—Rockingham. Croesoswallt.

PA ham yr ofna'm henaid cu
I lanio i'r hafan hyfryd fry ?
On'd oes mil myrdd, heb aeth na braw,
O frodyr i'm croesawu draw ?

2 Os caf, bechadur, fyned fry,
Yn iach o'm briw i blith y llu
Sy â'u gwisgoedd hardd fel eira gwyn,
Yn canu fry ar Seion fryn;

3 Fy llais a glywir uwch y llen
Yn adsain yr holl nefoedd wen,
Yn mhlith y dorf bwrcasodd gwaed,
Ag enaid rhydd yn gwaeddi, "Rhad !"

4 Wrth feddwl am yr hyfryd fraint
O feddi'm swn yn mhlith y saint,
Mae'm henaid am ymgodi'n lân
I'r nefoedd fry mewn fflam o dân. W.

528. *Nerth ffydd.*

M. H.—Yr hen 100. Croesoswallt.

FFYDD ydyw'm sier sail y daw
Yr hyn wy'n ddisgwyl oddi draw;
Fy nghadarn sierwydd yw, a'm nod,
O'r peth nis gwelodd neb erioed.

2 Trwy ffydd eheded 'rwyf yn hy'
I entrych awyr deneu fry,
Ac yno'n gwel'd gogoniant llawn,
Trwy sierwydd anllaeledig iawn.

3 Trwy ffydd, fy ngobaith, cadarn yw,
Fe'i seiliwyd ar gyfiawnder Duw;
Er maint yw llid a brad y ddraig,
Ni soddaf byth tra ar fath graig.

4 Trwy ffydd, 'dwy'n cyfrif fy holl waith,
Fy mhoen na'm dyledswyddau chw-
Ond colled, ac fel tom y byd; [aith,
Ar waed yr Oen 'rwy'n pwyso i gyd.

5 Trwy ffydd 'rwy'n cadw deddf fy Nuw,
Yn difa llygredd o bob rhyw;
A'r fath yw'r rhinwedd sy'n fy ffydd,
Mae'n puro 'nghalon nos a dydd.

6 Symmuda'm ffydd fynyddoedd im
O bechod ac euogrwydd llym;
Fe'i tafl i eigion môr yn wir—
Y môr o waed a chariad pur. W.

529. *Dymuniad y saint.*

M. H.—Lancaster. Mamre.

PE cawn adenydd boreu wawr,
Ehedeg wnawn dros foroedd mawr
Nes bod yn ngolwg Seion wiw,
Lle mae fy Mhriod i yn byw.

2 Gwyn fyd gawn rodio gyda Duw,
Fel Enoch ffyddlawn, tra fwyf byw;
Ehedeg wnawn o'r byd i maes,
Heb ofni briw yr angeu glas.

3 Yn Peniel 'rwyt, fy enaid, clyw,
Ymdrecha'n deg âg angel Duw;
Pwy wyr na chaf, cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr. W.

530. *Sicrwydd.*

M. H.—Beza. Lledrod.

RWY'n awr yn teimlo'r heddwch drud,
Er gwaetha'r cnawd, y ddraig, a'r byd;

'Rwy'n mynych brofi o'r hyfryd wledd
Sydd gan y saint tu draw i'r bedd.

2 'Rwy'n profi 'mod yn myn'd mewn hwyl
Tua'r man mae'r saint yn cadw gwyl;
Mae ar fy enaid seched mawr
Am wledda gyda hwy bob awr.

3 Mi wn yn awr, pwy bynag sy,
O'r ddaear, neu o uffern ddu,
Yn codi yn erbyn f'enaid gwan,
Caf gario'r dydd, mae Duw o'm rhan.

4 'Rwy'n gwybod beth yw byw trwy ffydd,
A rhodio yn nghariad Duw yn rhydd;
Mi wn ca'i 'm dwyn, o ras i ras, [cas.
Nes myn'd uwch cyrhaedd peehod

5 'Rwy'n credu 'nawr caf ras i fyw,
A gwneyd pob peth er clod i'm Duw,
Ac wedi gorphen hyn o daith,
Ca'i foli yn nhragwyddoldeb maith.w.

531. *Gwaith gras.*

M. H.—Beza. Eisenach.

BENDIGAID fyth fo'nghaw Duw,
Yr hwn wnaeth f'enaid marw'n
Ac a'm cyfododd fel o'm bedd [fyw,
I gael mwynhau ei ras a'i hedd.

2 Pan own yn gorwedd yn fy ngwaed,
Edrychodd Duw o'r nef yn rhad;
A dwedodd, "Yn dy waed bydd fyw!"
Rhof iddo glod—fy nyled yw.

3 Pan oedd euogrwydd, heb ddim hedd,
Yn mron a'm gwasgu yn is na'r bedd,
A'm holl bechodau'n codi'n llu,
Dadguddiodd Duw ei Fab i mi.

4 Pan oedd gelynion fwy na rhif
Yn curo arnaf fel y llif,
A finnau i'w holl saethau yn nôd,
Cynnaliodd Duw fi er ei glod.

5 Pan oeddwn mewn llifeiriant mawr,
Bron soddi'n lân bob munyd awr,
Heb wel'd cynnorthwy o un man,
Rhoes Duw ei law i'm codi i'r lan. w.

532. *Y cwbl yn rhad.*

M. H.—Melcombe. Beza.

O ARGLWYDD! 'r hwn sy'n maddeu
Yn rhad i'r edifeiriol rai, [bai
Fy unig hawl i'r nefoedd sy
Trwy'th angeu ar ben Calfari.

2 Rhyfeddu 'rwyf i'r coelbren ddod
A'r nefoedd wen i'm rhan erioed;
Os yno'r af, mi gara'r gwaith
O ganu i dragwyddoldeb maith.

3 Yn rhad y cês, yn rhad mae'n bod,
Bob peth a roddwyd i mi erioed;
Mae'r cwbl oll yn rhad i mi,
O'r ddaear hon i'r nefoedd fry. w.

533. *Hiraeth am burdeb.*

M. H.—Leipsic. Ceredigion.

GWEDDIO 'r wyf, och'neidio'n brudd,
Rhyfela'n deg am gael y dydd;
Lleng sydd o fewn, a thorf o faes,
O uffernol lu, am faeddu'm gras.

2 Pa bryd caf deimlo cariad rhad
I'm henaid gwan, a rhin y gwaed,
I'm gwneyd yn gryf yn erbyn grym,
Ac eithaf llid gelynion llym?

3 Bryd cai'm glanhau o'm pen i'm traed,
Mewn grisial for o werthfawr waed?
Iacha fy mriwiau, dyfnion ynt,
A gefais yn Mharadwys gynt.

4 Rho win ac olew yn fy mriw,
Gwisg fi yn deg ar ddelw Duw;
Par'to fi i fyn'd i blith y llu
Sy'n ddisglaer yn y nefoedd fry. w.

534. *Nerth o Dduw.*

M. H.—Beza. Melcombe.

MI af yn mlaen, er pelled yw,
I'r wlad 'rwyf am fyn'd iddi i fyw;
O'r diwedd tiria'm henaid gwan
O ddyfnder moroedd mawr i'r lan.

2 Anialwch mawr, mi aethum trwy,
Pa ham y digalonaf mwy?
Yr hwn a'm nerthodd hyd yn hyn
A'm dwg i'r lan i ben y bryn.

3 Er i mi, do, wrthgilio'n wael,
A cholli'r heddwch, wedi ei gael,
O Dduw! iacha fi, câr fi'n rhad,
A chana'm henaid yn dy waed.

4 Os na chaf dy gymdeithas wiw,
Mae'n nifern yn y byd i fyw;
'Does bleser dan y nef, pe cawn,
All lanw'm calon oll yn llawn.

5 Can mil o weithiau gwyn fy myd
Pe cawn orchfygu 'meiau i gyd,
A bod yn bur, o fewn, o faes,
A darfod son am bechod cas. w.

535. *Maddeuant i un wedi gwrthgilio.*

M. H.—Babilon. Spires.

NID yw fy nyddiau yn y byd
Ond megis dyrnfedd gron i gyd;
A darfod maent, nis gwn pa lun,
Wrth bechu'n erbyn Duw ei hun.

2 'Rwy'n profi 'meiau, fawr a mân,
'Nawr am fy nigaloni'n lan;
Eu rhif, eu nerth, ynghyd â'u lliw,
A wnaeth fy nghalon drwyddi'n friw

3 Maddeuaist ganwaith, maddeu hyn,
O Arglwydd! cána fi etto'n wyn;
Rho i mi dyst, f'Anwyliyd cu,
I'm clirio yn y nefoedd fry.

4 Gwn mai rhinweddol yw dy waed
I ddadleu'm hawl o flaen y Tad,
A chlirio'm ffordd at orsedd gras,
A blotio 'meiau mwya'i maes.

5 'Rwy'n gwel'd mai ofer yw fy ngrym,
Na thâl fy addunedau ddim;
Pechadur wyf, fy Nuw a'i gwyr,
'Nawr wedi colli ei nerth yn llwyr.

6 Pa ham y dest o'r nefoedd fry
Ond i orchfygu uffern ddu?
Cyflawna'th waith, a gwna dy ran
Yn fuan ar fy enaid gwan. W.

536. *Cwbl yr enaid yn Nghrist.*

M. H.—Winchester Lledrod.

TYDI, fy Nuw, tydi i gyd,
Yw'r cwbl feddaf yn y byd;
Yr wyf ti'n well
Na'r India bell a'i pherlau drud.

2 O fewn i'r anial dyrys, maith,
Yn disgwyl hyfryd ben fy nhaith,
'Rwy'n gwel'd yn wir
Yr oriau'n hir heb dy fwynhau.

3 Yn nyfnder pob rhyw drallod mae
Un radd o'th wedd yn llawenhau;
Diddanweh sy
'N dy wyneb cu sydd fwy na'r byd.

4 Mae'r funyd leiaf fach o'r awr
I garu fy lachawdwr mawr,
Yn well ryw ddydd
Na'r cwbl sydd o dan yr haul.

5 Aed heibio'm dyddiau bob yr un
Wrth garu'm Crëwr mawr yn ddyn;
Fy enaid cân,
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd. W.

537. *Byw yn ngolwg y nefoedd.*

M. H.—Angels' Hymn. Kent

PAN cuffwyf wel'd y nefol wledd,
A phrofi blas dy ddwyfol hedd,
'Rwy'n gwel'd gogoniant mwya'r byd,
Fel peth annheilwng o fy mryd.

2 Yn ngweledigaeth nefoedd fry
'Rwy'n prisio pethau'n werthfawr sy;
Pan yr agoro pyrth y nef
'Rwy'n canfod ei ogoniant ef.

3 'Rwy'n gwel'd dirgelion yn ei waed
Na chafwyd etto mo'u mwynhâd;
Gras a gogoniant, ynddo'i hun,
Uwch law erioed feddyliodd dyn.

4 Wel, dyma'r unig fan, fy Nuw,
Dymunaf aros tra fwy' byw;
Blaen ffrwyth yw hyn o'r hyfryd wledd
Gaf ei mwynhau tu draw i'r bedd.

5 O! boed fy nghlustiau'n gwrando o
Ddirgelion distaw nefol fyd, [hyd
A'm pleser unig ddydd a nos,
Yn nwfn wirioneddau'r groes. W.

538. *Prawf o gariad Crist.*

M. H.—Babilon. Spires.

A RAID im rodio anial dir, [hir?
Trwy stormydd a thymhestloedd
Nid ofnaf ddim, doed dydd, doed nos,
Yn ngolwg hyfryd gwaed y groes.

2 Ni saif y gelyn mwya'i rym
Yn erbyn pen Calfaria ddim;
A phen Calfaria hyfryd mwy
Yw'r unig fan concweriaf hwy.

3 Pa ham caiff nwydau'm natur gref
I atal awel bur y nef?
Mae gradd yn well o'th gariad drud
Na'r ddacar fawr a'r nef i gyd.

4 Ni fedd y dwyrain faith na'r de
Bleserau fel pleserau'r ne';
Mae môr di-drai mewn marwol glwy'
Heb ddechreu ac heb ddarfod mwy

5 Rho i mi brawf o'th gariad drud,
I'r sawl a fynot dyro'r byd;
Dy gwmni dry, mewn munyd awr,
Y ddacar megys nefoedd fawr. W

539. *Myfyr am y gwaed.*

M. H.—Brynteg. Morafia.

O! TYR'D i ben, d lediy ddaf ddydd,
A gâd i'm hysbryd fyn'd yn rhydd;
Rho brawf, rho brawf ar frys i mi
O ddwyfol haeddiant Calfari.

2 Fel gallwyf rodio'n ddinacâd
Dan awel hyfryd rin y gwaed
A threulio'm hamser, ddydd a nos,
Mewn myfyr am dy angeu loes.

3 Ac na bo gras o fewn y nef
Na chaffwyf ran o hono ef;
A gwna na byddo genyf flas
Ond yn dy gariad a dy ras.

4 Fy lloches, a fy noddfa glyd,
Fo edrych ar dy wyneb pryd;
A'm hamser elo heibio'n llawn
Wrth ganu i'th cnw, foreu a nawn. W.

540. *Ymbil am burdeb.*

M. H.—Leipsic. Morafia.

AR fyr rhaid sefyll o dy flaen,
Fe brofir f'ysbryd gwan drwy dân,
Fe chwilir gwraidd pob nwyd a dawn,
Fe'm nithir, pwysir fi yn llawn.

2 Dy Ysbryd, fel y fflamiau pur, [glir,
Sy'n gwel'd fy nghalon drwyddi'n
Yn tremio i mewn, yn canfod bai,
'Does arall wyr y fan y mae.

3 O! trugarha, can's heddyw mae
Fy ngobaith oll mewn trugarhau;
Trugaredd lawn yn unig yw
A geidw f'enaid gwan yn fyw.

4 'Does ond rhyw faith anfeidrol ras
A'm dwg o'm holl bechodau i maes;
Nid oes ond haeddiant Duw yn ddyn
Rydd nefoedd bur i aflan un. W.

541. *Duw yn nerth.*

M. H.—Leipsic. Melindwr

PAN elwy'i maes yn erbyn llu,
Boed ar fy ne dy allu di;
Boed dy ddoethineb mawr dilyth
Drachefn ar fy aswy byth.

2 Fel gallwy'n wrol fyn'd yn mlaen,
Trwy ganol dwr, trwy ganol tân,
Ac edrych yn wynebau llu
Yn eon yn dy allu di.

3 'Does is y nef a ddeil i'r lan,
Ond ti dy hun fy ysbryd gwan;
Nerth yw dy air, mae'n fwy ei rym
Nag e.lir ei wrth'nebu ddim.

4 Mi af yn mlaen, er t'wylled yw,
Tua'r wlad 'rwyf am fyn'd iddi i fyw;
Fe god y wawr; addewid bur
Sy o wel'd fy nghartref cyn bo hir.

5 'Rwyn ofni'r bryniau uchel draw,
A'r ffosydd ar fy neheu law;
Ac nid oes ond dy Ysbryd Glân [w.
A'm harwain trwyddynt oll yn mlaen.

542. *Lloches yn mynwes Iesu.*

M. H.—Brynteg. Leipsic.

'DWYF ond pererin tlawd a gwan
I deithio o'r anial fyd i'r lan;
Am hyn, rho i mi lechu o hyd
Yn dawel yn dy fynwes glyd.

2 Pan bo euogrwydd tanllyd, llym,
Yn curo arnaf yn ei rym,
Dadguddia im drysorau gras
Yn ffrwd o'th ystlys ddaeth i maes.

3 O! gad im ffoi i'r noddfa glyd [byd,
Sydd uwch law uffern, uwch law'r
Dan gysgod y cyfammod rhad
A seliwyd gynt â dwyfol waed.

4 Wel dyma'r lloches ddedwydd iawn
Gaiff fod fy noddfa foreu a nawn,
Heb un difyrwch is y nef
Ond caru ac edrych arno ef. W.

543. *Yr un testyn.*

M. H.—Sebastian. Caernarfon.

'DOES dim ar wyneb daear lawr,
A eilw meibion Adda'n fawr,
A bwysa yn y glorian fry
Dragwyddol hedd fy Iesu cu.

2 A thyna'r cyfoeth roed i mi,
Anfeidrol drysor Calfari,
A brynwyd yno ar y groes
Trwy ddagrau cryf a chwerw loes.

3 O! gariad o anfeidrol ryw!
Rhaid marw'n lân o Iesu, 'm Duw;
'Doedd yn y nefoedd ronyn llai
A roisai daliad am fy mai.

4 Wel, minnau bellach wnaf fy nyth
O dan ei aden dawel byth,
Ac mi adawaf is y ne'
Bob peth yn anghof ond efe.

5 Cymmeraf fy nifyrwch mwy
Fyfyrio ar ei ddwyfol glwy';
Mi dreuliaf ddiwedd byr fy oes
Ar ben Calfaria, dan y groes. W.

544. *Gweddi am sancteiddrwydd.*

M. H.—Leipsic. Melindwr.

FY Iesu, atat 'rwyf yn dod,
Y truenusaf ddyn erioed,
I ymguddio dan dy aden glyd,
Dan demtasiynau maith y byd.

2 'Does unrhyw gyflwr, unrhyw fan,
Heb dorf yn curo ar f'enaid gwan;
Ond er dy ogoniant, Arglwydd cun,
Lladd dy elynion cas dy hun.

3 Gwisg fi â'r fantell ddisglaer iawn
A wnaed ar Galfari brydnawn;
A golch aneirif feiau f'oes
Yn nwfr pur a gwaed y groes.

4 Gwasgara y cymmylau sydd
Yn cadw'th nefol wedd yn nghudd;
A dyfrha fi â'th hyfryd hedd,
Yn erbyn ofnau, angeu a'r bedd. W.

545. *Nerth y pererin.*

M. H.—Brynteg. Ceredigion.

PERERIN wyf sydd ar fy nhaith,
Yn myn'd tua thragwyddoldeb maith:
Dieithr ddyn wyf ar y ddae'r,
Am nefol dŷ mae'm llef yn daer.

2 Mae im elynion o bob math,
A'u bryd i gyd yw'm dwyn yn gaeth,
A pheri im gyfeilliorni'n brudd,
A gwneyd llongddrylliad am fy ffydd.

3 Na lawenhewch, annuwiol haid,
Caf nerth yn rhwydd fel byddo rhaid:
I Salem dof, trwy'r tân a'r dwr,
Can's Iesu da yw f'unig Dwr.

4 Gan f'Arglwydd cu cynnorthwy caf,
A thrwy ei nerth gorchfygu wnaf;
Fy nghas elynion gwn, i gyd,
Caf wel'd eu lladd, er maint eu llid.
D. R.

546. *Yr anian ddwiol.*

M. H.—Menai. Ceredigion.

O IESU mawr! rho'th anian bur
I eiddil gwan mewn anial dir,
I'w nerthu trwy'r holl rwystrau sy
Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.

2 Pob gras sydd yn yr eglwys fawr,
Fry yn y nef neu ar y llawr,

Caf feddu'r oll—eu meddu'n un,
Wrth fedda d' anian di dy hun.

3 Mi lyna'n dawel wrth dy draed,
Mi gana'f am rinweddiau tâl y waed,
Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
Ond cael dy anian dan fy mron. D. C.

547. *Nefoedd ar y ddaear.*

M. H.—Angels' Hymn. Tegid.

NEF yw i'm henaid yn mhob man
Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan;
Ei weled ef a golwg ffydd
Dry'r dywyll nos yn oleu ddydd.

2 Mwynhâd o'i ras maddeuol mawr,
Blaen brawf o'r nef yw yma'n awr:
A dallen fenyw ar ol hyn
Sy nefoedd ar y ddaear hon.

3 Ac er na welaf ond o ran,
Ac nad yw profiad ffydd ond gwan;
Y defnyn bach yn for a fydd,
A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.
BT. W.

548. *Meddwl am y nefoedd.*

M. H.—Lancaster. Winchester

MAE meddwl am y nefol fro
I mi'n hyfrydwch lawer tro;
O na bai'r munyd o fwynhâd
Yn oesoedd mewn tragwyddol wiad.

2 'Rwyf am gael profi dan fy mron
Dystiolaeth o fy hawl yn hon;
Cael profi'r gwynfyd pur, anlŷth—
Digonedd heb ddigoni byth.

3 'Dyw oesoedd byd mo'r munyd awr
Wrth oesoedd tragwyddoldeb mawr;
O fewn i'r diderfynol dir
Bydd cartref f'enaid cyn bo hir. D. T.

549. *Cynnaliaeth y Cristion.*

8. 8. 8.—Rugby. Nazareth.

MI deithiais cun o'r awdal maith,
'Dwy'n deall pellder pen fy nhaith, [oedd:
Mewn gwledydd aychion, dŵr nid
Yn awr 'rwy'n disgwyl, fôr a nawn,
O'r nefoedd ddŵr a sypiau grawn,
Wna'm henaid egwan wrth ei fodd.

2 O'r graig y mae'n dylifo i maes,
Yn afon ddisglaer, loyw, lâs,
Sef Craig yr oesoedd—cadarn yw;
A thyna'r man y gwnaf fy ile,
Dan gysgod tawel furiau'r ne',
Lle caf ddiddanwch tra bwyf byw.

3 'Rwy'n cofio gair fy Iesu mawr
Y doi'r Diddanydd atat i lawr,
Na chawn i farw o dristwch mwy;
O Ddŵr! cyflawna'th air i ben,
Rho i mi arweinydd is y nen,
Ddangoso'r ffordd, iachao 'nghlwy'.

4 A raid i gystudd garw'r groes,
I ganlyn f'eneth i ddydd a nos?
Os rhaid i, gwna fi yn [illegible] nawn:
Dan gario gwna i mi fyw'n mlaen,
Sef canu yn y dŵr a'r tân.
O forol 'nawyd lyd tawdrawn.

5 Yn ymchwydd yr Iorddonen gref,
Pan [illegible]
Mae'r [illegible]
A'r [illegible]
Os caf yn [illegible]
Fydd tonau [illegible]

550. *Hiraeth am Duw.*

8.8.8.—Nazareth. Rhys y Seiri.

'DUW'S [illegible]
[illegible]
Dim ond cael edrych ar dy wedd:
Fy nymuniadau oll yn un
Sy â'n tewlen ynof fi dy lun.
Fy holl ddisgwyliadau fy nedd.

2 Mi [illegible] Ffynnon oll i gyd [illegible] Ffynnon
Sydd rinweddau gwaed a chyfiawnder
A phob cariadau gwag y llawr;
Gadawn, er mwyn cymeryd a fynnai,
A chân a phriod anwyl, fyn'd
Yn ddim er mwyn dy enw mawr.

3 O! rhwyga'r cwmmwl dudew sy
Yn cuddio gwedd dy wyneb cu,
Yr hwn yn llawn [illegible] sydd;
Pelydrau pur dy ddwyfol wedd
Oleuant gonglau t'wylla'r bedd,
Gan droi y nos yn berffaith ddydd.

4 Pan 'deryclwy' i'r dwyrain, neu i'r de,
'Does neb yn arwyd tel ete:
Mae'n [illegible] t'ysoryd oll o'r bron:
Dioddefaf golled o bob rhyw
Yn mhresennoldeb pur fy Nuw,
A holl gystuddiau'r ddaear hon. W.

551. *Pob eilun i'r llawr yn yr olwg ar Iesu.*

8. 8. 8.—Hengoed. Neifion.

DYHIDLA, Iesu, 'th nefol ras
Ar f'enaid egwan, grindir cras,
Cysurwn oloyw, perffaith, gwiw:
'Clanff' murhyw eilun yma fod,
A weloddi llygad is y rhod,
Yn gwmmwl rhyngof fi a'm Duw.

2 Ar unwaith 'rwy'n ymado'n lân
A'r holl greadigaeth, fawr a mân,
Ac nid wy'n 'mofyn yn eu lle
Ond cael, fy Arglwydd, dy fywyhau;
Mewn llawnder, neu mewn eithafrwi,
'Rwy'n drech na'r cwbl dan y ne'.

3 Mwy na therfysger f'enaid drud
Gan rwysg a dwndwr gwag y byd,
Ond llyngcer fi, yn ddistaw iawn,
Yn y llawenydd sy'n parhau
'N dragywydd, heb na mêth na [illegible]
Fel diluw cryf neu foroedd [illegible]

Dadguddia'n gyflawn im ar ôrfys
Ogoniant ma'th dy nerth iys—
Didrange bieseirau'r sarffgadd dir:
O! dangos im mai ti yw'm rhiain,
A dwed caf ddyfod yna i'r lan,
I'th gyflawn weled cyn bo hir. w.

552. *Digonolrwydd llawen gadd ger dy fron.*

8.8.8.—Llangoedmor. Nazareth.

TYDI, fy unig Arglwydd, yw
Terfynfaad cysuredd o nod rhyw,
A diwedd goriad, diwedd gwaeau:
Pob trallod syddd o fewn y gyd
Sy'n dorr'ad ynot ti ymaith ŵ:
'Does yn dy gwmni ddim na thrai.

2 Pa bryd y ffy cymmylau'r nos,
Sy'n cuddio rhagwydd gwaad y groes?
Pa bryd caf weled yn oleu clir
Yr etifeddiaeth ddaeth i'm rhan,
Wrth goelbren nef, yn ôrau ŵyn
O'r hyfryd, sanctaidd, nefol dir?

3 Mae meddwl am yr oriau pur
Caf rodio'r paradwysaidd dir,
Ac yfed pleser sy'n parhau,
Mewn gwlad heb lewyrch haul na lloer,
Na therfysg tir, na thwrf y môr,
Yn fy rhoi 'nawr i lawenhau. w.

553. *Yr un testyn.*

8.8.8.—Llangoedmor. Nazareth.

YR holl greadigaeth faith ynghyd,
Neu yn y môr, neu yn y byd,
Yn eitha'u rhwysg, eu rhif, a'u rhyw,
Yr holl ogoniant maith yn un
A weladd neu a glywodd dyn,
Grynnow'd yn hollol yn fy Nuw.

2 Tydi yw'r ffynnon fawr ddi-drai
Sy'n rhoddi dyfroedd i barhau,
A ffrydiau o anfeidrol ryw;
Rhyw dir o gariad yw dy hedd,
A nef y nef yw gwel'd dy wedd,
Y nawdd a'r cysur mwya'n iyw.

3 'Does doniau dan y wybr lâs
A ddyd dy enw mawr i maes,
Na geiriau ettyb is y rhod;
Ac nis gall yr angylion, chwaith,
Trwy gymmysg pur ganiadau maith,
Ddadseinio'r gaufed ran o'th glod.

4 Pa bryd caf deimlo'r awel gref
Sy'n chwythu i ffwrdd gymmylau'r nef?
I mi gael gweled Salem bur—
Ogoniant dwyfol uwch y rhod,
Nes gweledd llygad dyn erioed,
Ac nes mwynheir uwch anial dir. w.

554. *Peryglon yr anialwch.*

8. 8. 8.—Gweddi Luther. Hengoed.

MEWN rhyw anialwch 'rwyf yn byw,
A'r llesgaf un erioed o'm rhyw,
Peryglon mawrion sy 'mhob man—
Mae yma Arab yn ei rym,
A diaw (o nadd gadarn) lym,
I gyd am genero'm lys-bryd gwan.

2 Ac oddi fewn mae mwy na mwy
O nwydau croes i'n farwol glwy',
Pob i wyd yn cadarn ac yn grief,
Yn cure'n dwsmon oeh yr awr
Fy ysgarod oswyn, llesg, i lawr;
Fy unig nodded a'm ys y nef.

3 Dy ffraeth sydd gadarn iawn o rym,
'Dall uffern mo'i gwrth'nebu dim;
Dy air sydd drech na dŵr na tnân;
O! tyr'd i'r fru wyr, mae'n bry fnawn,
Mae sanctiau'r fall yn llywion iawn:
O! dal fi i'r lan, a dwg fi 'mlaen. w.

555. *Llef y llesg pan ar ddiffygio.*

8.8.8.—Hengoed. Pant-y-celyn.

O! 'PLE mae'r manna perffaith gwir,
A'r dyfroedd tawel, sanctaidd, pur?
Mae'm syched, Arglwydd, yn parhau:
'Rwy'n methu tynu dŵr yn awr.
Fy anghredmiaeth sydd mor fawr;
Agor y gwaig; 'rwyf bron llesghau.

2 'Rwyf oll yn friw, 'rwyf oll yn wan,
A pob oed ti a'm deil i'r lan;
Dy lunian wyt yn fwy na'r bydd:
Yr olwg hraf ar dy wyned hedd;
Sy'n drech nag angeu, trech na'r
Dy lunian wy'n ddymuno i gyd.

3 Na phall fy nghais, mae yn brydnawn,
A munau'n llesg ac ehuddi iawn,
A'r afon fawr heb fyned trwy;
'Rwy'n ofni ei lled a'i dyfnder du,
A'i thonau maith cynddeiriog sy
Yn magu ynof ofnau mwy.

4 Pa bryd y caf lân gario'r maes
Ar holl derfysgoedd angeu glas,
Heb mwy frawychu wrth ei wedd?
Dy gariad dyro o'r fath rym,
A wnelo wyneb angeu'n ddim;
Dy unig gariad goncra'i gledd. w.

556. *Hiraeth am wlad o hedd.*

8.8.8.—Hengoed. Pant-y-celyn.

PA'M, Arglwydd, yma, pa'm mae draw,
Rhyw elyn marwol ar bob llaw—
Pleser a gofid bob yn ail,

Yn tynu'm llygaid, tynu'm bryd,
At ryw wrthddrychau sy'n y byd—
Rhyw dwyll disylwedd a disail ?

2 Trwy darth, trwy niwl, mi wela'r fan
Ddymunai'n henaid gael i'w ran—
Ardaloedd gras, ardaloedd hedd;
Y wlad mae cariad pur didrai,
Fel afon, yn ei dyfrhau,
Tu hwnt i angeu du a'r bedd.

3 Myfi gaf yno'n dawel fyw
Uwch brad gelynion o bob rhyw—
Uwch pob rhyw drafferth, pob
rhyw wae:
Caf dreulio tragwyddoldeb mwy
I ganu am ei ddwyfol glwy',
Mewn anthem fythol i barhau.

4 Pwy a chwennychai fyw'n y byd
Sy'n dwyll, sy'n drafferth trwyddo i
gyd—
Mil mwy ei ofid nag ei flas,
Yn lladd o hyd, heb fyth fywhau,
A'i groesau trymion yn parhau ?
O ! am drigfanau nefol ras. w.

557. *Heddwch Duw.*

8. 8. 8.—Rhosyn Saron. Alfort.

O BOB trysorau dan y nef,
Y penaf yw ei heddwch ef,
Ei fath ni fedd yr India fawr:
Yn unig, hwn a'm ceidw'n hyf
Yn erbyn g'lynion mwyaf cryf,
Na chaffont byth fy mhen i lawr.

2 O ! gariad uchaf fu erioed,
Fry oddi ar, neu is, y rhod, [pur;
Blaen brawf o'r gwleddoedd nefol
Ni cheisiaf byth, tra dan y nef,
Ond teimlo'i awel hyfryd ef,
Digonir fi yn y nefol dir.

3 O ! dowch yn mlaen, yn ddinacâd,
Mi glywaf swn caniadau'r wlad—
Peth o'r gorfoledd, peth o'r clod;
Difyrwch sydd yn nghwmni Duw
Nad oes o dan y ser yn byw
A wybu am ei fath erioed. w.

558. *Digon yn Nuw.*

8.8.8.—Nashville. Llangoedmor.

'DOES bleser dal tu yma i'r ne',
Nac un diddanwch leinw le
Cymdeithas fy lachawdwr cun;
'Does eisieu dim llc bo fy Nuw,
Gwagder na thlodi o un rhyw,
Mae'n llanw'r nefoedd fawr ei hun.

2 Y sawl a'th gaffo, gwyn fyd hwy,
Ni allant fyth ddymuno mwy;
Ti lenwi eu heisieu i gyd o'r bron:
Mae môr, a thir, a da, a dyn,
Oll yn dy heddwch di dy hun;
A mwy na fedd y ddaear hon.

3 Anghenus wyf, bechadur gwan,
Am hyn 'rwy'n tynu tua'r lan,
Yn gweled digon gan fy Nuw—
Trysorau, pe cawn eu mwynhau,
A laddai 'ngofid, laddai 'ngwae, [w
Ac a'm gwnai'n llawen tra fawn byw

559. *Teimlad o wrthgiliad.*

8. 8. 8.—Rugby. Rhosyn Saron.

FY ngwrthgiliadau o bob rhyw,
A'm beiau mwyaf, dua'u lliw,
Wyf, Iesu, 'n roddi i ti'n un;
'Does neb all sefyll dros fath rai,
Na neb anturia 'nghyfiawnhau
O flaen y nef ond ti dy hun.

2 Pe gwypent hwy, 'r annuwiol fyd,
Y ganfed ran o'm beiau i gyd,
Hwy haerent nad oes im iachâd;
Ond o'u hardaloedd 'rwyf yn troi,
A thua'r nefoedd 'rwyf yn ffoi.
At haeddiant llawn y dwyfol waed.

3 Yr ochr draw i'r anial hyn,
Lle nad oes niwl, na ffos, na llyn,
Ond haul yn codi foreu clir,
'Rwyf yn ffraethu bod fy lle,
Yn agos i gynteddau'r ne',
Ar sanctaidd, nefol, hyfryd dir. w

560. *Erfyniad am gymmhorth ar y daith.*

8. 8. 8.—Gweddi Luther. Panty-celyn.

DUW, bydd yn gymmhorth ar fy nhaith,
'Rwy'n ofni morio'r cefnfor maith,
Tymhestloedd angeu sydd o'm blaen;
Am hyny, Arglwydd, bydd ger llaw,
Yn cadw dychrynïadau draw,
Mewn cyfyngderau dwr a thân.

2 Ti'm dygaist, trwy dy anfeidrol ras,
O'r elynïaethol Aipht i maes,
Tir o euogrwydd a phob gwae;
Dwg fi etto trwy'r anialwch maith,
Heb gyfeiliorni, i ben fy nhaith,
Lle ca'i'n dragwyddol dy fwynhau

3 Er amled, cryfed, ac mor hy',
Yw y gelynion i mi sy,
Mwy ydyw nerth dy anfeidrol ras:
Distewa'r dorf, gorchfyga'r gâd,
Sydd am fy rhoddi dan eu traed,
A dwg fi o'u cadwynau i maes.

4 Ti, ffynnon bywyd beraidd, ddwys,
Arnat dy hun 'rwy'n rhoddi 'mhwys,
Ti yw fy Mrenin a fy Nuw;
P'le trof fy wyneb, Iesu cun,
Ond yna atat ti dy hun ? [w
Gwraidd fy niddanwch o bob rhyw.

561. *Yr un testyn.*

8. 8. 8.—Hengoed. Neifion.

O ADDFWYN Iesu! rho i mi rym,
Yn anhawdd wed'yn ni fydd dim,
'Rwyt ti dy hun yn fwy na 'maich;
Mae'n ysgafn, ond it fod o'm tu,
A'th iau yn hyfryd esmwyth sy;
Anfeidrol ydyw grym dy fraich.

2 'Rwy'n rhoi ffarwel i'r oll i gyd
A ffeindiodd natur yn y byd;
Gwagedd o wagedd ynt o'r bron:
'Rwy'n gwel'd mai etifeddiaeth yw
Tragwyddol gariad pur fy Nuw,
Fy nghysur ar y ddaear hon.

3 Rho, Arglwydd, im fo yn dy fryd,
D'ewyllys gaffo'i gwneyd i gyd,
Boed fy amserau yn dy law:
Cyf'rwydda fi trwy'r anial maith,
Saf wrth fy ochr ar fy nhaith,
A dwg fi i'r Baradwys draw. W.

562. *Nerth yr addewidion.*

8. 8. 8.—Gweddi Luther. Pant-y-celyn.

O NA'D fi, Arglwydd! tra fwy'f byw,
I dynu gw'radwydd o un rhyw
Ar dy efengyl ddwyfol, wir;
Na gwyro oddi wrth dy Ysbryd rhad,
Neu ddamsang gwirion ddwyfol waed,
Yr aberth llawn haeddiannol pur.

2 O! pâr yn ffyddlon i mi o hyd,
Yn mhob rhyw droion yn y byd,
Saf wrth dy air—dy air yw 'ngrym:
Ni cholla'i 'ngafael, doed a ddêl,
Ar addewidion sydd dan sêl,
Y rhai'n yw'r unig noddfa im.

3 Mi foria' yn nerth addewid rad
Trwy'r tonau cynddeiriocaf gaed,
Gostega'r storom wrth dy air;
Fy meiau, er eu rhif a'u grym,
O flaen d' addewid safant ddim;
D' addewid yn ffyddlondeb gair.

4 'Rwy'n ofni'r aswy, ofni'r dde,
Am hyn mi bwysaf arno fe,
Ac yn ei freichiau af trwy'r tân;
Mi nofia'r tonau mawrion trwy,
Er mor arswydus ydynt hwy,
Ond iddo fyned o fy mlaen. W.

563. *Yr un testyn.*

8.8.8.—Llangoedmor. Nazareth.

'DOES arall fan i roi fy mhwys
Ond ar dy addewidion dwys—
Y geiriau dyngwyd yn y nef:
Ni ildiaf o fy ngobaith ddim,
Fy ngobaith yw fy uuig rym,
Yn ei addewid gadarn ef.

2 A thyna'r trysor sydd yn well,
Na golud maith yr India bell,
Nis gad i iota fyn'd ar goll;
Disgwyliaf foreu a phrydnawn,
Nes gwlawio'r rendith berffaith, lawn,
Ar f'enaid egwan, oll yn oll.

3 Mae'th drugareddau maith eu rhin
Yn dod i lawr fel melus win,
O oes i oes, heb drangc heb drai;
Dy gariad sy'n anfeidrol 'stôr,
Yn gyflawn berffaith fel y môr,
Ac yn dragwyddol yn parhau.

4 Mae'n fwy, mae'n llawer gwell na'r byd,
A'r holl drysorau sy ynddo i gyd,
Bywyd a heddwch yw o'r bron,
I mi, 'n mhob cystudd dan y nef,
Ond im gael aros ynddo ef,
Nid ofnaf ddrygau'r ddaear hon. W.

564. *"Ti ydwyt loches i mi."*

8.8.8.6.—Beulah. Barnsfield.

ER c'uwch y bryniau uchel fry,
A swn tymhestloedd tywyll, du,
A'r holl freuddwydion ofnau sy,
Anturiaf etto 'mlaen;
Mae nerth y nefoedd fry yn fwy
Na myrdd o'u dychryniadau hwy;
Mae haeddiant dwyfol farwol glwy'
Yn drech na dŵr na thân.

2 Fy noddfa gadarn, fythol, yw
Y gair a ddaeth o enau Duw—
Y ceidw ef fi byth yn fyw,
Ffyddlondeb yn ei ras:
Mi welaf olion traed ei saint,
Dan y cystuddiau mwya'u maint,
Yn cadw'u cysur, cadw'u braint,
Yn wyneb angeu glas.

3 Os rhaid cyfarfod ar fy nhaith
A rhyw gystuddiau mawrion, maith,
A thrallod etto erioed ni ddaeth
Yn gawod ar fy mhen;
Caf yfed o'r afonydd clir
Sy'n tarddu fry yn Salem dir,
O dan yr orsedd ddwyfol, bur—
Cysuron nefoedd wen. W.

565. *Cariad Crist o'i ddar-pariaeth.*

8.8.8.6.—Barnsfield. Beulah.

FY nghelibren syrthiodd ar y wlad
Yr etifeddiaeth oreu gaed,
Bwrcasodd dwyfol, nefol waed
F'Anwylyd a fy Nuw;
Fy Mrawd, a 'Mhriod yw efe,
F'Eiriolwr addfwyn yn y ne',
Ag sydd ei hun yn llanw lle
Pob rhyw gariadau'n fyw.

2 Yn mhlith plant dynion, ni cheir un
Yn para'n gywir fel ei hun,
Nid yw ei gariad, megys dyn,
Yn gwyro yma a thraw;

Ond rhad anfeidrol yw ei ras,
I bechaduriaid cyndyn, câs;
A garodd ef, fe'u dwg i maes
O'u pechod ac o'u braw.

3 O addfwyn Iesu! gâd im fod
O fewn dy gorlan, dan dy nôd,
A phob rhyw nwydau dan fy nhroed,
Yn gyflawn o dy hedd;
Yn nghanol terfysg a phob gwae,
Croes a chystuddiau yn amlhau,
Heb fedru dim ond llawenhau,
Nes gorwedd yn y bedd. W.

566. *Ymbil am gynnaliaeth.*

8.8.8.6.—Darowain. Llanddewi.

'RWYF bron, 'rwyf bron a llwfrhau
Wrth wel'd grasusau yn llesgau,
A'm temtasiynau yn parhau
Yn daullyd yn y blaen;
O! dowch, awelon sanctaidd dir,
Dan aden dawel Ysbryd pur,
Disgynwch arnaf cyn bo hir,
Diffoddwch uffern dân.

2 'Rwy'n blino, eisieu gwel'd y wlad
Rowd i mi mewn addewid rad,
A phrofi cyflawn wir fwynhâd.
O sypiau'r Ganaan wiw;
Awn dros fynyddau mawrion, maith,
A'r bryniau niwyaf ar fy nhaith,
Heb flino dim, na gorpiwys chwaith,
Nes awn i dŷ fy Nuw.

3 Rhaid i mi gael rhyw faint o'r grawn
Sy'n werthfawr, ac yn felus iawn,
Yn tarddu o'r Winwydden lawn
A wasgwyd ar y groes;
'Does dim a ddeil fy ysbryd gwan,
I ddringo creigydd hyll i'r lan,
Nes teimlwyf i mi brofi rhau
O'i ddwyfol, farwol loes. W.

567. *Yr enaid yn wâg heb gariad Crist.*

8. 8. 8. 6.—Beulah. Sardinia.

NID yw y ddaear fawr i gyd
Yn deilwng o fy serch a'm bryd,
Nac unrhyw wrthddrych yn y byd;
'Rwy'n caru gwrthddrych mwy:
Nid llai y sawl wy'n garu yw
Na pherffaith ddyn a pherffaith ddauw;
Dioddefodd unwaith farwol friw:
O! werthfawrocaf glwy'!

2 Ni fyddai bywyd maith, pe cawn,
Ond dudim a disylwedd mewn
Heb gael rhyw ran o'th nefol ddawn
Yn wastad i'w fwynhau:
'Does un o'm holl synwyrau i gyd,
Nac un o nwydau'm henaid drud,
A gwrthddrych iddo yn y byd,
Am hyny, tyr'd yn glau.

3 'Rwy'n dlawd, 'rwy'n dlawd o'r oll yn
Nid wy'n cyttuno dim â'r llawr, lawr,
'Rwy'n griddfan dan anobaith mawr,
Os hebot rhaid im fyw;
Ac nid oes dim o dan y ne'
Wna i fyny'r golled o hono fe,
Na dim atteba yn ei le;
Anfeidrol yw fy Nuw.

4 Wel, dyma'r cariad sydd yn awr
Yn curo pob cariadau i lawr,
Yn llyngcu enwau gwael y llawr
Oll yn ei enw'i hun:
O! fflam angerddol, gadarn, gref,
O dân ennynwyd yn fy nef!
Tragwyddol gariad ydyw ef,
Wnaeth Duw a minnau'n un. W.

568. *Mwynhâd o Dduw yn llawn yr enaid.*

8. 8. 8. 6.—Barnsfield. Sarepta.

NID oes ond f' Arglwydd mawr ei ddawn
A leinw f'enaid bach yn llawn;
Nis gallwn ddal dim mwy pe cawn:
Mae ef yn ddigon mawr;
A digon, digon, digon yw
Dy hyfryd bresennoldeb gwiw,
Yn angcu ceidw hyn fi'n fyw;
A boddlon wyf yn awr.

2 Anfeidrol berffaith, sanctaidd Fod,
Gwna i mi wel'd na chued erioed,
Ac na cheir pleser dan y rhod,
Yn rhagor na'th fwynhau;
Wel, dyma'r oriau gofiaf mwy,
A'r pleser gefais ynddynt hwy
Ddymunaf bellach byth tra bwy',
Yn unig i barhau.

3 Wel, ffowch ar ffrwst, bleserau ffgyd,
Diflenwch, holl wrthddrychau'r byd,
Na chaffoch effaith ar fy mryd
I'm dwyn oddi wrth ty Nuw:
Doed tân a diluw yn gyttûn,
Aed dŵr a daear fawr yn un,
Mi fyddaf yr hapusaf ddyn,
Mae'm Iesu etto'n fyw.

4 A phe diffoddai'r heulwen fawr,
Pe syrthiai sôr y nen i lawr,
A phe diflyganai'r foreu wawr,
A th'wyllwch gael ei le;
Cawn drigo mewn sancteiddiol dir,
Yn llewyrch Haul cyfiawnder pur,
Tragwyddol faith ddiwrnod clir,
O fewn i furiau'r ne'. W.

569. RHAN II.

PAN collo gwelit y maes eu dawn,
A'r wybr faith eu boreu a nawn,
A distryw ddod yn gyfan iawn
Ar nef a daear fawr;

Caf weled sanctaidd newydd dir
O dewnwch ac o bleser pur.
Yn tarddu i maes o'r Duwdod gwir,
Gyda gogoniant mawr.

2 Ac yno, f'enaid bach, ti gai
Dragwyddol bleser i'w fwynhau,
N'all angel fyth, a dyn yn lle,
Yn hollol ddodi i maes:
Ond digon yw i'm henaid gwan,
Myfi gaf esgyn, gwn, i'r lan,
Ac yfed yno yn y man,
Fyth o afonydd gras.

3 O! tor fy llyffetheiriau'n glau,
Mae hiraeth arnaf dy fwynhau,
A dwg fi i maes o'r carchar clai,
Rho fy nghadwynau'n rhydd:
Rhy fach, rhy brin, i mi yn awr
Yw'r holl greadigaeth eang, fawr,
'Rwy'n griddfan beunydd ar y llawr,
Am wel'd y boreu ddydd.

4 Myfyrio am fyn'd sydd felus iawn;
Mae f'enaid eisoes, foreu a nawn,
Am gynnwmo'i nefol ddawn,
A chwareu'i aden bur,
Pel pe bai am anturio'n hy'
Trwy ganol y cymmylau fry,
A neidio i mewn i blith y llu,
Lle mae'r Messiah gwir. W.

570. *Bywyd yn yr anialwch.*

8. 8. 8. 6.—Beulah. Sardinia.

PA beth a wnaf fi yma'n byw
Yn mhell, yn mhell oddi wrth fy Nuw, [rhyw.
Mewn gwledydd sychion drwg eu
Lle dianc pob mwynhau?
Os llewyrch bach o oleu gawn,
Ar ol cymmylau duon iawn,
Daw tymhestl eilwaith cyn prydnawn
O ddychryn, aeth, a gwae.

2 O! gwna i mi wylio bob yr awr;
'Rwy'n rhodio mewn peryglon mawr,
Ac nid oes dim ond llewyrch gwawr
Dy wyneb gwridog, gwyn,
Wna i mi deithio'r anial nos,
'Rhyd llwybr cyfyng angeu'r groes,
Myfyrio am dy angeu loes
Ac hefyd canu hyn.

3 Pan ymddattodo'r tŷ o bridd,
A'm henaid i ddihengu'n rhydd
O'r holl gadwynau cryfion sydd
Yn dal yn awr yn dyn,
Caf deimlo pleser uwch y rhod
Na ddaeth i galon dyn erioed
I feddwl, nac i gredu, fod
Y fath fwynhâd a hyn. W.

571. Rhan II.

CHWI, chwi, ffynonnau'r bywyd
Afonydd o bleserau pur, [gwir,
Chwi lifwch dros yr anial dir—
Fy enaid llesg ei wedd;
Chwi lenwch yr eangder mawr—
Y nwydau sydd yn wag yn awr,
Ac yn hiraethu bob yr awr
Am bleser draw i'r bedd.

2 Fe gaiff fy serch, fe gaiff fy mryd,
Ei lanw'n lân ar hyn o bryd,
Pob rhan yn llwyr o'm henaid drud
A gaiff ei nefol ddawn;
Pob rhyw ddymuniad gaiff fwynhâd
Anfeidrol faith, anfeidrol rad,
'Nol deffro yn y nefol wlad,
Ac ar dy ddelw'n llawn.

3 Pob hiraeth, pob sychedig ddawn,
Fydd marw mewn llawenydd llawn,
Ac enw gobaith mwy nis cawn,
Nac eisieu byth, na thrai:
Ond rhyw bleserau maith dilyth,
Heb drai na therfyn iddynt byth,
Yn sier fel mynyddau syth,
Gawn bellach i'w mwynhau.

4 Fy Nuw, fy Nuw, i gyd ei hun,
Fydd fy anfeidrol gariad cun,
Llawenydd anchwiliadwy'n un,
A chariad hono dardd;
Ehangder o oleuni clir
Mwy disglaer nag o'r dwyrain dir;
Mor o bleserau perffaith pur;
Gwrthddrychau nefol hedd. W.

572. *Hiraeth am ben y daith.*

8. 8. 6.—Sharon. Henffordd.

PERERIN wyf i'r Ganaan fry,
I gymnhes gôl fy Iesu cu,
Lle caf dragwyddol nyth;
Yn mhell uwch ewn y dduaig a'i saeth,
Na gelyn mwy i'm gwneyd yn gaeth,
Caf dawel orphwys byth.

2 O bell mi wela'm cartre'n wir,
O fewn i byrth Caersalem bur;
Pob rhai'n meddiannu hedd;
O ddinas deg! o'th fewn nid oes
Na haul, na lloer, na thywyll nos;
Gwyn fyd rhai draw i'r bedd!

3 Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
Caf godi'n lân o'r ddaear lawr
I entrych awyr fry;
Oddi yno af mewn nefol hedd
I'r nefoedd wen, mewn newydd wedd,
I blith angylaidd lu.

4 Mi fyddaf fry, O ryfedd fraint!
Yn boddi'm swn yn mhlith y saint,
Mewn peraidd hyfryd dôn:—
Cymdeithion hyf mewn hyfryd hwyl,
Heb 'mado byth, ond cadw gwyl,
I'r tirion, anwyl Oen.

5 'Rwy'n awr am ganu'n iach i'r byd,
Ei bleser gau, a'i boen i gyd;
Pwy safai yndd'o'n hir?

Disgwyl a wnaf nes dèl fy Nuw
I'm dwyn o'm gwae at Iesu gwiw,
I hyfryd Salem dir. w.

573. *Ymestyn at y pethau o'r tu blaen.*

8. 8. 6.—Sharon. Henffordd.

O IESU byw! Iachawdwr byd,
Dwg fi yn glau i'th fynwes glyd,
Gael prawf o'th gariad cu,
Sydd well na'r gwin i'm henaid gwan;
Am hyn 'rwy'n daer am gael dod dan
Dy dirion aden di.

2 Dy gariad dwys yn f'enaid dod,
Ac ynddo fyth gad i mi fod,
Yn nofio tua'r ne',
Nes gado'n deg yr anial dir,
A glanio o fewn i Salem bur,
O'm gofid, ac o'm gwae. w.

574. *Gorfoledd yn ngharlad Duw.*

M. S.—Morganwg. Dyfrdwy

YN mynwes glyd yr anwyl Oen,
Heb friw na phoen, 'rwy'n llechu;
Ac oddi fewn ei glwyfau cu
Mae f'enaid i'n cartrefu.

2 Nid llygad wêl, na chlust a glyw,
Nac un dyn byw ddychymyg,
Y tawel hedd rydd Duw bob dydd
I'r rhai sydd ddewisedig.

3 Er bod yn hir mewn anial fan,
Yn 'mofyn am orphwysfa,
O'r diwedd des—O! ryfedd fraint!
I'r man mae'r saint yn gwledda.

4 Wrth linyn rhad fe ddaeth i'm rhan
Y lle a'r man hyfryta',
Mewn brasder bro 'mhlith brodyr lu
Sy'n canu Aleluwia.

5 Mi wn, pe cawn dafodau hy'
Angylion fry sy'n canu,
Mi rown y rhai'n i gyd o'r bron
I gannol graslon Iesu.

6 Mi wn y dwg fi i deyrnas no',
Ar ben fy mhererindod;
Ac yno byth mewn tawel fan,
Caf eistedd tan ei gysgod.

7 Caf fwyta ffrwythau prenau plan
Ar hyd glan afon bywyd,
Tragwyddol Sabbath gyda'r Oen,
Heb fraw, na phoen, na gofid. w.

575. *Profiad o lesgedd.*

M. S.—Dymuniad. Eidduned.

DARF'U fy nerth, 'rwy'n llwfrhau.
Yn d' allu mae f' ymddiried;
Nerth mawr difesur, fel y mór,
Genyt sy'n stor i'r gweiniaid.

2 Ti'm tynaist i o ganol tân,
A mi o'r blaen yn ofni;
Gwna hyny etto'r funyd hon,
Mae f'enaid bron a threngu.

3 Mi bwysaf atat etto'n nes;
Pa les im ddigaloni?
Mae son am danat yn mhob man
Yn codi'r gwan i fyny. w.

576. *Ehediadau yr enaid.*

M. S.—Silesia. Persia.

FFARWEL, mi af'yn mlaen i'r wlad
Lle mae fy Nhad yn trigo,
Yn mhlith myrddiynau rif y gwlith,
A gwynfyd fyth fai yno.

5 Mi ddringa' i'r lan; yn uchel fry
Mae'r hyn wyf fi'n ei geisio;
Gadawa'r byd o'm hol, heb lai,
Yn wastad mae'n fy rhwystro.

3 B'le trof fy wyneb, Arglwydd cu,
Ond atat ti dy hunan?
Pob peth gweledig, 'thal ef ddim
Ond gwneuthur i mi riddfan.

4 Gâd i mi lechu yn dy gol,
A na'd fi'n ol oddi yno,
Ac yn y clwyfau dyfnion wnaed
O fewn dy draed a'th ddwylo.

5 Mae brodyr im ar ben eu taith,
Mewn newydd iaith yn canu;
Pa bleser sy yma i mi mwy?
Dwg fi atynt hwy i fyny. w.

577. *Rhyddid o gaethiwed.*

M. S.—Saxony. Padam.

YN dy gyfammod, mac'n fy ngho'
Fod myrdd o addewidion,
Rhai yn cyhoeddi llwyr iachâd,
Trwy rin dy waed, i'r cleifion.

2 'Rwy'n gwaeddi wrth dy borth yr awr
Am ddod i mewn i wledda; [ewn
Nid boddlawn wyf i fod tu faes
I gnerau'r ddinas noddfa.

3 Agor y môr, gwna'r ffordd yn rhydd,
I weled dydd y rhyddid,
A chael teyrnasu cyn bo hir
Yn ngwledydd yr addewid.

4 Disgwyl yr wyf, a hyn bob cam,
Fel gwyliwr am y boreu,
I brofi cryfder braich dy ras
I'm tynu 'maes o'm beiau. w.

578. "*Yr ydym ni yn ei garu ef.*"

M. S.—Dyfrdwy. Elizabeth.

TRWY ras 'rwyf, Arglwydd, ger dy
Yn rhoi fy ngwaddau i ti; [fron
Ti'm ceraist i er maint fy mai,
Ni allaf lai na'th garu.

2 Mi haeddais fod yn awr â'm nyth
Yn uffern byth yn pocni;
Wrthyf 'rwyt wedi trugarhau;
Ni allaf lai na'th garu.

3 Caf ddyfod i'r gogoniant maith,
I ben ty mhaith at Iesu;
Caf fyned at y man lle mae—
Ni allaf lai na'i garu.

4 I'r Tad, i'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
Rhof glod ar dân heb dewi;
Y Tri yn Un, a'r Un yn Dri,
Mae f'enaid yn ei garu. W.

579. *Arweiniad hyd ben y daith.*

M. S.—Dymuniad. Padarn.

DUW, cadw f'enaid hardd o hyd
Uwch law y byd a'i ddrygau,
Gan lwyr ddibrisio'i boen a'i wae,
Ei drallod a'i gystuddiau.

2 Fel na b'wy'n gwrando ar ei dwrf,
Ei gynnhwrf a'i ruadau;
Gan deithio'r llwybr cul bob cam,
A meddwl am fy nghartre';

3 Heb gyfeiliorni ar un llaw
Nes myn'd tu draw 'r Iorddonen,
At seintiau flinodd ar y byd,
Sy'n awr i gyd yn llawen;

4 Yn gorphwys yn y Ganaan bur,
Preswylia'r gwir ddiuwiolion,
Tir yr addewid hyfryd draw,
Gwlad lle nas daw gelynion.

5 Gorphwysfa dawel, deg, ddi-stŵr,
Sydd yno i'r gŵr lluddedig;
Afonydd gloyw, pur, di-drai,
I ddiodi'r rhai sychedig. W.

580. *Ei lwybrau ydynt heddwch.*

M. S.—Morganwg. Persia.

DY lwybrau di ynt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd ynt lawn hyfrydwch;
Nag amlder ŷd neu win, fy Nuw,
Melusach yw dy heddwch.

2 Mae'n traed yn awr ar wddf y ddraig,
Trwy Had y wraig sy'n eiriol;
Awn, gan fod Iesu ar ein rhan,
I'r lan, i'r lan yn wrol.

3 Yn mlaen yr awn, trwy gyflawn ffydd,
Tra fyddo'r dydd yn para,
Pob un ag sydd â'i sicr sail
Yn haeddiant yr ail Adda. W.

581. *Dedwyddwch y saint.*

M. S.—Dyfroedd Siloah. Baden.

GWYN fyd y rhai dibost eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd,
Gan roi iddynt nerth, er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd.

2 Y rhai sy'n cadw'th hedd o hyd,
Er gwaetha'r byd a'i ddrygau,
Gan wylio beunydd yn ddigoll
Ar gadw'th holl gyfreithiau.

3 Pa ddrwg wna'r gelyn i'r rhai hyn
Sy'n rhodio yn dy ddeddfau?
Cyfeillach dawel bur â Duw
Gânt yn mhob rhyw gyflyrau. W.

582. *Cyfaddefiad a deisyfiad yr edifeiriol.*

M.S.—Eidduned. Capel Cynon.

NA thro dy wyneb, Arglwydd glân
Oddi wrth un truan agweddd,
Y sydd o flaen dy borth yn awr,
Mewn cystudd mawr yn gorwedd.

2 Yr wyf yn gorwedd wrth dy ddôr,
Attolwg agor i mi;
Er fod fy muchedd yn ddi-rôl,
Rwy'n edifeiriol, gweli.

3 Na alw mo'nof ger dy fron,
I roddi union gyfrif;
Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,
Y bywyd gwael oedd genyf.

4 Felly y deuaf at dy borth,
I ddisgwyl cymmhorth ddigon,
Sef dy drugaredd i lanhau
Fy holl weliau budron.

5 Trugaredd, f'Arglwydd, heb ddim
Yw'r cwbl yr wy'n ei geisio; [mwy
Trugaredd yw fy newis lwydd,
Trugaredd, f'Arglwydd, dyro. E. P.

583. *Ysgrifenu y gyfraith ar y galon.*

M. S.—Caersalem.

O ARGLWYDD! wrthym trugarhâ
A gwna in gadw'th ddeddfau;
Ac ysgrifena di'r ddeddf hon
Yn eigion ein calonau. E. P.

584. *Gair Duw yn lloches a tharian*

M. S.—Morganwg. Caersalem.

FY lloches glyd, a'm tarian gref,
Yw'r Arglwydd nef a'i gysgod;
Gobeithiaf yn ei air er neb,
Yn ngwyneb pob rhyw drallod.

2 Mae'n gysgod rhag y gwynt a'r gwres
Mae'n lloches rhag y gelyn;
Gobeithiaf yn dy air o hyd,
Yn nghanol byd o ddychryn.

3 Dy air sy'n dwyn rhyw newydd da
A lawenha y galon,
Fod nerth tragwyddol oddi fry
I sathru y gelynion;

4 Fod Brawd a Chyfaill wedi ei gael
I'r tlawd a'r gwael, na chilia;
Yn nyfnder profedigaeth gref
Efe a gydymdeimla;

5 Fod modd i'r euog gael rhyddhâd,
A gwir iachâd i'r clwyfus;
Trwy nerth ei air, fe rodia'n llon
Y cloffion a'r anafus.

6 Gobeithia f'enaid yn ei air,
Efe a bair orfoledd;

Pob loes a galar, tristwch try
Yn ganu yn y diwedd. R. J.

585. *Ymbil am gynnaliaeth.*

M. C.—Gwrecsam. Cologne.

Y BAICH sydd arnaf ddydd a nos,
Ac wrthyf sydd ynglŷn,
Sydd ysgafn, er ei bwysau ef,
I'th ysgwydd gref dy hun.

2 Ti ddeliaist holl euogrwydd byd
Crediniol, ar y pren;
Ac yr wyt heddyw'n eiriol dros
Eu beiau uwch y nen.

3 O! cymmer di fy maich a 'mhoen,
A'm hofnau maith i gyd,
A rho i mi heddwch yn dy glwy'
Sydd lawer mwy na'r byd.

4 Fe gwymp fy ofnau i gyd o flaen
Dy gariad glân a'th hedd;
Holl ddychrynladau angau hyf,
Ac uffern ddu a'r bedd.

5 Mae prawf o'th gariad dwyfol gwir
Fel diliau pur ei flas,
Fe ddeil, dan demtasiynau, i'r lan
Fy enaid gwan i maes.

6 O! fanna pur o ddwyfol bris,
Anwylaf is y nef,
Gad i'r newynllyd heddyw gael
Ymborthi arno ef.

7 Fe gerdd fy nhraed yn hwylus iawn,
Dof cyn prydnawn i'r lan;
Os caf ond bwyta'r gwleddoedd hyn,
Caf ganu yn y man. W.

586. *Serch ar Iesu.*

M. C.—Farrant. Martyrdom.

NI throf fy wyneb byth yn ol
I 'nofyn plesor gau;
Ond mi a gerddaf tua'r wlad
Sy â'i phleser yn parhau.

2 Mae holl deganau'r ddaear hon,
Fu gynt yn fawr eu grym,
Yn ngŵydd fy Iesu'n gwywo i gyd,
Ac yn diflanu'n ddim.

3 Y mae aroglau pur ei ras
Fel peraroglau'r nef;
Ac nid oes cymmhar is yr haul
Yn unlle iddo ef.

4 Mae'n denu'm serch trwy wyntoedd
Yn gyfan ato'i hun; [oer,
Ac fe ddiffoddodd bob rhyw chwant
At ddaear, ac at ddyn.

5 Fe dorwyd rhyngof fi a'm chwant,
Daeth ar fy mhleser drai;
Ond fy hapusrwydd perffaith yw
Dy garu a'th fwynhau. W.

587. *Chwant am fod gyda Christ.*

M. C.—Bedford. Martyrdom.

UWCH law terfynau maith y sêr,
Mewn hardd baradwys wiw,
Yn mhlith myrddiynau fel y gwlith,
F'Anwylyd sydd yn byw.

2 Mae seintiau yn dienyd fry
Yn fyrddiwn o fy mlaen;
A mi, ymddifad, yma'n byw,
Yn nghanol dwr a thân.

3 Mae hiraeth pur yn gweithio trwy
Fy enaid, am fwynhau
Pleserau dwyfol, perffaith, pur,
Sydd fythol yn parhau.

4 Anturiaf yr Iorddonen trwy,
Er cymmaint grym y dŵr,
Ond im gael teimlo fod o'm plaid
Iachusol, ddwyfol Wr.

5 Dan ei adenydd mae fy nerth,
A'i Ddwdod yw fy ngrym;
Heb ei gwmpeini, 'dyw fy nawn,
Na'm rhoddion penaf ddim. W.

588. *"Duw drosom."*

M. C.—St. Mary. Bangor.

O! TYRED, Arglwydd i. saf wrth
Yn awr o blaid y gwan: [raid,
Mi soddaf mewn dyfnderoedd du
Oni ddeli di fi i'r lan.

2 Mae nerth dy ras yn llawer mwy
Na'm beiau oll o'r bron:
Dy hyfryd wên sy'n abl lladd
Euogrwydd dan fy mron.

3 Ni all fy meiau, er eu rhif,
A'u cyndyn euogrwydd cas,
Eu sgil, eu dyfais faith, a'u grym,
I faeddu dim o'th ras.

4 Mae ynot foroedd pur dilyth,
Heb ddiffyg byth, na thrai,
O gariad anghymmharol cu,
Fyth fythoedd i barhau.

5 O! tywallt hwn i'm henaid gwan
Sy'n fynych dan ei boen,
Yn methu credu i'r gonewest rad
Yn ngwerthfawr waed yr Oen. W.

589. *Y tlawd yn llawn trwy ras.*

M. C.—Cologne. Gwrecsam.

MAE ofnau yn finteioedd llawn,
Rai creulon iawn eu rhyw,
Yn pledio yn fy nyneb gwan
Na feddaf ran yn Nuw.

2 A minnau'n llwfrhau yn lân,
Heb wybod ffordd i droi,
Heb ysbryd geny' i fentro 'mlaen,
Nac ysbryd geny' i ffoi.

3 Chwilio, a manwl chwilio 'rwyf,
Ar nawy ac ar dde,

Ac etto, methu symmud cam
I fyny tua'r ne'.

4 O! edrych arnaf, Arglwydd mawr,
Mae hel'aeth yn boy llawer;
O! llanw'r euog tlawd sy heb ddim
O'th nefol ddwyfol ddawn.

5 Rho brawf o'r gwin a wasgwyd 'maes
O'r bêr winwydden fry,
Fel gallwyf fyth i lawenhau
Yn dy ogoniant di. w.

590. *Y difyrwch pennaf yw heddwch Duw.*

M. C.—French. Caithness.

FE flinod I f'enaid bach yn nghri,
A dwndwr oer, y byd;
Ond mae difyrwch llawer mwy
Gaiff hollol lanw 'mryd.

2 Nid yw trysorau'r India bell,
A chyfoeth maith Peru,
Ond rhyw ddisylwedd sorod gwael
I'w pwyso â fy Nuw.

3 Mae yn ei heddwch bethau mwy
Nag fedd y byd yn un;
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Cruchaf gafodd dyn.

4 Fy nymuniadau maith eu rhif,
Pe cawn hwy oll yn un,
Yw cael meddiannu ei nefol hedd,
Anfeidrol, ddwyfol rin.

5 Mi ymddigrifwn yn ei ras
Mewn cystudd ac mewn gwae;
A byddwn lawen, doed a ddêl,
Mewn sylwedd sy'n parhau. w.

591. *Disgwyl wrth yr addewid.*

M. C.—Bangor. Culross.

DISGWYL'N disgwyl wrth dy addewid
O'r boreu hyd y nawn; [bur,
Ac os caf brofi'r gloyw ddwr,
Mi fyddaf ddeddwydd iawn.

2 Ti ddwedaist fod rhinweddau'th waed
Yn fwy na beiau'r byd;
O! rho i mi weled dwyfol glwyf
Yn dofi anfeidrol lid.

3 Gad i mi brofi'r heddwch llawn,
Y dŵr rhinweddol, gwiw,
Ag sydd yn tarddu'n loyw ffrwd
O orsedd bur fy Nuw.

4 Rho i mi yfed cariad rhad
Mewn dyrys anial dir;
A phrofi rhinwedd dwyfol ddawn
Cysuron gloyw, clir.

5 Mi deithia'n ddifyr yn y blaen,
Dros greigydd serth, i'r lan;
A dof i olwg Seion bur
Yn gynnar yn y man. w.

592. *Y serchiadau ar Grist.*

M. C.—Windsor. Culross.

O! CYMMER fy serchiadau'n glau,
Fy Iesu, bob yr un:
A gwna hwy yn eisteddfa bur,
Sancteiddiaf it dy hun.

2 A gwna bob meddwl, a phob chwant,
I dynu fyny fry;
Nas gwthio holl derfysgoedd byd
Fi maes o'th gariad cu.

3 Ni wnaed yr enaid hwn erioed
I garu lliwch y llawr;
Ond i gael meddu'r fraint a roed
I gadw i f'Arglwydd mawr. w.

593. *Neb ond Iesu.*

M. C.—French. Glasynys.

FFOED negeseuau gwaeg y dydd,
Trafferthion o bob rhyw;
Ac na pharhaed o dan y nef
Ond cariad pur fy Nuw.

2 Aed tegwch byd a'i gariad ffwrdd,
A'i swynion aed yn ddim;
Ni welaf heddyw is y nef
Ond cariad Iesu o rym.

3 Meddiannodd ef â'i ddwyfol ras
Fy holl serchiadau'n un;
Na chaed o fewn i'm hysbryd fod
Neb ond fy Iesu ei hun.

4 Iesu sy'n fwy na'r nef ei hun,
Yn fwy na'r ddaear lâs;
Ac Iesu'n unig fydd fy oll
Fyth, fyth o hyn i maes.

5 Cyflawnder nerth, cyflawnder gras,
Cyflawnder nef y nef,
Uwch deall seraphim a saint,
Sy'n trigo ynddo ef. w.

594. *Ymbil am adferiad o'r caethiwed.*

M. C.—Bangor. St. Mary.

TYR'D, Arglwydd, â'th addewid rad,
Pur eiriau'r nef, i ben;
Dyddiau fy rhyddid row'd dan sel
Yn ilyfr mawr y nen.

2 Mae dyddiau griddfan i mi'n hir—
Caethiwed Babel fawr;
O! na chawn deimlo'r jubil fwyn
Yn agor dorau'r wawr.

3 Tybygwn, pe bai'm traed yn rhydd
Maes o'r caethiwed hyn,
Na wnawn ond canu fyth tra fwyf
Am ras Calfaria fryn. w.

595. *Gweddi yn yr anialwch.*

M. C.—Bangor. St. Mary.

PERERIN wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw

Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
Fod tŷ fy Nhad ger llaw.

2 Ac mi dybygaf clywaf swn
Nefolaidd rai o'm blaen,
Wedi gorchfygu a myn'd trwy
Dymmhestloedd dŵr a thân.

3 Tyr'd, Ysbryd sanctaidd, ledia'r ffordd,
Bydd i mi'n niwl a thân;
Ni cherdda'i 'n gywir hanner cam
Oni byddi o fy mlaen.

4 Mi wyraf weithiau ar y dde,
Ac ar yr aswy law;
Am hyny, arwain, gam a cham,
Fi i'r Baradwys draw.

5 Mae hiraeth arnaf am y wlad
Lle mae torfeydd diri',
Yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
Am angeu Calfari. w.

596. *Ymnerthu yn Nuw.*

M. C.—St. Ann. St. George.

WEL, f'enaid, gorfoledda mwy.
Tra f'Arglwydd mawr yn Dduw
Mae'r gair a ddwedo'n llawer mwy
Na phechod o un rhyw.

2 Dan bob cystuddiau, fwy na mwy,
Rhuadau cnawd a byd, [glwy'
Mae nerth i'w gael mewn marwol
I'w maeddu oll ynghyd.

3 'Does genyf mwy ond Duw yn Dad
Yn erbyn pob rhyw wae;
'Does genyf ond ei gariad rhad
Yn sylfaen i barhau. w.

597. *Ymdrech a buddugoliaeth y Cristion.*

M. C.—Bangor. Worcester.

'RWY'n morio tua chartre'm Nêr,
Rhwng tonau maith rwy'n byw:
Yn ddyn heb neges dan y sêr
Ond 'mofyn am ei Dduw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro'n ol,
A mimau 'dwyf ond gwan;
O! cymmer, Iesu, fi yn dy gôl,
Yn fuan dwg fi i'r lan.

3 Na'd fi ar aswy nac ar dde
I redeg o dy flaen;
Ond dilyn llwybrau Brenin nef,
Trwy ganol dŵr a thân.

4 O! gwna i fy nghalon redeg trwy
Oll atat ti dy hun;
Na bo difyrwch genyf mwy
Mewn dacar, da, na dyn.

5 A phan bo'n curo f'enaid gwan
Elynion rif y sêr,
Dyrchafa'm hysbryd llesg i'r lan
I fynwes bur fy Nêr.

6 Na bo gwrthwynebiadau'r byd,
Na chroessu o un rhyw,
I'm hoeri, nac i sugno 'mryd
Un dim oddi wrth fy Nuw.

7 Boed dioddefiadau pur y groes
I laesu'n cur a'm gwae:
Griddfanau dyfnion angeu loes
I'm rhoddi i lawenhau;

8 Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr
Yn fywyd pur i mi,
Fel gallwyf roddi'm holl i lawr
Yn gof am Galfari. w.

598. *Ymnerthu yn Nuw yn y brofedigaeth.*

M. C.—Bedford. Gloucester.

YN nyfnder profedigaeth ddu,
Dos d'hunan o fy mlaen;
Ond i mi gael bod gyda thi,
Nid ofnaf ddŵr na thân.

2 At wedd dy wyneb nid yw ddim
Trysorau maith y llawr;
Mae hanner gair o'th cnaw'n fwy
Ei rym nag uffern fawr.

3 Mae angeu, a'r bedd, ac uffern ddu,
Yn hongian wrth dy groes;
Mil o elynion goncraist ti
Trwy ddioddef angeu loes.

4 Dy allu yw fy nerth a'm grym,
Yn d'allu byddaf byw; [ddim
'Rwy'n wan, 'rwy'n llesg, ni allai
Un funyd heb fy Nuw. w.

599. *Cyfawnder trugaredd.*

M. C.—French. Martyrdom.

GWELL yw'th drugaredd a dy hedd
Na'r byd, na'r bywyd chwaith:
Ac nid oes angel gyfri' eu gwerth
I dragwyddoldeb maith.

2 Ac mae pob peth yn ciddo im,
Heb eisieu, ac i'r drai;
Ac nid oes diffyg ddaw i'r lle
Y ceffir dy fwynhau.

3 Mae pob dymuniad, a phob chwant,
Fyth yno'n eithaf llawn;
A thystio'r wyf nad oes ond Duw
A'm gwna yn ddedwydd iawn.

4 Doed y tymmhestloedd penaf ddêl,
Digonol gallu'r nef:
A rhued morocdd dros y tir,
Anfeidrol yw Efe.

5 Mi waeddaf yn y storom fawr,
Pan donau fwy na rhi':
Ac fe esgyna'm drylliog lef
I entrych nefoedd dry. w.

600. *Dedwyddwch yn Nghrist.*

M. C.—Martyrdom. Abbey.

EFE yw fynnon fawr pob dawn.
Gwraidd holl ogoniant dyn;

A rhyw drysorau fel y môr
A guddiwyd ynddo'i hun.

2 'Rwyf yn hiraethu am gael prawf
O'r maith bleserau sy
Yn cael eu hyfed, heb ddim trai,
Gan yr angylion fry.

3 Mae 'nymuniadau'n hedeg fry
Uwch creadigol fyd;
Ac yn diystyru'r ddaear hon,
A'i da o'r bron i gyd.

4 Fe'm ganwyd i lawenydd uwch
Nag sy 'mhleserau'r llawr,
I gariad dwyfol gwleddoedd pur
Angylion nefoedd fawr.

5 O! pa'm nas caf fi ddechreu'n awr
Fy nefoedd yn y byd;
A threulio 'mywyd mewn mwynhâd
O'th gariad gwerthfawr drud? w.

601. *Cyfoeth yn Nuw.*

M. C.—French. Christchurch.

NID yw'r blinderau yma fu,
Neu y blinderau ddaw,
Ddim i'w cymmharu â gwobr gras
Gaf feddu maes o law.

2 Edrychaf ar y gwynfyd drud,
Pleserau'r byd a ddaw,
Ac mi ddibrisia'r cystudd fu,
A'r cystudd sy ger llaw.

3 Ni phery'r byd, a'i rwysg, a'i rod
A'i ofid o bob rhyw,
Ond megys munyd, at y wledd,
Tragwyddol hedd fy Nuw.

4 Difyru wnaf fy oes yn llwyr
Mewn myfyrdodau maith
Ar bur bleserau Seion wen
Sy draw yn mhen fy nhaith.

5 A phe bai'n gorwedd yn y bedd
Gyfeillion goreu'r llawr,
Nid wyf amddifad tra fo byw
Fy unig Arglwydd mawr.

6 Mae ef ei hun yn llawer mwy
Na'r cwbl yma'n un;
'Rwyf yn gyfoethog uwch pob rhif
Heb ddim ond ef ei hun. w.

602. *Cariad at Grist.*

M. C.—Bangor. Martyrs.

'RWY'N edrych, dros y bryniau
Am danat bob yr awr; [pell,
Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.

2 Trodd fy nghariadau oll i gyd
'Nawr yn anffyddlon im;
Ond yr wyf finnau'n hyfryd glaf
O gariad mwy ei rym.

3 Tyn fy serchiadau'n gryno iawn
Oddi wrth wrthddrychau gau,
At yr un gwrthddrych ag sydd fyth
Yn ffyddlon yn parhau.

4 'Does gyflwr dan yr awyr las
'Rwyf ynddo'n chwennych byw;
Ond fy hyfrydwch fyth gaiff fod
O fewn cynteddau'm Duw. w.

603. *Pob peth yn ddim yn ymyl Crist.*

M. C.—Ballerma. St. Leonard.

PAN byddo f'Arglwydd i mi'n rhoi
Ond golwg ar ei wedd,
Mae'r oll a welir dan yr haul
Yn ddiddim wrth ei hedd.

2 Mae ardderchowgrwydd, rhwysg, a [grym
Y ddaear fawr i gyd,
Wrth deimlo'r gronyn lleia' o'th hedd,
Oll yn diflanu 'nghyd.

3 Mi rof fymddiried ynddo ef,
Mae'n noddfa lawn i'r gwan;
Ac er y curo sy arna'i lawr,
Fe god fy mhen i'r lan. w.

604. *Teithio trwy nerth y groes.*

M. C.—Martyrdom. Ballerma.

AC er fod draw afonydd mawr—
Holl ofnau angeu loes,
Af trwyddynt, er eu grym a'u maint,
Dan gysgod gwaed y groes.

2 Mi glywaf lais merthyron lu,
A seintiau, yn y blaen,
'Nawr wedi cyrhaedd pen y daith,
Er gwaethaf dwr a thân.

3 Fy enaid, diange tua'r lan,
Nac ofna'r drygau hyn,
A chadw d'olwg yn y blaen
Yn union at y bryn.

4 Edrychaf ar y croesbren trwm
Fu ar ei ysgwydd ef,
A'r goron ddrain fu ar ei ben,
Pan brynodd i mi'r nef.

5 Mae'n eiriol fry o flaen y faingc,
Yn cofio'i boen a'i waed;
Ac wedi gwneyd tragwyddol hedd
'Nawr rhyngof fi a'm Tad.

605. *Yr aflan yn anturio at yr orsedd.*

M. C.—Gloucester. St. Stephan.

ER maint fy llygredd o bob rhyw,
Er cymmaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn, chwith,
Sy'n para fyth yn gryf;

2 Af at yr orsedd fel yr wyf—
Anfeidrol orsedd gras,
Datguddiaf yno 'nghlwyfau maith,
A'm holl archollion cas.

3 Mi welaf lu anfeidrol wyn,
Yn aml fel y sêr,
A fu fel finnau'n aflan oll,
Yn bur yn nghwmni'm Nêr.

4 Wel, finnau'r eiddil, gwana'i lun,
Heb ddim ond ffiaidd friw,
Anturiaf at drysorau'r nef—
Cyfiawnder pur fy Nuw. W.

606. *"Na wrthod fi."*

M. C.—Windsor. Worcester.

AT un a wrendy weddi'r gwan
'Rwyf yn dyrchafu 'nghri;
Yn mhob cyfyngder, ing, a phoen,
O Dduw! na wrthod fi.

2 Er mor annheilwng o fwynhau
Dy bresennoldeb di,
A haeddu 'mwrw o ger dy fron,
O Dduw! na wrthod fi.

3 Pan fo'm cydnabod îs y nen
Yn cefnu arna'i 'n rhi',
A chân a chyfaill yn pellhau,
O Dduw! na wrthod fi.

4 Er bod yn euog o dristau
Dy Ysbryd sanctaidd di,
A themtio dy anwyneud mawr,
O Dduw! na wrthod fi.

5 Er mwyn dy grog a'th angeu drud
Ar fynydd Calfari,
A'th ddwys eiriolaeth yn y nef,
O Dduw! na wrthod fi.

6 Pan yn wynebu ymchwydd yr
Iorddonen ddofn ei lli',
A theithio'n unig drwy y glyn,
O Dduw! na wrthod fi.

7 A phan y deui yr ail waith,
Mewn mawredd, parch, a bri,
I farnu'r byw a'r marw 'nghyd,
O Dduw! na wrthod fi. E. E.

607. *"Fy Nhad sydd wrth y llyw."*

M. C.—French. Ballerma.

AR fôr tymmhestlog teithio 'rwyf
I fyd sydd well i fyw,
Gan wenu ar ei 'stormydd oll—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

2 Drwy lecedd geirwon, enbyd iawn,
A rhwystrau o bob rhyw,
Y'm dygwyd eisoes ar fy nhaith—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

3 Er cael fy nhaflu o don i don,
Nes ofni bron cael byw,
Diangol ydwyf hyd yn hyn—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

4 Ac os oes stormydd mwy yn ol
Yn nghadw gan fy Nuw,
Wynebaf arnynt oll yn hyf—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

5 A phan bo'n hymchwydd yn cryfhau
Fy angor sicr yw,
Y dof yn ddiogel trwyddynt oll—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

6 I mewn i'r porthladd tawel, clyd,
O swn y storm, a'i chlyw,
Y caf fynediad llon ryw ddydd—
Fy Nhad sydd wrth y llyw. E. E.

608. *Gorchestion ffydd.*

M. C.—Exeter. Caithness.

TRWY ffydd elodu gweddi'r gwael,
Ac yntau gyda hi,
Tyr ei gadwynau'n chwilfriw mân
Yn ngolwg Calfari.

2 O'r dyfnder esgyn gweddi'r ffydd,
O eigion moroedd mawr;
Ac o gyfammod Duw, a'i wedd,
Mae'n tynu hedd i lawr.

3 Trwy ffydd mae'n caelw 'nghanol tân
Er nerth ei anian ef;
Yn nghanol dewod, byw mae ffydd,
A'i golwg tua'r nef.

4 Saif ffydd, trwy ing[illegible]
[illegible]
A ffydd, a'i gwe[illegible]
A rwyga hwnw'n ddau.

5 Pe ai'r mynyddoedd oll i'r môr,
Yr Arglwydd lôr yw rhan
Pob perchen ffydd, ac ato rhed
Am nodded yn mhob man.

6 I'r lan, o'r dyfnder du, a'r don,
Daw etifeddion ffydd,
A'u cân yn un, er chwerw loes,
Am angeu'r groes ryw ddydd. R. J.

609. *Cynnaliaeth ar y daith.*

M. C.—Caithness. St. Stephan.

YN mlaen mi deithiaf tua'r wlad
Ges mewn addewid draw;
Ennillodd Iesu im ryddhâd,
Fy iachawdwriaeth ddaw.

2 Er i mi gwrdd â llueedd maith—
Gelynion mawr eu grym;
O ddydd i ddydd, tra ar fy nhaith,
Fy Nuw rydd gymmhorth im.

3 Os erwydrais fel afradlon ddyn,
Yn mhell o dŷ fy Nhad;
Ddoe, heddyw, byth, mae Duw yr un;
Parhâ ei gariad rhad.

4 Os llaesu'n awr y mae fy hedd,
Wrth gofio augeu ddydd;
Fel Dafydd, cyn fy myn'd i'r bedd,
Caf deimlo gallu ffydd.

5 Fy anwyl Grist i'm breichiau caf,
Ac yn ei haeddiant ef,
Mewn heddwch, fel Simeon, af
Yn rhwydd o'r byd i'r nef. P. W.

610. *Yr afael sicraf fry.*

M. C.—French. Ballerma.

DYWEDWYD ganwaith na chawn fyw,
Gan anghrediniaeth hy';
Ond ymddiriedaf yn fy Nuw,
Mae'r afael sicraf fry.

2 Cyfammod Duw, a'i arfaeth gref,
Yn gadarn sydd o'm tu;
Anghyfnewidiol ydyw ef;
Mae'r afael sicraf fry.

3 Er beiau mawrion, rif y dail,
A grym euogrwydd du,
Iawn ac eiriolaeth Crist yw'm sail;
Mae'r afael sicraf fry.

4 Rhagluniaeth fawr y nef o'm plaid,
Ei holl olwynion try;
Agorai'r môr, pe byddai raid;
Mae'r afael sicraf fry.

5 Caf floeddio congcwest yn y man,
Pob gelyn draw a ffy;
Can's er nad ydwyf fi ond gwan,
Mae'r afael sicraf fry. P. J.

611. *Disgwyl wrth yr Arglwydd.*

M. C.—St. Stephan. Gloucester.

MAE addewidion melus wledd,
Yn gyflawn ac yn rhad,
Yn y cyfammod pur o hedd,
Trugwyddol ei barhâd.

2 'Rwyf finnau yn dymuno dod
I'r wledd ddanteithiol fras;
Ac felly mi gaf seinio clod
Am ryfedd rym ei ras.

3 O! rhwyma fi wrth byst dy byrth,
I aros tra fwyf byw,
I canu'n dar dy weddi a'th wyrth,
A'th foli di, fy Nuw.

4 Tydi fo'm cymmhorth parod iawn,
I'm cynnal ar fy nhaith;
A thi dy hun fo'm trysor llawn
I dragwyddoldeb maith. T. J.

612. *Profiadau cymmysg.*

M. C. D.—Aeron.

GALARU'r wyf mewn dyffryn du,
Wrth deithio i dŷ fy Nhad;
Ar ben y bryniau'n llawenhau
Wrth weled cyrau'r wlad:
'Rwy'n ddu fy lliw, a'm gwisg yn wen;
'Rwy'n llawen ac yn brudd;
'Rwy'n agos iawn, ac etto 'mhell;
'Rwy'n waeth, 'rwy'n well, bob dydd. AN.

613. *Chwant i'm dattod.*

2. 8.—Potsdam. Aberdeen.

DRAW'r wledd, [ryddhâd
Lle'r wyf yn disgwyl llwyr
O law'm gelynion mawr eu brad,
Trwy rinwedd gwaed fy Iesu gwiw;
'Does gelyn mwy a ddaw i'r lan
I'r hyfryd fan ar fyr caf fyw.

2 Y llen [wen,
Sydd rhyngwyf 'nawr a'r nefoedd
A rwyga Duw o'r ddae'r i'r nen;
I'r wlad uwch ben fe'm harwain ef;
A dringo i'm gorphwysfa gaf,
Sy'n mynwes Naf o fewn i'r nef.

3 A byw
Ga'i 'n dawel fry heb boen na briw,
A'm cynnhes nyth yn nghôl fy Nuw,
Lle mae pob rhyw ddiddanwch llawn; [nghnawd,
Yn rhydd i'r llwch mi rown fy
Fyn'd at fy Mrawd yn awr, pe cawn.

4 Mor fawr
Yw'r syched sy ar f'enaid 'nawr,
Am wel'd dy wedd, O! hyfryd awyr—
Borendydd trugwyddoldeb pur;
Ymado'n rhwydd â chân a ffrynd
A wnawn, gael myn'd i'r nefol dir.

5 Bob pryd,
Pfarwel i ti, ddaearol fyd,
'Does yma i'w gael ond gwae i gyd:
Mae'm trysor drud mewn ninas draw,
Mae 'nghalon eisoes gyda'm Brawd,
Lle bydd fy nghnawd i maes o law. W.

614. *Iachawdwriaeth trwy yr Arglwydd.*

2. 8.—Bethesda. Dorcas.

YN rhad [iachâd,
'Rwy n disgwyl rywbryd cael
Er mwyn yr Aberth mawr a gaed;
Dyrchafu'r gwaed a fydd fy ngwaith,
I oesoedd diriedfi'r gwlith,
Os dof fi byth i ben fy nhaith.

2 Yr Oen
Aeth dan fy mhenyd i a'm poen,
Ni thawaf byth am dano a sôn;
Ei gariad tirion fydd fy nghân
Am achub un mor wael ei lun,
A'm tynu ei hun o'r gynneu dân. AN

615. *Gras yr Iesu, a thrueni pechadur.*

7.6.D.—Pwllheli. Caerllyngoed.

ANGYLION doent yn gyssen,
Rifedi gwlith y wawr,
Rhoent eu coronau euraidd
O flaen y fainge i lawr,
Chwareuent eu telynau
Ynghyd â'r saint yn un;
Fyth, fyth ni chanent ddigon
Am Dduwdod yn y dyn.

2 Ni fuasai genyf obaith
Am ddim ond ffiamau syth,

Y pryf nad yw yn marw,
A'r t'wyllwch dudew byth,
Oni buasai i'r hwn a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari,
O ryw anfeidrol gariad,
I gofio am danaf fi.

3 'Rwy'n edrych arnaf f'hunan
A rhyw gasineb mawr;
Mwy diddim, mwy disylwedd,
Na phryfed mân y llawr;
'Does ond yr aberth hwnw
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm crea oll yn newydd,
A'm golcha oll yn wyn.

4 Ti, Farnwr byw a meirw,
Sydd ág allweddau'r bedd,
Terfynau eitha'r ddaear
Sy'n disgwyl am dy hedd;
'Dyw gras i ti ond gronyn,
Mae gras ar hyn o bryd
Ryw filoedd maith o weithiau
I mi yn well na'r byd.

5 O flaen y fainge rhaid sefyll,
Iê, sefyll cyn bo hir;
Nid oes a'm nertha yno
Ond dy gyfiawnder pur:
Myfi anturia'n eon
Trwy ddyfroedd a thrwy dân,
Heb oleu ac heb lewyrch,
Ond dy gyfiawnder glân. W.

616. *Cyfranogiad o rinwedd y gwaed.*

7.6.D.—Caerllyngoed. Abertawe.

O! YSBRYD pur nefolaidd.
Cyn 'relwyf lawr i'r bedd,
Trwy ryw athrawiaeth hyfryd,
Gâd i mi brofi'th hedd:
Maddeuant! O maddeuant!
Maddeuant cyfan, rhad,
Yw'r cyntaf peth wy'n geisio
Yr awrhon yn y gwaed.

2 O haeddiant annherfynol,
A gras o nefol ryw,
Rhaid i mi gael, a whelo
Fy heddwch llawn â Duw:
'Dyw gwaith, a dyledswyddau
Ganmolir trwy'r holl fyd,
Yn abl i faddau pechod,
Pe byddent fyrdd ynghyd.

3 Mae ynddo nerth diderfyn,
Doethineb maith yn rhad;
Deng miliwn o rinweddau,
A rhagor, yn ei waed:
Mae ynddo ât bob angen
Sydd ar bechadur gwan,
Dan filoedd o ammheuon,
I godi ei ben i'r lan.

4 O! cred, O! cred, cei gymmhorth
I dynu'r llygad de:
O! cred, O! cred, cei allu
I dori'r fraich o'i lle:
Trwy gredu, ti orchfygi
Elynion rif y gwlith;
Cred yn yr Oen yn unig,
A'th wna yn hapus byth. W.—TH.

617. *Gweddi am gymmhorth mewn gwendid.*

7. 6. D.—Pwllheli. Caerllyngoed.

O! TYRED, Iôr tragwyddol,
Mae ynot ti dy hun
Fwy moroedd o drugaredd
Nag a feddyliodd dyn:
Os deui at bechadur,
A'i godi ef i'r lan,
Ei galon gaiff, a'i dafod,
Dy ganmol yn y man.

2 Gwaredu'r saint rhag uffern
A phechod drwg ei ryw,
O safn y bedd, ac angeu,
A'u dwyn i fynwes Duw;
Eu harwain dros fynyddau,
A thrwy yr anial chwith,
A grea nef y nefoedd
Yn gân heb ddiwedd byth.
W.—TH

618. *Dirmyg Crist.*

7. 6. D.—Manheim.

DA yw y groes, y gw'radwydd,
Y gwawd, a'r erlid trist,
Y dirmyg a'r cystuddiau,
Sydd gyda Iesu Grist;
Can's yn ei groes mae coron,
Ac yn ei wawd mae bri,
A phleser yn ei gariad
Sydd fwy na'n daear ni.
W.—G. D. C

619. *Pwyso ar Crist.*

7. 6. D.—Bremen. Ramah.

WEL, pwysaf arnat, Arglwydd,
Tra yma bydd wyf byw:
Dy angeu sydd yn deilwng,
Ti wyt anfeidrol Dduw:
O! atteb dros fy meiau,
A chliria fi â'th waed,
Yn ngwydd yr holl angylion,
Yn awr ger bron fy Nhad.

2 Ni edrychaf ar ddim arall
Yn unig ond tydi,
Dan hoelion dur yn griddfan
Ar fynydd Calfari;
Fy lloches rhag euogrwydd,
Tra ar y ddaear hon,
Fydd ol yr hoelion geirwon,
A chlwyf y waywffon.

3 Yn awr 'rwy'n gorfoleddu,
Can's gosod wnes y sail
Ar gadarn Graig yr oesoedd,
Sef bneddiant Adda'r ail;

Dim arall dan y nefoedd
All roddi i mi hedd,
A thawel orfoleddu
Yn wyneb angeu a'r bedd.

4 Mi rof fy nwylaw bellach
Ar ben yr aberth mawr;
Mi rifaf yno'n gryno
Fy holl bechodau i lawr;
Fe'u rhof yn bwn i orphwys
Ar ysgwydd Brenin nen;
Fe'i gwela'n crymu danynt
Wrth farw ar y pren.

5 Duw, rho i mi ffydd i edrych,
Yn mhob caethiwed du,
A phechod arna'i 'n gwasgu,
Ar fryniau Calfari:
Gwna i fy nghalon deimlo
Dy anghymmharol loes;
A'm llocheS gynnes, dawel,
Fo'n wastad dan y groes.

W.—G. D. C.

620. *Sylfaen safadwy.*

7. 6. D.—Manheim.

AM graig i adeiladu,
Fy enaid, chwilia'n ddwys;
Y sylfaen fawr safadwy
I roddi arni'th bwys:
Bydd melus yn yr afon
Gael Craig a'm deil i'r lan,
Pan fyddo pob rhyw stormydd
Yn curo ar f'enaid gwan. G.

621. *Ymbil am faddeuant.*

7. 6. D.—Llydaw. Talybont.

PECHADUR wyf, O Arglwydd!
Yn curo wrth dy ddôr;
Erioed mae dy drugaredd
Ddiddiwedd yn ystôr:
Er i ti faddeu beiau
Rifedi'r tywod mân,
Gwn fod dy rad drugaredd
Lawn gymmaint ag o'r blaen.

2 Dy hen addewid rasol
A gadwodd rif y gwlith
O ddynion wedi eu colli
A gân am dani byth;
Er cael eu mynych glwyfo
Gan bechod is y nen,
Iacheir eu mawrion glwyfau
A dail y bywiol bren.

3 Gwasgara'r tew gymmylau
Oddi yma i dŷ fy Nhad;
Dadguddia i mi beunydd
Yr iachawdwriaeth rad;
A dywed air dy hunan
Wrth f'enaid clwyfus, trist,
Dy fod yn maddeu 'meiau
Yn haeddiant Iesu Grist. M. R.

622. *Y Publican edifeiriol.*

7. 6. D.—Talybont. Jabez.

O'TH flaen, O Dduw! 'rwy'n dyfod,
Gan sefyll o hir bell;
Pechadur yw fy enw—
Ni feddaf enw gwell;
Trugaredd wyf yn geisio,
A cheisio etto wnaf;
Trugaredd i mi dyro,
'Rwy'n marw oni chaf.

2 Pechadur wyf, mi welaf,
O Dduw! nad allaf ddim; [euog,
'Rwy'n dlawd, 'rwy'n frwnt, 'rwy'n
O! bydd drugarog im;
'Rwy'n addef nad oes genyf,
Trwy 'mywyd hyd fy medd,
O hyd ond gwaeddi—"Pechais!
Nid wyf yn haeddu hedd."

3 Mi glywais gynt fod Iesu,
A'i fod ef felly'n awr,
Yn derbyn publicanod
A phechaduriaid mawr;
O! derbyn, Arglwydd—derbyn
Fi hefyd gyda hwy,
A maddeu f' holl anwiredd,
Heb gofio'm camwedd mwy. T. W.

623. *Dedwydd fuddugoliaeth yn y diwedd.*

7. 6. D.—Manheim. Syria.

OS dof fi trwy'r anialwch,
Rhyfeddaf fyth dy ras,
A'm henaid i lonyddwch
'R ol ganwaith golli'r maes,
A'r maglau wedi eu tori,
A'm traed yn gwbl rydd;
Os gwelir fi fel hyny,
Tragwyddol foli a fydd.

2 Os gwelir fi, bechadur,
Ryw ddydd ar ben fy nhaith
Rhyfeddol fydd y canu,
A newydd fydd yr iaith;
Yn seinio "Buddugoliaeth,"
Am iachawdwriaeth lawn,
Heb ofni colli'r fywyd,
Na boreu na phrydnawn. AN

624. *Diangfa i'r bywyd.*

7.6.D.—Meirionydd. Talyllyn.

CES ddŵr o'r graig i yfed,
I dori'm syched mawr;
Ces beunydd fara i'w fwyta,
O'r nef y daeth i lawr;
Ces delyn tu yma i angeu,
Fy holl gystuddiau ffodd,
I ganu i'r Oen fu farw,
Mae'n Briod wrth fy modd.

2 Mi gysgaf hûn yn esmwyth
Ar fyr yn llwch y llawr,

Yn holliach, wedi gorphen
Milwriaeth f' Arglwydd mawr;
Heb elyn i fy mlino
I dragwyddoldeb maith;
Caf fuddugoliaeth hollol
Yn lân ar ben fy nhaith. M. B.

625. *Prwyso ar drugaredd.*

7. 6. D.—Talybont.

ATTOLWG, Arglwydd, gwrando,
'Rwy'n curo wrth dy ddôr,
Gan deimlo 'maich yn drymach
Na thywod mân y môr:
Er cymmaint yw fy llygredd,
Mwy yw'th drugaredd di:
O! crea anian fywiol,
Anfarwol, ynof fi. RT. W.

626. *Gras, y trysor goreu.*

M. B.—Ridge. Ipswich.

POB pleser is y rhod
A dderfydd maes o law:
Ar bleser uwch y mae fy nod,
Yn nhir y bywyd draw.

2 Pe meddwn aur Peru,
A pherlau'r India bell,
Mae gronyn bach o ras fy Nuw
Yn drysor cannil gwell.

3 Gwell na phleserau'r byd
Un funyd o'th fwynhau;
Gwedd Iesu hardd rydd i mi o hyd
Wir fywyd i barhau.

4 Dymunwn ado'n lân
Holl wâg deganau'r llawr,
A phenderfynu myn'd yn mlaen
Ar ol fy Mhrynwr mawr. W. L.

627. *Y daith o'r Aipht.*

M. B. D.—Aberdar. Pererin.

O ARGLWYDD! awdwr hedd,
Tra rhyfedd yw dy ras;
Tr'm tynaist i, fel yn dy law,
O'r dywyll Aipht i maes:
Dy wialen di, a'th ffon,
Rydd im gysuron rhad;
Dy rasol hedd, fy Iesu hael,
Yw'm gwledd mewn anial wlad.

2 Pan oedd fy ngoruarth gwan
Yn llesg wrth lan y môr,
Lleb genyf flydd, na nerth i ffoi,
Yn ebrwydd doi fy lôr
I'm tywys ar fy nhaith,
Tua'm hetifeddiaeth rad:
Dy rasol hedd, &c.

3 Tramwyaist o fy mlaen
Trwy diroedd Basan draw;
Rhoddaist y llu, er maint eu llid,
A'u bro i gyd mewn braw:
Gelynion, yn mhob man,
A gwympant dan fy nhraed:
Dy rasol hedd, &c.

4 Gwell wyt i'm henaid gwan
Na tharian, yn ddigêl;
Ar fy ngelynion cued y dydd,
D' addewid sydd dan sêl;
Can's ffyddlon wyt erioed,
Mewn ammod o barhad:
Dy rasol hedd, fy Iesu hael,
Yw'm gwledd mewn anial wlad. W

628. *Cymmhorth o Ddwy.*

M. B. D.—St. Barnabas.

RHOF arno ef fy nhwys,
Er maint y cyfrwys lu;
Fel un cystuddiol, rhoddaf floedd
I entrych nefoedd fry:
Mi goda'm dwylo i'r nav—
Lluddedig, gwan, a gwyw,
Ac ni wan gredaf gario'r dydd,
Fy nghymmhorth fydd fy Nuw. w

629. *Mawl am brofiad o fendithion iachawdwriaeth.*

M. B. D.—Eden. Aberdar.

BENDIGAID fyddo'r awr
Y clywais ddwyfol lef,
O'r anial fyd, i'm galw i maes
Tua hyfryd deyrnas nef;
Fe godoid seren ddydd,
A'i goleu sydd yn rhoi
Cymyiau t'wyllaf, tewaf, llawn,
Yn fuan iawn i ffoi.

2 Ces brofi dwyfol hedd
Gyda gorfoledd mawr:
'Rwy'n cofio'r effaith—cofio'r pryd,
Yn hyfryd hyd yn awr.
Pan gefais wir ryddhâd,
Trwy werthfawr waed fy Nuw;
Ei gariad oedd yn felus braf,
Fe'i caraf tra bwyf byw.

3 A thyma'r cyntaf bryd
Yr aeth y byd yn ddim,
Y collodd hithau, uffern fawr,
(O! hyfryd awr!) ei grym:
Fy enaid aeth yn rhydd,
Pan ddaeth y dydd i ben;
Ni all cadwynau ddala awr
Dros arfaeth fawr y nen.

4 Dangoswyd im pryd hyn
Y baraawysaidd wlad,
A'r holl bleserau hyfryd sy
O fewn i dŷ fy Nhad:
Y manna nefol, cudd,
Fy i'w gael, yn rhydd heb drai,
Dros dragwyddoldeb yn y nef
I'r dewisedig rai.

5 'Roedd pob gwageddol flys
A gefais is y nef
Yn toddi, ac yn myn'd yn ddim,
Yn ngrym ei gariad ef;
Fe ddarfu pob rnyw ilas
Ar bleser cas ei ryw,

Pan gefais yfed dyfroedd clir
O ffynnon bur fy Nuw. W.

630. *Hyder yn Nuw.*

M. B. D.—Pererin. Aberdar.

WEL, f'enaid, dos yn mlaen,
'Dyw'r bryniau sydd ger llaw
Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
Na hwy a gwrddaist draw:
Dy anghrediniaeth gaeth,
A'th ofnau maith eu rhi',
Sy'n peri it feddwl rhwystrau ddaw
Yn fwy na rhwystrau fu.

2 'Run nerth sydd yn fy Nuw,
A'r un yw geiriau'r nef,
'Run gras, a'r un ffyddlondeb sy
'N cartrefu ynddo ef:
Fy ngwendid o bob math,
A'm llygredigaeth cry',
Ddiffoddant, er eu natur gas,
Hyd fyth mo'r gras sydd fry.

3 Mi welaf fyrdd dan sel,
Fu'n ofni fel fy nun,
'Nawr wedi dringo'r creigiau serth,
I gyd trwy nerth yr un;
Yn canu'r ochor draw,
Heb arnynt fraw na phoen,
Caniadau byfryd Calfari,
Dioddefaint addfwyn Oen. W.

631. *Hyder trwy y groes: yn fwy na grym ewogrwydd.*

M. B. D.—St. Barnabas. Pererin.

TI, Iesu, Frenin nef,
F'Anwylyd a fy Nuw,
Yn eithaf pell o dŷ fy Nhad,
[illegible]:
Mewn ofnau 'rwyf, a braw,
Bob llaw gelynion sydd;
O! addfwyn Iesu, saf o'm rhan,
A thyn y gwan yn rhydd.

2 Mae Satan ar fy ne'
Yn pledio grym fy chwant;
Ac mae euogrwydd, gwmwl du,
Yn cadw'r goleu i bant;
Mae pechod gyda'r rhai'n
A'i uffernol sain mor gry',
'Rwyf finnau'n diangc, rhag fy nal,
I fynydd Calfari.

3 Ac yno, dan y groes,
Mi glywaf gryfach llef,
Mi glywaf ocheneidiau gwir,
[illegible] y nef;
Ac yno gwnaf fy nyth,
Yn mhlith rhai dua'r rhyw;
Mi welaf fy ewogrwydd du
Yn hollol i fy Nuw.

4 Mae rhinwedd yn dy waed
[illegible]
Naz y gall angel fyth, na dyn,
[illegible]:
Mae ffynnon ar y bryn
A ylch yn wyn a glân,
Bechodau o'r ffieiddia 'rioed,
Rifedi'r tywod mân.

5 'Does diwedd fyth, na thrai,
Ar gariad angeu loes,
Uwch pris o'r gwerthfawrocaf gaed
Yw haeddiant gwaed y groes:
Fe gana'r Negro du,
Fe gana'r Indiad draw,
Fe faddeu i'r anian oea y sydd,
Fe faddeu i'r oes a ddaw. W.

632. *Anfarwol fywyd ile bydd Duw.*

M. B. D.—Pererin. Eden.

MAWN anial dyrys le,
Heb gwmni neb rhyw ddyn,
Y gallwn, ond cael cwmni Duw,
Yn dawel fyw fy hun:
Fe leinw oll yn llân,
Tu fewn, ac o'r tu faes;
Nid yw'r creadur, er ei rym,
Yn helpu dim o'i ras.

2 Mae tywyll anial nos,
Peryglon o bob rhyw,
Holl ofnau'r bedd, pob meddwl gwan,
Yn ffoi o'r fan bo'm Duw:
Ond tegwch dwyfol clir
A chariad pur a hedd,
Gaiff fod yn wleddoedd pur didrai
I'r rhai sy'n gwel'd ei wedd.

3 Y fan bost ti, fy Nuw,
Anfarwol fywyd sy,
Yn tarddu, megys dwr o'r graig,
I'r lan i'r nefoedd fry:
Rhyw wawr ddisgleirwen sydd
Yn tywynu o hono ef,
Yn arwain, trwy bob ffos a phant,
Holl ffyddlon blant y nef.

4 Ffarwel, chwi haul a lloer,
Ffarwel, chwi ser y ne',
Mae presennoldeb pur fy Nuw
Yn well yn llanw'r lle:
Rhyw fath drugwyddol ddydd—
Goleuni sydd yn fwy,
Yw'r hwn sy'n dod oddi wrth ei wedd,
Na'u holl ddisgleirdeb hwy. W.

633. *Pwys ar ffyddlondeb Duw.*

M. B. D.—Pererin. Eden.

'RWY'N ofni'm nerth yn ddim
Pan elwy' i rym y don;
Mae terfysg yma cyn ei ddod,
A syndod dan fy mron:
Mae ofnau o bob rhyw,
Oll fel y diluw 'nghyd,
Yn bygwth i fy nhori i lawr,
Pan ddel eu hawr ryw bryd:

2 A minnau sydd am ffoi,
Neu ynte droi yn ol,

Yn methu credu saif i'r lan
Un truan, gwan, a ffol;
Ac etto 'rwyf o hyd
Yn symmud peth yn mlaen;
Nid fi yw'r cyntaf eiddil wr
Gongcwerodd ddwr a thân.

3 'Rwyf yn terfynu 'nghred,
'Nol pwyso oll ynghyd,
Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
Ond Duw sydd un o hyd;
Ar ei ffyddlondeb ef,
Sy'n noddfa gref i'r gwan,
Mi gredaf dof, 'mhen gronyn bach,
O'r tonau'n iach i'r lan.

4 Cyfiawnder marwol glwyf,
A haeddiant dwyfol loes,
Y pris, y gwerth, yr aberth drud,
A dalwyd ar y groes,
A gliria 'meiau'n llwyr,
A'm golcha'n hyfryd lân;
Ac nid oes arall dan y nef
A'm nertha i fyn'd yn mlaen. W.

634. *"Awn a meddiannwn y wlad."*

M. B. D.—Aberdar. Heidelberg.

WEL, deuwch tua'r wlad,
Y ffordd a gaed yn rhydd;
Ar ol rhyw noswaith dywyll, faith,
'Nawr gwawrio wnaeth y dydd:
Oddi yma i Peru
Mae efengyl Duw'n rhoi blcedd,
Cyhoedda i'r Negro du eu lliw
Drugaredd Duw ar goedd.

2 Y manna pur ar goedd,—
Dyferion nefoedd fry,
Sydd yn dyhidlo, foreu a nawn,
Yn beraidd iawn i ni;
Y diliau hyfryd hyn
Gawn brofi yn y man,—
Afonydd gloyw felus win,
O nefol riu i'n rhan. W.

635. *Gras yn orchfygol.*

M. B. D.—St. Barnabas. Pererin.

O! F'ENAID, moria'n ddewr,
Mae tonau mawr yn groes,
Cynddeiriog rai yn canlyn sy
'N olynol, ddydd a nos;
Mae cystudd ar bob llaw
Fyth, yma a thraw, 'n parhau,
A'm hysbryd egwan, dan bob ton.
Yn mron a llwfrhau.

2 Mae'm beiau'n fawr eu grym,
Megys rhyw fyddin gref,
Yn sefyll, fel y creigydd serth,
Yn erbyn nerth y nef:
Tyr'd, anorchfygol ras,
Meddianna'r maes yn awr,
A thor elynion mawr eu llid
Yn gryno i gyd i'r llawr.

3 Disgwyliaf ddydd i ddod,
Hapusa 'rioed a gaed,
Pan gaffo gras effeithiol, pur,
Feddiannu tir ei wlad:
Rhaid i'r gelynion ffoi
Er ynt grynhoi ynghyd;
Cwymp dyfais uffern fawr bob darn
Dan farn anfeidrol lid.

4 Wel, bellach, af yn hyf,
Mae Brenin cryf ger llaw,
Ac nid oes ddwg, o tan y nef,
Ei ddefaid ef o'i law:
Ei air sydd nerthol wir,
A'i Ysbryd pur yn dân,
Nas gall y gelyn mwya'i rym
I sefyll ddim o'i flaen. W.

636. *Israel Duw yn croesi yr Iorddonen.*

M. B. D.—Pererin. Aberdar.

MAE yr Iorddonen fawr
Yn dal yn awr ei dwr,
Mae Israel Duw, trwy ganol hon,
Yn myn'd yn llon, bob gwr:
Mae'n sefyll ynddi'r arch,
Yn fawr ei pharch a'i bri,
Ac yno bydd ein tirion Ffrynd,
Nes trosodd fyn'd â ni.

2 Ni chaiff y dyfroedd maith
I rwystro'n taith yn mlaen:
Fe grona'r dwr, fe hyllt pob bryn,
Fe ddiffydd grym y tân:
'Does pobl a fedd fath fraint
A'r saint o dan y nef,
Sy'n cael eu dwyn, trwy lif a thon,
Yn ffyddlon ato ef.

3 'Does bellach ddim ond mawl,
A chanmawl fyth ein Duw;
Ein tŵr a'n tarian yn mhob man
Efe ei hunan yw;
'Dyw pechod, er ei rym,
Ei euogrwydd llym a'i boen,
O bwysau ddim o flaen y Tad
At werthfawr waed yr Oen. W.

637. *"Bydd drugarog wrthyf, bechadur."*

M. B. D.—St. Barnabas.

'RWY'n gorwedd dan fy mhwn,
Yn isel wrth dy draed,
Yn adde' mod yn waelach dyn
Nag ettо un a gaed;
R yw ddyfnder sy yn fy nghlwy'
Mwy nag a ddeall dyn,
Ac nid oes yn f'adnabod sy
Neb ond tydi dy hun.

2 O! gwrando weddi'r tlawd;
On'd ffyddlawn frawd wyt ti
I'r rhai cystuddiol, clwyfus, gwan,
Sy'n 'mofyn rhan o fry?

Ti wyddost am fy mhla,
Fy ngofid a fy mhwn,
Ac nid oes ond d'anfeidrol rym
All symmud dim o hwn.

3 Mi rof fy meian o'r bron
Yn gysson o dy flaen;
Tafl hwy i fôr o anghof pur,
Mewn anial dir yn lân;
Na safed y rhai hyn
Fyth yn fy erbyn draw,
Pan y cyhoeddir beiau cudd
O fewn y dydd a ddaw.

4 Ond boed maddeuant rhâd,
Yn hyfryd waed yr Oen,
Yn destyn moliant yn mhob man
I mi sydd dan fy mhoen;
Yr anthem faith ei hyd
Fo i gyd am Galfari;
A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn
Row'd un prydnawn i ni. w.

638. *Nerth Duw yn y tywydd garw.*

M. B. D.—Pererin. Eden.

'RWY 'n ofni grym y dwr,
Yn yr forddonau gref;
'Rwy'n syllu ar y creigydd maith
Sydd ar fy nhaith i dref;
Duw, bydd yn nerth i'r gwan,
A dal fi i'r lan yn gryf,
Dan demtasiynau, gefnllif llawn,
Sy â'u tonau heb ddim rhif.

2 Cyflawnir gair fy Nuw,
A deued fel y dêl,
Can's holl amcanion nefoedd fry,
Bob sillaf sy dan sel;
Ac ar ei air a'i nerth,
A dwyfol werth ei waed,
Mi af trwy bob gelynion hyf
I mewn i dŷ fy Nhad. w.

639. *Cynnaliaeth ar y daith.*

M. B. D.—Aberdar, Pererin.

CHWI bererinion glân,
Sy'n myn'd tua'r Ganaan wlad,
Ni thariaf finnau ddim yn ol,
Dilynaf ol eich traed;
Nes elwy' i Salem bur
Mewn cysur llawn i'm lle;
O! Ffrynd troseddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dre'.

2 Mi ge's arwyddion gwir
O gariad pur fy Nuw;
Ei ras a'i dawel byfryd hedd,
I'm henaid, rhyfedd yw;
Yn mhell o'r babell hon
Mae 'nghalon gydag e';
O! Ffrynd troseddwyr, &c.

3 Mae'r manna wedi ei gael,
Mewn dyrys anial dir;
Ymborthi caf, ond myn'd yn mlaen,
Ar ffrwythau'r Ganaan bur;
Mae yno sypiau grawn
Yn llawn o fewn i'r lle;
O! Ffrynd troseddwyr, &c.

4 Wrth feddwl am y wlad
A rasbar'toed i'r plant,
A chyflawn degwch tŷ fy Nhad,
Mae ar fy nghalon chwant
I lanio uwch y nen,
Tu draw'r Iorddonen gre';
O! Ffrynd troseddwyr, &c.

5 'Rwy'n gweled, trwy fy Nuw,
Y concraf fyd a chnawd;
O dan ei aden gwnaf fy nyth,
Ni fyddaf byth yn dlawd;
Mae'm hetifeddiaeth wych
O fewn i entrych ne';
O! Ffrynd troseddwyr, moes dy law
A thyn fi draw i dre.' w.

640. *Pererindod y Cristion.*

M. B. D.—St. Barnabas.

FY ngweddi, dos i'r nef,
Yn union at fy Nuw,
A dywed wrtho ef yn daer,
"Attolwg, Arglwydd, clyw!
Cyflawna'th 'ddewid wych,
I'm dwyn i'th nefoedd wen;
Yn Salem fry par'to fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen."

2 Pererin llesg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geisio gwlad sydd well;
Am ffoi mae f'enaid tlawd
At f'anwyl Frawd a'm Pen;
Yn Salem fry, &c.

3 Yn nglyn wylofain trist,
Lle bu fy Nghrist, 'rwy'n byw;
Ac wrth ryfela â'm gelyn caeth
Fy nghalon aeth yn friw;
Iachâ bob clwyf a brath
A dail y bywiol bren;
Yn Salem fry, &c.

4 Mae 'mrodyr uwch y nen
Yn canu ar ben eu taith;
A minnau oedais lawer awr
Ar siwrnai fawr a maith;
Ond bellach tyn fi'n ddwys,
Ar Grist dod bwys fy mhen;
Yn Salem fry, &c.

5 'Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir
I fod o dir fy ngwlad;
Bryd deuaf at fy mrodyr fry
Sy'n canu'n nhŷ fy Nhad?
Gael gorphen ar fy nhaith,
A'm siwrnai faith is nen;
Yn Salem fry par'to fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen. w.

641. *"Daeth amser i'r adar ganu."*

M. B. D.—Eden. Aberdar.

FFARWEL, bleserau'r byd,
Ei freulyd fri a'i fraw,
Ehedwn mwy fel adar mân,
I'n trigfan treiglwn draw;
Cawn yno hyfryd heddi,
A rhyfedd roddion rhad;
O! dowch, O! dowch, ni awn yn hy'
Tua'r wledd sy'n nhŷ ein Tad.

Yn awr mae'r adar mân
Ar dân yn moli Duw;
Yn awr mae'r haul a'r nefol hin
Ar rai o'r werin wiw:
Fe ddaeth y jubili,
On'd braf yw'n bri a'n braint?
Cawn fyn'd i dref ar fyr o dro,
I seinio gyda'r saint.

3 Ein brodyr sydd o'u bron
Yn morio i Seion wiw;
Mewn hyfryd hwyl yn myn'd tua'r
Lle mae ein Tad yn byw; [wiad
Cawn lanio yn y man
I'r hafan hyfryd fry,
I blith y rhai sy'n gwaeddi "Rhad,
Am gariad Iesu cu!" W.

642. *Awyddfryd y Cristion.*

M D. D.—Pererin.

MAE arnaf eisieu sêl
A chariad at dy waith,
Ac nid rhag ofn y gosb a ddêl,
Nac am y wobr chwaith;
Ond gwir ddymuniad llawn
Ddyrchafu'th gyflawn glod,
Am i ti wrthyf drugarhau,
A chofio am dana'i erioed. D. J.

643. *Gwaredigaeth y Cristion.*

6. 6. 8.—St. Ambros.

GALARUS yw'm holl daith
Gan orthrymderau maith,
Gan rif a grym gelynion câs;
Gan ofnau o bob rhyw,
Gan guddiad wyneb Duw,
Gan arswyd colli'r dydd yn lân.

2 Bryd gwawria'r dedwydd ddydd,
Caf fod yn berffaith rydd
Oddi wrth fy llygredd, a phob clwy'?
'R anfeidrol ryfedd awr
Daw'm gwaredigaeth fawr,
O afael angeu du a'r bedd?

3 Er griddfan dros brydnawn,
Beddlonir fi yn llawn
Pan welaf Iesu fel y mae:
Gwel'd Iesu fel y mae
Fydd ffynnon lawn, ddidrai,
O anfesurol faith fwynhad.

4 Rhyw annherfynol wledd
O gariad llawn o hedd.
Fydd i mi ar ei ddeheu law;
A hyfryd fydd fy nghân
Pan byddaf berffaith lân,
Heb fraw ger bron ei orsedd bur. H. H.

644. *Nerth i ddwyn y groes.*

6. 6. 8.—St. Ambros.

RHO nerth i ddwyn y groes
Tra paro dyddiau f'oes;
Na âd im ddigaloni mwy
Wrth wel'd gelynion lu;
Eu saethau'n aml sy;
O! cuddia fi o fewn dy glwy'. AW.

645. *Nac ofna, f'enaid, mwy.*

6. 8.—Gwladys. Beverley.

WEL bellach, tyr'd yn mlaen,
Nac ofna, f'enaid, mwy;
Llai grym sy'n uffern dân
Na dwyfol, farwol glwy':
Mae'r gwaed, mae'r gwaed a gollodd ef
Yn ucha'i bris o fewn i'r nef.

2 Mae'r orsedd wen yn rhydd,
Aeth Meddalon yn mlaen;
Manasseh hefyd sydd
Yn canu'r nefol gân:
Mi glywa'r swn—swn pereidd yw,
Am ddwyfol, nefol, waed fy Nuw.

3 Distewch, elynion, mwy,
Rhowch le tua phen fy nhaith;
Chwi roisoch i mi glwy'
Disymmwth lawer gwaith:
Yn mlaen, yn mlaen mae'm trysor
Tu hwnt i derfyn eitha'r byd. [drud,

4 O fewn Caersalem lân
Mi welaf fyrdd o saint,
Ddiangodd yno 'mlaen
Dros fryniau mawr eu maint:
Dilynaf ol y dyrfa hon,
Er dŵr, a thân, a llif, a thon.

5 O! tyred, Arglwydd mawr,
'Does yma ddim ond gwae,
O eitha'r nen i lawr,
Oni chaf fi dy fwynhau;
Y wledd, y wledd a'm gwna yn llon
Yw cael dy wel'd y funyd hon. W.

646. *Gweddi am wyneb Duw.*

6. 8.—Dolgellau. Alexandria.

DISGLEIRIA, foreu mwyn,
'Rol nos o faith barhâd;
Dadguddia i mi'n awr
Ryw ran o'm hyfryd wlad,
Lle rheda cariad pur i maes,
Fel môr di-drai, dros faesydd gras.

2 Mae dyddiau'r Aipht yn faith,
Mae'r tywyllwch yno'n hir;
A dyrys iawn yw'r daith
I'r Canaan nefol, bur:

O! tyr'd yn glau, a dadlolo'r bedd,
Byrhâ yr oriau sy'n dwyn hedd.

3 'Rwy'n blino'r funyd hon
Dan dread pob gelyn cas;
Mi reddwn fyd o'r bron
Am deimlo nerth dy ras:
Dim end dy wel'd dros funyd awr
A'm gwna yn fwy na chowsprwr mawr.

4 'Rwy' yn o wrth fy modd
Ond edrych ar dy wedd:
Fy nghalon gaiff dd'od i
Wrth bron o dy anedd:
Ti wyt fy oll, fy Arglwydd mawr,
O fewn y nef ac ar y llawr.

5 Aed goleu'r dydd yn nos,
Fe yrnused nos o'r bron;
Dêed mored'd mawrion dros
Holl wyneb mawn y don:
And y grandiozaeth fawn i'w bedd—
Mae'n well i mi na chwilfrith hedd.

6 Pan denir fi o'r fioedd,
Gan elyn is y rhôd,
Yn fuan tyn fi'n ol
Yn agos at dy dwrcd; [faith,
Dos à fi 'mlaen, mae'r rhwystrau'n
A phell i'r ilesg yw pen y daith. w.

647. *Cyfoeth yn Nuw.*

6. 8.—Ramoth. Alun.

Y CYFOETH i mi ddaeth
Nid oes ei fath, na'i ryw,
'Tifeddiaeth hyfryd wad
Perchid laf wlad fy Nuw:
Mwy nid oes dim o dan y nef
All fy ngwahanu oddi wrtho ef.

2 O! uchder heb ei faint,
O! ddyfnder heb ddim rhi',
O! led a hyd neb fath.
Yw'n iachawdwriaeth ni: [saint,
Pwy wyr, pwy ddwed—seraph, neu
O'r ddae'r i'r nef, beth yw fy nraint?

3 Mae'r ddaear a'i holl swyn
Oll yn diflanu'n awr;
A'i themtasiynau cryf
Sy'n ewynpo'n lla i'r llawr:
Holl flodau'r byd sydd heb en liiw;
'Does dim yn hyfryd ond fy Nuw.

4 Mae baul a sêr y rhôd
Yn darfod o fy mlaen;
Mae t'wyllwch dudew'n dod
Ar bob peth hyfryd glân:
Fy Nuw ei hun sy'n barhâd, sy'n fawr,
Ac oll yn oll mewn nef a llawr.

5 "Ti, Iesu, yw ein Duw,"
Yw swn caniadau'r nef,
A'r anthem, gyda blas,
Sy'n myn'd i'w glustiau ef:
'Does angel, seraphim, na saint,
Nad iachawdwriaeth yw eu braint. w.

648. *Yr Arglwydd yw fy rhan.*

6. 8.—Beverley. Gwladys.

FY noddfa gadarn, gref,
A'm tarian wyt, fy Nuw,
Yn erbyn angeu du,
A drygau o bob rhyw:
'Rwy'n pwyso 'nghred ac fedda'i gyd
I'th air hyddlonaf, pur a drud.

2 Y gair melusa 'rioed,
Y cryfaf air i gyd,
Fe'i lwn, adroddwr ei—
Fod Duw yn Briod im;
Mae hyfryd swn a sylwedd hwn
Yn tynu i ffwrdd fy maich a'm pwn.

3 Rhyw weithiau, filoedd maith
Amseiau aeth yn trwy;
Cyhoeddais o fuen y lyfr—
Fy Mriod yw ef mwy:
Mae'r hyngyd swn yn enwau tân
Na saif na dyd na chawsd o'r llaen.

4 Beth yw'r telynau aur
Sydd gan angylion fry?
Pa fath, dafodau gwr
Gan nerol herddarth lu?
A fedd'ant hwy fel such tôn
Nag am eu hawl i'r anialfwyn Oen? w

649. *Cartref ar ol y storm.*

6. 8.—Alun. Gwladys.

MI welaf draw, o bell,
Baradwys hardd ei gwedd,
A phreman hawer gwell,
Yn penarosli hedd:
O! hyfryd wlad, tu draw pob gwae,
Gwyn fyd gawn heddyw dy fwynhau.

2 Mae'r byd ac uffern fawr,
A'm calon gas, yn un,
Yn ceisio'm sugno i lawr,
Yn hollol ato i hun;
Fy Nuw, fy Nuw sy'n dal y gwan
Rho nerth i'm hemaid ddringo i'r lan,

3 Fe laesa'r storom fawr,
Fe laesa'r awel gref,
Pan ddelo gair i lawr
O'i sanctaidd cuan ef:
Duw yw efe, os of a bair,
Cwymp nef ac uffern wrth ei air.

4 Bwystfilod rheibus fawn
Sy'n bwyta'r eneu gwan,
O foreu hyd brydnawn,
Yn rhwystro'm gwas i'r lan:
I'r lan mi ddof, i'r gwaddydd draw
Mae'r Iesu'n 'marlyd yn fy llaw.

5 Melusach i'ŝ fy Nhad
Ar ol y storom gref;
Pa fwya'r cynnwrf gaed,
Mae'n haws ddaeth tawelwch ef:
O! hyfryd wel'd fyd'd yn y man
Pob bryn a ddringais i i'r lan. w.

650. *Golwg ar y dydd.*

6. 8.—Ramoth. Normandy.

A HEIBIO 'r dywyll nos,
Fe ffy cymmylau'r nen;
Fe ddaw'r addewid wir
A'i geiriau pur i ben;
Ceir gwel'd, ceir gwel'd yr hyfryd dir,
Ar fyr o dro yn oleu clir.

2 Mae'r oriau maith eu rhif,
Yn dirwyn yn y blaen;
Er bod nosweithiau'n faith,
O'r diwedd darfod wnan':
Cymmylau'r nen, er maint eu grym,
O flaen y wawr ni safant ddim.

3 'Dyw profedigaeth ddim,
'Dyw'r holl gystuddiau ond gwan,
I guro hwnw i lawr
A ddaliech di i'r lan:
Mae nerth dy ras yn fwy na'r byd
A'r myrdd o ddrygau sy ynddo i gyd.

4 Ni attal dim o'r môr,
A'i donau cedyrn, cry',
Rhag myn'd i ben ei daith
Yr hwn gynnaliech di; [ddim,
'Dyw'r moroedd maith, 'dyw Pharaoh
Idd eu cymmharu â dy rym. W.

651. "*Byw dan nawdd y dwyfol wael.*"

6. 8.—Alexandria. Dolgellau.

FY enaid, at dy Dduw,
Fel gwrthddrych mawr dy gred,
Trwy gystudd o bob rhyw,
A phob temtasiwn, rhed;
Caf ganddo ef gysuron gwir,
Fwy nag ar foroedd nac ar dir.

2 O! na allwn roddi 'mhwys
Ar dy ardderchog law,
A gado i gystudd ddod
Oddi yma ac o draw;
A byw dan nawdd y dwyfol waed,
Yn ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.

3 Mi fyddaf lawen iawn,
A'm gofid dan fy nhraed,
O foreu hyd brydnawn,
Dan aden gwir fwynhâd;
'Does arall ddim is sêr y nef
A ddaw á'm henaid tua thref. W.

652. "*Arglwydd cofia fi.*"

6. 8.—Alexandria. Dolgellau.

I FYNY at fy Nuw,
Fy enaid, cod dy lef,
Heibio i'r euraidd lu,
I eithaf nef y nef;
Gostwng dy glust o'r bryniau fry
O! Arglwydd grasol, cofia fi.

3 'Rwyf yma yn wael fy ngwedd,
Yn euog ac yn wan,
Gelynion creulon sydd
O'm hamgylch yn mhob man:
Bydd i mi'n blaid yn erbyn llu,
O! Arglwydd grasol, cofia fi.

3 Yn wyneb uffern ddu,
Ac angeu mawr ei rym,
Rho i mi nerth wrth raid,
Bydd di yn nodded im';
Yn nyfroedd cry'r Iorddonen ddu,
O! Arglwydd grasol, cofia fi. D. C.

653. *Ffoi at Dduw.*

6. 8. 4.—Palestina. Dolyddelen.

TI Arglwydd yw fy rhan,
A'm trysor mawr di-drai,
A noddfa gadarn f'enaid gwan
Yn mhob rhyw wae;
Ac atat rwyf am ffoi,
Dy fynwes yw fy nyth,
Pan bo gelynion yn crynhoi,
Rifedi'r gwlith.

2 O! dangos d'allu mawr,
Dy faith, anfeidrol ras,
A dywed wrthyf fi yn awr
Caf gario'r maes:
Ac atat 'rwyf yn ffoi,
Dy fynwes yw fy nyth,
Pan fo gelynion yn crynhoi,
Rifedi'r gwlith.

3 Tydi, fy Nuw ei hun,
Anfeidrol berffaith Fod,
Sy'n trefnu dacar, da, a dyn
I'th ddwyfol glod;
Cyf'rwydda f'enaid gwan
Trwy'r anial yn y blaen,
Ac arwain fi yn mhob dyrys fan
A'th golofn dân.

4 Dy Ysbryd sanctaidd, cun,
Dywysodd fyrdd o saint,
Rho i mi brofi ei felus rin,
Anfeidrol fraint;
Fel dyfroedd gloyw, clir,
I loni'r llesg a'r gwan,
Diddanwch yn yr anial dir
I'm dal i'r lan. W.

654. "*Tywysog nefoedd yw fy nhŵr.*"

6. 8. 4.—Dolyddelen. Palestina.

O! TYRED, addfwyn Oen,
Iachawdwr dynol ryw,
At wael bechadur sydd dan boen
Ac ofnau'n byw;
O! helpia'r llesg yn awr
I ddringo o'r llawr yn hy',
Dros greigydd geirwon, serth, i'r lan
I'r Ganaan fry.

2 O! dal fi, 'rwyf heb rym,
Yr ochr hyn na thraw;
Os sefyll wnaf, ni safaf ddim
Ond yn dy law:

Addewid nefoedd faith
Y w'm cymmhorth perffaith, gwir,
Na chyfeiliornaf ar fy nhaith
I Salem bur.

3 Yn eithaf grym y dwr,
A'r tonau'n curo i lawr,
Tywysog nefoedd yw fy nhŵr,
A'm Ceidwad mawr:
Fe ddeil fy mhen i'r lan,
Can's ffrynd i'r gwan yw ef,
Fe'm dwg o'm cystudd yn y man
I deyrnas nef. W.

655. *Diogelwch y saint yn Nghrist.*

6. 8. 4.—Palestina. Dolyddelen.

AM fod fy Iesu'n fyw,
Byw hefyd fydd ei saint;
Er gorfod dioddef poen a briw,
Mawr yw eu braint:
Bydd melus lanio draw,
'Nol bod o don i don;
Ac mi rof ffarwel maes o law
I'r ddaear hon.

2 Ac yna gwyn fy myd,
Tu draw i'r byd a'r bedd;
Caf yno fyw dan foli o hyd
Mewn hawddfyd hedd;
Yn nghwmni'r nefol Oen,
Heb son am bechod mwy,
Ond canu am ei ddirfawr boen
Byth gyda hwy. J. T.

656. *Mwynhâd o Dduw yn nerth.*

6. 6. 4.—Llanddowror. Dinbych.

O! TYRED, Awdwr hedd,
Rho i mi brawf o'th wledd,
Dragwyddol rad;
'Does yma ddim ond trai,
Cystuddiau, poen, a gwae,
I'r diwedd yn parhau,
Mewn anial wlad.

2 Mor greulon yw fy nghlwyf,
Ti Iesu wel'r wyf
Bron llwfrhau;
'Does arall ond dy waed
A ddyry im iachâd,
A dim a nertha'm traed,
Ond dy fwynhau.

3 Un olwg ar dy wedd
A'm cod i'r lan o'r bedd,
I'r goleu clir,
I deithio yn y blaen,
Trwy ganol dwr a thân,
Er gelynion fawr a mân,
I'r sanctaidd dir.

4 Gwna f'enaid bach ynglŷn,
Duw, wrthyt ti dy hun,
Gael dy fwynhau;
Ac yna gallaf fyw
Dan gystudd o bob rhyw,
Mewn llawn dawelwch gwiw,
Byth i barhau. W

657. *Gwaed y groes yn unig feddyginiaeth.*

6. 6. 4.—Malvern. Bethel.

IACHAWDWR dynolryw,
Tydi yn unig yw
Fy Mugail da;
Mae angeu'r groes yn llawn
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melus iawn;
Rhai'n a'm iacha.

2 'Does dim a laesa'm poen
Ond gwaed yr addfwyn Oen—
Pur waed fy Nuw:
Mae'i hun yn fwy na'r byd,
A'r trysor sy ynddo i gyd;
A thecach yw ei bryd
Na dynolryw.

3 Mae torf aneirif fawr
Yn ddisglaer fel y wawr,
'Nawr yn y nef;
Trwy ganol gwawd a llid,
A gwrth'nebiadau'r byd,
Ac angeu glas ynghyd,
A'i carodd ef.

4 Ni thâl pleserau'r byd,
Na phob teganau 'nghyd,
Ddim i'm boddhau;
Y gwrthddrych mwya' erioed
O gariad ac o glod,
Sydd uwch neu is y rhod,
Wyf yn fwynhau. W.

658. *Golwg ar wlad well.*

6.6.4.—Llanddowror. Dinbych.

O! TYRED, Awdwr hedd,
A chyfod ni o'r bedd,
Y pydew prudd;
Ein henaid griddfan mae
Am gael ei wir iachau;
O dere, dere'n glau,
Rho ni yn rhydd.

2 Ond gweled 'rym y wlad,
A dedwydd dŷ ein Tad,
Dros fryniau pell,
Ardaloedd lle y mae
Ffynonau yn dyfrhau,
Llawenydd yn ddi-drai,
Paradwys well.

3 'Does yma ddim i'w gael
Ond rhyw bleserau gwael,
Na thâl mwynhau;
Mae'm hysbryd mewn rhyw gur
Am fyned cyn bo hir
I'r man mae gwynfyd pur
Byth i barhau.

4 Mae cymmaint yma o boen
Heb gwmni'r anwyl Oen,
Bob awr o'r dydd;
Gelynion creulon, cry',
Hen lewod mawrion lu,
A dreigiau'n drygu sy;
O! na bawn rydd. W.

659. *Rhinweddau y groes.*

6. 6. 4.—Malvern. Salem

O! TYRED, Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r nef i lawr
Gawodydd pur;
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreuddydd a phrydnawn,
I darddu'n beraidd iawn,
O'r anial dir.

2 Mae peraroglau'th ras
Yn taenu o gylch i maes
Awelon hedd;
Estroniaid sydd yn dod
O'r pellder eitha 'rioed,
I gwympo wrth dy droed,
A gwel'd dy wedd.

3 Mae tegwch d'wyneb pryd
Yn maeddu oll i gyd
Ar ddaear las;
Mae pob rhyw nefol ddawn
Oll yno'n gryno lawn,
Yn tarddu yn hyfryd iawn
O'th glwyfau i macs.

4 Arosaf, ddydd a nos,
Byth bellach dan dy groos,
I'th lon fwynhau;
Mi wn mai'r taliad hyn
Wnaed ar Galfaria fryn
A'm cana oll yn wyn,
Oddi wrth fy mai.

5 Yn nyfnder dwr a thân,
Calfaria fydd fy nghân,
Calfaria mwy;
Y bryn ordeiniodd Duw
Yn nhragwyddoldeb yw
I godi'r marw'n fyw,
Trwy farwol glwy'.

6 Af bellach tua'r wlad
Bwrcaswyd i mi â gwaed;
'Rwyf yn nesau;
Caf yno oll i'm rhan
Sydd eisiau ar f'enaid gwan,
A hyny yn y man,
I'w bur fwynhau. W.

660. *Gwaredigaeth o gaethiwed pechod.*

6. 6. 4.—Dinbych. Gobaith.

O! GWAWRIA, foreu ddydd,
Pan gaffwyf fyn'd yn rhydd
O'm carchar caeth—
Pan gwympo'r muriau pres,
A'r dorau sydd yn rhes,
A minnau fyn'd yn nes
I ben fy nhaith.

2 Pryd hyny mi af trwy
Elynion fwy na mwy;
O! ddêdwydd ddydd!
Mae meddwl am y wawr,
A'r jubil' hyfryd fawr,
Yn peri i mi'n awr
Fron fyn'd yn rhydd. W.

661. *Digonolrwydd presenoldeb Duw.*

6. 6. 4.—Malvern. Gobaith.

NID oes, fy Arglwydd mawr,
Ar wyneb daear lawr,
Neb ond dy hun,
A ddeil fy enaid gwan
Yn mhob cystuddiau i'r lan,
A'i gwervd yn y man
O bob yr un.

2 Yr wyt yn fwy na'r byd,
A'r trysor sy ynddo i gyd;
Yr wyt ti'n Dduw;
Y gronyn lleia' o'th hedd
Sydd yn wastadol wledd.
Fe gongcra angeu a'r bedd;
Mor hyfryd yw.

3 Caersalem hyfryd wiw,
Cartrefle pur fy Nuw,
Dimas yr hedd;
'Dyw'r ddaear, er ei dawn,
O foreu hyd brydnawn,
Yn 'nabod dim yn iawn
O'm hyfryd wledd. W.

662. *Duw yn drech na'r gelyn.*

6. 6. 4.—Malvern. Bethel.

WEL, f'enaid, dos yn mlaen,
Heb ofni dwr na thân,
Mae genyt Dduw,
'Dyw'r gelyn mwya'i rym
I'w nerth anfeidrol ddim;
Fe gongcra'm pechod llym—
Ei elyn yw.

2 Mae gwaed ei groes yn fyw;
Na'n natur dadmaid hwy,
Na'u nifer faith;
Fe faddeu fawr a mân,
Fe'm golch yn hyfryd lân,
Fe'm dwg i yn y blaen,
I ben fy nhaith.

3 O! Brynwr mawr y byd,
Tyr'd bellach, mae'n lawn bryd,
Mae yn brydnawn;
Gâd i mi wel'd dy ras
Ar frys yn tori i maes
Dros wyneb daear lâs,
Yn genllif llawn.

4 Y geiriau oll i gyd
Roist i ni o bryd i bryd,
Am ddydd dy ras,
Gâd i ni glywed llef
Efengyl gadarn gref,
O gwr i'r llall i'r nef,
Yn swnio i maes. W.

663. *Iesu y tu fewn i'r llen.*

6 6. 4.—Malvern. Salem.

1 Y Iesu yw fy Nuw,
Fe drawod a'm Prynwr yw
Ffyddlonaf gwir;
Fy enaid arwain wnaeth
O'r gwledydd tywyll caeth,
I wlad o fêl a llaeth,
Paradwys bur.

2 Efe aeth o fy mlaen,
Trwy ddyfroedd dwr a thân,
I'r hyfryd wlad;
Mae'n eiriol yno'n awr,
O flaen yr orsedd fawr,
Yn maddeu fach a mawr
O'm beiau'n rhad.

3 Mae llnoedd maith y nef
Yn canu iddo ef—
Anfeidrol Dduw—
Ar aur delynau clir,
Mewn gwyl dragwyddol bur,
Am waredigaeth wir
I ddynolryw. W.

664. *Nerth yr addewid.*

6. 6. 4.—Malvern. Bethel.

CRYFACH addewid Duw
Na'r pechod gwaetha'i ryw—
Ni saif ef ddim;
'Dyw natur gadarn gref
Ond dim i dân y nef;
Mae gair o'i enau ef
Yn fwy ei rym.

2 Fy meiau, fân a mawr,
Sydd raid eu cael i lawr,
Cyn byddo hir;
Fe fyn cyfreithiau'r ne'
I dynu'r llygad de,
A thori'r fraich o'i lle—
Ei air sydd wir.

3 Rhaid rhoddi ffarwel glân
I'n chwantau, fawr a mân—
Pleser i gyd;
Caf bleser maes o law,
Yn nhragwyddoldeb draw,
Ei fath ni fu, ni ddaw,
Gan fawrion byd. W.

665. *Erfyniad am amddiffyn Duw.*

6.6.4.—Llanddowror. Dinbych.

O ARGLWYDD! tyr'd i lawr.
Nac oeda, tyr'd yn awr,
Nid wyf ond gwan;
'Rwy'n gorwedd yn fy ngwaed,
Yn glwyfau o tu pen i'm traed,
O! dyro im iachâd,
A chôd fi i'r lan.

2 Dwg fi 'n dy fynwes gu,
Trwy ganol tanllyd lu,
Gwrthnysig ryw;
Rydd yno'n gymmhorth im,
Y fan mae'r gelyn llym
Yn curo yn ei rym;
Ti yw fy Nuw.

3 Os tua'r ochr dde
Yn greulawn tery efe,
Saf di o'm blaen;
Os ar yr aswy law
Bygythir fi o draw,
Fyth yno bydd ger llaw,
Fel mur o dân.

4 'Rwy'n penderfynu byw
Dan aden bur fy Nuw,
Mewn lloches bur:
Ac yno af yn hy',
Trwy luoedd creulon, cry',
Lle mae fy Iesu cu,
Cyn byddo hir. W.

666. *Cadw y llwybr cul.*

6. 6. 4.—Dinbych.

GWNES addunedau fil
I gadw'r llwybr cul,
Ond methu'r wy';
Preswylydd mawr y berth,
Chwanega etto'm nerth
I ddringo'r creigiau serth
Heb flino mwy. M. B.

667. *Crefydd dda cyn angeu.*

7. 8.—Trefeglwys. Twrgwyn.

MAE arnaf eisieu beunydd,
Cyn fy medd,
Cael gafael ar wir grefydd,
Cyn fy medd:
Cael sicrwydd y cyfammod,
A'r gwaed sy'n golchi pechod,
I glirio fy nghydwybod,
Cyn fy medd:
A'm gwneyd yn buraidd barod,
Cyn fy medd. AN

668. *Fel yr wyf.*

7. 8.—Trefeglwys. Twrgwyn.

MYFI'r pechadur penaf,
Fel yr wyf,
Wynebaf i Galfaria
Fel yr wyf;
Nid oes o fewn i'r hollfyd
Ond hwn i gadw bywyd;
Yn nghanol môr o adfyd,
Fel yr wyf,
Mi ganaf gân f'Anwylyd,
Fel yr wyf.

2 Mae'r Oen fu ar Galfaria
Wrth fy modd;
Efengyl a'i thrysorau
Wrth fy modd;
Mae llwybrau ei orch'mynion,
A grym ei addewidion,
A hyfryd wleddoedd Seion,
Wrth fy modd,
A chwmni'r pererinion,
Wrth fy modd. AN.

669. *Af yn mlaen.*

7. 3.—Trefeglwys.

YN wyneb gorthrymderau,
Af yn mlaen,
A duon ragluniaethau,
Af yn mlaen;
Er mór a'i donau mawrion,
A dyfroedd Mara chwerwon,
Ynghyd á'm holl elynion,
Af yn mlaen;
Nes gorphwys fry yn Seion,
Af yn mlaen.

2 'Does yma ond trai a llanw
I barhau,
Ac yfed cwpan chwerw,
I barhau;
Ond yn y Ganaan nefol,
Dim eisieu yn dragwyddol,
Caf ddisglaer ddyfroedd bywiol,
I barhau;
A'i yfed yn wastadol,
I barhau. G.

670. *Gwaedd y truan.*

7. 6. 8.—Llangeitho. Altenberg.

LLAWN o ofid, llawn o wae,
A llawn euogrwydd du,
Byth y byddaf yn parhau
Heb gael dy gwmni cu:
Golwg unwaith ar dy wedd
A'm cod i'r lan o'r pydew mawr;
O fy Nuw! nac oeda'n hwy,
Rho'r olwg i mi'n awr.

2 Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed;
O Samariad! bydd yn frawd,
Adfera im iachâd;
Dyro olew yn fy mriw,
A ch'od fi ar d'anifail cun;
Ac nis gall fyth, fyth, fy nwyn
Ond d'allu di dy hun.

3 'Mofyn am orphwysfa glyd
Heb gwrdd â'stormydd mwy,
Lloches nid oes yn y byd
At hyn ond yn dy glwy';
Tro fy ngolwg at y fan
Y llaesa f'otmau oll a'm braw;
Na ddychrynwyf byth i wel'd
Y boreu ddydd a ddaw.

4 Dyrys daith, a mi sydd wan,
A bryniau maith o'm blaen,
Mi frawychais lawer gwaith
Wrth wel'd y fflamau tân;
Mae'r Iorddonen heddyw'n llawn,
Os gwir ddychymyg t'enaid gwan
Tyred, Arglwydd, iddi i lawr,
Ac yna dof i'r lan. W.

671. *Gobaith gwaredigaeth.*

Sau. 4 ll.—Llantrisant.

OS rhaid yfed dyfroedd Mara
Yn yr anial ar fy ngyrfa,
Nertha di, fy Nhad a'm Harglwydd,
F'ysbryd gwan mewn byd o dram
gwydd.

2 Tra rhaid i mi wisgo'r arfau,
Dwyn y groes trwy orthrymderau;
Rho dy gwmni—dyna ddigon,
Nes myn'd adre' i wisgo'r goron.

3 Yno derfydd fy nghystuddiau,
Troir fy ngalar yn ganiadau;
Yn lle Mara, ddwfr anhyfryd,
Yfed gaf o afon bywyd.

4 'Nawr wrth gofio'r hen Iorddonen,
F'enaid athrist gân yn llawen,
Af ar fyr i'r wlad na dderfydd
Llawn orfoledd yn dragywydd. G.

672. *Caru a chanmol Iesu.*

Sau. 4 ll.—Horeb.

O! NA allwn garu'r Iesu,
Yn fwy ffyddlon, a'i was'naethu
Dweyd yn dda mewn gair am dano,
Rhoi fy hun yn gwbl iddo. AN.

673. *Iesu yn rhagori ar lob peth.*

Sau. 4 ll.—Llantrisant. Antwerp.

NID yw hardd wrthddrychau dacar
Oll ond dim wrth Iesu hawddgar;
Nid yw'r nefoedd i'w chydbwyso,
Pe bai nefoedd i'w chael hebddo.

2 Iesu ei hunan yw fy nefoedd
Dros fy oes ac yn oes oesoedd;
Nef y nefoedd fydd ei garu,
Ei fwynhau, a'i bur foliannu. T. J.

674. *Cyfarwyddyd a nerth yn yr anialwch.*

8. 7. D.—Eifionydd. Jersey.

CYFARWYDDA'm henaid, Arglwydd,
Pan bwy'n teithio 'mlaen ar hyd
Llwybrau culion, dyrys, anhawdd,
Sydd i'w cerdded yn y byd:
Cnawd ac ysbryd sy'n rhyfela,
Weithiau cariad, weithiau cas,
Ton ar don sydd yn gorchuddio
Egwyddorion nefol ras.

2 Cul yw'r llwybr i mi gerdded,
Is fy llaw mae dyfnder mawr,
Ofn sydd arnaf yn fy nghalon
Rhag i'm troed i lithro i lawr:
Yn dy law y gallaf sefyll,
Yn dy law y def i'r lan.
Yn dy law byth ni ddarfyddaf,
Er nad ydwyf fi ond gwan.

3 Wrth dy orsedd 'rwyf yn cwympo,
Annheilyngaf ddyn erioed;
Mewn anwiredd y'm cenhedlwyd,
Mewn anwiredd mynaf fod;
Darfu'm nerth, a darfu'm goleu,
Darfu'm haeddiant yn gyttûn,
Mae'm hapusrwydd oll yn gorphwys
Ar a wisgodd natur dyn.

4 Dysg fi gerdded trwy'r afonydd,
Ac na'm boddner gan y llif,
Na bwy'n ildio gyda'r tonau,
Temtasiynau fwy na rhif;
Cadw 'ngolwg ar y bryniau
Uchel, heirdd, tu draw i'r dŵr;
Cadw 'ngafael yn yr afon
Ar yr Iesu'r blaenaf ŵr.

5 O! sniglwch maith o dd'rysni!
O! afonydd mawr eu grym!
Faint o amser roddwyd i chwi
Fod yn ddigalondid im?
Derfydd t'wyllwch, derfydd galar,
Derfydd pechod o bob rhyw,
Nid yw'r wlad caf ynddi drigo
Ddim ond presennoldeb Duw. w.

675. *Dim yn ddigonol ond nerth yr Iesu.*

8. 7. D.—Dismission. Ledforth

NID oes enw yn mhlith angylion,
Yn mhlith dynion chwaith ni chaed,
All fod i mi yn ddinas noddfa
Yn unig ond Iachawdwr rhad:
Mae'r afonydd 'rwy'n myn'd trwyddynt,
Ac mae'r tonau mawr mor gryf,
Nad oes dim ond nerth tragwyddol
Ddeil fy enaid yn y llif.

2 Can' ffarwel o gylch y ddaear,
Can' ffarwel i bawb o'r bron,
Can' ffarwel i'r gwerthfawrocaf
Bethau enwir ar y don;
Da a dynion aeth yn anghof,
A phleserau o bob rhyw;
Bellach i mi dim ond canu—
Canu cariad i fy Nuw.

3 Duw yn unig sydd o'm hochr,
Ni thâl dynion i mi ddim:
Llawer trymach yw fy meichiau
Nag yw cewri'r byd o rym;
Iesu ddeil fy maich, er cymmaint,
Iesu ei hunan laesa'm loes,
Eithaf llid y nef ac uffern
Ddaliodd unwaith ar y groes. w.

676. *Ofnau.*

8. 7. D.—Bohemia. Eifionydd.

Y MAE arnaf fil o ofnau—
Ofnau mawrion o bob gradd,
Oll yn gwasgu gyda'u gilydd
Ar fy ysbryd, bron fy lladd:
Nid oes gallu all gongcwerio
Torf o elynion sydd yn un—
Congcro ofn, y gelyn mwyaf,
Ond dy allu di dy hun.

2 Ofni 'rwyf na ches faddeuant,
Ac nas caf faddeuant mwy;
Ofni'n fynych na ches olwg
Etto ar dy farwol glwy';
Ofni fod fy meiau'n taro
Yn erbyn iachawdwriaeth rad,
Ac na chaiff fy enaid egwan
Fyth ei olchi yn y gwaed.

3 Deuwch, yr awelon hyfryd,
Deuwch dros y bryniau pell,
Dan eich aden dawel, rasol,
Dygwch y newyddion gwell:
Dygwch newydd at fy enaid—
Fy enw innau yno gaed,
Dedwydd enw'n argraphedig
Yn yr iachawdwriaeth rad.

4 Boed cyfiawnder maith y nefoedd
Yno i sefyll o fy mlaen,
Yn nyfnderoedd mwyaf ofn,
Yn nyfnderoedd dŵr a thân:
O gyfiawnder! aros yno,
Ar fy mron ar hyny o bryd,
Pan fo angeu yn gwahanu'm
Corph a'm henaid yn ei lid.

5 Annioddefol ydyw meddwl
Marw heb im wybod p'un
A yw dy gyfiawnder perffaith
Wrth fy enaid bach ynglŷn;
Dyna'r awr yr wy'n ei hofni,
Dyna'r awr yn gyfyng sydd;
Rho i mi nerthoedd y pryd hyny,
Nes bo im ddihengu'n rhydd. w

677. *Hyder ffydd ar yr addewid.*

8. 7. D.—Dismission. Llangan.

AR dy enw mae'r cenhedloedd,
Yn nherfynau eitha'r byd,
Yn rhoi goglud, gan ddymuno
Gweled tegwch d'wyneb pryd;
Mae dy eiriau oll yn gywir,
Llwon mawrion ydynt hwy;
I'th sancteiddrwydd pur y tyngaist
'Dall'sit dyngu i ddim oedd fwy.

2 Bellach, minnau'n eon ddeuaf,
Mi ymgrymaf wrth dy draed,
Ac mi bledïaf am drysorau
Wedi eu haddaw oll yn rhad;

Nid oes neb o dan y wybr
Mewn mwy diffyg, mewn mwy trai—
Tlawd o'r cyfan, ond yn benaf, Dhau.
Tlawd wyf, Arglwydd, o'th fwyn-

3 Mae cyfyngder mawr yn rhuo,
Ac yn bygwth f'enaid gwan,
Profedigaeth drom ei phwysau
Sy'n fy rhwystro i godi i'r lan;
Ar dy addewid 'rwyf yn gorphwys,
Cadwa' 'ngafael yno'n dyn;
Nid oes ond y nerth trazwyddol
A all faeddu'r trallod hyn.

4 Nis gadawa' i'r sillaf leiaf
O'th addewid fyn'd ar goll;
Mae yn ddigon, cyflawn ddigon,
I mi ei hunan oll yn oll:
P'odd y gallaf golli 'ngafael,
Pe cawn fyddoedd maith yn rhodd,
Ar addewid sydd mor gyflawn
O drysorau wrth fy modd?

678. Rhan II.

RHYW drysorau heb eu mesur,
Rhyw drysorau heb ddim rhi',
Rhyw ddyfnderoedd heb ddim gwaelod,
Yn dy addewidion sy;
Crynu'r wyf, ac ymafaelyd,
Glymu'n galed wrth dy air:
F'enaid byth tra ar y ddaear,
Dyna'r unig fan y'i cair.

2 Os gwaredi fi o'm cyfyngder,
Ac os seti ar fy rhan,
Os gostegi rym y storom,
Os cynneli fi i'r lan;
Ti gai 'nhafod, ti gai 'nghalon,
Ti gai foddwyf yn y byd,
Ti gai'r clod, a thi gai'r moliant,
Ti gai'r enw it i gyd.

3 Addunedau fy nghyfyngder,
Deuent, Arglwydd, gar dy fron;
Er dy enw, er dy ogoniant,
Tor fy ofnau i lawr o'r bron:
Duw tosturi yw dy enw,
Duw sy'n arfer trugarhau,
Cod fy ysbryd llesg o'r moroedd,
Tyn fy enaid bach o'r llau. w.

679. *Llef yr enaid am gyfiawnder.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd.
Bohemia.

MAE odfaon yn myn'd heibio,
Dyddiau wedi eu treulio i maes,
Heb ddim cyfrif 'nawr o honynt
Ond griddfanu am dy ras:
Rhaid i mi gael mwy na hyny—
Dy gyfiawnder i mi'n rhan,
Onid e, yn wir mi drengaf
Cyn y delwyf byth i'r lan.

2 O! gyfiawnder pur trazwyddol!
O! gyfiawnder maith diddrai!
Rhaid i'm henaid noeth, newynllyd,
Gael yn fuan dy fwynhau:
Rho dy wisg ddisgleirwen, oleu,
Cuddia'm noethni hyd y lawr,
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
Fyth o flaen dy orsedd fawr.

3 Nid oes genyf ddim ond bratiau,
Dail yw'm gwisgoedd goreu i gyd,
Tân digofaint oll a'u difa,
Llysg y sofl cras ynghyd;
Gem a pheriau gwerthfawrocaf,
Gwen nag eiddo'r India draw,
Yw'th gyfiawnder i ymddangos
O fy mhlaid y dydd a ddaw.

4 Wrth yr orsedd na'd fi feddwl
Am ddim haeddiant tra bwyf byw,
Nac adduned, na dymuniad,
Na dyledswydd o un rhyw;
Iesu'n unig dan y tlangell,
Iesu'n hongian ar y groes,
Bydded i mi yn ddiffyrwch
O foreuddydd hyd y nos.

5 Dyma'r fan, a thyma'r cysgod,
Dyma'r trysor gwerthfawr, drud,
Ddeil fy enaid yn y corwynt,
Dyfroedd mawr anfeidrol lid:
Dyma'n unig wyf yn geisio,
Dyma geisiaf tra bwyf byw:
Bwyta, yfed, fyth, a gwisgo,
O gyfiawnder pur fy Nuw. w.

680. *Hiraeth am gyndeithas gyson â Duw.*

8. 7. D.—Eifionydd. Hebron.

O! DYRCHAFA'm henaid egwan,
Y mae bellach yn hwyrhau;
Hir yw'r amser i och'neidio,
Gwna i mi o'r diwedd lawenhau
Moroedd mawr, a bryniau lawer,
Pellder annioddefol sy,
Ac anialwch maith digymmhar,
Rhyngof a'm Hanwylyd cu.

2 O! na bai rhyw ddyfais hyfryd
Dan yr wybr las i gyd,
Allai gadw'm henaid egwan
Yn dy gwmni di o hyd;
Byth ni phrisiwn, doed a ddelo,
Beth ddigwyddai is y nen;
Ar dy fynwes deg, berifeithlan,
Byth y pwyswn i fy mhen.

3 O! foreuddydd y briodas,
Gwynfyd wela' i'r ddedwydd awr—
Gwel'd wynebpryd y Priodfab,
Clywed llais y delyn fawr;
Awn dan ganu dros y moroedd
Meithion tua'r hyfryd wlad,
Ac anghofiwn hen gariadau,
Gwâg bleserau tŷ fy nhad. w.

681. *Gweddi am wyneb Duw.*

8. 7. D.—Eifionydd. Bohemia.

GWRANDO 'nghŵyn, Dywysog heddwch,
Mae eiddigedd ynwy'n llawn;
Ofni nad wyt yn fy ngharu,
'Ngharu'n ffyddlon ac yn iawn;
Nid oes unrhyw feddyginiaeth
Rhagddo bellach all iachau,
Ond cael gweled gwedd dy wyneb,
A chael hefyd dy fwynhau.

2 Pan bech di yn cuddio'th wyneb
Y mae ofnau o bob gradd,
O'r tu fewn, ac o'r tu allan,
Gyda'u gilydd bron fy lladd;
Gwasgant ar fy enaid eiddil.
Ffaelu symmud troed o'r fan;
Dïau derfydd fyth am danaf
Oni chodi di ti i'r lan.

3 Mae rhyw foroedd o drugaredd,
Arglwydd, yn nŵr dy law;
Annherfynol a thragwyddol
Yw dy gariad at y dyn;
Mewn cyfyngder buost ffyddlon,
Yno rhoist dy nerth i maes:
Yn y dyfnder mawr 'rwyf finnau
'Nawr yn llefain am dy ras.

4 Wrth y beddrod 'rwyf yn gwaeddi,
Mae'n agored i mi'n awr;
Nid oes dim ond rhai munydau
Cyn rhaid gorwedd yno i lawr:
Nid oes arnaf ofn angeu
Os ti sefi wrth fy nghlun;
Fe fu'r bedd a'i ddychryniadau
Gynt yn wely i ti dy hun.

5 Derfydd i mi garu ac ofni
Dim, o'r nefoedd fawr i'r byd,
Pan y caffwy'r olwg gyntaf
Deced yw dy wynebpryd:
Gwedd dy wyneb sy'n dwyn bywyd,
Gwedd dy wyneb sy'n dwyn nedd,
Gwedd dy wyneb ydyw'r cwbl,
Yma, a thu draw i'r bedd. W.

682. *Gorchfygu trwy garu.*

8. 7. D.—Tyddewi. Dismission.

ER fod angeu yn fy mygwth,
Er fod angeu'n fawr ei rym,
Er fod pechod cas o'i ochr,
Sinai'n dywyll, yntau'n llym;
Duw sy'n fwy na nef ac uffern—
Mwy na 'mhechod, mwy na 'mai;
'Dofnaf fyrddiwn o'u rhifedi
Os caf funyd o'th fwynhau.

2 Mae dy gariad uwch pob ofnau;
Mae'n dy gariad fentro 'mlaen,
Trwy r afonydd dyfnion, geirwon
Dros fynyddau, a thrwy dân:
Caru gongcra fy mhechodau,
Caru ddal fy enaid gwan,
Er pob dim a guro arnaf,
Yn gadarnaf un i'r lan.

3 'Rwyf yn darfod âg wy'n weled;
Mi ddarfyddais heddyw a dyn;
'Rwyf yn twymno at fy Iesu
Uwch pob peth sy wrthwy' 'nglŷn.
Mi a lioddefaf âg a chariad,
Erlid atgas, neu fwynhau,
Ac mi af i fynydd Seion
Heb fy siomi gan y ddau.

4 Dring i fyny i'r balmwydden,
Mi gaf fwyta'r sypiau pur
Sy'n digoni y rhai sychedig—
Pererinion Salem dir:
Mi gaf weled Gwlad'r Addewid,
Sydd yn llifo o laeth a mêl;
Mi gaf fyned i'w meddiannu,
Doed y croesau penaf ddêl. W.

683. *Duw yn unig wrthddrych cariad.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd. Bavaria.

GORCHUDD ar dy bethau mawrion
Yw teganau gwag y byd;
Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd
Yw'm pleserau oll i gyd:
Gâd im gloddio trwy'r parwydydd
Tewion, trwodd at fy Nuw,
I gael gwel'd trysorau gwerthfawr
'Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.

2 Na'd fi dafiu golwg cariad
Ar un gwrthddrych is y rhod,
Na gwneyd gwrthddrych i fy ngobaith
O greadur sydd yn bod:
Cadw 'ngolwg wan i fyny
'N syml atat ti dy hun,
Heibio i barch, a heibio i ammharch,
Heibio i ddaear, heibio i ddŷn.

3 Wrth fy ystlys bydd i'm harwain,
Yn mhob d'rysni rho dy law;
Gâd im aros yn dy gysgod—
Cawod yma, cawod draw:
Atat 'rwyf yn ffoi am noddfa
Rhag y drygau sydd o'm hol;
Cyn mor fi, llywyser bywyd,
Dwg fi yn dy ddwyfol gôl. W.

684. *Llawn fuddugoliaeth yn y diwedd.*

8. 7. D.—Edinburgh. Vienna.

DRAW mi wela'r nos yn darfod,
Draw mi welaf oleu'r dydd,
Yn disgleirio dros y bryniau,
Melus yn y man a fydd;
Ffy gelynion pan ddêl goleu,
Ni all pechod, er ei rym,
A'i holl wreiddiau yn fy natur,
Sefyll Haul Cyfiawnder ddim.

2 Daw i ben, aed byd yn yfflon,
Bob rhyw air a dd'wedo 'Nhad;
Sethrir Satan, sethrir angeu,
Sethrir uffern dan fy nhraed;
Buddugoliaeth ddaw o'r diwedd,
A phan ddêl, melusaf fydd;
Mil o flwyddau gyda'm Hargiwydd
Nid yw ragor ddim na dydd.

3 Yn y rhyfel mi arosaf,
Yn y rhyfel mae fy lle;
Boed fy ngenau tua'r ddaear,
Boed fy llygaid tua'r ne';
Doed y gorcwest bryd y delo,
Mi ddisgwyliaf wrth fy Nuw,
Nes o'r diwedd weled pechod
Wedi derbyn marwol friw. W.

685. *Cariad at yr Anweledig.*

8. 7. D.—Chrysostom. Gaerwen.

ANWELEDIG! 'rwy'n dy garu,
Rhyfedd ydyw nerth dy ras,
Dynu f'enaid i mor hyfryd
O'i bleserau pena' i macs:
Ti wnest fwy mewn un munydyn
Nag a wnaethai'r byd o'r bron—
Ennill it eisteddfa dawel
Yn y galon gareg hon.

2 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,
Ac ni ddaeth i galon dyn
I ddychymyg, nac i ddeall,
Natur d' hanfod di dy hun;
Etto,'r ydwyf yn dy garu
'N fwy na dim sydd is y rhod,
A thu hwnt i ddim a glywais,
Neu a welais etto erioed.

3 Uchder nefoedd yw dy drigfan,
Llawer uwch na meddwl dyn,
Minnau mewn iselder daear,
Bechadurus, waclaf, un;
Etto, agosach wyt i'm henaid,
A'th gyfeillach bur sydd fwy,
A chan' gwell, pan fyddost bellaf,
Na'u cyfeillach benaf inwy.

686. Rhan II.

CLUSTIAU cnawd ni allant glywed
Fythol, dy leferydd pur,
Etto adnabod 'rwyf dy feddwl,
A'th amcanion sanctaidd gwir;
'Nawr 'rwyf yn ymddiried ynot,
Ac yn pwyso ar dy ras,
Lawer mwy nag ymddiriedaf
Yn y cyfaill goreu i macs.

2 Glynu wrthyt mae fy nghalon,
Fel ei noddfa gadarn glyd,
Ac 'rwy'n ffeindio ynot ffynnon
O gysuron dirgel, drud;
Dyma'r dyfroedd a'm diddana,
Dyma'r dyfroedd hyfryd flas,
A wna i mi'n ddiddig, ddiddig,
Dreulio'm dyddiau oll i macs.

3 'Rwyf yn dyfod at dy orsedd
O ryw hyder cryf yn llawn,
Ac yn edrych ar dy hanfod
Fy hapusrwydd, foreu a nawn;
Ac mae'r olwg hyny'n ennyn
Yn fy ysbryd ryw gryfhau,
Gan roi clwyf ar fy mhechodau
Yn dy wyddfod-sy'n gwanhau.

4 Llawen ydwyf fod dy hanfod
Fawr yn ddedwydd ynddo ei hun,
Ac na raid i ti ymddiried
Mewn creadur unrhyw lun:
O! teyrnasa fel y mynost,
Doed dy amcan mawr i ben;
Seinied pawb, mewn nef a daear,
Haleluwia fyth, Amen.

5 Minnau, bryfyn gwael o'r ddaear,
Rof fy llais yn mhlith y llu,—
Saint, cerubiaid, ac angylion,
A'r seraphiaid bywiog fry;
O! na chawn i ymgymmysgu
A ser y boreu mewn un dôn,
Rhown fy llais i mewn i'r anthem
Am ddioddefaint addfwyn Oen. W

687. *Y nefoedd i foliannu gras Duw.*

8. 7. D.—Morish. Esther.

'RWY'n dy garu: ddwedai'r chwaneg!
Uwch pob geiriau i ddeall macs
Yw dy gariad, yw dy heddwch,
Yw d'anfeidrol ddwyfol ras;
Yn nhafodiaith nefoedd oleu,
Caf fi draethu, 'mhlith y llu,
Gyda blas na ellir ddeall,
Hen ddirgeliau nefoedd fry.

2 Yno caf fi ddechreu hanes—
Hanes o lawenydd pur,
Fyth na chlywir diwedd arno
Yn y paradwysaidd dir;
Bob munydyn bydd yn dechreu
Seinio i maes, heb dewi a son,
Ddoniau maith, anfeidrol, hyfryd,
Croeshoeliedig, addfwyn Oen.

3 Bydd dy degwch fyth yn newydd,
Fyth o newydd ennyn dân,
Trwy holl oesoedd tragwyddoldeb,
Fyth heb flino yn y blaen;
Fflam angerddol, heb un terfyn,
Trwy holl raddau'r nef yn un,
Hi barha i losgi'n oleu
Tra parhao Duw ei hun.

4 Nid oedd ond dy fawredd dwyfol,
Yn y nef nac ar y llawr,
All'sai ennyn y fath gariad
Ag wy'n brofi ynwy'n awr:
Pwy sefydlai'm hysbryd gwamal?
Pwy'm gosodai yn fy lle,
Ond yr hwn, heb derfyn arno,
Sy'n berffeithrwydd dae'r a ne'? W

688. *Pob peth yn ofer heb wyneb Duw.*

8. 7. D.—Eifionydd. Jersey.

OFER i mi wel'd y ddaear
Yn egino'i hegin grawn,
Ofer i mi wel'd yr heulwen
Fawr yn estyn ei phrydnawn,
Ofer i mi wel'd y blodau
Yn dadguddio'u dirif liw,
Tra fo neb rhyw un creadur
Yn cysgodi gwedd fy Nuw.

2 Ymwêl, Arglwydd, â phererin
Sydd yn teithio tua thref,
Ac a flinodd ar y ddaear,
Heddyw'n brefu am y nef;
Tyred, heulwen glir, disgleiria,
Ni saif cwmmwl lle bo'th ras,
Storom gref a dry'n dawelwch,
Fel y gallom rodio i maes.

3 O! pa bryd caf wel'd dy wyneb,
Oll yn heddwch, oll yn ras,
Heb un pechod yn fy nghlwyfo,
Nac yn dirgel gario'r maes,
Heb un llen rhyngof a'r bywyd,
Nac un ysbryd marw, syth,
Heb un waedd yn fy nghydwybod,
Ond tangnefedd pur dilyth?

4 Bryd caf wel'd y tir dymunol,
Hyfryd baradwysaidd wlad,
Lle mae brodyr i mi filiwn,
Lle mae 'Mhriod, lle mae 'Nhad,
Lle caf orphwys o fy llafur,
Lle caf wella'm clwyf a'm briw,
A chael gwledd dragwyddol, gysson,
Fyth yn nghwmni'm Tad a'm Duw?
W.

689. *"Fy Anwylyd sydd eiddof fi."*

8. 7. D.—Edinburgh. Moriah.

EIDDOF fi yw fy Anwylyd; [rhad,
Gwnawd cyfammod gwerthfawr,
Nid â pherlau'r byd y'i seliwyd,
Ond â dwyfol nefol waed:
Nerth tragwyddol a ymrwymodd,
Holl ddoethineb mawr y nen,
I gael gwel'd yr iota leiaf
O'r cyfammod hwn i ben.

2 Ymadewch, fy ofnau, bellach,
Rhagor peth, allasai'r nef?
Po'dd dangosai gariad rhagor
Nag ar bren ddangosodd ef?
Rhoddai 'i fywyd dros elynion,
Tuag at eu cael yn un
Briod ferch addasaf, ffyddlon,
Gywir iddo ef ei hun.

3 Cadarnhaw'd fy ffydd grynedig,
Ni ro'i 'ngobaith ddim i lawr,
Ac o'm hawl ni ildiaf ronyn
I gyfammod sydd mor fawr,
Ac ni chym'ra'i 'r India helaeth,
A'i thrysorau sydd heb ri',
Am fy mraint, ac ni chymmeraf
Holl feddiannau'r nefoedd fry. W.

690. *Gweddi am lwyr waredigaeth oddi wrth bechod.*

8.7.D.—Trefaldwyn. Eifionydd.

MI âf trwy'r Iorddonen arw,
Anturiaf wrthwynebu'r don—
Pob temtasiwn gaffo'm nwydau
Gan wrthddrychau'r ddaear hon,
Ond it sefyll wrth fy ochr,
Ond it 'mallyd yn fy llaw;
Ti gei'r clod, ti gei'r gogoniant,
Oll yn oll yr ochr draw.

2 Na'd y cenllysg i fy nghuro—
Grym fy mhleser, a fy chwant,
Ac i yru d' Ysbryd sanctaidd,
A'i awelon pur i bant: [llwyth.
Gwna 'nghydwybod ynwy'n dan
Na ddioddefwyf ddim o'r bai,
Ag sy'n gwneuthur oriau 'mywyd
Fel rhyw oes o edifarhau.

3 'Rwy'n hiraethu am yr oriau
Pan y caffwy'n nhraed yn rhydd;
Dyna jubil fy nghysuron—
Dyna ngwaredigol ddydd;
Dyna wledd 'rwy'n brefu am dani,
Pan na byddo pechod mwy
I ladrata'r meddwl lleiaf,
Nac i roddi i mi glwy'.

4 Tyred, Ysbryd sancteiddiolaf,
A glanhä dy dŷ dy hun,
Lladd y beiau yn fy natur
O'r boreuddydd sydd ynglŷn;
Dwg dy eiddo i maes o'r pydew,
Minnau, ond cael myn'd yn rhydd,
A'th foliannaf tra fo anadl
Am fy ngwaredigol ddydd. W.

691. *Dim a foddia'r enaid ond Duw.*

8. 7. D.—Llangan. Gaerwen.

PA'M 'rwy'n mofyn gwlad o heddwch
Lle nad oes ond gwlad o wae,
Disgwyl cariad a ffyddlondeb
Mewn ardaloedd o gasau,
'Mofyn bywyd mewn marwolaeth,
'Mofyn cysur lle nad yw?
Nid oes dim a foddia'm henaid
Is y nefoedd ond fy Nuw.

2 Dechreu 'rwyf yn awr ehedeg
I'r ardaloedd mae fy 'mryd,
Ac 'rwyf am ddiffoddi'm hiraeth
Am bleserau gwag y byd;
Ni chaiff dyn, na da, nac enw,
Ni chaiff pleser, ni chaiff gwae,
Argraph mwy i'm gwneyd yn llawen
Nac i'm gwneyd i lwfrhau.

3 Mi a' i maes o blith y werin
I ryw loches wrthyf f'hun,
Lle na bo dim stŵr creadur,
Dim ond d' Ysbryd sanctaidd cun;
Mi wna 'mhleser yn dy fynwes,
Mi wna'm nefoedd yn dy hedd,
Ac fe'i gwelaf i mi'n bleser
I gael gorwedd yn y bedd. W.

692. "*Mi a godaf ac a af at fy Nhad.*"

8. 7. D.—Diniweidrwydd. Bohemia.

DYMA 'r truan a'r anghenus,
Wedi treulio'i dda o'r bron—
Holl drysorau pur Paradwys,
Ar wrthddrychau'r ddaear hon;
'Nawr yn noeth, yn glaf, yn glwyfus,
Ac mewn gwlad o eisieu'n byw;
Newyn mawr, heb neb yn rhoddi,
Sy'n yr ardal na bo'm Duw.

2 Tŷ fy Nhad sy'n llawn o gyfoeth,
Fel y morodd mawr didrai,
O drugwyddol mae ei ddechreu,
I drugwyddol mae'n parhau;
Gwcision cyflog fy hen gartref
Fyth sy'n llawen, fyth sy'n llawn,
Heb na phoen, na thrai, na phrinder,
Fyth na boreu na phrydnawn.

3 Minnau godaf tuag yno—
Hen arferiadau tir fy ngenedigaeth—
Ac a gwympaf, yn fy nghlwyfau—
Yn fy mryntni, o flaen fy Nhad;
Dwedaf wrtho:—"Pechais, Arglwydd,
Trwy ryw eyfrwysdra gwael,
O'th flaen di yn anystyriol,
Hefyd ac yn erbyn nef.

4 "Nid wyf deilwng, am fy uhrosedd,
Gael dy enw arnaf mwy,
Gwna fi'n un o'th weision cyflog,
A rho arna'i 'u henwau hwy:"
Llawnder gras, heb fesur arno,
Llawnder annherfynol hedd,
Gaiff y rhai cystuddiol, euog,
Weled yn ei hyfryd wedd.

693. RHAN II.

I'W addfwynaf Dad a'm derbyn,
Er im dreulio'r oll i gyd
O bob da a roddodd i mi
Ar bob gwageedd yn y byd;
Gwaeledd fi o bell yn dyfod,
Ac fe barodd i mi ddod,
Daeth i'm cwrdd, ac fe'm cusanodd—
Cariad penaf fu erioed.

2 Dygodd allan lo pasgedig,
Ac fe'i lladdwyd yn ddioed,
Ac fe roddodd im ddanteithion
Ag na chawsd cu bath erioed:
Dygodd ef fy ngwisgoedd budron,
Ac fe'm gwisgodd i yn lân,
A'r cyfiawnder dwyfol hyny
Na fu am dana'i 'riced o'r blaen.

3 Ar fy llaw fe roddodd fodrwy,
Ac esgidiau am fy nhraed,
Gwnaeth fi'n hardd o fewn ac allan,
Fel ei etifedd penaf gaed;
Cadwodd wledd o ddawns a chanu,
A phob rhyw bleserau 'nghyd;
'Chat'wyd er y trosedd cyntaf
Eu cyffelyb yn y byd. W.

694. *Hiraeth am dragywyddoldeb.*

8. 7. D.—Jersey. Trefaldwyn.

TAN fy maich yr wyf yn griddfan—
Disgwyl amser o ryddhau,
Disgwyl i 'mhechodau dreulio,
Etto 'mhechod sy'n parhau;
Disgwyl caf gasineb hollol,
Caria f'addunedau'r dydd;
Etto, finnau yn y gadwyn,
Ac yn methu myn'd yn rhydd.

2 O! na chlywn yr udgorn arian
Rywbryd yn rhoi bloedd i maes,
Yn cyhoeddi i f'enaid llwythog
Heddwch a maddeuol ras:
O! na ddeuai nerth i waered,
Fel llifeiriant mawr ei rym,
Fel na allai'm nwydau penaf
Beilach ei wrthsefyll ddim.

3 Mi rown fydoedd maith, pe meddwn,
Am gael gweled tori i lawr
Bethau ag sy'n myn'd â'm meddwl
Fil o weithiau yn yr awr;
Trais a gorchest sy ar fy ysbryd,
Cryf yw'm gelyn, minnau'n wan:
Addfwyn Oen! yn fuan brysia,
Cod fi o'r pydew hyn i'r lan.

4 Tor y rhwydau sydd gan Satan,
Llosg gadwynau yn y tân;
Tyred, argyhoeddiad nerthol,
Difa 'mhechod o dy flaen;
Deued peraidd heddwch, yntau,
Nes congcwerio melus chwant,
Nes bo'm bai, trwy bob rhyw foddion,
Felly i ddiflanu i bant. W.

695. *Yr un testyn.*

8. 7. D.—Trefaldwyn. Hebron.

DYNA'r gariadau wyf yn ddiswyl—
Dyddiau'r addewidion rhad;
Dwedwyd cawn fy meiau cryfaf,
Duw'n llwyr eu, dim yn mhellach;
Iesu yw ei enw hyfryd,
Ac fe ddyry wared llawn:
O! am wel'd y boreu'n dyfod;
Rhyfedd hyd y maith brydnawn!

2 Gwyro yma, gwyro acw,
Wedi bian gwyro ar y dde,
Ganwaith ragor ar yr aswy.
Oddi wrth lwybrau Iesuin ne';

Mae yma reddf o waredigaeth,
[illegible] yn rhydd,
A griddfanau i'r lan yn llanw
Am yr hyfryd foreu ddydd.

3 Mi feddyliaf fod y wawrddydd
[illegible]
Mi dybygaf, drwy'r cymmylau,
Gwelaf oleu'r ochr draw:
Deuwch, wyntoedd mwyn y deheu,
Gwthiwch y cymmylau o'u lle,
Im gael gwel'd yn ei ogoniant
Bresennoldeb Brenin ne'.

4 Dan ei aden byddaf ddedwydd,
Dan ei aden caf gasau,
A galaru yn ddrylliedig
Am bob pechod, am bob bai;
Dan ei aden, ar bob chwantau
Caf fi fuddugoliaeth lawn,
Ac y caf ddifyrwch cysson,
O foreuddydd hyd brydnawn. w.

696. *Golwg ar y wlad.*

8. 7. D.—Bohemia. Trefaldwyn.

DYN dieithr ydwyf yma,
Draw mae'm genedigol wlad:
Draw i'r moroedd mawr tymmhestlog,
Ac o fewn i'r Ganaan rad:
Stormydd hir o demtasiynau
'Nghurodd i fel hyn mor bell;
Tyred, ddeheu wynt pereiddiaf,
Chwyth fi i'r Baradwys well

2 Ac er gwaethaf grym y tonau
Sydd yn curo'i ochr tu, tuag wyntoedd,
Dof trwy'r stormydd, dof trwy'r
Rywbryd i'r Baradwys fry:
Gair fy Nuw sy'n drech na moroedd,
Gair fy Nuw sy'n drech na'r don;
Mi anturia'r oll a feddwyf
Fythol i'r addewid hon.

3 Ac ni fydda'i 'n hir cyn gorphen—
Ddim yn hir cyn glanio fry;
Pob gorelgymyn, pob bygythiad,
Pob addewid sydd o'm tu;
Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan;
Gwn y deuaf yn y man,
'Nol fy ngolchi gan y tonau,
Yn ddiangol fyth i'r lan.

4 'Rwyf yn dechreu teimlo eisoes
Beraroglau'r gwleddyd draw,
Gyda'r awel bur yn hedeg;
Diau fod y wlad ger llaw:
Tyr'd, y tir d[illegible]
Tyr'd, yr a[illegible]
Dy bleserau o bob rhywiau,
Gâd im bellach eu mwynhau. w.

697. *Cyfiawnder a nerth yn Nghrist.*

8. 7. D.—Ledforth. Trefecca.

OFER iawn mae'r nef ei hunan
Yn fy ngheisio oll i gyd,
Tra bo hanner lawn o'm calon
Mewn rhyw eilun yn y byd:
Natur wrthryfelgar, gyndyn,
Sy'n fy nal i yma'n dyn,
Tra bo'm hanaid gwan yn hedeg
Fyny'n llwyr i Seion fryn.

2 Ni all ymbryd trist a gweddi
Fyn'd yn lân â mi i'r lan,
Nac un cylch o ddyledswyddau
'Nghodi ronyn bach o'r man:
Grym y llygredd sy'n fy nghalon,
Cryf ac anorchfygol yw;
Nid oes fythoedd a'i gorchfyga
Ond yn unig nerth fy Nuw.

3 Pe bai bossibl i mi dreulio
'Rgraig wrth roi fy ngliniau i lawr
Gwneyd afonydd o fy nagrau,
Llanw hefyd foroedd mawr,
Rhanu trysor y mynyddau
Rhwng y tlodion yn mhob man;
Anhaeddiannol eilwaith fyddwn
Fyth o gael fy nghodi i'r lan.

4 Rhed, fy enaid, i'w gyfeillach,
Cyntaf man y caffech e';
Trist yw'm henaid wrth ymofyn
Un creadur yn ei le:
Blino'n edrych 'rwyf o gwmpas;
Nid oes meddyg ar y don
Ond yn unig ti dy hunan,
Wella'r archoll dan fy mron.

5 Llawn a llawen, iach a diddig,
Wyf pan byddwy'n teimlo'th hedd
Ond meddylgar iawn ac athrist
Pan yn ffaelu gwel'd dy wedd;
'Rwy'n diflasu ar y cwbl
Pan na welwy'th wyneb cu;
Ond mae'm bywyd i mi'n nefoedd
Pan bwy'n agos atat ti. w.

698. *Grym cariad.*

8. 7. D.—Ledforth. Dismission.

MAE fy nghalon am ehedeg
Unwaith etto i fyny fry,
I gael profi'r hen gymdeithas
Gynt fu rhyngof a thydi:
Mi a grwydrais anial garw,
Heb un gradd o oleu'r dydd;
Un wreichionen o dy gariad
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

2 Pe bai'r holl gystuddiau mwya
'N gwasgu ar fy enaid gwan,
A'r gelynion oll yn rhwystro
'R nefol dân i godi i'r lan;
Pan ddechreuo, nid oes derfyn;
Cadarn natur cariad yw
Sydd yn distaw fyn'd â'm henaid
O hono'i hun i fynwes Duw.

3 Mae fy nghalon yn 'sgrifenu,
Ac yn adrodd wrthi ei hun,
Enw hyfryd a rhinweddol
Duw yn gwisgo natur dy:

Iachawdwriaeth, iachawdwriaeth,
Iachawdwriaeth werthfawr iawn,
Ydyw enw fy Nghwaredwr
Genyf foreu a phrydnawn. w.

699. *Hiraeth am oleuni cymdeithas Duw.*

8. 7. D.—Bavaria. Diniweidrwydd.

GWLAD o d'wyllwch wyf yn trigo.
Aiphtyw'r man lle'r wyf yn byw;
Mae tywyllwch wedi'm d'rysu—
T'wyllwch anorchfygol yw:
Cyfod, Haul Cyfiawnder goleu,
Nawr llewyrcha yn dy nerth;
Danfon feddyginiaeth rasol
Dros y creigydd mawrion, serth.

2 D'wêd pa bryd caf yfed dyfroedd—
Dyfroedd gloyw sy'n iachau;
Pob rhyw bleser wedi darfod
Ond yn unig dy fwynhau:—
Pwyso'm henaid ar dy fynwes,
Edrych yn dy wyneb llon;
Caru nes anghofio'r oriau
Sy i mi ar y ddaear hon.

3 Pa'm mae'm llygad gwag yn sylwi
Ar un tegan sy'n y byd?
Nid oes yn nherfynau natur
Ddigon ddim i lanw 'mryd;
Gwela'r beddrod wrth fy ochr,
Egyr arna'i safn yn awr,
A'm hadeilad yn dadfeilio,
Bron a syrthio iddo i lawr.

4 Etto gwell nid wyf un gronyn;
Bywyd, bedd, nac angeu du,
Ni ddod argraph bur dy natur,
Mewn un modd, ar f'enaid i;
Gwel'd dy wyneb, byw'n dy gwmni,
Teimlo'th anorchfygol ras,
Ar fy meiau mawr yn unig
All yn gyfan gario'r maes. w.

700. *Duw a digon.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd. Trefaldwyn.

O! AM nerth i dreulio'm dyddiau
Yn nghyntedd'oedd tŷ fy Nhad;
Byw yn nghanol y goleuni,
T'wyllwch obry dan fy nhraed;
Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmmwl, byw heb boen,
Byw ar gariad anorchfygol,
Pur, y croeshoeliedig Oen.

2 Dyro olwg ar dy haeddiant—
Golwg ar dy deyrnas rad,
Brynwyd i mi, ac a seliwyd—
Seliwyd i mi â dy waed;
Rho i mi gyrchu tuag ati,
Peidio byth a llwfrhau:
Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt
Ond yn unig dy fwynhau.

3 Ac ni cheisiaf drysor arall
Ond tydi tra bwy'n y byd;
'Rwyt yn ddigon byth dy hunan,
Dim ond ti a leinw'm bryd:
Nid oes cystudd fyth wna niwed
Pan bwy'n pwyso ar dy rym;
Hebot, nid oes rwyd gan Satan
Na wna rywfodd niwed im.

4 Gyda thi mi af drwy'r fyddin,
Gyda thi mi af drwy'r tân;
'D ofnaf ymchwydd yr Iorddonen
Ond i ti fyn'd o fy mlaen:
Ti yw'm hamddiffynfa gadarn,
Ti yw'm Mrenin a fy Nhad;
Ti dy hunan oll yn unig
Yw fy iachawdwriaeth rad.

701. *Ymbil am ymwared.*

8. 7. D.—Eifionydd. Diniweidrwydd.

MAE addewid nef o'm hochr,
Fod fy Iesu'n ffrynd i'r gwan;
O'r pydewau dwg ei hunan
Garcharorion llesg i'r lan:
Tor y bolltau pres yn ganddryll,
Tyn y barau heiyrn yn ol,
Gâd i'm henaid, o'r dyfnderoedd,
Hedeg yna i dy gôl.

2 Nid wy'n haeddu dim trugaredd;
Trois fy nghefn ar y nef,
A chofleidiais fy eilunod
'Nol meddiannu ei gariad ef;
Gwerthais drysor mwy na'r ddaear
Am bleserau munyd awr,
Ac 'rwy' mron a thori 'nghalon
Am ei heddwch ef yn awr.

3 T'wyneb heulwen ar fy enaid,
Blinais gariwaith ar y nos:
Nid yw 'mhleser, na 'nhegwaau,
Na'm heilunod, ond fy nghroes;
Mynwes Iesu yw'm hapusrwydd;
O! na chawn i yno fod:
Fe roi cariad dwyfol, perffaith,
Fy mhleserau dan fy nhroed.

4 Etto unwaith mi ddyrchafaf
Un ochenaid tua'r nef,
Ac a wylaf ddagrau'n hidyl
Am ei bresennoldeb ef;
Pwy a wyr na wrendy clustiau
'R hwn a greodd ddae'r a nen;
Ac na ddaw fy nymuniadau,
Trist, hiraethlawn, oll i ben. w.

702. *Bywyd yn ngwedd yr Iesu.*

8. 7. D.—Tyddewi. Ledforth.

NID oes dim o dan yr wybren
Wna fy enaid ronyn gwell;
Un difyrwch, nac un pleser,
Sydd yn agos nac yn mhell;
Darfu cnwant â'i holl hyfrydwch,
Ei lawenydd gwag a ffodd;

Presennoldeb Iesu ei hunan
A'm gwna'n unig wrth fy modd.

2 Y mae nefoedd yn ei gwmni,
Y mae bywyd yn ei wedd,
Ag sy'n gwneuthur angeu'n gyfaill,
Ag sy'n peri concro'r bedd;
Rho'th gyfeillach, Iesu addfwyn,
Dyna wy'n ei geisio i gyd:
Ac mi fyddaf foddlon ddiddig
I a gwrddwyf yn y byd.

3 Tyr'd am hyny, Ffrynd troseddwyr,
At yr eiddil gwaela'i lun.
Gollodd afael ar bob haeddiant
A rhinweddau sydd gan ddyn;
Ymddieithrais o'r creadur,
Felly yntau oddi wrthyf fi,
Ac ni fedd fy enaid egwan
Gyfaill heddyw ond tydi. W.

703. *Yr un testyn.*

8. 7. D.—Edinburgh. Dismission.

MI edrychaf ar i fyny,
Deued t'wyllwch deued nos;
Os daw heddwch im o unlle,
Daw o haeddiant gwaed y groes:
Dyna'r man y gwnaf fy nhrigfan,
Dyna'r man gobeithiaf mwy:
Nid oes iechyd fyth i'm henaid
Ond mewn dwyfol farwol glwy.'

2 Gobaith f'enaid yw ei haeddiant,
Gobaith f'enaid yw ei rym;
Tlawd, a llesg, a gwan, ac ynfyd,
Ydwyf fi heb feddu dim;
Trwodd draw yr wyf yn edrych,
Dros y bryniau mawrion, pell,
Ac yn disgwyl fy ngorphwysfa
O gyfiawnder llawer gwell.

3 Nid oes ffynnon wedi ei hagor
A all olchi'r euog hyn,
Ond y ffynnon a agorodd
Cariad ar Galfaria fryn;
Gwaed all dalu'n llwyr am feiau—
Gwaed all agor porth y nef;
Ac nid oes foddlona'r nefoedd
Ond ei haeddiant dwyfol ef. W.

704. *Meddyliau crwydredig.*

8. 7. D.—Eifionydd. Hebron.

FY meddyliau sydd yn hedeg [de:
Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r
Treulio'm dyddiau gwerthfawr goreu,
Bob munydyn, 'rwyf o dre';
Lleng 'nol lleng olynol ganlyn
Ynwyf o feddyliau gau,
Heddyw yn newid, ddoe yn drysu,
Ddoe a heddyw yn parhau.

2 Ti 'sgrifenaist gynt ar geryg
Ddeddfau cywir, sanctaidd, pur:
Nid anhawddach it 'sgrifenu
Etto'n awr ar galon ddur;
Os buost farw dros un ffiaidd,
Aflan, Arglwydd, fel myfi,
O! na ad im fod yn ddieithr
I rasusau'r nefoedd fry.

3 Rho i mi heddwch fel yr afon,
Rho faddeuant fel y môr,
Rho i mi ronyn bach o brofi
'Nawr o'th annherfynol stôr;
Na newynwyf yn yr anial,
Lle nad oes na dwr na gwin,
Ond cael teimlo'r pur gawodydd
A addewaist ti dy hun. W.

705. *Bywyd mewn angeu.*

8. 7. D.—Jersey. Eifionydd.

SAITH o weithiau, ol a gwrthol,
Torais dy orch'mynion glân;
Saith adduned fawr a wnaethum
I ymgadw rhag y tân;
Yn y dyfnder cefais gyntaf
Wel'd dy wridog wyneb gwyn;
Oni buasai fflam euogrwydd,
'Ddaethwn byth i Seion fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,
Fe wnaeth t'wyllwch dudew'r nos,
Im roi naid trwy ddyledswyddau,
Cael neu golli, at waed dy groes;
Ar fin uffern cefais nefoedd,
Ac yn angeu cefais fyw.
Yn nharanau mynydd Sinai
Gyntaf dès i gwrdd à Duw.

3 Mellt, taranau, mwg, a chenllysg,
Oedd euogrwydd i mi'r pryd
Des i wel'd maddeuant pechod
Fil o weithiau'n fwy na'r byd;
Gwnaf, mi gofia'r oriau hyny—
Oriau fy mhriodas gun,
Pan ddaeth Crëwr nef a daear
A'r pechadur gwaela'n un. W

706. *Gweddi am ail ymweliad.*

8. 7. D.—Bohemia. Diniweidrwydd.

P'ODD y gallaf ddweyd sydd ynwyf?
Pwy all ddeall faint yw 'nghri?
'Rwyf o'r cwbl yn ymddifad,
Os ymddifad o honot ti:
Aed fy ngweddi trwy'r cymmylau,
A'm hoch'neidiau trwm diri',
Nes im gael maddeuant newydd,
A chael gwel'd dy wyneb cu.

2 Nid yw 'ngweddi, nid yw 'nagrau,
Nid yw f'addunedau ddim;
Ni wna mil o ddyledswyddau
Unrhyw bechod lai ei rym;
Cofia'r hwn fu ar Galfaria
Dan yr hoelion llymion, main,
Gwel y waywffon a'r gorsen,
Mantell goch, a'r goron ddrain.

3 Ac er mwyn y gwaed a gollwyd,
Cymmysg ddwr, o'i ystlys ef,
Tyn bob cwmmwl dudew, tywyll,
Ag sydd rhyngwyf 'nawr a'r nef;
Maddeu i mi feiau mawrion—
Beiau lawer fwy na rhi',
Dim ond edrych i Galfaria,
Nid wrth edrych arnaf fi.

4 Os am bechod y'th w'radwyddwyd,
Y trywanwyd gwaywffon
Nes gwneyd archoll na anghofir,
Tra fo nefoedd, dan dy fron;
Gâd i mi gael ffrwyth dy glwyfau,
Gâd i mi gael rhin dy waed;
Maddeu 'mhechod, gwel'd dy wyneb,
Ti fy Mhrynwr a fy Nhad;

5 Golchi'm henaid yn yr afon,
Gwneyd yr euog brwnt yn lân,
Llanw 'nghalon oer, ddigariad,
O dy nefol hyfryd dân;
A chael rhan o bob rhinweddau
Ag sydd ynot ti dy hun;
Ddoe yn allan, wedi'm dychwel
Heddyw'n berffaith ar dy lun;

6 Fel bo'm dyddiau oll yn ganu,
Nid yn alar, fel mae'n awr,
Cariad yn concwerio'm henaid,
Ac yn boddi swn y llawr;
Ar adenydd pur yn hedeg,
Trwy bob rhwystrau maith yn
Credu, caru, gorfoleddu, [mlaen;
Yn y dyfroedd mawr a'r tân. W.

707. *Ymbil am gynnaliaeth ac arweiniad.*

8. 7. D.—Eiflonydd. Jersey.

TYRED, f'enaid, ar i fyny,
Allan o'r anialwch maith;
Hiraeth sy arnaf am gael gweled
Gwledydd hyfryd pen fy nhaith;
Blinais deithio'r creigydd geirwon,
Lle 'rwy'n wastad yn cael briw,
Ac fe'm clwyfid i farwolaeth
Oni bai cariad rhad fy Nuw.

2 Lleoedd dyfnion sydd ar aswy,
Lleoedd dyrys sydd ar dde;
Ac mae'n anhawdd cadw'r llwybr,
Ag a deithiodd Brenin ne';
Rhag im golli trwy ryw ryfyg,
Neu anghredu, neu trwy flys,
Help, fy Nuw, luddedig enaid
Ddringo'r bryniau serth ar frys.

3 Dal fi i fyny, addfwyn Iesu,
Arwain f'enaid yn dy law,
Nes bwy'n cyrhaedd dros bob ofnau,
I'r ardaloedd hyfryd draw;
Ac os yno byth y deuaf,
Dyna 'ngwaith o fewn y lle—
Chwareu ar y delyn euraidd
Am rinweddau'i gariad E'. W.

708. "*Gras fel moroedd all fy achub.*"

8. 7. D.—Eiflonydd. Horeb.

TORI wnes fy addunedau
Gant o weithiau maith eu rhi',
Ac mae'n rhaid ryw ras anfeidrol
Gadw euog fel myfi;
Wrth yr orsedd 'rwyf yn cwympo,
Ac nid oes un enw i maes
Ag a rydd im feddyginiaeth
Ond yn unig gorsedd gras.

2 Gras fel moroedd all fy achub,
Perffaith gyflawn yn mhob rhan,
Gras a roddo nerth a bywyd,
Ac a wnelo'n gryf y gwan:
Rhaid cyflawnder, rhaid doethineb,
A phob grasau, fawr a mân,
Cyn yr elo f'enaid eiddil,
Sydd mewn cadwyn, gam yn mlaen

3 Rhaid cael llygaid, fel y gwelwyf
Hyfryd beraidd lwybrau'r dydd;
A chael holl allweddau'r nefoedd
I ddadgloi cadwynau'n rhydd;
A chael llusern fawr y bywyd
Fyth i gerdded o fy mlaen,
Ganol dydd yn gwmmwl goleu,
Ganol nos yn golofn dân.

4 Tywysog bywyd, bydd o'm hochr,
'Rwyf yn mron a llwfrhau;
'Dyw 'ngelynion, mewn rhifedi,
Na chyndynrwydd, ronyn llai;
Torf o faes o hyd sy'n temtio,
Torf o fewn o'u cymmaint luwy,
Ac mewn cynghrair gyda'u gilydd
Am roi i mi farwol glwy'.

5 Minnau rois fy holl ymddiried,
Iesu, arnat ti dy hun;
Ac nid oes un enw arall
A all achub y fath un:
Tyn fi'n mlaen i'r ardal hyfryd,
Maes o'r anial maith ei hyd;
Ti gei'r clod a'r holl ogoniant
Pan yn ulw'r elo'r byd. W

709. *Gweddi am ryddid a maddeuant.*

8. 7. D.—Eiflonydd. Jersey.

IESU, dyro dy gymdeithas
Nefol yn yr anial fyd,
Lle mae maglau ar ol maglau
Yn fy nrysu 'mron o hyd;
Y mae hiraeth yn fy nghalon,
Ac och'neidiau heb ddim trai,
Am wel'd oriau 'ngwaredigaeth
Ddedwydd, hyfryd, yn nesau.

2 Mae fy meddwl i yn crwydro
Gant o weithiau i maes o dref,
Ac yn clymu â gwrthddrychau
Gwâg, disylwedd, is y nef;

Mae fy mywyd i mi'n ofid,
Mae fy nyddiau i mi'n boen,
Eisieu cael fy holl ddifyrwch
Yn dy gwmni, addfwyn Oen.

3 Ti faddeuaist fil o feiau—
Beiau cynddeiriocaʼu rhyw,
Ac a guddiaist rhag y werin
Rai fel porphor coch eu liw:
Cluria fy nghydwybod euog,
Cana i'enaid yn y gwaed,
A rho'r bai ag sy'n fy meddu,
A fy nryllio, dan fy nhraed.

4 O! na ildia, f'enaid, ronyn,
Er ei bod yn fyr brydnawn,
Y mae trugareddauʼr nefoedd
Fel y moroedd mawrion llawn;
F'allai try deheuwynt tawel,
Cyn machludoʼm haul yn lân,
Ac yn lle rhyw drwm och'neidio,
Caf fi seinioʼr hyfryd gân. W.

710. *Crist yn bob peth.*

8. 7. D.—Eifionydd. Jersey.

MI af heibio i'r creadur,
'Loes ond gwagedd ynddo i gyd;
Twyll a golwg, heb ddim sylwedd,
Yw a welais yn y byd:
Dacw'r unig wlad o sylwedd,
Draw i'r bryniau, man lle mae
Afon bywyd, fel y grisial,
Feusydd gras yn dyfrhau.

2 Ti dy hunan wyf yn 'mofyn,
Ynot ti mae heddwch llawn;
Ynot ti caf fod yn ddedwydd,
Ynot ti yn hyfryd iawn;
Nid oes ofn i'r sawl a'th garo,
I dy garo nid oes gwae;
Fe gaiff pob rhyw dristwch atgas
Iddynt droi yn llawenhau.

3 Tyred, bellach, oʼr creadur,
Mae'r cynnwr bron ar ben—
Troi, ymddadrys, ac ymddʼrysu,
Fwyfwy 'mlaen, o radd i radd;
Fyth ni chaiff fy enaid egwan
Loches hyfryd fyth ond un,
Rhag y stormydd sy'n fy nghuro—
Yn dy glwyfau di dy hun.

711. RHAN II.

DROS bechadur buost farw,
Dros bechadur, ar y pren
Y dioddefaist hoehon llymion,
Nes it orfod crymuʼth ben;
Dwêd i mi, ai fi oedd hwnw
Gofiodd cariad rhad mor fawr—
Marw dros un bron a suddo
Yn Gehenna boeth i lawr.

2 Dwêd i mi, a wyt yn maddeu
Cwympo gannwaith i'r un bai?
Dwêd a ddeui byth i galon
Nas gall gynnyg 'difarhau?
Beth yw pwysauʼr beiau mwyaf
Wyt yn fodlon?—o ba ri'?
Pa un drymaf yw fy mhechod
Ai griddfanau Calfari?

4 Arglwydd, rhaid i mi gael bywyd;
Mae fy meiau yn rhy fawr,
Fy euogrwydd sy'n cyd-bwyso
A mynyddau mwya'r llawr:
Rhad faddeuant, gwawria bellach,
Gwna garcharor caeth yn rhydd,
Fuʼn ymdreiglo mewn tywyllwch,
'N awr i weled goleuʼr dydd. W.

712. *Y pererin yn yr anialwch.*

8. 7. D.—Jersey. Eifionydd.

TYRED, Arglwydd, i'r anialwch
Yma buost ti oʼr blaen,
Arwain fi, bererin eiddil,
A dy golofn niwl a thân;
Dal fy ysbryd syʼn llewygu
Gan ryw ofnau o bob man,
Yn dy allu 'rwyf yn gadarn,
Hebot ti nid wyf ond gwan.

2 Wrth dy orsedd bydd fy nhrigfan,
A dy orsedd unig yw,
Od oes dim tu yma i angeu,
Wna fy enaid marw'n fyw;
Pechod, gofid, ac euogrwydd,
O bob natur, o bob gradd,
Syched am gael teimloʼth heddwch,
Sydd yr awr hon bron fy lladd.

3 O! drugaredd pen Calfaria,
Sydd yn llawer mwy na'r byd,
Yma'n unig mae fy ngobaith
Sefyll mewn anfeidrol lid:
'Rwy'n ymwadu â'r oll a feddaf,
Ac yn addef feddaf ddim:
Iesu ei hunan yw fy haeddiant,
Iesu ei hunan yw fy ngrym. W.

713. *Golwg ar y nefoedd.*

8. 7. D.—Moriah. Tyddewi.

DACW 'r ardal, dacw'r hafan,
Dacw'r nefol hyfryd wlad,
Dacw'r llwybr pur yn amlwg
'R awrhon tua thŷ fy Nhad;
Y mae hiraeth yn fy nghalon
Am fod heddyw draw yn nhref,
Gyda myrdd syʼn canuʼr anthem—
Anthem cariad, "Iddo Ef."

2 Bynag beth a welodd llygad,
Neu a deimlwyd is y rhod,
Bynag beth a glywodd clustiau,
Neu beth bynag a all fod,
Holl wrthddrychauʼr ddaear isod,
Mewn un funyd ddarfu ynghyd,
Er pan ges yr olwg leiaf
Ar Iachawdwr mawr y byd.

3 Mae fy hwyliau heddyw'n chwareu
'N llawen yn yr awel bur,

Ac 'rwy'n clywed swn caniadau
Peraidd paradwysaidd dir;
Ffarwel haul, a lloer, a thrysor,
Ffarwel ddaear, ffarwel ddyn;
Nid oes dim o dan yr wybren
Ag sy'n fawr ond Duw ei hun. w.

714. *Profiadau amrywiol.*

8. 7. D.—Bohemia. Hebron.

'RWYF yn teimlo gwynt y deheu
Yn anadlu awel bur.
Ac yn ysgafn gario f'enaid
Draw i fryniau'r Ganaan dir;
Aeth y gauaf garw heibio,
Darfu'r oer dymhestlog wynt;
Na ddoed mwy'r cawodydd duon
I fy mlino megys gynt.

2 Anhawdd yfed dyfroedd chwerwon,
Er mai dyfroedd chwerwon iawn
Ydyw haeddiant fy mhechodau,
O foreuddydd glas hyd nawn;
Tro fy chwerwder yn felusdra,
Tro fy ngwenwyn câs yn win;
Mi rof glod, mi ro'r gogoniant,
I'th ddoethineb di dy hun. w.

715. *Ymorfoleddu yn Nuw.*

8. 7. D.—Tyddewi. Dismission.

ATAT, f'Arglwydd, dyrcha f'enaid,
Rhof f'och'neidiau ger dy fron;
Unrhyw atteb i'm griddfanau
Fyth ni fedd y ddaear hon:
Nid oes ond dy enw yn unig
Ag a gynnwys lawn iachâd,
Ac a gonera'm holl elynion
Sy'n fy rhoddi dan eu traed.

2 Mae'm gofalon oll yn darfod
Gynted caffwyf wel'd dy wedd;
A diflanu'n berffaith gwbl
Y mae ofnau'r byd a'r bedd:
Mae fy nhemtasiynau creulon,
Er mor aml oent o'r blaen,
Megys cwmmwl tew'n myn'd heibio
Yn dy bresennoldeb glân.

3 Mae fy nghalon yn chwedeg,
Mae fy nymuniadau'n llu,
Yn dihengu uwch troadau
Haul a sôr y nefoedd fry;
Ac yn damsang poh cynnygion
O ddymunol bethau'r llawr,
Er mwyn meddu'r fraint sy 'nghadw
I mi yn nhragwyddoldeb mawr. w.

716. *Nerth a chymmaliaeth yn yr anial.*

8. 7. D.—Llangan. Dismission.

TYRED, Iesu, i'r anialwch,
At bechadur gwael ei lun,
Ganwaith dd'rysodd mewn rhyw rwydau—
Rhwydau weithiodd ef ei hun;
Llosg fieri sydd o'm cwmpas,
Rho fi i sefyll ar fy nhraed;
Moes dy law, ac arwain drosodd
F'enaid gwan i dir ei wlad.

2 Manna nefol sy arnaf eisieu;
Dwr rhedegog, gloyw, byw,
Sydd yn tarddu o dan riniog
Teml sanctaidd bur fy Nuw,
Golchi'r afian, canu'r Ethiop,
Gwneyd yr euog brwnt yn lân;
Ti gei'r clod ryw fyrdd o oesoedd
'Nol i'r ddaear fyn'd yn dân.

3 Ar dy allu rwy'n ymddiried;
Mi anturiaf, doed a ddêl,
Dreiddio trwy'r afonydd dyfnion,
Mae dy eiriau oll dan sêl;
Fyth ni fetha a gredo ynot,
Safodd un erioed yn ol;
Mi a 'mlaen, a doed a ddelo,
Graig a thylau, ar dy ol. w.

717. *Llwybrau gras yn hyfryd.*

8. 7. D.—Tyddewi. Vienna.

MAE dy lwybrau cul yn hyfryd,
Mae dy gwmni'n dawel, fwyn,
Mae dy iau yn dirion, esmwyth,
Tra dy hunan yn ei dwyn;
Mae dy feichiau'n rhyfedd ysgafn,
Oll yn perthyn it sy'n hedd;
Fel y mêl gwnest groesau diried,
Angeu haerllug, dewr, a'r bedd.

2 Dyma'r llwybr a ddewisais,
Ëtto 'rwyf heb 'difaru;
Disgwyl f'etifeddiaeth 'rydwyf,
Ëtto heb gael ei mwynhau:
Cyfoeth mawr, heb fesur arno,
Trysor mwy na'r moroedd maith,
Welaf draw yn nghadw i mi,
Hir brydnawn, ar ben fy nhaith.

3 Diange wnês i maes o Sodom,
Ar y gwastad 'rwyf yn byw,
Mae fy nghefn ar Gomorrah,
F'wyneb tua gwlad fy Nuw:
Fyny i'r bryniau 'rwyf am ddiange,
Maes o sawr y mŵg a'r tân;
Rho dy law, Dywysog bywyd,
Tyn fy enaid yn y blaen.

4 Ffarwel dciau, ffarwel diroedd,
A'r eilunod pena' erioed,
Mi'ch tyngheda 'ngwydd y nefoedd
Na ddilynoch ol fy nhroed;
Myn'd rwy'n llwm tua thir y bywyd—
Ffon yn unig yn fy llaw;
Mi a 'mlaen dros yr Iorddonen,
Mae 'nghyfeillion anwyl draw. w.

718. *Cariad at Grist.*

8. 7. D.—Dismission. Trefecca.

PA'M 'rwy'n chwaren âg eilunod
Sydd yn tori gwallt fy mhen?

Pa'm 'rwy'n edrych ar un gwrth-
Gwerthfawrocaf is y nen? [ddrych
Twyll yw'r cwbl wy'n adnabod,
Twyll eu cariad, twyll eu llid,
Ac nid gwell yw'm cariad innau
Iddynt hwythau oll i gyd.

2 Gwrthddrych arall wyf am garu,
Gwel'd ei degwch, hyfryd wawr;
Peidied da, a pheidied dynion,
Peidied cyfoeth daear fawr;
Peidient sefyll yn ei gysgod,
Ciliwch, ciliwch, rhoddwch le;
Ni chaiff dim o dan y wybren
Rwystro f'enaid ato fe.

3 Mi ddof at ei fwrdd yn eon,
Ces fy ngwahodd ganddo'i hun;
Y mae yno basgedigion,
Y mae yno loyw win;
Y mae yno gwmni hyfryd,
Gwisgoedd gwynion i bob rhai,
Nid oes un heb wisg briodas,
Nid oes un yn berchen bai.

4 Mi gaf yno yfed cariad,
Ffrwyth gwinwydden nef y nef,
Yr un cariad nefol hyfryd
Ag oedd yn ei gwpan ef;
Cariad wna fyrdd o fyrddiynau
Mewn rhyw gwlwm cryf yn un,
Ac a 'mlaen i dragwyddoldeb
Yn ei Ysbryd ef ei hun. W.

719. *Duw yn unig noddfa.*

8. 7. D.—Llangan. Tyddewi.

ATAT, Arglwydd, 'rwy'n troi
ngwyneb,
Ti yw'm hunig noddfa lawn,
Pan fo cyfyngderau'n gwasgu—
Cyfyngderau trymion iawn;
Dal fi i fyny yn ngrym y tonau,
'Does ond dychryn ar bob llaw;
Rho dy help, Dywysog bywyd,
I gael glanio'r ochr draw.

2 Neb is nef ond ti dy hunan
Ddeil i fyny f'enaid gwan;
'Rwy'n diystyru'r holl greadigaeth
Fel peth diddim, tlawd, a gwan;
Ac os ti roi dy fendithion
I mi'r annheilyngaf ddyn,
Ti gai'n ol y cwbl roddaist,
I dy fynwes lân dy hun.

3 Ti gai 'mywyd, ti gai f'amser,
Ti gai'm doniau o bob rhyw:
P'odd y meiddiaf gadw mymryn
O fendithion pur fy Nuw?
Ffrydia'r nefoedd wen i waered,
Tyn garcharor caeth i maes,
Fe gaiff nef a daear glywed
Adsain gwaredigol ras.

4 Ac am hyny mi ymdroaf
'Nawr yn ngallu mawr y nef;
Mae pob llwybr wedi ei gauad
Ond y llwybr ato ef;
Mae allweddau nef ac uffern
Acw'n hongian wrth ei glun,
Ato'r af yn mhob caledi—
Ceidwad y truenus ddyn! W.

720. *Hyder am fuddugoliaeth.*

8. 7. D.—Dismission. Edinburgh.

F'ENAID, gwel i ben Calfaria,
Draw ryfeddod fwya' erioed;
Crëwr nefoedd wen yn marw,
'R ddraig yn trengu dan ei droed:
Clywaf lais yn awr, dybygwn,
Agor byrth y nefoedd fry;
F'enaid cân, fe ddarfu ofn,
Prynwyd nefoedd wen i mi.

2 Tyr'd i fyny o'r anialwch,
Wedi aros yno'n hir;
Sypiau grawnwin mawrion, addfed,
Sy'n dy aros yn y tir;
Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
Cymmer galon, mentra 'mlaen;
Ffordd nis colli, mae'n dy arwain
Gwmmwl niwl a cholofn dân.

3 Ni all Amalec na Moab,
'Nghyd â'r holl elynion hy',
Wneuthur niwed im tra cadwyf
'N agos at dy babell di;
Dan y cwmmwl mi arosaf,
Yno hefyd bydd fy nyth,
Nes cael trigo mewn llawenydd
Yn y wlad a bery byth.

4 Gwnes y dewis goreu wnaethpwyd,
Dewis Brenin nefoedd wen—
Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,
Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn Ben:
Cyfoeth mawr di-drai, di-fesur,
Sydd yn nghadw i mi'n stôr,
A bendithion, oll pe rhifid,
Megys tywod mân y môr. W.

721. *Bywyd crefydd.*

8. 7. D.—Diniweidrwydd.

DYRO afael ar y bywyd,
Bywyd yw fy nghri o hyd;
Na'd fi gario lamp neu enw
Heb yr olew gwerthfawr drud:
Adeilad gref—y graig yn sylfaen,
Arglwydd, dyro i mi'n awr;
Llanw'm henaid â dy gariad
Tra fwy'n teithio daear lawr. AN.

722. *Hiraeth am ail ymweliad.*

8. 7. D.—Bohemia. Eifionydd.

O! FY Iesu, 'Mhriod anwyl,
Cofia eiddil gwael, dilun,
Sydd yn gŵyro bob munydyn,
Sydd yn blino arno'i hun;
Tro fy ngolwg at dy haeddiant,
A'th drugaredd ryfedd, rad;

Rho dangnefedd yn fy mynwes,
Rho faddeuant yn dy waed.

2 Anfon un pelydryn tirion,
O dy orsedd ddisglaer fry,
Nes bo'r dydd yn siriol wenu
Ar ol noswaith dywyll ddu,
A fy enaid yn cael mwynâd,
Fel aderyn bach o'r llawr,
Ar adenydd cariad cynnes
I dy fynwes, Iesu mawr. D. C.

723. *Cŵyn yr enaid mewn tywyllwch.*

8. 7. D.—Jersey. Eifionydd.

HIR ddisgwyliais am foreuddydd.
Etto tew dywyllwch sy
Yn parhau i'm hamgylchynu,
Oddi waered, oddi fry;
Beichiau trymion sy'n fy ngwasgu,
Minnau'n egwan dan y groes;
Colli'th wyneb tirion, Arglwydd,
Sydd yn ychwanegu'r loes.

2 A ddaw gwawr ar ol y plygain,
Sy mor dywyll i mi'n awr?
A ddaw'm gwâr i etto'n uniawn,
Sydd yn teimlo beichiau mawr?
A raid yfed chwerwach dyfroedd
Nag a yfodd un o fil,
Cyn fy lladd i lwybrau gwammal,
A fy nwyn i gadw'r cull? D. M.

724. *Iesu Grist yn nerth mewn cyfyngder.*

8. 7. D.—Dismission. Edinburgh.

WYNEB siriol fy Anwylyd
Yw fy mywyd yn y byd;
Ffarwel bellach, bob eilunod,
Iesu 'Mhriod aeth â'm bryd;
Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
Ffrynd mewn mŏr o ofid yw;
Ni chais f'enaid archolledig
Neb yn Feddyg ond fy Nuw.

2 Dyddiau blin fy mhererindod
Sydd ar ddarfod, yn ddi-lai;
Ffarwel yfed dyfroedd Marah,
I wlad arall 'rwy'n nesau:
Teimlo f'enaid 'rwyf yn 'madael
A'r creaduriaid ar y llawr;
Ac mewn hiraeth am fyn'd adre' [M. R.
I'r dedwydd drugwyddoldeb mawr.

725. *Ymhyfrydu yn Nghrist a'i groes.*

8. 7. D.—Dolwar. Esther.

NIS dichon byd â'i holl ddoethineb
Foddloni fy serchiadau'n awr,
A ennillwyd, a cangwyd
Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr;
Efe, nid llai, a all eu llenwi,
Fythol ddiamgyffred Dduw;
O! am sylfu ar ei Berson!
Rhyfeddod pob rhyfeddod yw.

2 O! na chawn i dreulio 'nyddiau
Yn fywyd o ddyoddefaint ei waed;
Llechu'n dawel dan ei groesau,
Byw a marw wrth ei draed:
Cario'r groes, a phara i'w chodi.
Am mai croes fy Mhriod yw,
Ymddifyru yn ei Berson,
A'i addoli ef, fy Nuw. A. C.

726. *Cymdeithas â'i dioddefiadau ef.*

8. 7. D.—Esther. Dolwar.

DIGON mewn llifeiriant dyfroedd
Digon yn y fflamau tân;
O! am nerth i lynu wrthlo,
A phara byth yn ddiwahân:
Ar dd'ryslyd lwybrau tir Arabia,
Lle mae gelynion fwy na rhi',
Rho gymdeithas dioddefiadau
Gwerthfawr angeu Calfari.

2 Pan fo'm henaid fwyaf gwresog,
Yn tanllyd garu'n fwyaf byw,
Mae'r pryd hyny'n fyr o gyrhaedd
Perffaith sanctaidd gyfraith Duw:
O! am nerth i'w hanrhydeddu,
Trwy dderbyn iachawdwriaeth rad
A'r cymmundeb mwyaf diddig,
Yn hyfryd felus yn y gwaed.

3 Mae hiraeth arnaf am ymadael,
Bob dydd ar y gwaedlyd faes,
Nid â'r arch nac Israel dirion,
Ond â'm hunan-ymchwydd cas;
Cael dod yn hyf at fwrdd y Brenin,
A'm gwahodd yno i eiste'n uwch,
A minnau'n para'n wan ac eiddil
Byth am garu yn y llwch. A. C.

727. *Crist yn bob peth.*

8. 7. D.—Dolwar. Esther.

NID oes wrthddrych ar y ddaear
Leinw'm henaid gwerthfawr,
Fy nunig blesera'm daddanwch [drud;
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd;
Gwedd dy wyneb dyr y dywmau
A phob creadur ar y llawr;
A gwna enw câr a chyfaill
Yn ddim er mwyn dy enw mawr.

2 Arogli'n beraidd mae fy nardus,
Wrth wledda ar y cariad fwyd
Sel yn tanio yn erbyn pechod,
Caru delw sanctaidd mwy;
Tynu ymaith law a llygad,
Ynghyd âg uchel drem i lawr;
Neb yn deilwng o'i ddyrchafu
Ond fy Iesu, Frenin mawr!

3 O! am yfed yma heunydd
O fyrdynu'r ordawsderaeth fawr,
Nes fy nghwbl ddisychedu
Am ddarfodedig bethau'r llawr;

Pwy dan ddïogywyl am fy [illegible]wydd.
Bod pan ddelo'n effro iawn
I [illegible]
A mwynhau ei ddelw'n llawn.

4 Rhyfeddu wnaf â mawr ryfeddod
Pan ddêl i ben y ddedwydd awr,
Caf fy meddwl, sy yma'n gwibio
Ar ol teganau gwael y llawr,
Wedi ei sefydlu'n gyfan
Ar wrthrych mwyn ei berson ef,
A digyscog gydymffurfio [A. G.
A phur a sanctaidd ddeddfau'r nef.

728. *Dymuniad am sancteiddrwydd.*

L. M. 7. D.—Diniweidrwydd. Eifionydd.

LLWYBR cwbl groes i natur
Yw fy llafur yn y byd;
Ei deithio wnaf er hyny'n dawel
Ond i mi gael dy wyneb pryd;
Codi'r groes, a'i chyfri'n goron,
Mewn gorthrymderau llawen fyw;
Ffordd unionaf, er mor arw,
I ddinas gyfanneddol yw.

2 Addurna'm henaid â dy ddelw,
Gwna fi'n ddychryn yn dy law
I uffern, llygredd, a chnawdolrwydd,
Wrth edrych arnaf yma a thraw;
O! am gymdeithasu â'r enw!
Enaint tywalltedig yw,
Yn hallt'u'r byd, gan berarogli
O hawddgar ddoniau Crist, fy Nuw.

3 O! rhwyga'r tew gymmylau duon
Sy'n cuddio gwedd dy wyneb gaiw;
Nid oes bleser a'm diddana
Ond yn unig ti, fy Nuw:
Mŵr di-drai o bob trugaredd [dawn,
Yw'th iachawdwriaeth fawr ei
Lanwodd ac a lifodd allan
Ar Galfaria un prydnawn.

4 Mae fy nghalon am ymadael
A phob eilunod, fach a mawr,
Am fod arni'n arrapliedig
Ddelw gwrthddrych uwch y llawr,
Anfeidrol deilwng i'w addoli,
Ei garu a'i barchu, yn y byd;
Bywyd myrdd o safn marwolaeth
A gafwyd yn ei angeu drud. A. G.

729. *Effeithiau adnabod Duw yn Nghrist.*

8. 7. D.—Dolwar. Esther.

O! AM dreiddio i'r adnabyddiaeth
O'r unig wir a bywiol Dduw,
I'r fath raddau a fyddo'n lladdfa
I ddych'mygion o bob rhyw;
Credu'r gair sy'n dweyd am dano,
Am ei natur sanctaidd, wiw,
Yn farwolaeth i bechadur
Heb gael lawn i'w gadw'n fyw.

2 Mae Duw anfeidrol mewn gogoniant,
Er mai Duw y cariad yw,
Wrth ei gofio i mi'n ddychryn,
I mi'n ddolur ac yn friw;
Ond yn mhabell y cyfarfod,
Mae ef yno'n llawn o hedd,
Yn Dduw cymmodlawn wedi eistedd,
Heb ddim ond heddwch yn ei wedd.

3 Yno mae fy mwyd a'm diod,
Fy noddfa, a'm gorphwysfa wiw,
Fy meddyginiaeth, a fy nhrysor—
Tŵr cadarn anfethedig yw;
Yno mae fy holl arfogaeth,
Yn ngwyneb fy ngelynion câs,
Mae 'mywyd yno yn guddiedig
Pan bwy'n ymladd ar y maes.

4 Cael Duw yn Dad, a Thad yn Noddfa,
Noddfa'n Graig, a'r Graig yn Dŵr
Mwy nis gallaf ei ddymuno
'N ddiogelwch im mewn tân a dwr.
O hono ef mae fy nigonedd;
Ac ynddo trwy fyddinoedd af;
Hebddo, eiddil, gwan, a dinerth,
Colli'r dydd yn wir a wnaf. A. G.

730. *Anthem y gwaredigion.*

8. 7. D.—Dismission.

MAE angylion nef yn chwareu
Eu telynau am eu braint;
Ond nis gallant hwy wrth ganu
Gyrhaedd swn telynau'r saint;
Lygrodd pechod mo'r angylion,
Chawsant hwy mo'r cystudd mawr:
Canu am olchi, codi, a chadw,
Byth fydd anthem teulu'r llawr. AN.

731. *Galar ar ol cyfeillion.*

8. 7.—Lousanne.

MAE 'nghyfeillion adre'n mynod,
O fy mlaen, o un i un.
Gan fy ngadael yn amddifad,
Fel pererin wrtho'i hun.

2 Wedi bod yn hir gyd-deithio
Yn yr anial dyrys, maith,
Gormod iddynt oedd fy ngado
Bron ar derfyn eitha'r daith.

3 Wedi diange uwch gelynion,
Croesau, a gofidiau fyrdd,
Maent hwy'n awr yn gwisgo'r goron,
Ac yn cario'r palmwydd gwyrdd.

4 Byddaf yn dych'mygu, weithiau,
Fry eu gwel'd yn Salem lân,
Ac y clywaf, ar rai prydiau,
Adsain odlau pêr eu cân.

5 Ond mae'r amser bron a dyfod
Y caf uno gyda hwy,
Yn un peraidd gôr diddarfod,
Uwch law ofn ymadael mwy. E. E.

732. *Ceisio Duw.*

8. 7. 4.—St. Peter. Hyder.

CHEISIAIS, Arglwydd, ddim ond hyny,
Dim ond treulio'm dyddiau i maes
I dy garu a'th ryfeddu,
Ac ymborthi ar dy ras:
Dyna ddigon;
'Cheisiaf 'nabod dim ond hyn.

2 Dal fy llygad, dal heb wyro,
Dal ef ar d'addewid wir;
Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog
Allan o dy gyfraith bur:
Boed d'orch'mynion,
I mi'n gysur ac yn hedd.

3 O! darfydded imi garu
Unrhyw bleser is y ne',
A darfydded im fyfyrio
Ar un gwrthddrych yn dy lo:
Aed fy ysbryd
Oll o'i fron yn eiddot ti.

4 Os rhaid dwyn y groes dymmhestlog,
A'r cystuddiau sydd o'i hol,
O! gâd i mi, Iesu, orphwys
Yna yn dy gynnes gôl;
Yn mhob cystudd,
Dwg fy meichiau oll dy hun. w.

733. *Dyfnderoedd yr Iachawdwriaeth.*

8. 7. 4.—Peniel. Alma.

'RWY'n dy garu er nas gwelais;
Mae dy gariad fel y tan:
Nis gall nwydau cryfa'm natur
Sefyll mymryn bach o'th flaen;
Fflam angerddol,
Rywbryd ddifa'm sorod yw.

2 Pell uwch geiriau, pell uwch deall,
Pell uwch rhoswm goreu'r byd,
Yw cyrhaeddyd perffaith gariad,
Pan ennyno yn fy mryd:
Nid oes tebyg
Gras o fewn y nef ei hun.

3 Yno caf fi ddweyd yr banes
P'odd y dringodd eiddil gwan
Trwy afonydd, a thros greigydd
Dyrys, anial, serth i'r lan:
Iesu ei hunan,
Gaiff y clod trwy eitha'r nef.

4 Nid oes yno ddiwedd canu,
Nid oes yno ddiwedd clod,
Nid oes yno ddiwedd cofio
Pob cystuddiau fu yn bod;
Byth ni dderfydd
Canmol Duw yn nhŷ fy Nhad.

5 Dechreu canu, dechreu canmawl,
Yn mhen mil o filoedd maith,
Iesu, bydd y pererinion
Hyfryd draw ar ben eu taith:
Ni cheir diwedd
Byth ar swn y delyn aur. w.

734. *Concwest y gwaed.*

8. 7. 4.—Tydfil. Peniel.

NID fy nghoncwest yw 'ngorfoledd
Onidê, ni feddaf ddim;
Yn fy ngwendid 'rwy'n ymffrostio,
Ni ymffrostiaf yn fy ngrym;
Ar dy goncwest,
Addfwyn Iesu, 'rwyf yn byw.

2 Fe ddioddefodd angeu creulon—
Poenus, chwerwaf, angeu'r groes,
Ac fe goncrodd lucedd uffern
Trwy ei ddwyfol, farwol loes:
'Nawr gorphenwyd
Iachawdwriaeth rad i mi.

3 Dyma pam 'rwyf heddyw'n canu,
Dyma p'odd ces fy iachâd;
Nid wrth ymladd â'mhechodau,
Ond wrth goncwest pur y gwaed:
Ni saif gelyn
Fyth yn ngolwg Calfari. w.

735. *Noddfa wrth orsedd gras.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

IESU, rhedaf at dy orsedd,
Dyna'r man fy enaid cadd
Iechyd, pan yr oedd gelynion
Duon, adgas, bron fy lladd;
Nid oes noddfa
Is y nefoedd ond dy hun.

2 Wrth dy orsedd di mae bywyd,
Wrth dy orsedd di mae grym,
Ac ni fethodd is y nefoedd
Ag a geisiodd genyt ddim;
Minnau, aflan,
Fentraf at orseddfa hedd.

3 Lliw fy meiau sydd o'r duaf,
Mae euogrwydd yn fy nhrin
Fel pe byddwn wedi'm tori
Maes o'th arfaeth di dy hun:
Rho drugaredd;
D' unig gariad a'm iachâ.

4 Tyr'd, am hyny, Iesu,'n fuan,
Saf o blaid yr euog gwan.
Sy'n lluddedig gan gystuddiau
Dyfnion, trymion, yn mhob man;
Rho ddiddanwch,
Tra fwy'n teithio'r anial dir. w.

736. *Neb ond Iesu.*

8. 7. 4.—Frankfort. Peniel.

DAN dy aden y rhyfelaf,
Dan dy aden mae fy ngrym,
Dan dy aden y concweraf,
Ynte ni chonceweraf ddim;
Neb ond Iesu
Fostia'm henaid tro fo byw.

2 Mae dy enw mor ardderchog,
Fel yn ngrym y storom gref
Llaesa'r gwyntoedd, llaesa'r tonau,
Dim ond im ei enwi ef;
Noddfa gadarn
Yw yn eithaf grym y dŵr.

3 Ffy tywyllwch du, digysur,
Pan y codo'i heulwen ef;
Gwedd ei wyneb sy'n gwasgaru
Holl gymmylau tewa'r nef;
Dedwydd, dedwydd,
Yw sy'n gwel'd dy wyneb cu.

4 Nid oes yno ddim yn eisieu—
Nac un pleser, nac un dawn,
Fan y byddech di dy hunan,
Fyth na boreu na phrydnawn;
Môr o gysur
Yw cael trigo yn dy wydd. w.

737. *Ymbil am oleuni.*

8. 7. 4.—St. Peter. Watford.

N'AD i'r gwyntoedd cryf, dychrynllyd,
Gwyntoedd oer y gogledd draw,
Ddwyn i'm hysbryd gwan trafferthus,
Ofnau am ryw ddrygau ddaw;
Tro'r awelon
Oera'u rhyw yn nefol hin.

2 Gwna i mi wel'd y byd a'i stormydd
Yn diflanu cyn bo hir;
Doed i'r golwg dros y bryniau
Ran o'r nefol hyfryd dir;
Im gael llonydd
Gan holl derfysgiadau'r llawr.

3 Grym fy nwydau sy'n fy mhoeni,
Grym f'euogrwydd a fy mai;
Methu eilwaith peidio pechu,
Eilwaith methu edifarhau,
I'm gwaredu,
O! na welwn foreu wawr.

4 Disgwyl 'rwyf trwy hyd yr hirnos,
Disgwyl am y boreu ddydd;
Disgwyl clywed pyrth yn agor,
A chadwynau'n myn'd yn rhydd;
Disgwyl goleu
Pur yn nh'wyllwch tewa'r nos.

5 Daw, fe ddaw y wawr wen oleu,
Nes bo'r cwmmwl du yn ffoi,
Tarth a niwl yn cyd-ddiflanu
Ag oedd wedi cydgrynhoi:
Dyma'r oriau [w.
'Rwy'n eu gweled draw trwy ffydd.

738. *"Arnat, Iesu, boed fy meddwl."*

8. 7. 4.—St. Peter. Hyder.

ARNAT, Iesu, boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghân;
Dyged swn dy ddioddefiadau
Fy serchiadau oll yn lân:
Mae dy gariad
Uwch y clywodd neb erioed.

2 O! na chawn ddifyru 'nyddiau
Llwythog, dan dy ddwyfol groes,
A phob meddwl wedi ei glymu
Wrth dy Berson ddydd a nos:—
Byw bob munyd
Mewn tangnefedd pur a hedd.

3 Mae rhyw hiraeth ar fy nghalon
Am ddiengu o dwrf y byd,
A gwel'd dyddiau colla'i 'ngolwg
Ar bob tegan ynddo 'nghyd:—
Cael ymborthi
Fyth ar sylwedd pur y nef. w.

739. *Gweddi mewn ofnau.*

8. 7. 4.—Hyder. Watford.

'RWYF yn haeddu, (Arglwydd, arbed,)
Wialenodau heb ddim rhif:
Y mae'm beiau duon, creulon,
Wedi llanw fel y llif:
Wael bechadur,
'Rwyf yn griddfan wrth dy groes!

2 Ofni ddoe, ac ofni heddyw,
Ofni foreu, ofni nawn,
Caiff y gelyn sy'n fy mhoeni
Rywbryd arnaf gongcwest lawn;
A than ofni,
Rwy'n gogwyddo i ben fy nhaith.

3 At yr orsedd 'rwy'n appelio
Wedi hollol golli 'ngrym;
Tlawd o fewn, a thlawd oddi allan,
Iesu, bydd yn gymmhorth im;
Dal fi i fyny
Yn nhywyllwch dudew'r nos.

740. *Gorphwys wrth yr orsedd.*

8. 7. 4.—Hyder. Watford.

WRTH dy orsedd 'rwyf yn gorphwys,
Llefain arnat foreu a nawn,
Am gael clywed llawn ddistawrwydd
Ar f'euogrwydd tanllyd lawn;
A thangnefedd
Pur o fewn yn cadw'i le.

2 'Does ond gras yn eitha'i allu
Ddaw â'm henaid idd ei le;
'Does ond unig ras a'm ceidw
O fewn muriau'i gariad ef;
Uwch law dyfais
Dyn a'i allu, mae ei rym.

3 Llef ddrylliedig gref y croesbren
Sydd yn abl maddeu 'mai;
Llef y croesbren sydd yn abl
Gwneyd i'm henaid 'difarhau;
Ar Galfaria,
Fynydd sanctaidd, mae fy ngrym.

4 Mi ddisgwyliaf yno'n dawel,
Ac mi gredaf rywbryd daw

Gwaredigaeth i garcharor
Bur oddi yno maes o law;
Doed pan ddelo,
Mi ddisgwyliaf nes ei dod. w.

741. *Diangfa o'r caethiwed.*

8. 7. 4.—Hyder. Watford.

'RWYF yn haeddu, (Arglwydd, arbed,)
Cael cystuddiau'r Aipht yn un;
Ymgaledais yn dy erbyn,
'Nawr 'rwy'n annheilyngaf ddyn:
Er dy ogoniant,
Dwg fi maes o'r tiroedd caeth.

2 Ffordd nid oes o waredigaeth
Ond a agorwyd ar y pren—
Llwybr pechaduriaid euog
Mewn i byrth y nefoedd wen:
Dyma'r gefnffordd, [byw.
Gwna i mi ei cherdded tra fwyf

3 Nid myfi sydd yn rhyfela;
'Dyw fy ngallu nemor ddim;
Ond mi rois fy holl ryfeloedd
I'r un godidoca'i rym;
Yn ei allu,
Minnau ddof trwy'r anial maith. w.

742. *Gweddi am fendithion yr iachawdwriaeth.*

8. 7. 4.—Hyder. Ardudwy.

DISGYN, Iesu, o'th gynteddoedd,
Lle mae moroedd mawr o hedd;
Gwel bechadur sydd yn gorwedd
Ar ymylon oer y bedd;
Rho i mi broffi
Pethau nad adnabu'r byd.

2 Rho oleuni, rho ddoethineb,
Rho daugnefedd fo'n parhau,
Rho lawenydd heb ddim diwedd,
Rho faddeuant am bob bai;
Triged d'Ysbryd
Yn ei deml dan fy mron.

3 Ynot mae fy iachawdwriaeth,
Ynte'n wir mi lwfrhawn;
Ac mae'r poenau a ddioddefaist
Ar Galfaria'n berffaith iawn
Dros bechodau
'R pechaduriaid dua'u lliw.

4 Yn y ffynnon hon agorwyd
Yn dy ystlys ar y pren,
'Rwyf fi'n dod, a'm gwisg yn aflan,
Idd ei chanu'n awr yn wen:
Mi ddof allan,
Fel yr eira ar y bryn. w.

743. *Gweddi am gymmeriaeth a nerth.*

8. 7. 4.—Hyder. Watford.

NAD fi, Iesu, fyn'd yn w'radwydd
I ymfydion gwisg y byd;
Nad fy nwydau fod yn chwerthin
I d'elynion di ynghyd:
Gair o'th enau
Ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.

2 Mil sy'n disgwyl, myrdd fydd lawen
Wel'd fy enaid gwan dan draed;
'R hyn i mi fydd ddwfn archoll
Iddynt hwy sy'n llawn iachâd:
Ond mae d'allu
'N llawer mwy nag uffern fawr.

3 Ac er cryfed yw y maglau,
Er cadarned yw y swyn,
Er mor fynych temtasiynau,
Ac er gwaned wyf i'w dwyn;
Ni chaf golli,
Dim o'r goron, dim o'r dydd.

4 Dychlwel im gysuron gloyw
Fel y dyddiau goreu erioed;
Gad im gerdded, fel yn fachgen,
Etto unwaith wrth dy droed;
A chael aros
Dan dy gysgod nos a dydd. w.

744. *Gweddi am lwyr lanhâd.*

8. 7. 4.—St. Peter. Ongar.

CUDD fy meiau rhag y werin,
Cudd hwy rhag cyfiawnder ne';
Cofia'r gwaed un waith a gollwyd
Ar y croesbren yn fy lle;
Yn y dyfnder
Bodd y cyfan sy ynwy'n fai.

2 Rho gydwybod wedi ei chanu
'N beraidd yn y dwyfol waed,
Cnawd a natur wedi darfod,
Clwyfau wedi cael iachâd;
Minnau'n aros
Yn fy ninas foreu a nawn.

3 Rho fy nwydau, fel cantorion,
Oll i chwareu'u bysedd cun
Ar y delyn sydd yn seinio
Enw Iesu mawr ei hun:
Neb ond Iesu
Fo'n ddifyrwch ddydd a nos. w.

745. *Noddfa yn Nuw.*

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

DARFU noddfa mewn creadur,
Rhaid cael noddfa 'nes i'r nef;
Nid oes gadarn le i mi ymddiwys
Fythol ond ei fynwes ef;
Dyma'r unig
Fan caiff f'enaid wir iachâd.

2 Dyma'r euog, ofnus, aflan,
Etto'n chwennych bod yn wyn,
Yn yr afon gymmysg liwiau
Dorodd allan ar y bryn:
Balm o Gilead,
Anghymharol yw dy waed.

3 Dan dy aden cedwir f'enaid,
Dan dy aden byddaf byw,

Dan dy aden y gwaredir
Fio'r beiau gwaetha'u rhyw;
'Rwyt yn gyssael
Rhag euogrwydd yn ei rym. w.

746. *Crist yn trigo yn y galon.*

8. 7. 4.—Hyder Watford.

O! NA ca cystuddiau f'Arglwydd,
Yn fy nghalon i gael lle—
Pob rhyw loes, a phob rhyw ddolur,
Pob rhyw ffiangell gafodd e';
Fel bai 'mhechod
Ildio'r dydd a myn'd i maes.

2 Ti dy hunan yno'n Frenin,
Ti dy hunan yno'n Dduw,
D'eiriau d'hunan yno'n uchaf—
D'eiriau gwerthfawrocaf ryw:
Ti wnai felly
Bydew du yn deml lân.

3 Yno gwna dy.drigfan hyfryd—
Trigfan croeshoeliedig Oen,
Ac na chilia i maes oddi yno
Tra fo anadl yn fy ffroen;
Rhag i'm pechod
Ffiaidd geisio dod yn ol.

4 O! 'sgrifena'n eglur, eglur,
Mewn llyth'renau llawn i gyd,
Bob rhyw sillaf bach o'th gyfraith
Ar fy mynwes yma 'nghyd;
Fel na anghofiwyf
Fyth dy eiriau mawr eu pris.

5 Gwaed 'sgrifenodd ar y croesbren
Gariad nerthol, dwyfol, rhad;
Ni 'sgrifenir ar fy nghalon
Fyth dy eiriau ond â gwaed:
Dyma'r 'sgrifen
Bery'n hwy nag pery'r byd. w.

747. *Dedwydd sarelhaeth yn y diwedd.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

PAN bwy'n profi pleser yma,
Buan rhaid im gofi rhben;
Nid oes le i mi ymddifyru
Wrth un pleser is y nen:
Caf ar fyrder
Yfed heb heb ddiwedd mwy.

2 Fe ddaw'm gwar i etto'n union,
Heddyw sy'n ymgrymu i lawr—
Byd ac angeu'n cludo arnaf
'R un diwrnod, feichiau mawr:
Yn lle griddfan
Mi gaf ganu maes o law.

3 Tyrea, hyfryd foreu tawel,
Tyred, hapus, dwydd ddydd,
Pan bo'r dorau pres yn agor
I'r caredigion fynd yn rhydd:
Rho arwydd iddo
O fod hyny'n agoshau. w.

748. *Cyndeithas â dioddefiadau Crist.*

8. 7. 4.—Hyder. Ardudwy.

O! NA byddai oriau 'mywyd
Yn ymborthi ar oriau'th boen,
Fel y gallwyf fi gydredeg
A chystuddiau'r addfwyn Oen:
Fe gai 'mhechod
Felly'n fuan golli'r dydd.

2 Felly cawn gan f'enaid ddilyn
Ei ofidiau hyfryd ef,
Fel mae goleu'r dydd yn cadw
Cwmni disglaer haul y nef:
'Chai'm gorddiwes
Gwmmwl du na thywyll nos.

3 Fel bo i'r dorf ddirif o feiau
Wybod hyn, yn ddinacâd:—
Yn mha glwyf, ac yn mha ofid,
Yn mha archoll, mae'm hiachâd;
Fel y gallwyf,
Heb hir oedi, fod yn lân. w.

749. *Ymddiried yn y gair.*

8. 7. 4.—St. Peter. Llanilar.

HEDDYW yw'r dydd 'rwy'n ofni
syrthio,
Diau heddyw yw efe;
Etto, sefyll 'rwyf, er gwaned,
Trwy awdurdod mawr y ne';
'Rwyf yn credu
'R af dan ofni i ben fy nhaith.

2 Nid oes ond fy nghnawd yn ofni,
F'ysbryd sydd yn cadw'i le,
Ac ni fyn ef golli ei afael
Ar addewid Brenin ne';
Gair dy enau
Bair im sefyll tra bo chwyth.

3 Y mae yn y gair leferaist
Fwy o fywyd, fwy o ras,
Nag sy o rym yn holl dlodi dywyll,
A'i byddinoedd cyfrwys, cas;
Dywed sillaf,
Dyna'r nef yn cario'r dydd.

4 Mi ddisgwyliaf, doed a ddelo,
Deued boreu, deued nos,
Deued sorwynt, deued tymmhestl,
Nes cael teimlo gwaed y groes;
Gwel'd dy glwyfau
Yw'r ddedwyddaf awr i mi.

5 Hyn yw'm nefoedd, hyn yw'm bawddfyd,
Yn nhymmhestloedd oer y byd—
Caf fyn'd dros y bryniau stormus,
I gael gwel'd dy wyneb pryd:
Fe â heibio
Swn y dymmhestl gref a'r gwynt. w.

750. *Llef y lluddedig.*

8.7.4.—Hyder. Iorddonen.

WRTH fy nghuro gan y gwyntoedd,
Wrth fy maeddu gan y don,
Wrth fy nryllio yn erbyn creigiau,
Blinais ar y ddaear hon:
O! am ddyddiau
Pan ddarfyddo pechu'n lân!

2 Yn y boreu 'r wyf yn meddwl
Cadwa'i 'r llwybr hyd brydnawn;
Etto, gwyro'n ddiarwybod
'Rwyf oddi arno'n fuan iawn;
Camsyniadau
Fwyaf sydd yn llanw f'oes.

3 Mae fy nghwymp yn peri 'nghodiad,
Mae gorthrymder uffern fawr
Oll yn peri im 'mofyn plesor
Uwch a deimlwyd ar y llawr:
O! hyfrydwch
Paradwysaidd nefol dir!

4 O! ddedwyddwch anghymmharol!
Disgwyl 'r ydwyf forcu a nawn,
Am gael profi'm calon ffiaidd
O rasusau'r nef yn llawn:
Tyred, Arglwydd,
Mae dy gwmni'n well na'r gwin. w.

751. *Ymwared mewn ofn.*

8.7.4.—St. Peter. Llanilar.

DACW uffern yn ei hartau,
Dyma bechod yn ei rym,
Dyma f'ofnau innau'n bygwth
Na allaf eu concwerio ddim:
Gallu'r nefoedd,
Tyr'd i waered, dyma'r awr.

2 Dadrys rwydau sydd heb rifo
Wedi eu taenu draw o 'mlaen;
Llosg bob gefyn sy'n fy rhwymo,
A dy ddwyfol nefol dân;
Gwna i garcharor
Heddyw gael ei draed yn rhydd.

3 Dysg y galon drist i chwerthin,
Dysg i'r mudan seinio cân,
Dysg yr ofnus gwan i gludo
Uffern fawr i lawr o'i flaen:
Dod wylofain
Yn ganiadau Calfari.

4 O! na roi'r winwydden hyfryd
Beth o'i ffrwythau i lawenhau
Enaid flinodd gan o'chneidio,
Enaid flinodd gan dristau:
Deued bellach—
Deued blodau, deued haf.

5 Llais y durtur doed i loni
Rhai na chadd ond gaua' 'rioed—
Mi, yr hwn ag sydd yn methu
Cael fy meiau dan fy nhroed:
Attal, Arglwydd,
Angeu nes cael gweled dydd.

6 Pe cawn gredu i ti farw,
A dioddef, yn fy lle,
Ac i ti bwrcasu trigfan
I fy enaid yn y ne',
Byth ni phwyswn
Faint fy ngofid, faint fy ngwae. w

752. *Mwynhâd helaethach o heddwch.*

8.7.4.—Hyder. Watford.

DYMA 'r pechod sydd yn gwasgu,
Hwn sy'n curo f'enaid gwan,
Hwn sy'n rhwymo'm traed a'm dwylaw,
Yn fy rhwystro i ddringo i'r lan:
Dim nis dadrys
Ond gallucedd mawr y nef.

2 Weithiau mae yn ennyn gofid,
Weithiau mae yn myn'd â'm bryd,
Weithiau'n cludo fy meddyliau
Ato'i hun yn gryno 'nghyd:
Minnau'n disgwyl
Gwel'd y boreu o ryddhâd:—

3 Disgwyl y doniownynt tawel,
Awel beraidd o'th fwynhau;
Weithiau disgwyl gwynt y gogledd—
Arsyhoeddiad am fy mai:
Cant rhyw hiraeth
Sy arnaf am gyfnewid lle.

4 Dyna'r man dymunwn ddrigo—
Wrth afonydd gloywon, lawn,
Sydd yn llifo o ddwr y bywyd
O las foreu hyd brydnawn,
Lle cawn yfed
Hyfryd gariad fyth a hedd:

5 Lle cawn wel'd yr hwn wy'n garu,
'R hwn fu farw ar y groes,
A myfyrio ar ei gariad
Yn dioddef angeu loes;
A chael gorphwys
Draw yn mheil o ŵyrf fy mhla

6 Yno cawn orchfygu ofnau,
Ag anadliad pur y nef;
Yno cawn goncwerio angeu,
A'i hen golyn gydag ef:
Tyred, amser—
Tyred bellach, mae'n brydnawn.w

753. *Ymgeledd mewn tir sychedig.*

8.7.4.—St. Peter. Ardudwy.

YMAE syched ar fy nghalon
Heddyw am gael gwir fwynhau
Dyfroedd hyfryd llynnon Bethle'm—
Dyfroedd gloyw sy'n parhau:
Pe cawn hyny,
'Mlaen mi gerddwn ar fy nhaith.

2 Y mae gwres y dydd mor danbaid,
Grym fy nwydau fel y tân,
A gwrthddrychau gwag o'm cwmpas
Am fy rhwystro i fyn'd yn mlaen:

Rho i mi gysgod,
Addfwyn Iesu, ganol dydd. w.

754. *Byw i Ddiw.*

8. 7. 4.—Lewes. Tydfil.

NA'D fod genyf ond d'ogoniant,
Pur, sanctaidd iol. yma a thraw,
'N union nôd o flaen fy amrant,
Pa beth bynag wnelo'm llaw:
Treulio 'mywyd,
F'unig fywyd, i dy glod.

2 A phleserau o bob rhywiau
Wedi darfod oll i gyd;
Cnawd a natur wedi marw,
A holl fwyniant gwag y byd:
Iesu ei hunan!
Bydded f'enaid iddo'n fyw.

3 O! distewch gynddeiriog donau,
Tra fwy'n gwrando llais y nef;
Sŵn mwy hoff, a sŵn mwy nefol,
Glywir yn ei eiriau ef:
F'enaid gwrando
Lais tangnefedd pur a hedd. w.

755. *Ymgeledd ac arweiniad Duw.*

8. 7. 4.—Tydfil. Lewes.

CHWI, ffynnonau bywiol hyfryd,
Craig agorwyd ar y pren,
I iachau archollion diriaid
Dynion aflan is y nen;
Dyma'r euog
Sydd mewn eisieu'r dyfroedd byw.

2 Duw, nid oes ond ti dy hunan
Ddaw â'm henaid llesg i'r lan,
Sydd yn suddo mewn dyfnderoedd
Dyfnion, tywyll, yn mhob man:
Gwna i mi gredu—
Credu a cherdded ar y môr.

3 Mae dy Ysbryd di yn fywyd,
Mae dy Ysbryd di yn dân;
Fe sy'n dwyn yr holl ffordd olion
Cywir, sanctaidd, pur, yn mlaen;
Cyfarwyddwr
Pererinion, arwain fi. w.

756. *Gorfoledd yn Nuw.*

8. 7. 4.—Verona. Tamworth.

WRTH dy orsedd 'rwyf yn gorwedd,
Disgwyl am y ddedwydd awr,
Pan gaf glywed llais gorfoledd,
Pan gaf wel'd fy meiau i lawr:
Ti gai enw
'R fuddugoliaeth it dy hun.

2 Doed dy heddwch bryd y delo,
Mi ddisgwyliaf ddydd a nos;
Anmherfynol ydyw haeddiant—
Haeddiant pur dy angeu loes:
Tyr'd yn fuan,
Mae dy hedd yn fwy na'r byd.

3 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,
Diliau mêl yw'th heddwch drud;
Gwerthfawrocach yw dy gariad
Na holl berlau'r India i gyd:
Gwlad o gyfoeth,
Yw yn unig dy fwynhau. w.

757. *Erfyniad am nodded Duw.*

8. 7. 4.—Hyder. Ardudwy.

GWLAD ddieithr oddi cartref,
Ardal bell o dŷ fy Nuw,
Yn mhlith lluoedd o elynion
Chwerw, atgas, 'rwyf yn byw;
Pawb yn ceisio
Cael fy nghoryn dan eu traed.

2 Minnau, weithiau'n digaloni,
Minnau weithiau'n ymgryfhau,
Weithiau'n ofni croesau trymion,
Weithiau'n ofni grym fy mai:
Bydd dy hunan
I mi'n gyfaill, O! fy Nuw!

3 Safed haul uwch ben Gibeon,
Safed lleuad yn y ne',
Safed sêr, a'r holl blanedau,
'N llonydd heddyw yn eu lle,
Cyn y collo
F'enaid gwan baradwys well. w

758. *Yr un testyn.*

8. 7. 4.—St. Peter. Llanilar.

MAE gelynion i mi'n chwerw,
Cedyrn ynt, a mawr eu grym;
Ond y rhai wy'n ofni fwyaf,
I ti, Arglwydd, nid ynt ddim:
Gair o'th enau
Gwympa fyrdd mewn munyd awr.

2 Pa'm caiff hwnw unwaith brynaist
Ar Galfaria 'ngwydd y ne',
Lechu mewn rhyw bydew tywyll,
Dwfn obry, i maes o'i le?
Pen y bryniau,
Mae fy llygaid yn fwynhau.

3 Draed lluddedig, dowch i fyny,
Ymestynwch, ddwylaw, 'mlaen;
Draw mae'r wobr, draw mae'r goron
Draw mae 'Mhriod hawddgar, glân
Ffarwel bellach,
Chofiaf ddim ond pen fy nhaith. w

759. *Cadwedigaeth trwy allu'r nefoedd.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

BOED fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle;
Ni wna gwaredigaeth ragor
I greadur is y ne':
Gallu'r nefoedd
Oedd am daliodd i i'r lan.

2 Ar y dibyn bûm yn chwareu,
'Lawr fe aethai'm henaid gwan,

Nid oedd bossibl i mi godi
Byth o'r dyfnder hwnw i'r lan
Iesu! Iesu!
Ti sy'n trefnu'r oll dy hun.

3 Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddistaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,
Yn fy rhwymo, heb im wybod,
Wrth golofnau pur y nef:
O Ragluniaeth!
Ti sy'n trefnu'r ddaear faith.

4 Rhyfedd, Arglwydd, yw'th ddoethineb,
Rhyfedd, Arglwydd, yw dy rym;
Nid oes is y nef liosog
A all dy wrth'nebu ddim:
Try'r greadigaeth,
Ol a gwrthol, wrth dy air.

5 Dy air sy'n gwneyd y byw yn farw,
Eilwaith gwneyd y marw'n fyw;
Dy air a greodd, ac sy'n cynnal
Y greadigaeth o bob rhyw:
Ti dy hunan
Ydyw bywyd maith y byd. w.

760. *Deisyf ei mynedi yn ddydd.*

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

GWEL'D dy garuad anorchfygol,
Gwel'd dy chwerw angeu loes,
Gwel'd dy ofal maith diflino
Ats'i 'n gysson yn fy oes,
Sydd yn dofi
Grym fy nwydau cryfa'u rhyw.

2 O! na welwn ddydd yn gwawrio—
Boreu hyfryd tawel lawn,
Haul yn codi heb un cwmmwl,
Felly'n machlud y prydnawn;
Un diwrnod,
Goleu, eglur, boed fy oes;

3 Heb enogrwydd dudew, tywyll,
Na dim nwydau ffiaidd croes,
Nac un pleser sy'n cyfnewid
Goleu ddydd yn dywyll nos;
Ti a minnau—
Dyna geisiaf tra bwyf byw.

4 Digon, digon fyddai hyny,
Dim ond gwel'd dy wyneb pryd,
A chael f'ysbryd llesg i ddringo
Fry yn mhell uwch awn y byd,
I ardaloedd
Nad oes teimlo beth yw poen.

5 Nid oes geny' ond disgwyl wrthyt;
Gwynfyd a gawn dy fwynhau;
Ymot ti y mae fy nhrysor—
Trysor bythol i barhau:
O! n'ad i mi
Edrych fyth ond tua'r nef. w.

761. *Hiraeth am gymdeithas gysson â Christ.*

8. 7. 4.—St. Peter. Hyder.

BOED fy nghalon i ti'n demi,
Boed fy ysbryd i ti'n nyth,
Ac o fewn y drigfan ymo
Aros, Iesu, aros byth:
Gwledd wastadol
Fydd dy bresennoldeb im.

2 Awr o dy gymdeithas felus,
Awr o wel'd dy wyneb pryd,
Sy'n rhagori fil o weithiau
Ar bleserau gwag y byd:
Mi ro'r cwbl
Am gwmpeini pur fy Nuw.

3 Dadrys, dadrys fy nghadwynau,
Gad i'm hysbryd fyn'd yn rhydd;
'Rwyf yn blino ar y t'wyllwch,
Deued, deued goleu'r dydd:
Yn y goleu
Mae fy enaid wrth ei fodd.

4 Gwawrddydd, gwawrddydd yw fy mywyd;
Gwel'd y wawrddydd,'rwyf yn iach:
Mi arosaf hyd nes delo,
Daw, hi ddaw 'mhen gronyn bach;
Tyred, tyred,
Im gael gwel'd fy ngwlad fy hun. w.

762. *Gallu'r nef yn meeidu ofnau.*

8. 7. 4.—Hyder. Iorddonen.

MAE fy ofnau fel y moroedd,
Oll yn gwasgu arnai'n un—
Ofni pechod, ofni angeu,
Ofni'm hunan, ofni dyn:
'Does a'm ceidw
'N dawel onid gallu'r nef.

2 Ac er lliaws mawr fy ofnau,
Am a basiodd ac y sydd,
Mwy 'rwy'n [illegible] y cystudd
Ag wyf yn ddyeh'mygu fydd:
Mi ymguddiaf
Yn og'feydd tawela'r nef.

3 Gallu'r nef a dry bob ofnau
Yn rhyw gonewest mawr di-drai;
Gallu'r nef [illegible]
Yn llawenydd i barhau:
Minnau seiniaf
Ganiad newydd tra fwyf byw.

4 Os fy rhwydau oll a dori,
Os fy nghadwyn dyni'n rhydd,
Ac os troi'r tywyllwch dudew
Sy'n fy n'rysu'n oleu ddydd,
Ti gei'r cariad,
Ti gei'r enw, ti gei'r clod. w.

763. *Hiraeth am ryddid y nef.*

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

TRIST o dan fy mhwn 'rwy'n gorwedd,
Disgwyl am y foreu wawr,
Pan fo'r arfaeth rad yn addfed
I gael tynu 'meichiau i lawr;
A chael profi
Rhyddid gwaredigol wledd.—

2 Heb un pleser yn fy nhemtio,
Heb un ddelw'n rhyn'd â 'mryd—
Trech na Satan, trech nag angau,
Trech nag uffern, trech na'r byd;
Byw mewn ardal
O lawenydd pur a hedd:—

3 Hedd o fewn yn afon loyw,
Lawn, redegog, bur o hyd,
A'r creadur a'i cwmniant
Oll yn mwynhau myn'd â mryd;
Ysbryd cyflawn
O awelon pur y nef.

4 Dyma'r man dymunwn aros,
O fewn pabell bur fy Nuw,
Uwch terfysgoedd ysbryd euog,
A themtasiwn o bob rhyw;
Dan awelon
Peraidd hyfryd tir fy ngwlad. w.

764. *Gweddi am bresennoldeb Duw.*

8. 7. 4.—Hyder. Ongar.

NID oes arnaf faich yn gorphwys,
Dim ond eisieu dy fwynhau;
Nid oes arall dan y nefoedd
All yn hollol fy iachau:
Rho dy gwmni,
Cyn im fyn'd i'r cefnfor glas.

2 Tyn yr ofn hen o farw
Sydd yn llechu dan fy mron;
Rho i mi heddwch, rho orfoledd,
Tra bwyf ar y ddaear hon:
Na therfysged
F'enaid gwan yn ngrym y dŵr.

3 Nid wy'n caru fy mhechodau,
Poenau ydynt oll i gyd;
Hwnw sy'n fy mhoeni fwyaf
Ag sy'n ceisio myn'd â 'mryd:
Tor hwy'n fuan,
Dyna finnau wrth fy modd.

4 Dyma'n gwbl fy neisyfiad,
I mi gael bod yn dy gôl:
Er na theithiais etto nemawr,
Na'd fi 'dynu hyny'n ol:
Gwna i mi gadw
'Ngolwg tua'r hyfryd wlad. w.

765. *Gwaed Crist yn dal ei'r lan.*

8. 7. 4.—St. Peter. Hyder.

'RWYF yn ofni temtasiynau,
Nid wyf fi ond llesg erioed;
Mae'r un wana'n ddigon nerthol
Fyn'd â'm henaid dan ei throed:
Gwaed yn llifo
Ar Galfaria a'm deil i'r lan.

2 Paid, fy enaid gwan, ag ofni,
Nid rhyw duryau sy'n nesau;
Newydd da sy o dir y bywyd,
Llig nage carfad yn parhau:
Gwaed yn llifo, &c.

3 Er fod arnaf ofnau nllodd,
Pan y delo'r drwg yn nesaf,
Fe allai car fi nerth i sefyll,
Fel y graig yn nghanol tân:
Gwaed yn llifo, &c.

4 Darfu ofni temtasiynau,
Darfu ofni drwg i ddod,
Darfu ofni marwolaethau,
A phob cystudd sydd yn bod:
Gwaed yn llifo
Ar Galfaria a'm deil i'r lan. w.

766. *Gweddi am ffydd yn erbyn anghrediniaeth.*

8. 7. 4.—Hyder. Ongar.

Y MAE ofn yn fy nghalon,
Gan mor lleied yw fy ngrym,
Rhag ryw awr i'm temtasiynau
Creulon i fy ngwneyd yn ddim:
Nid oes gryfder
Trwy fy ysbryd mewn un man.

2 Mae dyfnderoedd anghrediniaeth
Wedi'm rhoddi'n llesg a gwan;
Pechod yn fy ngwneyd i ofni,
Ofni yn fy rhwystro i'r lan:
Gwna i mi gredu—
Dyna'm henaid wrth ei fodd.

3 Oll o'm mewn nid oes ond t'wyllwch,
Oll o'm mewn nid oes ond poen,
Rhyw ddieithrwch oer, digariad,
At y croesholiedig Oen:
O! na roddit
I mi, Arglwydd, dy fwynhau.

4 Mae ciddigedd yn fy nghalon
Weled cannoedd yn gyttûn,
Oll i gyd mewn gwisgoedd gwynion,
Ac yn canu i ti'n un:
Yn y carchar
Yr wyf finnau oll yn rhwym.

5 Mae mor bossibl i mi g'lymu
Haul a daear tawr yn un
Ag yw im ddyrchafu 'nghalon
Fyny atat ti dy hun:
Gair o'th enau
A'th wna di a minnau n un. w

767. *Gobaith diangfa.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

SEFWCH bellach, fy ngelynion,
Sy'n fy nghuro bron erioed;
Dal'soch f'enaid yn amddifad,
Cawsoch f'ysbryd dan eich troed;
'Chydig oriau
Dof o'ch rhwydau oll yn lân.

2 Mae fy Mhriod, mae f'Anwylyd,
'Nawr yn dangos i mi wlad
Nas gall dyfais temtasiynau
Fyth i sytlyd dim o'm traed:
Mi af yno;
Dyna'r man caf ddedwydd fyw.

3 Uwch y bryniau, uwch y gwyntoedd,
Uwch y stormydd mawrion, cry',
Uwch cymmylau tew o d'wyllwch
Mae'r tawelwch hyfryd fry;
Mae fy nghysur,
Oll yn trigo uwch y byd.

4 Mi dde's yma i'r anialwch,
Byd o newyn, byd o wae,
Heb un achos, heb un neges,
Ond yn unig dy fwynhau:
Hyn ei hunan
Fydd fy ymgais tra bwyf byw. W.

768. *Gweddi am nerth gras.*

8. 7. 4.—Hyder. Ongar.

MAITH yw'r nos, a mawr yw'r t'wyllwch;
P'odd y galla'i threulio i maes
Heb gael, Arglwydd, dy gymdeithas,
Nerth dy anorchfygol ras?
Gormod gofid,
Gallu hebot yma fyw.

2 Mae fy mhechod yn fy erbyn,
Fel y moroedd mawr eu grym,
Diluw cryf heb fesur arno,
Nid oes a'i gorchfyga ddim;
Tad tosturi,
Rho gyfiawnder i mi a nerth.

3 Os dangosi'n eglur i mi,
Dyna'r pryd i lawenhau,
Fod dy lyfr wedi ei groesi,
Ac nad oes yn aros fai;
Cymmer feddiant
Yna o honof oll yn llâu.

4 Os agori im dy fynwes,
I gael gwel'd y cariad llawn,
Lifodd allan fel y moroedd
Ar Galfaria un prydnawn;
Ti gei'r cwbl
Roddaisti i mi yn fy rhan. W.

769. *Llef mewn digalondid.*

8. 7. 4.—Hyder. Ongar.

LLAWN euogrwydd, llawn o ddychryn,
Llawn o boen, yw f'enaid gwan;
Anghrediniaeth cryf sy'n haeru
Byth na ddof oddi yma i'r lan:
Bahm yn Gilead,
'N unig all weithiau fy nghlwyf

2 Mi feddyliais yn y boreu
Buaswn, amser maith cyn hyn,
Wedi maeddu fy mhechodau,
Ac yn canu ar Seion fryn:
Swn y rhyfel
Ydyw'r lle 'rwyf etto'n byw.

3 Weithiau bron yr wyf a chredu
Na ches etto effeithiol ras;
Credu bron mai fy mhechodau
Yn y diwedd bia'r maes:
Dwg fi, Arglwydd,
Dwg ñ o'r caethiwed hyn. W.

770. *Nerth i fyned trwy yr anialwch.*

8. 7. 4.—Hyder. St. Peter.

ARGLWYDD! arwain trwy'r anialwch
Fi, bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd:
Hollalluog,
Ydyw'r un a'm cwyd i'r lan.

2 Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
A rho'r golofn niwl y dydd;
Dal ñ pan bwy'n teithio'r manau
Geirwon yn fy ffordd y sydd:
Rho i mi fanna,
Fel na bwyf yn llwfrhau.

3 Agor y ffynnonau melus
Sydd yn tarddu o'r Graig i maes;
'R hyd yr anial mawr canlyned
Afon iachawdwriaeth gras:
Rho i mi hyny;
Dim i mi ond dy fwynhau.

4 Pan bwy'n myned trwy'r Iorddonen—
Angeu creulon yn ei rym,
Ti est trwyddi gynt dy hunan,
Pa'm yr ofnaf bellach ddim?
Buddugoliaeth!
Gwna i mi waeddi yn y llif.

5 Ymddiriedaf yn dy allu,
Mawr yw'r gwaith a wnest erioed;
Ti gest angeu, ti gest uffern,
Ti gest Satan dan dy droed:
Pen Calfaria,
Nac aed hwnw byth o'm cof. W.

771. *Gras yn gorchfygu.*

8. 7. 4.—St. Peter. Lewes.

LLWCH wyf fi, o'r llwch y daethum,
Pryf yw 'mrawd, y ddae'r yw nam;
Etto'r wyf yn 'mofyn teyrnas
Ddisigledig, bur, ddi-nam:
Pryf y ddaear,
A ddaw hwnw i mewn i'r nef?

2 Do, mi ddof trwy'r anial garw,
Dof er gwaetha'r moroedd glas;
Dof trwy'r cenllysg a'r tymhestloedd
Sydd yn curo ar fy ngras;
Am mai cadarn
Yw yr hwn 'rwyf yn ei gol.

3 Fe ennynwyd ynof fflamau,
'Tân mor hyfryd, tân mor gry',
Nid o'r ddaear daeth ei wreiddyn,
Cariad pur y nefoedd fry:
Awel beraidd
O fynyddau hyfryd ras.

4 Chwi, angylion, sydd yn edrych
Ar ei wyneb gwridog, gwyn,
Traethwch im pa fodd dechreuodd
Fflam mor berffaith bur a hyn:
Nef ei hunan
'Nynodd ynwy'i helfen bur. w.

772. *Nerth y groes.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

O'YMMER, Iesu, fi fel 'r ydwyf,
Fyth ni allaf fod yn well;
Dy allu di a'm gwna yn agos,
F'ewyllys i yw myn'd yn mhell:
Yn dy glwyfau
Bydda'i 'n unig fyth yn iach.

2 Mi ddiffygiais deithio'r crasdir
Dyrys, anial, wrthyf f' hun,
Ac mi fethais â chongcwerio
O'm gelynion lleiaf un:
Mae dy enw
'N abl rhoddi'r cryfa' i ffoi.

3 Gwaed dy groes sy'n codi fyny
'R eiddil yn gongcwerwr mawr:
Gwaed dy groes sydd yn darostwng
Cewri cedyrn fyrdd i lawr:
Gad im deimlo
Awel o Galfaria fryn.

4 Mwy yw d'eiriau ar y croesbren,
Geiriau gwerthfawr, geiriau drud;
Mwy yw'r sillaf leia' o honynt
Na'm holl ddyledswyddau i gyd:
Edrychaf yno;
Yno mae fy nerth a'm grym.

5 Clywed dy riddfanau chwerwon
Wna i'm henaid lawenhau;
Teimlo'th gariad wna i'm gelynion
Cynddeirioca' i lwfrhau:
Yna, yna,
Mae fy nhrigfa fyth i fod. w.

773. *Anian gras yn diystyru pob peth ond Duw.*

8. 7. 4.—Verona. Frankfort.

DYNA p'am 'rwyf yn hiraethu
Beunydd tua'r nefoedd fry;
Oddi yno yr anadlwyd
Bywyd pur i'm henaid i:
P'odd gorphwysaf?
Rhaid i'm hysbryd fyn'd i'r lan.

2 Anian nef a dyr trwy rwystrau,
Anian nef a dyr trwy'r tân;
Ceidw'i gyrfa trwy'r creadur
At ei gwreiddyn pur yn mlaen;
Heibio i degwch,
At y tegwch gwir ei hun.

3 Nid yw harddwch maith y ddaear,
Harddwch o amrywiol ryw,
Tegwch disglaer y ffurfafen,
Ddim yn ochr Iesu, 'm Duw:
Mae'n diflanu
'R holl greadigaeth wrth dy wedd.

4 Dirmygedig yw gogoniant
Oll a welais etto'n un,
Pan edrychwyf ar ogoniant
Fy Nghreawdwr mawr yn ddyn;
Diddim, diddim,
Oll a enwir ond efe. w.

774. *Ffydd yn syllu ar wlad yr addewid.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

NID oes dim erioed a welwyd,
Nid oes dim a deimlodd llaw,
Dim a glywyd sôn am dano
O eitha'r de i'r dwyrain draw,
Yn ddigonol
Wneyd fy enaid llesg yn llawn.

2 O! na ddoi'r amseroedd bellach
I mi gael mwynhau o hyd
Pethau leinw fy nymuniad,
Pethau nad ynt yn y byd;
Ni ddaw'r ddaear
Fawr a minnau byth yn un.

3 Mae fy enaid yn ehedeg
Ar adenydd ysgafn ffydd,
Ac yn syllu trwy'r eangder
Uchel, maith, at bethau fydd;
'Nawr mi welaf
Wlad o hedd yn agoshau.

4 Rhwng cymmylau duon, tywyll,
Gwelaf draw yr hyfryd wlad;
Mae fy ffydd yn llefain allan—
Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad:
Digon, digon!
Mi anghofia'm gwae a'm poen.

5 Y mae anghrediniaeth gadarn,
Pan bo'r goleu'n myn'd yn wan,
Yna'n haeru yn fy wyneb
Rhwystra'r t'wyllwch fi i'r lan:
Nid yw'r golofn
Dân yn mhell yn nghanol nos.

6 O! gwasgerwch, dew gymylau,
I'r addewid rhoddwch le;
Nid i'r ddaear hon y'm ganwyd,
Tragwyddoldeb yw fy lle:
'Nol tywyllwch,
Cod o'r diwedd foreu wawr. w.

775. "*Yn yr Arglwydd y mae fy nerth.*"

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

MAE fy nerth i yn diffygio,
Ofni moroedd mawr o'm blaen,
Llynoedd ac afonydd dyfnion,
A mynyddau maith o dân:
Gras diderfyn,
Ddeil y gwan heb ofni dim.

2 F'enaid egwan, paid ag ofni,
'Dyw d'elynion bob yr un

Ond rhai eisoes wedi eu congcro
Gan a wisgodd natur dyn:
Fe fyn weled
Pob rhyw elyn dan fy nhraed.

3 Nid all Satan a'i holl allu
Ysbryd cyfrwys mawr ei rym—
Am ei fod o fewn y gadwyn.
Heb ei genad, wneuthur dim;
Hollalluog,
Ydyw enw mawr fy Nuw.

4 Pa'm yr ofna'i 'meiau mawrion?
Trymach ydyw marwol glwy';
Mwy yw gair o enau f'Arglwydd
Na myrddiynau o honynt hwy:
Gwnaf, mi gredaf,
Rhued môr, terfysged tir.

5 Mi gaf deimlo chwant yn colli
Cyn yr elo'm haul i lawr:
Mi gaf fiino ar fy mhechod
Cyn y codo'r foreu wawr:
'Rwyf yn foddlon
Rhwng y saethau nes dêl dydd.

6 Gwaith y nefoedd ydyw diweddu
Ynwyf nwydau croes eu rhyw,
Cenad Satan i'm cernodio,
Ac i'm cadw byth yn fyw;
Gras berffeithir
Yna pan b'wyf leis' ngrym. w.

776. *Gweddi am wel'd tegwch Gwaredwr.*

8. 7. 4.—Verona. Sicily.

PWY gwyrddla wael bererin
'Ddod o'r amial maith i'r lan,
Sydd yn 'mofyn 'r hwn a hoffa
F'enaid egwan yn mhob man?
Nis gall seintiau,
Nac angylion i mi ddim.

2 Mi ddymunwn wel'd yn rhwygo
Holl gymylau du y nef,
I bechadur weled gronyn
O'i ogoniant hyfryd ef:
O! dadguddia
I mi ran o'th enw mawr.

3 Rhan o'th dogwch a wna'n dywyll
Ddisglaer bethau gwych y byd;
Is y nefoedd a ddiflana
Yn ngoleuni'th wyneb pryd:
Rai munydau,
Rho i mi brofi'r hyn sydd fry. w.

777. *Edryck tuay fydd ar y wlad well.*

8. 7. 4.—Frankfort. Verona.

O! FY enaid, gorfoledda,
Er mai tristwch sy yma'n llawn;
Edrych dros y bryniau mawrion,
I'r ardaloedd hyfryd iawn:
Uwch tymhorol
Feddiant mae fy nhrysor drud.

2 Gwel tu hwnt i fyrdd o oesoedd,
Gwel hapusrwydd maith y nef;
Edrych dueng mil etto 'mhellach,
Disgyma wid byth yw ef:
Tragwyddoldeb,
Hwn sy'n eiddo i mi fy hun.

3 'Rwyf yn edrych ar y cwbl
Ag sydd yn y bydoedd draw;
Pethau pell yn bethau agos,
Pethau fu yn bethau ddaw;
Môr heb waelod
O bleserau ddaeth i'm rhan.

4 Nid oes terfyn ar fy ngobaith,
Cyrhaedd mae yn mlaen o hyd;
Gyda'r Duwdod mae'n cydredeg,
Dyddiau'r ddau sy'n un ynghyd:
Annherfynol
Ydyw fy llawenydd mwy.

5 Anfeidroldeb maith ei hunan
Sydd yn awr yn eiddof fi:
Yn rhad y ca'dd ei roddi i mi
Ar fynyddoedd Calfari:
Tyr'd yn fuan,
Hyfryd haf o berffaith hedd. w.

778. *Ymgysuro yn Nuw.*

8. 7. 8.—Moldavia. Neander.

TI dy hunan yw fy Mhriod,
Ti dy hunan yw fy Nuw;
Ti dy hunan yw fy ngobaith
A'm hapusrwydd tra fwy' byw:
'Rwyf yn llawn, ddiddig iawn,
'Ddaliaf ragor ddim pe cawn.

2 Tyr'd greadigaeth, rhana'th gyfoeth
Peth i'r dwyrain, peth i'r de,
A chais lanw awydd dynion,
Gwna hwy'n ddiddig yn eu lle:
'Dall y byd lauw 'meyd,
Dim ond cariad gwerthfawr, drud.

3 Nawr 'rwy'n darfod â marwoldeb,
Holl bleserau cig a gwaed,
Ac yn clywed plant afradlon
Heddyw'n canu'n nhŷ fy Nhad:
Blant y byd, dewch ynghyd,
Cym'rwch ei bleserau i gyd.

4 Y mae genyf bleser ddigon
Yn ngoleuni pur y nef:
'Rwyf yn bwyta pur ddanteithion,
Dim ond edrych arna ef:
Gwel'd ei wedd, profi ei hedd.
Sydd yn rhyw dragwyddol wledd. w

779. *Yr un testyn.*

8. 7. 3.—Wyddgrug. Neander.

Y MNEILLDUAWCH, bethau'r d'ed
Pethau natur, pethau'r byd; [a
'Rwy'n dymuno peidio gwrando
Ar eich holl ddeniadau 'nghyd;
Unig un, nwch na dyn,
Mae fy enaid wrthio 'nglŷn,

3 Doed y diluw i deyrnasu
Etto unwaith fel o'r blaen;
Deued annhrefn i gymmysgu
Dasar, awyr, dŵr, a thân;
Dedwydd fi yn y Li',
Tra fo'm Duw'n teyrnasu fry.

3 Colled pob blodeuyn hyfryd
Ei holl degwch is y rhod;
Doed salwindeb ar bob wyneb
Y creadur, sydd yn nod;
Degwch byd fydd ynghyd
Oll yn wyneb Prynwr drud.

4 Pe diffoddai'r heuliwen ddisgleiner
Yn yr awyr deneu, las,
A phe treuliai'r sêr y ffiamiau
Uyddynt sydd o dân i maes;
Mi gaf fyw, gyda'm Duw,
Mewn disgleirdeb heb ei ryw.

5 Mi gaf fod o flaen yr orsedd,
Mi gaf gwrando'r anthemau hyfr,
Pan ddarfyddo sôn am ddaear—
Sôn am foroedd, sôn am dir:
Dwyfol loes angeu'r groes
Fydd y canu ddydd a nos. W.

780. *Goruchafiaeth trwy ddilyn y Blaenor.*

8. 7. 3.—Moldavia. Holstein.

Y MAE hiraeth yn fy nghalon
Am gael teimlo hyfryd fias
Congcwest nwydau sydd byd neddyw
Yn gwrth'nebu'r nefol ras;
Dyma ddawn hyfryd iawn,
Wy'n ei 'mofyn foreu a nawn.

2 'Rwyf yn gweled brynian uchel
Gwaredigaeth werthfawr, lawn;
O! na chawn i eu meddiannu
Cyn machludo haul brydnawn:
Dyna'm llef tua'r nef;
Addfwyn Iesu, gwrando ef.

3 Marchog yn dy freiniol allu,
Gwisg dy gledd yn ngwasg dy glun.
Estyn fraich, a thor elynion,
Achub wael druenus ddyn:
Gelyn llym, ni saif ddim
Fyth o flaen d'anfeidrol rym.

4 Minnau gerddaf drwy'r byddinoedd
Ond it gerdded o fy mlaen;
Mae dy gamrau'n tori'r tonau,
Mae dy gamrau'n diffodd tân:
'Nol dy droed gwna i mi ddod,
Fy hyfrydwch mwya' erioed.

5 Cerdd yn mlaen, mae'm hofnau 'n darfod,
Ond dy weled di yw llaw:
Ond dychwelant mewn munydyn
Os tydi a señ draw:
Gwna bob pryd i f'enaid drud
Rwyso ar dy fynwes glyd. W

781. *Diogwch am iachawdwriaeth.*

8. 7. 3.—Holstein. Revel.

Y MAE moeddi Pharaoh'n canlyn—
Beiau llidiog, cedyrn, cry';
Moroedd maith sy'n rhuo'u tonau—
Rhwystrau creulon o bob tu;
Tyr'd yn mlaen, Iesu glân,
Ti bia'r dyfroedd mawr a'r tân.

2 Mi dybygwn gwela'i'r boreu,
Haul yn codi oddi draw,
Iachawdwriaeth rad yn nesu,
Hedd a phardwn yn ei llaw;
Y mae'r wawr, hyfryd awr,
Bron a thori maes yn awr.

3 Minnau ar y mur ddisgwyliaf,
Gwn na oeda dim o'i droed;
Ni w'radwyddwyd is y nefoedd
Neb ddisgwyliodd wrtho erioed:
Pan ddêl dydd, af yn rhydd
O'r hyn yn fy mhoeni sydd. W.

782. *Cysgod yn y dydd blin.*

8. 7. 3.—Holstein. Moldavia.

WRTH dy ystlys 'rwyf am aros,
Wrth dy ystlys mae fy lle;
Yn dy fynwes mae fy lletty
Diogelaf is y ne':
Noddfa yw, byddaf byw
Dan gystuddiau o bob rhyw.

2 Caled yw dioddef cystudd
Mewn anialwch maith yn hir;
Methu teimlo pur ddiddanwch
Addewidion Canaan dir;
Ond fe ddaw, maes o law,
Sypiau peraidd oddi draw.

3 Ffarwel oll o dan yr wybren,
Mi wnes ddewis hyfryd, gwiw,
O drysorau uwch pob meddwl
Sy'n gwddfodig yn fy Nuw:
Rhydd i lawr gawod fawr
Pan y delo'r gyfyng awr. W.

783. *Gair o enau Duw.*

8. 7. 3.—Priscilla. Gwahoddiad.

GOLWG, Arglwydd, ar dy wyneb
Sydd yn codi'r murw o'r bedd;
Mae agoriad nef ac uffern
Yna i'w deimlo ar dy wedd;
Gair dy ras, pur ei flas,
Nawr a ddetgly 'nghalon gas.

2 Arglwydd, danfon dy leferydd,
Heddyw, yn ei rwysg a'i rym;
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nag all dyn wrthsefyll ddim;
Cerdd yn mlaen, nefol glân,
Cymmer yma feddiant glân.

3 Tyred bellach, tyr'd yn ebrwydd,
Ac anadla'r gwyntoedd cryf.

Sydd yn nerthu'r pererinion
I wynebu gelynion hyf:—
Yn gwneud grym Satan lym
Mewn munydyn fyn'd yn ddim. w.

784. *Y pererin yn yr anialwch.*

8. 7. 3.—Rheidol. Gwahoddiad.

RHO i mi yfed, 'rwy'n sychedig,
Ddwr y ffynnon loyw, lawn,
Darddodd allan o dy ystlys
Ar Galfaria un prydnawn:
Gwaed fy Nuw, 'n unig yw,
Ylch fy meiau dua'u rhyw.

2 Edrych arnaf mewn tangnefedd—
Dy dangnefedd hyfryd, mae
Fel rhyw afon fawr, lifeiriol,
Yn ddiddiwedd yn parhau:
Môr o hedd yw dy weled
Sy'n goleuo'r byd a'r bedd.

3 Madden fel y cyfeiliornais, [dw.
Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r
Madden drachwant cas fy nghalon
I ymado maes o dre':
Dwg yn ol f' ysbryd ffol,
I dy dirion, dawel gôl. w.

785. *Pa ham y mae Duw yn pellhau?*

8. 7. 3.—Rheidol. Priscilla.

BETH yw'r achos fod fy Arglwydd
Hawddgar, grasol, yn pellhau?
Yn gaddiedig neu yn gyhoedd,
Mae rhyw bechod yn parhau:
Tyr'd yn awr, fôr i lawr
Fy anwiredd, fach a mawr.

2 Chwilia, f'enaid, gyrau'th galon,
Chwilia'i llwybrau maith o'r bron,
Chwilia bob ystafell ddirgel
Sydd o fewn i gonglau hon:
Mŷn i maes bob peth cas
Sydd yn attal nefol ras.

3 'Nawr 'rwy'n gwel'd, y mae'n chedeg
Mewn i'm calon, ac i maes,'
Fil o bethau sy'n wrthwyneb
I egwyddor dwyfol ras:
Uffern lid ynt i gyd
Sydd yn erbyn f'enaid drud.

4 Dyma ryfyg yn ei allu,
Daew anghrediniaeth fawr,
Bob yn ail yn curo f'enaid,
Yn cyttuno i'm cael i lawr:
Dal fi i'r lan, 'dwyf ond gwan,
Mi gaf gongcwest yn y man.

5 Dal fi'n gadarn hyd nes delo
Amser hyfryd o ryddhau,
A chael, yn lle temtasiynau,
Yn dragywydd dy fwynhau:
Dyna'r pryd—gwyn fy myd,
Derfydd fy ngofidiau i gyd. w.

786. *Gweddi am broffwyd nerth y groes.*

8. 7. 3.—Rheidol. Icrddonen.

TYRED, Arglwydd, a'r amseroedd
Mae fy enaid am fwynhau—
Pur dangnefedd heb dywyllwch,
Cariad hyfryd a di-drai:
Gwledd o hedd tu yma i'r bedd,
Nid oes end dy blant a'i medd.

2 Rho i mi arwydd cryf, disigl,
Heb ammheuaeth ynddo ddim,
Gan nad beth fo arnaf eisieu,
Dy fod di yn Briod im:
Gwel'd fy rhan, ddeil i'r lan.
Yn mhob brwydr, f'enaid gwan.

3 Nid all dim o'r storom danllaid,
Nid all dim o'r gwyntoedd cry',
Guro i lawr yr enaid ozwan
Welo' i dryser ynot ti:
Teimlo'th hedd, gwel'd dy wedd,
Genera angeu tu yma i'r bedd.

4 Af ar hyd fy ffordd yn ddiddig,
Af ar hyd fy ffordd yn hy',
Teithia'r anial mewn gorfoledd
O hyd golwg atat ti:
D'eiriau di, melus cu,
Sydd yn ddigon i myfi.

5 Pan y collwyf wel'd dy wyneb,
Pan anghofiwyf waed dy groes,
Dyna'n dyfod, fel y diluw,
Dywyll, anial, ddyrys, nos:
Graidd o ffydd wed'yn sydd,
Dawel, deg, yn dod â dydd. w.

787. *Hiraeth am ben y daith.*

8. 7. 3.—Priscilla. Gwahoddiad.

ARGLWYDD, tyred â'r newyddion
Sydd yn gweithio llawenhau,
Ac aed heibio'r noswaith dywyll
O och'neidio a thristau:
I mi'n glir wel'd y tir
Brynwyd trwy ddioddefaint gwir.

2 Gâd i'm henaid lanio yno,
Y mae'r tonau'n fawr eu grym,
Ac ni all fy enaid ofnus
Ddal eu pwysau anferth ddim:
D'angcu drud, tra'n y byd,
Fydd fy nghysur oll i gyd.

3 O! na welwn gopa'r bryniau,
Mae f'Anwylyd ynoʻn byw;
'Rwyf yn carn'r gwynt sy'n hedeg
Dros fy Nghanaan hyfryd wiw:
Fedd y llawr ddim yn awr
Leinw le fy Arglwydd mawr. w.

788. *Anhawsderau'y daith.*

8. 7. 3.—Priscilla. Walworth.

DA i mi fod yr addewid
Wedi ei rhoddi gan fy Nuw,

A bod gair o enau'r nefoedd
Uwch gelynion o bob rhyw:
Ei addewid ef, gadarn, gref,
Arwain eiddil gwan i'r nef.

2 Yr wyf bron a digaloni
Pan bwy'n gwel'd rhyw lwybr cul,
Rhwng rhyw greigydd serth dychryn-
Llе tramgwyddodd llawer mil; [llyd,
F'enaid gwan, yn y man,
Ddringa etto fyny i'r lan.

3 Bydda'i 'n synu ar rai oriau,
Pan dybygwyf nad oes dyn
Sydd yn teithio llwybrau newydd
Beunydd ond myfi fy hun;
Etto llu welaf fry
Fu'n gyfeillion i myfi.

4 Dyna'r pryd mae'n fwyaf cyfyng,
Pan bo gelyn ar bob llaw,
Un o'm hol am fy mradychu,
Un o'm blaen i'm hofni draw;
Etto i'r lan, f'enaid gwan
A tra Iesu i mi'n rhan. w.

789. Rhan II.

RHWNG Pihahiroth a Baalsephon,
Tra bwyf byw mi gofia'r lle,
Mewn cyfyngder eithaf caled,
Gwaeddodd f'enaid tua'r ne';
Yn ddioed, dyma'n dod
Waredigaeth fwya' erioed.

2 Aros ronyn, barwyd i mi,
Ti gai weled cyn y nawn
Fyrdd yn soddi yn y dyfnfor
O elynion creulon iawn;
Maes o law, gwynfyd ddaw,
Ti gai ganu'r ochr draw.

3 Y mae dyfroedd Marah 'n chwerw,
Fyth i'w hyfed ddydd a nos;
Iesu! gwyddost ti beth ydyw
Dwyn y bwysig, boenus, groes:
Rho i mi wir gariad pur,
Ffrwythau peraidd Canaan dir.

4 O! gwna i mi brofi sypiau—
Sypiau peraidd rawn y wlad,
Blas maddeuant pur a heddwch,
Gwleddoedd hyfryd tŷ fy Nhad:
Dyma hwy, 'r perlau mwy,
Gloddiwyd yn ei farwol glwy'. w.

790. *Nerth yn Nuw a'i air.*

8. 7. 3.—Priscilla. Rheidol.

ARGLWYDD, edrych ar bererin
Sy'n myn'd tua'r wlad sydd well,
Ac yn ofni swn llifogydd
Wrth eu clywed draw o bell;
'Dwyf ond gwan, dal fi i'r lan,
Mi orchfygaf yn y man.

2 Ti gai'r enw, a'r anrhydedd,
A'r gogoniant, yn y man,
Am, o ddyfnder maith trueni,
I ti wared f'enaid gwan:
Nid oedd un ond dy hun
All'sai wared aflan ddyn.

3 Mi af trwy fyddinoedd cryfion
Yr estroniaid gwaetha'u rhyw,
Ond cael gweled fod o'm hochr
Addewidion gwir fy Nuw:
Congero wnair, ar ei air,
Y gelynion gwaethaf gair. w.

791. *Noddfa yn Nuw.*

8. 7. 3.—Moldavia. Revel.

DYMA 'r eiddil yn ymdreiglo
At y ffynnon loyw rad;
Dacw'r aberth pur yn gwaedu,
Golch fy enaid yn y gwaed:
Rhoddwyd briw i fy Nuw—
Golchir beiau dua'u lliw.

2 Dinas noddfa gaed o'r diwedd
Fry o fewn ystlysau'r nef,
Ac nas gall fyth mo'r dialydd
Dreiddio mewn i drothwy'r dref;
Tŷ fy Nhad, dinas rad,
A bwrcasodd dwyfol waed.

3 Minnau, bellach, orfoleddaf,
Mae fy mywyd gwerthfawr iawn
Wedi ei roddi 'nghudd i gadw
Mewn Cyfryngwr perffaith lawn:
Abl yw, mae yn Dduw,
Ceidw f'enaid byth yn fyw. w.

792. *Gweddi am nerth a chyfarwyddyd.*

8. 3. 6.—Llannor.

IESU, 'Mrenin mawr, a'm Priod,
Bydd wrth raid
I mi'n blaid
I orchfygu pechod.

2 Tra fwy'n trigo'n yr anialwch,
Gwel'd yn wir
D'wyneb pur
Yw fy ngwir ddiddanwch.

3 Tua Salem euraidd arwain
D'enaid llaith
Ar ei daith,
Nes bo'm gwaith yn gorphen.

4 Iesu! eisoes êst â'm calon;
D'enaid cu'n
Llechu sy'n
Ddifrad rhwng dy ddwyfron.

5 Pâr im aros mwy'n dy freichiau:
Boed fy nyth
Ddedwydd byth
Yn dy ddilyth glwyfau.

6 Pan bwy'n sengu llwybrau angau,
Rhag pob braw,
Rho dy law,
Dangos im dy glwyfau. w.

793. *Mwy o gymdeithas â Duw.*

7au. 6ll.—Gethsemane. Newport

ARGLWYDD, ffoed cymylau mwy,
Grym euogrwydd damniol glwy';
Rho i mi brofi'th ddwyfol hedd,
Afon bur, tu yma i'r bedd,
Fel y gallwyf, ddydd a nos,
Ymddigrifo yn dy groes.

2 Ffarwel bob peth yn y byd,
Twyll a gwagedd y'ch i gyd;
Y melusdra penaf gawn,
Gwenwyn du sydd ynddo'n llawn:
Iesu, 'does o nefol rin,
Ond dy wleddoedd di dy hun.

3 Nid wy'n ceisio gan fy Nuw
Heddyw hawddfyd o un rhyw;
Rho i mi feddu'th Ysbryd cun—
Llechu'n agos it dy hun,
Ti gai'm cynnal dan bob croes,
Goleu ddydd neu dywyll nos.

4 Ac er lleied yw fy ngrym,
Dan dy aden 'dofnaf ddim;
Mymryn bach o'th gariad drud
Sydd yn fwy nag uffern lid;
Gwel'd dy wedd, a chredu'th waith
F'enaid ddwg i ben ei daith.

5 F'enaid, gwel Galfaria fryn,
Yno congerwyd angeu'n llyn,
Yno maeddwyd gallu'r bedd,
Yno prynwyd dwyfol hedd;
Y greadigaeth heddyw sy
Dan awdurdod Iesu cu. W.

794. *Arweiniad trwy'r anialwch.*

7au. 6ll.—Gethsemane. Berlin.

'RWY 'n diffygio ar fy nhaith,
Hir yw'r anial dir, a maith;
Drygau mawrion, ar bob llaw,
Sydd o'r Aipht i'r Canaan draw;
Llewyrch nîwl, a llewyrch tân,
'N unig all fy nwyn yn mlaen.

2 Tyr'd o 'mlaen trwy'r dywyll nos,
Dwg fi dros bob anial flos:
Dal fi i'r lan; O! na'd fi lawr;
Serth yw'r graig, mae'r cwymp yn
'Nol fy nghlwyfo, 'does iachâd [fawr:
Ond yn unig yn dy waed. W.

795. *Hedd o Galfaria.*

7. 4.—Aberafon. Essex.

O GALFARIA mae fy hedd,
A fy mywyd;
Ac oddi yno mae fy ngwledd
Nefol hyfryd:
Ac o tan ei aden wiw
Fyth arosaf,
Ac mi ganaf tra fwyf byw,
Haleluwia.

2 Ymddifyraf wrth ei groes,
Yn fy mlinfyd,
Ac mi gofia'i ddwyfol loes,
Nerth fy mywyd;
Yn mhob cystudd a phob gwae
Ymfoddlonaf;
Y mae'r diwedd yn nesau;
Haleluwia.

3 Dedwydd wyf, mi ganaf mwy,
Dydd sy'n gwawrio,
Caf roi i'm gelynion glwy',
Sy'n fy mlino;
Nes dod allan o bob pla
Mi ddisgwyliaf,
Ac ar fyrder canu wnaf,
Haleluwia. W.

796. *Ymyleddyr iachawdwriaeth.*

7. 4.—Patmos. Tiberias.

IESU, cymmer fi yn dy gol,
Rhag diffygio,
Na'd fy enaid bach yn ol,
Sydd yn crwydro;
Arwain fi trwy'r anial maith,
Aml ei rwydau,
Fel na flinwyf ar fy nhaith
Nes myn'd adre'.

2 Rho dy heddwch dan fy mron—
Ffynnon loyw;
Ffrydiau tawel, nefol, hon,
Fyth a'm ceidw;
Os caf yfed dyfroedd pur,
Mi drafaelaf
Fryniau uchaf anial dir—
Ni ddiffygiaf.

3 Gwedd dy wyneb siriol sy
Yn gorchfygu
Y gelynion creulon, cry',
Oedd yn maeddu;
Gwedd dy wyneb serchog yw
Fy holl iechyd,
Dyna alwaf tra fwyf byw
I mi'n wynfyd. W.

797. *"Byddaf hyfryd yn Naw."*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

PE ai'r ddaear, fawr ei rhod,
Lawr i'r dyfnder,
A phe'r cyfan arni'n bod
A ddiddymer;
Ar ei gariad dwyfol, pur,
A'i drugaredd,
Bydd fy ngobaith cadarn, clir,
Hyd y diwedd.

2 Pe ai dynion, fawr a mân,
Yn elynion,
Ac ymddifad awn yn lân
O gyfeillion;
Un yw 'nghyfaill a fy Nuw—
Frawd ffyddlonaf;
Minnau, 'n farw ac yn fyw,
Fyth a'i caraf.

3 Pe doi cystudd yn ei rym
I fy mhrofi,
Gwasgu'r eiddil gwan yn ddim,
A'i orchfygu;
Edrych wnawn i'r dwfn fedd,
Ac ni'm syflid,
Ond cael teimlo nefol hedd
Fy Anwylyd.

4 Pe doi dae'r ac uffern fawr,
Yn eu gallu,
I dafiu f'enaid gwan i lawr,
Sy'n llewygu;
Os o dan ei aden wiw
Caf ymguddio,
Safa 'r storom waetha'i rhyw
Nes èl heibio. W.

798. *Cyffes yr edifeiriol.*

7. 4.—Patmos. Tiberias.

MYN'D a wnaf, dan godi'm llef,
A chyfadde'—
Pechu wnes yn erbyn nef,
O'th flaen dithau;
Nid wyf deilwng fab i tl,
Dad trugarog;
Rho le i mi yn dy dŷ
Fel gwas cyflog.

2 Blinais, blinais ar y wlad
Lle mae pechu;
Am ddod adre' i dŷ fy Nhad
'Rwy'n hiraethu;
Bydd dy hunan, Iesu mawr,
Yn fy nerthu;
Na'd im roddi f' arfau i lawr
Nes gorchfygu. AN.

799. *Mawl am arbediad.*

7. 4.—Patmos. Tiberias.

RHYFEDD na ouaswn 'nawr
Yn y fflamau,
Wedi cael fy nhori i lawr
Am fy meiau:
Gan fy mod i heddyw'n fyw,
Mi rof deyrnged
O glod a mawl i'm Harglwydd Dduw
Am fy arbed.

2 Rhyfedd yw i Dduw erioed
Edrych arnaf;
Mawr yw'n rhwymau i roi clod
I'r Goruchaf;
Os ca'i 'nwyn i ben fy nhaith
Yn ddiangol,
Moli Iesu tydd fy ngwaith
Yn dragwyddol. G. L.

800. *Gweddi am gymdeithas â Duw.*

11au.—Joanna. Wareham.

O! TYRED, f'Anwylyd, fy Arglwydd
yn ddyn, [hun;
Preswylia mewn teml a gouaist dy
Dy lais sy mor beraidd, mor hyfryd
dy wedd,
Dy olwg sy'n congcro marwolaeth a'r
bedd.

2 O! na'd i mi gwympo, nid ydwyf ond
gwan,
Bydd rhyngwyf a'r saethau, a chyn-
nal fi i'r lan; [fry;
Fe'th glwyfwyd di unwaith ar Galfari
Oddi yno doed rhyddid yn unig i mi.

3 Boed cof am y mynydd, boed cof am
yr awr, [lawr;
Daeth ffrydiau o ystlys fy Arglwydd i
Gwaed wedi ei gymmysgu â dwfr
ynghyd, [na'r byd.
Mwy gwerthfawr bob dafn o hono

4 Boed i mi'n hyfrydwch, o foreu hyd
nos, [groes—
I ganu am gariad a chongcwest ei
Gogoniant ei berson, rhinweddau
pob gras, [maes.
Trwy boenau ofnadwy 'yn ennill y

5 Gâd i mi gael heddwch, y perl sy'n
fwy drud [gyd;
Na meddiant holl India'r gorllewin i
Mae gradd o dangnefedd fy Iesu mor
fawr,
Fe bwysa ei hunan y nefoedd a'r
llawr. W.

801. *Nesau tua phen y daith.*

11au.—Joanna. Wareham.

MAE'm hymdaith dros fryniau i'r
gwledydd tu draw [llaw;
Mae'n diangc o'm golwg bob ardal ger
'Rwy'n gwel'd trwy addewid, lawn
sier a drud, [byd.
Y tirocdd bwrcaswyd cyn seiliad y

2 Os melus oedd dechreu, mwy melus
yr hedd
Pa nesaf cyrhaeddom i ardal y bedd;
Mae arnom mae pechod, o'u bron yn
gwanhau,
I diroedd y bywyd â ni'n agoshau.

3 Mae enw f'Anwylyd mor anwyl, mor
fawr, [llawr;
Hyfrydwch y nefoedd, hyfrydwch y
Ni dderfydd ei garu, ni dderfydd ei
glod,
Pan na byddo seren yn uchder y
rhod. W.

802. *Gair ein Duw a saif byth.*

11au.—Joanna. Wareham.

FE ddarfu pob ofn, y gair ddaeth i
maes [ras;
O arfaeth y nefoedd sy'n rym ac yn
Yr hyn ysgrifenwyd yn llyfr y nen,
Pe uffern i'w erbyn, ddaw'n ddiau i
ben.

2 Caiff trallod, a chystudd, a gwialen, a gwae, [mai;
Gwawd, ing, ac erlidiau, i guro fy
Caiff angeu ei hunan fy rhoddi yn rhydd [dydd.
O'm cedyrn gadwynau cyn collwyf y

3 Y clod, a'r gogoniant, a'r gallu, bob rhyw,
A redo fel moroedd i enw fy Nuw;
Y dechreu a'r diwedd, o'r ddaear i'r nef,
O ras ac o haeddiant ei hunan yw ef. W.

803. *Ymorphwys ar aberth y groes.*

11au.—Wareham. Joanna.

FY enaid, ymorphwys ar aberth y groes;
'Does arall a'th gyfyd o ddyfnder dy loes: [Dduw:
Offrymodd ei hunan yn ddifai i
Yn haeddiant yr aberth mi gredaf caf fyw.

2 Mae munyd o edrych ar aberth y groes
Yn tawel ddistewi môr tonog fy oes:
Mae llewyrch ei wyneb yn dwyn y fath hedd,
Nes diffodd euogrwydd a dychryn y bedd. W. E.

804. *Rhyfeddodau gras.*

11au.—Joanna. Wareham.

RHYFEDDOD, rhyfeddod i Brynwr y byd [ddrud,
Roi 'i enaid yn aberth, yn daliad mor
I godi pechadur o ddyfnder ei wae,
A'i ddwyn i ogoniant byth, byth, i barhau.

2 O bellder tragwyddol y gwelodd efe
Nad oedd gymmorthwywr i ddyn is y no'; [lawr,
Addawodd ei chnioes, fe'i rhoddodd i
I gadw pechadur; ei gariad oedd fawr.

3 Ei ras a'i cymmhellodd yn wyneb y groes; [loes:
Ei fraich a'i hachubodd yn nyfnder ei
Cadd lawn fuddugoliaeth ar Galfari fryn,
Mewn gwendid gorchfygodd; ni ganwn am hyn. AN.

805. *Awydd gweled diwedd y daith.*

8au. 8ll.—Salome.

WRTH gofio'r Jerusalem fry,
Y ddinas, preswylfa fy Nuw,
Y saint a'r angylion y sy
Yn canu caniadau o bob rhyw,
Ac yno mae 'nhrysor i gyd,
'Nghyfeillion a'm brodyr o'r bron;
Fy nghalon sy'n brefu o hyd
Yn fuan am fyned i hon.

2 Fy enaid sychedig i sydd, [faith,
Wrth deithio dros fryniau mor
Yn disgwyl yn dawel bob dydd
Cyfarfod â diwedd fy nhaith;
Fel darfo fy ngofid a'm gwae,
Fy nhrallod, fy mlinder, a'm poen,
A dechreu'm gorfoledd di-drai—
Caniadau tragwyddol i'r Oen.

3 Er gofid a blinder o hyd,
A rhwystrau bob munyd o'r awr,
Gelynion echryslon i gyd
Sy'n curo fy ysbryd i lawr;
Fy enaid lluddedig a ddaw [dân,
Trwy stormydd, trwy donau, trwy
Er gwaethaf pob dychryn a braw,
I'm cartref tragwyddol yn lân.

4 Mi garaf f'Anwylyd o hyd,
Fy Mhrynwr, fy Mhriod, a'm Pen;
O'r diwedd fe sugnodd fy mryd
O'r ddaear i'r nefoedd uwch ben;
Gwyn fyd pe cawn orwedd yn awr
Yn llonydd yn ngwaelod fy medd,
Mi godwn ar doriad y wawr
Yn fuan i weled ei wedd. W.

806. *Y gongcwest ddiweddaf.*

8au. 8ll.—Salome.

PECHADUR wyf, f'Arglwydd a'i gwyr—
Pechadur a garwyd yn rhad;
Pechadur a gliriwyd yn llwyr
Yn rhyfedd trwy rinwedd y gwaed;
Pechadur a orfu fyn'd trwy
Ystormydd o ddyfroedd a thân;
Pechadur na orphwys byth mwy
Nes dringo i'r nefoedd yn lân.

2 Y rhyfel o'n hochr ni sydd,
Er cymmaint ein tuchan a'n cwyn;
Pwy etto erioed gollodd y dydd
Trwy waed yr Immanuel mwyn?
Fe darlylliwyd fy Arglwydd yn friw
Rhwng lleiddiaid ar Galfari fry;
Wel bellach, fe'i molaf tra'n fyw,
Fe brynodd y nefoedd i mi.

3 Pryd hyny caf glywed y gair—
Y gair sydd felusach nag un,
Yn seinio ffurfafen y nef
O enau f'Anwylyd ei hun:—
"Dewch, blant bendigedig fy Nhad,
Dewch, etholedigion i gyd,
Meddiennwch y deyrnas yn rhad
Bar'toed i'ch cyn seiliad y byd."

4 Y Baradwys af iddi cyn hir,
Mae afon y bywyd yn hon,
Yn llifo fel grisial yn glir,
I ddiodi'r sychedig o'r bron;

Mae hefyd yn nghartref fy Nhad
Monynnd o lawer o fel;
Wel bellach, tuag yno mi af,
A dcued hi fel ag y dêl.

5 Fe'm cod i ben Nebo yn llyn,
Caf weled Gwlad Canaan o'i bron,
Y ddinas ces ganwaith cyn hyn
Addewid o fyned i hon;
Ac yma caf aros fy nhramwd
'Lawr eilwaith i'r ddaear y bu,
A'm suo yn mreichiau fy Mrawd
I ganol Jerusalem fry W.

807. *Sychedig yw fy enaid am Dduw.*

5. 5. 6. 5.—Cysur.

MAE 'nghalon yn friw,
Mewn syched 'rwy'n byw,
Am yfed o'r dyfroedd
Sy'n nefoedd fy Nuw:
O Arglwydd! fy Naf,
Bryd, dywed, y caf
Wel'd gwedd dy wynebpryd,
Haul hyfryd yr haf?

2 Cof genyf y pryd
Y buom ynghyd
Yn rhodio mewn cariad
Uwch cyrhaedd y byd;
Tyr'd, sathra y llu,
Uffernol rai sy
Yn attal fy enaid
Rhag hedeg fry, fry.

3 Fy enaid dan wae
Mewn syched y mae,
Drachefn am brofi
Dy hedd, a'th fwynhau:
Duw ffyddlawn erioed
Y cefais dy fod,
Dy heddwch fel afon
Yn diriou im' dod. W.

CYSTUDDIAU.

808. *Mwynhâd o Dduw mewn cystudd.*

M. H.—Babilon. Spires.

CYSTUDDIAU mawrion o bob rhyw
Sydd yn y byd 'rwy 'nawr yn byw;
Pan ddarffo un, daw'r llall yn glau,
Ac felly 'nghystudd sy'n parhau.

2 Ond mwy na'm holl gystuddiau o'r bron
Yw colli gwedd dy wyneb llon;
Dy absennoldeb, Iesu cu,
'N rhyw ddirfawr boen i'm henaid sy.

3 Gronyn o'th hedd a'th gariad drud
A ettyb fy nghystuddiau i gyd;
On'd rhyfedd iawn y rhinwedd sy
Mewn lleied gradd o'r nefoedd fry?

Rho nerth dy hedd, rho faeth dy ras,
Nes myn'd yn lân o'r byd i maes;
Boddloni wnaf, O Arglwydd glân!
I'm holl gystuddiau, fawr a mân. W.

809. *Cystudd yn ffrwyth pechod.*

M. H.—Brynteg. Melindwr.

FY enaid tua'r nefoedd hed,
A thaena'th galon yno ar led,
A doed cystuddiau i mewn yn lli,
Fe'u taflaf i dy fynwes di

2 'Does unrhyw ofid, unrhyw boen,
Na wasgodd ar yr addfwyn Oen;
Ac yn ei ofid ef a'i gri
Mae holl esmwythder f'enaid i.

3 Mi wn mai 'meiau duon drud,
Yw'r achos o'm cystuddiau i gyd;
Symmud fy mai, fe gwymp y ffon
O'th sanctaidd law y funyd hon.

4 'Does yn dy galon ond lleshâd,
Maddeuant, hedd, a gwir iachâd;
Cymmer dy ffordd;—ynot yr wyf [w
Yn credu 'nawr;—iachâ fy nghlwyf.

810. *Ymddattod oddi wrth y creadur.*

8. 8. 8.—Nazareth. Rhosyn Saron.

MAE brodyr i mi acth yn mlaen
Trwy ddyfnach dwrra phoethach
Ac etto gorchfygasant hwy: [tân;
'Dyw'r dyfroedd'r aethum trwyddynt ddim
Mewn lled a dyfnder, nerth a grym;
Pa ham yr ofnaf finnau mwy?

2 Fy enaid, cred byth yn dy Dduw,
Na fydd anfoddlon tra yn fyw;
Yr ydwyt beunydd yn nesau
I wlad mae cariad fel y môr
Yn uno'r saint â'r nefol gôr—
Tragwyddol gydsain bur ddi-drai.

3 'Dwy 'nabod dim o'r nefol le,
Ond gwyn fyd na fawn ynddo fe;
'Rwy'n caru pawb o fewn y wlad:
Y dymmher nefol fwyn sydd fry
Yn awr ddymunwn genyf fi;
Fy nghartref ydyw tŷ fy Nhad. W.

811. *Byr ysgafn gystudd.*

M. S.—Dyfrdwy. Llandeilo.

OS yw'n gofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd;
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

2 Pa fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn, yn lle'n cystudd byr a'n crwys,
Dragwyddol bwys gogoniant.

3 Nis oedwn mwy nes dringo'n llawn
I'r man y cawn breswylio—
I'r lan i ben y tawel fryn
Mae miloedd yn disgleirio.

4 F'enaid blinedig yn eu plith
Yn dawel byth gaiff orphwys:
'Nol teithio 'ngwres yr haul a'r dydd,
Mor felus fydd Paradwys.

5 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron
Holl chwerwon ddyfroedd Marah;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehofah. W.

812. "*Ti ydwyt loches i mi.*"

C.—St. Stephan. Abbey.

O! ANGHREDINIAETH fawr ei grym,
Ti roddaist i mi glwy',
Ond dwed a fynost, credu wnaf
Fod doniau'r nef yn fwy.

2 Fe'm golchir yn fy nghystudd trwm.
Fe'm purir yn y tân;
Ac mi ddof allan, pan ddêl dydd,
Wedi fy nghanu'n lân.

3 Anffyddlon i mi trodd y byd,
Anffyddlon dynol ryw;
Ond 'rwyf yn rhedeg trwyddynt oll
I fynwes bur fy Nuw. W.

813. "*Edrycl. ar y pethau ni welir.*"

7. 6. D.—Bremen. Grafenberg.

MAE cwmwl mawr o dystion
Yn iach yr ochr draw,
I'n Harglwydd a fu'n ffyddlon
Yn myd y poen a'r braw;
Yn ol eu traed dilynwn,
Trwy dir y blinder maith;
Ar air ein Harglwydd pwyswn
Nes dod i ben y daith.

2 Er myn'd trwy fflam a dyfroedd
Medd gair ein Iesu glân,
"Ni'th foddir yn y moroedd,
Ni'th losgir gan y tân:"
Fe rydd lawn wareddiaeth
I'w ciddo cyn bo hir;
Cânt seinio "Iachawdwriaeth"
O fewn i'r nefol dir. T. J.

814. *Pren yn Marah.*

7. 6. D.—Manheim. Syria.

ER dod o hyd i Marah,
A'i ddyfroedd chwerw'n blas,
Mae'm Iesu i'w pereiddio,
Melusa hwynt â'i ras;
Lle bynag byddo 'Mhrynwr,
Pob storm yn dawel fydd,
Pob gwŷr a wneir yn uniawn,
Pob t'wyllwch droir yn ddydd.

2 Os cyfyd gwynt tymhestlog,
Os rhua tonau'r môr,
Mae'r hwn mae 'ngobaith ynddo
A'i enw'n gadarn lôr;
Yn nghanol pob rhyferthwy,
Gall Iesu, unrhyw awr,
A gair ostegu'r cyfan,
A gwneyd tawelwch mawr.

3 Beth bynag wnelo'n gerbyd,
Pan at ei blant mae'n dod,
Ai'r gwynt, ai'r tân, ai'r cwmwl
Er lles caiff iddynt fod;
Ac er eu holl ammheuon,
A'u hofnau o bob rhyw
Efe ei hun sydd ynddo,
A digon, digon yw.

4 'Rwy'n ceisio'i lelus eiriau—
Caiff pob peth is y nef
Gydweithio er daioni
I'r rhai a'i carant ef;
Trysorau o ddoethineb
I drefnu ynddo sydd,
Trysorau gras a chariad,
I wneyd pob rhwymau'n rhydd.

5 Yn holl drallodau bywyd,
Er dued fyddo'r nen,
Diogel ydyw'r angor
Sydd fry tu fewn i'r llen;
Mewn einioes, ac yn angeu,
Fe ddeil, can's sicr yw;
Ni chollir byth mo'r afael
Nes myned yno i fyw. A. O.

815. *Dilyn y praidd.*

M. B. D.—Pererin. Eden.

PERERIN wy'n y byd,
Ac allfud ar fy hynt,
Yn ceisio dilyn ol y praidd—
Y tadau sanctaidd gynt;
I 'mofyn gwlad sydd well,
Er bod yn mhell yn ol, [af
'Rwy gymmhorth gras, yn mlaen m
Dilynaf ûnnau'u hol.

2 Os rhaid ymdrechu dro,
Milwrio, a dwyn y groes,
A myn'd dan ŵg a gwawd y byd,
Dros enyd fer fy oes;
Caf goron gyda'r saint,
Tragwyddol fraint sy'n ol; [af,
Trwy gymmhorth gras, yn mlaen mi
Dilynaf finnau'u hol. D. J.

816. *Morio tuag adref.*

6. 8.—Alexandria. Dolgellau.

YMDEITHYDD wy'n y byd,
Fel rhai o'm tadau gynt,
Sy'n morio lawer pryd
Yn erbyn llanw a gwynt;
Mae 'ngolwg wiw tua'r hyfryd wlad
Lle mae fy Nhad a'm ffryndiau'n byw

2 Mae'r tonau lawer gwaith,
A'r stormydd mawr eu stwr,
Yn curo f'enaid llaith
Nes byddo dan y dwr;
Ond Iesu ddaw, ac yn y man
Fe'm cod i'r lan â'i gadarn law.

3 Pan byddo awyr glir, [frêg
'Rwy'n gwel'd trwy ddrych di-
Rai manau o Salem dir,
A'm hetifeddiaeth deg;
A'r olwg hon, trwy gwrs fy nhaith,
Ddod f'enaid llaith i fyn'd yn llon.

4 Er bod y ffordd yn faith,
A rhwystrau etto 'mlaen,
Caf orphen ar fy nhaith,
A glanio i Salem lân;
Marwolaeth ddaw, caf fyn'd heb ble,
Yn iach i dre' yr ochr draw.

5 Ac yno gwyn fy myd,
Tu draw i'r byd a'r bedd;
Caf yno fyw o hyd
Mewn hawddfyd ac mewn hedd,
Yn canu'n ber i'r Iesu mwyn,
Am iddo'm dwyn i Salem dir. w.

817. *Ffydd yn yr addewid.*

6. 8.—Gwladys. Alun.

MAE 'm siwrnai yn y blaen,
'Does diwedd ar fy nhaith,
Nes glanio i mewn yn lân
I dragwyddoldeb maith;
Yr ochr draw fy nghartref yw,
O fewn y wlad lle mae fy Nuw.

2 Ar ei addewid ef,
Sydd fwy na geiriau dyn,
Er holl gymylau'r nef,
Gorphwysaf ti fy hun;
Fe'm deil i'r lan, a doed a ddêl;
A ddaeth o'i enau sydd dan sel.

3 Mi bwysaf ar ei air,
A deued oll yn groes;
Fy noddfa unig yw
Dan eithaf tywyll nos:
Fe wawria'r dydd; pob tro is nen
Ddaw âg addewid nef i ben.

4 Ar fyr mi fyddaf iach:
Ni chaf fi glywed mwyr
Lais y gorthrymwyr cas,
Eu gwawd na'u dirmyg hwy;
'Does swn na chri o fewn y wlad
Lle mae fy Mhriod a fy Nhad. W.

818. *Boreu braf ger llaw.*

6. 8.—Alun. Gwladys.

MI wela'r cwmwl du
Yn awr yn mron a ffoi,
A gwynt y gogledd sy
Ychydig bach yn troi:
'Nol tymmhestl fawr, daw yn y man
Ryw hyfryd hin ar f'enaid gwan.

2 Ni phery ddim yn hir
O'r ddu dymmhestlog nos;
Ni threfnwyd oesoedd maith
I neb i gario'r groes:
Mae'r hyfryd wawr sy'n codi draw
Yn dweyd fod boreu braf ger llaw.

3 Mi welaf oleu'r haul
Ar fryniau tŷ fy Nhad,
Yn'dangos i mi sail
Fy iachawdwriaeth rad:—
Fod f'enw fry ar lyfrau'r nef,
Ac nad oes a'i dilea ef.

4 Melus fel diliau mêl,
A maethlon er iachâd,
Yw holl geryddon nef,
A gwialenodau 'Nhad;
Pob croes, pob gwae, pob awel gref,
Sydd yn addfedu'r saint i'r nef. W.

819. *Dedwyddwch yn nghymdeithas Duw.*

8. 7. D.—Dismission. Tyddewi.

DEDWYDD yw sydd yn dy glwyfau
Nid rhyw ofnau yno sydd,
Ond llawenydd, hedd, a chariad,
Oll yn oll yn cario'r dydd;
Gwledd wastadol yw dy gwmni,
Pell uwch law pob deall dyn,
Ond y rhai a gadd ei phrofi
Gan dy Ysbryd di dy hun.

2 Minnau'r noeth a'r tlawd, a ddeuaf,
Yn fy ofnau, yn fy mai,
Ac heb fedr i ryfela,
Chwaith na medr i edifarhau:
Rho i mi nerth, a gras, a doniau,
Rho i mi'r cwbl oll i gyd,
Nid oes dim ond trysor dwyfol
A all lanw dim o'm bryd. W.

820. *Ystormydd yn puro yr awyr*

8. 7. D.—Dismission. Trefecca.

DEL y rhed llifogydd mawrion,
Fel anadla'r awel gref,

Bydded felly fy och'neidiau
I ddyrchafu tua'r nef:
Gwn nas gelli attal rhagof—
Gwn nas gelli roi nacâd,
O un fendith is y nefoedd
Ag sydd i mi er iachâd.

2 Mae ystormydd mewn naturiaeth;
Ca's goreuon byd y rhai'n—
Cafodd seintiau a merthyron,
Cafodd Iesu goron ddrain:
Mae cydwybod fo mewn terfysg,
Mae ysbrydoedd fo mewn poen,
Wedi chwilio o gylch, o gwmpas,
Yn llettya 'nghilwyfau'r Oen.

3 Uffern yn fy enaid euog
Sydd, er bod y fflam yn gry',
Yn fy ngyru at borth y bywyd,
Trwy'r cymylau duaf sy';
Tân y pydew a'm dihunodd,
Tawch y fflam gynddeiriog, gref,
Wnaeth i'm henaid, yn y storom,
Ymafaelu'n llyn a'r nef. W.

821. *Buddioldeb cystuddiau.*

8. 7. D.—Tyddewi. Llaugan.

MAE fy Nuw yn fy ngheryddu,
Ond fy nghâru y mae ef;
Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw,
Sydd i'm cofio am y nef:
Nid oes awr o boen a dolur,
Nid oes munyd fach nad yw
Fel ffynonau'n tarddu allan
O dragwyddol hedd fy Nuw.

2 Ettto, md yw fy ergydion
Ond ergydion ysgafn iawn,
Ac awelon pur o gariad
Sydd yn gymmysg â hwy'n llawn:
Cariad, heddwch pur, a chrydd,
A gyddlethwyd mewn un we;
Rhad dâr cainge yw sy'n ty nhynu
Maes o'r ddaear tua'r ne'. W.

822. *Gweddi mewn cystudd.*

8. 7. D.—Bohemia. Eitionydd.

TAN y don yr wyf yn llefain,
Mae mynyddau ar fy nhen;
Haen ar haen sydd o gymylau
Duon rhyngof fi a'r nen; [bryd,
Ni fydd rhan o'm cnawd na'm hys-
Tra bwyf yma byth yn iach;
Tyred, Arglwydd, a dadgeuddia
Dy hunan i mi ronyn bach.

2 Codi'm llygaid 'rwyf i fyny,
Edrych beunydd tua'r nef;
Felly 'rwyf yn treulio'r oriau,
Dim ond disgwyl wrtho ef:
Dagrau ac ochi'neidiau trymion
Yw fy mywyd yn y byd;
Dim dihenion o riddfanau
On' chaf wel'd dy wyneb pryd.

3 Mae fy nghalon wedi gwywo,
Fel y ddae'r mewn sychder mawr,
Pan na byddo cafod hyfryd
Yn dyferu arni i lawr:
Mae'm meddyliau i gyd mewn terfysg,
Ac yn ddyrus iawn yn gwau:
Nid oes diben ar fy nghystudd
Ond yn unig dy fwynhau.

4 Ffynnon wyt o bob tosturi,
Nid oes gwybod faint dy ras;
Fy haeliaeth sydd yn cynnal
Pob peth dan yr awyr las:
Dal fy ysbryd gwan i fyny,
Edrych ar y bryniau mawr
Sydd yn pwyso ar fy nghalon,
Ac yn ceisio'm dodi i lawr.

5 Edrych ar y pair 'rwyf ynddo,
Na'd i'r fflamau mawr eu grym
Sydd o'm cylch yn awr yn hesgi
Wneuthur drwg tragwyddol im:
C'wilydd, gwarth, a chroesau trymion,
Sydd yn curo arna'i 'n un;
Ac nid oes a'm deil i fyny
Ond dy Ysbryd di dy hun. W.

823. *Hyder pererin cystuddiol.*

8. 7. D.—Dismission. Edinburgh.

DYFAIS fawr trugwyddol gariad
Ydyw'r iachawdwriaeth lawn;
Cyfammod hedd yw'r sylfaen gadarn,
Yr hwn nis derfydd byth mo'i ddawn:
Dyma'r fan y gorphwys f'enaid,
Dyma'r fan y byddaf byw,
Mewn tangnefedd pur, heddychol,
Yn mhob rhyw stormydd gyda'm Duw.

2 Syfled iechyd, syfled bywyd,
Cnawd a chalon yn gyttun,
Byth ni sylla ammod hedd fwch,
Hen gyttundeb Tri yn Un:
Dianwadal yw'r addewid,
Cadarn byth yw cynghor Duw;
Cysur eryf sy i'r neb a gredo
Yn haeddiant Iesu i gael byw.

3 Bùm yn wyneb pob gorchymyn,
Bùm yn wyneb angau glas;
Gwelais Iesu ar Galfaria
Yn gwbl wedi cario'r maes:
Mewn cystuddiau 'rwyf yn dawel,
Y fuddugoliaeth sydd o'm tu,
Nid oes clyn wna i mi niwed; [fry,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd

4 Pethau chwerwon sydd yn felus;
T'wyllwch sydd yn oleu clir;
Mae'm cystuddiau i mi'n fuddiol,
Ond darfyddant cyn bo hir:
Cyfaunmod hedd bereiddia'r cwbl,
Cyfanmmod hedd a'm cwyd i'r lan,
I gael gwel'd fy etifeddiaeth,
A'i meddianna yn y man.

5 Gwelais 'chydig o'r ardaloedd
Yr oehr draw i angeu a'r bedd;
Synodd f'enaid yn yr olwg,
Teimlais annherfynol hedd:
Iesu brynodd i mi'r cwbl,
Gwnaeth â'i waed anfeidrol Iawn;
Dyma rym fy enaid euog,
A fy nghysur dwyfol llawn.

824. Rhan II.

8. 7. D.—Bohemia. Bavaria.

WEDI cefnu pob rhyw storrmydd,
A'r tonau mawrion oll ynghyd,
Tybiais fy mod yn y porthladd,
Tu draw i holl ofidiau'r byd;
"O! fy Nhad," medd f'enaid egwan,
"A gaf fi ddyfod i dy gôl,
A chanu'n iach i bob rhyw bechod,
A'm cystuddiau i gyd ar ol?"

2 "Ust! fy mhlentyn, taw, distawa,
Gwybydd di mai fi sydd Dduw;
Ymdawela yn f'ewyllys,
Cred i'm gofal tra f'och byw:
Os rhaid ymladd â gelynion,
Fi, dy nerth, fydd o dy blaid;
Er gwaned wyt, cei rym i sefyll,
A fi'n gymmhorth wrth bob rhaid."

3 Boddlawn ddigon, doed a ddelo,
Ond dy gael i mi yn Dduw:
Rhoist dy Fab i brynu'm bywyd
Trwy ddioddef marwol friw;
Mi lecha'n dawel yn ei gysgod—
Yn nghysgod haeddiant dwyfol
glwy';
Darfyddaf byth âg oll sydd isod,
Ac ymhyfrydaf ynot mwy

4 Edrych 'rwyf ar hyny beunydd,
A hiraethu am y wawr,
Pan y derfydd im â phechod,
Ac y caf roi 'meichiau i lawr:—
Y caf ddihuno ar dy ddelw,
Pan caf wel'd dy wyneb gwiw,
Pan caf foli byth heb dewi,
A bod yn debyg i fy Nuw.

5 Fy natur egwan sydd yn soddi,
Wrth deimlo prawf o'th ddwyfol
Ac yn boddi gan ryfeddod, [hedd;
Wrth edrych 'chydig ar dy wedd:
O! am gorph, a hwnw'n rymus,
I oddef pwys gogoniant Duw:
Ac i'w foli byth heb dewi,
A chydag ef dragwyddol fyw. T. C.

825. *Ymguddfa yn y dydd blin.*

8. 7. D.—Bavaria. Diniweidrwydd.

IESU, cyfaill pechaduriaid,
Dyro im i'th fynwes floi,
Tra fo'r dyfroedd chwyrn yn llifo,
A'r tymmhestloedd yn crynhoi;
Cuddia fi, O Geidwad! cuddia
Nes el heibio'r stormydd blin;
Tywys f'enaid tlawd i'r porthladd
Er mwyn d'enw mawr dy hun.

2 Noddfa arall nid oes genyf,
Pwysa'm henaid arnat ti;
Paid a'm gadael im fy hunan,
Cymmhorth a chysura fi:
Cyfiawn ydwyt ti, a sanctaidd,
Minnau 'dwyf ond llwyr ammhur;
Drwg, a llawn o bechod ydwyf,
Tithau'n llawn o ras a gwir.

3 Gras digonol a geir ynot;
Gras i faddeu fy holl fai:
Boed i'r ffrydiau pur, iachusol,
Oddi wrth bechod fy nglanhau:
Profi maith rinweddau'th gariad
Gaffwy'n awr tu yma i'r bedd;
Wedi hyny, O! dwg fi'n dawel
I Gaersalem lawn o hedd. c.w. (*cyf.*)

826. *Digon i bwyso arno yn angeu.*

8. 7. D.—Bavaria. Eifionydd.

F'ENAID gwan, sefydla d' olwg
Ar yr Iesu'n unig nód;
Nid oes arall dâl ei geisio,
Nac i bwyso arno'n bod:
Câr ef nes anghofio'th ofid,
Yma ar y ddaear ddu;
Câr nes i'th serchiadau hedeg
Ato i Gaersalem fry.

2 Câr yr hwn a fedr wared,
Ac ymddiried iddo ef;
Cred, ac edrych i'r addewid
Am drysorau rhad y nef:
Cyfoeth can mil gwell na'r ddaear
Sy'n ei eiriau glân i gyd:
Cyfoeth gwell na'r greadigaeth
Im yw gwedd ei wyneb pryd.

3 Cyfoeth yn yr anial garw,
Elw 'nglyn wylofain yw;
Dyffryn galar try'n llawenydd,
Rhydd yn angeu fodd i fyw:
F'enaid, edrych i Galfaria,
Cofia am riddfanau'r ardd,
Nes bo'n ddim dy holl deganau
Byth yn ngwedd ei wyneb hardd.
[A.N.

827. *Cysur o Galfaria.*

8. 7. D.—Bavaria. Bohemia.

WELA'I neb o'm holl gyfeillion
A ddaw'n dawel gyda mi,
Ac a ddeil fy mhen i fyny
Yn nyfnderoedd angeu du: [arn,
Cloddiwyd Maen mewn arfaeth gad-
Draw, ryw oesoedd cyn fy mod,
Hwnw ddeil fy mhen i fyny,
Fel na syflir dim o'm troed.

2 Trof fy wyneb i Galfaria,
Yno gwelaf gysur llawn;

Gwelaf yno un yn marw,
Ac yn talu perffaith iawn:
Dim ond golwg ar y Meichiau
Ddaw â'm henaid llesg i'r lan,
Ac a bair i'm holl elynion
Golli eu gafael yn y fan.

5 Ffarwel, ddaear, a'i thrysorau,
Myn'd yr wyf tua thir fy ngwlad;
Wyneb Iesu yn yr afon
Sathra Satan dan fy nhraed:
Gwel'd yr Arch a'r Drugareddfa—
Iesu mawr, y canol Wr,
Wna i'm henaid innau waeddi,
"Buddugoliaeth" yn y dŵr.

4 Gair o enau'r Nef ei hunan
Sydd yn eisieu arnaf fi;
Gair a godo'm henaid eiddil
'Nawr i'r lan o'r pydew du:
Gair a doro faglau filoedd,
Ac a'm rhoddo ar fy nhraed;
Gair a wnelo i mi'n groyw
Ganu am iachawdwriaeth rad.

5 Fel y moroedd mae'th drugaredd,
Annherfynol yw dy ras;
Anchwiliadwy yw dy gariad
I'r pechadur gwaela' i maes:
O'r dyfnderoedd codaist finnau
Yn dy freichiau lawer pryd,
Ac a wnêst i'm henaid ganu
'Ngwyneb gorthrymderau'r byd.

AN.

828. *Duw yn golcuo y llwybr.*

8. 7. 4.—Verona. Peniel.

MI ès trwy afonydd dyfnion,
Gwyllta'u natur is y nen,
Pan oedd tonau mawr yn rhuo,
Fel y moroedd, uwch fy mhen:
Ti dy hunan
Oedd a safodd o fy mhlaid.

2 Croesau geirwon sydd yn felus;
Pan yr elo yn brydnawn,
Dyfnder galar sydd yn esgor
Ar lawenydd hyfryd iawn:
O! am weled
Heno dawel foreu wawr.

3 Y mae hiraeth yn fy nghalon
Heddyw am gael gwel'd y dydd
Caffo fy nghadwynau 'u tori,
A fy enaid fyn'd yn rhydd:
Yn lle rhyfel,
Dim ond swn telynau hedd. W.

829. *Hiraddo ar ol y ddwyfoin.*

8. 7. 4.—Verona. Lewes.

AR ddisgwylfa uchel gribog
Disgwyl 'rwyf er's hir brydnawn,
Edrych am yr hiraddo hyfryd
'Nol cawodydd geirwon iawn,
Ac i'm hysbryd,
Trwy'r cymmylau, wel'd y wlad.

2 Gwlad o heddwch, gwlad o sylwedd,
Gwlad o gariad pur didrai;
Gwlad o wledda'r pererinion
Ar lawenydd i barhau:
Dacw'r ardal
Mae 'nghysuron oll i gyd.

3 Aed y nos derfysglyd heibio,
Doed y boreu cyn bo hir,
Pan y caffo'm henaid wledda
Yn y Ganaan hyfryd bur,
Gyda myrddiwn
O'i rai anwyl, ffyddlon, ef. W.

830. *Gwaredigaeth ar law Duw yn unig.*

8. 7. 4.—St. Peter. Ardudwy.

NI thâl im gyfadde' meiau
'N unlle ond o flaen y ne':
Duw maddeugar, Tad tosturi,
Duw anfeidrol yw efe:
At ei orsedd,
Deuaf dan fy nwfn bla.

2 On'd oes ganddo ras i achub,
Ffarwel achub is y rhôd;
Nid oes etto ddyn dosturiodd
Fel tosturiodd ef erioed:
Gwaredigaeth
Sydd yn unig ar ei law

3 Gorwedd ar fy ngwely cystudd—
Yr y pared trof fy mhen—
Griddfan 'r ydwyf, ac och'neidio,
Wylo tua'r nefoedd wen:
Yn y diwedd,
F' allai caf fi deimlo hedd. W.

831. *Gwenau Duw yn dirymu cystudd.*

8. 7. 4.—St. Peter. Hyder.

CHWILIO am danat, addfwyn Ar
glwydd,
Mae fy enaid, yma a thraw;
Teimlo 'mod yn berffaith ddedwydd
Pan y byddi di ger llaw:
Gwedd dy wyneb
Yw fy mywyd yn y byd.

2 Heddwch perffaith yw dy gwmni,
Mae llawenydd ar dy ôde';
Ond i ti fod yn bresennol,
Pob peth sydd yn llanw'r lle:
Ni ddaw tristwch
Fyth i'th gwmni tra fo nef.

3 Yn y ffwrnes danllyd, greulon,
Os tydi a ddaw yn mlaen,
'Does ond heddwch a newyneidd-dra,
A thiriondeb yn y tân:
Gwên dy gariad
Wna bob cystudd yn ddirym.

4 Ti wy'n 'mofyn—Argiwydd, gwyn,
Yn mhob trallod bydd ger llaw;

Dllyn fi, 'rwy'n ofni yma,
Dllyn fi, 'rwy'n ofni draw:
Dan dy aden
Mi edrycha'n wyneb llu. w.

832. "*Dy lwybrau yn y dyfroedd dyfnion.*"

8. 7. 4.—Verona. Tydfil.

DUW anfeidrol yw dy enw,
Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr,
Ac mae'th lwybrau'n anweledig
Yn nyfnderoedd moroedd mawr:
Dy feddyliau—
Is nag uffern, uwch na'r nef.

2 Minnau'n ddyfal sy'n ymofyn
Ar yr aswy, ar y dde,
Ceisio ffeindio dwfn gynghor,
A dybenion Brenin ne':
Hyn a ffeindiais—
Mai daioni yw oll i mi.

3 Pan bwyf dan y tonau mawrion,
A'r llifeiriant yn ei rym,
Dae'r ac uffern gyda'u gilydd
Am fy nghuro i lawr i ddim,
Af dan grynu,
Ymaflaf yn addewid nef.

4 Diben nefoedd sydd yn gywir,
Bynag peth yw diben dyn;
Mi anturiaf fy holl fywyd
Ar ei eiriau ef ei hun:
Doed pob cystudd,
Ddigwydd dim ond da i mi.

5 Da yw'r groes, a da yw'r wasgfa,
Da yw profedigaeth lym;
Oll a'm tyn i o'r creadur,
O fy haeddiant, o fy ngrym;
Minnau'r truan,
Ffof dan aden Brenin nef. w.

833. *Yr un testyn.*

8. 7. 4.—Peniel. Bridport.

ANWELEDIG, 'rwy'n dy garu.
Ac ni feddaf yn y byd
Wrthddrych gallaf bwyso arno—
Wrthddrych dâl rhoi arno 'mryd:
'Does fy lleinw
O bob pleser, ond dy hun.

2 Ti'm harweiniaist o'r creadur
Ar hyd llwybrau geirwon iawn;
Ni ches lonydd gyda'm pleser,
Fyth na boreu na phrydnawn:
Yn yr anial,
D'wedaist eiriau wrth fy modd.

3 'Rwyf yn foddlon i'th geryddon
Pan 'rabyddwyf unai dy lais
Sy'n fy nwyn o blith y llewod,
O bob gormes, o bob trais:
Gwell na dilliau
Yw denisdau geiriau'r nef.

4 Chlywodd clust, ni welodd llygad,
Ac ni ddaeth i galon dyn,
Erioed feddwl, na dychymmyg,
Y fath ydwyt ti dy hun:
Rhagor decach
Wyt na welodd nef na llawr.

5 Ac 'rwyf finnau yn dy garu
Uwch a welais etto erioed,
Uwch a glywais son am dano,
Ynte a ddych'mygais fod:
Dyma fflamau
Perffaith, mwyn drigfanau'r nef. w.

834. *Cystudd yn angenrheidiol.*

8. 7. 4.—Verona. Caio.

NI feddyliais fod fy siwrnai
Trwy lifeiriant oedd mor gryf,
A bod afon ar ol afon,
Heb un diwedd, heb un rhif:
Yn eu canol
'Rwyf yn gwel'd yr ochr draw.

2 Nid oes drwg cael fy nghystuddio
Lle bo cystudd i mi'n well;
Rhaid trwy'r anial i mi deithio
Cyn cael meddu'r Ganaan bell:
Wrth y cleddyf
Dof i feddu tir fy ngwlad.

3 'Rwyf yn caru'r pererinion
Ar y tylau serth y sy,
Ar eu traed ac ar eu dwylaw,
'N ceisio dringo i fyny fry;
Ar fy neulin
Minnau ddof i ben y bryn. w.

835. *Congcwest ofn.*

8. 7. 4.—Bridport. Tydfil.

F'ENAID egwan, paid ag ofni
Bod rhyw ddrygau mawr ger llaw.
Ofni gwyntoedd oer y gogledd,
Ofni gwynt y dwyrain draw;
Ofni'r cwbl,
Ac heb achos ofni'n bod.

2 Newydd mawr, a newydd llawen,
Newydd gwir, a newydd rhad,
Sy'n marchogaeth ar y cwmmwl
Goleu draw o dŷ fy Nhad:—
Fe faddeuwyd
Beiau rif y sêr i mi.

3 Os daw gw'radwydd, os daw gofid,
Trwy ragluniaeth bur fy Nuw,
Hyny fyth ni ladd fy enaid,
Cadw 'nghalon wna yn fyw:
Bydd ei ffiangell
Yn y diwedd fel y gwin.

4 Os ar wely rhaid fy rhoddi,
Rywbryd yn y dyddiau ddaw,
I gystuddiau, nes bo 'mrodyr
Goreu oll yn cilio draw,
Mi ddof allan
Fel yr aur y seithfed tro.

5 Fe gawd croesau lle ni phechwyd;
Pa'm gwrth'nebaf finnau'r groes?
Cafodd Crëwr nef ei hunan
Ar Galfaria angeu loes:
Yr un llwybrau
Rhaid im gerdded ag efe. w.

836. *Cystuddiau yn feddyginiaeth.*

8. 7. 4.—Lewes. Verona.

DAU ryw anaf, maith a chwerw,
Dreſnodd f'Arglwydd i mi'n un—
Tymmhestl oer yn fy meddyliau,
Ac oddi allan yn gyttûn:
Dwy farwolaeth
Dreſnodd gras i mi fyn'd trwy.

2 'Rwyf fi ar y cefnfor garw,
'N mentro edrych drwodd draw,
Ac o gefn y don yn canfod
Tir y bywyd pell ger llaw;
Mewn addewid
'Rwyf mor agos at y wlad.

3 Mae fy nghred wedi ymaflyd,
Yn y storom, am y tir:
Y mae'r cefnfor hyll mewn undeb,
Heddyw, â'r Baradwys bur:
Dewch yn eon,
Tir y bywyd, dacw fe. w.

837. *Y dydd blin yn myned heibio.*

8. 7. 3.—Rheidol. Walworth.

DYDD yw hwn sy'n myned heibio,
Dydd o alar, dydd o wae,
'Nol eu gilydd, mae blinderau,
Fel y tonau, yn parhau:
Iesu cun, ef ei hun,
Yw fy nghysur oll yn un.

2 Agor ddrws, 'rwyf bron llewygu,
O'm cystuddiau i fyn'd i maes;
Nid yw'm cadwyn, er mor gryfed,
Ddim at etholedig ras:
D'unig air i mi bair
Ddod i maes o'r berw bair.

3 Fel y gallwyf orfoleddu,
Byw yn wastad yn dy hedd,
Edrych angeu yn ei wyneb,
Ymhyfrydu yn y bedd:
Congero'n lân, myn'd yn mlaen,
Mewn rhyw ddwyfol nefol dân. w.

ANGEU A THRAGWYDDOLDEB.

838. *Gwagedd y byd yn angeu.*

M. H.—Babilon. Ceredigion.

BETH dâl im roi fy serch a'm bryd
Ar ddim a welaf yn y byd?
Da, daear, dŵr, pa gysur yw
Y dydd y dêl digofaint Duw?

2 Och! pwy a roddai 'i bwys ar ddyn
Sy'n llesg a gwan fel corsen grin?
Ar beth mor frau, pwy roddai 'i fryd?
Plant Adda, gwagedd ynt i gyd.

3 O'r dywyll wlad pan byddwy'n myn'd,
Fy Iesu fydd fy ffyddion Ffrynd:
Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell,
A'm hebrwng i'r ardaloedd pell?

4 Pa'm cara'i 'r byd a'i wagedd mwy?
Hyd angeu'n brin y deuant hwy:
Gwell genyf garu'r frynd a duaw
Yn angeu i 'maflyd yn fy llaw. w.

839. *Dydd y farn.*

M. H.—Augsburg. Winchester.

WEL dacw'r Brenin mawr yn dod
Mewn rhwysg na welodd neb erioed;
Mae angeu, uffern fawr, a'r bedd,
Yn ofnu edrych ar ei wedd.

2 Fe lysg y byd yn ulw mân,
Fe ary'r greadigaeth fel o'r blaen;
Cwymp y planedau, er eu maint;
Bydd Iesu'n Frenin ar ei saint.

3 O! tyred, ddedwydd, hapus awr,
Boreuddydd tragwyddoldeb mawr;
Poen yw'm pleserau, poen yw'm loes
Wrth bechu yn erbyn gwaed y groes

4 Mi wela'n codi'r Seren ddydd;
Mi glywa'r canu yno fydd:
Angylion gyda'r saint yn un
Yn cadw cwmni Mab y dyn. w.

840. *Huno yn yr Iesu.*

M. H.—Sebastian. Beza.

NI ddaw 'nghyfeillion mwya'u hedd
I'm hebrwng ond hyd lan y bedd:
Try pawb eu cefnau, dyma'r dydd
Gadawant fi yn fy ngwely pridd.

2 Daw i mi dranoeth teg er hyn,
Caf godi fry i Seion fryn; [llaw
Fy llwch ddaw'n llwyr o bridd
Ar ddisglaer wedd fy Mhriod mawr.

3 Caf yno fod yn gwbl rydd ;
Ar angau wedi cario'r dydd ;
Heb unrhyw nychdod mwy, na phoen,
Yn moli'r croeshoeliedig Oen. J. T.

841. *Yr Adgyfodiad a'r Bywyd.*

M. S.—Persia. Sabbath.

MYFI yw'r Adgyfodiad mawr,
Myfi yw gwawr y bywyd :
Caiff pawb a'm credo medd f'Arglwydd
Ddiw,
Er trengu, fyw mewn eilfyd.

2 A'r sawlsy'n byw mewn ufudd gred
I mi, caiff drwyddiad nefod.
Nad allo angeu, brenin braw,
Ddewg iddaw yn dragwyddol.

3 Yn wir, yn wir, medd Gwir ei hun,
Pob cyfryw ddyn sy'n gwrando
Fy nenir, gan greadu'r Tad a'i rhoes,
Mae didrangc einioes ganddo.

4 Yr hwn sy'n hoffi ufuddhau,
Trwy ffydd, i'm geiriau inyfryd,
Ni ddaw i farn, on'd trwodd actu
O'r tragwyn caeth i fywyd.

5 Na fyddwn anobeithiol drist
Am feirw yn Nghrist a hunant ; [ef,
Medd Paul—o'r corph maent gydag
Yn nghartref y gogoniant. E. P.

842. *Y farn.*

M. S.—Capel Cynon. Caersalem.

MAE dydd y farn yn dod ar frys,
Boed hyn yn hysbys i mi,
Pan ostyngl pawb i roi ar g'oedd
O'u holl weithredoedd gyirt.

2 Bydd yno lawer yn sobr mewn
Yn [illegible] yn cyfawn ddedfryd :
Ond a chrochlefain wrth y mynydd,
Bydd hen ac ieuainge hefyd. AN.

843. *Nodd'fa yn angeu.*

M. C.—French. St. George.

PAN deb o angeu yn ei rwysg
I dori f' oll i lawr,
Fy unig noddfa werthfawr fydd
Yn fy Ngwaredwr mawr.

2 Pan dd'offo enwau oll o'r bron,
A fydd, a naim, a thad,
Yr enw hyny'd, unig, fydd
Yr achaw dwrnaeth rad.

3 Fe saif cyfammod pur y nef
Pryd hyny yn ei rym,
Pan fo pob cysur is y nef
Wedi ddianu'n ddim.

4 Y cyfan wedi rhoi ffarwel
A welwyd is y rhod,
Yna fy Iesu fydd y fl'ynd
Anwy af gaed erfoed.

5 O! gad im mewn tangnefedd pur
Roi'm hunedl oer i mes ;
Ac mewn gorfoledd hwylio dros
Y cefn for garw, glas ;

6 A myn'd dan ganu tan'r wlad
Bwrpasswd im i fyw ;
Ac wedi canu 'mhell o'm hol
Gystadlcuu o bob rhyw. W.

844. *Gorphwys yn y bedd.*

M. C.—Martyrdom. Farrant.

MOR ddedwydd yw y rhai, trwy
Sy'n myn'd o blith y byw ; [fydd
Eu hedwau'n perarogli sydd,
A'u hun, mor dawel yw !

2 Ar ol eu holl flinderau dwys,
Gorphwyso maent mewn hedd,
Yn mhell o sŵn y byd a'i bwys,
Heb boen, yn llwch y bedd.

3 Llais un gorthrymydd byth ni ddaw
I'w deffro i wylaw mwy,
Na phroth legaeth lem, na chroes—
Un loes ni theimlant hwy. E. E.

845. *Yn yr eisteddar orsedd ei ogoniant.*

2. 8.—Emyn Luther. Aberdeen.

I'E ddaw
Ar y cymmylau maes o law,
I rai er dyenryn mawr a braw,
Yn mhell uwchlaw dychymyg dyn,
Ac yna barna'r ddaear faith
Yn ol y gwaith a wnaeth pob un.

2 Pob cnaf,
Pob [illegible] y'n fa. a'i gwel,
Yn ol cyfiawnder pur y dcl ;
Fe rydd ei sèl ar blant ei Dad :—
"O! deuwch, fendigedig rai,
Rhow'd, yn ddi-lai, ich deyrnas rad.

3 "Cyn byd
Ammodwyn ; chwi'n eithaf drud
Yn awr [illegible] nwch ni yn fyw'd.
'Dyw hen i nyd ond gwerth ty gwaed :
Cewch, wel'd y gogoneddus fri
Ennillais i, ar law fy Nhad."

4 Fydd mwy
Ddim diwedd i'w llawenydd lawy ;
Eu temtasiynau aethant orwy ;
Gwned marwol glwy' fydd gwraidd
eu gwleidd ;
Trag wyddol gân, heb dewi a son,
I Ddiw a'r Oen am ddwyfol hedd.
[W

846. *Digon yn angeu.*

7. 6. D.—Talybont. Abertawe.

MAE golwg ar byrth angeu
Yn erchyll iawn i mi ;

Mae defroedd yr Iorddonen
Yn ddyfnion ac yn ddu:
Bydd rhodio'r dyffryn tywyll
Yn drwm i'm henaid trist,
A'r ffordd yn dra dyeithr,
Heb gwmni Iesu Grist.

2 Nid oes ond gweled Iesu
Yn gwaedu ar y bryn,
A ffydd i ymaflyd ynddo,
A'm cynnal yn y glyn:
Fe'm gwared rhag ofnogrwydd,
Ac ofnau angeu du;
Fe wna y ffordd yn hyfryd
Oddi yma i'r Gaersalem. AN.

847. *Rhyfeddodau trwy yr adgyfodiad.*

7. 6. D.—Caerllyngoed. Abertawe.

BYDD mynydd o ryfeddodau
Ar doriad boreu wawr,
Pan ddelo plant y tonau
Yn inch o'r cystudd mawr;
Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn dod i'r lan o'r bedd.

2 Daw dydd o brysur bwyso
Ar grefydd cyn bo hir;
Cwr gwaith gan lawer eto heb ei lawnhau,
A phwy sydd heb y gwir:
O Dduw! rho i mi adnabod
Ar f'ysbryd ol dy law,
Can's dyna'r unig ddoiw
Arddelir ddydd a ddaw. AN.

848. *Ail ddyfodiad Crist.*

7. 6. D.—Meirionydd. Missionary.

ER gwaetha'r maen a'r milwyr
Cyfododd Iesu'r fyw;
Daeth yn ei law alluog
A phardwn dynol ryw;
Gwrthodwyd ei ewyllysiau gwaed,
Yn etifeddion nef;
Fy enaid byth na thawed
A chanu iddo ef.

2 Fe'i gwelir ar y cymmanwl
Yn dyfod cyn bo hir,
A'i ddeiliaid wreiddiogion,
Fe wyth ei ddioddefaint mwy:
Bydd gwaedd, llef, a dwygyrn,
Goglwys; Saith, yn un,
Oll yn eu cynau gwynion
Yn moli Mab y dyn. AN.

849. *Adgyfodiad gwell.*

7. 6. D.—Meirionydd. Bremen.

'RW'N ceisio cadw 'ngolwg
Ar hyfryd waed y groes;
Dal f'enaid afael ynddo
Yn nyfnder angeu loes:
Mi lechaf yn y ddaear,
Caiff llwch at lwch i fyn'd:
O angeu! ti gei wyno
Fod Iesu i mi'n Fyngwad.

2 Mi gaf fy nghorph i fyny
Fel fy Arwyddfyd cu,
Heb unrhyw nawyd ysgrechian
I'm dilino fel y bu:
Yn nghanol nyrddi nyrddiynau
Yn hyfryd lawen ddyn,
Yr anwyliaid ydyw cariad,
A chariad i barhau. AN.

850. *Marw, a'i gaulyniadau*

M. B.—Aylesbury. Southwell.

AI marw rhaid i mi,
A rhoi fy nghorph i lawr?
A rhaid i'm henaid ddianc fled
I dragwyddoldeb mawr?

2 Beth ddaw o honof fi
'Rol gaduel dacar lawr?
Tragwyddoldeb ynteu a red ni-dyth,
A fydd fy rhan ryw awr.

3 Dyfreir fy nghrwydd gyda dagrau
Pan seinio udgorn Duw;
Y byd ar dân, a'r nef yn ffoi
Rhag Barnwr meirw a byw.

4 O! am gael treulio f'oes
Er olod i'm Hargluydd mawr,
A rhodio'n isel gyda Duw,
Tra byddwyf ar y llawr. C. W. (*cuf.*

851. *Glan yr Iorddonen.*

6. 5.—Moab.

AR lan Iorddonen ddofn
'Rwy'n oedi'n nychlyd,
Mewn hyn o amser trwy
Ei stormydd enbyd:
O! na bai modd i mi
Ysgoi ei hymchwydd hi,
A hedfan uwch ei lli'
I'r Ganaan hyfryd.

2 Wrth gofio grym y dwr,
A'i thonog genlli',
A'r mawrion rymus ar
A suddodd ynddi,
Mae llawer ar i gwmni
Mai bach fydd ig gyda,
Cyn cyrhaedd tawel lan
Bro y goleuni.

3 Ond pan y gwelwch f'enaid
Ar fynydd Seion,
Yn nghôr hob'lion ein Brenin,
Fy hen wyllion ffoe.
Pa haan yr oll af fry
Y Duw a'n darpar
A'm dyga trwyn dros
Mi dy roedd dyfn

852. *Adyyfodiad y corph.*

6. 4.—Liverpool. Silcah.

NIS gallodd angeu du
Ddal Iesu'n gaeth
Ddim hwy na'r trydydd dydd,
Yn rhydd y daeth;
Ni ddelir un o'i blant,
Er myn'd i bant y bedd;
Fe'u gwelir ger ei fron
Yn llon eu gwedd.

2 Wrth wel'd yr angeu du
Yn nesu'n cawr,
'Rwy'n ofni ambell dro
Wrth gofio'r awr;
Pan gwelwy'r gwaith trwy ffydd
Y trydydd dydd wnaeth Duw,
Mae 'ngobaith yn fwy cry'
Do'i fyny'n fyw.

3 Pan fu fy Arglwydd mawr
Yn llawr y bedd,
Cynnesodd wely i mi
Rhag ceri'm gwedd;
Yn rhydd, ryw ddydd a ddaw
Rhowch fi â'ch llaw'r un lle
'Rwy'n caru, er yn wan,
Y fan bu fe.

4 Er pydew yn newachol bedd,
Yn farwaidd, fud,
Daw Iesu i'm codi'n llon
Ger bron ryw bryd;
A'm llygaid i a'i gwel,
Mae'r gair dan sel yn wir.
Ar newydd ddedwydd ddydd,
Boreuddydd clir.

5 O Dduw! dod i mi ffydd,
Bob dydd o'r daith,
Wel'd Seion yn nesau.
Dros fryniau maith:
Yn ben mae yno'n byw
Fy Iesu, 'n Dduw a dyn,
Fu yma'n wael ei wedd
Mewn bedd ei hun.

6 Dy gwmni i ddwyn y groes,
O! moes i mi;
Er gwaethaf angeu a'i frad,
Ein Tad wyt ti;
Ac er fy rhoi'n y llwch,
Mewn ffwy[illegible] dros ryw bryd,
Ni'm cleddir o i wneud e',
Mewn lle'n y ogof. W. D.

853. *"Diwedd pob peth a nesaodd."*

8. 7. D.—Bavaria. Bohemia.

Y Mae'r hauliwn wedi dlino
Teithio yn yr wybren las;
Dacar drom sy 'mron diffygio
Porthi'r llysiau yn y maes;
[illegible] dau'n gwaeddi "Diwedd!"
[illegible] yn ei ryw,
Sy'n och'neidio am gael gweled
Gwir ddedwyddiad meibion Duw.

2 Y mae'r oriau yn fy ngalw
'N ddyfal beunydd i barhoi;
Tân sy'n dod ar ddiwas distryw,
Tua Soar i mi ffoi:
Arglwydd! 'mafael ynwy'n fuan,
Onid ê ni ddeuaf byth,
Tra bo'r tân yn llosgi Sodom
Yn y bryniau gwnaf fy nyth. W.

854. *Duw yn ddigon yn angeu.*

8. 7. D.—Bavaria. Diniweidrwydd.

O! IACHAWDWR pechaduriaid,
Sydd â'r gallu yn dy law,
Rho oleuni, hwylia'm henaid
Dros y cefnfor garw draw:
Gad i'r wawr fod o fy wyneb,
Rho fy enaid llesg yn rhydd;
Nes i'r haulwen ddisglaer godi,
Tywys fi wrth y seren ddydd.

2 A oes neb o'm hen gyfeillion
A ddaw'n ddiddig gyda mi,
Ac a orwedd wrth fy ochr
Obry yn y ddaear ddu?
A yw cyfaill ddim ond hyny—
Taflu dagrau, newid gwedd,
Pan bo'r pridd, a'r clai, a'r cerys
Arna'i 'n cwympo yn y bedd?

3 O! ynfydrwydd, O! ffolineb,
I mi erioed i roi fy mryd
Ar un tegan, ar un gwrthddrych,
Welais etto yn y byd:
Mae y byd yn myned heibio,
A'i degwanau o bob rhyw;
Dan y nef ni thâl ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw. W.

855. *Crist yn angeu.*

8. 7. D.—Jersey. Eifionydd.

COFIA, f'enaid, cyn it dreulio
D'oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,
P'un a ge'st ti'r trysor drud;
Yn mha ardal bydd fy lletty?
Fath pryd hyny fydd fy ngwedd?
P'un ai llawen, ai cystuddiol,
Fyddaf y tu draw i'r bedd?

2 Pan bo'r llygaid yma'n t'wyllu,
Yn eu pyllau'n llechu i lawr,
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu
A gallueedd angeu mawr:
P'odd dioddefaf y fath gystudd?
Pwy adfera'r golled hyn?
Oni chaf ymguddio yn nghlwyfau
'R Oen fu ar Galfaria fryn?

3 Iesu hawddgar! 'rwy'n dy ddewis;
Nerth i ddilyn ol dy droed,
Yna caiff fy enaid hedeg
I'r hapusrwydd uwch y rhod,

Tra f'om pridd yn ymgymmysgu
Gyda phridd y ddae'r ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddisgleiria
Ranau f'enaid oll i gyd.

4 Wedi'm golchi oddi wrth sorod
Pechod ffiaidd, drwg ei ryw,
Fel drych goleu i dderbyn delw
Holl sancteiddrwydd pur fy Nuw;
Ni raid teithio'r ddaear mwyach,
Yn mhlith pryfed mân y llawr,
Ond disgleirio 'mhlith myrddiynau
Gylch yr orsedd fel y wawr. w.

856. *Duw ei hun yn angeu.*

8. 7. D.—Jersey. Eifionydd.

MAE 'r amalwch wedi 'mlino,
Chwant sydd arnaf wel'd y tir
Roddwyd i mi gan fy Arglwydd
Cadarn mewn addewid wir:
Gwlad o oleuni heb dywyllwch,
Gwlad o gariad heb ddim trai;
Gwlad heb hawddfyd na phleserau
Ond yn unig ei fwynhau.

2 P'odd yr af fi trwy'r Iorddonen
Oni ddeui di dy hun
Yno i dori grym y tonau,
Ac i sefyll wrth fy nghlun?
Dal fy mhen i'r lan yn gadarn
Pan bo angeu'n fawr ei rym;
Pledla'n ëon yn ei wyneb
Pan na bwyf yn gallu dim.

3 Dacw'r un sydd â thosturi,
Ef fu'n hongian ar y groes,
Ef fu'n griddfan dan dywyllwch—
T'wyllwch dudew fel y nos;
Mil o boenau wasgodd arno,
Etto darfu iddo'u dwyn;
Aeth i garchar dan law angeu
Ran o dridiau er fy mwyn.

4 On' chaf fywyd ynddo'i hunan,
Darfu im obeithio mwy;
Nid oes dim ond a wnaed ei galon
All yn unig wella'm clwy';
Mawr yw'm poen heb ei gwmpeini,
Mwy dymunol yw na'r byd;
Rhosyn Saron yw f'Anwylyd,
'Does ond tegwch ynddo i gyd. w.

857. *Tragwyddoldeb.*

8. 7. D.—Eifionydd. Trefaldwyn.

DYMA'r byd y mae taranau,
Mellt, a chenllysg, daear gryn;
Yn y wlad rwy'n myned iddi
Nis caf weled yno'r un;
Mynych ceir cystuddiau yma,
Bhagluniaethau chwerwon iawn,
Ond ar ol y llafn yn gyno
O foreuddydd hyd brydnawn.

2 Disgwyl pethau gwych i ddyfod,
Oroes i hyny macnt yn dod;
Meddwl 'fory daw gorfoledd,
'Fory'r tristwch mwya' erioed;
Meddwl byw, ac etto marw,
Yw'r lleferydd dan fy mron:
Bob yn ronyn, mi rof ffarwel—
Ffarwel glân i'r ddaear hon.

3 Trof fy llygaid oddi amgylch,
Pele caf bleser dan yr haul?
Os a' i garu un creadur
Megys pe na b'ai ei ail,
Hwnw'n fuan ddiango arnaf,
Neu myfi oddi arno ef:
Ni chaf bleser a gydgerddo
A mi'n unlle dan y nef.

4 Tragwyddoldeb! mawr yw d'enw,
Ti mae'n ddiau yw fy lle;
Huriwr un diwrnod ydwyf,
Fry mae'm cartref yn y nef:
Mae'm diwrnod bron a gorphen,
Mae fy haul bron myn'd i lawr;
Mae pob awel yn fy chwythu
Tua'r tragwyddoldeb mawr.

5 'Rwyf yn foddlawn iawn i ymadel,
Trefna'r awr, a threfna'r man,
Ond yn ymchwydd yr Iorddonen
Dal fy ysbryd llesg i'r lan;
N'ad fi soddi yn y tonau
Pan bo angeu'n fawr ei rym,
'Mafael ynof yn dy freichiau,
Na'd i'm henaid ofni dim.

6 P'am'r ymafael tristwch ynof
Wrth fyfyrio am ado'r byd?
Pechod a chystuddiau duon
Welais ynddo oll i gyd;
Ni ddaeth hanner fy nisgwyliad
Yma etto erioed i ben;
O! na wnaethwn yn foreuach
Fy nghartrefle uwch y nen

7 Mae 'nghyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mlaen,
Rhai fu'n myn'd trwy ddyffryn Baca:
Gyda mi tua Salem lân:
Yn y dyffryn tywyll, garw,
Fiydd i'r lan a'u daliodd hwy:
Mae'r addewid lawn i minnau,
Pam yr ofna'm henaid mwy? w.

858. *Gorfoledd y creadigaeth yn Nuw.*

8. 7. D.—Jersey Diniweidrwydd

O! ANFEIDROL ryw'n y cariad,
Anorchfygol ydyw'r gras;
Dizyfnewid yw'r addewid,
Bery byth o hyn i maes;
Hon yw'm hangor ar y cefnfor,
Na chyfnewid meddwl Duw;
Fe addawodd na chawn farw,
Yn nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

2 Yn y dyfroedd mawr a'r tonau,
Nid oes neb a ddeil fy mhen

Ond fy anwyl Briod Iesu,
A m[illegible]r y [illegible]:
Cyfaill yw yn afon angeu,
Ddoil fy [illegible] i [illegible] don:
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon. D. W.

859. *Ffyrdd yn gorch[illegible] yn angeu.*

8. 7. D.—Tyddewi. Dismission.

NID wy'n ofni tir y bywyd,
[illegible] yw;
Ond 'rwy'n ofni yr agendor
Fawr sydd rhwng y marw a'r byw:
Angeu dwfn yw'r Iorddouen
Wyf o hyd yn ofni ei brad;
Tonau y'nt sydd raid myn'd trwy-
Maes o'r byd i dŷ fy Nhad. [ddynt,

2 Mi anturiaf, rhaid yw cynnyg,
Nofio tonau, er maint eu grym,
Na fum etto, er y'm ganwyd
Mewn fath donau mawrion ddim:
Gallu'r nefoedd fawr ei hunan
Ddeil fy enaid llesg i'r lan;
Gras yn marw ar Galfaria
Ydyw noddfa'm hysbryd gwan.

3 O bob enw yn mhlith dynion,
Dyna'r enw goreu i gyd—
Duw dan hoelion ar y croesbren,
Yno'n marw dros y byd;
Gwaed yn llifo ar Galfaria,
Môr o haeddiant, môr o hedd,
Od oes dim a saif i fyny,
Saif yn erbyn angeu a'r bedd.

4 Ofni'r wyf, ac etto canu,
Canu wrth feddwl am y dydd,
Dan ymdrechu âg angeu creulon,
'Ê â pob cadwyn gref yn rhydd,
Cyll pleseurau'n lân eu gafael
Os bydd angeu'n gongcrwr mawr,
Os y [illegible] f[illegible]th,
Fe gwymp pechod yntau i lawr.

5 Cyll y pechod hwnw 'i afael
Fynai f'ysbryd dan ei droed,
Hwnw barodd i mi riddfan
Lawer cant o weithiau 'rioed;
Diwedd caru unrhyw bleser,
Dechreu hyfryd haf o hedd,
[illegible]
Ac yn chwerthin ar y bedd. W.

860. *Afon angeu.*

8. 7. D.—Jersey. Bohemia.

'[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]
Nid wyf fi yn [illegible]
Ond y gwaelaf, lesgaf ddyn.

2 O! fy enaid gwan, nac ofna,
Nid congcwerio unrhyw fai,
Na chongcwerio cant o feiau,
Rwystra'm hysbryd lwfrhau;
Gwel'd y gras sydd yn yr Iesu—
Môr d[illegible]
Yn nyfnderoedd angeu creulon,
Ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.

3 Cant o weithiau, ol a gwrthol,
Y dilynais i fy mai;
Pechu cyn adnabod [illegible]
Pechu wedi edifarhau;
Dacw'r graig rhaid im ymddiried,
Dacw'r lloches, dacw'r fan,
Yn [illegible]
Arall ddim nis deil fi i'r lan.

4 Ffarwel i chwi gynt a gerais, [gwedd,
Nid yw'ch cwmni, nid yw'ch
Nid yw'r cariad sy'n eich calon
Ragor na dod hyd y bedd;
[illegible]
Da i mi fod genyf Dduw;
Ffrynd fo gydaf wedi marw,
Hwnw garaf fi yn fyw. W.

861. *Croesi yr Iorddonen.*

8. 7.—Lousanne.

ENAILL eu, rhag dyfrodd oerion
Yr Iorddonen ddofn ger llaw,
Etto, gwel, mae'r ddinas sanctaidd
Ar y lan yr ochr draw.

2 Yno mae dy hen gyfeillion,
Wedi diange uwch pob clwy,'
Yn dy aros, er cael cyfran
O'u dedwyddyd hyfryd hwy.

3 Paid ag ofni, ber yw'r fordaith,
Ac mae'r Archoffeiriad cu
Yn dy aros yn y dyfroedd,
Er dy ddwyn i'r ddinas fry.

4 Clyw seraphaidd seiniau'n hedfan
Draw o frodir Seion fryn;
Gwel ei heuraidd byrth yn agor,
Drwy y niwl sy'n toi y glyn.

5 Ffarwel fyd, a ffarwel deithio
Yn yr anial dyrys mwy;
Ffarwel gnawd, a ffarwel lygredd,
Ffarwel boen, a phob rhyw gŵy'.

6 Mae'r tywyllwch yn gwasgaru,
A'r goleuni yn cryfhau;
'Nawr 'rwy'n gwel'd y pur drigfanau;
Hed, fy enaid, i'w mwynhau. E.E.

862. *Cydymaith yn y glyn.*

8. 7. 4.—St. Peter

D[illegible]YDD i mi deithio'r ddaear,
Tragwyddoldeb sydd ger llaw;
Ni chaf aros, ni chaf orphwys,
Nes im fyn'd i'r ochr draw:
O! Iachawdwr,
Paid a'm gadael yn y glyn.

2 Pan fo dyfroedd oer marwolaeth
O fy amgylch yn crynhoi,
Pwy a ddeil fy mhen i fyny?
Pwy a wna i'm hofnau lofi?
Neb ond Iesu:
Gwenaf yno yn ei law. AN.

863. *Dydd y farn.*

8. 7. 4.—Frankfort. Eli.

WELE'n dyfod ar y cwmmwl,
Mawr yw'r enw sy iddo'n awr;
Ar ei glun ac ar ei forddwyd
Ysgrifenwyd ef i lawr:
Haleluwia!
Groesaw, groesaw, addfwyn Oen.

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
O gwmpeini hardd eu gwedd,
Welaf draw yn codi i fyny
I'w gyfarfod ef o'r bedd;
Darfu galar;
Dyma iachawdwriaeth lawn.

3 Nid oes yno gofio beiau,
Dim ond llawn faddeuant rhad,
Poenau'r groes, a grym y cariad,
A rhinweddau maith y gwaed;
Darfu ofn;
Daeth llawenydd yn ei le.

4 "De'wch yn mlaen, a dewch yn eofn,
Fendigedig blant fy Nhad;
De'wch, meddiennwch yr ardaloedd
Brynwyd i chwi â fy ngwaed;
De'wch yn llawen;
Rhodd yw hon cyn seilio'r byd.

5 Buoch gyda mi yn fy ngofid,
Gyda mi yn fy mhoenau i gyd;
Buoch yn gyfeillion ffyddlon
I'm gwaradwydd yn y byd:
Yfwch bellach
Loyw win yn nhŷ fy Nhad." W.

864. *Hyder yn yr olwg ar yr ochr draw.*

8. 7. 3.—Moldavia. Holstein.

'RWYF fi heddyw'n teimlo undeb
A rhai sydd yn lludw mân,
Mwy na'r rhai wy'n wel'd yn hedeg
Ar asennau rhos yn mlaen;
Yr un wedd, yn y bedd,
Caf fod gyda hwynt mewn hedd.

2 Dros ryw ddyddiau byr dibleser
Des i'r ddaear i gael lle,
Dyddiau i'm temtio a'm haddfedu
I drigfanau pur y ne';
Gwynfyd ddaw, maes o law,
Ar y bryniau'r ochr draw.

3 Dacw gariad fel yr afon,
Dacw heddwch fel y llif,
Wedi i'm brodyr gael ei feddu—
Brodyr anwyl fwy na rhif;
Gyda hwy caiff fod mwy,
F'enaid, heb na braw na chlwy'.

4 Angeu, bellach gwna dy waethaf,
Nid yw'th ddychrynfeydd ddim;
Mwy o hedd sy 'mhen Calfaria
Nag sydd yn dy sacrifau o rym:
Mi af trwy farwol glwy'
'N erbyn tonau mawrion mwy. W.

865. *Angeu heb ei golyn.*

9. 8.—Bethel.

O! ANGEU, pa le mae dy golyn?
O! uffern, ti gollaist y dydd!
Y Baban a anwyd yn Methle'm
Orchfygodd bob gelyn y sydd;
Ni raid i blant Seion ddim ofni
Myn'd adref dan ganu tua'u gwlad
Eu hoedd sydd yn rhydd tuag yno.
A hono gyssegrwyd â gwaed. AN.

866. *Tynu tua'r afon.*

8. 8.—Salome.

'RWY'n tynu tuag ochr y dwr,
Bron gadael yr anial yn lân;
Mi glywais am gongcwest y Gŵr
A ryddiodd yr afon o'm blaen;
Fe dreiglodd y maen oedd dan sel,
Fe gododd, y Cadarn, i'r lan;
Mi caraf ef, deued a ddêl;
Mae gobaith i'r truan a'r gwan. AN.

Y NEFOEDD.

867. *Y wlad well.*

10an.—Clod. Coburg.

GWLAD dda, heb wae, gwlad wedi
ei rhoi dan sel,
Lifeirio mae ei ffrwyth o laeth a mêl;
Grawn sypiau gwiw i'r anial dir sy'n
dod;
Cwlad n fel yw, nwch law mynegi ei
chlod. A. G.

868. *Yr un teulyn.*

10au.—Clod. Coburg.

Mi welaf wlad nwch lyd, a llawer
gwell, [mhell;
Cartrefle'r saint, tu hwnt i'r sêr yn
Gwlad gwynfyd llawn, preswylfa Duw
a'r Oen;
Ni ddaw i hon na phechod, bai, na
phoen. AN.

869. *Mysyrd a ar ogoniant y nefoedd.*

M. H.—Boston. Sarum.

FY mysyrd dau'n felus sy
Wrth gofio'r dorf sy'n moli fry;
Pob un yn ddisgleiriaf yn ei le
'N rhaseri ar sŵn yn entrych ne'.

2 Fel y rhagora'r perlau drud
Ar laid a sorod sy yn y byd;
Mil mwy rhagoriaeth sy'n eu gwedd
Na phac yn byw tu yma i'r bedd.

3 Yr hen a'r ieuanc ddyddia maes o law
Wrth weled y rhai'n y dydd a ddaw:
Y meudduir lloer, mi 'madenzys enwy,
Gan lewyrch eu disgleirdeb hwy.

4 Mae yno heddyw rai yn iach
Rodd ffarwel in dros ronyn bach;
Yn ddistaw iawn diangasant hwy
I'r Sabbath fry sy heb ddiwedd mwy.

5 Aethant i maes o'r cystudd mawr,
Eu gofid oll a ddarfu 'nawr;
Maent heddyw'n canu—canant byth,
Heb swn pechadur yn eu plith. W.

870. Rhan II.

M. H.—Boston. Sarum.

HWY gawsent wel'd—O! gwyn eu byd! [byd!
Y pererinion yno i gyd,
Oedd wedi bod mewn dwr a thân,
A myn'd trwy'r pyrth i mewn o'u blaen.

2 Rhai wedi myn'd i ben ei taith
Er's miloedd o flynyddau maith,
Ac etto i'r Iesu'n canu clod
Mor felus a'r awr gynta' erioed.

3 Bu tafod wedi ei ddysgu sy
Yn holl ganiadau'r nefoedd fry;
A'u bysedd yn gyfarwydd cair
I chwareu ar y delyn aur.

4 Disgwyl y maent bob munyd awr
Am wel'd yr adgyfodiad mawr,
I'w cyrph sy'n gorwedd yn y bedd
Gael rhan o'r briodasol wledd. w.

871. *Cymdeithas y nefoedd.*

M. H.—Beza. Tegid.

O ARGLWYDD! dyna'm serch a'm bryd
Ar y gwrthddrychau sy uwch y byd:
Trysorau hyfryd can mil gwell
Cuddiedig draw ar fryniau pell.

2 Draw mae ein Iesu mawr a'n Duw,
A brodyr fyrddiwn i ni'n byw;
Oes, mae rhai yno'n moli o hyd
Fu'n teithio gyda ni yn y byd.

3 Dringasant bawy i bet eu taith,
Gorphen'sant ar eu llafur waith;
Gwyn fyd na fawn i yno byth
Yn moli'n hunedd yn eu plith.

4 Wel, gyn bo hir ni ddown ynghyd,
O enau'r pe'r war cwr y byd,
O'r eogledd, de, a'r dwyrain hell,
I gael mwynhau cymdeithas well.

5 Yno y derfydd poen a gwae,
A holl gystuddiau'r duwiol rai;
Caiff yr holl ethmadig ryw
Wyneb yn wyneb weled Duw. w.

872. *Gwledd oedd cartref.*

M. H.—Lancaster. Sebastian.

WEL, f'enaid, bod yn mhen o hyd,
Yn mhell, yn mhell oddi ar y byd,
I'r gwledydde sydd heb wae na phoen,
Ond canu cariad addfwyn Oen.

2 Lle'r eistedd seintiau yn gyttûn,
I'un en gwmpas lliw'n eu hun,
A'r pechu wae yn dawelu i lawr,
Yn lloni eu hysbryd bob yr awr.

3 O! wleddoedd hyfryd eu mwynhâd
Mor hyfryd eilwaith eu parhâd;
Gwleddoedd na wyr y byd eu dawn,
Gânt loni'm henaid foreu a nawn. w.

873. *Y saint ynghyd.*

M. H.—Caernarfon. Lancaster.

O! HYFRYD foreu, hyfryd awr—
Tywyniad tragwyddoldeb mawr,
Pan yr agoro'r beddau pridd,
I roddi seintiau Duw yn rhydd.

2 Wel, dyna'r awr, a thyna'r pryd,
Ceir gwel'd 'tifeddion nef ynghyd,
Yn dechreu taith o'u carchar caeth:
Tua'r wlad sy'n llifo o fêl a llaeth.

3 Y fan bydd terfyn ar bob gwae,
A dechreu'n hir i lawenhau;
Yn nhemi Dduw eu cartref fydd,
Yn ei was'naethu nos a dydd.

4 Yr Oen sydd ar ei orsedd fawr
Bugeilia hwynt bob munyd awr;
Fe'u harwain at ffynnonau clir
O ddyfroedd bywiol, dwyfol, pur.

5 Fe sycha'i hun bob deigryn mân
Oddi wrth eu llygaid hwynt yn lân;
Marwolaeth, tristwch, ing, a phoen,
Fyth fythol ffy o gwmni'r Oen. W.

874. *Dedwyddwch y Cristion.*

M. H.—Lledrod. Winchester.

FY sych y sêr i lawr o'r nen, [ben,
Pe d'wylla'r bydoedd mawr uwch
Fe sych y môr;
Bydd f'Arglwydd Ior yr un o byd.

2 Bydd gwraig yr Oen y boreu hwn
Yn canu'n iach, heb boen na phwn,
Ar ddeheu law
Ei phriod draw, heb farw byth.

3 Ceir gwel'd y dyrfa ddisglaer fawr,
Rifedi gwlith y boreu wawr,

Heb friw na phoen,
Yn canu i'r Oen y newydd gân.

6 O! gwyn eu byd y dyrfa fawr,
Yn iach a hedodd uwch y llawr;
Marwolaeth mwy
Ni chwrdd â hwy sydd fry mewn
hedd. M. B.

875. "*Amseroedd i orphwys.*"

8.8.8.—Rhosyn Saron. Nazareth.

MAE dydd at ddydd yn dod i ben
A'm taith draflerthus is y nen;
Fe ddirwyn amser at y nôd:
Ac yna 'mhechod a gaiff friw,
A thyna'r pryd congcwera'm Duw
Bob rhyw ffeidd-dra ynwy' 'rioed.

2 O! ddedwydd, nefol, hyfryd awr,
Caf roddi 'meichiau trwm i lawr,
Ag sy'n fy mlino foreu a nawn;
A myn'd i wlad lle nad oes bai,
Ond cariad perffaith i barhau—
Llawenydd pur a heddwch llawn.

3 'Rwyf bron a gorfoleddu'n awr
Wrth feddwl daw fy meinu i lawr,
A bod y dydd yn agoshau;
Dydd o orphwysdra perffaith yw
I'r neb sy'n blino'i gurio'n friw [gwae.
Gan nerth trachwantau, a phob

4 Wel, tyred, ddedwydd, hyfryd ddydd,
Rho fy nghladwynau tyn yn rhydd,
Gad i mi brofi'th hyfryd wledd;
Lladd anghredininaeth, sydd yn awr
Yn curo f'enaid bach i lawr,
Ac ymaith tyn holl ofnau'r bedd. w.

876. "*Cystudd a galar a ffy ymaith.*"

8.8.—Llangoedmor. Nazareth.

MI welaf fyrdd yr ochr draw
O rai 'mafiasant yn ei law,
Yn canu heddyw'n beraidd iawn;
Mae ofnau'n darfod yn y wlad
Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhad,
Ac yn eu lle lawenydd llawn.

2 O! hyfryd, ddedwydd, nefol le,
Gwyn fyd pob rhai sydd ynddo fe—
Y ddinas ddisglaer, nefol, glir;
Y man na fu, y man nad oes,
Na phoen, nac ing, na gwae, na loes,
Ond heddwch llawn a chariad pur.
w.

877. *Dedwyddwch y nefoedd.*

M. s.—Dyfrdwy. Elizabeth.

O! FUGAIL Israel, dwg fi 'mlaen,
I'r dawel lân orphwysfa,
I'th nefol lys, o'm poen a'm pla,
I ganu Aleluwia.

2 I Seion wych, Paradwys wiw,
Lle mae fy Nuw'n cartrefu,
Gael rhoddi 'mhwys, a chuddio
Yn mynwes wen yr Iesu. ['mhen

3 Myfyrio fod fy hyfryd le,
O fewn i'r no', yn bared,
Sy'n gwneyd i'm henaid cu bob cam
Hiraethu am ymddattod.

4 Ar aden cerub, af yn hy'
Trwy ganol llu'r gelynion,
Nes dod yn llwyr, er gwaetha'r llid,
I hyfryd fynydd Seion. w.

878. *Tyrfa y gwaredigion.*

M. C.—Ballerma. Farrant.

MI welaf dyrfa draw o'm blaen,
Yn canu ar ben eu taith,
Ac wedi gorphen d'rysu ar hyd
Yr anial garw, maith.

2 'Nol cyfeiliorni ar y dde,
Ac ar yr aswy law,
Heb un cyfeiliorn, maent yn awr,
Yn canu'n beraidd draw.

3 Fe ddarfu eu rhyfel, er ei rym,
Fe ddarfu eu poen a'u gwae;
Ac maent yn yfed heddyw o'r wledd
Dragwyddol sy'n parhau.

4 'Da un o'r nwydau i mewn i'r nef
A'u blinodd yn y byd;
Tragwyddol gariad fel y môr
Sy'n llanw yno i gyd.

5 Pob parch a haeddiant, gras a dawn
Pob enw oll o ddyn,
Sydd yno'n hollol suddo i lawr
Yn Iesu mawr ei hun.

6 Mae Iesu ei hun yn awr yn fwy
Na'r cwbl is y nef;
A'u holl ddifyrwch byth a byth
Yw edrych arno ef. w.

879. RHAN II.

M. C.—Farrant. Ballerma

'DOES un genfigen'ddaw i blith
Y dyrfa hyfryd fry;
Na dim ond nefol faith fwynhau
O gariad Iesu cu.

2 Maent wedi anghofio'r groes a'r gwae,
A thristwch amial dir;
Ac heddyw'n yfed cariad rhad,
Fel dwfr gloyw, pur.

3 Dod ynwyf hiraeth, Iesu mwyn,
Am y dragwyddol wledd;
A rho i mi brofi yma flas
Pleserau draw i'r bedd. w.

880. *Y pererinion ar ben eu taith*

M. C.—Tallis. Tiverton.

MAE pererinion draw o'm blaen,
Yn canu'r anthem bur,
Ac heddyw'n edrych fel o bell,
Ar dd'rysni'r diffaeth dir.

2 Maent hwy'n rhyfeddu'r dwyfol ras
A'u nerthodd ar eu taith;
A chanu cariad addfwyn Oen
Ffyddlonaf yw eu gwaith.

3 O! nertha finnau i edrych draw,
Heb wyro o un tu,
Nes i mi gyrhaedd mewn i byrth
Caersalem nowydd fry.

4 Rho'r delyn euraidd yn ein llaw,
Ac yn ein hysbryd dân,
Ac yn mheryglon anial dir
Erfyniau pur a chân.

5 Ni awn fel hyn yn ngwres y nef,
Fel un lliosog lu,
Trwy demtasiynau heb ddim rhif,
I mewn i'r nefoedd fry. W.

881. *Gorphwys yn y nef.*

M. C.—Ballerma. Farrant

MAE'n hyfryd meddwl ambell dro,
Wrth deithio anial le,
Ar ol ein holl flinderau dwys,
Cawn orphwys yn y ne'.

2 Pan ar ddiffygio gan y daith,
A lludded maith y lle,
Mor hoff yw gwybod—wedi hyn
Cawn orphwys yn y ne'.

3 'Nol teimlo archoll llawer saeth,
A phrofedigaeth gref,
A dioddef gwres y dydd, a'i bwys,
Cawn orphwys yn y nef.

4 Mae'n gysur meddwl, pan fo'n dod
Len dros ei wyddfod ef,
Yn cynnal ei dragwyddol bwys,
Cawn orphwys yn y nef.

5 Er colli ein cyfeillion hoff
Yn yr Iorddonen gref,
Mae'n felys meddwl—etto 'nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef.

6 Cymhwyser ni drwy'r Ysbryd Glân,
A'i rasol ddoniau ef,
Nes delom fel twysenau llawn,
Yn addfed iawn i'r nef. E. E.

882. *Undeb y gwaredigion.*

M. C.—Ballerma. Martyrdom.

MAE brodyr i mi aeth yn mlaen
Yn holliach a chyttûn;
Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un.

2 Mae pawb o'r brodyr yno'n un,
Heb neb yn tynu'n groes;
Yn moli'r Duwdod yn y dyn,
A chofio'i angeu loes.

3 Ni theimlir yno unrhyw boen,
Na chwyno gan un clwy';
Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen
I dragwyddoldeb mwy.

4 Daw'r holl dduwiolion yno 'nghyd,
O'r gogledd, de, heb ri',
A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,
A'u cân am Galfari. D. M.

883. *Golwg ar y wlad well.*

M. C.—St. Stephen. St. Leonard.

WEL, cyfod, f'enaid, gwel y wlad
Mae'n awr yn agoshau;
Dy etifeddiaeth hyfryd rad,
Lle nad oes poen na gwae.

2 Ymddangos mae yr hyfryd dir,
Tu draw i'r byd a'r bedd,
Lle mae'n cyfeillion oll yn bur,
Mewn hawddfyd, ac mewn hedd.

3 Wel, dacw'r wlad caf cyn bo hir
Fod ynddi byth yn byw;
Lle trig cyfiawnder dwyfol, pur,
Yn sanctaidd wyddfod Duw.

4 O! brysia, f'enaid, dos yn mlaen,
Ymddiried yn dy Dduw;
Nes dod yn iach, trwy ddwr a thân,
Yn dawel ato i fyw. D. J.

884. *Dydd rhyddid y ddyweddi.*

2. 8.—Emyn Luther. Aberdeen.

BRYDNAWN,
Ar y ddedwyddaf awr a gawn,
Y talodd Iesu'n eithaf llawn,
Y dwyfol lawn i'm hanwyl Dad;
Palmentodd ffordd o Galfari
I'r nefoedd fry, trwy rin ei waed.

2 Mae'n awr
Yn eistedd ar yr orsedd fawr,
Yn Arglwydd uffern, nef, a llawr,
Hyd foreu wawr adgodiad dydd,
Pan gollwng ei ddyweddi ddrud.
O lwch y byd, yn berffaith rydd.

3 Fydd son
Am alar, griddfan, gwae na phoen
Yn nghwmni'r addfwyn anwyl Oen,
O fewn i Seion sanctaidd fry;
Ond yfed dyfroedd dwyfol flas
Darddodd i maes o Galfari. W.

885. *"Yr hyfryd dir bwrcasodd ef."*

2. 8.—Bethesda. Dorcas.

YN awr, [lawr,
Sancteiddiol Ysbryd, tyr'd i
Disgleiria hyfryd foreu wawr—
Goleuni mawr o entrych nef;
Fel delo'm henaid wel'd yn glir
Yr hyfryd dir bwrcasodd ef.

2 'Does fan
O'r ddaear foddia'm henaid gwan;
Diangodd rhwng y sêr i'r lan,
I 'mofyn rhan sydd uwch yr haul;
Yn mynwes f'Arglwydd mawr y mae
Gwledd i barhau, nad oes o'i hail.

3 Y awel
Sydd yno, mae o nefol ri-
I nerthu'm henaid pan yn ffin,
Gan groesau sy'n fy nghuro o hyd:
Wrth yfed hwn, myfi af trwy
Gystuddiau mwy nag wyr y byd. w.

886. *Canu am rad ras.*

2. 8.—Bethesda. Braint.

BYDD, bydd, [ddydd.
Rhyw ganu peraidd rawn ryw
Pan ddelo'r caethion oll yn rhydd;
Fe droir eu ffydd yn olwg fry;
Cydunant byth, heb dewi a son,
I foli'r Oen fu ar Galfari.

2 Ond gwledd
Sydd etto'n bod tu draw i'r bedd.
Dros byth i'w chael i'r gwael eu gwedd;
Lle bydd caniadau maith di-ri',
I bara beunydd yn ddiboen,
Gan foli'r Oen fu ar Galfari.

3 Rhad ras,
Yw'r newydd gân bereiddia'i blas
Fu 'rioed ar wyneb daear las;
Hi ddeil ei blâs pan losgo'r byd,
A berwi o'r môr, a'i donau'n dân,
Y nefol gân fydd gras i gyd. AN.

887. *Dedwyddwch y trigfanau nefol.*

2. 8.—Aberdeen. Luther.

MAE, mae,
Yr amser hyfryd yn nesau,
Pan gaffo f'enaid ei ryddhau,
O'm tŷ o glai, fyn'd tua'm gwlad;
Nid yma mae 'ngorphwysfa i;
Mae hono fry yn nhŷ fy Nhad.

2 Bob dydd,
Fy nhabernacl brau o bridd
O'i sylfaen yn adfeilio sydd;
Nid ydyw amser hwn yn mhell:
O! f'enaid, cofia hyn bob cam,
A meddwl am adeilad well.

3 Fry, fry,
Uwch awyr las, a'i disglaer lu,
Mae holl hyfrydwch f'enaid i gyd,
'Does dim daioni yma i'w gael:
'Rwyf wedi gwel'd a phrofi'r byd;
'Does yndda i gyd ond gwagedd gwael.

4 Parhau
Mae cariad Duw i'w anwyl rai;
Hwy gânt yn wastad ei fwynhau,
Heb achwyn trai yr ochr draw:
O! na bawn gydag ef yn byw!
Fy Mhriod yw! pa bryd y daw?

5 Daw, daw,
Fy anwyl Iesu maes o law,
I'm cyrchu drwodd i'r wlad draw,
I'r bywyd distaw, pur, di-boen;
Caf ganu'n llawen gyda'r llu,
Gân Moses fry, a chân yr Oen. D.J.

888. *Lawenydd yn nwyneb angeu.*

7. 6. D.—Tan y llyn. Manheim.

YMAFAW mae'r [ddydd
A 'Rwy'n trigo ynddi'n awr;
Colofnau'r tŷ sydd [ddir
Fe'n ewyllysir o'i [dawr;
A pob gwahan-glwyf ymai [ddydd
Glân [ddatodedig [wy:
'Rwy'n canu wrth gofio'r [groes
Na welir arnaf glwy'.

2 Ar fyr caf rodio llwybr
Na ddeuaf byth yn ol;
Mi rof ffarwel tragwyddol
I'r holl forwynion ffol;
Dedwyddwch maith di-ddarfod
Sydd uchod i barhau:
O! f'enaid, dechreu ganu,
Mae'r amser yn nesau.

3 Fe dderfydd i mi bechu,
Iacheir yn lân fy nghilwy',
Ond byth ni dderfydd canu
Am faddeu pechod mwy:
Caf gorph yr hen farwolaeth
I lawr, ni chyfyd byth,
A gwledd ar fyngyad [ddydd
Dragwyddol, bur, ddilyth. M. R.

889. *Cysson fwynhâd o Dduw tu draw i angeu.*

7. 6. D.—Jabes.

WYF yma dan y tonau,
Yn griddfan lawer awr,
Yn methu cadw 'ngolwg
Ar y Messiah mawr;
Fe ddaw y dydd caf nofio,
O fewn i'w dawel hedd;
Nas colla'i ngolwg arno,
Yr ochr draw i'r bedd. J. T.

890. *Gweled Iesu yn y nefoedd.*

7. 6. D.—Manheim. Syria.

BYDD gwel'd gogoniant Iesu,
A chofio'r manau bu,
Yn ennyn cân o newydd
Trwy'r holl nefoloidd lu:
Ei wel'd, a chofio Bethle'm,
A'i eni yno'n dlawd—
Rhyfeddod nef y nefoedd
Fydd gweled Duw mewn cnawd.

2 Ei wel'd, a chofio'r ewpan
Yn Gethsemane ardd;
Ei [ddeigryn dael o [ddafon
Oll yn ei wisg yn [ddwfr;
Ei wel'd, a'i hob elynion
Yn droedfainge dan ei draed.
Ei wel'd, a chofio'n goiehi
O'n beiau yn ei waed;

3 Ei wel'd, a chofio'r gofyn
Yn y feichniaeth fawr,
Wrth fyn'd i'r ddeddf yn ddiwedd,
Rhoi 'i fywyd glân i lawr;
Myn'd dan ei holl felldithion,
A diodde'i dig yn llawn,
Heb ryddid o'i gafaelion
Nes llenwi'r nef âg lawn.

4 Ei wel'd, a chofio 'i daro
A miniog gledd ei Dad,
A thywallt i farwolaeth
Ei enaid dros ei hâd;
Pa fodd na bydd yr olwg
Ar Brynwr euog ddyn,
Yn ennyn cân a syndod
Trwy'r nefoedd fawr ei hun? R. O.

891. *Gorphwysfa y saint.*

7. 8.—Hosannah. Penllwyn.

Y TIR dymunol pernaid,
Yr arwad hy fyd cyrhaedd,
Ag oedd yn mhell yn sefyll draw,
A ddaeth ger llaw o'r diwedd;
Er lludded, ac er blino,
Na fydded in' ddiffygio,
Yr ym yn nesnes, awn ar frys
I mewn i'r llys yn gryno.

2 Cawn orphwys yn ddiangol
O'n temtasiynau'n hollol,
Mewn nwith dragwyddol pur, di-drai.
Sydd yn parhau'n dragwyddol;
A hyfryd ymddiddyru
Yn ein Hanwylyd, Iesu,
A threulio Sabbath melus, gwiw,
Tragwyddol, i'w foliannu. W.

892. *Diwedd y daith.*

6. 8.—Gwladys. Normandy.

DAW diwedd ar fy nhaith,
A'm pererindod trist;
Gorphena'm llafur waith,
Caf orphwys gyda'm Crist:
O fewn ei gôl y gwnaf fy nyth,
Ddychwelaf byth i'r byd yn ol.

2 Fe dderfydd mwyach sôn
Am alar, tristwch, gwae,
Y pechod cas, a'r poen,
I flino'r duwiol rai:
O! hyfryd waith fydd moli'm Nêr
Uwch law y sêr i oesoedd maith.

3 Caf wel'd fy anwyl Dad
F'arweiniodd ar fy nhaith,
A'm cuedd i yn rhad
O dragwyddoldeb maith;
A'r an wyl Oen, fu drosof fi
Ar Galfari mewn dirfawr boen. W.

893. *Hiraeth am y nef.*

6. 8.—Ramoth. Gwladys.

CAERSALEM, dinas hedd,
O! na bawn yno'n byw;
O hyd cawn weled gwedd,
A llewyrch wyneb Duw:
Mae weithiau'n dywyll arna'i 'n awr,
Fy haul nid â byth yno i lawr.

2 Yn Nuw ymddiried 'rwyf
Wrth deithio'r llwybr cul;
Fe'm dygodd eisoes trwy
Do, gyfyngderau fil;
Hyderus etto wyf trwy ffydd
Yn nerth fy Nuw caf gario'r dydd.

3 Caf wel'd f'Anwylyd cu
Pan elwyf draw i dre',
Yr hwn o'i gariad fu
Yn dioddef yn fy lle;
Caf wel'd yr Iesu—digon yw;
Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw. D. J.

894. *Pen y daith.*

6. 8.—Alun. Gwladys.

MAE lluoedd maith yn mlaen,
'Nawr o'u carcharau'n rhydd,
A gorfoleddu maent
Oll wedi cario'r dydd:
I'r lan, i'r lan diangasant hwy,
Yn ol eu traed y sangwn mwy.

2 Gadawn y byd ar ol,
Y byd y cawsom wae,
Y byd ag sydd bob dydd
Yn ceisio'n llwfrhau:
Ni welwn wlad rhwng ser y nef
Sydd fil o weithiau'n well nag ef.

3 A fodd 'tifeddion gras
Yn nyfnder mór i lawr,
Un waith a ddaeth i maes
O'r dwfn gystudd mawr? Llan,
Na wnant, na wnant; ni ddown i'r
I dir y bywyd yn y man.

4 Cawn lanio i mewn i fysg
Y rhai y clywsom son,
Gânasant bawb ei wisg
Yn nwyfol vaed yr Oen:
A gwleddâ'n llon, heb ddiwedd mwy,
Yn bur yn eu cwmpeini hwy.

5 Cawn wel'd yr addfwyn Oen,
Fu farw ar y bryn,
Yn medi ffrwyth ei boen
Yn hyfryd y pryd hyn;
Bydd myrdd heb rif yn canu 'nghyd
I'r hwn fu farw dros y byd.

6 Fe genir coron ddrain
Wrth ganu gwaed y groes;
Fe gofir picell fain
Wrth gofio angeu loes;
Fe seinia'r holl dorfeydd yn un
Bob rhan o boenau Mab y dyn. W

895. *Cartrefle Duw a'i saint.*

6. 6. 4.—Malvern. Bethel.

MAE 'r Gwaredwr hyfryd draw
Yn dangos ei serchiadau
Yn ngoleu'r nef;

Dewch bellach tua'r wlad,
Cartrefle pur ein Tad,
Na flined dim o'n traed,
Nes myn'd i dref.

2 Grawn sypiau yno sydd
Yn hongian nos a dydd
Ar winwydd pur;
I ddisychedu y rhai
Fu'n griddfan dan eu gwae,
O gystudd a phob trai,
Mewn anial dir

3 Rhyw gariad fel y môr,
Anfeidrol berffaith stôr,
Heb derfyn mwy,
Sy'n llifo'n loyw, las,
O dan y faingc i maes
I etifeddion gras—
Eu bywyd hwy.

4 O! heddwch pur y nef,
'Does a'i hadnebydd ef
Tu yma i'r bedd;
Ddeallodd neb erioed
Sy'n trigo is y rhod
Y pleser sydd yn bod
Mewn nefol hedd. w.

896. *Moliant y nefoedd i Waredwr.*

7. 6. 8.—Llangeitho. Altenberg.

TORF fydd o angylion gwych,
Cerubiaid pur yn un,
Maith dorfeydd o seraphim
Yn canu i Fab y dyn;
A chaniadau fydd y rhai'n
Na ddaeth i feddwl dyn erioed,
Ag sy'n trigo is y nen,
I fod eu bath yn bod.

2 O! forcuddydd dedwydd iawn,
Pan ddelo'r dorf yn un,
O bob cwr i'r ddaear faith
I gwrdd â'u Harglwydd cun;
Derfydd gofid a phob gwae,
A derfydd temtasiynau maith;
Derfydd pechod mawr ei rwysg,
A derfydd dyrys daith. w.

897. "*Cartrefle fy Anwylyd.*"

8au. 4ll.—Llantrisant. Antwerp.

'NAWR 'rwy'n gwel'd yr ardal
hyfryd,
Hen gartrefle fy Anwylyd;
Gwlad lle mae pob rhyw gysuron
Yn llifeirio fel yr afon.

2 Ffarwel bellach, hen bleserau,
Dwyllodd f'ysbryd fil o weithiau;
'Nawr 'rwyf wedi ffeindio hawddfyd
Nad oes ynddo radd o ofid.

3 Cefais berl gwell nag o'r India,
Nef a daear fyth nis prisia;
Iesu a'i drysor—dyna'i sylwed'd;
Nef y nefoedd yw y gwedd.

4 Fe ddaw'r dydd y caf ei ganu
Concwest bai oedd yn fy maeddu;
Haleluwia nefol hyfryd,
Diwedd pechu, diwedd gofid.

5 Blwyddau hirion o ryfela
'N oruchafiaeth a derfyna;
Fe dry galar am bob beiau
Yn Hosannah, oud eu maddeu.

898. RHAN II.

8au. 4ll.—Llantrisant. Antwerp

TY gwaid, cred, ancr gaith ofn,
Edrych i'r ardaloedd hyfryd;
Hed o'r byd sy 'mron a'th orfod,
Y mae gwleddoedd i ti'n barod.

2 Dacw'r gwledydd hyfryd, helaeth,
Roddwyd i mi'n etifeddiaeth;
Lle mae cariad pur yn llifo
Dros ardaloedd gras heb flino.

3 Dacw'r wlad caf fi deyrnasu
Gyda'm hanwyl Brynwr cun;
Gwledda o'i gariad, gwel'd ei wyne'
Draw i derfyn tragwyddoldeb.

4 O! na fedrwn yno ddringad
Hanner cynted a'm dymuniad;
Mi awn gyda'r awel hyfryd
Maes o'r byd i dir y bywyd.

5 'Rwyf yn clywed myrdd o seintiau
'Nawr yn canu eu telynau,
Ac yn taro un Hosanna,
Dechreu anthem pen Calfaria.

6 Dengmil o delynau'n canlyn,
Cân heb ddechreu, cân heb derfyn,
Y cerubiaid gyda'r seintiau
Yr un sylwedd eu caniadau.

7 Minnau gaf fod yn eu cwmni,
Cyn pen gronyn yno'n canu,
Edrych gyda hwy yn wyneb
Disglaer Brenin tragwyddoldeb. w

899. *Digonolrwydd [illegible] yn y nef.*

8. 7. D.—Dismission. Edinburgh.

NID oes terfyn ar flynyddau
Yn y wlad a welaf draw;
Nid yw myrdd o oesoedd hirion
Yno'n unig ond lled llaw;
Sylwedd ydyw'r oll sy'n dyfod—
Oll sy'n dyfod sy'n parhau,
Pethau gwych heb eu cymmysgu
Gaf ar fyrder eu mwynhau.

2 Yno erys fy nedwyddwch,
Heb ei gymmysgu fyth yn un;
Digymmysg [illegible] cariad,
Felly cariad pur ei hun;

'R un fydd Duw i dragwyddoldeb—
Môr o gariad heb ddim trai;
Fel efe bydd fy hapusrwydd—
Ffrwd lifeiriol yn parhau.

3 O! mor hyfryd yw'r meddyliau
Fod yr amser hyny ar ddod:
Y mae'r hiraeth sy'n fy nrylenu
Heb un terfyn iddo'n bod,
'Dall yr holl greadigaeth eang,
Na'i gogoniant o un rhyw,
Lanw 'nghri, na llanw f'enaid,
Na dim arall ond fy Nuw.

4 Yno llenwir fy nymuniad,
Er ei faint, ac er ei gri,
Fy holl wagder wneir i fyny
Gyda'r Diwedd—Un yn Dri;
Mi gaf yfed o ffynnonau
Gwir ddedwyddwch, a'm dyfrhau,
A dadguddiad pur o fywyd,
A llawenydd i barhau.

5 Mi caf glywed cydsain hyfryd
Dagreedig Dri yn Un,
Yn'cyhoeddi heddwch nefol,
Perffaith, wrthyf fi fy hun:
Saint, seraphiaid, ac angylion,
Mewn rhyw gydsain bena' erioed,
Gyda mi yn seinio'r anthem
Am anfeidrol, ddwyfol glod. W.

900. *Tragwyddol orphwysfa y saint.*

8. 7. D.—Dolwar. Moriah.

O! DDEDWYDD ddydd, tragwyddol orphwys
Oddi wrth fy llafur, yn fy rhan,
Yn nghanol môr o ryfeddodau,
Heb waelod, terfyn byth, na glân:
Mynediad helaeth mwy i bara
O dewn trigiannau Tri yn Un:
Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo,
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

2 Byw heb wres, na haul yn taro,
Byw heb ofni marw mwy;
Pob rhyw alar wedi darfod,
Dim ond canu am farwol glwy';
Nofio yn afon bur y bywyd,
Is gôr heddwch sanctaidd Dri,
Dan dywynidau digymylau
Gwerthfawr angeu Calfari. A. G.

901. *Y porthladd dymunol.*

8. 7. D.—Dolwar. Esther.

MAE'R dydd yn dod i'r hâd brenhinol
I gael mordwyo tua'u gwlad,
O gaethiwed y priddfeini,
I deyrnasu gyda'u Tad;
Fu llydd yno dry yn olwg,
A'u gobaith eiddil yn fwyngâd;
Annherfynol fydd yr anthem,
Dyrchafu'r Oen a'i werthfawr waed.

2 Bererin llesg gan rym ystormydd,
Cyfod d' olwg, gwel y wawr:
Yr Oen yn gweini'r swyddi gyfryngol,
Mewn gwisgoedd llaesion hyd y llawr:
Gwregys euraidd o ffyddlondeb;
Wrth ei odrau clychau'n llawn;
Llwyr faddeuant i bechadur
Ar gyfrif ei anfeidrol iawn. A. G.

902. *Gobaith gwynfydedig.*

8. 7. D.—Esther. Dolwar.

OS rhaid wynebu'r afon donog,
Mae un i dori grym y lli',
Iesu, f' Archoffeiriad ffyddlawn—
Dyna ddigon byth i mi:
Yn ei waed caf waeddi, Concwest
Ar angeu, uffern, byd, a'r bedd!
Tragwyddoldeb byth heb beciu,
Yn ogoneddus ar ei wedd.

2 Yn lle cario corph o lygredd,
Caf gyd-dreiddio â'r côr sydd fry,
I ddiderfyn ryfeddodau
Iachawdwriaeth Calfari;
Byw i wel'd yr Anweledig,
Fu farw, ac sydd etto'n fyw;
Bythol, anwahanol undeb,
A chymdeithas â fy Nuw.

3 Yno caf ddyrchafu'r Person
A osododd Duw yn fawn,
Heb ddychymyg, llen, na gorchudd,
F'enaid ar ei ddelw'n llawn;
Yn nghymdeithas y dirgelwch
Dadguddiedig yn ei glwy',
Addoli'r Mab i dragwyddoldeb,
Heb golli 'ngolwg arno mwy. A. G.

903. *Trysor tu draw i'r Iorddonen.*

8. 7. 4.—Alma. Peniel.

NID o'r ddaear mae fy mhleser,
Nid o'r ddaear mae fy ngrym,
Nid o'r ddaear mae'm llawenydd,
Tlawd wyf yma—'feddaf ddim:
Draw'r Iorddonen,
Mae fy nghyfoeth a fy ngwlad.

2 Nef yw meddiant yr angylion,
Daear ydyw meddiant dyn;
Ond fe ddarfu i'm ffydd i wneuthur
Nef a daear fawr yn un;
'Rwyf yn hôni
Hawl i'r oll sydd gan fy Nuw.

3 Mae fy enaid yn ehedeg,
Ac yn dringo i fyny fry;
Mae fy esgyrn yn ymdrwsio
I lechu yn y ddaear ddu;
Mi ddo'n gryno
Etto 'nghyd ryw ddydd a ddaw. W

904. *Gwlad heb bechod.*

8. 7. 4.—Verona. Frankfort.

MAE fy nwydau wedi 'mlino
Ganwaith yn yr ariad hyn,
Lle bwyf fi, maent bwythau yno,
Bwyf ac foroedd, bwyf ar fryn:
O! am dremio
Rhyddid paradwysaidd dir.

2 Nid oes gofid, nid oes terfysg,
Nid oes achwyn o un rhyw,
Nid oes poen, ac nid oes galar,
O fewn dinas bur fy Nuw:
Cariad perffaith
Yno sy'n anadlu'r lle.

3 Ni ddaw'r llygad gwibiog yno
Ag sy'n crwydro i bob lle,
Ac yn peri i'r galon oeri
At wrthddrychau pur y ne';
Un rhyw gariad
Yno'n unig aiff â'm bryd.

4 Ni ddaw cwmnwl du, terfysglyd,
Ni ddaw anghrediniaeth mwy,
Ni ddaw yntau—ofn marw,
Fyth i roddi i mi glwy';
Teyrnas sicr,
Heb un gelyn, heb un gwae. w.

905. *Undeb y nefoedd.*

8. 7. 4.—Peniel. Alma.

OS yw tegwch d'wyneb yma
Yn rhoi mwynder i'th gariad mawr,
Beth a wna dy degwch hyfryd
Yna yn nhragwyddoldeb mawr?
Nef y nefoedd
Dy rysedda fyth heb drai.

2 Pa fath uchder rhed fy nghariad?
Pa fath syndod fydd pryd hyn,
Pan y gwelwyf dy ogoniant
Perffaith llawn ar Seion fryn?
Anfeidroldeb
O bob tegwch maith yn un.

3 Pa fodlyniau uwch en deall
Glaf fi yno ynwy' f'hun,
Wrth ystyried bod y Duwdod
Perffaith pur a minnau'n un?
Dyma gwlwm
Nad oes laith a'i dod i maes.

4 Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb,
Sicr, cadarn, mawr ei rym,
Nas gall myrddiwn o flynyddau
'I dori, neu ei ddattod ddim:
Gwna, fe bery
Tra parhao'm Duw mewn bod.

5 C'lymau natur oll a friwir,
A'i chyfreithiau ânt yn ddim;
Ond fy undeb i â'r nefoedd
Sydd yn llawer mwy ei rym:
Digyfnewid,
Yw yn holloi fel fy Nuw.

6 Nis gall einioes, nis gall angeu,
Nis gall angel cadarn cry',
Cenhedlu, nac awdurdodau,
Na holl luoedd nefoedd fry,
I'm gwahanu,
Fythoedd iyth o'i cariad ef. w.

906. *Gwaredwr yn angen a'r farn.*

8. 7. 4.—Verona. Tamworth

NID oes draw gyferbyn i mi
Ddim ond tragwyddoldeb mawr,
Minnau'n morio tuag yno,
Nes-nes ato bob yr awr:
Ffarwel bellach,
Bob gwrthddrychau is y rhod.

2 Yno mae fy holl drysorau,
A fy nhlysau gwych eu rhyw;
Yno mae f' addfwynaf Iesu,
Yno yn unig mae fy Nuw:
O ardaloedd!
Yno mi gaf finnau ddod.

3 Mae llawenydd yn fy nghalon,
Er bod ofnau yn fy nghlawdd,
Cwrdd â [illegible]
Iesu 'Mhrynwr, Iesu 'Mawd:
Mae'n ardderchog;
Etto anwyl yw i mi.

4 Mae y cariad sy'n fy nghalon,
Mae y flasm sydd dan fy mron,
Yn concwerio mil o ofnau,
Ofnau'r farn y funyd hon:
Trwy bob dychryn,
Iesu, Iesu yw fy rhan. w.

907. RHAN II.

8. 7. 4.—Verona. Tamworth.

FE roed i mi ddymuniadau
Nad oes dim o fewn y byd,
Yn y dwyrain a'r gorllewin,
A all hanner lauw 'mryd:
Tragwyddoldeb,
Yno llenwir fi yn llawn.

2 Mi gaf yno garu a fynwyf,
Cariad perffaith, pur, di-[illegible],
Cariad trwy ryw oesoedd mawrion
Nad â fymryn bach yn llai:
Môr didertyn
Byth yn [illegible] yn llawn.

3 Mi gaf yno wel'd a garwyf,
Gwel'd yr Iesu, gwel'd fy Nuw,
Gynt fu farw ar y croesbren,
Heddyw [illegible],
Nef y nefoedd
Sydd yn suddo yn ei hedd.

4 Mi gaf yn y wlad 'rwy'n myned
[illegible]
Gorphwys draw i derfyn gofid
Gyda'r addfwyn, anwyl Oen:
Ni ddaw trist'wch,
Fyth i mewn dros furiau'r nef w

908. Rhan III.

8. 7. 4.—Verone. Peniel.

DO, mi flinais ar a welais,
Twyll sydd oll o fewn y byd,
Twyll sydd gan'n deuluoedd ddigoni,
Twyll sydd acw'n denu 'mryd;
O! am ddarfod
A phob gwagedd is y rhod.

2 Y mae gwaedd trwy holl natur,
Y gwrthddrychau ar y llawr;
Nid oes sylwedd yn a brofais,
Nac mewn dim ond Iesu mawr:
Gradd o'th heddwch
Sydd yn well na'r India o'r bron.

3 Sych yw bwa rhad nyd o brofiad.
Nis yw dawn ond lwch a gwae;
Yn y wlad lle rhif dyddiau
Fy nerthyddwch gynt a wnae:
Trwy'r tymhestl sydd yn'n awr.

4 Yno mi gaf yfed pleser
Mwyn dy rasol gariad pur,
I'r perarin'n ing, hyfrydlef,
Mewn rhyw wresog, anial dir:
Ffynnon bywyd,
Dan y faingc mae'n dod i macs.

5 Mi gaf fyw ar ryfeddodau
Sydd yn natur Duw ei hun,
Ac ymborthi ar ddisgleirdeb
Crëwr nef yn natur dyn:
Caf fwy yno
Mewn un awr nag yma byth. w.

909. *Yr ardal nefol.*

8. 7. 3.—Holstein. Moldavia.

DACW'r ardal nefol, hyfryd,
Pwrcas poen a gwaed fy Nuw,
Gwlad mae hiraeth ar fy nghalon
Am fod heddyw yno'n byw,
Lle nad oes poen na loes,
Nac un cystudd chwerw, croes.

2 Mae myfyrio ar fy nghartref,
Mae myfyrio ar dŷ fy Nhad,
Wedi'm gwneuthur i ddiflasu
Ar bleserau cig a gwaed:
'Does i gyd yn y byd
Unrhyw beth a leinw 'mryd.

3 Nid yw'r ddaear a'i thrysorau,
Eilw 'i phlant yn werthfawr iawn,
Ddim yn abl llanw 'nghalon,
Na'm digoni byth yn llawn:
Draw i'r bedd mae fy hedd,
Gyda 'Mhrynwr hardd ei wedd. w.

910. *Rhyfeddodau tref'n gras.*

8. 7. 3.—Groeswen. Revel.

PAN bo glaswellt gwyrdd y ddaear
Wedi marthu dod i'r lan,
Pan bo tegwch dae'r liosog
Wedi darfod yn mhob man;
Mi gaf wlad, hyfryd, rad,
Faith dragwyddol ei pharhâd.

2 Fe agorir i mi yno
Ryw eangder maith heb ri'
O ddirgelion na ddeallir
Heddyw ar ein daear ni:
Cariad rhad, yn y Tad,
A ddadguddiwyd yn y gwaed.

3 Fe amlygir rhyw ogoniant
Na ddeallodd calon dyn
Yn yr iachawdwriaeth eang—
Dyma bwnc mawr ei hun:
Ar y llawr, neb yn awr
Ni all ddai fath bethau mawr.

4 Pa mor ddwyfol, pa mor hyfryd,
Pa mor ardderchog fydd,
Pan dywyno gyntaf allan
Fore'r tragwyddoldeb ddydd,
Gael mwynhau, heb ddim trai,
Bethau bellach fo'n parhau. w.

911. *Hyfrydwch y nefoedd.*

8. 7. 3.—Wyddgrug. Revel.

DACW'r hyfryd fan caf drigo,
Gwn caf drigo cyn bo hir,
Draw i'r bryniau oer, tymmhestlog
Yn y sanctaidd, hyfryd dir:
Gwela'n awr foreu wawr
Glir, o dragwyddoldeb mawr.

2 Ni gawn yno weled a garwn,
Mewn gogoniant llawer mwy
Nag ei gwelsom ar y croesbren
Dan ei farwol, ddwyfol glwy';
Lluoedd mawr sydd yn awr
Yn ei garu bob yr awr.

3 Ni gawn wel'd a'i carodd yma
Yn y man yr ochr draw,
Oll yn gwiedda ar ei gariad,
A'u telynau yn eu llaw:
Oll yn un, a chyttûn,
Molant Dduwdod yn y dyn. w.

912. *Concwest ar elynion.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

DERCHIO 'rwyf fyrnyddau maith,
Dyrys, anial;
A gelynion ar fy nhaith,
Sy'n fy attal:
Ond mi wela'm hyfryd wlad
Trwy'r eangder;
Ac i mewn i dŷ fy Nhad
Dof ar fyrder.

2 Mi gaf gonowest yno'n lân
Ar elynion—
Nwydau oedd yn curo o'r blaen
Arna'i 'n gysson:
Ni ddaw pechod o un rhyw
Fyth i'm blino,
Na'r demtasiwn oreu 'i lliw
I mewn yno.

3 Ond llawenydd fel y môr
Sy wrth ei orsedd,
A thangnefedd ddwyfol stôr
Fyth heb ddiwedd:
Mi gaf ddrachtio'r hyfryd hedd—
Ffynnon bywyd,
Sydd yn tarddu o waelod bedd
Fy Anwylyd. W.

913. *Canu am y gwaed.*

7. 4.—Aberafon. Llanfair.

CENIR yno am y gwaed
Gliriodd feiau;
Am y goncwest fawr a gaed
Ar Galfaria:
Gan ei fyn'd i lawr i'r bedd,
A chyfodi,
Gwelir miloedd ar ei wedd
Yn ei foli. H. AB I.

914. *Gogoneddiad y saint.*

7. 5. 6.—Trefdraeth.

HENFFYCH i'r boreu hyfryd
Ddaw gelyn byth nac adfyd,
I dir y bywyd fry:
Y seintiau ddaw 'nghyd
Bob wyneb i'r byd,
Yn unfryd yno i ganu.

2 Fry yn Nghaersalem dawel,
Yn mhell o swn y rhyfel,
Caf uchel ganu clod:
Fy nofoedd ddi-boen
Fydd gweled yr Oen;
Fe dderfydd son am bechod.

3 Gwneir diwedd ar bob blinfyd,
Fy nghystudd mawr a'm hadfyd,
Yn nhir y bywyd fry;
Tragwyddol fwynhâd,
Yn nheyrnas fy Nhad,
Heb unrhyw frad i'm drygu.

4 Mi gysgaf hûn yn dawel,
Dros ennyd yn y grafel,
Nes dattod trefn y rhod;
Ac yna mewn hedd
Cyfodaf o'm bedd,
Ar ddisglaer wedd fy Mhriod. M. R.

915. *Cân yr Oen.*

10. 11.—Hanover.

CANLYNWYR yr Oen, tra nefoedd yn bod,
A thafod a thant, a ganant ei glod,
Sef clod i Fab Dafydd, tragywydd y gân, [wahân.
I'r Tad ac i'r Ysbryd, o hyd heb

2 Gwnaed Duw ganatau i minnau fy mod
Yn nghanol y llu yn c'lymu'r un clod;
Os gwelir fi'n ddiogel o'r rhyfel yn rhydd, [dydd!
Mi ganaf, mae'n ddyled—O! deued y

3 Mi dynaf o hyd, er penyd, er poen,
Fy nghysur a'm hedd o rinwedd yr Oen:
Ef fyddo dedwyddyd fy mywyd i mwy,
Mae trysor diddiwedd a gwledd yn ei glwy'. JS. H.

916. *Ffrydiau gorfoledd y gwaredigion.*

9. 8.—Bethel. Elliot.

MAE ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu
O ddisglaer orseddfaingc y ne';
Ac yno esgynodd fy Iesu,
Ac yno yr eiriol efe;
Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder
Daeuellwyd ar orsedd ein Duw,
Sydd yno yn beraidd yn erfyn
I ni, y troseddwyr, gael byw.

2 Cawn esgyn o'r dyrys anialwch,
I'r beraidd Baradwys i fyw;
Ein henaid lluddedig gaiff orphwys
Yn dawel ar fynwes ein Duw:
Dihangfa dragwyddol geir yno
Ar bechod, cystuddiau, a phoen,
A gwledda i ocsoedd diderfyn
Ar gariad annhraethol yr Oen.

3 O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyn y daw trefn yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd;
Cawn edrych ar stormydd, ac ofnau,
Ac angau dychrynllyd, a'r bedd,
A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd,
Yn nofio mewn cariad a hedd. D. C.

917. *Gogoniant yr Iesu yn y nefoedd.*

8au, 8ll.—Salome.

MAE'r lle sanctaidd liclaf yn rhydd,
Fe rwygodd f'Anwylyd y llen;
Fe yw Haul y Cyfiawnder y sydd
Yn goleuo'r holl nefoedd uwch ben:
Mae yno dyrfa anfeidrol o faint,
Ac etto ni welaf mo'r un,
Angylion, seraphiaid, na saint,
Neb fel fy Anwylyd ei hun.

2 Mae'n eistedd yn nghanol y llu
Sy â'u nifer fel glaswellt y maes,
Yn helaeth yn rhoddi i bob un
Ogoniant, a harddwch, a gras;
Fel haul yn yr wybren a fai
Yn tywynu ar fyrddiwn o ser,
A'i wres, a'i oleuni ddim llai—
Fel hyn mae gogoniant ein Ner.

3 Tuag ato mae wyneb ei saint,
Oddi amgylch yn rhes ar ol rhes;
Cwmpeini aneirif o faint,
Rhai 'mhellach oddi wrtho, rhai 'nes:

Disgleirdeb ein Harglwydd â 'mhell—
[illegible] pellaeu na'r lluni yn ei rod:
Ei fwynhau ef mae'r pellaf yn well
Nag allwyd amgyffred erioed.

4 'Does angel, na seraph, na sant,
Byth yno'n disgleirio ei hun;
Pe ciliai f'Anwylyd i bant,
Fe dywyllai, fe ddiflai pob un;
Ef yw Afon y Bywyd sydd fry,
Ef yw'r Manna cuddiedig a drud;
Efe yw hyfrydwch y llu—
Iê, 'm Iesu yw'r nefoedd i gyd. w.

918. Rhan II.

8au. 8ll.—Salome.

Y GOLEUNI sy'n ninau ein Duw,
Sy tu hwnt i amgyffred un dyn,
'Does neb all ei weled, a byw,
Ond y dorf ogoneddus ei hun:
'Dyw grisial yn ngolwg yr haul,
Neu wydr fai lawer mwy pur,
I lewyrch y nefoedd ddim ail:
Fy Iesu yw'r ffynnon yn wir.

2 Mae yno dri Pherson yn bod,
Ac etto mewn sylwedd ond Un,
Gogyfuwch mewn gallu a chlod,
I wared plant Adda'n gyttûn;
Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sy
Rhy fawrion i'w chwilio hwy 'mlaen,
Yn drech na hwynt-hwythau sy fry
I'w gwybod hwy allan yn lân.

3 'Does mesur amseroedd byth fry,
Dim oriau cyffelyb i'r byd;
Myn'd heibio ryw oesoedd y sy
Wrth ganu i'r Drindod ynghyd;
'R holl nefoedd, wrth weled ei ras,
Sy'n synu, yn canu 'n fwy by'
Ganiadau newyddion eu blas:
Wel, dyna'r digrifwch sydd fry. w.

919. Rhan III.

8au. 8ll.—Salome.

ANGYLION, seraphiaid, a saint,
Wrth ganu'n soniarus ynghyd,
Eu hadsain sydd cyfuwch ei faint,
Mae'n crynu'r holl nefoedd i gyd:
Neb yno yn glaiar ei gân,
Neb yno'n addoli mewn rhith;
A'u o'lonau sy'n llosgi fel tân,
A gwyn fyd na bawn yn eu plith.

2 Caniadau newyddion sydd fry,
Tybygwn i glywed eu llef:
Fy enaid blinedig i sy
Am chwyn cerddoriaeth y nef:—
"'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
A'r cariad, a'r gogoniant, a'r bri,
Yw hon fel ag y bu erioed,
I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri."

3 Pan gofiont eu dyddiau'n y byd,
A'r amryw dymhestloedd o'r blaen,
Ennyna'u hysbrydoedd i gyd
Yn fflamau angerddol o dân:
Gwel'd i Iesu, er cymmaint eu bai,
Eu codi o bydew mor ddu;
P'odd gall eu calonau hwy lai
Na seinio Ierusalem fry?

4 Pan gofiont drachefn y dydd
Y'u galwyd o'r t'wyllwch i maes,
Dadgloed eu gefynau yn rhydd,
A'r carchar yn seinio, "Rhad ras!'
Pwy allai byth beidio rhoi clod,
Dan olwg o ryddid mor fawr?
Wel, dyna'r caniadau sy'n bod—
Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr.
w.

920. Rhan IV.

8au. 8ll.—Salome.

WRTH gofio dicheilion y ddraig,
A'i maglau mor aml a'r dail,
A'u taenu yn erbyn y wraig,
A'u tori gan Adda yr Ail;
A'i weled e'n awr yn y nef,
A'r bradwr hen obry yn y llyn;
Hwy ganant nes dawnsio'r holl lê:
P'le arall mae canu fel hyn?

2 Wrth gofio drachefn am hyn,
Ei glwyfau, a chwerwder ei loes,
A'i guro ar Galfari fryn,
Ei eiriau diwedda' ar y groes;
Y ddaear, ac uffern, a'r bedd,
Ac angeu a'r gyfraith ynghyd,
Yn cwympo gan archoll ei gledd,
Gwych folir Iachawdwr y byd.

3 Os ydyw rhai seintiau'n rhoi tro
I waered i'r bydoedd is nen,
'Does byth fyn'd o'u golwg a'u co'
Ogoniant eu Harglwydd uwch ben:
Mae ef yn bresennol bob awr,
Iddynt yma fel canol y ne',
Fe'i gwelant mewn nefoedd a llawr:
Mae'm Iesu yn llanw pob lle. w.

921. Rhan V.

8au. 8ll.—Salome.

Y RHAI a'i canlynodd efe [gryn,
Trwy'r ffasnu a'r ffiamau'n ddi-
Y rhai gynt a nofiasant i'r nef [hun,
Mewn afonydd o'u twymn waed eu
Sy'n awr yn cael myned yn mlaen
Yn eofn at orsedd yr Iôn;
A chanu bob amser y maent
Ganiadau newyddion i'r Oen.

2 'Ddaw syched, na newyn, na phoen,
Na gofid, na galar, na chlwy',
Nac anwyd yn nheml yr Iôn,
Na gwres idd eu blino byth mwy:
Mae yno adenydd fy Iôn
Yn taenu fel nefoedd ar led,
Yn cuddio priodferch yr Oen:
O! f'enaid, i fyny ehêd.

3 'Rwy'n teimlo rhyw hiraeth a chwant
Gwel'd dattod fy mhabell o'i lle,
A hedeg yn union i bant,
Fel 'deryn, i ganol y ne':
A neidio i mewn yno i blith
Y dyrfa sy â'u gwisgoedd yn wyn,
A chanu i'm Harglwydd i byth
Fu farw ar Galfari fryn. W.

922. *Hiraeth am Salem.*

9.8.—Bethel. Elliot.

O! SALEM, fy anwyl gartrefle.
Mae'th enw'r pereiddiaf erioed:
Bryd derfydd fy llafur a'm lludded
O'th fewn mewn llawenydd a chlod?
Pa bryd caiff fy llygaid i weled
Dy byrth sydd o berlau mor ddrud,
A'th furiau sy'n sefyll o hyd?

2 Caersalem, ti ddinas fy Arglwydd,
Pa bryd i'th gynteddau ca' i ddod,
Lle na fydd cyn'lleidfa yn ysgar,
Na dawedd i'r Sabbath yn fyr?
Dedwyddwch digymmysg sydd yno,
Ni phrofwyd yn Eden mo'i ryw,
A llewyrch mwy tanbaid na'r haul-
Sef llewyrch o orsedd fy Nuw. [wen,

3 O! drigfan deg, dawel, a dedwydd,
'Rwy'n cyrchu yn ddyfal i'th gôl;
Yn fuan fe'm gwelir i drosodd,
A'r gwyntoedd ystormus ar ol;
Pa ham y mae cystudd neu adfyd,
Neu angeu, yn peri 'r fath fraw?
Mae'r tir addawedig mewn golwg,
Mae'r Ganaan dragwyddol ger llaw.

4 Mae yno gantorion ardderchog,
A'u Ceidwad yw sylwedd eu sain;
A'm brodyr sydd yma gânt esgyn
Yn fuan i ganol y rhai'n:
O! Salem, fy nghartref anwylaf,
I'th fewn mae fy enaid am ddod
Ac yno fy llafur a dderfydd
Mewn cân orfoleddus a chlod. D.CE.

ACHLYSURON NEILLDUOL.

MEWN CYMMANFA.

923. *I gynnulliad o weinidogion.*

M. H.—Babilon. Brynteg.

'RYM yn dy erfyn, Arglwydd mawr,
Disgyn o entrych nef i lawr,
'R hyd ysgol faith Jehofah'n ddyn
'Roi bendith Jacob i bob un.

2 Fel tŷn, yn wirion, gwna ni i gyd,
Yn mhlith y bleiddiaid sy yn y byd,
Ac fel y serph yn gyfrwys, gall,
I wel'd a dadrys rhwydau'r fall.

3 Gad i ni ddod i'r mynydd fry,
I'r cwmwl goleu atat ti,
Fel y disgleirio 'n hwyneb pryd,
Nes synu Israel oll i gyd.

924. RHAN II.

M. H.—Babilon. Brynteg,

GWN â m fel halen á dy ras,
Yn wyn, yn beraidd fawn ei flas,
Yn foddion yn dy law o hyd
I dynu'r addfas sy ar y byd.

2 Gwna fod d'ogoniant pur, dilyth,
Yn nod a dyben i ni byth:
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir
Yn wastad i ni'n rheol bur

3 O! dena'n serch oddi yma i gyd,
Fel gwir ddieithriaid yn y byd,
O fan i fan i deithio'n hy',
Bob pryd ar ol d'orch'mynion di.

4 Doed gorledd, de, a dwyrain bell,
Atgyfwyd y newyddion gwell;
Aed swn d'efengyl, Iesu, i maes
Yn gylch o ddeutu'r ddaear las. W.

925. *Gweddi am tresio meddiol Duw.*

8.7.D.—Bavaria. Diniweidrwydd.

P'AM y caiff bwystfilod rheibus
Dori'r egin mân i lawr?
P'am caiff bleiddiaid peraidd, tawaine
Fethu gan y sychder mawr?
Tyred â'r cawodydd hyfryd
Sy'n cynnyddu'r egin grawn—
Cawod hyfryd yn y boreu,
Ac un arall y prydnawn.

2 Gwel [illegible]
Tyred, Arglwydd, yno d' [illegible],
Gostwng o'r uchelder goleu.
Gwna dy drigfan gyda [illegible]:
Trig yn Seion, aros yno,
Lle mae'r llwythau'n dod [illegible]

Bych na 'mad oddi wrth dy bobl
Nes yn ulw'r elo'r byd.

3 Rhinais ar afonydd Babel,
Nid oes yno ond wylo i gyd;
Lleais eelynau hyfryd Seion
Rodd yn cyssoni dyna 'nefyd:
Tyr'd â ni, yn dorf gariadus,
O gaethiwed Babel erwr;
Ac nes bo'm ar fynydd Seion
Na'd in' orphwys munyd awr.

4 Dacw'r Brenin yn ei degwch,
Wele'i briod wrth ei glun;
Gwedd ei wyneb sy [illegible]
'Mhell ar wedd wyneb [illegible] dyn;
Dyma ddydd—dydd ei ddyweddi.
Dyma'r briodasol wledd.
Dyma'r dydd canu perorasion
Yfed o'i dragwyddol hedd. W.

DECHREU ODFA.

926. M. U.—Leipsic Babilon.

BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,
A threwy dy Ysbryd arnom chwyth;
Anadla'n rymus ar y ziyn,
Fel byddo byw yr escyrn hyn. J. H.

927. M. S.—Dymuniad. Padarn.

RHO ddiawn a goleu, Arglwydd fôr,
I draethu'r cyngbor dwyfol;
Ac agor di y galon gau
I dderbyn d'eiriau nefol.

2 Perffeithia, fôr, dy nerth sydd fawr,
Yn ngwyneb dirlawr wendid,
Rho i'r newynog, tlawd, a chaeth,
Ysbrydol faeth a rhyddid. T. J.

928. M. S.—Dymuniad. Minden.

O! DEFFRO, deffro, gwisg dy nerth,
O! bryderth fraich yr Arglwydd;
Fel yn y dyddiau gynt a fu,
Amlyga'th alluogrwydd.

2 I ennyn ynom nefol dân,
Duw, anfon dy Lân Ysbryd;
Aed gyda'th eiriau sanctaidd di
Nerth, a goleuni hefyd.

3 O Arglwydd! dyro i ni'n glan
Y tywalltiadau nerthol,
O weithredoedau'r Ysbryd Glân,
A'u grym fel tân angerddol. J. H.

929. M. S.—Diddunod. Saxony.

O! ARGLWYDD Dduw, bydd i ni'n nerth,
[illegible]
I draethu ac i wrando'n iawn
Dy eiriau llawn o sylwedd.

2 Dy wenpidenion, gwisg â nerth,
Yn nydderth o'r acheuder;
A dwed dy Ysbryd Sanctaidd di
I argynnoeddi hawsr. J. M.

930. M. S.—Eidduned. Mon.

O! ARGLWYDD Dduw, 'r hwn biau'r gwaith,
Arddel dy faith wirionedd,
Fel bydio i bechod o bob rhyw
Gael marwol friw o'r diwedd.

2 Disgwyliaf wrthyt uwch law neb,
Na thraw yr eneb rymedi;
Bydd i mi'n [illegible]
Yn dirion [illegible]

931. S. 7. 4.—Hyder. Watford.

ARGLWYDD [illegible]
[illegible]
Dôs nerth [illegible]
Ac anfeidrol olud gras;
Fel bo dyfnder
Byth am ddyfnder yn cael sôn. D. M.

932. S. 7. D.—Diniweidrwydd. Bohemia.

[illegible]
Ac yn rhodio brig y don,
Anfon saethau arg'oeddisdau
I galonau'r odfa hon;
Agor ddorau hen garcharau,
Achub bentewynion tân;
Cod yr eiddil gwan i fyny,
Dysg i'r mudan seinio cân. A. W.

Y SABBATH.

933. *Hyfrydwch y Sabbath, a'i waith.*

M. H.—Boston. Emyn Foreuol.

GWAITH hyfryd iawn a melus yw
Moliannu d'enw da, O Dduw!
Son am dy gariad foreu ddas,
A'r nos am wirioneddau'th ras.

2 Melus yw dydd y Sabbath llon,
Na flined gofal byd mo'm bron;
O! na bai 'nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr wyl.

3 Yn Nuw fy nghalon lawenha;
[illegible]
Mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw
A'th gymmun, nr mor [illegible]

4 Ond mi gaf ogoneddus ran,
Pan buro gras fy enaid gwan;
Mae gwir lawenydd uwch y nen,
Fel olew pur i loni'm pen.

5 Caf wel'd a chlywed yno ynghyd
Oll a ddymunais yn y byd;
A'm hoenad a cant Iesus waith
Yn y tragwyddol fywyd maith.
DR. W. *Cyf.* (D. J.)

934. M. H.—Melcombe. Caernarfon.

Y SABBATH, gwyl nefolaidd yw,
Ar hwn cyfododd Iesu'n fyw:
Clodforwn ninnau Frenin hedd,
Mae wedi perarogli'r bedd.

2 O f'enaid! nac anghofia'r dydd
Y daeth y Meichiau mawr yn rhydd;
Agorwyd i ni byrth y nef
Trwy rin ei fuddugoliaeth ef.

3 Mor hyfryd cael un dydd o'r saith
I'w dreulio'n hollol gyda'th waith;
Gorphwysfa dawel, f'enaid trist,
A gwledd, yw cofio angeu Crist.

4 Gwaith rhyfedd oedd creu nef a llawr,
A threfnu'r greadigaeth fawr;
Ond gwaith rhyfeddaf Duw ei hun
Oedd gorphen iachawdwriaeth dyn.

5 Y mae gorphwysfa'n ol i'r saint,
Mewn gwisg o heddi, O! ryfedd fraint!
Lle cânt fwynhau, heb gur na phoen,
Dragwyddol Sabbath gyda'i Oen. P. J.

935. M. H.—Boston. Angels' Hymn.

BLINEDIG ydw ofidiau'r llawr,
Lluddedig a methedig bron,
O! mor gysurol ydyw gwawr,
Hyfrydol wawr y Sabbath llon.

2 Rhyw lewyrch trwy'r cymylau du,
Rhyw seibiant bach rhag llid y don,
A golwg ar fynyddau cu
Y Gansan draw, yw'r Sabbath llon.

3 Ffoed holl drafferthion dsear lawr,
Ei hing a'i gofal, cilient draw;
Na foed o fewn fy mron yn awr
Ond gofal am y byd a ddaw.

4 Caf orphwys heddyw oddi wrth fy nghur,
A gwledda ar ddanteithion nen,
Fel ernes o'r dedwyddwch pur
A gaiff y llu tu draw i'r llen.

5 Caf ddod i gymmuneiddfa'r saint,
Ar Seion fryn—rhyfeddol fri!
Nes synu bron uwch ben fy mraint
Pa le y daeth fath rad i mi. T. Js.

DIOLCHGARWCH AC YMOSTYNGIAD.

Heb law yr Hymnau canlynol, y mae llawer o'r Salmau yn gymmhwys i'w canu mewn Cyfarfodydd Diolchgarwch ac Ymostyngiad.

Gweler Rhif 8, 4 7, 18, 21, 22, 23, 26, 27, 28, 29, 35, 41, 43, 44, 46, 47, 58, 65, 66, 68, 69, 70, 71, 74, 75, 78, 82, 86, 94, 95, 96, 97, 99.

Y mae y Pennodau canlynol yn gymmhwys i'w darllen yn y Cyfarfodydd a nodwyd:—

2 *Brenhinoedd* i. iv., vii. *Salmau* xix., xlvi., xlvii., lxv., cv., cvii., cxviii., cxlv., cxlvi., cxlvii. *Esaiah* xxxii., xxxv. *Galarnad* i., ii., iii., iv., v. *Joel* ii., iii. *Amos* iv. *Haggai* vi. 1 *Thessaloniaid* v.

936. *Tymmhor gwlyb.*

M. 8.—Dyfrcedd Silcah. Cemmaes.

DAIONUS a [illegible]
A [illegible] Arglwydd;
Dy [illegible]
Sydd yn [illegible] dragwyddol.

